



Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

<http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks>



This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.



St. from widow of Bob Owen Croesor

1245 e 90



6952

3/2

10/10/10/10/10

10/10/10/10/10
10/10/10/10/10

[The text in this section is extremely faint and illegible. It appears to be a list or a series of entries, possibly names or dates, but the characters are too light to transcribe accurately.]




Timothy George

Book August 12th

1420





700

TRAETHAWD DEFNYDDIOL

AM

George's Book

BEN-ARGLWYDDIAETH DUW,

Plama A'I

GYFIAWNDER;

YNGHYD A'R PETHAU PWYSFAWR SY'N TARDDU ODDI-
WRTH EI BEN-ARGLWYDDIAETH EF,

SEF,

Etholedigaeth, } *Galwedigaeth effeithiol,*
Prynedigaeth, } *a Pharhad mewn Gras.*

O WAITH MR. ELISEUS COLE,

YN SAESONEG,

WEDI EI GYFIAETHU ER LLES I'R CYMRY UN-IAITH.

Gwedi iddo hyspysu i ni ddirgelwch ei ewyllys, yn ol ei foddlonrwydd
ei hun, yr hon a arfaethasai efe ynddo ei hun, Eph. i, 9.

---Oni wna Barnydd yr holl ddaear farn? Gen. xviii, 25.

ARGRAPHIAD NEWYDD.

CAERFYRDDIN:

Argraphwyd ac ar werth gan JONATHAN HARRIS, yn y Porth Tywyll.

1809.

Timothy Garrison



Timothy Garrison

Timothy

Give this book
1873



Timothy George

TRAETHAWD DEFNYDDIOL

AM

'BEN-ARGLWYDDIAETH DUW.

GAN fod y briodoledd oruchel ofnadwy hon fel môr diderfyn a diwaelod, ni ddylai neb, er cystled y bo ei long, (llai o lawer â'r fath lestr egwan) yn fyrbwyll rythro iddi, heb gwmpas dwyfol ac angor o'r tu fewn i'r llen. Nid bwriad yr awdwr oedd ymyrred â hi, ond fel y darfu angenrheidrwydd a threfn pethau ei gymnell. Pe gallasai gael sylfaeni arall i'r athrawiaeth, ni buasai ef yn son am hon; ond ni allai ef gael un arall yn abl dal pwys Etholedigaeth, heblaw Pen-arglwyddiaeth, ac yno y mae hi gwedi ei chadarnsylfaeni fel ar graig; a holl liniau ei hamgylchoedd yn rhedeg, ac yn gorphwys yno, fel yn eu canol-bwynt; lle hefyd y darfu i'r ysgrythyr ei sefydlu, Rhuf. ix. Eph. i, &c. Ac er ei bod yn sylfaen wrthodedig gan ddynion, pob cristion ystyriol oni chydnebydd, mai Pen-arglwyddiaeth Duw yw tadogol, oruchel, ac anghyfartal drefnwr pob peth, a wêl fod arno eisiau'r prif gymmorth i gynnal ei ffydd, a llonyddu ei ddealldwriaeth yn ystod cyffredinol rhagluniaeth; mwy o lawer yn y digwyddiadau dirgeledig, a'r gwirioneddau goruwch-naturiol sydd o dragwyddol ganlyniad iddo.

Yn y rhagymadrodd hwn traethaf yn gyntaf am Ben-arglwyddiaeth Duw, ac yno am ei Gyfiawnder ef, megis perthynas naturiol iddi. Swm y cyntaf sydd yn yr athrawiaeth hon, sef,

**BOD GAN Y DUW MAWR BENDIGEDIG YN OES OESOEDD,
GYLAWN A CHYFREITHLAWN AWDURDOD AR EI HOLL
GREADURIAID, I'W TREFNU A'U LLYWODRAETHU FEL
Y GWELO EF YN DDA.**

Nid rhaid rhoi un rheswm i ddangos bod y cyfryw awdurdod gan Dduw, ond "mai yr Arglwydd sydd Dduw, ac nad oes neb arall ond efe." Ni all fod neb arall, o herwydd,

(1.) Na ddychon bod ond un Anfeidrol : canys y cyfryw hanfod sydd yn llanw nefoedd a daear; ac nid oes le i arall. (2.) Ni ail bod ond un Hollalluog; am fod pawb eraill tan ei draed; a lle gallo un wneuthur pob peth nid rhaid wrth neb arall. (3.) Ni all bod ond un Goruchaf; fe ddychon yr awdurdod goruchaf fod mewn bagad (megis y mae llywodraeth ddynol yn nwyllaw amryw swyddogion) ond etto un awdurdod yw. (4.) Ni all bod ond un Achos cyntaf, oddiwrth yr hwn y mae pob peth yn cael ei fod: a hwnnw yw yr Un bendigedig, am yr hwn yr ydym yn son; "trwy yr hwn, ac er yr hwn y mae pob dim," Col. i, 16. 1 Cor. 8, 6. A chan mai efe yw Awdwr pob peth, rhaid bod ganddo gyflawn awdurdod a gallu i lywodraethu'r cwbl, o ran eu hanfod, eu trefn, eu heffaith, a'u dyben.

Mai eiddo Duw yw Pen-arglwyddiaeth, sydd wirionedd mor naturiol ac mor eglur i reswm, ac mor afreidiol i brofi, a bod yr haul yn ffynnon oleuni: ni thybiaf bydd i neb a ddarllenw'r llyfr hwn, cyn belled anghofio eu bod yn creaduriaid, a disgwyl profiad o Ben-arglwyddiaeth eu Creawdwr; gan fod "y pethau a welir" mor nerthol yn gosod allan "ei dragwyddol allu a'i dduwdod ef." Ond er hawsed yw coelio y gwirionedd, gan fod yn dra anodd ymarfer âg ef, ac ymddwyn ein hunain yn addas iddo. A chan fod pwys rhagorol yn gorwedd ar y briodoledd hon o eiddo Duw, a'i hawl a'i heffaith yn berthynol iawn i'n heneidiau; am hynny rhaid bod dal sylw ar amryw brofiadau o honi, eu nodi a'u hystyried, yn dda, megis pethau yn dwyn addysg gymmaint, yn ddyledswydd a haeddai dreulio ein hamser arno. Trwy hynny gallwn wybod am Fawrhydi y Duw da, yn nwyllaw yr hwn y mae'n heneidiau; am yr anfeidrol wahaniaeth sydd rhyngddo ef a ni, ac mor ddiddym ydym: ac felly gydâ mwy o ostyngedd meddwl, hunan-ymwadiad, ffydd, ac ymddiried, ymddarostwng iddo fel creaduriaid, a threiglo ein hunain arno. I'r dyben hwn y trysorir cynnifer arwyddo Ben-arglwyddiaeth yn yr ysgrythyrau, trwy y rhai ein harweinir, megis erbyn ein dwyllaw, at holl-awdurdodol ewyllys a gallu Duw, megis Achos goruchaf a Llywodraethwr y cwbl.

Arfaeth Duw i greu'r byd, ac i wneuthur, neu i oddef i wneuthur, beth bynnag a fyddai ynddo hyd ei ddiwedd, oedd gweithred fawr ei Ben-arglwyddiaeth. Nid oedd etto na nefoedd, na daear, na'r lluoedd sydd ynddynt, a'i bleser ef oedd eu gwneuthur neu beidio; ac os gwnai, efe a allai eu gwneuthur fel y mynnai ac i'r dyben a welai fod yn dda, a dwyn y dyben hwnnw i ben yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ei hun. Ac mai trwy arfaeth Duw y sicrhair y pethau hyn oll

sydd amlwg; o herwydd "hyspys i Dduw oedd ei weithredoedd oll erioed," Act. xv, 18. Portread a sylwedd yr arfaeth honno a ellir (a gobeithio heb ryfyg) ei thynnu yn llyn; sef, "Bod y Duw mawr, goruchaf a sancteiddiaf, megis yn anfeidrol dda, dedwydd, a gwylyfededig ynddo ei hun, felly yn anfeidrol barod ac ewyllysgar i gyfrannu o hynny i eraill; i'r dyben hwn yr arfaethodd wneuthur creaduriaid, angylion, a dynion: iddo, er arddangos ei Ben-arglwyddiaeth, sefydlu nifer pennodol o'r angylion yn y cyflwr y crewyd hwynt, gan adael y lleill iddynt eu hunain; y rhai trwy gwympo o'r cyflwr hwnnw, a fwrdd i lawr ac a gedwid yn nghadwynau tywyllwch i farw y dydd mawr. Y gosoda ef yn y byd isaf hwn y dyn cyntaf yn ben, i sefyll yn lle pawb a enid o hono ef: y creuid y dyn hwn ar ddelw Duw, yn addas i gael cymdeithas âg ef, ac wedi ei gynhysgaeddu â gallu i barhau yn y cyflwr hwnnw: y byddai iddo, er amlygu gwendid y creaduriaid a'u pwys gwastadol ar Dduw, i adael ef wrth yr hyn a dderbyniasai, gyda pherffaith rhyddid ewyllys, i'w gadw neu i'w golli fel y mynnai: ond nid heb osod ger ei fron y dedwyddwch neu'r trueni a fyddent sicr o ganlyn ei waith, yn arfer y rhyddid hwnnw yn dda neu yn ddrwg; ac y byddai iddo, wedi ei adael felly, a'i demtio, a'i orchfygu gan yr angel a syrthiasai, ddwyn ei hun a'i hiliogaeth, trwy ei wrthgiliad, tan felldith. Y byddai iddo (ac felly y gwnaeth) er amlygu cyflawn awdurdod ei ras, ethol nifer pennodol serthenol o hiliogaeth Adda (y rhai oeddent ynddynt eu hunain yn llygredig ac yn golledig fel eraill) a'u hordeinio i fywyd tragwyddol: ac y byddai iddo, er dangos gallu ei ddigofaint a'i gyfiawn anfoddlonrwydd yn erbyn pechod, adael y lleill yn y cyflwr colledig, yr hwn y dygent eu hunain iddo. Ac y byddai i satan ei hun (yr hwn a ddewisent ei ganlyn) fod yn ben ac yn rheolwr i'r llestri digofaint hyn; ac i'r etholedigion hefyd dros amser, sef hyd oni byddai i'r Messia (eu gwir a'u priodol ben, ac i'r hwn yr etholasai ef hwynt) eu gwared o tan ei bwer ef. Ac y byddai i'r dyben hwn, er amlygu ei fod yn *gyfiawn* (gystal ag yn *drugarog* yn cyfiawnhau) i Fab Duw gymmeryd arno le ail Adda, a dyfod i'r byd mewn corph dynol, yn yr hwn y cyfiawnai bob cyfiawnder; ac iddo trwy anfeidrol haeddiant ei farwolaeth, gyfatted holl ofynion y gyfraith, dinystrio diafol, dattod ei weithredoedd, a chymmodi yr etholedigion â Duw; y cyfodid ef o farw, ac y rhoddid iddo bob awdurdod addas i Dywysog iechydwrriaeth: y byddai iddo felly yn effeithiol weinidogaethu iddynt beth bynnag a fyddai rheidiol i ddwyn ei feibion i ogoniant."

Hyn, fel yr wyf yn bwrw, yw swm arfaeth Duw, y banner mawr, neu luman brenhinol, o Ben-arglwyddiaeth; y lleill ydynt effeithiau o hono, a gwasanaethgar iddo.

Yr arwydd weledig gyntaf o Ben-arglwyddiaeth oedd Creadigaeth y byd mewn amser, yn ol ei arfaeth er tragwyddoldeb; pan ddygid yn gyntaf y clamp mawr gwag aflun-iaidd hwnnw o ddim, ac yno yr adeiladaeth ogoneddus hon o'r annhrefn honno; trwy grogi'r ddaear ar ddim; rhoddi i bob math o greadur ei lun, a'i le, a'i drefn, a'i ddefnydd, a'i effaith; a gosod ynddynt y fath gyfreithiau a thueddiadau naturiol, ag a ryngodd bodd iddo ef; (a'r rhai'n oll yn drefnus er daioni i'r cyfan) a'r cwbl trwy ei air. Beth bynnag a fynnodd, a wnaethpwyd mor ebrwydd a phe buasai yn eu hanadlu o'i enau; megis, buan darddiad y goleuni; gwa-haniad y dyfroedd oddiwrth y elfenau eraill, a'u casgliad ynghyd, a'u mynediad i fynu ac i wared i'r lle a seiliodd ef iddynt; gydag amryw bethau eraill, o ba rai y mae gennym gofrestr yn y cyntaf o Genesis; a'i waith yn sicrhau y drefn hon, fel *wrth ei farnedigaethau y safant heddyw*, sy'n tystio ei Ben-arglwyddiaeth, Salm cviii, 4.

Yn ganlynol i hyn, y mae cyffredinol ragluniaeth, trwy yr hon y cynhelir y creadigaeth, ac y cyfeirier yr holl at-achosion at eu rhagosodedig ddyben, fel nad allo un digwyddiad eu rhwystro, yn *ail arwydd* o Ben-arglwyddiaeth Duw. Ac nid yw gwaith y creaduriaid yn myned ar brydiau oddiwrth eu rheolau a'u gosodiad cyntaf, yn anghlod yn y byd i'r athrawiaeth hon; ond yn hytrach yn ei heglurhau yn fwy, trwy amlygu bod y creaduriaid etto yn llaw Duw fel y pridd yn llaw y crochenydd. O'r achos hyn yr ydym yn cael eu bod weithiau yn gwneuthur mwy nâg a allid ddisgwyl oddi wrthynt, ac ar brydiau eraill yn myned yn gwbl groes i drefn natur; a hyn nid wrth ddamwain, na thrwy rinwedd neb rhyw allu creaduriaid, nac i ateb unrhyw ddyben o'r eiddynt eu hunain; ond i fod yn wasanaethgar i'w Har- glwydd mewn rhyw beth neillduol a goruchel ag y mae yn ei ddwyn i ben. I nodi rhai siamplau; ac,

1. O greaduriaid difywyd; "ffnestri y nefoedd a agorwyd, a ffynhonnau y dyfnder mawr arwygwyd" (er y ffurfafen uchod, a'r terfynau isod) i fodd i'r byd o annuwiolion. Y môr coch a holltodd, ac a safodd fel mur, er dihangfa i bobl Dduw. Yr haul a'r lleuad a safodd nes iddynt ddial ar eu gelynyon. Y ser i'r un dyben a ymladdasant yn erbyn Siseran. Yr haul aeth yn ol yn neial Ahaz, i helpu ffydd Hezecia. Y ffwrn dân a laddodd o bell y rhai a fwriasant y tri llangr i d mewn; ac ni fênodd ar y rhai oedd ynddi. Y môr a'r

gwyntoedd ystormus ac afreolus, ni chyffrant ac ni chwythant ond i gyflawni ei air ef.

2. O'greaduriaid byw direswm; pa mor ebrwydd yr aethant bob yn ddau i'r arch wrth orchymyn Duw. A pha fath eondra goruwch-naturiol yr oedd y llyffaint, y llau, a'r locustiaid yn gosod ar, ac yn gofidio yr Aiphitiaid! hyd oni ddarfu i'r swynwyr eu hunain gyfaddef mai bys Duw oedd. A'u mynediad ymaith yn ol gorphen eu gwaith oedd mor rhyfeddol. Hyn hefyd a dystiolaethir gan asyn fud yn gwahardd ynfydrwydd y prophwyd: a'r llew yn lladd y prophwyd a dwyllasid, am anufuddhau i orchymyn Duw; ond heb fwyta'r gelain, na dryllio yr asyn. Aderyn ysglyfaethus yn porthi Elias yn ei gyflwr unig. Y morfil yn llyngcu Jona, ac wrth orchymyn Duw yn ei fwrw ar dir sych heb ei niweidio. Y llewod yn gadael Daniel yn ddiniwed yn y ffau, ond yn dryllio ei gyhuddwyr. Rhaid ei fod yn allu cyflawn awdurdodol ag sydd yn llyn yn gwyrddroi trefn natur wrth ei ewyllys.

3. Arwydd arall yn egluro Pen-arglwyddiaeth Duw, yw cydsyniol dystiolaeth dynion, yn enwedig y rhai mwyaf gwybodus ag sydd oreu yn ei adnabod ef. 1. Maent yn ei gydnabod yn eu buchedd. Y mae Abel yn aberthu blaenffwrth ei braidd i Dduw. Abraham yn gadael gwlad ei enedigaeth ar orchymyn Duw, ac yn myned ni wyddai pa le: ac yn aberthu ei unig fab Isaac, yn mywyd a hiliogaeth yr hwn yr oedd yr holl genhedloedd i'w bendithio. Y mae Job, wedi ei ddiosg o'r owbl, yn cwmpo i lawr ac yn ei addoli. Pan ddifawyd ei ddau fab a thán o'r nefoedd, tewi a wnaeth Aaron. Ac Eli, pan bygythwyd ei dŷ yn echrystlon, sydd yn dywedyd, "Yr Arglwydd yw efe, gwnaed a fyddo da yn ei olwg." Dafydd, pan gyrwyd ef o'gyssegr Duw, a phan y goresgynwyd yr orseddiainge gan Absalom, a ddywedodd, "Wele fi, gwnaed i mi fel y byddo da yn ei olwg." Yr oeddi distryw wedi ei ddatgan yn erbyn Nineve, heb un addewid o waredigaeth, ac felly heb le gweledig i obeithio; "etto credasant i Dduw, ac ymprydiasant, a gwisgasant sachliain, ac a droisant o'u ffyrdd drygionus." 2. Muent hefyd yn ei gydnabod yn eu cyffes. Melcizedec ac Abraham sydd yn ei alw y "Duw goruchaf, meddiannydd nefoedd a daear." Y mae Job yn dywedyd, "Pe buasai gynawn," etto pe mynasai Duw ymryson ag ef, "nad attebasai, eithr yr ymbiliasai âi't Eannwr." A hyn y cyttuna'r holl ysgrythyr lân: "Yr Arglwydd a wnaeth bob peth er ei fwyn ei hun. O herwydd ei ewyllys ef y maent ac y crewyd hwynt. Nyni ydym glai, a thithen yw ein Lluniwr. Efe sydd yn gweithio pob peth

wrth gyngor ei ewyllys ei hun. Nid ydyw efe yn rhoi cyfrif am ddim o'i weithredoedd. Yr hwn y mae einioes pob peth byw yn ei law. Efe yw Duw ysbrydion pob cnawd. Yr holl genhedloedd ger ei fron ef, ydynt lai na dim, a gwagedd. Efe a ostega derfysg y bobloedd. Os o Dduw y mae, ni ellwch chwi ei ddiddymu. Cyngor yr Arglwydd, hwnnw a saif. Y coelbren a fwir i'r arffed: ond oddiwrth yr Arglwydd y mae ei holl lywodraethiad ef. Eiddo yr Arglwydd yw'r deyrnas: ac efe sydd yn llywodraethu y'mhlith y cenedloedd. Nebucodonozor (y brenin nerthol) mawredd yr hwn a gyrhaeddodd hyd y nefoedd, a'i lywodraeth hyd eithaf y ddaear, yr holl genhedloedd oedd yn crynu rhagddo; yr hwn a ddywedodd yn ei galon, Mi a ddringaf i'r nefoedd, oddi ar ser Duw y derchafaf fy ngorseddfa, tebyg fyddaf i'r Goruchaf; pa Dduw a wared o'm dwylaw i?" Etto gorfu i'r mab balchder hwn gyfaddef un uwch nâg ef ei hun, ac ymgrymu iddo; gan gyhoeddi i'r byd, "Fod y Goruchaf yn gwneuthur yn ol ei ewyllys ei hun a llu y nefoedd, ac â thrigolion y ddaear; ac nid oes a attalio ei law ef, neu a ddywedo wrtho, Beth yr wyt yn ei wneuthur? ac efe a ddichou ddarostwng y rhai a rodiant mewn balchder."— Gallwn y'mhellach nodi siamplau Cain, Pharao, Balaam, a rhai drygionus eraill; a pha fodd y gorfu arnynt gyfaddef Pen-arglwyddiaeth Duw: a Darius hefyd, yn Dan. vi.

4. Y mae gennym dystiolaeth arall oddiwrth yr angylion, y rhai ydynt alluog mewn nerth, ond etto yn perffiaith gyfaddef, ac yn ymddarostwng i Ben-arglwyddiaeth Duw.

1. Yr angylion etholedig sy'n amlygu hynny, trwy eu darostyngiad parod i bob goruchwyliaeth ag a welo eu Harglwydd fod yn dda i orchymyn iddynt. Ei hyspyswyr ydynt o'r hyn a wnaer yn y byd isaf hwn. Nid o ran bod arno eisiau eu cymmorth, ond i ddangos ychydig o ogoniant ei deyrnas. Ei genhadau hefyd ydynt; y mae yn eu danfon ar ei negesau, i drin ei achosion y'mhlith dynion, ac i ddatguddio ei fwriadau mewn perthynas i'w eglwys a'r byd. "Ei gerbydau ydynt: ei fedelwyr: cyflawnwyr ei farnedigaethau:" a gwasanaethwyr Crist ar ei ddyfodiad.

2. Er nad yw dystiolaeth angylion a syrthiasant yn tarddu o gariad ac ewyllys da, etto y mae yn amlygu Pen-arglwyddiaeth Duw gymmaint ag un peth arall; o ran, er eu bod yn elynion Duw, yn falch ac yn uchel, y mae gorfod arnynt gydâ dychryn ymddarostwng. A hyn yw'r achos na feiddiodd diafol ateb, pan barnwyd ef am dwyllo ein rhieni cyntaf. Yr ydym yn cael hefyd ei fod yn ymddangos ger bron Duw, i roddi cyfrif o'i weithredoedd; ac ni feiddiai ef gyffwrdd â Job, na dim.

AM BEN-ARGLWYDDIAETH DUW. 9

oedd eiddo ef heb gennad, na myned y'mhellach nâg yr erchasad iddo. Y mae'r efangylwyr yn tystio fod Crist gydag awdurdod yn peri iddynt ddyfod allan o ddynion, i e i leng ar un waith. Ac ni allent gymmairt a myled i'r moch heb ei gennad ef. Ie yr oeddent yn ddarostyngedig i'r apostolion, er nad oedd ganddynt hwy ond awdurdod a dderbyniasent oddiwrth arall!

5. Y mae yr Arglwydd ei hun yn arddel ei Ben-arglwyddiaeth, gan ddywedyd wrth Pharao, "Yn ddiau, er mwyn hyn i'th gyfodais di, i ddangos i ti fy nerth." Felly medd yr Ysbryd Glân trwy'r apostol, Rhuf. ix, 17. I'r un dyben dywedir yn y prophwydi, "Pwy a ordeiniodd y neb sydd yn gweled, neu'r dall? Ond myfi yr Arglwydd, myfi sydd yn lladd ac yn bywhau. Mi a drugarhaf wrth yr hwn y cymmerwyf drugaredd arno. Myfi yw'r cyntaf, diweddaf ydwyf fi hefyd, ac nid oes Duw onid myfi. Pwy hefyd fel fi, a eilw, a fynega, ac a esyd yn drefnus i mi, er pan osodais yr hen bobl? Neu mynegant y pethau sy ar ddyfod, a'r pethau a ddaw." Esa. xlii, 6. "Fy nghyngor a saif, a'm hewyllys a wna. Fy ngair a wna yr hyn a fynwyf, ac a lwydda yn y peth yr anfonais ef o'i blegid. Ac os twyllir y prophwyd pan lafaro air, myfi yr Arglwydd a dwyllodd y prophwyd hwnnw, ac mi a'i difethaf," Ezech. xiv, 9. Hanes hynod yw honno am ysbryd celwyddog, yn 1 Bren. xxii, 20. Pa fodd y dylem grynu ger bron Duw, wrth glywed y fath air! eithr nid ydwyf yn edrych ar y gennad hon fel gweithred o awdurdod yn unig, ond o gyfiawnder, yn cospi'r naill bechod trwy adael i un arall; yn ol yr hyn a ysgrifenis yn Rhuf. i, 21, 28. "O blegid a hwy yn adnabod Duw, ni's gogoneddasant ef megis Duw; ac nid oedd gymmeradwy ganddynt ei gadw yn eu gwybodaeth, Duw a'u rhoddes hwynt i fynu i feddwl anghymeradwy." Ac etto y mae Duw (yma) yn arfer ei awdurdod, am nad yw yn delo yn yr un modd â phawb ag sydd yn yr un gyflwr.

6. Gwelwn arwydd arall o Ben-arglwyddiaeth Duw, yn y deddfau a roddodd, a'r gweithredoedd a wnaeth i feibion dynion. Megis yn gosod cyflwr tragywyddol dyn, ar ei waith yn bwytta neu yn peidio bwytta o firwyth un pren. Yn ymattal rhag difetha Adda ar ei gwmp; ond yn rhoddi graslawn addewid o Iachawdwr, heb ei geisio. Y mae yn amddiffyn Cain, yr hwn a fforffetodd ei fywyd i gyfiawnder. Yn cadw Ham rhag y diluw, er ei fod cynddrwg a'r rhai a foddasid. Yn rhoi'r fendith i Jacob, yr hwn a'i ceisiodd mewn modd anghyfreithlon, a'i phallu i Esau, i'r hwn yr oedd hi wrth natur yn perthyn, er iddo ddiwyd ymosyn am.

10 TRAETHAWD DEFNYDDIOL

dani. Y mae yn ebrwydd yn troi calon Esau i garu Jacob, yr hwn yr oedd yn ei fawr gasau, ac yn dyfod mewn cyflawn fwriad i'w ladd; etto mae ei galon yn toddi, y mae yn wyllo ar ei wddf, ac yn cynnyg ei hun a'i filwyr i'w amddiffyn. Y mae'n peri ofn ar yr Amoriaid, fel nad erlidiasant ar ol Jacob, er eu cyffroi yn fawr gan greulonder ei feibion ar wyr Sechem. Y mae'n anfon geiriau heddwch at frenin Hesbon, yr hwn a arfaethasai efe ei ddinystrio, a'r hwn y caledasai ei ysbryd er mwyn ei roddi yn llaw Israel, Deut. ii, 26. a'i wneuthur yn wrthnysig. Y mae'n gwneuthur i'r cenhedloedd a ddaethant yn gyttun i ddifetha ei bob! ef, ddifetha y naill y llall. Y mae'n dinystrio mynydd Esau, fel na ellir byth ei adferu; ond yn arbed Israel, er bod eu tir yn llawn o anwired, Obad. ix, 16, &c. i.e. cyn gwneuthur o honynt dda na drwg, y mae'n hoffi'r naill, ac yn casau'r llall, Mal. i, 2, &c. Y mae'n anfon Ezeziel, nid at rai a wrandawsai, ond at dŷ gwrthryfelgar Israel, y rhai ni fynnent wrando. Y mae yn "cuddio" dirgeledigaethau y deyrnas "oddiwrth y doethion a'r dyallus," ond yn eu "dadguddio i rai bychain." Y mae yn "llefaru" wrth y "dyrfa mewn damhegion, rhag iddynt ddychwelyd."

Hyn a amlygir y'mhellach wrth fod yr Arglwydd, weithiau, yn dost yn cospi troseddiadau bychain, ac yn esgeuluso rhai mwy. Moses a gauir allan o Ganaan am air anystyriol, er ei gyffroi yn ddirfawr pan llefarodd; ond Jona a geryddir yn llariaidd, er iddo yn ddigllon ymddadleu â'r Goruchaf. Uzza a laddwyd am gyffwrdd â'r arch. Ni wnaeth Hezecia ond dangos ei dŷ a'i drysorau i genhadau brenin Babylon, ac am hyn rhaid i'w feibion, a'r hyn oll a feddai, fyned i gaethiwed. Gwir yw, nid oes un pechod ynddo ei hun yn fach, nac un yn cael ei gospi tu hwnt i'w haeddiant; eithr rhyngodd fodd i'r Arglwydd wneuthur hyn, mewn rhan i ddangos ei anfodlonrwydd yn erbyn pechod, ac na oddef mo hono yn ei rai anwylaf: ac mewn rhan (os nid yn benaf) i ddangos ei awdurdodol Fawrhydi, ac nad yw rywmedig i roddi cyfrif o'i weithredoedd. Y mae'r 73 Salm yn berthynol i'r un peth. Hynod iawn yw cyflwr Job, a'r modd y gwnaeth Duw âg ef: efe a fuasai fyw bywyd dichlyn a sanctaidd; ("nid oes gyffelyb iddo ar y ddaear;" mae'r Arglwydd ei hun megis yn gorfoleddu ynddo ef) i.e. pan gadawyd ef heb ddim, "y mae'n parhau yn ei berffeithrwydd;" etto y mae Duw yn myned y'mlaen i'w gystuddio, ac yn ei adael yn hollol (oddi eithr ei fywyd) yn mhwer satan. Pe buasai efe wr drygionus, (fel yr oedd ei gyfeillion yn haeru) y dyoddefiadau hynny a fuasent yn gosod allan

Gyfiawnder Duw; eithr yn awr maent yn amlygu ei Ben-arglwyddiaeth; clywch eiriau Duw wrth satán—"Yr wyt yn fy annog i'w ddifa ef heb achos."

7. Y mae etto arwyddion eraill, trwy y rhai yr amlygir y briodoledd oruchel hon; megis gwaith Duw yn goruwchreoli bwriadau a gweithrediadau dynion, i ddwyn i ben ei gyngor ei hun: Twr Babel a amcanwyd gan y lluaws wrthryfelgar i ymgadw ynghyd, a fu'r achos o'u gwasgaru hwynt. Trwy dwyll Jacob, a'i hynod gam-arfer o wendid ei dad, y gwneir i Isaac ei fendithio ef, er ei fod yn bwriadu roi'r fendith i Esau. Y mae Laban yn delio yn galed a Jacob, er mwyn ei gadw yn isel i'w wasanaethu ef; ond Duw trwy hynny yn rhoddi iddo gyfoeth Laban, yn ol ei gyttundeb ei hun. I ddiddymu breuddwydion Joseph, y mae ei frodyr yn ei werthu i'r Aipht; eithr Duw sydd trwy hynny yn eu cadw hwynt oll yn fyw, ac yn cyflawni i Joseph yr anrhydedd yr oeddent hwy yn geisio ei rag-flaenu. Y mae Pharao yn gosod beichiau trymion ar y bobl i'w lleihau; ond pa fwyaf y gorthrymid hwynt, mwyaf yr amlhasant. Moses, bugail defaid, gwr tafod-drwm, anewyllysgar i'r gwaith, a gaiff fod yn gennad dros Dduw at Pharao (y rheolwr balchaf a gwrthnysigaf ar y ddaear) i ddygid Israel o gaethiwed. A phwy fydd tywysog y llu, i wared ei bobl o law gorthrymwr nerthol, ond benyw, sef Debora. A phryd arall, Gideon, yr hwn yr oedd ei deulu yn dlawd yn Manasse, ac yntef yn lleiaf yn nhŷ ei dad: ac er bod-ganddo elyn lluosog a nerthol i'w wrthwynebu, ac, yn ol rheswm, yn rhaid iddo wrth lu mawr i ryfela yn ei erbyn; etto lle yr oedd ganddo ddeuddeg mil ar hugain o wyr, rhaid iddo eu gyrru ymaith i gyd onid tri chant: ac nid oedd i'r rhei'ny gymmeryd dim arfau onid udgyrn, a lampau yn nghanol eu piserau; ac â'r rhai'n y mae yn eu gwaredu oddiwrth y llu aneirif hwnnw. A chyffelyb i hyn oedd gwaith Samgar yn lladd chwe' chan wr âg ierthi ychen: a Samson fil â gên asyn. Ië, ni allwn ganfod weithiau yr un achos yn dwyu amrywiol effeithiau; ac felly yn y gwrthwyneb, megis llaw Moses yn myned yn wahanglwyfus, ac yn myned yn iach, wrth ei dodi yn ei fynwes. Felly yr oedd yn dewach gwedd Daniel a'i gyfeillion wrth ffa a dwfr, nâ'r rhai oedd yn bwytta bwyd y brenin. Hyn a ymddengys y'mhellach wrth ei waith yn peri i gynddaredd dyn ei foliannu, yr hon sydd yn ei nhatur yn tueddu i ddifetha'r neb sydd yn ei foliannu ef. A'i waith yn diddymu amcanion y cyfrwys, ac "yn dal y doethion yn eu cyfrwystra;" megis Ahab, Ahitophel, a Haman: felly trwy erlid y saint yn Jerusalem, yr oeddid yn amcanu

rhwystro cynnydd yr efengyl; eithr trwy hynny y gwasgarwyd hi i lawer o wledydd! Os ystyriwn pa fodd y llwyddodd crist'nogaeth, i fwrw i lawr satan o'i orseddfaingc, i ddadymchwel y byd, a hynny trwy'r moddion gwaelaf ac anhebyceaf; nid â'r cleddyf, â'r waywffon, y bwa, a'r bwyll; nid â meirch a marchogion y ddaear, ond â gair Duw yn unig; a hynny nid yn ngenau ysgrifenyddion a phariseaid dysgedig, cyfreithwyr, doctoriaid, beirdd, philosophyddion; ond gan bysgodwyr tlodion annysgedig, seiri, publicanod, a gwneuthurwyr pebyll: a phwy gaiff fod yn ddeiliaid o'r deyrnas anorchfygol hon? nid "y doethion, y galluog, a'r boneddigion;" ond "rhai bychain, y tlawd, y gwan, y distadl, y dirmygus, a'r pethau nid ydynt;" a thrwy rhai'n y mae yn diddymu y pethau sydd. Ond â phwy arfau? âg amynedd, â ffydd yn ngwaed yr Oen!

Os ystyriwn hefyd wastadol erlidigaeth yr eglwys, a hynny gan ddynion o bob math, yn enwedig y mwyaf galluog a chyfrwys; y g lanustra anferthol a wnaethpwyd arni; a phaddigasedd anghymmodol sydd gan y byd yn ei herbyn; ac etto ei bod yn sefyll yn anorchfygol, ac yn cynhyddu yn wastadol; ni allwn lai ná chyfaddef ymddangosiadau amlwg o'i Ben-arglwyddiaeth ef; "Mai'r Goruchaf sydd yn llywodraethu'r cwbl; yn troi'r doethion yn eu hol, ac yn gwneuthur eu gwybodaeth yn ynyd."

Pelydr neilltuol o'r gogoneddus bwer hwn, sy'n ymddangos yn ngwaith Duw yn goruwch-lywodraethu ac yn darostwng ysbrydoedd dynion, wrth alw a throi y neb a fynno. Fe a ellid tebyg, y byddai i greadur rhesymol ddirnad yn well ei ddaioni ei hun, ac ymddarostwng yn ewyllysgar i ewyllys ei Greawdwr. Eithr yr ydym yn canfod y gwrthwyneb. O'r holl greaduriaid, dyn sydd fwyaf yn gwrthwynebu dadguddiedig ewyllys Duw, er bod y tostaf o drueni yn canlyn ei gyflwr presennol; ac y byddai i bob dedwyddwch dymunol, yn ddiammeu, ddilyn ei droedigaeth; etto y mae yn glynu yn ei drachwantau, mor wrthnysig, fel nad yw hyn yn ei gynhyrfu: eithr y'mlaen y mae yn myned, ac felly yr â, i e pe byddai i angel digllon â chleddyf noeth yn ei wrthsefyll. Hawdd fyddai eu briwio neu eu torri'n gandryll, ychydig o allu Duw a wnai hynny: ond darostwng ysbryd balch ac uchel; meddalhau a thoddi calon galed; dofi a heddychu gwrthryfelwr gwaedlyd; cyfnewid enaid gwedi ymarfer â phechod a gelyniaeth yn erbyn Duw, a'i wneuthur yn ddarostyngedig i gynhyrthiadau'r Arglwydd; hyn sydd yn hollol ddangos tra-rhagorol fawredd ei nerth, ac yn arwydd arbenig o'i Ben-arglwyddiaeth. Hyn hefyd a eglurir, trwy gynnal y

gwaith a ddechreuwyd, a'i ddwyn y'mlaen trwy bob gwrthwynebiad: canys y mae yr un Hollalluogrwydd o nerth yn rheidiol i gynnal ag i genhedlu y creadur newydd; gan fod ffordd Duw yn uchel a goruwch-naturiol, y mae tueddiad rhyfeddol mewn creaduriaid i gilio oddi wrthi: (megis mewn carreg ansefydlog ar lechwedd bryn): gweddillion ben naturiaeth, fel llif-ddyfroedd, a ddysgybent ymaith y cyfan, oni b'ai fod gallu holl-awdurdodol yn attal y naill, ac yn cynnal y llall; gan hynny, gwreichionen o'r duwiol anian yn parhau mewn calon bechadurus sydd rhyfeddod mawr, ac effaith arbenig o holl-awdurdodol allu.

9. Y mae Pen-arglwyddiaeth Duw yn amlygu ei hun etto gyda gogoniant mwy aruthrol, yn ei *dragywyddol drefniad* o gyflyrau dynion tros byth. Trugarhau neu beidio a thrugarhau, wrth rhai ynddynt eu hunain sydd mor addas (neu yn hytrach mor anaddas) a'u gilydd i dderbynu trugaredd; gwneuthur o'r un telpyn llestr i barch ac arall i anmharch, yw'r weithred uwchaf, a'r ymddangosiad egluraf a godidocaf o Ben-arglwyddiaeth Duw, am ba un nid yw yn rhyngu bodd iddo roddi rheswm arall, ond ei Hawl, "fe all wneuthur y fynno â'i eiddo ei hun," Rhuf. ix, 18.

Yn olaf, Y mae Pen-arglwyddiaeth Duw yn ymddangos yn dra rhagorol ogoneddus a pharchedig, yn ei waith yn ordeinio y Dyn Iesu, yr hwn oedd "sanctaid, diddrwg, dihalog, a didoledig oddiwrth bechaduriaid, i osod ei enaid yn aberth dros bechod." I "Arglwydd y gogoniant gael ei wneuthur yn bechod ac yn felldith," oedd fath weithred aruthrol o Ben-arglwyddiaeth Duw, na ellir byth ei chyffelybu; ac a ddylai gau ein gwefusau yn dragywydd i'w ymresymu yn erbyn Duw, o ran ei waith yn trefnu Pryfed bechadurus.

Cyn dyfod at y defnyddiau, 'chwanegaf un gocheliad neu ddwy, i ragflaenu y casgliadau trofaus, ag y mae ein calonau twyllodrus yn barod i'w casglu oddiwrth y gwirionedd arbenig hwn.

1. Edrychwch na wneloch Dduw yn awdwr pechod, trwy gyfrif troseddiadau dynion i'w sanctaid arfaeth ef, megis pe buasai ef yr achlysur o honynt; yr hyn y mae yn eglur nad yw, ac ni's gall fod, mwy nâg y gall yr haul fod yn achos o dywyllwch. Cofiw'n wastadol, nad yw gwaith Duw yn gwrthod dynion yn gosod dim drwg ynddynt, nac yn cymmell eu hewyllys, ond yn unig yn eu gadael i'w ffyrdd eu hunain, y rhai y maent yn ewyllysgar yn eu dewis: etto y mae yn eu cadw i mewn ac yn eu hattal,

(fel ffynhonau y dyfnder mawr) rhag iddynt foddi'r byd â phechod.

2. Na fydded i chwi geisio esgusodi neu leihau eich pechod, o ran arfaeth Duw. Nid oedd pechod yr Iuddewon yn croeshoelio Arglwydd y Gogoniant yn llai, o ran bod "cyngor Duw wedi rhag-lunio y peth i'w wneuthur;" canys hwy a'i gwnaethant "â dwylaw drygionus." Ac nid llai beius yw anghrediniaeth dynion, er bod eu cyflyrau wedi eu rhag-arfaethu gan Dduw er tragywyddoldeb: canys nid ar yr ystyriaeth hynny y maent yn tramgwyddo wrth y gair, ac yn ei wrthwynebu; ond o ran eu dallineb naturiol a'u gelyniaeth yn ei erbyn.

Ac felly yr ydwyf yn dyfod at ddefnyddiau'r athrawiaeth lesiol a thra buddiol hon: ac,

I. Gan fod yr ysgrythyrau mor helaeth yn ei dal allan, mi a gasglaf mai athrawiaeth gyflawn o addysg yw'r athrawiaeth o Ben-arglwyddiaeth Duw; ac an hynny fod yn ddyled arnom, ac yn fuddiol i ni fod yn dra chydabyddus â hi. A diammeu gennyf, mai pa bellaf yr elech mewn ffyddlon a gostyngedig ymofyniad ar ei hol, ac ystyriaeth o honi, mai eglurach a mwy rhesymol yr ymddengys. Gadewch i reswm gael ei fe, ac ni bydd dim mwy cyttunol â gwir reswm, na bod y Goruchaf yn llywodraethu'r cwbl, ac yn gwneuthur yn ol cyngor ei ewyllys ei hun; a bod i ddynion, y rhai nid ydynt ond gronynau o bridd a fywhaodd ei anadl, ei gydnabod yn Rheolwr, ac ymddarostwng iddo fel y cyfryw: ié, pe byddai ein dedwyddwch personol heb sefyll ar y peth, etto y mae yn dra buddiol ac yn ddefnyddiol iawn yn ein holl fywyd. Nid oes dim fel yr ystyriaeth hon i ddiffodd ymresymiadau cnawdol, y rhai ydynt yn afresymol barod i farnu pethau ysbrydol: â hon mae'r apostol yn gostegu gwrthddadleuwyr anianol, Rhuf. ix, 19. "O na byddai i ogoniant y briodoledd oruchel hon, guddio balchder oddiwrth ddynion!"

II. Defnydd arall yn tarddu o'r athrawiaeth hon sydd yn ngeiriau'r Salmydd, Salm xcv, 6. "Dewch, addolwn, ac ymgrymwn: gostyngwn ar ein gliniau ger bron yr Arglwydd ein Gwneuthurwr:" rhoddwn iddo ogoniant y briodoledd fawr hon, trwy wirioneddol a gweithredol gydnabyddiaeth o anhepgorol rwymau ufudd-dod, ag y mae hi yn ei osod ar bob creadur: y mae hi yn gosod arnom rwymedigaeth fawr i Ufudd-dod, a Ffydd.

Yn 1. I ufudd-dod i'w gyfreithiau, i'w ordinhadau, ac i'w ragluniaethau.

(Yn 1.) O ran cyfreithiau a threfniadau Duw: rhaid in'

ddal arnynt ac ufuddhau iddynt; nid am fod "yn rhaid i'r Arglwydd wrthynt;" canys nid yw ein cyfiawnder yn ei les-hau, na'n hanwiredd yn gwneuthur niwed iddo. "Etto efe yw dy Ior di; ymostwng ditheu iddo ef." Y rheswm cadarn â'r hwn y mae'n cefnogi ei orchymynion a'i waharddiadau yw, "Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw." Hyn a wnai, a hyn ni's gwnai, "Myfi yw yr Arglwydd:" hwn mae efe'n osod y'mlaen, hwn mae efe'n osod yn ol, a hwn mae efe'n ei sierhau o bob tu. Y mae Moses yn edrych arno yn rheswm diwrthddadl, y dylem garu Duw â'n holl galon a chadw ei orchymynion, o herwydd mae efe, ac efe yn unig yw yr Arglwydd, Deut. vi, 4. Ni all neb, gan hynny, yn gyfreithlon, arglwyddiaethu ar ddynion, na honni hawl i gariad ac ufudd-dod neb o'u cyd-greaduriaid, ond o ran Duw, ac o ran yr awdurdod ag y mae efe yn ei roddi iddynt. Ac er rhynga bodd iddo ef weithiau (yr hyn sydd ddarostyngiad mawr yn y Duw Goruchaf) ein hannog i ufudd-dod â rhesymau er ein daioni, megis, "Edrychwch am wneuthur y gyfraith hon, o herwydd eich heinioes chwi yw;" etto, yn ein hysbryd ni, ei Ben-arglwyddiaeth a ddylai gael y lle blaenaf. Peth blin i Abraham oedd bwrw Ismael allan, etto pan ei orchymynwyd gan Dduw, nid yw yn ymresymu nac yn oedi yn hwy. Am hynny, ewch y'mlaen er maint o dywyllwch a fo ar eich ffordd: cofiwch eich dyledswydd y'nghanol anhawsdra: gwnewch fel Pedr, yr hwn, er iddo ymboeni ar hyd y nos ac heb ddala dim, sydd etto yn dywedyd, "O feistr, ar dy air di mi a fwriaf y rhwyd," Luc v, 5.

(Yn 2.) Ymostyngwch i'w ordinhadau. Os rhynga bodd iddo ef orchymyn moddion heb ddim rhinwedd naturiol i ddwyn i ben yr hyn y gorchymynir hwy o'i blegid, megis Moses yn estyn ei law ar y môr, neu daro'r graig â'r wialen; dwfr yn y bedydd, a bara a gwin yn y swpper; na ryfygwch ddywedyd, beth all y pethau hyn wneuthur? dirgelwch yw duwioldeb, yr hwn ni all ond ffydd ei ddyall: nid oes un o ordinhadau Duw heb fwyd ynddo na wyddoch chwi oddi wrtho, yr hwn os iawn arferir, a ymddadleu drosto ei hun. Os gwel ef fod yn dda wneuthur clai o'r llwch a'r poeryn, na ddirmyga, eithr ymddarostwng i'w ewyllys a'i ffordd, a bydd ddiolchgar am dy iachad. Ordinhad i Samson oedd ei wallt, yr hyn pan ddirmygodd, Ysbryd Duw a'i gadawodd ef, ac efe a aeth fel gwr arall; ac ni adferwyd ei nerth nes ei dyfu eilwaith, Barn. xiii, 5, gydâ'r 16, 19, 22.

(Yn 3.) Am ragluniaethau Duw. Daliwch arnynt, ac ymddarostyngwch iddynt. Na edrychwch arnynt fel pethau

gweigion: y lleiaf a'r mwyaf annhebygol a ddychon roddi i chwi addysg: allan o'r bwyttawr y daw bwyd, ac o'r cryf felusdra: er bod y peth yn ddychymyg i galon ddienwaed-edig; aredwch a'i anner ef a chwi a'i cewch allan. Na edrychwch arnynt fel pethau amherthynol; ond dywedwch yn hytrach, onid oes achos, er nad wyf yn ei ganfod? Nid yw'r Arglwydd yn gwneuthur dim yn ofer. Ac na edrychwch arnynt fel pethau damweiniol: "Ni syrth aderyn ar y ddaear" hebdo ef, "ac y mae holl wallt eich pen wedi eu cyfrif." Dafydd aeth yn fud, ac ni agorodd ei enau, p'am? "Canys ti Arglwydd a wnaethost hyn." Mae efe'n amyneddgar yn goddef melldith Shimei, p'am? yr "Arglwydd a archodd iddo."

Dychon pethau gael felly eu cymmysgu a'u hannhrefnu, a'th ddysgwyliad ei siommi, fel y bo i'th galon anhydryn afreolus ymddadleu, 'Paham y mae yr un damwain i bawb? Paham i'r cyfiawn yn ol gwaith y drygionus; ac i'r drygionus yn ol gwaith y cyfiawn?' Nid ymofyn yn ddoeth yw hyn: yn hytrach dywaid, "Y mae yn rhaid i'r Arglwydd wrthynt;" i.e. y mae yn rhaid iddo arfer y cyfryw ragluniaeth i gyflawni ei air a'i arfaeth. Eithr, os myunwch daro'r nod, cofiwch y briodoledd o Ben-arglwyddiaeth. Chwiliwch ac ymofynwch hyd y mynnoch, ond cymmerwch ffydd gydâ chwi, heb yr hon ni allwch wneuthur dim yn ddiogel. Ffydd yw swyddog lwedig y Brenin mawr, y mae ganddi agoriad i bob clô addas i'w agor: nid yw hi yn ymwithio i un lle, lle ni allo hi fyned i mewn, y mae hi yn sefyll oddi allan ac yn disgwyl oedfa gwell. Bydded ffydd yn ymadroddwr pennaf yn eich holl ymddadleuon, ac yno bydd i reswm cnawdol a golwg bersonol (er mor gildyn a gwrthnysig) gywilyddio, a gadael y dadleudŷ.

Swm yr hyn a ddywedwyd yw, er na wyddoch am un bai yn och eich hunain, oddi eithr yr hyn sydd gyffredin i bawb, (fel yr oedd gydâ Job) "Gosodwch eich llaw ar eich genau," a dywedwch fel efe, "Y Goruchaf sydd yn gwneuthur yn ol ei ewyllys ei hun;" hyn a orfu ar y balchaf o frenhinoedd ei gyfaddef, "pan ddychwelodd ei wybodaeth atto;" ac felly y gwnewch chwithau: a gwybyddwch, os yw'ch ysbryd allan o dymmer yn eich cyflwr presennol, na byddai ddim gwell, yn awr, mewn un cyflwr arall.

Yn 2. Y mae gan ffydd hefyd lawer i'w wneuthur yma: canys Pen-arglwyddiaeth Duw sydd yn ein rhwymo i gredu, ac yn rhoi matter i ffydd weithio arno. I'r dyben hwn y mae yr Arglwydd yn pregethu i Abraham, "Myfi yw Duw Hollalluog, rhodia ger fy mron i, a bydd berffaith." Hyn a'i

AM BEN-ARGLWYDDIAETH DUW. 17

nerthodd i greu y cai efe fab, er bod marweidd-dra bru Sara, a'i gorph ei hun yn fawr yn ei erbyn. Hyn hefyd a wnaeth iddo mor ebrwydd gyttuno i offrymu ei fab, yn ol ei gael. Yr oedd ganddo gymmaint i'w ddywedyd yn erbyn hynny ag allai fod: canys, yr addewid, "Yn dy had ti y bendithier holl dylwythau'r ddaear," a'r gorchymyn hwn, ni fedrai ei reswm gymmodi. Diau, oni buasai ei ffydd yn y briodoledd fawr hon ei gynnal, y gwrthddywediad hwn a'i dadymchwelsai. Ond yma y safodd, fod yr hwn a roisai Isaac mewn ffordd annhebygol, "yn tibl" eilwaith "i'w godi oddiwrth y meirw." Nid yw Abraham gan hynny yn ymresymu yn ei gylch, nac yn sefyll i'w ystyried ychwaith, ond yn codi yn foreu i'w wneuthur. Ac o ran hyn rhoddwyd iddo yr enw arbenig, "Cyfaill Duw."

Chwi a welwch yn awr beth a wnaeth Abraham; ewch a gwnewch chwithau yr un modd: cymmerwch afael ar Ben-arglwyddiaeth fel yr eiddo chwi, wedi ymrwymo i chwi mewn cyfammod o ras, i fod ar eich rhan. Mae gan ffydd hawl i bob priodoledd, a hi a sugn rinwedd allan. Gan hynny, pa anhawsdra bynnag sydd ar eich ffordd, na ddi-galonwch; ond galwch Ben-arglwyddiaeth i'ch cymmorth. Cofiwch y parodol ufudd-dod y mae pob creadur yn ei roddi i'w air; trwy yr hwn yn unig (heb gymmorth creaduriaid) y gall wastodhau mynyddoedd, gwneuthur y gwyr-geimion yn uniawn; attal, cyfnewid, gwyrddroi, a dadymchwel cwrw natur: felly yr hyn sydd farwolaeth ynddo ei hun, a gaiff fod yn fywyd i chwi. Gwdyn irion a rhaffau newyddion, wedi cyffwrdd â'i air, ydynt fel llŷn neu garth wedi cyffwrdd â'r tân: haiarn a fydd fel gwellt, a phres fel coed pydron: gan hynny, "estynwch raffau, a sierhewch hoelion" eich ffydd; ni allwch greu mwy, na gwell, nâg a all Duw wneuthur i chwi. Pechod, yr hwn yw'r drwg mawr (ie yr unig ddrwg) sydd elyn iddo ef, yn gystal ag i chwithau: a bydded diogel gennych, na chai fod yn y byd, oni b'ai dychon Duw ei oruwch-lywodraethu er ei glod, a'i ddinystrio yn ol ei ewyllys: ymaflwch yn ei Ben-arglwyddiaeth, a digon yw.

Etto bydded i chwi ddwys-ystyried y gocheliadau canlynol.

1. Os unwaith y iachawyd angeu yn y crochan; os haiarn y fwyall fenthyg wedi syrthio i'r dwfr, a ddychwelwyd dra-chesn i'ch llaw; na fyddwch ddiotal o ran hynny, rhag y tro nesaf i'r goes syrthio ar ol y pen: na chasglwch fresych gwylltion eilwaith, rhag na bo eich prophwyd yn bresennol, neu nacau blawd i chwi. Na fydded i chwi ymgipris â

phrofedigaethau (fel Samson) gan feddwl myned allan ac ymysgwyd fel cynt. Y mae gallu Duw yn beth rhy fawr i ymgellwair ág ef; neu i'w wneuthur yn wasanaethgar i ynydrwydd dynion.

2. Na feddylwch am Ben-arglwyddiaeth Duw, heb gofio'r Cyfryngwr. Allan o hono ef, y mae hi yn achos o ddychryn ac arswyd i bechaduriaid: efe yn unig a all ei gwneuthur yn heddychol â chwi. Megis nad oes dim yn rhyngu bodd i Dduw, ond yn a thrwy Grist; felly ni all dim yn Nuw fod yn gysurus i ddynion, ac er eu daioni tragywyddol, ond yr hyn sy'n dyfod iddynt trwyddo ef; megis yr iacheir dwfr y ffynhonau, &c. (y rhai a ddeuaut o'r môr) gan belydr yr haul, neu ymysgaroedd ein mam a'n mamaeth, daear.

Ystyriwch Ben-arglwyddiaeth mewn dau beth yn neilltuol.

1. Mewn perthynas i'ch cyflwr tragywyddol eich hunain, syrthiwch i ddwylaw Duw fel Pen-arglwydd, hynny yw, rhoddwch eich hunain i fynu i Dduw heb sefyll ar ammodau ág ef. Y Syriaid hynny a osodasant raffau am eu penau, ac a fwriasant eu hunain i ddwylaw'r concwerwr, ar debygoliaeth ansicr, "Fe allai y ceidw ni yn fyw," a fuont lwyddiannus, 1 Bren. xx, 31. Felly gwnewch chwithau, er na bo gennyh, ond "fe allai y cuddir chwi," Zeph. ii, 3. Gwnewch chwi eich dyledswydd, a gadewch yr effaith i Dduw: credwch yn erbyn gobaith: canlynwch Dduw yn y tywyll fel eich tad Abraham, heb wybod i ba le yr oedd yn ei dywys. "Rhoddi'r gogoniant i Dduw," yw hyn. Am hynny, "Ofnwch yr Arglwydd, a gwrandewch ar lais ei was ef, ie pan byddoch yn y tywyllwch ac heb lewyrch," sef, llewyrch ei gariad tu ag attoch chwi yn neillduol. Ac er cymmaint o anhawsdra sydd o'ch blaen, o ran euogrwydd pechod, grym llygredigaeth tufewnol, a'ch gwrthwynebrwydd presennol i gredu; etto ystyriwch mai Ffydd yw'r gorchymyn mawr; a gadewch i'ch calon ateb, Ai fy nyledswydd i yw credu! mae yn rhaid i mi gredu. Cofiwch ei fawredd; ei Ben-arglwyddiaeth; nad yw yn rhoi cyfrif o'i ffyrdd; a'i fod "yn cauad pawb mewn anghrediniaeth, fel y trugarhau wrth bawb;" sef, fel yr ymddangosai mai o drugaredd Duw y mae iechydwrriaeth dyn: ymddiriedwch gan hynny iddo ef am eich achos, fel i'ch Harglwydd goruchel; ac edrychwch na chymmeroch eich hunain allan o'i law ef drachefn, trwy ammeu beth a ddaw o honoch: a gwybyddwch fod eich enaid yn y lle nesaf i heddwch, a sefydlrwydd, pan rhoddoch eich hunain i fynu yn llyn. "Byddwch ddarostyngedig i Dad yr ysbrydoedd, a byw fyddwch."

AM BEN-ARGLWYDDIAETH DUW. 19

Onid na chamsyniwch: nid wyf yn meddwl y dylech ymfoddloni i fod heb drugaredd, o ran Pen-arglwyddiaeth Duw: ni allaf feddwl bod hynny yn rheidiol yn eich ymbiliad â Duw am iechydwrriaeth; o herwydd, yn 1. Nid wyf yn cael fod Duw yn gofyn y cyfryw ddarostyngiad, fel y caffom drugaredd; nac un siampl yn yr ysgrythyr i neb gael y fath dymmer; nac ei fod yn beio ar neb o eisiau'r cyfryw dymmer. Yr ydys yn wir, yn gyfiawn yn eu beio, eisiau ymddarostwng i gyfiawnder Duw; (hynny yw, eisiau gwadu eu cyfiawnder eu hunain, a ffoi at gyfiawnder Crist): a diammeu y dylid eich beio, oni bydd i chwi, pan wypoeh eich bod yn druenus ac yn golledig, yn bresennol ffoi at Grist, heb ddisgwyl ynoch eich hunain ryw beth i'ch gwneuthur yn fwy cymmeradwy gydâg ef. 2. Fe weddai fod y cyfryw ymddarostyngiad yn groes i ewyllys datguddiedig Duw: canys, os hyn yw ewyllys Duw, sef ein sancteiddiad, bod i ni gredu yn ei Fab, a'i garu â'n holl galon: nid oes le y mynnai ef i ni aros mewn anghrediniaeth, a gelyniaeth yn ei erbyn; yr hyn sydd raid ei fod, os byddwn ewyllysgar i gael ein gwahanu oddiwrth Dduw. 3. Oblegid i'r "blinderog" a'r "llwythog," ag sydd yn "dyfod at Grist" yr addewir esmwythdra; ac nid i'r neb sydd yn foddlon bod hebdo: y rhai sydd "arnynt newyn a syched am gyfiawnder," y's yn addo eu "diwallu:" ac nid y neb sydd yn ddiymgais am dano. 4. O herwydd bod yn foddlon i fod heb drugaredd, yw ymfoddloni i fod yn gwbl anabl i ogoneddu gras Duw, ac i fwynhau cymmundeb âg ef, yr hyn yw prif ddyben a dyledswydd dynion. 5. Y mae yn groes i anian ac egwyddorion naturiol creadur rhesymol, beidio ag ymfyn am ei happusrwydd ei hun: i.e., ni ddylai orphwys mewn dim ag sy'n dyfod yn fyr o hynny. 6. Nid yw y cyfryw ymddarostyngiad reidiol fel rhag-barottoad, canys felly rhaid fyddai fod gras, heblaw yr hyn sydd o gyfiawnder Crist, a'i fod gennych cyn dyfod at Crist, yr hyn sydd ynfydrwydd i feddwl. Ac felly, lle yr wyf yn eich cyngori i ymddarostwng i Dduw, heb fargena a sefyll ar ammodau, fy meddwl yw, na fyddo i chwi ddelio â Duw ar ammodau o'ch dychymyg eich hun; ac na chynnygoch ddim iddo, ond yr hyn y mae ei holl-awdurdodol ras yn ei gynnyg i chwi, megis y ffordd a'r modd i gyrraedd eich prif ddyben: y mae gennych reswm mawr i ymddarostwng yn llyn: canys yma mae eich happusrwydd yn sefyll; gan mai y rhai'n yw'r unig ammodau ag sy'n abl dwyn creadur colledig pechadurus i gyflwr o iechydwrriaeth; fel yr ymddengys yn eglurach yn yr hyn sy'n canlyn.

Yr wyf (gydâ mawr ostyngeddwydd) yn tebyg, os gellir meddwl bod un amser cyn arfaeth Duw, mai dyna'r pryd yr oedd Pen-arglwyddiaeth yn rheoli: ond, er pan ddaeth etholedigaeth i mewn, gras sydd yn teyrnasu: nid am fod Pen-arglwyddiaeth wedi pallu, eithr wedi ei throsglwyddo: o'r blaen yr oedd mewn gallu, ond yn awr mewn gras: mewn gras, o ran yr etholedigion; ond mewn cyfiawnder, o ran eraill. Gras yw'r briodoledd y mae Duw yn chwennych ei hanrhydeddu: ac y mae'r lleill oll, (os gallaf felly ddywedyd) yn gweini i hon; ie, Crist ei hun a wnaethpwyd yn was, i wneuthur y peth a ryngai bodd i ras. Yr hyn sydd i chwi ynddarostwng iddo, gan hynny, yw boddlonrwydd ewyllys Duw, wedi ei ddatguddio yn y cyfammod o ras; yr hwn sy'n ateb drosoch, ac yn abl eich achub hyd yr eithaf; a'r hwn y mae holl-awdurdodol allu wedi ymrwymo i'w wneuthur yn dda: i'r perwyl hyn mae gweddi Moses dros y bobl, pan yr oeddent wedi cynhyrfu Duw yn fawr i ddigofaint: "Mawr-häer, attolwg, nerth yr Arglwydd, fel y llefaraist, &c." Num. xiv, 17, &c. sef, i faddeu iddynt, a'u cyfrif fel ei bobl. Cyfattedol i hyn yw yr holl ysgrythyrau ag sydd yn gosod allan allu Duw megis sail ffydd; trwy yr hyn y mae yn abl i faddeu pechod; i ddarostwng ein llygredigaeth; i gynnal ein heneidiau mewn bywyd: yr ydys gan hynny, yn eich cyfarwyddo, "i ymallyd yn ei nerth ef:" yr hyn ni all arwyddocau, boddlonrwydd i'r nerth gael ei arfer i'ch dinystrio; ond i orphwys arno fel y mae yn gwbl abl, ac wedi ymrwymo trwy gyfammod i'ch achub. Ond o ran yr amser y byddo i Dduw ddatguddio ei gariad i chwi; ac o ran y modd a'r mesur ag y byddo iddo ei ganiattau; rhaid i chwi yn ufudd ynddarostwng i foddlonrwydd ei ewyllys ef: eithr o ran y peth ei hun, ni ddylech gymmeryd naccad: ond ymwroli fel Jacob, yr hwn a ga'dd "nerth gydâ Duw ac a orchfygodd: efe a wylodd, ac a ymbiliodd." Etto dywedodd, "Ni th ollyngaf, oni'm bendithi."

2. Mewn perthynas i'ch plant gwnewch yr un modd â hwynt, gan eu gorchymyn i'r unhyw drugaredd. Diau, heblaw eich iechydwrïaeth eich hun, na all bod un arwydd fwy o gariad Duw tuag attoch, nâg iddo ddewis eich plant ar eich hol; na dim mwy dymunol i chwithau: am hynny, "gorchymynwch" a dysgwch "iddynt gadw ffordd yr Arglwydd." Ond na thristewch ac na ddigalonwch, am nad y'ch etto yn cael arwyddion etholedigaeth arnynt. Nid yw'r Arglwydd yn ymrwymo i gymmeryd holl blant y rhai credadwy; nac ychwaith na bo iddo gymmeryd eraill: nid ydys yn dywedyd dim am ei fwriad i gymmeryd y naill i gyd, rhag

iddynt gymmeryd achlysur i fod yn esgeulus yn eu dyledswydd; (i'r hyn yr ydym yn dra thueddol cyn ein troedigaeth): ac nid yw yn cau plant eraill allan; o blegid y gallai hynny eu digalon, a gwanhau eu dwylaw i'r hyn sydd dda. Yn yr amrafael gyfraniad hwn o'i dragywyddol gariad, y mae yn rhyngu bodd iddo ef gadw ei ryddid, a'i holl-awdurdodol ragorfraint, fel y mae yn mawr-amlygu ei gariad at y rhai credadwy, trwy ddewis mor fynych o'u liad; a rhyddid ei ras, trwy beidio a chwbl wrthod hâd rhai eraill.

3. Pa mor wynfydedig yw y sawl sydd â hawl yn yr Arglwydd goruchaf hwn! er mor aflonydd y byddo'r ddaear, er mor dra-chreulon y terfysg a fo ynnddi; y mae yr Arglwydd goruwch y cyfan. Efe sydd yn eistedd ar y dyfroedd, fel tywysog yn ei gerbyd, yn rheoli'r cyfan fel y mynno: efe yw'r Rheolwr mawr, gair yr hwn sydd (yn ddiau) yn gyfraith: os gwna ef ond dywedyd, Dere, dos, gwna hyn; digon yw. Pwy ni fyddai ddeiliad i'r fath Dywysog? mwy o lawer ei anwylyd? etto y rhagorfraint oruchet hon, a ganiattair i bob enaid ag sydd mewn gwirionedd yn cymmeryd gafael yn ei gyfammod ef; canys y cyfammod a gynnwys y cwbl, i dragywyddoldeb: a grym y cyfan sydd yn sefyll yn y geiriau cynhwysfawr hyn, "Myfi a fyddaf yn Dduw i chwi." Pan y mae'r Arglwydd yn ewyllysio cysuro ei bobl i bwrpas, a rhoi iddynt adenydd eryrod, pa mor ogoneddus y mae yn gosod allan ei nerth a'i holl-awdurdodol fawredd! yn Esaia xl, o'r 12 adnod hyd y 26. Ac yn dywedyd bod hyn oll yn eiddo hwynt. Ac os yw Duw yn eiddo chwi, pob peth sydd eiddo chwi: pwy, a pha le mae'r hwn a'ch difuddia o'i fendith! Chwi a ellwch orfoleddu yn ei fawredd, yr hyn sydd ddychryn i eraill i feddwl am dano. Yn ol coffa yr holl ddedwyddwch a'r gogoniant ag y mae dynion ac angylion yn abl i'w dderbyn, fe a grynhoir yn hyn, fel sail a swm y cwbl, "Gwyn eu byd y bobl y mae'r Arglwydd yn Dduw iddynt," Salm cxliv, 15.

4. Yma gwelwn, p'am y mae Duw weithiau yn oedi ateb yr amheuan a'r ymofynion yr ydym yn gofidio yn eu cylch; nid yn unig i ddangos ei Ben-arglwyddiaeth, ond i ddwyn ein calonau ni i adnabyddiaeth defnyddiol o hono. Yr oedd Moses yn dra anewyllysgar i fyned yn gennad at Pharao: llawer o esgusodion y mae yn ei wneuthur; ond fe allai mai y perygl yr oedd ynddo o ran lladd-yr Aiphtiad, oedd sail ei holl wrthddadleuon, er nad yw yn dywedyd hynny. Diau fod y gwyr oedd yn ceisio ei enioes ef wedi marw: yr hyn, pe gwybuasai, y mae yn debygol nad arferasai y cyfryw esgusodion: ond fe welodd Duw fod yn dda ei guddio oddi wrtho,

nes peri iddo yn gwbl ymddarostwng i'w ewyllys; ac yno y mae yn mynegi heb neb yn gofyn. Felly hefyd ni chymmerodd ef ymaith ei law oddi ar Job, nes iddo ddysgu yn dda y wers hon. Na ddywedwch gan hynny, (er iddo oedi) "Yr Arglwydd a'm gwrthododd, a'm Harglwydd a'm hanghofiodd." Eithr canlynwch y bwriad canmoladwy yn Esa. viii, 17. "Minneu a ddisgwyliaf am yr Arglwydd sydd yn cuddio ei wyneb (yn awr) oddiwrth dŷ Jacob, ac a wyliaf am dano."

5. Na fydded i neb gan hynny, ag sydd yn galw yr Arglwydd yn Dduw, ryfygu cyn belled yn erbyn ei Fawrhydi nefol, ag ymofyn am un rheswm o'i arfaeth, heblaw boddlonrwydd ei ewyllys. Ni all mawrhydi o glai oddef y fath beth, mewn deiliaid, o'r un ddefnydd ag ef ei hun. Dirgelwch godidog yw: "Y pennaf o ffyrdd Duw;" iddo ef yn unig y perthyn ei wybod; ni wnai ei dyall hi ddim lles i ni: heblaw hynny, y mae digon o bethau tra pherthynol i'n 'stâd bresennol wedi eu datguddio, heb ruthro i mewn i'r arfaeth. Trwy gyrraedd gormod, y gallwn anafu ein dwylaw, a'u gwneuthur yn anaddas i'r peth a allasant, ac heb ennill dim budd. Na cheisiwch, gan hynny, fesur y dyfnder mawr hwn: pwy ond un byr o ddeall, a feddyliai fesur y môr â'i ddwrn? neu roddi rheswm amlwg o'i lanw a'i ddistyll? "Cofiwch fawrhau ei waith," ond na leihewch ef trwy gymmeryd arnoch ei ddyall. Eithr "sancteiddiwch yr Arglwydd" yn eich calonau, "a bydded efe yn arswyd i chwi; ac efe a fydd yn noddfa," Esa. viii, 13, 14.

6. Yma gwelwn yr achos, paham y mae dynion mawrion mewn dysg a doniau naturiol, mor dywyll ac anwybodus mewn pethau ysbrydol; yn enwedig yn yr athrawiaeth o etholedigaeth; paham y maent mor gryf yn ei wrthwynebu, ac mor anhawdd yn heddychu âg ef. Ni ddarostwngwyd mo honynt (yn gywir) i'r athrawiaeth o Ben-arglwyddiaeth Duw: ac am hynny, pan wrth drin y pyngciau hyn o ffydd, yr edrychant trwy yspienddrychau rheswm, y maent yn colli eu hunain a'r gwirionedd: yr hwn, p'odd hynnag, a ddatguddir, mewn mesur, i rai bychain, (dynion byr o gorpholaeth, o'u cyffelybu i rai uchel o ddysg) rhai y mae Duw wedi eu darostwng i ymfodloni i'r hyn a ddywedo eu Tad wrthynt: ac am bethau eraill (sef dull ac achos arfaethau a goruchwyliaethau Duw) y maent yn byw trwy ffydd yn ei gyfiawnder ef, gan ddisgwyl am y dydd a ddatguddia'r cwbl; pan byddo i babel Duw, yr hon sy'n awr yn y nefoedd, gael ei gollwng i lawr i blith dynion, (neu iddynt hwy gael eu cymmeryd i fynu atti) ac y bo dirgel bethau Pen-arglwyddiaeth yn fwy cydnabyddus iddynt.

Yn olaf, Yr athrawiaeth o Ben-arglwyddiaeth sydd yn cymmeryd ymaith yn gwbl yr holl ddychymyg-waith, a'r tywod ar y rhai mae ymddiffynwyr ewyllys rhydd ras (neu'r athrawiaeth o ufudd-dod diddichell, yn lle ufudd-dod perffaith) yn sylfaenu eu hetholedigaeth, ac yn egluro yr etholedigaeth ysgrythyrol; gydâ'r gwirioneddau pwysfawr eraill sydd yn perthyn iddi: y rhai sydd oll yn dechreu yn Mben-arglwyddiaeth Duw; ac yn tarddu oddi yno fel yr afonydd o'r môr: fel y caf (ddangos trwy gymmorth gras) yn ei briodol le. Ac felly mi ddiweddaf y rhan gyntaf o'r rhagymadrodd â geiriau hyfryd-sain y Salmydd; "Ymddyrrha, Arglwydd, yn dy nerth: canwn a chanmolwn dy gadernid. Yr Arglwydd a barottodd ei orseddfa yn y nefoedd: a'i frenhiniaeth ef sydd yn llywodraethu ar bob peth! Bendithiwch yr Arglwydd, ei holl angylion ef; cedyrn o nerth! Bendithiwch yr Arglwydd, ei holl luoedd ef; ei holl weision yn gwneuthur ei ewyllys ef! Bendithiwch yr Arglwydd, ei holl weithredoedd ef, yn mhob man o'i lywodraeth! Fy enaid, bendithia'r Arglwydd!" Salm xxi, 13. ciii, 19, &c.

AM

GYFIAWNDER DUW.

GWEDI gosod sail y Traethawd hwn ar Ben-arglwyddiaeth Duw, megis y sylfaen oreu a mwyaf naturiol i ddistewi rheswm y'nghylch etholedigaeth: yn awr, i lonyddu ein hysbrydoedd, a'u heddychu â'r athrawiaeth o Ben-arglwyddiaeth, cofiwn yn nesaf am ei Gyfiawnder ef; ac yr wyf yn meddwl nad oes dim yn fwy rhesymol, nac yn gosod mwy o rwymedigaeth i ufudd-dod, nâg ystyried,

NAD OES DIM ANGHYFIAWNDER GYDA DUW, Salm xcii, 15. Rhuf. ix, 14. Heb. vi, 10.

Dyma gysswllt naturiol Pen-arglwyddiaeth Duw, ac megis yr ydym yn anhepgorol rhwym i'w gredu, felly mae crediniaeth ddiysgog o hono, yn dra buddiol i ni yn mhob cyflwr; yn enwedig tan y goruchwyliaethau tywyll hynny, y rhai ni allwn yn bresennol ganfod yr achos na'r dyben o honynt: pan bo pethau o bwys mawr yn ymddangos yn anhrefnus, ac megis wedi eu hesgeuluso: pan bo pob peth (mewn golwg) yn digwydd yr un modd i bawb; ac, "Na

adwaen dyn na chas na chariad wrth yr hyn oll sydd o'u blaen," Preg. ix, 1. gwel 2 Thes. i, 6, 7. Mi gasglaf, gan hynny, rai ystyriaethau ag allont fod yn bleidwyr dros y testun, yn feddyginiaeth yn erbyn syniad y cnawd ac anghrediniaeth; ac oddiwrth ba rai gallwch gael peth goleuni (fel y cefais inneu gynt) ar ddydd tywyll.

I. Y cyntaf a sylfaenir ar yr anfeidrol happusrwydd oedd gan y Duw goruchaf ynddo ei hun, cyn bod byd, na gwneuthur un creadur. Ni wnaeth mo honynt, am fod yn rhaid iddo wrthynt; ond "o herwydd ei ewyllys ei hun." A chan nad oedd rhaid iddo wrthynt, nid all bod rhaid na rheswm iddo eu gwneuthur y cyfryw, ac i'r cyfryw ddyben, fel na allai yn ddoeth eu goruwch-reoli, a dwyn y dyben i ben heb wneuthur yn anghyfiawn. Yr annogaethau a dueddant ddynton i wneuthur yn anghyfiawn, ydynt ddau, yn enwedigol: sef, 1. 'I ddyfod o hyd i ryw beth nad oes ganddynt.' Ahab a laddodd Naboth am ei winllan; ac Athalia, yr holl had brenhinol, fel y cai hi'r orseddfaingc. Neu, 2. 'I sicrhau yr hyn sydd ganddynt.' Pharao a orthrymodd y bobl, rhag iddynt fyned yn alluog, a bwrw ymaith ei iau. Jeroboam a osododd i fynu y lloi, i gadw'r bobl gartref, fel y byddent ffyddlon iddo ef. Yr Iuddewon a laddasant ein Iachawdwr, rhag i'r Rhufeiniaid ddyfod a difrodi eu lle a'u cenedl. Un o'r ddau beth hyn oedd tadog yr holl orthrymder a'r anghyfiawnder a fu yn y byd: ond ni all yr un o honynt ddigwydd i'n Duw mawr bendigedig; canys pob peth sydd eiddo ef: efe biau'r nefoedd a'r ddaear, a'u holl luoedd, ac a all eu trefnu fel y mynno. Ac o ran diogelu'r hyn sydd eiddo, pwy sydd raid iddo ei ofni? gan "nad oes un Duw arall ond efe," Esa. xlv, 6, 8. Ac, 2. O ran y creaduriaid, y maent oll yn fwy darostyngedig i Dduw, nâg yw'r llwch lleiaf dan ein traed i ni. "Yr holl genhedloedd ger ei fron ef ydynt lai nâ dim, ac na gwagedd," Esa. xl, 17. Nid rhaid iddo gymmaint a chyffwrdd â hwynt i'w tynnu i lawr; "Os casgl efe atto ei hun ei Ysbryd a'i anadl ef; pob cnawd a gyd-drenga." Os yr Arglwydd a attal ei gymmorth, hwy a ddiddymir o honynt eu hunain; eithr yr un yw ef trwy bob cenhedlaeth.

II. Rheswm arall a gymmerir oddiwrth anfeidrol Berffeithrwydd ei natur ef. Yr hyn mae'r Seraphiaid yn ei gyhoeddi, lle maent yn dywedyd, "Sanct, Sanct, Sanct:" a'i ad-adroddiad sydd yn dangos y perffeithrwydd mwyaf. Y mae Moses (yr hwn a ga'dd ddyfod yn agosach at Dduw nâ neb arall) yn gosod, "Gogoneddus mewn sancteiddrwydd," yn flaenaf o'i orfoleddus briodoliaethau ef, Ecs. xv, 11.

Yr hyn sydd yn fyr yn cynnwys holl rhagoriaethau'r Duw-dod. Ni wna yr Arglwydd cyfiawn ddim anghyfiawnder; ei olygon sydd lanach nâg yr edrych arno. Eglurhad rhagorol o'i odidawgrwydd yw, "Na ddychon ef wadu ei hun;" sef, na all ef wneuthur dim ag a fo mewn un modd yn groes i'w natur sanctaidd; dim ag a fo achos iddo gyfnewid ei feddwl o'i blegid. Ei ewyllys yw rheol cyfiawnder, a chyfiawnder yw rheol ei ewyllys. Yr oedd y seintiau yn y prif amser yn hollol o'r meddwl hwn; "Oni wna Barnwr yr holl ddaear farn?" Ac y mae'r apostol yn ei osod fel cwestiwn na ellir ei ateb, os Duw sydd anghyfiawn, "Pa fodd y barna ef y byd?"

III. Hyn hefyd sydd eglur wrth Rhagluniaethau Duw, y rhai nid y'nt Ddamweiniol, ond mewn Trefn. "Y mae ef yn gosod barn wrth llyn, a chyfiawnder wrth bwys." Ni chystuddia ef ond wrth achos, ac yn ol haeddiant. O ran pechod Sodom, "Disgynaf, (medd yr Arglwydd) ac edrychaf, ai yn ol y waedd a ddaeth attaf fi, y gwnaethant yn hollol. Efe a dâl i bob un yn ol ei weithredoedd. Ac a roiff i bob trosedd ei gyfiawn daledigaeth. Ni wrthyd Duw y perffaith; ac nid ymeifl efe yn llaw y rhai drygionus." Y mae Eliphaz, (fel y gallai yn hawdd) gydâ hyfder mawr yn gofyn, "Pwy, ac efe yn ddiniweid, a gollwyd?" Job iv, 7. Y mae ei gyfiawnder y cyfryw, ag sydd hyd yn oed yn attal ei ddwyliaw, nes bo'r cyfiawn allan o berygl. Y mae yn gorchymyn yn gaeth i'r angylion, na ddechreuent dywallt digofaint Duw ar y byd drygionus, "nes selio ei wasanaethwyr ef," Dat. vii, 3. Pryd y mae yr Arglwydd yn dysod i ddifrodi Sodom, y mae yn gyrru Lot gyfiawn ar frys i Soar, o herwydd, eb' efe, "Ni allaf wneuthur dim nes dy ddyfod yno."

IV. Y mae'n eglur hefyd wrth y Cyfreithiau a roddodd ef i ddynion; swm y rhai yw gwneuthur cyfiawnder, a'u dyben daioni a hawddfyd y creadur. Yn ol eu profi tros fil o flynyddau, a'u cyffelybu â ffrwyth dychymygion dynion, yr y's yn cyfaddef eu bod "yn farnedigaethau uniawn, a chyfreithiau gwir, deddfau a gorchymynion daionus." Gwelwch gofrestr o'u ffrwythau yn Rhuf. xii, 12. a Gal. v, 22.

1. Cyfreithiau yn dangos ein dyledswydd i Dduw, y rhai a gynhwysir yn gryno yn yr ymadrodd hwn, "Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac efe yn unig a wasanaethu." Diau nid oes dim yn fwy union a da, nâg addoli, caru, a byw i'r hwn a'u gwnaeth, ac sy'n cynnal bywyd ynom; yn enwedig pan

ystyriom, mai “ ein heinioes ni yw ei orchymynion ef.” Deut. xxxii, 47.

2. Y rhai sydd yn perthyn yn fwy digyfrwng i ni ein hunain; megis sobrwydd, diweirdeb, cymhedroldeb, a'r cyfryw. Y rhai sydd fuddiol iawn i'n daioni oddi allan, o ran iechyd, cyfoeth, hiliogaeth a'r fath, (yn enwedig i'n cysur ysbrydol) fel y mae yn eglur oddiwrth y gofidiau sy'n canlyn y troseddwy'r o honynt.

3. Y cyfryw orchymynion, ag sydd yn perthyn i'n dyledswydd i ddynion; megis, “ Gwneuthur barn; hoffi trugaredd; dilyn heddwch â phawb; gwneuthur ein gorchwylion ein hunain, heb ymyrred â matterion rhai eraill; ymddarostwng i'r awdurdodau y sydd, a gweddio dros rhai mewn goruchafiaeth,” barnwyr, llywodraethwyr, &c. Y dyledswyddau hyn a gynhwysir yn gryno yn y reol safadwy hon, sef, “ Gwneuthur i eraill fel yr ewyllysiem iddynt hwythau wneuthur i ninnau.” O'r tu arall ni waherddir dim, oddi eithr yr hyn sydd er niweid i ni, fel y gellid, pe byddai rheidiol, ddangos mewn aneirif bethau.

4. Y gorchymynion caeth ag y mae Duw yn eu rhoddi i'r rhai sydd yn gweini'r gyfraith tano ef; megis, “ I farnu'r bobl â barn cyfiawnder; heb wÿro barn, na derbyn wynebau: y mae yn melldithio y rhai a wÿrant farn,” Deut. xxvii, 19. “ A chan geryddu efe a gerydda y neb a dderbynio wyneb, &c. Ac a fydd dyn marwol yn gyfiawnach nâ Duw?”

5. Pelydr arall o Gyfiawnder Duw sy'n disgleirio, yn ei waith yn gosod ein dyledswyddau yn y fath drefn ag sydd yn eu gwneuthur yn dra hawdd, ac yn dra buddiol i'n prif ddyben, megis, (Yn 1.) “ Cofio ein Creawdwr yn nyddiau ein hieuengctid.” O herwydd rhaid bod troedigaeth at Dduw yn hawddaech y pryd hwnnw, nâg yn ol hir ymarfer â drwg: canys calon ddiedifeiriol sydd (nid yn unig yn digio Duw, ond hefyd) yn dyeithro oddi wrtho yn fwy: a thrwy fynych bechu, yn mwynhau gwaith edifeirwch, ac yn lleihau ein nerth i edifarhau; “ Ni ddychon yr Ethiopiad newid ei groen, neu'r llewpard ei frychni.” Ac, yn wir, yn anaml y genir dyn drachefn ac efe yn hen!

(Yn 2.) Gwylid yn erbyn Cynhyrifiadau cyntaf pechod, a gochelyd beth bynnag a all fod yn Achlysur o hono. Ac i'r dyben hwnnw, “ gwylid ar ein hysbryd: cadw ein calon yn dra diesgeulus: ymgadw rhag pob rhith drygioni: cashau y wisg a halogwyd gan y cnawd: a gwneuthur ammod â'n llygaid,” fel y gwnaeth Job, pen. xxxi, 1. Canys mae profiad cyhoedd rhai seintiau yn gyfarwyddid i eraill, ac yn

dwyn awdurdod gorchymyn: a diau, hawddach yw cadw gelyn i lawr, ná'i daro i lawr! Mynych dorri blaguryn pren neu lysieuyn (ac felly pechod) pan y bo yn blaen-darddu, a wna i'r gwreiddyn grino.

(Yn 3.) Na wnelom y peth y b'om yn ammeu ei gyfreithlondeb; yr hyn, fel y mae yn bechod ynddo ei hun (megis "pob peth nad yw o ffydd") sydd yn ein hanalluogi i ddosparthu rhwng drwg a da, ac a ddysg i ni gyfeiliorni y'mhellach. Y dylem ystyried, nid yn unig pa beth sydd gyfreithlon, ond hefyd pa beth sydd yn lleshau: y diffyg o hyn sydd yn fynych yn peri i eraill bechu, ac ni's gallwn ninnau fod yn ddiuog. Y dylem faethrin pob cynhyrriad at ddaioni, peidio "diffodd yr Ysbryd;" ond gwranddo yn ystyriol beth a ddywed yr Arglwydd; yr hwn yn fynych sydd yn adrodd ei feddwl mewn "llef ddistaw fain;" ac am hynny y dylenn roddi gosteg fwy.

(Yn 4.) Cyfiawnder Duw a eglurir yn ei waith yn dwys orchymyn y dyledswyddau sylfaenol o ffydd, cariad, amynedd, hunan-ymwadiad, &c. 1. Ffydd, sef, ymostwng i Gyfiawnder Duw, ("gan gredu'r dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab") cymmeryd gafael yn ei nerth, a chanlyn ei ddoethineb: ac i'r dyben hwn y mae yn dangos i ni ein pechod, ein gwendid, a'n ffofedd; ynghyd â gwagedd yr holl greaduriaid, y rhai a ballasant erioed, pan oedd rheitaf wrthynt. Ac felly mae yn dwyn ein calonau i orphwys arno ef yn unig, yn yr hwn y mae i ni "gyfiawnder a nerth." 2. Cariad; yr hon sydd egwyddor nerthol, gweithgar, hynawsaidd, garuaidd: "yn dyoddef pob dim; heb feddwl drwg; ond yn ymaros â phob dim;" yn gwneuthur yn esmwyth ac yn beraidd, yr hyn hebddi a fyddai yn chwerw a blinderus. 3. Amynedd ac addfwyndra ysbryd; y rhai sydd yn esmwythau poen cystuddiau, ac yn fynych yn rhagflaenu ac yn darostwng y dymhestl cyn ei chodi; "Atteb arafaidd a ddettry lid." Mae amynedd hefyd yn peri "profiad, go-baith, &c." Rhuf. v, 4. Sef, 1. Y galiwn ddwyn pob cystudd trwy yr hwn sydd yn ein nerthu. 2. Fod cerydd er lleshad i ni. 3. Na allwn fod hebdo. 4. Y mae yn peri i ni ddyall meddwl yr Arglwydd yn ein cerydd: ac mewn trefn i faethrin ynom yr amynedd hwn, y mae'r Arglwydd yn gosod o'n blaen, 1. Fod achos wrth pob cerydd, a hynny ynom ni ein hunain. 2. Nad o'i fodd y mae yn cystuddio; eithr yn ceryddu wrth fesur. 3. Fod ei gystudd er dybenion grasol. Megis, 1. I'n darostwng am ein pechod, fel y gwnaeth Joseph â'i frodyr. 2. I buro ein sothach fel yn

achos Manasse, 2 Cron. xxxiii, 11. ac Israel oll, Esa. xxvii, 9. 3. I ragflaenu pechod; felly y cadwodd ef Paul rhag ei dradderchafu. 4. I ddiddwn oddiwrth y byd; hyn a ddisgwyl-iodd oddiwrth Baruc, Jer. xlv, 4, 5. a hyn oedd yr effaith ar Asaph, Salm lxxiii, 25. 5. I arfer ein grasusau; megis cadarn ffydd Abraham trwy amryw brofedigaethau; Paul oedd yn fynych tan wendidau, fel y mawrhygai nerth Crist. 6. Trwy brofedigaethau llai, a gwardigaeth oddi wrthynt, yr ydys yn ein cymhwyso i ddwyn rai mwy heb lwfrhau. 7. Hunan-ymwadiad; yr hon ddyledswydd sydd yn dra rheidiol i ni, gan nad oes gennym un gelyn gwaeth yn rhyfela yn erbyn ein heneidiau, nâ hunan-gariad, a chwantau cnawdol. Ystyriaeth o'r pethau hyn a ddengys mai gwir a ddywed Dafydd; "Da ac uniawn yw yr Arglwydd; o herwydd hynny, y dysg efe bechaduriaid yn y ffordd."

V. Y mae Cyfiawnder Duw yn ymddangos y'mhellach, wrth ei waith yn gwobrwyo, neu yn cospi am weithredoedd da a drwg, yn ol eu priodol anian, a'r hyn sydd yn naturiol yn tarddu oddi wrthynt: "Beth bynnag a hauo dyn, hynny hefyd a fêd efe: pob hedyn a gaiff ei gorph ei hun: efe a rydd i bob un yn ol ei ffyrdd ac yn ol ffrwyth ei weithredoedd." Y mae mewn sancteiddrwydd dueddiad i fywyd a thangnefydd: "Ffrwyth pren y bywyd" ydyw. Gras a gogoniant sydd yn tyfu ar yr un gwreiddyn: iechydwriaeth yw diwedd ffydd; y blodeuyn sy'n tarddu o honi. "Gwaith cyfiawnder sydd heddwch, a'i gweithred sydd llonyddwch, a diogelwch, hyd byth." Hi a elwir weithiau "yn ffordd y bywyd;" weithiau yn "ffynnon y bywyd." Y mae hi yn tywys i fywyd. "Os sanctaidd y gwreiddyn, y mae'r canghenau hefyd felly."

Felly hefyd y mae o ran pechod; marwolaeth sydd yn canlyn pechod, nid yn unig fel cosp am gamwedd, ond hefyd fel ei ffrwyth naturiol. Llygredd natur yw'r gwreiddyn; pechod y canghenau sy'n tarddu oddi wrtho; marwolaeth ei ffrwyth wedi addfedu. Pe na byddai cyfiawnder i gopsi pechod, pechod a fyddai gopsi iddo ei hun: pechaduriaid sydd "yn cynllwyn am eu gwaed eu hun. Eu drygioni eu hun sy'n eu cospi. Ffordd pechod sydd yn gwyro at angau, a'i lwybrau at y meirw; a'i gerddediad a sang uffern," Diar. ii, 18. a'r v, 5. Anghrediniaeth all fod yn siampl o'r cwbl, allan o'r hwn y mae pob pechod yn tarddu: hwn oedd gwreiddyn gwrthgiliad Adda; holl wrthryfelgarwch y bobl yn y diffeithwch; a gwaith yr Iuddewon yn gwrthod Crist. Ffydd sydd yn cadw'r enaid gydâ Duw, ei fywyd, a'i ddedwyddwch; anghrediniaeth sydd yn ymadael âg ef; neu yn

gollwng gafael arno, fel y mae yr enaid yn ymadael o hono ei hun: a'r cam cyntaf oddiwrth Dduw, yw pen y ffordd i angeu; megis y mae'r gangen a dorwyd ymaith, yn crino o honi ei hun.

VI. Yr athrawiaeth hon a gadarnhair trwy gydsyniol dystiolaeth y rhai sydd fwyaf addas i farnu. 1. Maent yn ei chyhoeddi felly, Job xxxvi, 3. a'r liv, 12. "I'm Gwneuthurwr y rhoddaf gyfiawnder: diau na wna Duw yn annuwiol, ac na wyra'r Hollalluog farn," medd Elihu yn Job xxxvi, 3. a'r xxxiv, 12. Ac medd y Salmydd, "Adwaenir yr Arglwydd wrth y farn a wna. Uniawn yw yr Arglwydd, ac nid oes anwiredd ynddo. Y mae yn caru cyfiawnder, ac yn cashau drygioni; teyrn-wialen uniondeb yw teyrn-wialen ei frenhiniaeth ef. Cyfiawnder a barn yw trigfa ei orseddfaingc ef.— Cywir a chyfiawn yw ei farnau ef," medd yr eglwys orfoleddus, Dat. xix, 2. 2. Maent yn ymddarostwng iddo, hyd yn oed pan deimlont gerydd Duw drymaf, a chabledd dynion chwerwaf, megis Eli, Hezecia, a Dafydd, fel y crybwyllwyd yn barod: i.e., pan oedd y driniaeth hon, i olwg rheswm, yn fwyaf afresymol; Job a yspeilwyd o'r cwbl, aeth yh atgas gan bawb, ac yntef "yn wr uniawn, yn ofni Duw, ac yn eilio oddiwrth ddrygioni;" etto medd efe, "Pe bawn gyfiawn, nid atebwn, eithr ymbiliwn â'm Barnwr," Job ix, 15. Gwelwch eiriau'r Salmydd yn mherson ein Iachawdwr bendigedig ("yr hwn ni wnaeth gam") a chlywch fel y mae'n diweddu ei gŵyn, "Ond tydi wyt sanctaidd, O tydi, yr hwn wyt yn cyfanneddu yn moliant Israel," Salm xxii, 3. Y mae Jeremi yn wir, yn dadleu, "Paham y llwydda ffordd yr anwir, ac y ffynna yr anffyddloniaid oll?" Ond buan y mae yn rhoi lawr ei arfau, gan ddywedyd, "Cyfiawn wyt, O Arglwydd, pan ddadleuwyf â thi," Jer. xii, 1. Gallwn y'mhellach ddangos, fod llais y drygionus (ac y mae tystiolaeth gwrthwynebwr mewn ffordd gyfiawnhäol yn bwysig) i.e., rai mwyaf digydwybod, dros y gwirionedd hwn: y mae Pharao yn rhoi ei dystiolaeth, "Yr Arglwydd sydd gyfiawn, a minneu a'm pobl yn annuwiol," Ecs. ix, 27. Ac felly hefyd y mae Adonibezec, Barn. i, 7. a Saul. 3. Y mae'r seintiau yn gorfoleddu yn nghyfiawnder Duw (fel y mae achos iddynt) ac yn galw ar eraill i wneuthur bynny hefyd: "Yr Arglwydd sydd yn teyrnasu, gorfoledded y ddaear. Llawenhäed y cenedloedd, a byddant hyfryd: canys ti a farni y bobl yn uniawn. Llawenhäed y nefoedd a gorfoledded y ddaear, o flaen yr Arglwydd; canys y mae yn dyfod, canys y mae yn dyfod i farnu'r ddaear." Ac o herwydd hyn y darfu i Paul

ac eraill, er bod y teimlad presennol o'u cystuddiau yn flinderus, etto orfoleddu ynddynt; a llawenhau yn ddirfawr, mewn gobaith o'r gogoniant, a "choron cyfiawnder," yr hon a barottoisai Duw, fel "Barnwr cyfiawn," iddynt:

VII. Cyfiawder Duw a eglurir trwy 'yr hyn sydd yn dyfod o'i ragluniaethau tywyllaf.' "Darfodiad terfynedig a lifa drosodd mewn cyfiawnder," Esa. x, 22. ac ni bydd ynddo ond cyfiawnder. Er bod ei bobl yn hir mewn gorthrymder, efe a'u dygodd allan o'r diwedd, gydâ mwy o gyfoeth. Ei waith yn eu harwain o amgylch yn yr anialwch, megis mewn drysni, ac yn eu dwyn, ar ot llawer o flynyddoedd, i'r lle y buasant o'r blaen, a fu'n "ffordd uniawn," Salm cvii, 7. "i wneuthur daioni iddynt yn y diwedd," Deut. viii, 16. Hir erlidigaeth Dafydd gan Saul, a'i gwnaeth yn fwy cymmws i'r frenhiniaeth; ac a'i cymhwysodd i fod yn brif ysgrifenydd i'r Brenin mawr: gan ddangos iddo mewn amser cyfaddas holl bethau'r cyflwr, a'r cyngor nefol ag y sydd addas eu gwybod ar y ddaear: a thrwy ei law a'i brofiad ef, y sicrhâer hwynt i ninnau; a hwn y'mysg eraill, "Gwyn ei fyd y gwr a geryddi di, O Arglwydd; ac a ddysgi yn dy gyfraith," Salm xciv, 12. Gwedi profi Job trwy gystuddiau, mae Duw yn ei ddwyn allan fel aur, ac yn bendithio ei ddiwedd yn fwy na'i ddechreuad. Mae'r cawell ffigys da yn cael ei ddanfôn i gaethiwed er daioni, Jer. xxiv, 5. Yr oedd erlidiau Paul er ei iechydwriaeth, Phil. i, 19. Ië, peth sydd fwy, yr ydoedd holl demtasiynau, tristwch, a dyoddefiadau Crist ei hun (y rhai ni bu eu bath erioed) i'r dyben i'w berffeithio i fod yn Dywysog iechydwriaeth! Heb. ii, 10, 18.

VIII. Cyfiawnder Duw sy'n hynod-ymiddangos yn y ffordd a drefnodd i wared ei etholedigion; ni chyfiawnha efe un o honynt (er iddo eu caru o dragywyddoldeb) ond wrth uniawn reol cyfiawnder; ac nid â un i mewn i'r gogoniant, ond trwy waed y cymmod. Taenellu'r drugareddfa â gwaed oedd arwydd eglur o hynny. Canys gogoniant Duw sydd yn ymiddangos, nid yn unig wrth drugarhau, ond wrth wneuthur hynny yn gyttunol â'i gyfiawnder. Rhan o'i enw a'i ogoniant yw, "ei fod heb gyfrif yr enwir yn gyfiawn:" ond pwy gan hynny all fod yn gadwedlig, gau fod yr holl fyd tan farn Duw? Y mae ffordd i ddangos drugaredd (yr hon sydd i'w rhyfeddu yn dragywydd) trwy yr hon y dangosir "amryw ddoethineb Duw," yn gystal â'i gyfiawnder; yn trefnu ffordd "i drugaredd a gwirionedd ymgyfarfod;" yr hyn a wnaethpwyd trwy drosglwyddo euogrwydd ei etholedigion ar un arall; yr hwn oedd abl i'w dwyn; ac i roddi cyfiawnach foddlonrwydd i'w gyfiawnder ef, nâg allasent hwy

byth roddi trwy eu dyoddefiadau personol: hyn hefyd a arwyddocawyd trwy gyfraith y bwch dihangol.

IX. Yn enwedig ystyriwch Grist ei hun; yn gymmaint a'i fod yn sefyll yn lle pechaduriaid, er ei fod yn "anwyl Fab," yn yr hwn yr oedd ei enaid yn ymhyfrydu; rhaid iddo gymmeryd eu holl wendid, a chael ei archolli am eu camweddau hwynt. Nid oedd bosibl i'r cwppan hwnnw fyned heibio oddi wrtho; er iddo trwy lefain cryf a dagrau offrwm gweddiau ac erfyniau at yr hwn oedd abl i'w achub. Y siampl anghyfartal hwn o Gyfiawnder ein Duw ni sydd yn mawr eglurhau yr hyn yr y'm yn son am dano, sef, 'Na all ein Harglwydd holl-awdurdodol lai na gwneuthur yn gyfiawn.'

1. Y mae'r athrawiaeth hon yn hollol ddifrodi gwag a rhyfygus hyfder pechaduriaid diedifeiriol; "Y rhai o herwydd na wneir barn yn erbyn gweithred ddrwg yn fuan, y mae eu calon yn llawn ynddynt i wneuthur drwg." Am fod yr Arglwydd "yn tewi," y maent "yn tybied ei fod yn gwbl fel hwynt eu hunain." Ni chyfrif ef yr anwir yn gyfiawn; ni thaw ef yn oestadol; er ei fod yn bwyllig, mae yn sicr; ac efe a dery adref o'r diwedd. Efe a gyfyd i farn, ac a drefna eu pechodau o flaen eu llygaid, ac a gyfrif â hwynt am yr holl ymadroddion celyd a ddarfu iddynt hwy (bechaduriaid annuwiol) eu llefaru yn ei erbyn. Efe a archolla goppa walltog (ben balch a rhyfygus) yr hwn a rodio rhagddo yn ei gamweddau. Saeth a ddryllia ei afu ef, ei ym-ysgaroedd a rêd allan, ac i lawr âg ef i uffern isod mewn munud. Paham gan hynny, y rhedwch ar dewder torrau i'w darianau ef? a gosod drain a mieri, mewn rhyfel, yn erbyn y tân ysol? A all soff sych breswyllo gydâ'r llosgfeydd tragywyddol? Pwy a ymgaledodd yn ei erbyn ef, ac a lwyddodd? Pa le y bydd ei obaith, pan cymmero'r Arglwydd ei enaid ymaith? gan hynny, gwybyddwch mae yr Arglwydd sydd Dduw.

2. Bydded i'r athrawiaeth hon yn hollol ymddiffyn sanctaidd a daionus ffyrdd Duw (yn gystal y rhai y mae ef yn rhodio ynddynt tuag attom ni, a'r rhai y mae yn orchymyn i minnau rhodio ynddynt tuag atto yntef) oddiwrth y toster, yr afrywiogrwydd, y gerwindeb, a'r coegedd ag y mae yn-fydrwydd dynion yn edliw iddynt: o herwydd ffyrdd hyfrydwch yw ffyrdd doethineb, a thangnefedd fydd i bawb a rodio ynddynt; a phwy bynnag a ddywedo amgen, ni wna ond datguddio ei anwybodaeth. Mae'n rhaid cyfaddef fod amryw sydd â'u calonau yn ffyrdd da Duw, yn rhy fynych yn gwyro eu camrau ac yn cloffi ynddynt: eithr diau mai

nid yn y ffyrdd, ond yu y dynion y mae'r bai. Yr efrydd sydd gloff yn mhorth Solomon (ar y tir gwastattaf) ond y discloff a gerdd yn esmwyth mewn lleoedd garwach. Y ddeddf a'n calonau oeddent unwaith yn gwbl unol: yr anghyttundeb a ddaeth i mewn trwy ein ymadawriad â'n cyflwr cyntaf. Na roddwch le, gan hynny, i un meddwl gwael am gyfreithiau a threfniadau Duw, ond cyfiawnhawch hwynt i'r eithaf, a chymmerwch y cywilydd i chwi eich hunain, megis y gwnaeth Paul; "Sanctaidd yw'r gorchymyn, eithr myfi sydd gnawdol."

3. Gan na all Duw lai na gwneuthur Cyfiawnder, bydded i ni oll (ac i bob un o honom) ochelyd pechod, yr hwn y mae mor anhosibl heddychu sancteiddrwydd a chyfiawnder Duw âg ef: ymgadwch rhag y pechodau lleiaf, meddaf, yn nghyfrif dynion, neu o'u cyffelybu i bechodau eraill. Nid yw eich bod yn perthyn i Dduw, yn eich esgusodi? Canys, "Chwi yn unig a adnabum, am hynny ymwelaf â chwi am eich holl anwireddau," Ië, Moses ei was ef a gauwyd allan o Ganaan, am iddo un waith lefaru yn anystyriol â'i wefusau: ac er ei fod yn mawr ddymuno myned i'r wlad dda, ac iddo yn daer ymbil â'r Arglwydd; etto ni wrandawai yr Arglwydd arno: "Na chwanega lefaru wrthyf mwy am y peth hyn." Dibrisio y pechod lleiaf o ran amllder gras, yw pechu yn erbyn eich enaid eich hun, a chyfrif gwaed Crist yn beth cyffredin. Er ei fod yn dy garu, fel na chymmero byth ei garedigrwydd oddi wrthyf; etto ni âd it' fyned yn gwbl ddi-gosp: ië, fe all yr Arglwydd guddio oddi wrthyf y teimlad o'i gariad, a'th wneuthur yn deimladwy o'i anfoddrwydd, nes bo dy esgyrn yn friw. Canys rhaid iddo wrthwynebu pechod, er daioni i ni, yn gystal ag er ymddiffyn anrhydedd ei gyfiawnder.

4. Chwi y rhai ydych yn cyfaddef Cyfiawnder Duw, ac yn galw eich hunain yn blant iddo ef, dangoswch i'r byd wirionedd eich egwyddorion wrth eich arferion, amlygwch mai ei blant ydych, trwy fod yn gyffelyb iddo; "Gwnewch gyfiawnder, hoffwch drugaredd, rhodiwch yn ostyngedig." Dangoswch hynny hefyd trwy ei gyfiawnhau, ië pan bo tew gymmylau yn lloches iddo, a phan nad adwaenir ei ôl. Yr hwn nid yw yn adnabod llaw Duw, yn mhob digwyddiad, sydd yn gwadu ei Ben-arglwyddiaeth; a'r hwn sydd yn grwgnach sydd yn ammeu ei gyfiawnder: byddwch ddiuog o'r ddau.

5. Na chymmered neb drangwydd oddiwrth ddigwyddiadau presennol, ac na feddylied yn ddrwg am y sanctaidd Arglwydd Dduw. Fe all yr Achos o'i ffyrdd fod yn Ang-

hydabyddus, ond nid yn Anghyfiawn: "Y mae yn gweled trwy'r cymhylau tywyll," er na alloch chwi a minneu. Nyni a wyddom (neu a ddylem wybod heb gymmorth lladmerydd) "nad yw yr Arglwydd o'i galon yn cystuddio plant dynion;" ac "nid yw ei bobl ef" mewn tristwch ond ychydig; gan hynny, cydnebydd "ei uniondeb, ac efe a drugarha wrthyt." Gan ei gymmeryd yn rheol bob amser, fod holl ffyrdd Duw yn berffaith; ac na ellir na bwrw attynt, na thynnu dim oddi wrthynt. Da y dywedodd Job, "Pe lladdai efe fi, etto mi a obeithiaf ynddo ef."

Byddwch gan hynny ymarhous, hyd ddyfodiad yr Arglwydd, efe a farn y byd mewn cyfiawnder. Na fydded llwyddiant yr anwir, na beunyddiol gystudd y duwiol, yn dramgwydd i chwi: ewch i gyssegr Duw, yno y dyellwch eu diwedd hwynt, y rhai a fuont fyw mewn pleserau a thrythyllwch, a ddymunant bod eu heneidiau yn nghyflwr dy enaid ti, tan ei holl ofidiau: ac ni bydd yn flinder i ti gofio dy fyr ysgafn gystudd; pan tarddo heddychol ffrwyth cyfiawnder oddi wrtho; pan y byddost o ran syndod sanctaidd yn dywedyd yn dy galon, 'A myfi yn ddieppil, yu unig, yn gaeth, yn grwydr (heb le i breswyllo) pwy a genhedlodd y rhai hyn i mi! o ba le y daethant; o ba wreiddyn y tyfasant! nid oedd fy nghystuddiau ysgafn yn haeddu eu cyffelybu i'r gogoniant hwn!' Ni bydd edifar gan yr hwn sydd yn dwyn ei ysgubau adref mewn llawenydd, iddo hau mewn tristwch. Eithr tra byddoch yn myned y'mlaen tua'ch cartref fendigedig, fe allai fod yn fuddiol i'ch fyfyrion ar y fath ysgrythyrau a rhai'n: "Er gwneuthur o bechadur ddrwg gan waith; ac estyn ei ddyddiau ef; etto mi a wn yn ddiau y bydd daioni i'r rhai a ofnant Dduw: ond ni bydd daioni i'r annuwiol: diau fod ffrwyth i'r cyfiawn; diau fod Duw a farna ar y ddaear; a'i farn ef sydd yn ol gwirionedd; a gwyn eu byd i'r rhai oll a ddisgwyliant wrtho."

Yn olaf, Yr holl wrthddadleuon yn erbyn Etholedigaeth diammodol, personol, tragwyddol; Prynedigaeth neilltuol; Galwedigaeth effeithiol, a gras anorchfygol yn nghalon y credadyn, a ddisflannent ac a aent i'w lle eu hun, pe byddai i'r un gwirionedd hwn gael ei gredu a'i dderbyn mewn cariad, sef, 'Bod gan Dduw gyflawn awdurdod ar ei creaduriaid, i'w trefnu a gwneuthur â hwynt fel y mynno; ac na all fod yn anghyfiawn wrth wneuthur felly.'

Ac felly yr ydwyf yn dyfod at yr hyn yr oeddwn yn fwriadu ar y cyntaf: sef—

AM

ETHOLEDIGAETH.

Y MAE'r athrawiaeth o Etholedigaeth yn cynnwys holl swm a sylwedd yr efengyl; ac ni all ein meddyliau (os ydynt wedi eu darostwng yn iawn i'r athrawiaeth o Ben-arglwyddiaeth Duw) fyfyrion ar beth mwy rhagorol. Hi a elwir yn sail Duw, nid yn unig o ran ei godidawgrwydd, ond o herwydd mai Duw ei hun yw'r Awdwr o honi, ac mai efe yn unig a'i gosododd: hon yw'r sylfaen, sydd yn sefyll yn sier, ac yn diogelu pawb sydd arni; canys, "Duw a edwyn y rhai sydd eiddo ef."

Etholedigaeth yw dewisiad tragywyddol gariad; neu foddlonrwydd Duw yn dewis ac yn arfaethu i fywyd tragywyddol: Dinas-rhòl fawr y nefoedd; y weithred dibwrcas a seliodd Duw i'w etholedigion, wedi ei ymddiried i Iesu Grist, i'w budd a'u daioni hwynt. Yn awr, mewn gweithred dibwrcas (fel y bo'n gyfreithlon) rhaid bod enw y rhoddwr i'r hwn y rhoddir iddo, cynhwysiad y rhodd, yr amser ei selwyd, a'r ystyriaethau a'i cymbhellodd. A lle bo anallu, peth arferol yw ordeinio canol-wr i ddiogelu'r weithred, er lles y derbyn-iwr. Yr hyn oll sydd eglur yn Etholedigaeth yr ysgrythyr; ac a ellir ei gasglu i'r athrawiaeth hon—

Athr. **BOD POBL BRIODOL, WEDI EU HETHOL YN BERSONOL GAN DDUW YN NGRIST, YN OL EI FODDLONRWYDD EI HUN, A'U HORDEINIO I FYWYD TRAGYWYDDOL CYN BOD Y BYD.**

Cyn dyfod i brofi'r athrawiaeth, fe fydd i mi yn gyntaf eglurhau y geiriau; ac yn ol hynny roddi siamplau o Etholedigaeth is, sef, peth o lai bwys na bywyd tragywyddol; y rhai a ellir eu cyfrif yn gysgodau o hono.

I. Yr eglurhad. Y gair ["priodol"] sydd yn arwyddo rhyw beth wedi ei gadw a'i neillduoli at wasanaeth rhyw un yn unig; megis coron i'r brenin, gwraig i'w gwr, tir neu feddiannau i'r iawn berchen, &c. Ac yn mhob un o'r ystyriaethau hyn, y mae'r etholedigion yn bobl briodol i Dduw. **1.** Yr Iesu sydd Frenin, a'i bobl yw ei goron a'i hyfrydwch: ac er bod Satan, tywysog y byd hwn, yn eu gorthrymu dros amser, maent, yn ddiâu, yn perthyn i Dywysog y nefoedd;

ac efe a'u rhyddha o gaethiwed! 2. Maent wedi eu dyweddio iddo mewn cyfammod tragywyddol, ac efe a'u gwared o ddwylaw eu treiswyr, megis y gwaredodd Dafydd ei wragedd o law yr Amaleciaid, heb un yn eisiau. 3. Etifeddiaeth yr Arglwydd ydynt wedi eu hennill trwy ei lafur, trwy ei chwys, a thrwy ei waed! felly yr oedd rhandir Jacob yr hon a roddodd efe i'w fab Joseph, wedi ei hennill â'i gleddyf ac â'i fwa, Gen. lviii, 22. Ac ni ddyry mo honynt i neb, nac i ofal neb, na wna, hyd yn oed iddynt eu hunain!

["Ethol"] Priodol arwyddocad y gair yw neillduo, neu wneuthur dewis o un neu ychwaneg allan o lawer.

["Yn bersonol"] Hynny yw, wedi eu nhodi wrth eu henwau.

["Yn Nghrist"] Neu i Grist, fel eu Pen a'u Cyfryngwr; fel, trwy eu bod ynddo ef, y gallai'r holl ras a'r gogoniant, i'r rhai y dewiswyd hwynt, fod yn gyhiawn yn eiddo hwynt; a chael eu gwisgo am danynt.

["Ordeinio"] Yw rhaglunio pethau i ddyfod; yr hyn a wnawd felly, fel y bu, y mae, ac y bydd, pob peth yn dyfod i ben yn ol y rhagfwiad. Yn yr ystyr hyn ni all dynion rhagluniaethu, o herwydd na allant gydâ sicrwydd rhagfynegu y pethau sydd i ddyfod: ond yr oedd pob peth yn bresennol gydâ Duw er tragywyddoldeb; a'i arfaeth ef a barodd iddynt fod mewn amser.

Wrth ["fywyd tragywyddol"] yr wyf yn meddwl, nid yn unig weithredol feddiant o wynfydedigrwydd a gogoniant yn y nesoedd, yr hyn sy'n sefyll yn ei pherffaith gydffurfiad â Duw, "a'i hundeb âg ef," yn ol y 17 o Ioan; eithr hefyd beth bynnag sydd rheidiol i hynny; cyfryngdod Crist, galwedigaeth effeithiol, a pharhad hyd y diwedd mewn fydd a sancteiddrwydd: y mae'r cyfan yn gyssylltiedig mewn un adnod, megis yn perthyn i'r un personau yn ddiwahanedig, yn Esa. lxii, 12. lle y gelwir y rhai y parottöir y prif ffordd iddynt, "yn hobl sanctaidd;" yr hyn sydd yn dal allan eu Hetholedigaeth: yn "wardigion yr Arglwydd;" dyna eu Prynedigaeth: "Yr hon a geisiwyd;" lle mae eu Galwedigaeth effeithiol: "Dinas ni's gwrthodwyd;" dyna hefyd eu Parhad mewn Gras: y maent yma wedi eu gosod mewn trefn, fel y maent yn digwydd mewn amser; Etholedigaeth am hynny a elwir 'Rhag-barottöad i ogoniant.'

["Cyn bod y byd"] Yr hyn yn fyr a elwir Tragywyddoldeb, ac yn iaith yr ysgrythyr, "er tragywyddoldeb."

["Yn ol ei foddlonrwydd ei hun"] Hyn sydd yn dangos gwreiddyn Etholedigaeth; y sail ar ba un yr adeiledir hi;

ac yn cau allan bob peth arall rhag bod mewn un modd yn Achos o honi na Chyfranu dim tuag atti.

II. Er siamplau o radd is o Etholedigaeth; ystyriwch waith Duw yn dewis ac yn appwyntio rhai dynion ' wrth eu henwau' (a rhai o honynt ' cyn eu geni') i wasanaeth mawr ac enwog yn y byd; lle yr oeddent yn bortreïadau o'r Etholedigaeth yr ydym yn son am dani, ac yn eglurhad o honi.

Abraham a ddewiswyd i fod yn wreiddyn ac yn dad i bobl briodol Duw; y rhai a fyddai iddo eu hanrhydeddu uwchlaw cenedlaethau'r byd; " Ac fel y byddai i holl deuluoedd y ddaear gael eu bendithio ynddo ef:" lle cynhwysir addewid, y deuai'r Messia, neu Iachawdwr y byd o'i hiliogaeth ef: anrhydedd tra goruchel a rhyfeddol! ond beth oedd yn Abraham ag a allai gynhyrfu Duw i'w ddewis ef yn llyn o flaen y lleill o'i geraint? A oedd efe'n well nâ'r eilun-addolwyr eraill yn mysg y rhai yr oedd efe'n byw? Nag oedd mewn un modd; ond etto yr Arglwydd a'i neillduodd ef, ac a'i galwodd ef yn unig. Ac yn wir, ni allir rhoddi un rheswm amgen am hyn, nâ'r hwn y mae yn ei roddi am ei gariad i'w hiliogaeth ef; " Efe a'u carodd hwynt o herwydd iddo eu caru hwynt." Ac ni ddewiswyd ef i fod yn " dad llawer o geuhedloedd," na Sara i fod yn fam iddynt, o ran dim ffrwythlondeb naturiol ag oedd ynddynt tu hwnt i eraill: canys yr oedd corph Abraham yn awr yn farw: a Sara, heblaw ei bod yn anmhlantadwy, oedd wedi myned dros oedran planta; yr hyn a wnaeth iddi chwerthin wrth glywed yr addewid: canys pwy a ddewisai bren crîn a thir diffrwyth, i blannu gwinllan?

Y mae yn rhyngu bodd iddo wneuthur yr un modd â phlant Abraham; nid yw yn eu cymmeryd oll; eithr, " yn Isaac y gelwir i ti had." Ac er gwrando gweddi Abraham dros Ismael, cyn belled a'i fendithio ef; etto o ran y peth mwyaf, y mae Duw yn ei wrthod; ac yn llawn-fwriadu " cadarnhau ei gyfammod âg Isaac," yr hwn oedd etto heb ei eni.

Yr un modd y mae yn gwneuthur hefyd â phlant Isaac; " Jacob a hoffodd, ac Esau a gasodd:" felly y mae'r prophwyd a'r apostol yn dehongli'r geiriau hyn, " Yr hynaf a wasanaetha yr ieuangaf," Rhuf. ix, 12. Y gwahaniaeth hyn a wnaethpwyd cyn eu geni, ac a barhawyd i'w hiliogaeth ar en hol: y naill sydd yn " bobl wrth y rhai y llidiodd yr Arglwydd yn dragywydd; eu caethglud ni ddychwelir: a phan lawenycho yr holl wlad, hwy a fyddant yn anghyfannedd," &c. Mal. i, 4. Ezec. xxxv, 3. Eithr Jacob, " yr Arglwydd a'u dug hwynt i'w gwlad eu hun, a'u planna hwynt, ac a.

wna iddynt breswyllo yn ddiogel, gan wneuthur lles iddynt a'i holl galon," Jer. xxxii, 37. Eithr nodwch mae nid ymddygiad mwy rhagorol Jacob, nid dim a *rag-welwyd* ynddo, neu a *wnaethpwyd* ganddo, a ddaeth a'r fendith iddo ef: fe wnaeth Esau fwy am dani, a hynny yn fwy *gwirioneddol*: ac er i'w dad fendithio Jacob yn ddiarwybod, a thrwy gam-synnied; etto pan ddaeth i wybod hynny, y mae cyn belled oddiwrth alw yn ol yr hyn a wnaeth, ag y mae yn ei fawr gadarnhau; "Mi a'i bendithiais ef, bendigedig hefyd fydd efe." A fynwn ni wybod y rheswm o'r peth rhyfeddol (ac yn ngolwg dynion) afresymol hwn? hynny a fu, "fel byddai i'r arfaeth yn ol etholedigaeth Duw (yr hynaf a wasanaetha'r ieuangaf) sefyll, nid o weithredoedd, eithr o'r hwn sydd yn galw." Rhyfeddol y trefnodd Duw y cyfan yn y peth hyn, yr hyn sydd yn gyflawn bortreiad o dragywyddol Etholedigaeth: y mae yn eglur yn dal allan Ben-arglwyddiaeth Duw ar ei creaduriaid; Rhyddid ei ras, yn dewis y rhai lleiaf eu haeddiant, sicr Effaith ei fwriadau, gyda'i ddoeth a'i ddiogel drefniad o'r hyn oll sy'n perthyn i'w ddyben; a'i waith yn arfer moddion a chyfryngau, yn wrthwyneb i'w tueddiad naturiol a'u bwriad eu hunain.

Ac am yr Israeliaid: y bobl a ddewisodd Duw yn Abraham 400 o flynyddau cyn iddo eu harddel yn gyhoeddus: hwy a elwir yn "genedl etholedig," sef, wedi eu neillduo oddiwrth y lleill o'r byd: "rhywogaeth sanctaidd, pobl briodol," i Dduw. Efe a'u cymmerodd "yn rhan iddo ei hun, yn goelbren ei etifeddiaeth:" darllenwch ei eiriau ef; (canys geiriau gwerthfawr ydynt) "A chwi a fyddwch sanctaidd i mi; o herwydd myfi a'ch neillduais chwi oddiwrth bobloedd eraill, i fod yn eiddo fi; yr Arglwydd dy Dduw a'th ddewisodd di, i fod yn bobl unig iddo ei hun o'r holl bobloedd y sydd ar wyneb y ddaear. Cymmerodd yr Arglwydd ditheu heddyw, i fod yn bobl briodol iddo ef, ac i'th wneuthur yn oruwch yr holl genhedloedd. Ar dy dadau di y rhoddes yr Arglwydd ei serch, gan eu hoffi hwynt, ac efe a wnaeth ddewis o'u had ar eu hol hwynt, sef o honoch chwi, o flaen yr holl bobloedd," &c. Ond a oeddent hwy yn well na phobloedd eraill mewn Daioni, Mawrhydi, ac Ymddygiad rhagorol? A hynny a roddodd iddynt hawl i'r anrhydedd hwn? Nagê ddim; fel y mae yn amlwg, 1. Wrth y rheswm a roddir yno, "Chwi a fyddwch yn drysor priodol i mi o flaen yr holl bobloedd: canys eiddo fi yr holl ddaear." Yr hyn sydd fel pe dywedasai'r Arglwydd, Nid oes dim rhagor rhyngoch chwi a chenhedloedd eraill: mi allwn eu

cymmeryd hwynt, a'ch gwrthod chwi; edrychais o'r nefoedd a gwelais, mai'r un modd y mae tueddiad eich calonau. 2. Eu hymddygiad yn ol llaw a gyflawn ddangosodd hynny; a'r Arglwydd a'i rhagwelodd; "Gwyddwn y byddit lwyr anffyddlon, a'th alw o'r groth yn droseddwr; y byddit galed, a'th war fel geüyn haiarn, a'th dalcen yn bres; ac y gwneit yn unig yr hyn oedd ddrwg o'th febyd." Paham gan hynny y dewisodd Duw hwynt o flaen eraill? O ran ei gariad anhaeddiannol a'i ewyllys-da tuag attynt: "Efe a'u carodd, o herwydd iddo eu caru hwynt."

Dewch at Ddafydd: yr Arglwydd a ddarparodd iddo ei hun frenin yn mysg meibion Jesse, a rhaid i Samuel fyned i'w eneinio ef. Eithr rhaid ei fod yr hwn a ddywedai yr Arglwydd wrtho: nid yr henaf a'r mwyaf golygus; ac am hynny y mae yn dywedyd (pan yr oeddent yn myned o'i flaen ef) "ni ddewisodd yr Arglwydd hwn, na hwn, na'r rhai hyn;" ond Dafydd. Ni soniasai yr Arglwydd wrtho am enw Dafydd; eithr efe a wnaeth gystal a hynny: canys pan ddaeth Dafydd i mewn, y mae yn dywedyd, "Dyma efe, eneinia ef." A deliwch sylw, yr Efe yma oedd yr ieuangaf, y gwaelaf, a'r annhebyccaf; braidd y cyfrifid ef yn un o'r teulu; o herwydd ni ddygwyd ef i mewn yn mysg y lleill. A gwelwch ei amgylchiadau, ei waith oedd cadw'r defaid; ei fyfyrddod ar beth nad oedd wrol; yn ymarfer ei hun i gerddoriaeth. Gwelwch *hefyd* ei liw gwyn a gwridgoch; nid lliw milwr caled: etto rhaid i'r llangc ieuangc hwn, fod yn dywysog llu yr Arglwydd, y rhai oedd i ymladd â'r gelynion cadarnaf; ac am hynny oedd yn rheidiol iddynt wrth wr calonog, medrus, i drefu *eu* byddinoedd. Etto y Dafydd hwn yw'r dyn a fyn yr Arglwydd ei anrhydeddu i lywodraethu ei bobl, ymladd eu brwydrau, ac i wneuthur grymmusderau: o blegid nid yw Daw "yn edrych fel yr edrych dyn; nid edrych ef ar neb doeth eu calon," Job xxxvii, 24. Ac yn ddiau, nid oedd yn Nafydd ddim cynheddfau tywysogaidd, amgenach nâ'i frodyr. Eithr yn ol ei eneinio, daeth Ysbryd yr Arglwydd arno o'r dydd hwnnw allan. Ac yn ganlynol i hynny y lladdodd efe y llew, a'r arth, a'r cawr Golia!

Ystyriwch Jeremi: mae'r Arglwydd yn ei wneuthur ef yn brophwyd; yn ei osod ar genhedloedd ac ar y teyrnasoedd; yn rhoddi awdurdod iddo i ddiwreiddio ac i dynnu lawr, i adeiladu ac i blannu, &c. Beth oedd yr achos o hyn? beth a wnaethai Jeremi i beri i Dduw ei alw i'r gwaith ardderchog hwn? Dim; canys efe a ordeinasid i hyn cyn ei eni: "Cyn i mi dy lunio di yn y groth, mi a'th adnabum; a chyn dy ddyfod o'r groth, sancteiddiais di; ac mi a'th roddais yn

brophwyd i'r cenhedloedd:" a'i gyfaddefiad ei hun ydyw, "Ni fedraf ymadrodd, canys bachgen ydwyf fi."

Y mae gennym siampl arall yu Cyrus; yr hwn a arfaethwyd i waith mawr ardderchog: sef, ar fyr eiriau, i ddinystrio yr ymerodraeth euraidd; i ddryllio gordd yr holl ddaear; i ryddhau pobl Dduw o gaethiwed, ac i adeiladu ei deml ef: a hyn a brophwydwyd am dano fwy nâ chant o flynyddau cyn ei eni. Y mae'r Arglwydd yn ei alw "ei eneiniog, etholedig, ei fugail," yr hwn "a gyflawnai ei holl ewyllys:" y mae "yn ei alw erbyn ei enw;" yr hyn a adroddir ddwywaith, megis peth a haeddai ei nodi; "Myfi a'th elwais di, ie dydi, erbyn dy enw."

A ddewiswyd Cyrus yn llyn, o herwydd ei fod, neu y byddai ef yn dywysog nerthol? Gwrandewch beth y mae'r Arglwydd ei hun (yr hwn sydd oreu yn gwybod dybenion ei weithredoedd) yn ei ddywedyd am dano: "Fel hyn y dywed yr Arglwydd wrth ei eneiniog, wrth Cyrus, yr hwn yr ym-aflais i yn ei ddeheulaw, (hynny yw, mi a roddais iddo nerth, ac a'i dysgais pa fodd i'w arfer) mi a ddattodaf lwyni brenhinoedd, i agoryd y dorau o'i flaen ef: y dorau pres a dorraf, a'r barrau heiyra a ddrylliaf," &c. Eithr Cyrus ni "adwaenai" yr Arglwydd; yr hyn hefyd a ddywedir ddwywaith, megis peth i'w nodi, Esa. xlv, 1, hyd y 5.

Yn ddiweddaf, Y mae'r Arglwydd o'r nefoedd yn awdurdodi Paul i fod yn bregethwr cyffredinol yn mysg y cenhedloedd; i ddwyn ei enw o flaen brenhinoedd; i anrheithio teyrnas satan, ac i aflonyddu'r byd: ac i hyn y galwyd ef, pan yr oedd yn uwchder ei gynddeiriogrwydd yn herlid yr Enw hwnnw, yr hwn yr ydys yn ei anfon i'w bregethu; ac y mae Paul ei hun yn tystiolaethu, nad dim ynddo ef a barodd hynny, lle wrth son am ei alwedigaeth, y mae yn ei gyfrifi ewyllys-da a gallu Duw, yn gystal a'i enedigaeth naturiol, Gal. i, 15. Y gwreiddyn o'r hyn oll, a gynhwysir yn y gair hwnnw, "Y mae hwn yn llestr etholedig i mi," Act. ix, 15.

Myfi a allwn hefyd goffa Samson, Josia, Ioan fedyddiwr, ac eraill, i'r un dyben. O blegid, os oes Etholedigaeth bersonol i bethau o lai pwys; a hynny cyhyd cyn geni rhai o honynt; a chan fod arfaethau Duw yn ddiammad am y pethau hyn; pa faint mwy y maent felly mewn pethau o dragywyddol bwys! Ac os Duw ni edrychodd allan o hono ei hun, am ddim i'w gynhyrfu i ddewis y cyfryw bobl i'w hamrafael-leoedd a'u galwedigaethau, (a phe edrych'sai, diau na chawsai ddim) llai o lawer y bydd i Etholedigaeth i

fywyd tragywyddol, ac undeb âg ef ei hun, gael eu sylfaenu ar y creadur. A ofala Duw am ychen? ymresymu oddiwrth yr hyn sydd lai at yr hyn sydd fwy, sydd ffordd ysgrythyrol, ac yn profi yn nerthol.

Yn awr yr ydwyf yn dyfod i brofi'r athrawiaeth yn fwy eglur a neillduol; a fy ngwaith presennol uid yw gymmaint i brofi fod Etholedigaeth, ond i ddangos beth yw'r Etholedigaeth hon: sef, pa fath yw ei chynheddfau a'i hamgylchiadau; a hyn mewn perthynas i wrthddrychau Etholedigaeth, y dull, yr amser, a'r cynhyrsiadau o honi. Ond etto i barottoi y ffordd at y rhai'n, fe a allai fod yn addas son ychydig am y llall: ac felty (fel y bo i mi ei wneuthur yn eglurach) mi a rannaf yr athrawiaeth yn chwech o ranau: sef,

- I. Fod rhai dynion wedi eu hethol i iechydwrriaeth.
- II. Bod yr Etholedigaeth hon yn ddiammod.
- III. Ei bod yn bersonol.
- IV. Ei bod er tragywyddoldeb.
- V. Bod yr etholedigion wedi eu dewis yn Nghrist.
- VI. Bod Etholedigaeth wedi ei sylfaenu ar ras.

Yn ol profi'r pethau hyn trwy ysgrythyrau eglur, neu resymau wedi eu casglu oddi wrthynt; nid oes waeth gennym beth a ddywedir i'r gwrthwyneb. Dyfuoion bethau Duw ydynt, a ellir yn unig eu canfod yn ngoleuni'r ysgrythyr: ac am hynny ofer ceisio eu dangos un ffordd arall; "Canys pwy a wybu feddwl yr Arglwydd."

I. Fod rhai dynion wedi eu hethol i iechydwrriaeth.

Yr hyn a ddangosir yn eglur yn y geiriau sy'n canlyn; sef, "Llestri trugaredd wedi eu rhagbarottoi i ogoniant: yr etholedigaeth a'i casas: yr Arglwydd a chwanegodd at yr eglwys y rhai a fyddent gadwedig: a chynnifer ag oedd wedi eu hordeinio i fywyd tragywyddol, a gredasant:" eithr yn fwy neillduol yn yr 11 at y Rhufeiniaid, a'r 5 adnod. "Y mae gweddill yn ol etholedigaeth gras," 1 Thes. v, 9. "Nid appwyntiodd Duw nyni i ddigofaint, ond i gaffael iechydwrriaeth," 2 Thes. ii, 13. "Duw o'r dechreuad a'ch hetholodd chwi i iechydwrriaeth," &c. A'r rhei'ny a elwir yr Etholedigaeth; fel y gelwir rhai Enwaededig, yn Enwaediad: a'r angylion a safasant, a wahaniaethir oddiwrth y rhai a syrthiasant, wrth yr enw Etholedig. Fe a ddywedir hefyd mai "lestri etholedig" a "lestri trugaredd" ydynt; fel y gelwir y rhai a "adawyd," yn "lestri digofaint," a "meibion colledigaeth:" y mae yr ysgrythyr yn wastadol yn eu gosod allan wrth enwau gwahaniaethol.

Yn 1. Fel rhai wedi eu *neillduo* oddiwrth y byd: "Myfi (medd Crist) a'ch dewisais chwi allan o'r byd: nid dros y byd yr wyf yn gweddio, ond dros y rhai a roddaist i mi: o'r byd nid ydynt, megis nad wyf finneu o'r byd: i chwi y rhodded gwybod dirgelwch teyrnas Dduw: eithr i'r rhai sy allan, ar ddamhegion y gwnair pob peth:" am Jacob ac Esau (arwydd eglur o'r neillduaeth hwn) y dywedir wrth Rebecca, "Dwy genedl sydd yn dy groth di, a dau fath o bobl." ac am hiliogaethaeth Jacob; "Wele bobl yn preswyllo eu hun, ac heb eu cyfrif ynghyd â'r cenhedloedd: y bobl hyn (medd yr Arglwydd) a luniais im' fy hun:" y rhai'n yw'r Genedl Sanctaidd, Gwrthwynebwyr yw pawb eraill.

Yn 2. Fel pobl o Genedl arall, yn tarddu o Wreiddyn arall, "Ni sydd o Dduw, ac y mae'r holl fyd yn gorwedd mewn drygioni;" (neu yn yr un drwg hwnnw, megis eu gwreiddyn a'u pen): "Y mae'r hwn sydd o Dduw, yu gwrando geiriau Duw; am hynny nid ydych chwi yn eu gwrando, am nad ydych o Dduw." Y *naill* a elwir yn "blant y goleuni;" a'r *lleill*, o'r "nos:" y *naill*, o Dduw; y *lleill*, o'r byd; y *naill*, oddi uchod; a'r *lleill*, oddi isod: Duw, yw Tad y *naill*; a'r diafol, yw tad y *lleill*.

Yn 3. Fel rhai tan Lywodraethwr arall. "Nyni ydym eiddo ti, (medd yr eglwys wrth Dduw) erioed ni buost yn arglwyddiaethu arnynt hwy. Yr hyn oll y mae'r Tad yn ei roddi i mi (medd Crist) a ddaw attaf fi. Y mae'r defaid yn gwrando ar ei lais ef; efe a'u hadwaen, ac y maent yn ei ganlyn ef; ond y dieithr ni's canlynant:" a hynny o herwydd, "mai un yw eu Hathro, sef Crist:" am eraill y mae yn dywedyd, na fynnent ddyfod atto ef. Y *naill* sydd yn canlyn yr *Oen*; y *lleill* *dywysog y tywyllwch*, wedi eu dal ganddo wrth ei ewyllys.

Yn 4. Fel rhai yn perthyn i fyd arall. "A'r had da yw plant y deyrnas;" ac yr ydys yn eu neillduo oddiwrth y byd, megis "rhai a gyfrifir yn deilwng i gael y byd hwnnw;" ac felly yr ydym yn cael na dderbynir neb i'r "Jerusalem newydd, ond y rhai sydd wedi eu hysgrifenu yn llyfr y bywyd: a phwy hynnag ni chafwyd wedi ei ysgrifenu yno, bwriwyd ef i'r llyn o dân." Felly y dywedir i Judas "fyned i'w le ei hun;" a'r etholedigion i'r "deyrnas a barottowyd iddynt hwy." Ni roddaf fi ond un rheswm i brofi'r pen hwn; (ond y mae o gymmaint bwys nad oes raid wrth un arall) oni buasai i'r Arglwydd yn llyn adael i mi weddill, ni buasai un enawd gadwedig: yr holl fyd a fuasai gyffelyb i Sodoma, *Esa. i, 9.*

II. *Bod Etholedigaeth yn ddiammod.*

Y mae yma ddau beth o fawr bwys; *anghyfnewidioldeb*, a *digonoldeb*. Y mae'r arfaeth yn *anghyfnewidiol* o ran Duw; ac yn *ddigonol* heb gyflawniadau dynol. Ni chyfnewid yr Arglwydd ei bwrpas i achub ei bobl; ac ni chaiff eu hannahelyngdod a'u gwrthnysigrwydd ddiddymu ei fwriad. Am hynny ni chwanegir dim cyffelyb i ammod at yr amryw ymadroddion a arferir i arwyddocau'r un peth, sef yr hyn a *ragluniwyd*, a *ordeiniwyd*, a *ragddarparwyd*, a *appwyntiwyd*. Diau bod math o ammodau (neu yn hytrach gynheddfau) y rhai sydd raid iddynt yn wastadol ragflaenu perffaith gyflawniad Etholedigaeth; sef, "edifeirwch tuag at Dduw, a ffydd tuag at ein Harglwydd Iesu Grist." Y rhai o ran hynny, a ellir eu galw ammodau *iechydwrriaeth*; ond nid yn ammodau *etholedigaeth*.

1. *Etholedigaeth* yw *deddf* fawr *sylfaenol* yr efengyl: yr hyn mewn llywodraeth fydol a elwir y *gyfraith oruchaf*; yr hon sydd anghyfnewidiol ynddi ei hun; ac yn gofyn bod yr holl *oruchwyliaethau isod* yn gyttunol â hi: felly mae yn rhaid i *iechydwrriaeth etholedigion* Duw, yr hon yw'r *gyfraith uwchaf* yn y frenhiniaeth nefol, aros yn anghyfnewidiol. Er mwyn *hyn* y mae pob peth arall yn cael bod: trwy *hyn* y mae Duw yn amcanu y *gogoniant mwyaf* iddo ei hun; o ran *hyn* y cymmerodd efe gymmaint o *hoen*; pe b'ai'r amcan *hyn* yn ffael, nid yw'r holl greadigaeth ddigonol i wneuthur i fynu'r colled. Ac ni's gallwn feddwl i'r Duw anghyfnewidiol, yr hwn a wnaeth bob peth er mwyn ei ogoniant, osod ei amcan ardderchoccaf ar sylfaen ansicr, neu fel y byddai'n bosibl ei ddiddymu: fel y buasai'n rhaid iddo fod pe buasai yn ei ymddiried i ewyllys creadur. Pob doeth sylfaenydd llywodraeth a sefydla ei gyfreithiau yn y modd goreu i ateb ei ddyben. Ond y mae pethau'r byd yn ddarostyngedig i filoedd o ddamweiniau, y rhai ni ddychon synwyr dynol eu rhag-weled, na'u gallu eu rhag-flaenn. Mae tywysogion yn marw, a'u hamcanion yn darfod gydâ hwy, neu ddyethraid yn goresgyn eu teyrnasoedd ac yn diddymu eu bwriadau. Eithr nid felly mae gydâ Duw; nid oes un digwyddiad yn newydd iddo ef; y mae ef "yn mynegu'r diwedd o'r dechreuad: y mae efe yn un, a phwy a'i try ef?" Y mae ef hefyd yn *ansfarwol*, "a meddyliau ei galon ef a safant o genhedlaeth i genhedlaeth;" ni all un creadur ymgadw o tan ei llywodraeth ef: "Yn ei law ef y mae einioes pob peth byw:" ie'r digwyddiadau y rhai, dybygem ni, fod fwyaf damweiniol a gwrthwyneb, a wna ei ddoethineb a'i allu ef yn wasanaethgar i'w amcan. A hyn a all fod yr achos, yn mys

pethau eraill, pahan yr ydys mor fynych yn dywedyd bod "Etholedigaeth o'r dechreuad, er cyn seiliad y byd:" a chan nad arosodd *dyn* mewn anrhydedd, pan yr oedd yn y *cyfryw gyflwr*; pa fodd y gall ef wneuthur hynny yn *awr*, gan fod y fath *wrthdymiad* wedi cymmeryd gafael ar ei galon, ag sy'n peri iddo redeg i'r gwrthwyneb? "Pe rhoisid deddf a allasai fywau, o'r ddeddf y buasai cyfiawnder:" yr hyn sydd yn dangos bod y cyfammod *newydd* yn gwneuthur mwy trosom nâg yr oedd yr *hen* yn abl ei wneuthur; o blegid y mae yn rhoddi bywyd. Y *ddeddf* sydd yn dangos ein *dyledswydd*, ond nid yw yn rhoddi *modd* i'w gyflawni: eithr y cyfammod *newydd* sydd yn gwneuthur y *ddau*, trwy ysgrifenu'r gyfraith yn y galon. Y mae pawb tan y cyfammod o weithredoedd, "heb Dduw, heb Grist, heb obaith." Gan hynny, os ydyw'r etholedigion mewn gwell cyflwr, rhaid bod eu hetholedigaeth yn ddiammod: ac fel y gallai fod felly, y cyfammod o ras a wnaethpwyd â Christ drostynt hwy; yr hyn yw y gras a roddwyd i ni ynddo ef, cyn dechreu'r byd.

II. Rhaid bod Etholedigaeth yn ddiammod; canys rhan o honi yw'r hyn oll a ellir fwrw ei fod yn ammod iddi: yn gyffelyb i addewid Duw i Abraham, "I'th had di y rhoddaf y tir hwn." Yn yr hwn addewid y mae'r Arglwydd yn ymrwymo, yn gystal i roddi i Abraham had i etifeddu'r tir hwnnw, ag i roddi'r tir hwnnw i'w had ef: ac felly yr ydym yn cael *pen* yr *had* hwnnw, sef Isaac, wedi ei eni trwy rinwedd yr *addewid*: felly y mae holl ystod a threfn y pethau ag sy'n fuddiol i gyflawn berffeithio Etholedigaeth, wedi eu cynnwys ynddi, a'u sicrhau trwyddi, gyda'r fath ddiogelwch a phe buasai'r dyben ei hun wedi ei gyrhaedd, pan wnaethpwyd yr arfaeth; sef prynedigaeth oddiw'rth bechod, galwad effeithiol, a pharhad i ogoniant; (am y rhai yn helaethach tan y penau hynny): hyn hefyd a weddai fod meddwl yr apostol, lle y mae yn gosod "bywyd tragwyddol," fel sylwedd yr *addewid*, 1 Ioan ii, 25.

III. Rhaid ei fod yn ddiammod; oblegid trwy'r cyfryw Etholedigaeth yn unig, y gellir sicrhau iechydwrriaeth. Yr oedd eisiau'r sail hon ar Adda yn ei brif gyflwr. Ac ynddo ef y gellir gweled yr eithaf ag a all doniau naturiol neu ras creuedig wneuthur o hono ei hun, i.e. yn mharadwys: pa mor gynted y dirywiodd ac yr aeth i ddistryw. Ac amlwg yw fod ei holl haliogaeth yn gwyro i'r un llwybrau. Ac nid rhyfedd, gan fod mewn dynion yn awr y fath dueddiad i ddrygioni. Ac os oes rhyw gyfnerth wedi ei estyn iddynt ar ddychymygsail (yr hyn a eilw rhai) y *gyfraith newydd*, mae hynny yn cadarnhau'r athrawiaeth hon yn fwy: canys pa fwyaf o

gymmorth a fo ganddynt, os doent yn fyr er hynny, (fel y mae'n eglur eu bod) amlyccach yw, na all dim ag sydd yn dyfod yn fyr o'r cyfryw Etholedigaeth eu sicrhau. Y mae gennym siampl o hyn yn yr hen fyd; y rhai ni arweiniwyd at Dduw, trwy eu holl ddoethineb naturiol, a'u bywydau hirion, gydâ phregethiad Noa dros gant ac ugain o flynyddau, ac ymrysoniad Ysbryd Duw; eithr a aethant y'mlaen o ddrwg i waeth, nes bod holl fwriad meddylfryd eu calon yn unig yn ddrygionus, a hynny bob amser. A hyn oedd cyflwr nid rhai yn neillduol, ond holl ddynolryw yn gyffredinol; nes i bob cnawd lygru ei ffordd ar y ddaear. Sicr yw, gael Noa yn gyfiawn, ac mor sicr mai Etholedigaeth a'i gwnaeth ef felly. "Noa a gafodd ffafr yn ngolwg yr Arglwydd;" yn yr un ystyr ag y *causai* Paul *drugaredd*; sef, trwy waith trugaredd yn ymallyd ynddo. Fe ellir canfod hyn hefyd yn mhobl Israel; y rhai, heblaw eu dawn naturiol a chyffredin, a gawsent lawer o gynnorthwyon, y rhai ni roddasid i eraill: "Ni wnaethai'r Arglwydd fellyâg un genedl fel y gwnaethai ef â hwynt;" ac etto yr oeddent cynddrwg yn gyffredinol, "a'u bod yn cyfiawnhau eu chwaer Sodoma."

Gan i'r cyfammod cyntaf yn llyn ffaelu, fe fu eu Harglwydd (yr hwn oedd yn ei rag-weled) mor rasol ag apwyntio cyfammod arall, sef cyfammod newydd, trwy yr hwn y sefydlai ac y sicrhauai weddill, a hynny yn ddiogel; ac am hynny fe'i gelwir yn gyfammod o *ras*, o ran nad yw mewn un modd wedi ei sefydlu ar weithredoedd; a hwn yw'r gras sydd yn cadw, ac yn teyrnasu i fywyd tragwyddol. Y rhai'n yw "sicr drugareddau Dafydd," am y rhai y sonir yn y 55 o Esaia: a'i ddiammodrwydd sydd yn ei wneuthur yn gyfammod gwell.

IV. Y mae'r un rheswm fod Etholedigaeth dynion yn ddiammod, ag oedd fod Etholedigaeth Crist felly. Ni ordeiniwyd i'r *Mab* ymgawdoli ar unrhyw ammod: sef, os cyfiawnai bob cyfiawnder; os distrywai satan; os dinystrai ei waith ef; ac os gwnai iawn dros beched; o herwydd ni allai efe wneuthur y pethau hynny heb yr undebhwn; a bod Etholedigaeth i hynny yn ddiammod, sydd amlwg oddiwrth Heb. x, 5. "Corph a gymhwysaist i mi." Luc i, 35. "Y peth sanctaidd a aner o honot ti a elwir yn Fab Duw." Mat. i, 21. "Efe a wared ei bobl oddiwrth eu pechodau." A bod ein Hetholedigaeth ni mor ddiammodol ag Etholedigaeth Crist, sydd amlwg yn y geiriau hyn: Ioan xvii, 23. "A charu o honot hwynt megis y ceraist hi."

V. Rhaid bod Etholedigaeth yn ddiammod, o herwydd bod arfaeth Duw am farwolaeth ei Fab yn anghyfnewidiol,

1 Pedr i, 20. A phawb a achubwyd cyn ei ddyoddefaint, a gadwyd ar gyfrif yr arfaeth hon, Rhuf. iii, 25, 26. Y mae'r ysgrythyr hefyd yn dywedyd yn eglur, "Mai efe oedd yr Oen a laddwyd er seiliad y byd," ac nad oedd bosibl i'r cwppan hwnnw fyned heibio iddo. A phwy a brynai un peth â'i arian, heb sicrhau'r pwrcas? Diau na allodd doethineb Duw arfaethu marwolaeth ei Fab er iechydwriaeth dynion; ac etto adael iechydwriaeth y dynion hynny yn ansertenol, yr hyn a fuasai rhaid ei fod, pe ni buasai eu hetholedigaeth yn ddiammod.

VI. Fe ellir hefyd brofi'r un peth wrth ystyried dull addewidion Duw, y rhai sydd bortreiaadau neu amlygiadau o'i arfaeth ef. Y mae'r addewidion o fendithion ysbrydol yn ddiammod; rhan ydynt o'r gair, "yr hwn sydd yn dragywydd wedi ei sicrhau yn y nefoedd." Gwelwch yr addewidion o Grist, ac o'r Ysbryd: "Efe a ysiga dy ben di, a thithen a ysigi ei sawdl ef: mi a roddaf iddynt galon newydd: gwnaf iddynt rodio yn fy neddfau: hwy a fyddant yn bobl i mi, a minneu a fyddaf yn Dduw iddynt hwy: mi a ymwelaf â'u camwedd â gwialen, ac â'u hanwiredd â ffrewyll; ond ni thorraf fy nghyfaminod, ac ni newidiaf yr hyn a ddaeth allan o'm genau." A chan fod yr addewidion heb os, nac ammod, eglur yw bod yr arfaeth felly hefyd. Ar y sail hon mae'r apostol yn gofyn, "Pwy a rydd ddim yn erbyn etholedigion Duw?" gan hynny eglur yw—

III. *Bod Etholedigaeth yn bersonol.* Ac yn

IV. *Ei bod er tragywyddoldeb.*

Yr ydwyf ar fedr profi y ddau hyn ynghyd, o blegid bod yn fynych yn eu cyssylltu yn yr ysgrythyr. Nid holl ddynolryw yn gyffredinol oedd gwrthddrych Etholedigaeth; ac nid arfaeth (fel y dywed rhai) i ddewis y sawl a ddigwyddai fod o'r fath hyn, neu fath arall, yw Etholedigaeth: eithr personau neillduol a ddewiswyd wrth eu henwau, neu a ddetholwyd o fysg eraill, ac a ordeiniwyd i fywyd tragywyddol. Y mae ein lachawdwr yn eu galw, "Y dynion a roddwyd iddo ef allan o'r byd:" a hwy a roddwyd iddo ef wrth eu henwau, ac mewn rhif. Yn ddiau peth a haeddai i ni ei ddwys ystyried yw, bod yr Arglwydd yn dal sylw ar enwau ei bobl; mae Etholedigaeth yn gwbl ddiammodol; i ddangos fel y mae yn eu caru. O herwydd hynny y mae ef yn dywedyd wrth Moses, "Mi a'th adwaen wrth dy enw." Yn hyn y mae yn eu priodoli iddo ei hun, Esa. xliii, 1. "Gelwais di erbyn dy enw, eiddo fi ydwyf?" Weithiau y mae yn dyblu eu henwau: megis y mae'n gwneuthur â'i gyfaill

Abraham, Gen. xxii, 11. a Moses ei was, Ecs. iii, 4. ac ág eraill; ond nid ydwyf yn cael ei fod yn llefaru felly wrth ddynion eraill. Ac nad matter ysgafn, llai o lawer i'w wawdio (fel y gwna rhai dynion ofer) yw, bod yr Etholedigion wedi eu dewis erbyn eu henwau; a bod eu henwau yn ysgrifenedig yn y nefoedd. A bod yr arfaeth hon er tragywyddoldeb, sydd eglur oddiwrth Ioan xvii, 22, 24. Eph. i, 4. Dat. xiii, 8. a'r xvii, 8. a lleoedd eraill. Personoldeb a thragywyddoldeb Etholedigaeth, a ellir ei amlygu wrth y rhesymau sydd yn canlyn.

I. Oddiwrth Etholedigaeth Crist. Nid rhyw un anser-tenol oedd i fod yn Arglwydd ac yn Grist; ond y *Mab*, ac yr oedd wedi cymmeryd y swydd hon er tragywyddoldeb. Ac nid rhyw gorph yr oedd efe i'w gymmeryd, eithr y corph hwnnw yn unig, yr hwn oedd wedi ei barottoi iddo. A'r Person hwn yr oedd "ef yn ei garu cyn seiliad y byd." Fe dâl i ni ddal sylw mor neillduol y lluniwyd yr arfaeth, hyd yn oed am bethau amgylchiadol ein Harglwydd Crist; sef y deuai ef o had Abraham; o lwyth Juda; o lin Dafydd; y beichiogai morwyn arno; y genid ef yn Bethlehem; a hynny, pan y byddai'r deyrnwialen yn ymadael â Juda; y cei ef ei gernodio, ei ffangellu, poeri arno, a'i grogi ar bren; y trywanid ei ddwyllaw a'i draed; y diodid ef â finegr; na ddryllied un o'i esgyrn; (ie er gwneuthur felly ág eraill o amgylch iddo); y rhannid ei ddillad, ac y bwridd coelbren am ei bais; ac hefyd, yr adgyfodai ef y trydydd dydd, a'r cyffelyb. Bod y pethau hyn oll wedi eu harfaethu, sydd eglur wrth y prophwydoliaethau a roddwyd am danynt. Am ei adgyfodiad y dywedir yn amlwg, yn Salm ii, 7. "Mynegaf y ddeddf," (neu'r arfaeth). A chan fod Etholedigaeth y Pen yn ber-sonol, ac er tragywyddoldeb; paham nad yw eu hetholedigaeth hwythau hefyd, y rhai sydd i wneuthur i fynu ei gorph ef, felly; gan eu bod mor wirioneddol y pryd hwnnw, a natur ddynol Crist? ac heblaw hynny, addas iawn oedd ei appwyntio ef a hwythau ynghyd; o herwydd na all ef fod yn Ben, ond mewn perthynas i'w gorph: a'u bod wedi eu rhag-derfynu yn neillduol, sydd eglur oddiwrth Salm cxxxix, 16. "Yn dy lyfr di yr ysgrifenydd fy aelodau oll, pan nad oedd yr un o honynt." Os dywedwch fod yn meddwl hynny am aelodau Dafydd; yr ydwyf yn ateb, os gwelodd Duw yn addas ysgrifenu aelodau corph daearol, nid oedd le iddo fod yn llai gofalus a dichlyn am gorph dirgel ei *Fab*: a Dafydd hefyd oedd gysgod o hono ef.

Crist hefyd a rag-ordeiniwyd i fod yn *Iachawdwr*, trwy farwolaeth; a'r ddau cyn sylfaenu'r byd. Gan hynny

gweddus oedd hefyd, y pryd hwnnw, drefnu pa sawl, a phwy yn neillduol a gaent iechydwriaeth trwyddo ef. Nid oedd ef i farw drosto ei hun, ond dros y neb yr ateb'sai ef drostynt. Nid perthynol yw son am *fechneydd*, ond lle byddo dyledwr neu droseddwr; a rhaid bod y dyledwr neu'r troseddwr yn adnabyddus, ac wedi ei enwi; os amgen, gwaith ofer yw rhoi meichiau. Ni ddarfu i'n Harglwydd a'n Hiachawdwr wneuthur ei enaid yn aberth dros bechodau rhyw rai, ni wyddai pwy. Aaron a wyddai dros bechodau pwy yr oedd yn aberthu; yr oedd eu henwau wedi eu nhaddu ar ei *ddwyfronneg* ef: nid enw eu cenedl, neu eu cynneddf, (megis Israeliad, neu Gredadyn) eithr eu henwau personol, Reuben, Simeon, Levi. Felly yr oedd gan ein Harchoffeiriad mawr ni; canys ni allasai ef wneuthur iawn drosom, oni buasai hynny: ac y mae'r lle hwnnw, yn Dat. xiii, 8. yn dal allan yr un amser i'r ddau. Y mae'r geiriau "er dechreuad y byd," yn perthyn, nid yn unig i laddiad yr *Oen*, ond hefyd i ysgrifeniad enwau'r etholedigion yn llyfr y bywyd; yr hyn sydd amlwg oddiwrth yr 8 adnod o'r 17 bennod, lle y mae yn gosod allan y rhai a grwydrant ar ol y bwystfil, fel "rhai ni'sgrifenwyd eu henwau yn llyfr y bywyd" (er seiliad y byd) megis y'sgrifenwyd enwau y rhai oeddent yn canlyn yr *Oen*, "a'r rhai a etholasai Duw o'r dechreuad i iechydwriaeth."

II. Ni ellid, mewn un modd arall, ddiogelu haelionus ddyben Duw yn marwolaeth Crist. Pe dyben Duw a fuasai pwr casu iechydwriaeth i'r sawl a gredai, heb sicrhau pwy yn neillduol a wnai hynny; fe fuasai yn anhyspys pa un a fuasai neb gadwedig, o herwydd ei fod yn anser tenol pa un a wnai neb a chredu. Os sicr oedd y credai rhai; rhaid bod y sicrwydd hwnnw wedi ei arfaethu; canys ni allai dim i ddyfod, fod yn sicr mewn un ffordd arall. Ac os arfaethwyd y credai rhai; rhaid oedd i'r personau neillduol gael eu harfaethu hefyd: canys rhodd Duw yw ffydd; ac ni ellid ei rhag-weled yn neb, ond yn y rhei'ny, i'r rhai yr arfaethasai Duw ei rhoddi. Y pethau hyn wedi eu gosod ynghyd, ydynt ddangosiad eglur, ei fod wedi arfaethu yn gystal dros pwy y byddai Grist farw, ag y byddai ef farw drostynt hwy, a hynny yn neillduol ac erbyn eu henwau.

III. Fe ellir rhesymu y'mhellach, oddiwrth y Tad yn "rhag-barottoi teyrnas a thrigfanau, er seiliad y byd." Ystyriwch, ni chreuodd ef y ddaear yn ofer, (sef i fod yn wâg ac yn anghyfanneddol, fel yr oedd ar y cyntaf) na'r amryw ranau o hono i'w fwynhau'n ddamweiniol gan rhyw genedl, y rhai yn gyntaf a gaent feddiant o honynt; ond, "Efe a gyfranodd etifeddiaeth i'r cenhedloedd, ac a osod-

odd derfynau'r bobloedd: mynydd Seir a roddwyd i Esau, ac Ar i feibion Lot, Deut. xxxii, 8. Yn awr, gan nad yw cyfanneddau daearol ond pethau gwael o'u cyffelybu i drigfanau *nefol*, y mae'n canlyn, os rhag-appwyntiwyd cenhedloedd neillduol i daleithiau neillduol o'r ddaear, mwy o lawer y rhag-ordeiniwyd personau neillduol i drigfanau neillduol yn y nefoedd: ac os arfaethwyd un o flaen y llall, y personau a arfaethwyd gyntaf: canys, "Y sabbath a wnaethpwyd er mwyn dyn, ac nid dyn er mwyn y sabbath." Y nefoedd a wnaethpwyd o'r dechreuad, ond yr oedd Etholedigaeth cyn hynny.

Gweision Duw ydynt rywogaeth sanctaidd o *frenhinoedd* ac *offeiriad*; ac y mae ei le a'i drigfan wedi ei appwyntio i bob un o honynt yn neillduol erbyn eu henwau; i'r deuddeg apostol ddeuddeg gorseddfa, a phob un ei orseddfa ei hun. Yr hyn sydd eglur wrth yr ateb a roddodd ein Hiachawdwr i fam meibion Zebedeus; "Eistedd ar fy llaw ddehau ac ar fy llaw aswy, nid eiddo fi eu rhoddi, ond i'r sawl y darparwyd gan fy Nhad:" os i'r rhai credadwy yn gyffredinol, pahan nad i'r brodyr hynny, yn enwedig gan eu bod yn eu ceisio o flaen eraill? Ond mewn gwirionedd, nid oedd y lleoedd hynay yn awr i'w rhoddi; fe ragluniasid pwy a'u mwynhauai yn hir o'r blaen, sef "er seiliad y byd." Ac nid tueddiad yr ateb hwn oedd dangos, bod y lleoedd hynny wedi eu parottoi i'r rhai credadwy yn *gyffredinol*; (canys rhai credadwy oedd yn eu ceisio) ond eu bod wedi eu rhag-appwyntio i ryw ddynion yn *neillduol*, y rhai oedd yn rhaid eu cael: felly eglur yw, fod *Etholedigaeth* yn *bersonol* ac er *tragywyddoldeb*.

V. Bod yr etholedigion wedi eu dewis yn Nghrist.

Addas oedd bod *Pen a Chyfyngwr* yn y *cysammod newydd* yn gystal ag yn yr *hen*; fel y delai cyfiawnder a bywyd oddi wrtho ef i'r holl *had*; megis y daeth pechod a marwolaeth oddiwrth Adda: yn hyn y cyffelybir Crist ac yntef yn y 5 at y Rhufeiniaid, o'r 12 adnod hyd yr 21. Y daioni a ddarparwyd i'r etholedigion, y maent yn ei dderbyn trwy eu hundeb â Christ: efe yw y gwreiddyn yn yr hwn y mae'r *cyslawnder* yn preswyllo: nid yn unig y *sylfaen* ar yr hwn yr adeiladwyd yr eglwys, ond y *graig* o'r hon y cymmerir yr holl ddefnydd ysbrydol â'r rhai yr adeiladir y deml nefol; i'r *cyssylltiad*, yr hwn sydd yn cadw y naill ran at y llall, a'r cyfan atto ei hun; a hynny trwy rinwedd yr arfaeth. Canys y mae i ni ystyried bod undeb *arsaethol* o flaen yr undeb *gweithredol*; a bod y naill yn achos o'r llall; a hyn mor wirioneddol ag yr ydoedd marwolaeth arfaethol Crist yn peni

iechydwrïaeth i'r rhai a fuont feirw o'i flaen ef. Er nad Crist yw yr *achos* o Etholedigaeth; etto, trwyddo ef "y cawsom ddyfodiad, i'r gras hyn, yn yr hwn yr ydym yn sefyll," Rhuf. v, 2. Mae'r epistolau yn gyffredinol, lle maent yn coffa'r pethau perthynol i iechydwrïaeth, yn wastad yn dwyn i mewn Grist fel yr hwn y maent yn fwyaf enwedigol yn perthyn iddo. "Megis trwy anufudd-dod un dyn y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid; felly trwy ufudd-dod un y gwneir llawer yn gyfiawn," Rhuf. v, 18, 19. Yr oedd dynolryw (trwy eu gwrthgiliad yn Adda) wedi difetha yn gwbl ynddynt eu hunain yr egwyddor honno, yr hon a'u harweinasai at Dduw, fel eu *bywyd* a'u *dedwyddwch*; a chydâ hynny a aethent mor elynol iddo ef, ac mor wrthwynebol i bob amcaniad o ddychwelyd atto ef, fel nad oedd dim i'w ddisgwyl ond lliid ac angerdd tân, oni fuasai i'r arfaeth, o ddewis Crist i ladd y gelyniaeth, gymmeryd lle. Ni ellid gwneuthur hynny gan neb rhyw allu creaduriaid; ac ni allai creaduriaid gymmaint a meddwl am y fath beth: eithr y Duw mawr bendigedig yn oes oesoedd, a luniodd ffordd i'w wneuthur yn berffaith. A'r un cariad ag a etholodd i fywyd, a osododd hefyd y drefn yn y fath ffordd ag y byddai sicr i lwyddo. Ac i'r dyben hwn (sef fel y byddai gan y rhai a appwyntiwyd i iechydwrïaeth *haul* gyfiawn iddi, ac fel y dygid hwynt i fywyd) y gosodwyd hwynt yn Nghrist (trwy Etholedigaeth); efe oedd y cytaf-anedig a Thywysog y teulu; a'r holl etholedigion a roddwyd iddo ef, fel plant ieuangaf, i gael eu cynhaliaeth o'i etifeddiaeth ef. Y mae'n eglur i'r hwn a ddarlleno, fod y cwbl o iechydwrïaeth wedi ei osod ar Grist; mai efe sydd yn cynnal ei cholofnau; ac nad oedd ysgwyddau neb eraill yn abl i'w dal: efe yw'r *cyfrwng* a'r *canol-fan*, trwy yr hwn, ac i'r hwn, y myn Duw gasglu ynghyd bob peth yn un. Efe ymgauwdolodd yn "Dduw gydâ ni," fel ein gwnelid ninnau yn un yn Nuw; megis y mae'n eglur wrth ei weddi yn Ioan xvii; ynddo ef y boddlonwyd y Tad; ac allan o hono ef, nid oes dim yn boddloni Duw, nac er daioni tragywyddol i ddynion: am hynny y dywedir ein *hethol*, ni ynddo ef; ein *galw* ni ynddo ef; ein *creu* ni ynddo ef; ein *cadw* ynddo ef; ac ein *bendithio* â phob *bendith ysbrydol* ynddo ef. Yr hyn sydd fendith ynddo ei hun, ni byddai felly i ni, oni b'ai ei fod yn Nghrist; ac ynddo ef y troir pob peth yn fendith, ac y sicrhëir y trugaredd, y gras, a'r gogoniant ein hetholwyd iddo. Ac felly y mae llawer o resymau da, a dybenion doeth, paham y dewisodd Duw'r etholedigion yn Nghrist: megis—

I. Fel trwy ddwyn iechydwrïaeth i mewn y ffordd hon, y gallai faeddu ei elyn anghymmodlon, a'i erlid â'i arfau ei hun. Yr oedd diafol yn meddwl, trwy wenwyno'r gwreiddyn, dinystrïo'r holl *bren* a'i *had*; ac efe a ddygodd i ben ei amcan. Am hynny y mynnai'r Arglwydd *adferu* y dinystr hwnnw, trwy osod ei etholedigion yn y fath Ben, nad oedd bosibl iddo ddirywio: ac nid yn unig eu hadferu, ond eu dwyn i gyflwr gwell nâ'r hwn a gollasant; a gosod i fynu *Wr* a fyddai drech nâ'r cythraul; yn abl i'w ddinystrïo *ef*, ac i ddattod ei *weithredoedd*; ac felly gwnaeth. Yn y ffordd hon o *adferiad* dyn, y mae cyfateboldeb mawr i'r ffordd o'i *ddinystr*; yr hyn beth y mae'r Arglwydd yn ewyllysio i ni ddal sylw arno, fel y mae'n amlwg wrth y gyffelybiaeth o'r blaen, Rhuf. v, 12—21. tu dal. 48.

II. Fel trwy ddangos ei gyfiawnder yn cospi'r ail Adda, yr hwn ni phechodd, gallem gyfaddef ei uniondeb yn cyfrif pechod yr Adda cyntaf i ni. Mae rhai gwyr tauog yn haeru i Adda bechu heb eu cydsyniad hwy! Ond a safant hwy at eu gwrthddadl? Ystyriwch yn achos Acan, "pob dyn neillduol" oedd yn "sefyll yn lle yr holl genedl;" ac felly o herwydd troseddiad *un*, y daeth digofaint ar *bawb*: etto, a feiddiodd y bobl eon hynny ddadleu, nad oedd gweithred Acan yn perthyn iddynt, am na ddarfu iddynt gydsynio âg *ef*? Eithr edryched y gwyr hyn, rhag, wrth geisio esgusodi eu hunain oddiwrth bechod Adda, iddynt gauad eu hunain allan o gyfiawnder Crist; gan i'r ail *Adda*, yn gystal a'r *cyntaf*, gael ei osod i fynu heb eu cydsyniad hwynt.

III. Oni buasai bod yr etholedigion yn Nghrist, ni buasai yr hyn a wnaeth *ef* dros bechaduriaid yn llesiol iddynt. Megis na allasai pechod Adda fod yn eiddo i ni, oni buasai ein bod ynddo *ef*; felly ni byddai cyfiawnder Crist, oni b'ai ein bod ynddo *ef*. Ni allasai cyfiawnder Duw ei gospi *ef* drosom ni, na'n rhyddhau ni a'n heddychu trwy waed ei groes, oni buasai fod undeb rhyngom.

IV. Oni buasai ein bod yn Nghrist, ni allasem gael ein sancteiddio. Y clamp toes a sancteiddiwyd yn y blaen ffrwyth; ac felly yr eglwys yn Nghrist. Nid allid cyfnewid anian yr olewydden wyllt, ond trwy ei himpio yn y wir Olewydden. Ni ellir geni dyn yn naturiol, ond yn Adda, ei ben *naturiol*; ac mor anhosibl yw ei *eni drachefn*, heb undeb â Christ ein Pen *ysbrydol*. "Od oes neb yn Nghrist, y mae efe yn greadur newydd: y rhai a gyssylltir â'r Arglwydd (a rhei'ny yn unig) sydd un Ysbryd âg *ef*." Rhaid bod y gangen yn y winwydden, cyn y gallo hi gael nôdd oddi wrthi: rhaid i'r hwn sy'n sancteiddio a'r hwn a sancteiddir

fod yn un. Rhaid cyffwrdd âg ef, cyn delo rhinwedd oddi wrtho: ni all yr addewidion a wnaethpwyd oll i Grist, berthyn i ni, ond fel yr ydym ynddo ef; hynny sy'n ein gwneuthur yn etifeddion o'r addewid: yr "Ysbryd Glân a dywalltir arnom trwy Iesu Grist."

V. Nid oedd gan yr Adda cyntaf ond bywyd tan ammod, yn sefyll ar ei ufudd-dod personol, yn ddarostyngedig i'w goll: a phe buasai yn ei gadw, ni allasai ef roddi i ni ond yr hyn oedd ganddo ei hun, sef bywyd cyfnewidiol. Eithr y mae gan yr "ail Adda fywyd ynddo ei hun," yn ddiwrthludd, (neu na ellir ei attal) Rhuf. xi, 16, 17. Efe yw "Tywysog y bywyd;" a himpiad ynddo ef sydd yn cyfranu ei fywyd i'w ganghenau: "A deddf Ysbryd y bywyd ynddo ef, sydd yn rhyddhau oddiwrth ddeddf pechod a marwol-aeth. Yr hwn y mae'r Mab ganddo, y mae ganddo fywyd, ac efe a'i caiff yn helaethach. O herwydd mai bywyw efe, byw fyddant hwythau hefyd, Ioan xiv, 9. Sylfaen safadwy yw hon! "Rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef;" ac i osod ei etholedigion ynddo ef fel eu Pen; fel y byddai iddynt trwy dderbyn gwastadol ireidd-dra oddiwrth wreiddyn anfarwol, gael eu cadw yn effeithiol rhag gwiwo a syrthio ymaith, a thyfu i fynu i'r gogoniant a barotôwyd iddynt. Dyma'r *dystiolaeth* fawr, a sail ein diogelwch, "Roddi o Dduw i ni fywyd tragywyddol, a'r bywyd hwn sydd yn ei Fab ef."

Gwedi son cymmaint am amgylchiadau Etholedigaeth, y mae'n berthynol i ni wybod, pa le y mae'r afon lydan hon yn dechreu; ar ba graig y sylfaenir yr adeilad fawr yma: rhag i ni osod ein hunain mewn perygl trwy sefyll ar sylfaen gau, ni brofaf gan hynny—

VI. *Bod Etholedigaeth wedi sylfaenu ar ras: neu, Mai boddlonrwydd ewyllys Duw yw prif achos Etholedigaeth.*

Goruchafiaeth yw Etholedigaeth, yr hon "ni ddaw o'r dwyrain, o'r gorllewin, nac o'r dehau;" ond o Dduw: yr hwn, fel y mae yn "darostwng y naill ac yn dyrchafu'r llall," felly y mae yn dewis rhai, ac yn gwrthod eraill, fel y rhyngo bodd iddo; ac ni all neb ddywedyd wrtho ef, Paham i'm gwnaethost yn llyn? Canys, fel y mae Etholedigaeth yn arwyddocau, ychydig nifer wedi eu cymmeryd allan o lawer, felly hefyd awdurdod diammeuol yn yr hwn sydd yn dewis, i gymmeryd y neb y fynno, heb roddi cyfiif o'i ffyrdd. Eithr y mae llawer rhagor rhwng yr achos annogaethol mewn etholiad dynol a dewisiad dwyfol: o herwydd y maent hwy yn

dewis pethau cymmwys i'w gwaith; ni chymmerant bren garw, gwrthun, drylliedig, i wneuthur colofn frenhinol: ond Duw sydd yn dewis pethau "tlodion, distadl, gwan, ynfyd y byd;" y gwaethaf o ddynion a'r "pennaf o bechaduriaid," megis Paul, Manasse, Magdalen, &c. Ac o'r rhei'ny yn gwneuthur delwau ei Fab i'r bywyd! a cholofnau i dŷ Dduw! (rhyfedd eu hardderchawgrwydd!) ac yn 'sgrifenu arnynt ei enw ei hun; i hyspysu ei Ben-arglwyddiaeth, ei ddoethineb, ei allu, ei gyfiawnder, ei sancteiddrwydd, a'i rydd ras i dragywyddoldeb.

Felly ni welwn fod yr holl ail achosion yn deillio oddiwrth foddlonrwydd ewyllys Duw, yr hwn yw'r prif achos, a'r unig achos gwreiddiol o Etholedigaeth, i gau allan gweithred a theilyngdod dyn, rhag bod mewn un modd yn achos o'i etholedigaeth ei hun, ac felly rhag bod yn gyfrannog o ogoniant gras Duw, yr hwn y mae yn dra eiddigus o hono, ac ni ddyry i neb arall. Y mae'r holl Destament newydd yn amlwg y ffordd hon, gan osod y cyfan o'n hiechydwrriaeth ar ewyllys Duw: "Rhyngodd bodd i'ch Tad rodidi i chwi y deyrnas: ti a guddiaist y pethau hyn oddiwrth y doethion, ac a'u dat-guddiaist i rai bychain; o blegid felly y gwelwyd yn dda yn dy olwg di: gweddill yn ol etholedigaeth gras; wedi iddo eu rhagluniaethu i fabwysiad yn ol boddlonrwydd ei ewyllys: prynedigaeth, sef maddeuant pechodau yn ol cyfoeth ei ras ef: hyspysu dirgelwch ei foddlonrwydd ei hun, yr hon a arfaethasai efe ynddo ei hun." Ië, holl weithredoedd Duw *erom, arnom, a thrwyddom*, ydynt oll yn tarddu o'r un ffynnon, ac yn myned wrth yr un rheol: y mae yn gweithio pob peth wrth gyngor ei ewyllys ei hun. Yn rhad y dewisodd ei bobl Israel (y rhai oeddent brif gysgod o Etholedigaeth, fel y dangoswyd); ac yn rhad y dewisodd Grist ei hun. Gwel Deut. ix, 6. "Gwybydd ditheu, nad am dy gyfiawnder dy hun, y rhoddes yr Arglwydd it' y tir daionus hwn i'w feddiannu; canys pobl wargaled ydych.—Rhyngodd bodd i'r Tad drigo o bob cyflawnder ynddo ef," (sef yn y Dyn Iesu) Col. i, 19.

Mae rhesymau da am sylfaenu Etholedigaeth ar ras.

I. A gymmerir oddiwrth Ben-arglwyddiaeth Duw; ewyllys yr hwn, o ran ei bod yn gyfraith oruchaf, ni all oddef un cymmar; llai o lawer y gweddai i holl-awdurdodol allu gael ei rheoli gan ewyllys un arall: yr hyn sydd gwbl wrthwyneb i Ben-arglwyddiaeth; canys rhaid i'r hyn sydd yn rheoli fod goruwch yr hyn a reolir ganddo. Tywysogion goruchel (i ddangos eu rhagorfraint) a ddywedant fod eu *hactau gras* yn ol eu boddlonrwydd eu hunain; ac yr ydys yn bwrw eu

bod yn fwy cyfreithlon, pan yr adroddir felly. Yr un peth y mae'r ysgrythyr yn ei gyfrif i Dduw; mai "i'r neb y mynuo y mae efe'n trugarhau wrtho;" a'i fod "yn gweithio pob peth yn ol cyngor ei ewyllys ei hun;" ac mai "nid o'r hwn sydd yn ewyllysio y mae, nac o'r hwn sydd yn rhedeg'chwaith, ond o Dduw yr hwn sydd yn trugarhau:" a diau bod ei ewyllys ei hun, yn ystyriaeth mwy ardderchog a diogel, nâ haeddiant y creadur. Yn ol boddi'r byd am eu gwrthun diedifeirwch, yr oedd yr Arglwydd yn rhag-weled na fyddai y rhai a ddeuai ar eu hol ddim gwell. Ac fe ellid tebyg y buasai gyttunol â rheswm, i'r Arglwydd o ran hynny ddywedyd, "Mi a'u llwyr ddifethaf, ac ni ymfinaf wrthynt mwyach:" eithr "nid ein meddyliau ni yw meddyliau yr Arglwydd;" y mae efe'n ymresymu mewn dull arall; "Ni chwanegaf felldithio'r ddaear er mwyn dyn." A'r un rheswm y mae yn ei roddi yma am na's gwnai, ag a roddasai o'r blaen, am y gwnai; fel yr ymddengys wrth gymmaru Gen. vi, 5, 7. a'r viii, 21.

Gwelwch hefyd fel y cyd-ddygodd Duw âg Ephraim; yr Arglwydd a "ddigiodd" ac a'i "tarawodd ef;" ac yr oedd Ephraim cyn belled oddiwrth *edifarhau*, ag yr "aeth rhag-ddo yn gildynus" yn ei ffordd, "Ymguddiais (medd yr Arglwydd) a digiais:" yr hyn a wnai i un dybyg, pe buasai yn Ephraim y lleiaf o gariad atto ei hun, y buasai yn newid ei ffordd: ond beth waeth gan Ephraim! y mae etto'n cadw yr un *ffordd*, a honno "yn ffordd ei galon;" yr hyn oll y mae'r Arglwydd yn ei ganfod ac yn ei ystyried; ac yn ol gosod y cyfan ynghyd, yn llawn-fwriadu ei "iachau ac adferu cysur iddo." Wrth yr amrafael siamplau hyn, y mae'n eglur bod Pen-arglwyddiaeth Duw yn cadw'r orsedd, ac nad yw, yn yr arfaeth na'r weithred, yn rhoddi ei drugareddau yn ol ewyllysiau dynion: a chan ei fod yn llyn mewn pethau o lai pwys, mwy o lawer y mae felly yn y matter mawr o dragywyddol *Etholedigaeth*; yr hon yw gweithred oruchaf *Pen-arglwyddiaeth*: canys nid cospedigaeth yw peidio ag ethol, ond attaliad o rydd ras, yr hwn a all Duw yn gyfiawn ei ballu i'r naill bechadur, y pryd y byddo ef yn ei roddi i un arall. Ac nid yw hyn yn rhwystro i bob dyn gael ei farnu yn ol ei weithredoedd ei hun.

II. Rhaid sylfaenu *Etholedigaeth* yn unig ar ras, o herwydd na all gras a gweithredoedd gyd-sefyll i fod yn achos iechydwrriaeth. Y mae'r apostol yn gosod y naill yn wrthwyneb i'r llall, ac yn eiddigus yn y peth, megis peth o bwys mawr, yn yr 11 at y Rhufeiniaid. Lle, yn *gyntaf*, yn mysg gwrthgiliad cyffredinol yr Iuddewon, yr oedd Duw yn was-

tad yn cadw gweddill, y rhai y mae yn ei alw, "Yr hwn a adnabu ef o'r blaen," adnod 2. ac yn y 7 adnod, y mae yn eu galw yn eglur "yr etholedigaeth." Ac yno, rhag i neb gamsynied yn yr achos o hono, sef rhag iddynt ddywedyd (yn y gyffelybiaeth y mae efe'n arfer) mai eu gwaith yn peidio "a phlygu eu gliniau i Baal;" ond yn glynu wrth y wir grefydd, pan yr oedd eraill yn syrthio ymaith, a barodd eu dewis hwynt; y mae yn dywedyd nad hynny, ond *gras* Duw a'i parodd; ac nad oedd *gweithredoedd* yn achos o hono. Wrth *ras* y mae yn meddwl cariad rhad Duw, yr hwn ni chynhyrfir gan ddim allan o hono ei hun; ond sydd yn gwneuthur yr hyn y mae yn ei wneuthur heb ystyried haeddiant dynion: ie'r *gras* hwn a ganiattäer yn hytrach i'r rhai mwyaf annheilwng. Wrth *weithredoedd* yr wyf yn dyall pob hunan gyfiawnder, daioni, cydffurfiad â'r gyfraith, neu un peth arall o gyflawniad dyn. Os cymmerir i mewn y gronyn lleiaf o weithredoedd, "nid yw *gras* yn *ras* mwy;" canys "i'r neb sydd yn gweithio, ni chyfrifir y wobr o *ras*, ond o ddyled," Rhuf. iv, 4. *Gras* a *ffydd* sydd yn cyttuno yn hollol; yr un *amcan* a'r un *dyben* sydd ganddynt: eithr *gras* a *gweithredoedd* sydd yn wastad yn anghyttunol; dyrchafu y naill sydd yn darostwng y llall: rhaid i'r *arch* fyned i maes, neu i *Dagon* syrthio; ni all yr un deml eu cynnwys eich dau. Yr un peth y mae yr hyn a ddywedir yn y bummed bennod at y Galatiaid yn ei amcanu. Y mae'n amlwg oddiwrth Act. xv, 1. fod rhai yn dysgu angenrheidrwydd enwaediad; fel yr hyn, ni allent fod yn gadwedig hebdo: yr oeddent yn ymddangos yn ewyllysgar i dderbyn Crist, os caent gydâg ef eu henwaedu, a chadw cyfraith Moses; ond ni allai'r apostol oddef y peryglus gymmysg; gan ei fod yn dianrhydeddu ei Arglwydd, ac yn dinystrio yr unig sylfaen; am hynny y dywed, os "enwaedir" hwynt, eu bod "yn ddyledwyr i gadw'r holl ddeddf," ac "ni lesha Crist ddim iddynt;" a herwydd "iddynt syrthio ymaith oddiwrth *ras*:" fel pe dywedasai, "Os cymmerwch un rhan (er lleied y fo) o weithredoedd y ddeddf, yn angenrheidiol i'ch cyfiawnhau, y mae holl *ras* yr efengyl yn myned yn anfuddiol i chwi:" y mae *gras* Crist yn ddigonol; y mae yn Iachawdwr digonol ynddo ei hun; ac os edrychwch (ie ar gip) ar un peth arall, yr y'ch yn ei wadu ef: efe a fyn eich achub yn hollol, neu ni achub mo honoch; ac am hynny y mae'n wresog yn dywedyd wrthynt drachefn, "Os enwaedir hwynt, na leshai Crist ddim iddynt," Gal. v, 2.

Ac fel na ddychon dyn geisio ei gyfiawnhau ar gyfrif ei weithredoedd, felly nid oes iddo geisio hynny o ran ei *ffydd*

chwaith, megis haeddiannol o'i gyfiawnhad; canys ffydd ei hun, o ran y credadyn, sydd weithred. Gadewch i ni gan hynny ystyried, beth y mae ffydd yn ei wneuthur yn yr achos hwn; rhag, tra f'om yn cau allan weithredoedd fel peth na all gyd-sefyll â gras, ein bod yn gwneuthur ffydd yn weithred. Gwaith ffydd yw, gwadu ein gallu yn gystal a'n haeddiant ein hunain; i gymmeryd gafael ar y cyfiawnder hwnnw trwy yr hwn y mae gras yn cyfiawnhau; ac nid yn unig yn cyfiawnhau pan b'om yn credu, eithr i weithio ynom, i e'r ffydd honno trwy yr hon yr ydym yn ymafflyd ynddo, Rhuf. v, 2. Rhaid i'r hwn a fyddo gadwedig ddyfod, nid yn unig fel dyn annuwiol, ond hefyd fel un heb nerth, pen. v, 6. i gael ei gyfiawnhau yn rhad gan ras Duw. Canys ynddo ef yn unig y gall gael nerth i gredu, a chyfiawnder trwy gredu: rhaid iddo ei gyfrif ei hun yn annuwiol hyd yr awr o'i gyfiawnhad. Y cyfiawn yn ddiâu a fydd byw trwy ffydd; eithr nid trwy ei ffydd ei hun, neu'r weithred o gredu, fel cynneddf, er nad yw'n byw heb hynny; yr hyn hefyd a weddai fod meddwl yr apostol, lle mae'n dywedyd, "Yr hyn yr ydwyf yr awr hon yn ei fyw, ei fyw yr ydwyf trwy ffydd Mab Duw: a byw ydwyf, etto nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi." Nodwch yma, mai ffydd yw bywyd y credadyn, a Christ yw bywyd ffydd; y mae yn byw ar Grist, trwy rinwedd Crist yn byw ynddo ef.

Er hyn oll, gwirionedd eglur yw, yr hwn sydd raid in' ar bob amser ei ymddiffyn, bod ffydd a gweithredoedd yn wastad gyda'u gilydd yn ffordd iechydwrïaeth: (nid yw'r naill yn dinystrio nac yn cau allan y llall) ond nid yn yr un modd nac fel cyd-achosion; ond yn hytrach, fel gweithiwr â'i offerynau, y rhai mae efe'n gyntaf yn eu gwneuthur, ac yno yn gweithio â hwynt. "Trwy ras yr ydych yn gadwedig trwy ffydd: a hynny nid o honoch eich hunain; rhodd Duw ydyw." Creadur a gododd gras, yw'r *credu*, neu'r gynneddf weithredol hon; am hynny gweddus yw, bod gras yn y deyrngadair yn fwy ná hi. Nid yw gweithredoedd, gan hynny, er dâed y b'ont, yn achos o *iechydwrïaeth*, nac ychwaith o *etholedigaeth*; canys *gras* yn ddiâu yw'r achos o'r ddau: a gweithredoedd, os da ac uniawn, ydynt barod yn wastad i gydnabod eu gwraidd, ac i gadw yn eu lle eu hun, lle hefyd y maent oreu, ac y gwnaent well gwasanaeth.

III. Nad oes un sylfaen arall i Etholedigaeth, ond *boddlonrwydd ewylllys* Duw, a ellir y'mhellach ei ddangos, trwy ystyried *anallu* dyn i wneuthur dim ag a allai gynhyrfu Duw i roddi iddo y cyfryw rodd. Na safodd Adda cyhyd ag y darfu iddo genhedlu mab ar ei ddelw cyntaf, sydd eglur

wrth ei gyntaf-anedig Cain. Ac er bod rhai yn canmol mawrhydi dyn, etto amlwg ydyw wrth oleuni'r ysgrythyr a phrosiad y sawl a adnewyddwyd, fod pob dyn er y *cwmp* yn dlawd, yn ddall, yn noeth, ac yn elynol i'r hyn oll sydd wirioneddol dda; ac nad yw un amser bellach oddiwrth Dduw a'i ddedwyddwch ei hun, nâ phan byddo yn synied oreu am dano ei hun, yn gorfoleddu yn ei ddeall, ei nerth, ei werthfawrogrwydd, rhyddid ei ewyllys, cynhysgaedd ei ras cyffredin, a'r cyffelyb: canys hynny sydd yn ei wneuthur yn falch ac yn rhyfygus, ac yn peri iddo ddiystyru y gras enwedigol a neillduol trwy yr hwn y mae yn rhaid (os byth) ei adnewyddu a'i achub. Ond mae'r Arglwydd ei hun (yr hwn oedd oreu yn ei adnabod) yn dywedyd pethau eraill; (ac ni a wyddom mai gwir yw ei dystiolaeth ef) sef, "Bod holl fwriad meddylfryd ei galon, yn unig yn ddrygionus bob amser: mai anwiredd yw eu ceudod: ynfyd yw pob dyn yn ei wybodaeth, cydyfydasant ac amhwyllasant, i.e. hyd yn oed eu bugeiliaid;" sef y goreu a'r mwyaf dyallus yn eu mhysg: "Eu calon sydd yn llawn ynfydrwydd; y maent yn synhwyrol i wneuthur drwg, ond gwneuthur da ni fedrant." Ac nid bobloedd cenhedlig, y rhai a adawsid i rodio yn eu ffordd eu hun; eithr yr Iuddewon hefyd, y rhai oedd ganddynt bob moddion ag a ellid ei ddychymyg i'w gwneuthur yn well (oddi eithr yn unig y neillduol Etholedigaeth, yr hon ni chymmerodd ond gweddill); "Iuddewon y gelwid hwynt, yr oeddent yn gorphwys yn y ddeddf, yn gorfoleddu yn Nuw, yn gwybod ei ewyllys, yn darbod pethau rhagorol, yn coelio eu bod yn dywysogion i'r deillion, yn llewyrch i'r rhai mewn tywyllwch, yn athrawon i'r aughall, yn ddysgawdwyr i rai bach." Ac etto yr holl amser hwn, ac yn mysg yr holl bethau ardderchog hyn, ni ddysgasant mo honynt eu hunain: ac yn ol eu gosod ynghyd y mae'n dangos eu bod "oll tan bechod;" ac "nad oes neb cyfiawn, neb yn dyall, neb yn ceisio Duw, neb yn gwneuthur daioni, nac oes un." I.e., y mae'r llygredd natur hwn mor ddwfn ac mor anhawdd ei dynnu ymaith, ag y mae'r Arglwydd ei hun yn dywedyd wrthynt, fod "cyn hawdded i'r Ethiopiad newid ei groen, ag iddynt hwy ymgynefino â gwneuthur da." Yr hyn oll sy'n eglur ddangos fod Etholedigaeth wedi ei sylfaenu ar ras.

IV. Pe byddai Duw yn caru dynion, am eu bod yn ei garu ef, ni fyddai cariad mor rhagorol ag y mae'r ysgrythyrau yn mynegu ei fod; canys, "Felly carodd Duw'r byd." *Felly*, fel y mae'n ddigyffelyb; *felly*, fel y mae'n annhraethadwy; *felly*, fel y mae'n annyalladwy, nes delom i'r cyflwr hwnnw, "lle yr adnabyddwn megis ein hadnabyddir;" nac

yno 'chwaith, o blegid ei fod yn anfeidrol. Wrth hyn yr ydys yn mawr ganmol cariad Duw at ddynion; "Yn hyn y mae cariad, nid am i ni garu Duw, ond am iddo ef ein caru ni. A gwelwch pa fath gariad a roddes y Tad arnom!" Diau gan hynny nad yw yn ol dynion; canys publicanod ydynt, a phechaduriaid, sydd yn caru y rhai a'u câr hwythau: ond caru gelynion, a hynny tra fyddont yn elynion; (megis caru gwraig odinebus, a'i charu felly fel yr ennillid ei chalon drachefn) dyma gariad Duw at ei etholedigion. Eithr, er y gweddai i'r apostol ysgrifenu'r ysgrythyrau hyn (a llawer o'r fath) yn bwrpasol i ragflaenu y cyfryw feddyliau, ag a allent ddychymyg mai ein gwaith ni yn caru Duw yw sail a chynhyriad ei gariad ef tuag attom ni; etto ymorchestu mawr y sydd i geisio sylfaenu Etholedigaeth ar *ffydd* a *gweithredoedd rhagweledig*; i ba rai darfu i'r *peth* a alwant y cyfammod o *ras* gymhwyso pob dyn (meddant hwy), a dychon pob dyn dyallgar ac ymröus eu cyrraedd yn ddiattreg, os myn. Ond y mae'r hanes hyn o *achau* Etholedigaeth yn anghywir: canys, 1. Yn gymmaint ag i bawb yn Adda ddiosg eu hunain o'r hyn oll sydd sanctaidd a da, ni allai'r Arglwydd ragweled ynddynt ddim ond yr hys a weithiai efe ynddynt o *newydd*, o gyfoeth ei ras. Eithr pe buasai'r Ysbryd Glân yn rhagweled cynheddfau mor rhagorol ag yw fydd a sancteiddrwydd, ni chyfrifasai mo honynt yn mysg plant digofaint, Eph. ii, 3. Ond, 2. Pe buasant amgen, beth a allasent i chwanegu at Dduw? neu pa rwymedigaeth a allasent ei osod arno? "Os cyfiawn fyddi, pa beth yr wyt yn ei roddi iddo ef? Pwy a roddodd i mi yn gyntaf (medd yr Arglwydd) fel y talwyf iddo?" Hynny yw, Pwy sydd yn mlaenllaw â Duw, trwy wneuthur dim ag a allo ennill ei gariad ef? "Ni dderbyn ef wyneb, ac ni chymmer wobr:" nid yw yn trugarhan wrth neb o ran dim ag allont ei wneuthur drosto na'i roddi iddo. Cymmerwch Paul yn siampl: efe a rodiodd yn ddiargyoedd; efe a fuasai fyw yn mhob cydwybod dda; nid oedd yn gwybod drwg am dano ei hun, (gradd rhagorol o gyfiawnder deddfol!) ond mai nid hynny a gynhyrfodd Duw i'w wneuthur yn llestr etholedig, mae e'n ostyngedig yn cyfaddef ar bob achos. 3. Y mae *ffydd* yn cael yn Etholedigaeth: gelwir Duw yn "Dduw pob gras;" felly rhodd Duw a gwaith Duw yw *ffydd*. A phob gweithiwr doeth a ystyria ei orchwyl cyn ei wneuthur, a'r hwn sy'n cyfranu pwy sy'n derbyn yr elusen. Yn awr, cyn cael *ffydd* mae dynion yn y cnawd, "a'r rhai sydd yn y cnawd ni allant ryngu bodd Duw," Rhuf. viii, 8. ac yn eu gwaed mae Duw yn dywedyd wrth ddynion, "Byddwch fyw." Gan hynny,

nid ffydd a sancteiddrwydd a gymbhellodd Duw i garu dyn.

4. Mae ffydd a sancteiddrwydd yn y canol, nid ydynt na sylfaen, na'r maen-alcam. Maent i ras cadwedigol yr hyn a yw'r canghenau i'r gwreiddyn; canys megis y trosglwyddi rhinwedd y gwraidd trwy'r canghenau i'r ffrwyth, fell rhinwedd gras trwy ffydd a sancteiddrwydd i dangnefydd Eph. ii, 8. "Trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd." 2 Thes. ii, 13. "Duw a'ch hetholodd i iechydwrriaeth, trwy sancteiddiad yr Ysbryd, a ffydd i'r gwirionedd." Nid ydyw y rhai'n ddim pellach yn achos o Etholedigaeth, nâg yw moddion a arferir i ddwyn y dyben i ben yn achos o fwriadu dyben ar y cyntaf; i'e ddim pellach nâg yr oedd parodrwydd (neu'n hytrach amharodrwydd) Tatanai i adeiladu'r dem ac i aberthu i Dduw'r nefoedd, yn achos o orchymyn Dariu i wneuthur y pethau hynny trwyddo ef, Ezra v, a'r vi.

5. Os rhagarfaethwyd pobl i ffydd a sancteiddrwydd, megis y tystia'r apostol, Rhuf. viii, 29. ni ellid rhagweled ffydd a sancteiddrwydd ganddynt cyn eu harfaethu. A chan fod iechydwrriaeth yn angenrheidiol yn canlyn ffydd a sancteiddrwydd, yn ol Ioan v, 24. "Y neb sydd yn credu a gaiff fywyd tragywyddol, ac ni ddaw i farn:" 1 Pedr i, 9. "Gan dderbyn diwedd eich ffydd, sef iechydwrriaeth eich eneidiau:" peth afraid ac ofer y fyddai ordeinio i iechydwrriaeth y sawl a ragwelwyd a gredai ac a fyddai sanctaidd: ni fyddai hynny ond megis gyrru un lle byddid yn gwybod yr âi heb ei anfon.

V. Ni buasai gyttunol â doethineb a daioni Duw, osod iechydwrriaeth ei bobl ar sylfaen dwyllodrus; y cyfryw sylfaen y fuasai pob peth arall heblaw ei anghyfnewidiol ewyllys ei hun. Canys beth bynnag a ddechreuodd Etholedigaeth, sydd yn rhaid hefyd ei chynnal: Beth, gan hynny, a ddaethai o honi, pe buasai wedi ei hadeiladu ar y daioni hwnnw, yr hwn sydd fel "cwmwl y bore," ac "fel y gwllith boreuol?" Yr oedd ewyllys y creadur mewn cyflwr o berffeithrwydd, yn rhy ysgafn a chyfnewidiol i adeiladu'r pwys tragywyddol hwn arno: ac os gwagedd oedd dyn ar y goreu, pa faint mwy yn ol hynny, pan ddaeth tueddiad cadarn ar ei ewyllys ef i wagedd?

VI. Ceisio dwyn Etholedigaeth oddiwrth un gwreiddyn arall heblaw *boddlonrwydd ewyllys* Duw, yw ceisio diddymu prif ddyben iechydwrriaeth dyn; sef, "Gogoniant rhydd ras Duw." Ni oddef dywyllu'r briodoledd hon yn enwedig; mae hon mor gyssegredig i Dduw, na ddychon dim sydd ddynol gyffwrdd â hi: o herwydd paham, Duw a dresnodd y bwriad hwn o'i ogoniaat, yn y fath fodd ag i "gau allan bob ymfrost;" ac "na orfoleddo un cnawd ger ei fron ef:"

eithr pe dim yn y creadur a fyddai achos o Etholedigaeth, *cnawd* a orfoleddai, ac nid gorfoledd dyn, ond gras Duw a gauer allan. Mi gaf y'mhellach ateb rhai gwrthddadleuon.

1. 'Pa fodd y gall yr athrawiaeth hon gyd-sefyll â chariad cyffredinol ac ewyllys-da Duw at ddynion, yr hwn (fel y dywedir) "sydd yn ewyllysio bod pob dyn yn gadwedig?" 1 Tim. ii, 4. 2 Pedriii, 9.'

Atteb 1. Os cymmerwn y gair *pob* yn gyffredinol, rhaid ei fod yn cynnwys yr anghrediniol yn gystal ag eraill; yr hyn ni's gall fod meddwl yr apostol. Gan hynny, rhaid esponio'r ysgrythyr mewn un man yn gyttunol âg ystyr amlwg yr un gair mewn man arall: ac amcan y lle yn neillduol, a'r holl ysgrythyr yn gyffredinol, a ddylai ein cyfarwyddo yn nehongliad pob rhan. 2. Er nad all yr athrawiaeth o *gariad cyffredinol* gyd-sefyll âg *Etholedigaeth neillduol*, etto yr athrawiaeth o Etholedigaeth neillduol a saif heb honno, o blegid ei bod ar sail ewyllys Duw. Canys nid oes dim eglurach, na'i fod wedi *ethol* rhai dynion i iechydwriaeth; ac mai *ethol* (yn briodol) yw *dewis un neu chwaneg o nifer mwy*; ac yn ganlynol *nad oeddid yn ewyllysio* iechydwriaeth pawb yn *gyffredinol*. 3. Ni ellir gwrthsefyll ewyllys Duw; canys lle mae yn ewyllysio'r dyben, y mae yn ewyllysio hefyd y cyfryngau; a'r rhei'ny y cyfryw ag a ddygo ei ddyben i ben. Esa. xlii, 10. "Fy nghyngor a saif, a'm holl ewyllys a wnaf." 4. Nid son am helaethrwydd cariad neillduol Duw mae'r apostol yma, eithr yn dangos i'r rhai crediniol mor helaeth dylent hwy fod mewn gweddi; sef "i dalu diolch dros frenhinoedd a phawb mewn goruchafiaeth;" o herwydd y daioni yr y'm yn ei gael trwy eu llywodraeth: ac "i weddio drosynt," nid yn unig ar iddynt eu llywodraethu'n heddychlon, ond hefyd ar i Dduw droi eu calonau a'u gwneuthur yn dadmethod i'w eglwys: ac i gefnogi'r dyledswydd, mae yn dywedyd fod Duw yn ewyllysio achub rhai o bob sefyllfa, ac o bob galwedigaeth; ac am hynny ni ddylem gau neb allan o'n gweddiau. 5. Yr ydys yn fynych yn arfer y gair *pob neu holl*, pryd na byddid yn dyall ond *rhan*, a honno y rhan *leiaf* o'r peth y sonir am dano: megis o'r gwrthwyneb, yr ydys yn llefaru yn neillduol pan byddir yn meddwl yn gyffredinol; megis, "yr *hwn* a gredo a fydd cadwedig;" a'r "*hwn* a ddel attaf ni's bwriaf ef allan ddim." Y maent weithiau yn arwyddocau y cwbl o'r un fath; felly dywedir bod Efa yn fam *pob byw*, nid pob *creadur byw*, ond pob *dyn*: weithiau mae yn arwyddocau *rhai o bob math*; megis lle mae yn dywedyd, "a bu farw holl anifeiliaid yr Aiphthaid;" ac "i'r cenllysg gyro'r holl goed a'r holl lysiau:" etto yr y's

yn son a'n *anifeiliaid* eraill ar ol hynny, ac am *weddill* a *adawsai*'r cenllysg. Felly yma "y mae Duw yn ewyllysio bod pob dyn yn gadwedig;" hynny yw, rhai o bob math ac o bob gradd, *Cenhedloedd* yn gystal ag *Iuddewon*; brenhinoedd a rhai mewn goruchafiaeth, yn gystal a rhai o radd is; fel y mae'n eglur wrth gymmaru'r adnod 1, 2 a'r 4 ynghyd. Megis hefyd yn Joel, "Mi a dywalltaf fy Ysbryd ar bob cnawd:" hynny yw, ar rai o bob oedran, rhyw, a gradd heb wahaniaeth; ieuangc, hen, meistraid, gweision, meibion, merched, &c. 6. Y mae amryw bethau i gwtto'g'r geiriau cyffredinol hynny, fel y mae amcan ac amgylchiad y lleoedd yn dangos: megis lle yr ydys yn dywedyd, "bregethu yr efengyl yn mysg pob creadur sydd tan y nef;" lle yr ydys yn meddwl dynion yn unig; ac nid pob dyn ychwaith: canys ni chyrhaeddasai'r efengyl y pryd hynny ond rhan fechan o'r byd; ac ni chyrhaeddodd y cyfan etto. Felly y dywedir "fod i Moses yn mhob dinas rai a'i pregethent ef:" yr hyn sydd raid ei ddyall am y dinasoedd hynny lle yr oedd yr Iuddewon yn preswyllo, a lle'r oedd synagogau ganddynt. Y rhai nid oeddent ond ychydig o'u cyffelybu i holl ddinasoedd y byd. Ac efe a ddywedir i'r "rhai a wasgarasid fyned i bob lle gan bregethu'r gair;" hynny yw, nid oeddent yn ymgadw rhag un lle, na rhag un dyn, ond pregethu pa le bynnag y deuent. Yr oeddid ar y cyntaf yn pregethu i'r Iuddewon yn unig, ond yn awr i bawb. "Y bydd clod i bob un gan Dduw:" yr hyn a ddyallir yn unig am *weision da a ffyddlon*; felly y dywedir fod Duw yn Dad i bawb; ac etto, *diafol* yw tad y rhan fwyaf o'r byd. Ac fe ddywedir i Grist gymmodi *pob peth*: ac etto nid yr angylion; nid y rhai da, canys ni buasant erioed yn elynion; nid y rhai drwg, am na ellir eu cymodi. Eph. i, 10. "Fel y gallai grynhoi'r holl bethau yn Nghrist:" yr *holl bethau* hyn sy'n eglur yn arwyddocau'r *etholedigion*; canys am danynt hwy yr ydys yn 'sgrifenu yn yr holl bennod. Yn Heb. xii, 8. y dywedir fod *pawb* yn gyfrannog o gerydd: ac etto meibion yn unig yr ydys yn ei feddwl; canys nid yw bastardiaid yn gyfranog, fel y mae'n canlyn yno. Ioan vi, 45. "A phawb a fyddant wedi eu dysgu gan Dduw:" y mae yn perthyn yn unig i blant yr eglwys (sef i'r *etholedigion*) y rhai y mae eu hanwiredd wedi eu maddeu, ac ni chofier eu pechod mwy: a chan fod y geiriau cyffredinol *pob ac oll*, weithiau yn perthyn i'r *etholedigion* yn neillduol oddiwrth eraill, paham nad yw felly yn y lle o'r hwn y codir y gwrthdodad? Myfi a ysgrifenis y rhai'n, i ddangos pa bethau gwrthwynebus a gallynai, pe baem yn glynu wrth swa llythyrenol geiriau; a pha

mor hawdd yw i ni golli'r gwirionedd, os rhoddwn goel i swm ansicr.

2. ' Pa fodd y gall y fath hon o Etholedigaeth gyttuno â'r Act. x, 34. " Nid ydyw Duw dderbyniwr wyneb" ?

Atteb. 1. Hyn sy'n dangos mor ddrwg yw dal ar *ystyr llythyrenol* geiriau uwchlaw eu *hamcan*: y gwrthddadl o'r blaen sydd yn cymmeryd i mewn bawb, a hon yn cau allan bawb; canys, yn ol yr ystyr llythyrenol, nid yw Duw yn derbyn neb. 2. Cenedl etholedig oedd yr Iuddewon; y mae'r wrthddadl hon gymmaint yn erbyn eu hetholedigaeth hwynt, ag ydyw yn erbyn yr hyn yr ydym yn son am dano. 3. Ystyr y lle sy'n eglur yn dangos, nad yw Duw yn derbyn wyneb un dyn, yn llai neu yn fwy, o ran ei gyflwr oddi allan, neu ei ragor-freintiau cnawdol. Hyd y pryd hwnnw yr oedd canol-fur y gwahaniaeth i fynu, a'r Arglwydd yn ymddangos fel pe buasai'n derbyn wyneb y genedl Iuddewig yn unig; gan adael eraill " i fyned yn eu ffordd eu hunain:" ond yn awr " y rhoddasai Duw i'r Cenedloedd hefyd edifeirwch i fywyd." Fe allai y dywedwch mai'r " sawl oedd yn ofni Duw" oeddid yn eu derbyn yn llyn; eithr nid *hynny* yn gyntaf a roddodd iddynt bawl i'r derbyniad hwn; er mae trwy hynny y cawsant hwy dderbyniad i mewn, ac amlygiad o'r peth. Gan nad oes neb yn ofni Duw, nes dodo ef ei ofn ynddynt; nid yw eu gwaith yn ei ofni ef yn rhagflaenu, ond yn canlyn ei dderbyniad o honynt: dyma ei *raslonrwydd* ef i'w bobl. Eithr,

3. ' Os ordeiniwyd dynion i iechydwriaeth yn ddiammod, pa raid wrth, neu pa les y wna gweithredoedd da ?

Atteb. Y mae gweithredoedd da yn llesiol i lawer o ddefnyddiau a dybenion daionus; a rheswm da y sydd paham yr ordeiniodd Duw i ni rodio ynddynt, er nad yw ein rhodiad ynddynt yn sail, yn ammod, neu'n gynhyrriad i'n etholedigaeth: megis, 1. I dystiolaethu ein cariad tuag at Dduw; trwy " rodio yn ol ei orchymynion ef." 2. " I fynegu rhinweddau" yr hwn yr ydym yn galw ein hunain yn blant iddo: Mat. v, 45. " Fel y byddoch (neu fel yr amlygoch eich bod) yn blant i'ch Tad yr hwn sydd yn y nefoedd." 3. I argyhoeddi'r rhai sydd oddi allan; fel y gellid trwy ein hymarweddiad da eu hennill, ac y dysgont wneuthur daioni; neu ogoneddu Duw yn nydd yr ymweliad. 4. Er annogaeth a siampl i grist'nogion gweinion; y rhai nid ydynt etto ond plantos yn ffyrdd Duw, ac a arweinier yn well gan siamplau na gorchymynion. 5. Fel trwy fod gennym synwyr wedi ei ymarfer mewn pethau sanctaidd, y byddom addas i

gael cymmundeb â Duw, ac wedi ein cymhwysu i'n nefol etifeddiaeth. 6. Rhan o Etholedigaeth yw gweithredoedd da, ac mor gwbl wedi eu hordeinio ag iechydwriaeth ei hun.

Nid oeddwn yn meddwl ymyrred y'mhellach â'r gwrthddadleuon: eithr pan ystyriais y gallent (yn groesi'w dyben) wasanaethu i ddangos mor wâg yw yr hyn a gyuhygir yn erbyn yr athrawiaeth o Etholedigaeth, myfi a'i dodais yma.

Gwrthddadl. 'Nid oes nac Etholedigaeth, nac arfaeth o Etholedigaeth dynion neillduol fel y cyfryw; eithr o holl ddynolryw, er tragywyddoldeb.'

Atteb. Etholedigaeth yw dewis rhai o fysg eraill; ac yn ganlynol, dewis *pawb*, sydd ymadrodd yn gwrthddywedyd ei hun. Y mae'r ysgrythyr yn dywedyd ein dewis allan o'r *byd*, am hynny ni ddewiswyd y byd; hynny yw, nid gwrthddrych Etholedigaeth yw holl ddynolryw.

Gwrthddadl. 'Ni ddarfu i Dduw er tragywyddoldeb ethol neb o ddynolryw, fel na allo, os bydd ef byw i oedran synwyr, syrthio ymaith neu fod yn golledig.'

Atteb. Hyn sydd gyfeiliornus, 1. O herwydd os felly, yna yr oedd yn bosibl i Grist fod yn golledig. 2. O blegid ei fod mor bosibl i farwolaeth Crist fod yn ofer. 3. Y mae yn gwneuthur etholedigaeth a'r arfaeth yn ddau beth wahan-iaethol o ran amser. Fe brofwyd o'r blaen bod etholedigaeth er tragywyddoldeb; ac yn sicr na cholli'r etholedigion, Ioan xvi, 18.

Gwrthddadl. "Bwgwth damnedigaeth sydd yn gwbl wrthwyneb i arfaeth ddiammod i achub.

Atteb. Nid yw hynny ddim mwy gwrthwyneb, nag yr oedd bwgwth marwolaeth i Adda, i fwriad Duw i ddanfôn Achubwr iddo. Nid oedd anghyttundeb rhwng y gocheliad hwnnw, "Oni erys y rhai hyn yn y llong, ni ellwch fod yn gadwedig;" a'r addewid diammod o'r blaen, "Ni bydd colled am einioes un o honoch." Yr addewid o ddiogelwch oedd *ddiammod*; ond y gweithrodol fwynhad o honi oedd *ammodol*: etto felly fel yr oedd *cyflawniad* yr ammod *mor sicr* trwy'r arfaeth, ag yr oedd y *diogelwch*; o herwydd, yr hwn a ordeiniodd fod eu bywyd yn ddiogel, a ordeiniodd hefyd y byddai felly trwy iddynt aros yn y llong; ac y byddai i'r bwgythiad o berygl, os aent allan, fod yn fodd i'w cadw i mewn; ac felly y bu. A'r un modd geiriau'r apostol, lle mae yn dywedyd mewn lle arall, "Ni arglwyddiaetha pechod arnoch ehwi;" ac "Na allai ddim eu gwahanu oddiwrth gariad Duw." Canys megis y mae'r Arglwydd yn ymdrin â chreaduriaid *rhesymol*, felly y mae'n arfer cyn-

hyfriadau a gocheliadau *rhesymol* i weithio arnynt; y mae'r dyben, a'r cyfryngau, a'r cymhelliadau i arferu'r cyfryngau wedi eu *hordeinio ynghyd*.

Gwrthddall. 'Ni a'i barnem yn beth afresymmol mewn tad roddi i'w blentyn gyflawn sicrwydd tan ei law a'i sêl, y cai ef fod yn etifedd iddo, er dim y ddigwyddai; ac etto yn ebrwydd ei fwgwth y dygai ef yr etifeddiaeth oddi arno, os byddai yn anufudd.'

Atteb. Plant anufudd a allant farnu yn llyn am weithredoedd eu tad: ac fe all bod gan blant (er eu bod yn ufudd ac yn dda) tra fyddont yn blant, feddyliau plentynaid am weithredoedd eu henafiaid; ond rhai mewn oedran ac yu adnabod doethineb a daioni eu tad, a osodant eu dwylaw ar eu genau. Yr oedd yr addewid o roddi Canaan i had Abraham, mor ddiammod, ag na allai eu holl anpheilyngdod ei attal: etto pa mor fynych y mae Duw yn bwgwth eu "etifeddu, a dileu eu henw oddi tan y nesoedd?" A ddarfu i Moses yn awr 'roddi dim yn ynyd yn erbyn Duw?' A ddywedodd ef wrtho, peth ynyd yw bwgwth yn llyn, yn ol it' ymrwymo mor gadarn ac mor ddiammod i'r gwrthwyneb? Na ddo, eithr y mae yn dwyn ar gof i'r Arglwydd ei addewid i'w tadau, o'i drugaredd yn maddeu iddynt o'r blaen; pa ddianrhydedd y fyddai i'w enw sanctaidd yn mysg yr Aiphitiaid, os dinystrai ef hwynt yn awr, a'r cyffelyb. Nid yw yn achwyn mai peth afresymol oedd addo yn gyntaf, a bwgwth gwedi'n: ynyd ac anghyttunol iawn â'i ddyledswydd y fuasai i Moses wneuthur felly. Ond yn fwy eglur, nid peth afresymol y fyddai i Dad bwrcasu etifeddiaeth i'w fab, a'i rhwymo mor ddiogel fel na allai ei thorri oddi wrtho; ac etto (gan gelu y weithred a seliodd) addo mwynhad o'r etifeddiaeth i'w fab yn ammodol; sef os ufuddbauai i orchymynion ei dad; a hyn i gyd i'r dyben i'w gynhwysu i feddiannu'r 'stâd. Ond etto pe byddai gan y tad y fath awdurdod ar ei fab, ag y sydd gan Dduw ar galonau ei bobl; efe a'u triniau felly â dysgyblaeth, ac âg egwyddorion da, fel na byddai achos iddo ei cholli. Ac hefyd nid yw bwgythion o ddamnedigaeth yn perthynu yn briodol i'r rhai crediniol, canys "yr hwn sydd yn credu, aeth trwedd o farwolaeth i fywyd, ac ni ddaw i farn;" er eu bod bod weithiau, o eisiau adnabod eu cyflwr, o ran eu hanniolchgarch i Dduw, neu ryw droseddiad arall, yn dwyn eu hunain i ammeu o hono: eithr "y maent wedi eu selu hyd ddydd prynedigaeth" â sêl na cholli'r byth.

Gwrthddadl. ‘Pe b’ai un wedi ei ordeinio i fywyd tragywyddol er tragywyddoldeb, fel nad allai fod yn goll-edig, ni byddai raid i Grist farw tros hwnnw?’

Atteb. Y mae y rhai sy’n ymddiffyn Etholedigaeth ddi-ammadol, yn ol yr ysgrythyr, yn ei gosod “yn a thrwy Grist:” yr un arfaeth ag a ordeiniodd i iechydwrriaeth a ordeiniodd hefyd gyfryngdod Crist fel y ffordd i hynny; fel y byddai Duw yn gyfiawn wrth gyfiawnhau; “Efe a’n hap-pwyntiodd i gaffael iechydwrriaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist.” Chwi allech gyda chymmaint o reswm ddywedyd, os trefuwyd i Noa fod yn gadwedig rhag y diluw, yr oedd yr *arch* yn gwbl afreidiol: a chan i Dduw ethol dynion i iechydwrriaeth trwy sancteiddiad yr Ysbryd a ffydd, mae ffydd a sancteiddrwydd yn afreidiol. Ymresyniadau gwrthun yw’r rhai’n, y rhai nid yw’r gwirionedd yn eu harddel, ac nid rhaid iddo withynt.

Gwrthddadl. ‘Yr y’m yn barnu bod yr athrawiaeth hon yn gwbl elynol i dduwioldeb: canys pwy a ymorchesta ac a lafurfa am yr hyn a allo ei gael yn hawdd?’

Atteb. Ni all yr athrawiaeth o Etholedigaeth ammodol, beth bynnag y mae hi yn gymmeryd arni, fod yn hynaws i dduwioldeb: gan fod yr hyn oll y mae dyn yn ei wneuthur, yn terfynu ynddo ei hun. Duwioldeb yw cyfeirio at Dduw fel ein prif ddyben yn yr hyn oll a wnelom: mae’r dyn sy’n credu ei ethol, ac yn caru Duw o egwyddor, yn gogoneddu Duw yn fwy na’r hwn sydd yn gwneuthur yr un dyledswyddau o ran rhyw ddisgwyliad o gael bywyd trwyddynt. Yr oedd y Phariseaid yn ymprydio’n fynychach na dysgyblion Crist; ac etto nid oeddent y fath ewyllyswyr da i dduwioldeb a hwynt. Gweddiau hirion, ymprydiau ac elusenau, nid ydynt ddim heb gariad: a pha un (meddwch chwi) a gar Duw fwyaf, a’r hwn sydd yn credu ei fod yn ughariad Duw yn anghyfnewidiol, neu’r hwn sydd yn dala, yn ol ei holl lafur a’i ymrôad, y gall redeg yn ofer a cholli’r cwbl yn y diwedd? Os dywedwch yn llyn, yr y’ch yn groes i brofiad plant Duw, ie ac i natur hefyd; canys pwy a’i cyfrif yn boen fwyta ei fara pan bo natur yn gofyn hynny; yn enwedig pan bo yn dra chyttunol â’i archwaeth? “Ei holl ffyrdd sydd hyfrydwch i’r neb a rodio ynddynt:” ac os ydynt drymion i neb, y maent felly i’r rhai sydd anghydnabyddus â’i gariad ef, 1 Ioan v, 3.

Gwrthddadl. ‘Rhaid ei fod yn gwneuthur pobl yn rhydd ac yn esgeulus yn ngwasanaeth Duw.’

Atteb. O rhyfedd! fod sicrwydd o gariad Duw yn gwneu-

thur pobl yn esgeulus i'w wasanaethu ef; ni all y rhai sydd yn caru Duw fod byth yn rhy ddiwyd i wneuthur "eu galwedigaeth a'u hetholedigaeth yn sicr." Fe wyddai ein Hiachawdwr "fod gwedi rhoddi i'r angylion orchymyn am dano, ac na chai ef daro ei droed wrth garreg;" etto yr oedd yn ofalus am ei ddiogelwch ei hun. Yr oedd Paul yn sicr o "goron cyfiawnder," etto mor ddiwyd "i gadw i lawr ei gorph, ac i ymestyn i redeg ei yrfa," a neb o'r rhai sydd yn gosod pwys eu hiechydwrriaeth ar eu gweithredoedd.

Gwrthdadau. Y cyfryw Etholedigaeth sydd yn gosod anrhydedd ac angenrheidrwydd yr ordinhad fawr o bregethu'r efengyl yn y llwch: canys os gall yr etholedigion (fel y gelwir hwynt) fod mor sicr yn gadwedig trwy weinidogaeth egwan, wael, llygredig; ac heb fwynhau hon ychwaith (fe allaf) oddi eithr diwrnod neu ddau yn holl fywyd dyn; yn mha beth gan hynny y gwnair cyfirif o weinidogaeth yr efengyl?

Atreb. Nid yw'r arfaeth ddiammod, "Na fydd i haf na gauaf, dydd na nos beidio," yn ei wneuthur yn afreidiol bod haul yn y byd, iddo godi a machludo, a rhedeg ei yrfa, o herwydd felly (fel cyfryngau angenrheidiol) y cwplhäir yr addewid. Yr un modd, nid yw yr addewid penderfynol, "Na pheidiai amser-hau, nac amser medi," yn peri bod y Hafurwr yn afreidiol na'i waith yn aflesiol; ond, yn y gwrthwyneb, yn ei anuog i'w ddyledswydd, ac yn ei gefnogi yn ei waith.

Ni's gallant ddiangw rhag grym y rheswm. Nid gwiw iddynt ddywedyd fod Duw yn caniattau moddion digonol i hau a medi; megis had, anifellid, aradr, ogeid, pladurau, &c. ynghyd âg hîu dymherus; ac mai dyna'r cwbl a gynhwysir yn yr addewid: ac oni wna dynion ddesnydd o'r moddion, bydd y bai arnynt eu hunain. Gwir, yr wy'n cyfaddef bydd y bai arnynt eu hunain, ac y cospir hwy am eu hesgeulustra; ond attolwg, yn ol y dull hyn o siarad, pa beth a ddaw o sierwydd yr addewid? Gan hynny nid hyn yw'r cwbl; yr hwn a arfaethodd pa hyd y parha'r ddaear, a phanifer o ddynion a fegir arni, a drefnodd y moddion i'w dwyn i'r byd, ac i'w cadw'n fyw hyd yr amser terfynedig; ac a osododd ynddynt egwyddorion o hunan-amddiffyniad, trwy y rhai mae yn naturiol iddynt arfer y moddion hynny, megis bwyttu, yfed, cysgu: "Efe a osododd y byd yn eu calonau hwy," Preg. iii, 11. Felly yr ordeiniodd yr Arglwydd weinidogaeth yr efengyl i'r etholedigion, dros gybyd o amser; ac y caent ddisgwyl wrthi yn y fath fodd ag a fo fwyaf.

cyttunol â'i bwrpas ef; a'r hyn y fydd iddo ef i fendithio, a'i wneuthur yn effeithiol i'r dyben hwnnw; fel y mae'n amlwg wrth ei waith yn anfon Paul i rai lleoedd, lle yr oedd yn rhaid iddo bregethu ac "heb ddistewi;" pabam? "am fod gan Dduw lawer o bobl (etholedig) yno," y rhai yr oedd yn rhaid eu dwyn i mewn trwy weinidogaeth Paul: nid y's yn gadael iddo fyned i Bythynia a lleoedd eraill, er ei fod yn ewylllysio myned; nid oedd gan Dduw etto ddim gwaith iddo yno. Yr Arglwydd a ddwg y rhai sydd i'w dala dan y moddion, fel y daeth ef â'r lluwys pysgod i rwyd Pedr: fel y gwnaeth ef â'r eunuch, â Chornelius, â cheidwad y carchar, ac âg eraill. Ac nid yw Duw yn matteru pa un a fo y moddion hyn ai nerthol ai gwael yn nghyfrif dynion; ei air a wna yr hyn yr anfonodd ef o'i blegid: a pha wannaf bo y moddion, mwyaf y mawrhygir gallu Duw. Gwelwch Act. ii. Pa fodd y darfu iddo trwy weinidogaeth dynion *anllythyrenog*, eu cymmeryd wrth y *miloedd!* a chwanegu *beunydd* at yr eglwys y rhai a fyddent gadwedig. Nid yw, gan hynny, yr athrawiaeth o Etholedigaeth *ddiammod*, yn gwneuthur gweinidogaeth yr efengyl yn anefnyddiol nac yn ddibris; eithr y mae hi yn hytrach yn ei mawrhygu, gan ei bod yn *allu* Duw i iechydwriaeth, i'r hou yr ordeiniodd ef ni.

Gwrthddadl. ' Pa les y wna doniau, gwybodaeth, araith, a'r cyffelyb, i'r byd, os gall pawb sydd bosibl i gael eu hachub, fod yn gadwedig hebddynt?

Atteb. Nid yw yn canlyn oddiwrth yr athrawiaeth o Etholedigaeth *ddiammod*, nad yw y doniau godidoccaf o ddoethineb, gwybodaeth, araith, &c. yn dra buddiol i'r byd; canys i berffeithio'r saint, ac i adeiladu corph Crist (sef yr etholedigion) y rhoddir hwynt; ac i'r un dyben y mae'r amryw doniau, eglurhadau, a gweithrediadau yn cyd-daro; gan mai yr un Duw sydd yn gweithredu pob peth y'mhawb, hynny yw, y mae yn ordeinio dynion i iechydwriaeth; a'r doniau hynny fel cyfryngau i'w parottoi, y rhai mae yn eu gwneuthur yn effeithiol i'r dyben. Ond yr athrawiaeth sy'n dywedyd i'r byd, fod yr haul a'r ser yn pregethu'r efengyl yn ddigonol i iechydwriaeth, sy'n gwneuthur doniau, doethineb ymadrodd, &c. yn ddi-ddenydd i'r byd; canys (mewn gwirionedd) os felly y mae, pa gyfrif sydd i'w wneuthur o'r doniau godidoccaf hyn? "I ba ddyben y mae'r golled hyn?" Pabam y mae y goreu o ddynion yn dyoddef gwialenodau, carcharau, a marwolaeth, am wneuthur yr hyn a allid ei wneuthur gan rai allan o gyrraedd perygl: ac y'mhellach, peth rhy gyffredin a chydabyddus yw, nad ydyw y dynion

mwyaf mewn gwybodaeth, ymadrodd, a dyfnder rheswm (y rhai a elwir tywysogion y byd hwn) yn fwyaf caredig i wirionedd a duwioldeb; ac nid yw y rhai o honynt ag sydd felly yn gyffredinol yn fwyaf llwyddiannus yn eu gwaith; lle mae rhai eraill o ddoniau gwael, mewn cyffelybiaeth, " yn aflonyddu'r byd." Y mae'r Arglwydd yn fynych yn gwrthod y *doeth* a'r *dyallus*, ac yn datguddio ei hunan trwy *fabanod*; i gymmeryd gorfoledd oddiwrth ddynion, ac i ddaugos bod fydd ei bobl yn sefyll, nid ar *ddoethineb* dynion, ond ar *nerth* Duw, " gwendid yr hwn sydd gryfach na dynion, a'i ffolineb yn ddoethach."

Gwrthddadl. ' Pa fodd y gallir annog pobl at ddiwyd a chydwybodol ddisgwyliad wrth y weinidogaeth, os gallir mor sicr gael iechydwrriaeth trwy ddisgwyliad esgeulus?'

Atteb. I ba beth y mae'r Arglwydd mor fynych yn cyngori'r bobl, i gadw'r gyfraith heb droi oddi wrthi; i enwaedu eu calonau; na byddent mwy war-galed; a hyn er mwyn cael Canaan; os ni allai eu holl annheilyngdod eu rhwystro i'w chael; fel y mae awdwr y gwrthddadl hon yn cyfaddef mewn lle arall? Eithr y'mbellach, fel y mae dynion yn greaduriaid, eu dyledswydd yw gwasanaethu ac anrhydeddu Duw; ac er mwyn hynny, i ddisgwyl wrtho ef yn ei ordinadau, a hynny gydâ phob diwydrwydd; er na b'ai yn perthyn i'w hiechydwrriaeth; ond mwy o lawer pan y mae felly, os gall dim ag sydd yn perthyn i ni ein hunain annog i dyledswydd: ac yn wir, y melusder presennol sydd i'w gael yn ffyrdd da Duw, y'nt ddigonol i beri i ni yn dra ddifrifol ddisgwyl wrthynt. Ond nid yw'r athrawiaeth o Etholedigaeth ddiammed yn dywedyd, y gellir mor sicr gael iechydwrriaeth a chymhwystra i hynny trwy ddisgwyliad esgeulus; o herwydd y ma'i'n wastadol yn annog, fel dyledswydd bwysfawr, " arfer pob diwydrwydd i wneuthur ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth yn sicr." Ond yn ddiâu 'esgeulusdra mewn dyledswydd,' sydd yn naturiol yn canlyn yr athrawiaeth sydd yn dysgu fod yn bosibl i ddyn ar y cam olaf golli'r cyfan ag a redodd am dano: canys pwy a ymorchesta ac a ymfina (fel y dywedant) am beth ansier? Os oes neb yn esgeuluso eu dyledswydd, waith eu bod wedi eu hethol, nid ydynt yn rhoddi ond amlygiad gwael o'u cyflwr; ac yn fynychaf y rhai sydd yn gwrthwynebu, ac nid y rhai sy'n caru yr athrawiaeth o Etholedigaeth, ydynt.

Gwrthddadl. ' Yr ydym yn barnu, bod Etholedigaeth yn gwbl annheilwng o natur Duw; ac yn anghyttunol â'i ddoethineb, ei sancteiddrwydd, ei drugaredd, a'i gyfiawnder.'

Atteb. Os Etholedigaeth annheilwng o Dduw mae'r gwrthddadleuwr yn ymdrechu yn ei herbyn, y mae hi yn gyfryw (hyd y gwn i) na ddadleuodd neb erioed drosti; ac am hynny, cam-dreulio amser yw dychymygu daliadau ffeilstion, a chymmeryd llawer o boen i'w gwrthddywedyd. Ond yn erbyn Etholedigaeth *ddiammod*, heb ei seilio ar *weithredoedd* dynion y maent yn amcanu: a thros hon yr ydym yn dywedyd, 1. Nid yw Etholedigaeth *ddiammod* yn *wrthwyneb* i ddoethineb Duw, ond yn dra chyttunol â hi: o herwydd pa fodd y gallai ei ddoethineb ef *arfaethu* marwolaeth ei Fab er iechydwriaeth dynion, a gadael heb *ordeinio* (ac yn ganlynol yn *ansicr*) pa un a fyddai neb gadwedig trwy hynny? canys felly rhaid ei fod, os nid yw Etholedigaeth yn benderfynol. 2. Y mae cyn belled oddiwrth fod yn wrthwyneb i drugaredd Duw, a'i bod yn dra chyfattebol iddi. Dangos trugaredd, yw agor y galon i ddyn mewu cyfyngdra; caru a gwneuthur daioni i elynion, y rhai a allasai mor gyfiawn eu dinystrio; a'r rhai nad oedd dim rhwymedigaeth arno i'w harbed, llai o lawer i'w derchafu: ie (ysgatfydd) yn waeth na dynion eraill, y "pennaf o bechaduriaid;" yr hyn yn ddiau yw'r *amlygiad mwyaf* o drugaredd. 3. Nid yw yn erbyn cyfiawnder Duw; canys, i *bwy* y mae, neu y gall fod yn *ddyledwr*? Efe a roddodd feddiant i bawb yn Adda; a chan iddynt ei golli trwy eu hesgeulusdra eu hunain, nid yw ef yn rhwym i'w adferu: ac am hynny nid anghyfiawnder yw achub y naill heb y llall.

Gwrthddadl. 'A ydyw ef yn dangos rhagorol radd o ras, pan y bo deng mil wedi pechu yr un modd, faddeu i un neu ddau; a llawn fwriadu yn anghymmodol boenydio y lleill oll i'r eithaf? a hynny er dim tristwch ac eiddifeirwch am eu bai ag a allo fod ynddynt?'

Atteb. Peth tra dymunol yw i ddynion, tra fyddont yn cymmeryd arnynt ymresymu dros y gwirionedd, drefnu eu hymadrodd fel y gweddai i'r pethau pwysfawr y b'ont yn son am danynt; ac yn fwy o lawer edrych na ddelont cyn agosed at eglur-waradwyddo y gogoneddus ras, yr hwn ni allwn gyda digon o barch feddwl am dano. Y mae achos i'r rhai sydd yn dywedyd yn llyn, i brofi eu hysbrydoedd ai o Dduw y maent; o herwydd eu bod oddiwrth yr un pethau yn tynnu casgliadau cwbl wrthwyneb i'r neb (a wyddom) a lefarasant fel y cynhyrfwyd hwynt gan Ysbryd Duw. Yn nghyfiif yr ysgrythyr, nid yw ddim anghlod i ras Duw, iddo alw Abraham *ei hun*; gan adael *miloedd* eraill yn eu cyflwr colledig. Ac ni allaf fi gredu bod Moses yn ei debyg yn anghlod yn Y

byd i gariad Duw at ddynolryw, lle mae yn dywedyd iddo ddewis pobl Israel yn bobl briodol iddo ei hun; y rhai etto oeddent "yr anamlaf o'r holl bobloedd." Yr oedd "un o ddinas a dau o deulu," yn llai mewn cyffelybiaeth, nâg un neu ddau o ddeng mil; ac etto nid yw "y rhai oedd â hawl yn y gras hwnnw" yn grwgnach, ond rhyfeddu ei fod yn caru neb, yn enwedig hwy eu hunain; ac nid achwyn arno, eisiau ei fod yn caru pawb yr un modd. "Pwy ydwyf fi (medd Dafydd) pan i'm dygid hyd yma!" Ac, medd dysgyblion Crist, "Arglwydd, pa beth yw'r achos, yr wyt ar fedr dy egluro dy hun i ni, ac nid i'r byd." Am hynny mwy rhyfeddol yw ystyried, paham a pha fodd, y mae rhai ag sydd yn galw eu hunain o'r frawdoliaeth, cyn belled yn ymmyred âg achos rhai oddi allan; a hynny mor wresog a'u bod yn cwmpo allan yn eu mysg eu hunain yn achos eraill; gwell a fyddai gadael ymddadleu a chwmpo i ymarfer. Ond i ateb yn fwy neillduol; 1. Ni ddylid chwedleua mor ddirmygus am y *gweddill* hwn; y maent yn fyrddynau o fyrddynau, a miloedd o filoedd: ac er lleied yw'r nifer (pe baent ond un, hwy a fyddent fwy o un nâg y mae'r holl greadigaeth yn ei haeddu) er lleied, meddaf, yw'r nifer, ni wyr uu dyn nad yw ef ei hun yn un o honynt; oui ddarfu iddo, trwy ddirmygu gras Duw yn ethol, ei fynegu iddo ei hun. 2. Dewis ychydig tra yr oeddent yn eu gwaed a'u gelyniaeth yn erbyn Duw, a llawn fwriadu, ie y pryd hwnnw eu gwneuthur yn ddedwydd i dragywyddoldeb; a hynny yn wrthwyneb i dueddiad naturiol eu hewyllys eu hun; oedd ras mwy goruchel a holl-awdurdodol, nâ'u hachub o herwydd iddynt ddefnyddio eu rhagorfreintiau yn well nâg eraill: canys hynny fyddai, nid o ras, ond o ddyled. Neu pe b'ai Duw yn dwyn deng mil cymmaint nifer i gyflwr achubol (fel y dywedant) ac etto, o bosibl, na fyddai un cadwedig; ni chai *gras* agos cymmaint o ogoniant a thrwy achub rhai yn anorchfygol. 3. Os rhagwelodd yr Arglwydd na chredai ond rhai; ac etto a gyflawn fwriadodd na achubai ef ne! ond a gredai; yna y mae'r gwrthddadl (*o ran ychydig nifer*) yn perthyn i athrawiaeth y gwrthddadleuwyr yn gystal a'r eiddom ninnau. 4. Tristwch duwiol, ffydd, ac edifeirwch, ydynt roddion Duw, perthynol i'r etholedigion: ac felly nid oes achos i dybyg y caer hwynt yn y rhai a-adawyd; nac i ofni llawn-fwriad anghymmudlon i gospi a phoenyddio neb o'r rhai *gobeithiol* a ddisgwyliant wrth borth trugaredd.

Y maent yn haeru pethau eraill yn erbyn yr athrawiaeth o Etholedigaeth, y rhai sydd mor hawdd eu hatteb a'r pethau

o'r blaen : ond gan mae fy ngwaith i yw casglu yr hyn sydd yn yr ysgrythyr tros yr athrawiaeth, ac nid ymdrech yn ei chylch; myfi a âf rhagof at y defnydd o'r athrawiaeth; yn unig fe fydd i mi ar y ffordd roddi gocheliad neu ddau.

1. Na fydded i neb dybyg fod Duw yn anghyfiawn neu yn dderbyniwr wyneb, o herwydd nad yw yn cymmeryd pawb; nac yn cymmeryd y rhai mae dynion yn eu barnu yn oreu. Onid yw tywysogion y byd hwn yn arfer llywodraethu ar ddynion fel hwynt eu hunain? neu a oes un deiliad-morwael, nad yw yn bwrw bod ganddo awdurdod i drefnu yr eiddo ei hun, heb ofyn cyngori arall? (yr hyn etto nid yw ond benthg iddo). Ac a ryfyga dyn gwael alw yr Arglwydd holl-awdurdodol i gyfrif? "Gwae a ymrysono â'i Laniwr." Os oes rhaid i chwi ymyrred, bydded â *phriddellau* fel eich hunain.

2. Na fydded i un dyn ddibrisio yr athrawiaeth o Etholedigaeth, am nad yw yn cymmeryd ond *gweddill*. Paham y gelwir hwy yn "braidd bychan," ond i fawrygu y drugaredd a'r rhagorffaint yn eu golwg! Nid oedd Noa yn dirmygu gras Duw iddo ei hun a'i feibion, o ran fod y byd o annuwolion allan o'r arch. Ac nid oedd gweddill a ddiangasant rhag y cleddyf yn yr Aipht, yn barnu eu gwaredigaeth eu hunain yn llai trugaredd, am na waredwyd y lleill o'u cyd-wladwyr yn yr un modd: nid yw dynion yn arfer dibrisio eu rhagorffreintiau, o herwydd nad oes gan eraill hawl ynddynt, ond yn hytrach yn eu mawrhau.

Ac yn awr, i *ragflaenu* meddyliau drwg a chasgliadau cyfeiliornus, y rhai mae rheswm cnawdol yn barod i'w cynnyg; gadewch i ni gasglu rhai ddefnyddion addas, y rhai a ellir eu gwneuthur o'r athrawiaeth hon, tu hwnt i *duim* ag a ellir ei wneuthur o'r athrawiaeth wrthwyneb.

I. Gan fod Etholedigaeth i iechydwrriaeth, ymröwch i gael rhan a chyfran ynddi: er nad yw eu nhifer ond bach, bwrwch i mewn eich coelbren, a byddwch un yn eu mhysg. Fy meddwl yw, er lleied y sydd yn wrthddrychau Etholedigaeth, gwnewch eich goreu i ddangos eich bod o nifer yr ychydig hynny: pe b'ai ond *dau* yn yr holl fyd, pwy a wŷt na allid ti fod yn *un* o honynt? Gwna hynny yn fwy o ran nad y'nt ond ychydig: rheswm ein Hiachawdwr yw, "Ychydig sydd yn myned i mewn i'r porth cyfyng, am hynny ymdrechwch." Nid oedd gan y Ninesfaid gymmaint obaith a chwi; canys yr oedd y bwgythiad o'u dinystr yn benderfynol, ac nid oedd un lle amlwg wedi ei adael i edifeirwch; etto hwy a ymddarostyngasant ac a droisant oddiwrth eu ffyrdd

irwg, yn unig ar yr ystyriaeth hon, "Pwy a wŷr a dry Duw, oddiwrth angerdd ei ddig, fel na ddifether ni?" Ynae yn ddedwyddwch ag a dâl i ehwi anturio am dano: canys, 1. Ni allwch golli dim wrth ei geisio. 2. Ni allwch gael gwell amlygiad o'ch bod wedi eich ethol, nâ'ch bod yn emhyfrydu yn y cariad sydd yn ethol, ac yn bwrw eich huanu arno. Ac, 3. Ni chollwyd neb erioed ag a syrthiodd i ddwyllaw Cariad dwyfol.

II. Mae'r athrawiaeth o Etholedigaeth penderfynol yn gyhoeddi rhagorol gyfoeth gras Duw; na adawodd ef y peth mawr hwn i *ddychymyg dymion*; eithr a'i gosododd ef yn fwy sicr a diogel nâg y gallasai dymion ei osod: canys rhy amlwg yw (wrth y rhesymau a arferir i geisio gwneuthur Etholedigaeth yn *ammodol*) pa fodd y buasai, pe gadewsid i ddoethwch dynion. Ac mi anturiaf ddywedyd, fod yr athrawiaeth o Etholedigaeth *ddiammodol* yn rhoddi 'chwaneg o galondid i enaid cystuddiedig, nâ'r wrthwyneb farn sy'n hustingan ei bod yn *ammodol*, yn mhob ystyriaeth; a hynny, cyn *credu*, yn gystal ag wedi *credu*.

1. *Cyn* delo dyn i gredu, pan bo tan argyhoeddiad o ran maintioli a lluosogrwydd ei bechodau, ac yn teimlo llygreddigaeth mor *anorchfygol*; y mae yn rhaid ei fod yn beth *anhawdd* iddo gredu, fod gan y Duw sanctaidd (yr hwn ni chyfrif yr anwir yn gyfiawn) *drugaredd* a *maddeuant* iddo ef! neu y bydd byth i'r chwantau afreolus hynny gael eu darostwng; ond pan ystyrio, 1. Fod Etholedigaeth yn cymmeryd y pennaf o bechaduriaid. 2. Nad yw yn tarddu oddiwrth, nac yn sefyll ar, un ammod i'w gyflawni gan ddyn. 3. A bod yn Etholedigaeth bob peth ag sydd rheidiol i fywyd a duwioldeb: pan ystyrio, meddaf, y pethau hyn, ni all na bo'n fwy hoenus i ganlyn Duw, nâ phe b'ai ei Etholedigaeth yn sefyll ar ei waith yn gwneuthur yr hyn y mae yn ei wybod na all ef ei wneuthur: canys y mae yn canfod trwy wylofus (*etto, trwy ras, dedwydd*) brofiad, mai megis y mae'r ddeddf yn wan trwy wendid y cnawd; felly hefyd, holl foddion gras a fyddent anfuddiol i iechydwrriaeth, heb *Ysbryd y gras*; ond y *cariad* sy'n ethol yn *ddiammodol* a'i cyfyd uwchlaw, ac a'i dwg dros ben pob anhawsdra: yn enwedig pan ystyrio, fod ffydd a sancteidrwydd wedi eu haddo a'u parottoi yn Etholedigaeth, mor *ddiammod* a iechydwrriaeth ei hun, yn yr hon y mae ffydd yn terfynu.

2. Yn *ol* delo dyn i gredu, y mae'r athrawiaeth o Etholedigaeth *ddiammod* yn dra buddiol, i'w gadw ar ei draed ac i'w adferu pan syrthio. 1. Cynhaliaeth fawr yw yn amser

profedigaeth. Y coffadwriaeth o'r cariad hwnnw, a edrychodd arno yn ei waed, ac a ddywedodd, "Bydd fyw!" sydd raid ei fod yn dra grymmus gyda chalon rasol, i'w chadw rhag yr hyn oll a allai fod yn anaddas i'r cyfryw gariad; (fel Joseph dduwiol, "Pa fodd y gwnaf y drwg hwn a phechu yn erbyn Duw," Gen. xxxix, 1.) yr hwn a ddeliodd mor haelionus â ni. 2. Nid oes dim mwy tueddol i godi yr hwn a syrthiodd, nâg ystyriaeth o rad gariad Duw ar y cyntaf, a alluog nerth yn bywioccau pan yr oeddem yn gwbl feirw; a bod y ddau hyn (sef y cariad a'r gallu) wedi ymrwymo mewn cyfammod diammodol, i ddwyn pob un ag a gymmero afael arno i ogoniant; a chan hynny, nid yn unig ei dderbyn e yn ol ei ddychweliad at ei ddyledswydd, eithr y'nghanol e wrthgiliadau a ddaw ac a'i iacha ef yn rhad. Ffordd Duw yn trin Ephraim sydd siampl berthynol i'r hyn sydd gennyn yn llaw, Esa. lvii, 17, 18, &c. Yma y mae megis yn sicrhau yr hoel mewn lle diogel; "Meddwl hyn Jacob, lluniais di ni'th anghoner gennyf; dileais dy gamweddau;" am hynny, "dychwel attaf fi." A Jer. iii, 14. "Trowch chwi, blant gwrthnysig, canys mi a'ch priodais chwi," (sef trwy'r cyfammod o Etholedigaeth.) I'r pwrpas hyn hefyd y mae Samuel yn ymresymu, 1 Sam. xii, 20, 22. "Nac ofnwch, chwi a wnaethoch yr holl ddrygioni hyn, etto na chiliwch oddi ar ol yr Arglwydd:" fel pe dywedasai, Diau fod eich anwiredd yn fawr, chwi a ddigiasoch yr Arglwydd yn fawr trwy gilio oddi wrtho; na ddigalonwch, fel pe b'ai'r Arglwydd ar fedr cilio oddi wrthy chwi: "Canys ni wrthyd yr Arglwydd ei bobl; (paham?) o herwydd rhyngodd bodd i'r Arglwydd eich gwneuthur chwi yn bobl iddo ei hun."

III. Oddiwrth *neillduoldeb* a *thragywyddoldeb* Etholedigaeth, yn gyffredinol y casglaf;

Gan i'r ysgrythyr roddi cymmaint anrhydedd i'r ddau amgylchiad hyn o Etholedigaeth; trwy eu mhynych goffa, a hynny ar achosion o'r pwys mwyaf, nid gweddus i ni edrych arnynt fel pethau canolog; eithr fel pethau defnyddiol, addas i'w cadw, ac i ymdrech drostynt mewn sobrwydd. Y mae'n oed i ni ddeffroi o'n syrthni i'w chwilio yn fanylach, ac i edrych pa ddefnydd i wneuthur o honynt. Ac yn fwy neillduol,

Oddiwrth neillduoldeb Etholedigaeth, yr wyf yn casglu,

1. Y dylid meddwl am dano fel peth ag sydd yn dwyn yr anrhydedd mwyaf i'r rhai mae yn perthyn iddynt. Y mae'r Arglwydd yn mawr anrhydeddu Moses, gan ddywedyd

wrtho, "Mi a'th adwaen wrth dy enw:" ei gyfrif felly, ac ymfoddloni yn fawr ynddo, er nacau iddo rhai pethau eraill ag yr oedd efe'n ewyllysio eu cael. Yn llyn hefyd y mae Paul yn anrhydeddu'r seintiau enwog hynny, y rhai oeddent ei gyd-lafŵrwyd yn yr efengyl, trwy ddywedyd, "Bod eu henwau yn llyfr y nefoedd." Na fydded yn beth ysgafn yn ein golwg, fod ein henwau *tlodion diffrioyth ni*, yn ysgrifenedig yn llyfr Duw, wedi eu gosod i fynu y'mysg ei drysorau ef yn y nefoedd, pan y mae enwau y cyffredinolrwydd (h. y. y rhai anrhydeddus) yn ysgrifenedig yn y llwch: canys hwn yw'r "enw tragywyddol yr hwn ni thorrir ymaith."

2. Y mae'r wybodaeth o'r rhagorfraint hwn, (sef o fod Duw yn dal sylw ar ein henwau) yn helaethu'r galon i ddisgwyl pethau mwy; yn rhoddi hydra ymadrodd tuag at Duw, megis na b'ai dim yn ormod i'r cyfryw un i ofyn: Gwelwch fel y mae Moses, cyn gynted ag y dywedodd Duw, "Mi a'th adwaen wrth dy enw," (fel un wedi ei gippio i fynu'r ail, ac a ewyllysiat fod yn y *drydedd* nefoedd) yn ateb, "Dangos i mi, attolwg, dy ogoniant."

3. Fel y mae yn anrhydedd ac yn rhagorfraint, felly y mae'n dystiolaeth o'ch *cyfrathrach* â Pheu yr eglwys, a'ch hawl i'r etifeddiaeth dragywyddol. Pwy bynnag nid yw'n tyunu ei achau o'r cof-lyfr hwn, a osodir allan o'r offeiriadaeth nefol, Neh. vii, 64. Ni ddaw neb i'r Jerusalem newydd, ond y "rhai sydd wedi eu hysgrifenu yn llyfr y bywyd: ie, pwy bynnag ni chefir yn ysgrifenedig yno, a fwir i'r llyn o dan: rhoddwch, gan hynny, bob diwydrwydd i wneuthur eich etholedigaeth yn sicr."

4. Y mae'n dangos ein dyledswydd. Pan byddo tywysogion yn rhoddi enwau anrhydeddus, tiroedd, neu ragorfreintiau, y maent yn arfer cadw rhyw dreth, neu gydnabyddiaeth i gofio eu deiliaid (er eu bod yn anwyl) oddiwrth bwy maent yn cael. Nid oes gennych un ffordd well i gydnabod eich Cymhwynaswr mawr, nac un ffordd i fod yn fwy defnyddiol yn y byd, na thrwy ddwyn ei enw a'i argraph ef, yr hwn a roddodd i chwi yr enw anrhydeddus. Gelwir chwi wrth ei enw ef; gan hynny, dygwch ei enw yn eich mynwes; dygwch ef ar eich ysgwyddau a chledr eich dwylaw; bydded i'r goreu o'ch serchiadau, y pennaf o'ch nerth, a'r cwbl o'ch egni, gael eu harfer i'w anrhydedd; bydded i'r hyn oll a wneloch ddwyn ei argraph ef, "yr hwn y mae ei enw yn sanctaidd."

Ac hefyd oddiwrth dragywyddoldeb Etholedigaeth.

1. Bydded i heneidd-dra y cariad a'n hetholodd, ber i'r calonau ei fawr brisio a'i anrhydeddu. Pa mor fawr y mae gwyr dysgedig yn prisio hen bethau (er na byddont ond o ddefnydd gwael) a pha mor ofalus y mae pobl i gadw hen *femrwn treftadol*, neu *ddinas-rhól*, er na chynhwysant ond rhagorfreintiau tymhorol, heb fod yn fuddiol iawn ychwaith pa fodd gan hynny, y dylid cadw coffadwriaeth dragywyddol o *ddinas-rhól* fawr y nefoedd! yr hon sydd gymmaint yn hen ach nâ'r byd, ac yn cynnwys pethau o *dragywyddol bwys gogoniant*; yr hon hefyd a sicrhawyd trwy gynifer o addewidion a amlygwyd mewn llawer o siamplau; yr hon y mae ei sêl y werthfawroccach nâ'r nefoedd ei hun; pa fodd, meddaf, dylai'r meddyiaid am dani fod yn dra gwerthfawr i ni! go wedded i lawr, coded i fynu, a bydded ar hyd y dydd gyda ni. Pa mor ofalus y dylem fod, nid yn unig rhag *diddym* ein *dinas-rhól* hon, eithr hefyd i'w chadw yn *lân* rhag polllwch a brynti, y rhai a allent mewn un modd rwystro ein hunain neu eraill i'w darllen.

2. Y mae tragywyddol *dechreuad* Etholedigaeth, yn dangos hefyd ei thragywyddol *barhad*; ac hefyd yn amlygu anorchfygol barhad y saint i ogoniant. Yr hyn sydd o tragywyddoldeb sydd i dragywyddoldeb; os tragywyddol yw'r *gwreiddyn*, felly hefyd y mae'r *canghenau*. Diau ma i'r dyben da hwn, yn mysg eraill, y 'sgrifeni'r ddwywaith yn y Dadguddiad, "fod eu henwau yn ysgrifenedig yn llyfr y bywyd;" sef i arwyddocau, y caiff yr etholedigion yn ddiogel eu cadw oddiwrth y gwrthgiliadau dychrynosol, a sythiant ar, ac a orchfygant y lleill o'r byd. Ac o ran hyn (ffallâi) nad ydym yn darllen am ddim a wnaethpwyd yn nhragywyddoldeb, ond Etholedigaeth, a'r pethau perthynol iddi; megis yr addewid o fywyd tragywyddol, yr Oen y laddwyd, y deyrnas y barottöwyd, a'r cyfryw. Ffynnon dragywyddol yw Etholedigaeth, yr hon a lifa, tra fydd llestr yn arllwys, neu yn abl cynnwys ychwaneg; ac y mae hi'n sefyll yn agor i bwy bynnag a ddelo: am hynny, dewch ac onid oes gennyh ddigon o'r eiddo chwi eich hunain, benthyccwch lestri, llestri gweigion nid ychydig; "talwch eich dyled, a byddwch byw ar y rhan arall" i dragywyddoldeb!

Oddiwrth yr athrawiaeth o ddewis yn Nghrist.

1. Y mae'n ddangosiad mawr o gariad Duw at ei ra ddewisedig. Ni a allwn ddywedyd am dano, fel y dywedodd Hiram wrth Solomon, "O gariad yr Arglwydd ar ei bobl, y

ddes ef ei fab yn frenin arnynt." Y mae hefyd yn ardd rhagorol o'i amrafael ddoethineb, iddo drefnu gwynledigrwydd ei bobl yn y cyfryw fodd ag oedd fwyaf sicr i iogelu eu mhwynhad o hono, mwyaf ardderchog i ddangos gariad tuag attynt, a mwyaf hawddgar i ennill eu calonau, i rhwymo atto ei hun yn dragywydd. Ni allwn hefyd nod rhyw faint o anfeidrol fawredd a sancteiddrwydd uw; o herwydd, er iddo garu ei etholedigion felly, fel y byddent un ynddo ei hun," etto ni chai yr undeb hwnnw i heb Gyfryngwr gogyfuch âg ef ei hun.

2. Dysgwch oddi yma eich sicrwydd a'ch diogelwch: pa fyngdra neu anhawsdra bynnag sydd yn dyfod arnoch, wch o'r afon hon ar y ffordd, a dyrchewch eich penau. Beth bynnag sy'n perthyn i fywyd a duwioldeb, i ras ac i goniant, i'r bywyd hwn a'r hwn sydd i ddyfod, y maent oll eidd eu trysori i fynu yn Nghrist, (fel yr oedd pob math o mborth yn yr arch i'r rhai a gawsai ffafwr yn ei olwg ef); ynddo ef y mae pob cyflawnder yn trigo," a hynny i chwi. Mae'n wreiddyn safadwy; yn rhoddi nôf a bywiogrwydd i w holl ganghenau: tra byddo bywyd ynddo ef, ni allwch hwi feirw. Hyn sy'n peri i'r saint sefyll yn ddiogel yn ghanol perygl: "Y drwg nid yw'n cyffwrdd â hwynt." I mgasgled yr holl haid gwrthryfelgar, satan, byd, a'r galon ddwrg diobaith, ac ymgynghorent ynghyd, etto eu bwriadau a ddiddymir; er iddynt ymosod arnom, etto hwy wasgerir: ymwregysent eilwaith, a dryllier hwynt: ymwregysent drachefn a thrachefn, a thorrer hwynt yn chwilfriw! yn llyn y mae, ac yn llyn y bydd hyd ddiwedd ein milwriaeth; "cannys y mae Duw gyda ni." Hyn a wnaeth Dafydd yn ddiost, ie, "yn nyffryn cysgod angeu, am fod yr Arglwydd gydag ef." A'r tri chyffeswyr ardderchog hynny a rodiasant yn ddiogel yn y "ffwrn dân," am fod *Mab Duw* yn eu mhysg. Am hynny, gwnewch y cwbl, dyoddefwch y cwbl, a disgwylwch y cwbl, fel yr y'ch yn Nghrist, ac nid mewn un ffordd arall: ond gwae yr unig, yr hwn pan gwympo, nid yw Crist ganddo i'w godi.

3. Bydded i'ch *perthynas* hon i Grist gael ei hamlygu trwy ddwyn ei ddelw; "Yr hwn a gyssylltir â'r Arglwydd un ysbryd yw." Yr enaint gwerthfawr cyssegredig a dywalltwyd ar y *Pen*, sydd yn disgyn hyd ymyl ei wisgoedd ef; sef at y gwaelfaf o'i ganlynwyr; ac y maent yn dygid yr arogl peraidd gyda hwynt, i ba le bynnag yr elont (fel y gwnaeth Paul, 2 Cor. ii, 14.) Y mae yn naturiol i'r rhai a briodwyd â Christ, i ddwyn ffrwyth i Dduw; ac edrychwch

ei fod y cyfryw ag a ddyoddefo'r profiad, a elo trwy bob math o dywydd, ac a fyddo gwell o blegid y dymestl.

4. Mae'r athrawiaeth hon yn egluro'r cyfiawnder sy'n cyfiawnhau, a pha fodd y mae ef yn eiddom ni. Ni all ein ffydd (neu'r weithred o gredu) fod y cyfiawnder hwnnw, am ei bod yn amherffaith; canys rhaid bod y cyfiawnder a'n cyfiawnhao yn gwbl berffaith, fel yr oedd y pechod a'n condemnodd yn gwbl bechadurus. Rhaid i'r cyfiawnder hwn hefyd fod yn gyfiawn yn eiddom ni (fel yr oedd pechod Adda) er ei gyflawni gan un arall. Gan fod Crist ac Adda yn gyffelyb, fel yr oeddent yn benau, iawn y cyfrifir euog-rwydd y naill, a chyfiawnder y llall, i'w neillduol hadau. A hyn oedd prif ddyben Duw yn gosod y rhai yr oedd ef ar fedr eu cyfiawnhau yn Nghrist; fel trwy ei fod ef wedi ei wneuthur yn bechod ac yn felldith drostynt hwy, y gallent hwy gael eu gwneuthur yn gyfiawnder Duw ynddo ef; ac felly y byddai Duw yn gyfiawn wrth eu cyfiawnhau hwynt. Ffydd yn y peth hwn, sydd yn sefyll yn lle amlygiad neu sêl i ni o'r cyfiawnder hwnnw, yr hwn oedd yn perthyn i ni, fel yr oeddem yn Nghrist cyn i ni gredu, (megis yr oedd Canaan yn perthyn i had Abraham cyn eu geni) ac a roddir ia' ar gyfrif yr hawl honno; fel y gallem gymmeryd gafael ynddo a mwynhau ei ffrwythau: yr hwn yn ddiâu sydd well sail i adeiladu ein cyfiawnhad arno, na'n ffydd wael amherffaith, yr hon sydd raid iddi beunydd wrth gyfiawnder Duw i'w chynnal ei hun. Ond na cholled ffydd ei gwir barch; gras gwerthfawr yw, ac ni ddylid ei bychanu: er nad gwreiddyn eich hawl i gyfiawnhad yw; etto y mae'r eglurdeb goreu ag a allwch ei gael o honi: er nad eich tabgneddyfwr, etto ni's gallwch wybod eich cymmodi, hebddi. Y mae eich 'sgrifen yn y nefoedd, ac ni ellir ei phledio (yn llys cydwybod) oni roddir hi allan dan sêl ffydd. Y mae'n debyg i lythyr cymmod, lle byddo rhai wedi cwmpo allan; er bod heddwch wedi ei wneuthur, a'r ammodau wedi cytuno arnynt; etto nid yw'r llythyr yn ei gyflawn rym, nes ei sicrhau o bob tu â chyd-osod dwylaw. Gan hynny,

5. Bydded yn ofal ac yn waith pennaf i chwi i ddyfod at Grist, ac i aros ynddo ef.

Bod Etholedigaeth wedi ei sylfaenu ar ras, yn cymmwys amryw hyfforddiadau defnyddiol; megis,

1. Ymgrymwech ac addolwch y Duw mawr am ei ddadguddiad annrhaethadwy hwn o'i gariad at ddynion; un o'r cymhwynasau cyfoethocaf yw, na ddarfu iddo ein hym-

ddiried i'n cadwriaeth ein hunain: bod un arall (a hwnnw yn un nad oedd dim rhaid iddo wrthym) yn fwy gofalus am danom nâg y buasem am danom ein hunain; bod y sicrwydd mwyaf am ein daioni pennaf; sef ei fod wedi ei seilio ar *ras*; y briodolaeth ag y mae'r Brenin mawr yn chwennych ei hanrhydeddu: ac iddo, yn erbyn ein hewyllys, yn groes i natur, seilio ein hiechydwrriaeth ar ewyllys un arall! ni buasem ni byth yn ei gosod yno nôd un sail arall: nid yw yn ol ffordd dyn; "O'r Arglwydd y daeth hyn, bydded rhyfedd yn ein golwg," Salm cxxviii, 23.

2. Y mae yn dangos in' pa reswm y sydd i ni ymwrthod yn hollol â'r farn wyrgam, gibddall, sy'n gosod pwys ein hiechydwrriaeth ar beth diddym; canys, beth anghen yw ewyllys dyn llygrëdig? Gadael ffynnon y dwfr byw, a gor-phwys ar bydew, i'e pydew wedi torri, pa ffoledd yw? taflu ymath ein hadenydd eryrod, ac ymddiried i droed wedi digymmalu, pwy ond yr ynyd a'i gwnei? Yn ddiâu yr oedd Job yn ystyried hyn, lle mae'n dywedyd, na wnai ef gyfrif o fywyd wedi ei seilio ar ei gyfiawnder ei hun, Job ix, 15. Nid yw gras Duw rwymedig i'r athrawiaeth sy'n rhoddi ei gogoniant i beth aflan; ac nid rhaid i eneidiau dynion ddi-olch fawr iddi 'chwaith: canys y mae yn eu porthi â breuddwydion a dychymygion; a phan ddihunont, yn eu gadael, "yn galed arwynt ac yn newynog." Na eisteddwch, gan hynny, dan gysgod y *eicaion* hwn; y mae pryf wrth ei *wreidd*; ni fermir yn ddiuog, ac ni chadwer rhag gwres yr haul, y neb a ymgysgodo tan ei gysgod ef. Gwreichionen a gynneuodd dynion yw; ac er eu hamgylchu â hi, mewn gofid y gorweddant, Esa. l, 11. Am hynny bydded i gyfeillion yr athrawiaeth hon, edrych yn dda pa fodd y maent yn sefyll, a chyfnewid eu lle mewn amser.

3. Ymarferwch â'r athrawiaeth o *Etholedigaeth* fel mae hi wedi ei seilio ar *ras*. Gras a roddodd i chwi eich *etholedig fod*, am hynny bydded yn ysbryd i chwi; a defnyddiwch eich *bod* i ogoniant y *gras* hwnnw. 1. Rhoddwch iddo yr holl anrhydedd o *Etholedigaeth*, na chaffed ewyllys-rydd, na dim arall gyfran o hono: na fydded i'ch ffydd, wedi ei rhagweled na'i pherffeithio, gael ei chyfrif yn sail neu yn gynhaliad o'ch *etholedigaeth*; eangen yw, ac "ni all y gauen (fel y gwyddoch) ddwyn y gwreiddyn." Ni ddylai ffydd ei hun (ac os ydyw yn ffydd iawn ni bydd iddi) "gasglu lle ni's gwasgarodd." 2. Ymddiriedwch yn y gras hwn yn wyneb eich holl anallu a'ch annheilyngdod; gan e' gyfrif yn achlysur cymmwys i *ras* ymfawrygu ac i

ddangos ei hun. Felly y gwnaeth Dafydd, "Maddeu fy anwiredd, canys mawr yw:" a Moses, pan na allai hell ufudd-dod y bobl roddi iddo un rheswm i geisio gan Dduw harhau ei bresenoldeb gyda hwynt; beth y mae yn ei ddadlen? a ydyw ef yn dywedyd, "Pobl ddarostyngedig i'w ewylllys ydynt, yn haeddu i ti wneuthur hyn iddynt, am eu bod yn caru dy gymdeithas, ac wedi adeiladu pabell i'w nag ydyw; nid oes dim o'r cyfryw wagedd yn ei ymbiliau ef: eithr, "Eled fy Arglwydd, attolwg, yn ein plith ni, canys pobl war-galed yw; eu gwar sydd geuyn haiarn, a'u talcen yn bres," Ecs. xxxiv, 9. Esa. xlvi, 4.; am hynny, tyred gyda ni i'n gwneuthur yn well, i'n nawseiddio, ac i faddeu i ni: canys yn hynny yr amlygir rhadlondeb dy ras i ni: o herwydd "pa fodd amgen y gwybyddir i mi a'r bobl hyn gael ffafwr yn dy olwg?" Ecs. xxxiii, 16. Ond etto,

1. Edrychwch na wneloch yn ysgafn o'ch pechod a'ch aflendid: ni allwch dybyg yn rhy wael am danoch eich hunain; nac yn rhy ddrwg am eich pechod; nac ymostwng gormod, yn unig na ddigalonir chwi! 2. Arferwch y moddion a drefnodd gras; gwyliwch a byddwch sobr; gwyliwch i weddio; gwisgwch holl arfogaeth Duw, edrychwch nag anghofioch eich cleddyf a'ch tarian: eithr bydded eich golwg yn wastadol at law gras, trwy Grist, am gyngor, nerth, bywiogrwydd, a phob peth da; a disgwyliwch iddo gynnal a chynhyrfu y gras a roddodd, fel y mae'r gwreiddau yn maethu'r canghenau. Y mae'r briodferch yn ol ei phriodi â Christ, yn dymuno cael ei "thynnu ar ei ol ef." 3. Beth bynnag a ddigwyddo i chwi, cofiwch ewylllys Duw; "tewch," fel Aaron; neu os llefarwch, "bydded eich ymadrodd wedi ei dymheru â halen; yr Arglwydd yw, gwnaed yr hyn a fyddo da yn ei olwg." Mi chwanegaf,

Hyfforddiadau llesiol eraill oddiwrth yr athrawiaeth o Etholedigaeth yn gyffredinol.

I. Gan ei bod yn athrawiaeth mor bwysfawr, na fyddwch ddiogel am dani hi: profwch eich hawl ynddi; ystyriwch pa fath yw'r etholedigion, a gwybyddwch ai felly mae hi gyda chwi.

1. A ydych chi, o ran iechydwrriaeth yn syrthio i lawr wrth ei draed ef, gan ddywedyd, "Ysgatfydd efe a'n ceidw ni'n fyw?" wele fi! yma yr arosaf, ac os derfydd am danaf, darfydded? Yn llyn y gwnaeth Job, pan yr oedd yr Arglwydd fel yn bwriadu ei ddifetha; etto y mae efe'n bwriadu ymddiried iddo, "ac ymddiffyn ei ffyrdd," Job xiii, 15.

Cariad bonheddigeiddach, ac o radd uwch yw hwn, nâg a adwaenir gan y rhai sy'n sybrwd; mai am eu *gwaith* y byddant gadwedig: cariad *cybyddlyd* yw hwnuw, ni symmud, ac nid edrych tua'r *winllan* nes cyttuno am ei *geiniog*; y mae'r llall yn myned ac yn gweithio, ac yn gadael i'r meistr roddi iddo yr hyn a fyddo addas, Mat. xx, 2, 7, 11.; ac yn ddiau nid gwaeth ar ei les fydd hynny.

2. A ydych yn derbyn gorchymynion Duw heb ammeu? felly gwnaeth Abraham yn achos Isaac, er na allai ganfod pa fodd yr oedd addewid Duw, a lladd ei fab, yn abl cydsefyll; ac felly y gwna plant Abraham: hwy a wyddant mai Brenin mawr yw eu Harglwydd, beth bynnag ag y mae ef yn ei orchymyn, eu dyledswydd yw ufuddhau heb ofyn pahan? neu pa fodd y gall y pethau hyn fod? Nid gweddus yw'r fath holiadau i wesusau'r rhai sy'n byw ar ras.

3. A ydyw eich cariad chwi tuag at Dduw yn myned yr un ffordd a'i gariad ef tuag attoch chwi; ffrwyth ei gariad, yw yr hyn oll a wnaeth neu a wnel i'w etholedigion. Ai o gariad y mae eich cariad a'ch ufudd-dod chwi yn tarddu? A ydyw eich cariad chwi yn deilliaw oddiw'rth ei gariad ef? Ai cariad yn ethol yw y gwreiddyn o hono? A ydyw'r cwbl ag yr y'ch yn ei wneuthur tuag at Dduw, mewn ffordd o ddiolchgarwch a dyledswydd? a chydâ bwriad i ogoneddu ei ras ef? A phau y byddo'r Arglwydd megis yn eilio oddi wrthy'ch, a ydych yn canlyn yn ddwysach ar ei ol; fel y darfu iddo ef eich canlyn chwi tros hir amser, gan ddisgwyl i fod yn drugarog tuag attoch? Cariad a weddai i Dduw mewn gwirionedd yw hwn; ei odidawgrwydd sydd yn sefyll yn hyn, iddo ein caru pan oeddem elynion, i.e. a'n caru i'w ddelw ei hun! felly bydded i ni ei garu ef, hyd yn oed pan byddo ein hofn yn ei gyfrif yn elyn, etto trwy nerth ei gariad ef yn dirgel weithredu yn ein calonau, awn rhagom i'w garu nes byddo i ogoniant yr Arglwydd godi arnom; ni allasech garu yr Arglwydd yn llyn, oni buasai iddo ef eich caru chwi yn gyntaf.

4. A ydych yn gorfoleddu yn y meddyliau am ei gariad yn ethol, beth yw, ac o b'le y mae? i beth eich trefnodd chwi, ac i beth eich dyg yn y diwedd? Ai'ch hyfrydwch yw myfyrio ar lyfr y bywyd? A ydych yn llawenhau yn fwy am fod eich enwau yn ysgrifenedig yn y nefoedd, nâ phe b'ai cythreuliaid wedi eu darostwng i chwi? Pan y byddo eich calon a'ch cnawd yn pallu, a ydych yn edrych ar gariad yn ethol, fel eich nerth a'ch cyfran, ac yn ei gyfrif yn etifeddi-iaeth ddeg? Ac a ydych yn foddlonach i fod wrth ewylllys

Duw, nâ'r eiddo chwi eich hunain? ac yn bendithio ei ddaioni a'i ras, iddo gymmeryd arno drefau eich daioni tragywydd? Ni allasai'r cyfryw ffrwyth darddu ond oddi-wrth "yr had hwnnw o'r eiddo Duw."

Gadewch i mi roddi rhai arwyddion y'mhellach o wir gariad, fel eu cymmerir yn gyffredinol yn mysg dynion.

1. Y neb sydd yn caru un arall sydd yn ymhyfydu yn ei bresennoldeb, ac yn ceisio oedfa i ymddiddan âg ef.
2. Pan y bo yn absennol, y mae yn meddwl llawer am dano, ac yn mawr groesawi yr hyn oll a allo fod yn goffiadwriaeth o hono.
3. Y mae'n ymroddi i'w foddioni ef, yr hwn yw gwrthddrych ei gariad, trwy anrhegu pethau hawddgar iddo; a gochelyd beth bynnag ag a allai roddi i'r llall achos i fod yn eiddigus o'i gariad.
4. Y mae yn rhoddi'r dehongliad goreu ar bob arwydd o oerfelgarwch yn ei gyfaill, ond nid yw foddlon nes ennill ei gariad drachefn, neu ei ddyall yn well.

II. Os o'r gweddill happus hwn o Etholedigaeth yr ydych, yna disgwyliwch am gael triniaeth ddrwg gan y byd. Yr oedd dynion y byd yn wastad yn casau Etholedigion Duw, ac a'u cashant. Paham yr oedd Esau yn casau Jacob? O herwydd y fendith: ac y mae ein Hiachawdwr yn dywedyd yn eglur i'w ddysgyblion, "Mi a'ch dewisais allan o'r byd, am hynny y mae'r byd yn eich cashau chwi." Tra yr oeddent yn natur yr oeddent yn caru'r byd, a'r byd yn eu caru hwythau: eithr pan byddo Etholedigaeth yn ymddangos yn ei ffrwyth, pan eu *galwyd*, yna gelynion dyn fydd y rhai o'i ddy ei hun. A hyn yw'r achos o fod yr athrawiaeth o Etholedigaeth mor ddiffas i'r byd, ac yr ymdrechir yn ei herbyn; [yn yr hwn ymdrech mi ddymunwn na b'ai rhai o'r etholedigion eu hunain (yn ddiarwybod) yn un-blaid!] Am hynny na thybiwch yn ddiethr, ond cymmerwch fel peth perthynol i Etholedigaeth; ac fel peth trwy yr hyn y mae'n rhaid (mewn rhan) eich cynhwysu at eich dyben mawr: eich Arglwydd ei hun a berffeithiwyd trwy ddyoddefiadau; a'r rhai a ragwybuwyd a ragluniwyd i fod yr un ffurf â'u Pen, o ran dyoddefiadau, yn gystal ag o ran gogoniant.

III. Gan i chwi ymddiried i Etholedigaeth am eich tra-gywyddol iechyd-wriaeth; edrychwch na byddoch yn ei hammeu am bethau o lai pwys. Pan ordeiniodd Duw chwi i fywyd, efe a ordeiniodd hefyd yr holl amryw ddigwyddiadau a gyfarfyddant â chwi yn eich ffordd; a diau nad yw yn gwneuthur dim yn ofer. Y mae'n rhaid wrth bob math o dywydd er daioni'r ddaear; tywydd tég yn wastad a'i dinystrai. Cydnabyddwch, gan hynny, y gwirionedd hyn.

id yr hyn oll sy'n perthyn i chwi wedi ei raglunio gan Dduw; a hynny mor dda na allai eich holl gallineb a'ch uriad attoch eich hunain ei wella; ac ni all eich holl astudydd na'ch gofal newid yr un o honynt, o ran defnydd na oll: ie, ni allwch wneuthur blewyn o un lliw; gan hynny, na ofalwch."

"Eithr beth yw'r achos fod rhai yn ymddiried i Dduw am a henaid, ond heb ymddiried eu corph, ac felly yn blino i hunain â beichiau anfuddiol?"

Y mae pethau daearol yn nesach at ein golwg; ac am hynny yr ydym yn fwy teimladwy o'r cysur neu'r colled o honynt: fe dybygid eu bod hefyd yn fwy o fewn ein cyrledd; ac am hynny yr ydym yn ymestyn yn fwy difrifol ar y gol, ac y mae ein blinder yn gyfatebol pan delom yn yr lle dylem ymddygid mewn pethau tymhorol, fel yr ydym (neu yn hytrach fel y dylem) wneuthur mewn perynyas i'n heneidiau; hynny yw, edrych at ein dyledswydd, ond yn ddiwyd yn ein lle, ac "yn foddlon i'r hyn sydd ennym;" gan ymddwyn ein hunain fel y gweddai i blant cyfryw Dad, mor gyfoethog, mor ddoeth, mor haelionus, mor dyner, ac mor flyddlon i ni; yr hwn sydd yn wastod yn goddi'r cymmorth goreu; a hynny yn y mesur, y modd, a'r mser goreu.

Arferwch eich ffydd gan hynny, megis yn y pethau mwyaf, felly hefyd yn y pethau lleiaf a chyffredinolaf; (yr hwn arfero ras a gaiff ias); eisiau ymarfer sydd yn eich gwneuthur yn efrydd yn eich llaw ddehau; a mynych arfer a'i wna yn fwy defnyddiol. Ffydd yw pen eich synhwyrâu sbrydol, ac os honno sydd weithgar, ni all y lleill fod yn eiddur nac allan o'u lle. Y mae ffydd yn marchnatta yn diddichell; yn urddangos pethau fel y maent, yn eu gwir mesur, eu defnydd, a'u diwedd. Am hynny ymgynghorwch ffydd yn mhob trafodiaeth; os amgen y cwbl fydd mewn anhrefn ar unwaith: hawsach yw i un weithred o ffydd ymmud y mynyddau, nac i anifeiliaid ar fil o fynyddoedd wneuthur hynny.

Yn olaf, Chwychwi y rhai a dderbyniasoch y gwirionedd hon, ac yn ol diwyd chwilio, a gawsoch ynoch eich hunain i ddau etholedigion Duw; eisteddwch i lawr ac ymgysurwch i'r addo: bydded llawenydd yr Arglwydd yn nerth i chwi: rwyttewch eich bara ac yfwch eich gwin (neu eich dwfr, pa bynnag a fo) â chalon lawen, gan eich bod yn gymmeru lwy gyda Duw. Os ydoedd Dafydd yn gorfoleddu cymaint am y ffafr tymhorol o gael ei ddewis i fod yn frenia

o flaen tŷ Saul; pa lawenydd a ddylai fod yn ein heneidiau, o herwydd ein bod ni yn cael *ffair neillduol*, yr hon nid oes i'r rhan fwyaf o'r *byd* ddim hawl iddi? Pa fodd y dylai gynhyrfu ein hysbrydoedd, yu mhob ufudd-dod, megis Dafydd, yr hwn a ddawnsiodd â'i holl egni ger bron yr arch; ac i bob hirymaros gydâ llawenydd; fel Paul a llestri etholedig eraill, y rhai a *orfoleddasant* mewn *gorthrymder*; am fod y *cariaid* hwn o eiddo'r Arglwydd wedi ei dywallt yn eu calonau hwynt?

Ai o'r doethion a'r anrhydeddus yn ol y cnawd yr ydwyf? llanwer di â sanctaidd ufudd-dod a gorfoledd, gan lawenhau gydâ dychryn, i'r Duw mawr fyned yn llyn allan o'i ffordd i'th alw di, a gwneuthur ei alwad yn effeithiol it', er bod byd o brofedigaethau rhwystrus yn dy amgylchu. Ai dyn tlawd, gwan, ynfyd, diystyr y'mysg dynion ydwyf? ac a edrychodd yr Arglwydd ar dy waeledd, i'th dderchafu trwy osod ei gariad arnat? a dderchafodd efe dydi o'r dommen, i'th osod y'mysg pendefigion, sef pendefigion y byd a ddaw? Pe b'ai chwi yn ben yn lie bod yn gynffon; pe b'ai gwarrau eich gelynyon tan eich traed; ie, pe b'ai'r cythreuliaid eu hunain wedi eu darostwng i chwi, ni byddai i chwi y filfed ran o'r achos i orfoleddu, ag y sydd o ran bod eich enwau yn 'sgrifenedig yn y nefoedd. A ydyw eraill yn llwyddo yn y byd, ac yn rhydd oddiwrth gythryblau, a chwithau yn cael eich dwyn i gyflwr isel, a'ch ceryddu bob bore? Nid oes gennyf (ysgatfydd) ond llonaid llaw o flawd, ac ychydig olew mewn ystên, &c. etto na thybygwch bod eich rhan yn wael: y mae eich pethau da i ddyfod, ac yn amser y cynhauaf yr Arglwydd ei hun a ddaw i'ch ceisio oddi yma; a chwi a gewch fod dros byth gydâg ef, yn mhresennoldeb yr hwn y mae cyflawnder o lawenydd, ac ar ei law ddehau afonydd o hyfrydwch yn oes oesoedd! Yna y cewch ganu, "Y llinynau a syrthiasant i mi mewn lleoedd hyfryd!" Fel y gwnaeth Abraham â phlant ei ordderchwagedd, felly y mae Duw yn gwneuthur âg Ismaeliaid y byd; y mae yn rhoddi iddynt hwy eu rhan ac yn eu hanfon ymaith; eithr y mae yn cadw'r etifeddiaeth i'w Isaaciaid; iddynt hwy y mae yn rhoddi yr hyn oll y sydd ganddo, ie ei hun hefyd: a pha beth a allwn gael yn ychwaneg?

AM

BRYNEDIGAETH.

MAE'r pwngc hwn, sef *Prynedigaeth*, yn gystal ag *Etholedigaeth*, yn deilwng o'n hystyriaeth manylaf, megis y cyfrwng cynhwysfawr, trwy'r hwn y cyflawnir y *dyben* twyaf, sef gogoniaf Duw yn iechydwriaeth ei etholedigion. Nid yw *Prynedigaeth* yn sylfaen arall, eithr pen conglsaen y byd a ddaw, a osodwyd yn *Etholedigaeth*.

Bod gan ein *Hiachawdwr* Iesu *Grist gorph*, neu *eglwys*, i'r hon y mae ef yn *Ben* ac yn *Iachawdwr*, sydd ddiammeu: ond pwy ydynt hwy, y rhai sydd yn gwneuthur i fynu y *corph* hwn; pa un ai holl ddynolryw yn gyffredinol, neu rhai dynion neillduol; pa un a wnaeth ef a marw dros bawb yn yr un modd; a pha un a all neb o'r rhai y bu ef farw drostynt ddyfod yn fyr o frwythau ei farwolaeth ef, ydynt ymofynion o fawr bwys, ac a haeddent eu dwys ystyried; ac yn enwedig o ran bod llawer yn son yn rhy ysgafn am danynt. Atteb i'r rhai'n yw *dyben* y *traethawd* hwn, yr *hwn* a rannaf i dair rhan, sef—

I. MAI'R ETHOLEDIGION Y'NT GORPH NEU EGLWYS CRIST.

II. MAI DROS Y RHAI HYNNY YN UNIG Y BU EF FARW.

III. NA ELLIR DIDDYMU AMCAN EI FARWOLAETH EF.

I.

Mai'r rhai etholedig sydd yn gwneuthur i fynu gorph neu eglwys Crist.

Wrth y *corph* neu'r *eglwys* yma yr wyf yn meddwl y rhai sy'n ddeiliaid o'i ysbrydol deyrnas, ac yn aelodau o'i ddirgel *gorph* ef; i'r rhai yr appwyntiwyd ef gan y *Tad* i fod yn *Ben*, ac yn *Iachawdwr*; yn *Brophwyd*, *Offeiriad*, a *Brenin*; y swydd driphlyg hon y mae yn gyflawni yn *neillduol* dros yr *etholedigion*, *eglwys* y cyntaf-anedig, ac etifeddion y byd i ddyfod. Eu rhif sydd bennodol a phierffaith-gwbl, ni ellir eu lleihau na'u 'chwänegu. O hyn yr oedd y *babell* yn arwydd, 1. O ran ei mhesur a chyfatteboldeb ei rhanau; yr hyn oedd yn ei haddurno'n fawr. 2. O ran bod Duw wedi rhagderfynu ei rhanau a'i mhesurau; ac heb eu gadael yn

yr hyn lleiaf, i ddynol ewyllys, neu ddamwain; y rhai a ddywedir yn eglur eu bod yn "bortreïadau y pethau sy'n y nefoedd," Heb. ix, 23.; hynny yw, o'r deml nefol, neu "gymmanfa y rhai cyntaf-anedig, y rhai sy'n ysgrifenedig yno;" ac yn yr amser a appwyntiwyd, a gasglir ynghyd atto ef, fel defnyddion teml Solomon i fynydd Moria, 2 Cron. iii, 1. 'Mai'r rhai etholedig sy'n gwneuthur i fynu gorph neu eglwys Crist,' a gasglir oddiwrth y fath ystyriaethau a rhai'n; sef,

1. O ran bod ein Harglwydd a'n Hiachawdwr yn eglur ddangos ei ofal am ei etholedigion, fel un â hawl neillduol ynddynt a golwg drostynt. Gyda hwynt yr oedd ei hyfrydwch er tragwyddoldeb, Diar. viii, 31. (profiad eglur o'i Dduwdod!) A chyn gynted ag y cawsont hwy fod gweithredol, efe a ddechreuodd ei gyfeillach gweithredol â hwynt; ac yn y modd hynny ni ymyrrodd ef â neb ond yr had etholedig. A pha amynedd a daioni anghredadwy y darfu iddo edrych at yr eglwys neu'r genedl etholedig dros ddeugain mlynedd yn yr anialwch! gan eu dwyn fel ar adenydd eryrod, a bod mor dyner o honynt ac o ganwyll ei lygad! A thra yr oedd yn preswyllo ar y ddaear, nid aeth ef allan o gyffiniau'r wlad sanctaidd; lle hefyd yr oedd ei holl hyfrydwch gyda'r saint. Y rhai hynny a wnaeth yn gyfeillion ac yn wyr o'i gyngor: a lle y mae y'mysg eraill, y mae felly o herwydd yr etholedigion oedd yn eu plith. Pa mor fynyched, a chydâ pa fath hyfrydwch y mae yn son am danynt! gan adrodd ei gariad tuag attynt yn ol y siampl mwyaf, megis "y carodd y Tad ef, felly y carodd yntef hwynt:" a pha bethau mawrion a wnaï ef drostynt? nid hyd at hanner ei deyrnas, ond i osod i lawr ei fywyd drostynt; gan eu casglu i mewn, eu codi i fynu, a rhoddi iddynt eistedd ar ei orsedd ei hun! Eithr nid yw yn edrych fawr ar y byd, ond gyda rhyw fath o ddirmyg a bwgwth; "Gadewch iddynt; ysgydwch y llwch oddiwrth eich traed: na roddwch y peth sydd sanctaidd i'r cwn," &c. i.e., er iddynt ei geisio, ni's caent ef, Ioan vii, 34. Ond ei bobl a'i caent, pan na b'ont yn ymofyn am dano, megis y wraig o Ganaan, a Gadareniad cythreulig, &c. A hyn oll am mai y rhai hyn yw ei ran, i.e., "rhan ei etifeddiaeth ef;" y dynion "a roddodd y Tad iddo ef allan o'r byd?" canys fel nad yw Crist ein Pen o'r byd hwn; felly nid yw na'i deyrnas na'i ddeiliaid ef.

Diau i'r Tad roddi Crist yn ben goruwch pob peth: ond y mae llawer o wahaniaeth rhwng ei fod yn Arglwydd i

bawb, ac yn Ben i'w eglwys; y mae ef yn Dduw i'r holl *ddaear*, ond yn Dduw *Israel* mewn modd neillduol. Y mae yn Ben i lywodraethu'r gwrthryfelgar, ac y maent yn wasanaethgar iddo, er nad ydynt yn meddwl nac yn bwriadu hynny. Nebucodonosor yw ei was cyflog yn erbyn Tyrus, *Zec. xiv, 5.* a Cyrus, yn erbyn Babilon; deheulaw y rhai yr oedd ef yn ei ddal, er nad adwaenent ef: "Moab oedd ei grochan golchi." Ond am yr etholedigion, ei ddeiliaid naturiol ydynt (er nad ydynt felly wrth natur); ac mor agos yw'r berthynas rhyngddo ef â hwynt, ag y dywedir eu bod "o'ignawd ef, ac o'i esgyrn ef:" un enaid ac un ysbryd y sydd ganddynt; efe a hwythau a wnaent un "gwr perffath," *Eph. iv, 13.*

Er mwyn yr etholedigion y mae'r holl fyd yn ddarostyngedig i Grist: o ran eu hiechydwrriaeth hwy, y mae ganddo awdurdod ar eraill; y mae ef "yn ben uwchlaw pob peth i'r eglwys;" sef i ddarostwng, llywodraethu, a threfnu'r cwbl er daioni'r eglwys: y mae "ganddo ef awdurdod ar bob cnawd, fel y rhoddai ef fywyd tragywyddol (nid i bob cnawd, ond) i'r cwbl a roddasid iddo ef" gan y Tad yn etholedigaeth; am hynny y mae yn dywedyd, "Mi a eglurais dy enw i'r dynion a roddaist i mi allan o'r byd; eiddo ti oeddent (sef trwy etholedigaeth) a thi a roddaist hwynt i mi." Yr hyn a ddywedir yn *Heb. x, 5.* "Corph a gymhwysaist i mi;" er ei fod yno yn bennaf yn meddwl am ei gorph naturiol, sydd wir hefyd mewn perthynas i'w gorph dirgel ef. Am hynny y mae'n gweddio drostynt fel rhai neillduol oddiwrth y byd, ac wedi eu rhoddi iddo i ddyben mwy rhagorol; megis yr ymddengys wrth gymmaru'r 2, 6, 9, 24, a'r 26 adnod o'r 17 o Ioan.

II. Y mae'n eglur wrth arfer y 'sgrythyr, mai yr un rhai, mewn amryw ystyriaethau, a elwir yn *eglwys* ac yn *etholedig*; etholedig, o ran eu dewis gan Dduw i iechydwrriaeth; ac yn eglwys Dduw, o herwydd eu galw a'u casglu ynghyd o fysg dynion, a'u "sancteiddio gan Dduw Dad," *Judas 1.* Ac yn eglwys Crist, fel yr ymddiriedwyd hwynt iddo ef gan y Tad mewn trefn i'r iechydwrriaeth honno, *Ioan xvii, 6.* O'r eglwys hon yr oedd y cynulleidfaoedd neillduol hynny, at y rhai y 'sgrifennodd yr apostolion eu hepistolau; He weithiau y gelwir hwynt, yn "anwyl gan Dduw;" weithiau yn "eglwys Dduw," a'r rhai a "sancteiddiwyd yn Nghrist;" weithiau yn "saint a ffyddlon frodyr yn Nghrist," ac yn "eglwys i'r saint," a "chymmanfa y cyntaf-anedig;" ac weithiau'n eglur yn "etholedigion." Wrth hyn eglur yw,

mai o'r etholedigion y gwnair i fynu eglwys Crist; bod y amryw enwau yn arwyddo'r un peth; a phob un o honyn fel arwyddion o wahaniaeth oddiwrth y byd.

Pan ymddangoso Crist yn ei ogoniant, yna y casglir e aelodau atto ef: "Daw'r Arglwydd fy Nuw, a'r holl saint gyda thi," medd Zecaria, *Zec. xiv, 5*. A Phaul, wrth ymddiddan am yr un peth, sydd yn dywedyd, "Y rhai ydyr eiddo Crist yn ei ddyfodiad:" yr hyn sydd yn dangos ei bod yn eiddo Crist mewn modd amgen nâg eraill. Ac mai etholedigion yr y's yn ei feddwl, sydd eglur wrth eiriau ei Hiachawdwr ei hun, "Efe a ddenfyn ei angylion, a hwy gasglant ei etholedigion ef ynghyd.—Eithr y lleill o'r meir ni fuant fyw drachefn, nes cyflawni'r mil blynyddoedd," *Dat. xx, 5*. am hynny nid oedd y "lleill" hynny yn rhan o corph hwn. Nyni a allwn ddal sylw hefyd fod y rhai ni oeddent yn codi gyda'r saint, yn cael eu rhodi yma wrth y un gair neu nôd o wahaniaeth, ag yr ydys mewn lle arall y ei roddi i'r rhai ni etholwyd, "Yr etholedigaeth a'i cafas, a lleill a galedwyd:" ac mai'r rhai "sydd iddynt ran yn y adgyfodiad cyntaf," yw "y rhai a ysgrifenyd eu henwau yn llyfr bywyd yr Oen," sydd eglur trwy gymmaru *Dat. xx, 4*. a phen. *xiv, 8*.

III. Yr oedd yn angenrheidiol gwneuthur i fynu gorph neu eglwys "o'r had etholedig;" 1. O herwydd nad oedd neb arall yn addas i fod o'r corph hwn, ond y rhai a fyddent gyffelyb i'r Pen. Fe fuasai aelodau cnawdol mor anghymrwys i ben ysbrydol, ag y buasai anifail i fod yn gymmar i Adda. Rhaid bod merch *etholedig* y Brenin (fel y bôh yn gymmar addas i'w Fab ef) "oll yn ogoneddus oddi mewn:" nid yn unig o'r un defnydd oddi allan (canys felly yr oedd y creaduriaid eraill o'r un defnydd âg Adda) eithr wedi ei ffurfio wrth yr un cynllyn (neu'r un fold) a'i chynhysgaeddu â'r un ysbryd ac â'r un deall: rhaid fod cyfattedoldeb yn mhob rhan; "Pob un oddull meibion brenin," *Barn. viii, 18*. Gan fod y Pen yn nefol, rhaid bod yr aelodau felly hefyd ni allant gyd-rodio, oni byddant yn llyn yn cyttuno. 2. Bod y gyffelybiaeth yma i Grist yn rheidiol yn ei holl aelodau, a bod y wae ol-fraint (*entail*) frenhinol hon yn rhwym wrth yr etholedigion, sydd eglur oddiwrth *Rhuf. viii, 29*. "Y rhai a ragwybu, a ragluniodd ef i fod yn un ffurf â delw e Fab, fel y byddai ef yn gyntaf-anedig yn mhlith brodyr lawer:" yr hyn sy'n dangos mai y rhai a *ragwybuwyd* (sef y etholedigion) yn unig a *ragluniwyd* i hynny; ac oni buasai etholedigaeth, ni buasai gan y *Cyntaf-anedig* ond cynnull-

edfa deneu i'w rheoli; ie diammeu, er ei fawr waith a'i hir
ddisgwyliad, na chawsai neb. Yn Eph. i, 3, 4, 5. y mae yn
mhellach yn priodoli'r bendithion ysbrydol, trwy y rhai y
cyd-ffurfier dynion â Christ, i'r un bobl; " Bendigedig fyddo
Dau a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a'n ben-
dithiodd ni â phob bendith ysbrydol yn y nefolion bethau yn
Nghrist. Megis yr etholodd efe ni ynddo ef, wedi iddo ein
rhaglaniaethu ni i fabwysiad," &c. Wrth y ddwy'sgrythyr
hyn, y mae yn eglur mai yr un rhai yw *plant* Dau a *brodyr*
Crist; ac mai etholedigaeth a'u gwnaeth hwynt felly. Felly
brodyr Crist yw ei eglwys, Heb. ii, 12. " Myfi a fynegaf dy
enw di i'm brodyr, yn nghanol yr eglwys i'th folaf. 3. Ni
all neb fod yn gyffelyb i Grist, heb fod yuddo ef yn gyntaf
fel eu Pen; o ran hynny y dewiswyd yr etholedigion ynddo
ef. O gyflawnder Crist y derbynier pob gras; ac mewn trefn
i dderbyn o hono ef, rhaid bod *undeb* âg ef; ni all y gangen
ddwyn ffurth o honi ei hun, na bod yn gangen mewn gwir-
ionedd, oni bydd yn tyfu o'r winwydden. I'r dyben hwn y
neillduwyd aelodau ei gorph ef oddiwrth yr olewydden wyllt,
ac eu gosodwyd yn Nghrist, yn *arfaethol*, trwy etholedigaeth;
ac yn nghyflawnder yr amser, yn *weithredol*. A thrwy hyn
y gwnair hwy yn gyfrannogion o frasder y gwreiddyn nefol
hwnnw; sef, o Ysbryd Crist, yr hwn a elwir yr enneiniad.
Yn hyn mae'r Adda cyntaf a'r ail yn gyffelyb, fel yr oeddent
yn benau i'w neillduol gyrph. Fel y mae holl ddynolryw
yn cael eu bod naturiol yn Adda, felly oddiwrth Grist, eu
Pen ysbrydol, y mae'r holl etholedigion yn derbyn eu bod
a'u haniau ysbrydol; o herwydd paham y gelwir ef, Tad
tragywyddoldeb, a hwythau yn blant iddo ef. Yr oeddent
mor wirioneddol yn Nghrist er tragywyddoldeb, ag yr oedd
dynolryw yn Adda pan gwymppodd; neu Levi yn lwynau
Abraham pan gyfarfu Melcisedec âg ef. Gwneuthuriad
Efa (o ran y dull o hono) oedd bortreid o hwn: hi a wnaeth-
pwyd o sylwedd Adda; ond ni ddaeth hi allan o'i lwynau ef,
eithr o'i ochr: felly y cymmerir y creadur newydd allan o
Grist; y maent yn " asgwrn o'i asgwrn ef, ac yn gnawd o'i
gnawd." Ac ni all neb ddyfod yn llyn allan o hono ef, na
derbyn bendithion trwyddo, ond y rhai oedd ynddo, yn
arfaethol, cyn bod byd, Eph. i, 4.

Defnyddion.

I. Na chymmered un arno y berthynas anrhydeddus hon
o fod yn aelod i Grist, heb rhyw beth cyfreithlon i'w am-
lygu. Y nôd goreu yw eich cydffurfiad i Grist eich Pen:

hynny a ddengys eich bod yn grist'nogion mewn gwirionedd. Yn y dydd olaf ni adnebydd Crist neb ond y rhai a gamsasant eu gwisgoedd yn ngwaed yr Oen. Yr holl rai sydd yn crogi arno fel yr eiddiorwg ar y pren, a ysgydwir ymaith, a'r rhai ydynt gyfrannogion o'i sylwedd a gedwir. Llawer a ddaw i ddadleu gweithredoedd; beth a fuont, a pheth a wnaethont; ie eu hen ragrith a fydd mor barhaus ac mor ddigywilydd ag y bydd iddynt ymholi âg ef; "Oni phrophwydasom yn dy enw di? Oni wnaethom wrthiau lawer yn dy enw di?" Wrth y rhai yr addef yr Arglwydd na's adnabwynt *erioed*: y mae yn adnabod, ie ni all lai nâg adnabod aelodau ei gorph; "Fy nefaid a adwaen, ond pwy ydych chi?" fydd y gair terfynol wrth bawb heb fod yr Ysbryd ganddynt; yr hyn yn ddiau fydd ddiwedd galarus i'w rhyng (golygus) di-sail: am hynny edrychwch attu mewn amser.

II. Nyni allwn oddi yma ddysgu, diogel ac anrhydeddus gyflwr yr eglwys:

Yn gyntaf, Y mae yn gyflwr anrhydeddus. Gan fod anrhydedd y wraig yn codi, fel y byddo eiddo ei harglwyddia pa mor fawr yw anrhydedd dyweddi Crist, lle mae *Mab Duw* yn Ben iddynt! Had Abraham, yr hwn a gymmerodd y *Mab*, a anrhydeddwyd yn ebrwydd â gogoniant gweddus i *Fab Duw*, pen-tywysogaethau ac awdurdodau; ac nid oedd inwyach i'w ystyried yn oly cnawd; yn y cyffelyb fodd, pan gymmero iddo ei hun y rhai y cyfansodder ei eglwys o honnynt, y mae yn cyfrannu iddynt o'i gyflwr a'i natur ei hun; "Y gogoniant a roddodd y Tad iddo ef, y mae yntef yn ei roddi iddynt hwy." Ac er eu nhaturiol waeldra o'r blaen, y mae yn eu cyfrif yn awr yn un âg ef ei hun; ac yn ol yr hyn a wna iddynt yn y diwedd. Y blaenffrwyth o'r hyn y mae yn ei roddi iddynt yn awr yn eu hadgenhedliad; yr hyn hefyd y mae yn ei ddwyn y'mlaen o ogoniant i ogoniant, ac ar ei ymddangosiad a berffeithier; hwy "a fyddant gyffelyb iddo." Dywedyd mai *Mab Duw* yw Pen yr eglwys, yw rhoddi iddo bob enw o ogoniant ac anrhydedd; i'r hwn y "plyg pob glin." Y mae ei ogoniant mor anfeidrol ogoneddus, ag y mae yn hawsach i ni gollu ein hunain yn ei chwilio, nâ rhoddi elod addas iddo; ni ellir dywedyd mwy (mewn cynnifer o eiriau) i osod all'an ogoniant yr eglwys, nâg y mae *dyweddi* Crist ydyw; hyn yw gogoniant ein crefydd, a'r profleswyr gwirioneddol o honi. A daliwn sylw, mai nid urddas *dymhorol*, mewn enw yn unig, a roddir iddynt; ond un *wirioneddol*, *sylweddol*, *barhaus*. Y mae tywysogion yn rhoddi enwau anrhydeddus, ond ni allant roddi *tueddiadau* addas

i'r cyfryw *enwan*, na'u cadw rhag gwaethygu: y mae Crist, fel Pen yr eglwys, yn gwneuthur felly; y mae yn rhoddi ei rinweddau tywysogaidd i'w eiddo; a hynny mor wirioneddol (ac mor deimladwy i'r rhai sydd gyfrannog o honynt) ag y mae'r wynwydden yn rhoddi ei nôdd i'w changhenau naturiol. Pa mor fawr yw'r anrhydedd a'r diddanwch, fod gwaed brenhinol y nef yn rhedeg yn ein gwythienau! Ond er gwired yw, nid oes ond ychydig yn ei gredu: ac o'r ychydig hynny, pwy sydd yn byw i fynu i'r grediniaeth o hono? Ac yr ydwyf yn son am dano i ddyben daudyblyg.

(1.) I ddal i fynu eich ysbrydoedd yn erbyn holl wêg ac anair y byd; tan y rhai y mae difrifol ystyriaeth o'ch perthynas i'r cyfryw Ben yn fwy nâ digon i wrthsefyll, a'ch gwneuthur yn gysurus. Nid ydys yn anrhydeddu tywysogion ar encil, mewn herwriaeth (neu yn eu gwlad eu hunain mewn ymddangosiad gwael, ac nid rhyfedd hynny); eithr yr ystyriaeth o'u genedigaeth uchel, a'u gobaith o ddychweliad sydd yn eu mawr gysuro: mwy o lawer y dylai meribion Duw (y rhai ni chyfrifir eu hachau oddiwrth frenhinoedd y ddaear) olygu yn wastadol eu duwiol wreiddyn, gyda'r odidog wobr ag y sydd yn dyfod, a chodi eu penau mewn dull tywysogaidd! ac o ran y gogoniant a osodir o'u blaen hwynt, ddyoddef y groes a diystyru gwaradwydd; hyd oni ddelont i gael eu derchafu, nid yn unig goruwch yr holl lysenwau ag y mae'r byd yn eu rhoddi iddynt; ond hefyd uwchlaw yr enwau anrhydeddusaf a'r titlau ardderchoccaf tan y nesoedd. Yna gwybyddir "eiddo pwy ydych;" a'r rhai sy'n eich dirmygu "a lyfant lwch eich traed," Esa. xlix, 23. ac yno y cyflawnir gair cynhwysfawr ein Hiachawdwr, "Y gogoniant a roddaist i mi, a roddais iddynt hwy:" ie, "chwi a gewch eistedd gyda'ch Arglwydd ar ei orsedd-faingc ef," Dat. iii, 21. Ac heblaw hynny (yr hyn hefyd sydd yn chwaneu ardderchawgrwydd y dydd hwn) ni wnair hyn mewn congl; eithr fel y cawsoch eich difenwi yn gyhoeddus, felly y cewch eich ymddiffyn: cyhoedd: "Yn y dydd hwnnw yr udgenir âg udgorn mawr;" yr archangel a ddaw âg udgorn Duw, ac a ry'r fath floedo ag a wnelo i'r nesoedd a'r ddaear ddadsain; ac ystyr ei geirfydd, "Cyfod, llewyrcha, canys daeth dy oleuni, a chyfododd gogoniant yr Arglwydd arnat, ac ni fachluda mwy;" yn dlyn y gwnair i Seion, yr hon "nid oes neb (yn awr) yn ei cheilio."

(2.) I ddangos i chwi fod eich cyflwr anrhydeddus yn eich rhwymio i ymddygiad anrhydeddus tuag at eich Pen, eich hupaid, a'ch cyd-aelodau.

(1.) Tuag at eich Pen. 1. Cydnabyddwch ei fawrhydi, rhoddwch iddo yr oruchafiaeth yn mhob peth: na alwch un dyn ar y ddaear yn athro, mewn pwngc o ffydd: rhoddwch i Cæsar yr hyn sydd yn perthyn i Cæsar; ond edrychwch ar Grist fel eich deddfwr goruchaf. 2. Ymddarostyngwch i'w lywodraeth: rhodiwch yn ol ei gyngor, a dilynwch ef pale bynnag eich tywyso: dyallwch bob peth yn ol ei feddwl a'i ddehongliad; ac os rhaid wrth reswm i gadarnhau'r peth, yr ordinhad honno ("Dy ddymuniad a fydd at dy wr, ac efe a lywodraetha arnat ti") sydd mor wirioneddol ac mor rymmus mewn perthynas i Grist a'i eglwys. 3. Dyoddefwch er ei fwyn: ymddiffynwch ei anrhydedd, a cheisiwch ddaioni ei deyrnas, ie er mor beryglus y fyddo i chwi eich hunain: na phrisiwch fywyd na marwolaeth, os bydd i Grist gael ei fawrygu ynoch. 4. Edrychwch at eich Pen am gyflawnder o bob gras; o'i gyflawnder ef y mae i'w gael, ac nid o un lle arall: canlynwch eich Pen, rhag i opiniynau eich twyllo am eich gwobr. Edrychwch am gadw at eich lle a'ch dyledswydd, rhag i chwi gollir gynhaliaeth berthynol i chwi: aelod wedi digymmalu sydd (tra fyddo hi felly) fel aelod wedi ei thorri ymaith. 5. Gogoneddwch eich Pen trwy amcanu beunydd fod yn fwy cyffelyb iddo: byddwch sanctaidd fel yntef: bydded eich holl ffrwyth yn addas i'r cyfryw wreiddyn. "Duw'r Tad" yw Pen Crist, ac efe a ddygodd "wir lun ei berson ef," yn yr hyn oll a wnaeth: ni allai efe wneuthur dim ond yr hyn a welsai'r Tad yn ei wneuthur: gwnewch chwithau Grist yn siampl i chwi; ac er mwyn hynny byddwch byw arno fel eich gwreiddyn, a rhoddwch iddo yr anrhydedd o'i ffrwythau; gan gofio bod pob gwreiddyn o'r eiddo chwi yn gwreiddio ynddo ef.

(2.) Y mae parch yn ddyledus i chwi eich hunain, fel yr ydych yn perthyn i'r cyfryw ben. Yr hyn a weddai i bobl gyffredin, a fyddai anweddaidd i'r rhai bonheddigion: fe ddylid adnabod merch y Brenin wrth ei gwisgad: "Gogoneddus oddi mewn," a "Gwisg o gemwaith aur," sydd arwyddion o'r un, ac ni ddylid eu gwahanu. Y mae gennych alwedigaeth uchel, rhodiwch yn addas iddi; byddwch ddi-olchgar; ac anrhydeddwch yr hwn sydd yn eich anrhydeddu chwi, trwy ymddwyn yn ol ei feddwl ef; na wnewch eich hunain yn gyffredin; nac ymostyngwch islaw eich gradd; gwnewch Grist yn unig wrthdrych eich cariad, a'ch hyfrydwch, a'ch hyder; anglod i chwi yw gwneuthur angen. Gogoniant Crist yw ei eglwys: am hynny fe ddylai ei haelodau farnu eu hunain yn rhy dda i ymdreulio ar y byd;

a'r byd yn rhy wael i roddi iddynt na boddlonrwydd na harddwch. Rhodiad gwyliadwrus, sobrwydd meddwl, gostyngeddwrwydd, hunanymwadiad, ysbryd addfwyn a llonydd, sydd dlysau gwerthfawr, a harddwch mewn gwirionedd: wrth y rhai'n y dylai y rhai a *wahoddiwyd* wahaniaethu eu hunain oddiwrth y rhai sydd yn *rhythro* i mewn; a *gwir grist'nogion*, oddiwrth y rhai sydd felly mewn *enw* yn unig. Nid arwydd o falchder ac afradlondeb yw bod cristion yn gwisgo ei wisgoedd goreu beunydd; ie ni's dylem ymddangos hebddynt: pa fwyaf a wisgoch arnynt, goreu y byddant; wrth eu gadael heibio y maent yn amharu. Y mae eich cyrph hefyd yn haeddu eu hystyried: portreïadau dyndod Crist, a themlau'r Ysbryd Glân ydynt; am hynny cadwch hwynt yn ddifrycheulyd, na halogwch hwynt, na thrwy eu cyd-ffurfio â'r byd, na'u darostwng i wasanaeth *slaf*aid. Ond ni fynnwn i neb gamsynied (er mae eich addurnau) nid eich cyfiawnder ydynt; pan b'och yn sefyll ger bron Duw, rhaid i chwi uwchben pob peth wisgo "cyfiawnder eich Harglwydd a'ch Cyfryngwr:" (yr oeddid yn taenellu dillad sanctaidd yr offeiriaid â gwaed, Ecs. xxix, 21.) hyn oedd diffyg yr hwn aeth yn *fud*, ac am hynny y bwrwyd ef allan: Abraham a gyfiawnhawyd trwy weithredoedd ger bron dynion; ond ger bron Duw, yr oedd ef yn ym-guddio, trwy ffydd yn nghyfiawnder Crist: *ffydd* sydd yn cyfiawnhau ein *personau*; a *gweithredoedd* yn cyfiawnhau ein *ffydd*.

(3.) Ymddygwch eich hunain at eich brodyr fel aelodau o'r un corph. 1. Nac ymawdurdodwch arnynt, fel pe baech yn fwy na hwynt. Na farnwch y cryf, na ddirmygwch y gwan; pwy a'th wnaeth yn farnydd? Nid oes neb heb achos i eraill gyd-ddwyn âg ef; er gan mwyaf mai y rhai sydd fwyaf eu hachos wrtho, sydd leiaf yn ei arfer: eithr cymmerwch hyn yn rheol, mai pa leiaf f'och yn ganfod, mwyaf yw eich achos wrtho. 2. Na rythrwch i le a swydd eraill; y mae gan bob aelod ei le i'r hwn y cymhwyswyd ef: i hwnnw y mae mwyaf addas, ac yno mae fwyaf defnyddiol; ni byddai ond difudd ac afluniaidd mewn lle arall; (megis bys wedi ei digymmalu.) 3. Dangoswch eich bod yn gyd-aelodau, trwy eich cariad a'ch tynerwch tuag at eraill; "gan dosturio wrth y rhai sydd mewn anwybodaeth ac am-ryfusedd," fel y gwnaeth eich Pen i chwi. Os bydd un yn wan ac yn archolledig, bydded i'r hwn sydd gryf a iach ei gynnal a'i rwymo; os tramgwydda'r naill droed, doed y llall i'w chymmorth; "gan dy ystyried dy hun, rhag dy demtio

ditheu." Nid rhaid arfer rhesymau i berswadio aelodan corph naturiol i wneuthur hyn; y mae natur yn eu dysgu. Y diffyg o dosturi at eraill (er na ddychon ddisbyddu, etto) a all mewn mesur mawr attal ffynhonnau ymysgaroedd Crist i ddylifo i ni. 4. Yn ddiweddas, bydded i ni geisio daioni y cyfan o flaen un rhan; bydded i'r aelod gwaelaf ymwadu â'i hun er daioni y rhai mwy ardderchog; hyn, mewn rhan, yw gosod i lawr ein bywyd dros ein brodyr. Yr hwn a wasanaetho Grist yn y pethau hyn sydd gymmeradwy gyda Duw, a derbyniol gyda dynion.

Yn ail, Y mae'r eglwys yn ddiogel. Gan mai Mab Duw yw eu Pen a'u Hiachawdwr, rhaid eu bod yn ddiogel. Hwyl a amgylchir yn ddiâu âg amryw beryglon; etto y maent yn byw; ie maent yn "gorchfygu;" ac a fyddant o'r diwedd "yn fwy'nâ chongwerwyr;" y rheswm o'r cyfan yw, y mae eu Pen yn y nefoedd, oddiwrth yr hwn y mae eu holl gymmorth yn dyfod; ac ni ellir ei attal. Os soniwch am dywysogaethau ac awdurdodau yn llywodraethu yn yr awyr; y mae gan Grist awdurdod arnynt hwy, y maent dan ei droed ef. Eu gallu i niweidio sydd fwyaf yn eu cyfrwysdra; eithr yn hyn y magler hwynt yn wastad; dalier hwynt yn eu rhwyd eu hun: ac felly mae'r diafol, o'r dechreuad, yn gelwyddog iddo ei hun. Ei hudoliaeth cyntaf, neu'r tam-maid guddiodd ei fach, oedd, "Chwi a fyddwch fel duwiau;" lle yr oedd yn bwriadu ein gwneuthur yn gwbl fel ei hun: ond doethineb Duw sydd yn troi'r brofedigaeth yn brophwydoliaeth, a Christ sydd yn ei chwplhau; fel y gwnaeth ef i gyngor dinystriol Caiaphas. Fe ga'dd y *sarph* ei harcholli yn ei *phen* wrth archolli *sawdl* Crist; felly cafodd ei holl ddychymygion uffernol yn wastadol eu diddymu a'u gwyrddroi ar ei ben ei hun: efe a annogodd Judas i fradyehu Crist, a'r Cenhedloedd a'r Iuddewon i'w euog-farnu a'i groeshoelio ef; a pheth a ennillodd wrth hynny, ond colli ei ymerodraeth? os ystyriwch ei had, yr unrhyw ynfydrwydd sydd ynddynt hwythau: yr hyn ni amlygir mewn dim yn fwy'nâg yn eu gwaith yn ceisio-yn wastadol ddiwreiddio'r eglwys, (er y gallent mor hawsed symmud y byd neu ddadymchwel Craig yr oesoedd): eithr eu hamcan a fethodd, ac a wnaethpwyd yn wasanaethgar i'r hyn yr oeddent yn ewyllysio ei ddifrodi. Gwaith yr Aiphitiaid yn trîn yr Israeliaid, a Christ'nogion mewn *enw* yn trîn y rhai sydd *mewn gwirionedd* felly, sydd amlygiad ddiambheuol o hyn. Tra buddiol i'n ffydd yw ystyried fod pob peth wedi eu gwneuthur er mwyn Crist, a than ei lywodraeth ef: ac am hynny, nid oes

gan elynion yr eglwys, ond yr hyn y maent yn ei gael oddiwrth Ben yr eglwys; yr hwn, gan ei fod yn gwybod beth sydd oreu, ni ddyry iddynt ond a fo wasanaethgar i'w ddyben ei hun. Efe yw Tywysog brenhinoedd y ddaear; efe sy'n llywodraethu ynmysg y duwiau; yn eistedd yn anweledig wrth y llyw; yn llywio eu cynghorion dirgelaf a ffyrnigaf, ac yn eu troi fel y mynno. Ynmysg pethau eraill, peth a haeddai ei ystyried gyda rhyfeddod yw, 1. Fod rhag-olygiad Duw wedi cymmysg daioni ei eglwys a'r byd, yn y fath fodd, ac na ellir cynnal y byd heb ymddiffyn ei eglwys. 2. Fod ein Harglwydd yn fynych yn dwyn i ben ei waith ei hun, trwy adael i'w elynion wneuthur yr eiddynt hwy, Ecs. i, 11, 12. 3. A'i fod yn wastadol yn diddymu eu holl amcanion; neu yn eu dal yn eu rhwydau eu hunain.

Eithr, pe b'ai uffern yn ymagor, a llengau o locustiaid wedi eu bytheirio allan o'r pwll diwaelod, wedi eu harfogi a nerth, eu cynhyrfu a chynddaredd, eu gorchuddio a chyfrwysdra, a'u llanw a gelyniaeth; a'u tywys gan y ddraig goch; yn amgylchu gweryll y saint, a'r ddinas anwyl; a'r eglwys mor anabl i wrthsefyll a gwraig ar esgor; a'u gelynion yn dywedyd, Beth yn awr a ddaw o'u breuddwydion? Cymmerwch hyn yn gysur i chwi: 1. Y mae etto gwmmwl rhwng y ddau wersyll, a'i ochr oleu sydd tuag at yr eglwys. 2. Y mae ymddiffynwyr yr eglwys etto yn amgylchu gweryll eu gelynion, ac yn eu cadw i mewn fel a "meirch a cherbydau tanllyd." Ac, 3. Y mae yr hwn sy'n eistedd yn ynefoedd yn eu *gwatwar* hwynt. A Lydd Jerusalem yn faen trwm i'r rhai oll a ymlwytho ag ef. Ac os rhaid yw, "Tan a ddaw oddiwrth Dduw i wared o'r nef, ac a'u hysa hwynt."

Ond etto y mae gelynion gwaeth na'r rhai hyn; y diawl yn mhennydd pechod gwreiddiol, sydd fwystfil na ellir ei ddofi. Fe all yr eglwys ei hun (wrth edrych arni ei hun, ac nid yn uwch) lefain allan gyda dychryn, Pwy a ddychon ryfela a'r bwystfil? diau na all holl filwriaeth natur, gyda holl gynnorthwyol luoedd ewyllys-rydd, wneuthur hynny; rhai er cyflog ydynt, hwy droant yn eich erbyn yn y frwydr; neu os safant hyd yr eithaf o'u gallu, ni wnaent les i chwi; nid ydynt ond fel sofr i fwa'r bwystfil hwn: etto na ddigalonir chwi, yn unig ymwrthodwch a hwynt oll, ac ymddiriedwch i'r Llew o lwyth Juda, sy'n abl gwrthsefyll y bwystfil, a'i ddryllio ef; ie efe a wnaeth hynny eisoes; "efe a ymorfol-eddodd arnynt ar y groes;" ie (a'r hyn sydd fwy) efe a'u herlidiodd hyd byrth uffern; yno y cauodd hwynt i mewn,

ac y mae yn dwyn yr agoriad ar ei ysgwydd; ni allant ysgog heb ei gennad; nac aros yn hwy nâg y mynno efe. Ar fyr eiriau, y peth mwyaf ofnadwy yw pechod; nid yw diafol, marwolaeth, ac uffern, ond pethau yn ei ganlyn ef (fel effeithiau yn canlyn eu hachosion); a phan cymmerwyd hwnnw ymaith, tynwyd colyn y lleill; fel y mae'r eglwys yn anorchfygol, o herwydd "ei hadeiladu ar y graig," a'r "Graig honno yw Crist." Gan fod hyn oll yn wir, nid yn unig am yr eglwys yn gyffredinol, ond am bob aelod yn neillduol,—

III. Bydded pob un ag y sydd o'r corph hwn yn foddlon i'w gyflwr; byddwch lawen a hyfryd yn wastadol yn eich rhan; hon yw'r *oruchafiaeth* yn yr hon y gall y "brawd o radd isel lawenychu." Na ofalwch er gwaeled a fyddo eich lle a'ch cyflwr yn y byd, ond byddwch foddlon iddo a diolchgar am dano; na cheisiwch (o honoch eich hunain) ei gyfnewid, ond ymrowch i'w gyflawni. Disgwyliwch ffinderau, ac na fyddent *ddieithr* geunyeh: "trwy ddyoddefiadau y perffeithiwyd Tywysog eich hiechydwrriaeth;" ac ni all y gwas ddisgwyl gwell driniaeth nâ'i Arglwydd.

IV. Os Iesu Grist yw eich Pen, chwi a allwch ddisgwyl pob cariad, cyngor, gofal, ac ymddiffyniad oddi wrtho: undeb âg ef sy'n rhoddi hawl i'r hyn oll sydd eiddo ef. Y mae yn naturiol i'r Pen garu a meithrin y corph, a phob aelod o hono; "fel y meithrin gwr ei gorph ei hun, felly gwna Crist i'w eglwys." Beth, er dy fod ynot dy hun yn aelod anhardd! efe a esyd arnat "fwy o harddwch;" efe a'th ddillada, a'th bortha, ac a'th feddyginiaetha; "Efe a rydd ras a gogoniant, ac ni attal ef ddim daioni oddi wrthyt!" O herwydd gan ei fod ef yn *Gyntaf-anedig*, *Tywysog*, a *Phen* teulu, rhaid i'w holl *frodyr ieuangaf* gael eu cynhaliaeth o'i etifeldiaeth ef.

V. Byddwch sicr hefyd y cewch eich dwyn yn ddiogel i wlad yr addewid. Diau y cyfarfyddwch â gelynion, a rhwystrau, ac anhawsdra: gweddillion llygredigaeth (fel y bobl gymmysg) a fyddant yn terfysgu ac yn temtio *oddi newn*; yr Amaleciaid a phobl ei ddigofaint, a safant yn eich ffordd *oddi allan*, neu a gwympant ar eich tu cefn i dorri ymaith y gwan a'r dinerth; y *sarph* a fydd etto yn briwio eich *sawdl*; ond ni all gyffwrdd yn uwch; eich *calon* a'ch *pen* sydd allan o'i gyrraedd, ac felly yn ddiogel: y *gwaethaf* a all ddigwydd i chwi yw marw; ac ni wna marwolaeth ei hun niweid i chwi: ie yr ydych yn gorchfygu wrth farw; ni wna angeu ond eich hebrwng ar frys at orseddfa Duw. Am

hynny byddwch wyr, i e gwyr yn perthyn yn agos o ran gwaed ac ysbryd i'r Dyn Crist Iesu: o herwydd Duw "a fathr satan dan eich traed chwi ar frys:—Neshewch (medd eich Tywysog wrthych) gosodwch eich traed ar wddf y brenin balchder hwn," Jos. x, 24. a gwnewch iddo fel y gwnaeth ef i eraill, ac fel y dymun'sai wneuthur i chwithau; "Dyblwch iddo yn ddauddyblyg yn ol ei weithredoedd:" dyma yr amser y "bernwch angylion," 1 Cor. vi, 3. a hyn oll dan olygiaeth eich Pen a'ch Tywysog, yr hwn "a'ch ceidw chwi yn ddifeius," i e "ger bron ei ogoniant ef mewn gorfoledd."

II.

Mai dros yr etholedigion yn unig y bu Crist farw.

Mai'r etholedigion oedd cyfran neillduol Crist, a ddangoswyd o'r blaen; ac fe ddangosir etto pa rwymedigaeth oedd arno i "roddi ei hunan yn bridwerth drostynt;" wrth ba eniau yr wyf yn dyall y cwbl o'i ddarostyngiad, beth bynnag a wnaeth neu a ddyoddefodd o'i gnawdoliaeth i'w adgyfodiad; yr hyn oll a elwir yn fyr, "Gwaed ei groes ef:" hwn yw'r gwerth â pha un y prynwyd y rhai fyddent cadwedig: a firwythau ei farwolaeth a elwir, "Maddeuant pechodau," a "chymmod" â Duw: a hon yw'r iechydwrriaeth a bwrcaswyd iddynt. Canys, er i ddynion trwy wendid ewyllysrydd (yn Adda) gwystlo eu hunain i satan; etto, nid eiddo ef ydynt; Crist yw eu cyfathrachwr, ac yn mlwyddyn y Jubili y maent i ddychwelyd iddo ef fel i'r uniawn etifedd: ond nid heb oruchafiaeth a chyflawn werth; y rhai yughyd sydd yn gwneuthur Prynedigaeth yn berffaith.

Fy amcan yma yw dangos, 'Mai ei gorph neu ei eglwys yn unig a brynnodd Crist:' ac er mwyn hynny ystyried dau eraill o weithredoedd Duw; sef, *creadigaeth* a *rhagluniaeth*.

1. *Creadigaeth*: un Duw a wnaeth y cwbl; ond ni wnaethpwyd pob peth i'r un defnydd a'r un diwedd: yr oedd ganddo amcan *neillduol* yn ngwneuthuriad *rhai*, yr hon nid oedd yn perthyn i'r *cyfan*; i e er mwyn y *rhai* hynny y gwnaed y *cyfan*. Fel y mae mewn tŷ mawr amryw lestri (y rhai oll a barottodd yr un perchennog, i'w wasanaeth ei hun) rhai i barch a rhai i ammarch: felly yn y byd, fe gododd Duw rai i ddangos arnynt ei allu a'i gyfiawnder, Judas 4, 5. Rhuf. ix, 22.; y rhai o ran hynny a elwir yn llestri *digofaint*: "eithr llestri trugaredd a luniodd yr Arglywydd iddo ei hun" yw eraill, Esa. xliii, 7, 21. ac am hynny y dywedir eu "rhag-barottoi i ogoniant."

2. *Rhagluniaeth*: y mae hon yn cyrraedd at bob peth, ac at bob un yn neillduol: y mae ganddo awdurdod ar bob peth, ac y mae yn eu llywodraethu, ie yn eu gweithredoedd a'u hamcanion mwyaf anllywodraethus: ond am yr *eglwys*, ei "bobl sanctaidd," y mae ganddo lywodraeth neillduol drostynt *hwy*, a'r hyn sydd yn perthyn iddynt: ac y mae hon cyn belled yn rhagori ar y *llall*, ag y dywedir (mewn cyffelybiaeth) na bu ef erioed yn arglwyddiaethu arnynt *hwy*; ac (yr hyn sy'n wastad i'w nodi) y mae yr hyn sy'n perthyn i'r *lleill* yn cael ei wneuthur yn *wasanaethgar* iddynt *hwy*; y mae efe yn Ben uwchlaw pob peth i'r *eglwys*. Yn yr ystyr hyn gellir dywedyd bod Prynedigaeth yn *gyffredinol*, ac etto yn *neillduol*. 1. O ran *personau*. 2. O ran *pethau*. Efe a bwrcasodd *rai* pethau da i *baob*; a *phob* pethau da i *rai*. O ran *personau*; efe a wnaeth iawn cyn belled dros bechodau yr holl fyd, ag i oedi barn: o achos cyfryngod Crist, yr Oen a laddwyd er seiliad y byd, y mae sail y byd heb ei symmud, ac y maent yn mwynhau pob peth daionus yn gyffredinol. Trwy Brynedigaeth y cadwyd, neu yn hytrach yr adferwyd, gweddillion ein prif gyflwr, ynghyd â dim trefn a buddioldeb a weler yn mysg y creaduriaid: "Crist yw'r goleuni ag sydd yn goleuo pob dyn a'r sydd yn dyfod i'r byd;" hynny yw, dim goleuni a bendithion ag sydd gan un dyn, y mae yn eu derbyn oddiwrth Crist fel Cyfryngwr; "ynddo ef y mae pob peth yn cydsefyll." Cyn belled a hyn yr oedd Prynedigaeth yn gyffredinol o ran *personau*; ac yn yr ystyr hwn y mae Crist yn Achubwr pob dyn. Eithr na fydded i ni anghofio bod hyn oll mewn perthynas i'r *eglwys* etholedig: er eu mwyn *hwy* y gwnaed y byd: *hwy* yw ei *syhwedd*; oni buasai *hwy*, fe a ddattodasid neu a droisid yn llyn o dân. Yr hyn y mae y prophwyd yn ei ddywedyd am Israel sydd wir am yr holl fyd, "Oni buasai i'r Arglwydd adael i ni weddill, cyffelyb y fuasem i Sodoma." Byrhawyd dyddiau o orthrymder er mwyn yr etholedigion (y rhai oeddent etto heb eu geni); felly er eu mwyn *hwy* ni ddistrywiwyd y byd pan daeth pechod i mewn. Ond pethau tymhorol, er cymmaint a chystal a fyddont ydynt rhy wael i'w prynu â gwaed Duw; y mae eu *lliny* yn rhy fyr i fesur Prynedigaeth wrtho; maidd bod i'r cyfryngoneddus *oruchwyliaeth*, ryw *ffrwyth* mwy *godidog* na bendithion amserol; a rhyw *ddyben uwch* na dwyn dynion *bosiblwydd* o fod yn gadwedig. Nid oedd gyttunol â doethineb Duw, nac yn deilwng o farwolaeth neu ddyoddehadau Crist, Mab Duw, i adgyweirio difrawd Adda, yn unig i'r

cyflwr yr oedd ynddo o'r blaen; a hynny ar dilerau annhebyccach i lwyddo: ni buasai hyn ond rhoddi pris mwy am bethau llai: canys, rhaid ei fod yn well cyflwr i ni gael ein gwneuthur yn uniawn, heb dueddiad i ddrwg, nâ chael ein cynhyrfu gan bob math o annogaethau, tra f'om etto wedi ein llyfetheirio âg anghrediniaeth, a thueddiad naturiol i syrthio y'mhellach: o herwydd er yr holl foddion hynny, fe all holl ddynolryw fod yn golledig yn uffern; yr hyn nid yw mewn un modd yn ateb dyben Duw yn gwneuthur y byd, llai o lawer yn ei brynu ef. Angenrheidiol gan hynny oedd i Brynedigaeth wneuthur rhyw beth yn ychwaneg nâ dwyn pobl i gyflwr achubol; sef eu dwyn i gyflwr o sicr iechydwriaeth. Ac er mwyn hynny yr oedd Prynedigaeth yn gyffredinol o ran pethau, sef pob peth perthynol i fywyd a duwioldeb. A hon yw'r Brynedigaeth yr ydym yn son am dani; a hwn yw ystyr yr athrawiaeth bresennol; sef, 'Mai yreglwys yn unig a brynwyd yn llyn;' ac mai Etholedigaeth yw'r patrwn wrth yr hwn y mesurir Prynedigaeth: "Ni ddychon y Mab wneuthur dim o hono ei hunan, ond yr hyn a welo efe y Tad yn ei wneuthur," Ioan v, 19.

Gwneuthur Prynedigaeth yn helaethach nâg Etholedigaeth, yw myned tu hwnt i'r sylfaen; yr hyn (fel y gwyr pawb) sydd fai mawr wrth adeiladu, yn enwedig wrth adeiladu tŵr a'i nen yn cyrraedd hyd y nefoedd. Fe weddai i ni gan hynny edrych na wahanom yr hyn a gyssylltodd Duw, na thrwy helaethu na chyfyngu'r terfynau a osododd efe. Yr oedd yr Iuddewon yn tybyg bod yr addewid o'r Messia yn perthyn iddynt *hwy*, ac nid i'r Cenhedloedd: eraill ar ol hynny a fynnent ei estyn i holl ddynolryw yn gyffredinol ac yr un modd; heb ystyried pahan y gwnaethpwyd yr addewid i Had y *wraig*, ac nid i had Adda: ond nid yw y Messia ei hun, yr hwn oedd oreu yn gwybod *mesur* yr addewid, a *dyben* ei *anfoniad*, yn cau allan neb; ond yn dangos ei fod yn perthyn i "bob cenhedlaeth heb wahaniaeth;" ac etto yn unig i'r etholedigion yn eu plith; gan eu rhodi hwy yn wastadol wrth y fath enwau ag sydd yn arwyddoeddau rhyw fintai etholedig: hwy a elwir ei "had ef, a llafur ei enaid;" o ran y rhai y "gosododd efe ei enaid yn aberth dros bechod;" y rhei'ny hefyd y mae yn galw ei "ddefaid," a'i hun yn "Fugail da (fel mewn gwirionedd y mae) eiddo yr hwn yw'r defaid, a thros y rhai y mae yn rhoddi ei einioes;" a rhag tyoig ei fod yn meddwl yn unig y rhai o'r genedl Iuddewig, y mae yn 'chwanegu, "A defaid eraill sydd gennyf, y rhai nid y'nt o'r gorlan hon; y rhai hynny hefyd sydd raid i ni

eu cyrchu." Yr efangylwr sydd yn dehongli prophwydoliaeth yr archoffeiriad, " Mae buddiol oedd farw o un dros y bobl," yn llyn, " Na byddai ef farw dros y genedl yn unig, eithr fel y casglai efe ynghyd yn un, blant Duw y rhai a wasgarasid;" ac yn ganlynol y dywedir, " eu gwneuthur yn agos trwy waed Crist," Eph. ii, 13.; er eu bod o'r blaen yn mhell: ac iddo " gymmodi y ddau (sef Iuddewon a Chenedloedd) yn un corph, trwy'r groes," Eph. ii, 16.: a hynny yn ol y cyttundeb bendigedig a wnaethpwyd âg ef, " i adferu rhai cadwedig Israel," Esa. xlix, 6. Ac y mae yn amlwg oddiwrth Esa. liii, 6. mai *defaid* oeddent hwy, *anwir-edd* y rhai a *roddwyd* ar Grist: a thrachefn, adn. 8. " Am gamwedd fy mhobl y rhoddwyd pla arno ef." A daliwn sylw, na elwir neb yn ddefaid Crist, pobl Duw, &c. ond o ran rhyw *hawl neillduol* y sydd ganddo ynddynt *tu hwnt* i eraill: a pha hawl allwn ni feddwl, ond *Etholedigaeth*? Canys y defaid eraill hynny oeddent etto heb eu galw, ac yn ganlynol heb gredu; ac felly ni allent fod yn ddefaid, ond fel yr oeddent yn etholedigion Duw. O blegid er bod pob dyn yn golledig, ni ddanfawyd Crist ond at ddefaid cyfrgolledig tŷ Israel; sef at y rhai hynny a ddewisasai Duw o blith y byd colledig, fel y cymmerodd ef Israel o fysg y Chenedloedd i fod yn eiddo ef ei hun mewn modd neillduol: arwydd enwedigol o etholedigaeth ysbrydol! Ac am hynny y mae addewidion y cyfammod newydd wedi eu gwneuthur i'r eglwys dan enwau priodol i'r bobl hynny, fel y gwahaniaethir hwynt oddiwrth genhedloedd eraill.

Yn Esa. lxii, 12. yr ydym yn cael yr enwau *sanctaidd*, a *gwaredigion*. wedi eu rhoddi i'r un rhai: nid oes matter pa un ai sancteiddrwydd arfaethol, neu *gweithredol*, yn y's yn ei feddwl; canys y mae y ddau, ynghyd â Phrynedigaeth, yn perthyn i'r un rhai: o blegid fel y mae sancteiddiad *gweithredol* yn ffrwyth Prynedigaeth, *Etholedigaeth* yw gwreiddyn y ddau: " Etholedigion i ufudd-dod, a thaenelliad gwaed Iesu Grist." Bod yn *sanctaidd*, yw bod wedi eu dewis a'u *neillduo* i ddybenion sanctaidd, trwy drefniad Duw: a hwy a sancteiddiwyd yn weithredol trwy " daenelliad gwaed," Heb. ix, 19, 23.: yn y ddau ystyr hyn yr y's yn galw pobl Israel, y babell, y deml, yr offeiriaid, yr allor, &c. yn *sanctaidd*.

Yn Luc i, 72. yr y's yn dywedyd fod Duw yn anfon Crist, " i gofio ei sanctaidd gyfammod:" yr hwn a gyhoeddodd ef gyntaf yn mharadwys, megis wedi ei wneuthur o *had* y wraig; ac a adnewyddodd drachefn âg Abraham; ac am

hynny eu gelwir, "Y trugareddau a addawyd i Abraham, ac i'w had:" a phwy yw had Abraham? yr etholedigion; canys y rhai hynny yn unig sydd yn cael ffydd, Rhuf. xi, 7. Y mae Gal. iiii, 29. yn dywedyd yn eglur, "Os eiddo Crist ydych, yna had Abraham ydych;" yr ydym hefyd yn darllen, mai "dros bobl briodol y rhoddodd Crist ei hun;" yr hyn sy'n dangos *hawl neillduol* ynddynt; ac felly achos neillduol iddo roddi ei hun drostynt. Fe weddai fod y geiriau, *priodol*, a'r rhai a *brynwyd*, o'r un ystyr, a bod yn arfer yr un gair i arwyddocau'r ddau, 1 Pedr ii, 19. Felly yn 1 Pedr i, 19. lle dywedir fod Crist wedi ei *ragordeinio* a'i *egluo* er eu mwyn: mai rhai *etholedig* oeddent sydd amlwg wrth adnod 1 a'r 2. ac wedi eu "hethol i daenelliad ei waed ef." Ac yn Ioan xvii, y mae yn addo ei gyflawni; "Er eu mwyn hwy (medd Crist) yr wyf yn fy sancteiddio fy hun;" ac yn Ioan x, ddwy waith, "Ei fod yn rhoddi ei einioes dros y defaid;" yr hyn sydd cyn belled oddiwrth eraill, a lle mae yn dywedyd, "Fy nghyfiawnder sydd yn perthyn i'r saint," a'r "hwn a gredo a fydd gadwedig," sef y rheiny ac nid neb eraill.

Y mae yn eglur y'mhellach oddiwrth Act. xx, 28. mai yr "eglwys a bwrcasodd Duw a'i briod waed." Mae gwahanueth amlwg rhwng yr *eglwys* a'r *byd*, megis y mae rhwng *gardd gauedig* a'r *maesydd cyffredin*. Fe ddangoswyd eisoes mai o'r *etholedigion* y cyfansoddir yr eglwys; ac mai dros yr *eglwys* y bu ef farw, sydd amlwg wrth Eph. v, lle gofynnir i "wyr garu eu gwragedd, megis y carodd Crist yr eglwys, ac y rhoddes ei hun drosti;" yr hyn sy'n dangos, mai fel y mae cariad gwr at ei wraig o natur, amgen na'i gariad at fenywaid eraill, felly y mae cariad Crist at ei eglwys; ac felly ei farwolaeth, yr hwn oedd effaith enwedigol o'r cariad hwnnw, sydd berthynol i'r eglwys yn unig: mae'r henuriaid y'ngylch yr orsedd yn canu caniad newydd i'r Oen "yr hwn a'u prynodd i Dduw trwy ei waed:" y'mysg rhesymau eraill paham y gelwir hwynt henuriaid, yw "eu bod wedi eu hethol er y dyddiau gynt, a bod eu henwau wedi eu 'sgrifenu yn llyfr y bywyd er seiliad y byd." Fe ddywedir hefyd "eu prynu allan o bob llwyth, ac iaith, pobl, a chenedl;" yr hyn sy'n dangos yn eglur, na phrynwyd pawb o'r bobloedd a'r cenedloedd, &c. Yr ydym yn darllen hefyd fod nifer wedi eu "prynu oddi ar y ddaear, ac oddiwrth ddynion:" ac os rhai, mae'n eglur na phrynwyd eraill. (Deliwch sylw ar y ffordd, fod yr henuriaid hyn yn awr yn y nef, goruwch yr holl gymhylau o gamsyniad a rhagfarn, ac am hynny nid oes dim

rheswm i ammeu eu tystiolaeth.) A thrachefn, y rhai a brynwyd a elwir " yn flaen-ffrwyth i Dduw ac i'r Oen:" yr hyn sy'n dangos eu bod wedi eu neillduo iddo ei haa. Fe ddywedir hefyd fod " enw'r Tad yn 'sgrifenedig yn eu tabcenau;" (yr oedd Etholedigaeth wedi eu nhodi hwynt i Grist); a'u " bod yn 'sgrifenedig yn llyfr bywyd yr Oen, yr hwn a laddwyd," Dat. xiii, 8.; " Eiddo ti oeddynt, a ti a'u rhoddaist i mi," Ioan xvii, 6. Lle hefyd yn ei weddi cyfaberthu drostynt, y mae yn eu galw, " Y dynion a roddodd y Tad iddo allan o'r byd." Ac yn adn. 10. " Yr eiddo fi hynny yw, y rhai oll ag oedd yn eiddo Crist, trwy *Brynedigaeth*, oeddent o'r blaen yn eiddo'r-Tad trwy *Etholedigaeth*; megis pe dywedasai, Dy etholedigion yw pawb ag yr ydwyf yn brynu; ac yr ydwyf yn prynu pawb o'th etholedigion; y mae yn ail-adrodd enwau'r berthynas drachefn a thrachefn, i ddangos mai i'r un rhai y mae'r ddau yn perthyn. Oddiwrth yr hyn oll y mae yn eglur ddiammeu, megis y mae nifer pennodol wedi eu hethol, felly fod nifer pennodol, a'r rhei'ny yr un rhai, wedi eu prynu.

Sail a gwirionedd yr Athrawiaeth a gadarnhair y'mhellach trwy'r cyfryw resymau a'r rhai'n:

I. Aberthau Levi a aberthid dros dŷ Israel, ac nid dros un genedl arall: a chan fod y rhei'ny yn gysgod o *etholedigaeth ysbrydol*, y mae yn canlyn fod aberth Crist (o'r hon yr oedd eu haberthau hwynt yn arwyddion) yn perthyn yn unig i'r Iuddewon yn yr ysbryd: canys " yr hwn sydd felly yn y dirgel sydd Iuddew," Rhuf. ii, 29. Felly Aaron yn gwneuthur cymmod dros ei *deulu*, ac yn dwyn enwau y deuddeg llwyth ar ei ddwyfroneg, oedd yn arwyddocau ein Harchoffeiriad mawr yn dwyn enwau a phersonau ei brynedigion: Crist ac eglwys y cyntaf-anedig ydynt gorph yr holl gyngodau.

II. Yr oedd y iawn o Brynedigaeth neu *ollyngdod*, y'mystg yr Iuddewon, wedi ei seilio ar frawdoliaeth: ac oddiwrth hynny yr wyf yn casglu, mai'r berthynas honno (mewn ystyr ysbrydol) oedd sail a therfyn swydd Crist fel Prynwr. Ac mae'n eglur yn Heb. ii, mai *brodyr*, *plant*, a *meibion*, oedd y rhai cedd Crist yn eu " gwaredu oddiwrth gaethiwed, yn gwneuthur cymmod dros eu pechodau, ac yn eu dwyn i ogoniant." Ond pa fodd y daethant hwy, mwy nâg eraill, i fod yn blant i Dduw, a o yn frodyr i Grist? Trwy *Etholedigaeth*; a hynny a roddodd iddynt hawl yn *Mhrynedigaeth*; fel y mae'n eglur wrth gymmaru y 5 a'r 7 adn. a

na dim o'r cyfryw," cyn y bo hi'n addas i gael presennoldeb Crist mewn gogoniant; ac ni ellid gwneuthur hyn, ond trwy iddo ef roddi ei hunan drostynt: hyn gan hynny, y mae ysbrydoedd y rhai cyfiawn a berffeithiwyd yn ei gyfrif yn achos o'u bod yn y nef, Dat. v, 9.

Nid wyf yn gweled achos i ni ystyried pa un a allasem fod yn gadwedig un ffordd arall: eithr, fe a weddai mai meddwl ymadrodd ein Hiachawdwr yw, oni buasai hyn, y gorfydd'sai iddo aros yn y nefoedd heb gymdeithion; "Oni syrth y gronyn gwenith i'r ddaear a marw, hwnnw a erys yn unig:" eithr nid da bod y dyn yn unig, i'r Dyn Crist Iesu: sicr ordeiniwyd gan hynny, y cei ef had i'w wasanaethu; eglwys i'w llywodraethu, yn nghanol yr hon y molai ef ei Dad: ond rhaid i'w waed fod yn had i'r eglwys hon, Esa. liii, 10. yn werth eu prynedigaeath, a golehfa eu hadenedigaeth. Ac mor anwyl yw yr eglwys i Grist, nad yw yn tybyg ei hunan yn gyfiawn hebddi: un o'i ddyuniadau diweddaf cyn ei farw oedd, iddynt hwy fod lle b'ai yntef. Ac os rhaid i'r corph fod gydâ'u Pen, rhaid bod eu trigfa yn y cyssegr sancteiddiolaf: ond mor fawr yw sancteiddrwydd y lle hwnnw, fel na allant ddyfod iddo heb berffaith burdeb; ac ni allant oddef sancteiddrwydd y lle. Yr hyn oll o'i ystyried, sy'n dangos yr âchos oedd i Grist ddyoddef dros ei ethol-edigion yn hytrach nâg eraill.

Y lleill o'r byd a roddwyd yn llawforwynion i'r Briodferch; a thrwy rinwedd y rhoddiad hwnnw y maent hefyd yn eiddo Crist; "Y mae ef yn Ben uwchlaw pob peth i'r eglwys:" eiddo ef ydynt, ond nid ei briodferch: fel yr oedd merched Sodom a Samaria yn eiddo Jerusalem, ond "nid wrth ei hammod hi," Ezec. xvi, 61. Nid oedd yn atebol am eu camweddau hwynt, neu yn rhwym i'w hadferu: etto y gwerth a dalodd dros ei briodferch, sy'n cymmeryd i mewn ei llawforwynion hefyd; megis yr oedd gwaith Abraham yn rhyddhau ei frawd Lot, yn dwyn yn ol y Sodomiaid hefyd gydâg ef. Fe all y byd ddiolch i'r eglwys, am ddim budd ag y maent yn gael oddiwrth Brynedigaeth; canys er ei mwyn hi y maent yn ei gael, fel y Sodomiaid er mwyn Lot. Ac, i ddywedyd yn eglur, ni allai y briodferch fod heb ei llawforwynion: ychydig yr ydym ni yn ei feddwl, pa wasanaeth y mae'r byd yn ei wneuthur i'r eglwys; etto, am ad ydynt hwy yn bwriadu gwneuthur felly, nid ydys yn eu gwobrwo, Esa. x, 5. I ddybenu'r pwngc hwn, mi 'chwanegaf, yn unig, ymadrodd ein Hiachawdwr, Ioan xvii. "Er eu mwyn hwy yr wyf yn sancteiddio fy hun." Yr hyn sydd

gymmaint a dywedyd, mai er mwyn y rhai a roddodd y Tad iddo, fel y rhoddai iddynt fywyd tragywyddol, y daethai efe o'r nefoedd i gyflawni pob cyfiawnder, ac nid o ran eraill.

Daethwn at ddefnydd; ond mae gwrthwynebrwydd i'r Athrawiaeth hon, fel i Etholedigaeth, a pharodrwydd mawr mewn dyn i dderbyn y farn o Brynedigaeth gyffredinol ac ammodol; (yr hyn sy'n tarddu, mewn rhan, o dywyllwch natur, heb allu canfod rheswm, paham y prynid un mwy na'r llall; ac mewn rhan, o herwydd fod creaduriaid pechadurus yn hoffi'r meddwl, eu bod yn gwneuthur rhyw beth tuag at eu hadferiad eu hunain; ac mewn rhan, oddiwrth y parodrwydd y sydd ynddynt i ddal gafael ar ryw beth i lonyddu cydwybod dan argyhoeddiad): gan hynny, yr ydwyf yn gobeithio na fydd yn golled amser i ni gyd-bwysu eu gwrthddadleuon hwy a'n hattebion ninnau: lle ni fydd i mi ystyried pob ysgrythyr ag y maent yn ei haeru drostynt; canys dangos y modd y maent yn gwyrddroi *rhai*, a wasanaetha i *lawer*.

Gwrthddadl. 'Yn Rhuf. v, 18. yr y's yn dangos bod yr adferiad trwy Grist mor helaeth a phechod Adda.'

Atteb. Y gyffelybiaeth a dynir yno sydd, nid o ran *helaethrwydd*, mewn perthynas i'r rhai a wneir yn gyfranogion o bechod ac o ras; ond mewn perthynas i'r amryw foddion trwy y rhai y gwneir y pethau hyn: y mae'r apostol gan hynny, i ragflaenu y cyfryw wrthddadleuon, yn dywedyd yn y 15 adn. "Eithr nid megis y camwedd, felly y mae y dawn hefyd:" megis pe dywedasai, Nid yw y dawn o gyfiawnder a bywyd yn perthyn i holl ddynolryw, fel yr oedd pechod a marwolaeth: ac y mae yn 'chwanegu rheswm o hynny, "Canys os trwy gamwedd un y bu feirw llawer; mwy o lawer yr amlhaodd gras Duw, a'r dawn trwy ras i laweroedd:" fel pe dywedasai, Pe buasai y dawn yn perthyn i bawb fel yr oedd y camwedd, yna pawb a fuasent gadwedig: o herwydd fod gras wedi amlhau yn fwy na'r camwedd; *rhagor-amlhad gras*, sydd yn rhaid ei ddyall am ei rhinweddol effaith: (canys mewn perthynas i rifedi, ni allai gyrraedd fwy na phawb; ac yr oedd y camwedd yn cyrraedd pawb) ac am hynny y rhai yr amlhaodd ef felly tuag atynt, a gânt yn ddiâu fod yn gyfranogion o'i ffrwythau. Ac yn mhellach, fel na chymmerid y gair *pob dyn am bawb*, y mae yn ebrwydd yn ei newid, ac yn lle *pob dyn*, yn dywedyd *llawer*: "Megis trwy anufudd-dod un dyn y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid, felly trwy ufudd-dod un y gwneir llawer yn gyfiawn," Rhuf. v, 19. "Megis yn Adda y

mae pawb yn meirw; felly yn Nghrist y bywheir pawb,"
1 Cor. xv, 22.

Gwrthddadl. "Eithr yr ydys yn fynych yn son am Bryn-
edigaeth mewn geiriau sydd yn dal allan ei bod yn
perthyn i bawb; sef, i Grist roddi ei hun yn bridwerth
dros bawb; ei fod yn tyngu ymaith bechodau'r byd;
a'i fod yn iawn dros bechodau'r holl fyd, 1 Tim. ii, 6.
Ioan i, 29."

Atteb. Y mae'r ysgrythyr, ac ymadrodd cyffredin, yn
fynych yn arfer geiriau *helaeth*, pan na byddont yn meddwl
cyffredinolrwydd; Ioan iv, 29. "Deuwch, gwelwch ddyn,
yr hwn a ddywedodd i mi yr hyn oll a wnaethum!" lle yr
oedd wedi dywedyd yn unig pa sawl gwr a fuasai iddi, ac
nad oedd yr hwn oedd ganddi y pryd hynny felly. Yn
1 Cor. x, 33. y dywedir fod Paul "yn rhyngu bodd i bawb
y'mhob peth;" lle mewn gwirionedd nid oedd ef yn rhyngu
bodd ond i rai mewn dim, ac i ychydig iawn y'mhob peth.
Yn Col. i, 6. y dywedir "fod yr efengyl wedi dyfod at yr
holl fyd, ac yn dwyn ffrwyth megis ag yn eu plith hwythau;"
lle ni ddaethai hi etto ond i *gongl* o'r byd, ac nad oedd ond
y'mhlith rhai, i.e. rhai iawn, yn dwyn ffrwyth. Siamplau o'r
fath hynny sydd aneirif. Daliwn sylw gan hynny, pa le
bynnag yr arferir y geiriau cyffredinol helaeth hynny am
Brynedigaeth, y maent gan mwyaf yn dangos, nad yw eg-
lws Dduw (yr hon yr oedd Iesu Grist i'w chasglu) yn
perthyn i biliogaeth un dyn neillduol; ond yn cymmeryd
rhai o bob teulu a chenedl dan y nef; o bob math a gradd o
ddynion: pa wahaniaeth bynnag sydd rhyngddynt mewn
pethau eraill, un ydynt oll yn Nghrist, Gal. iii, 28. A
nad ydys yn amcanu hyn, yr ydys yn eu gosod allan mewn
geiriau o arwyddocad cyfyngach, megis iddo roddi ei ein-
ioes yn bridwerth dros *lawer*; a'i offrymu unwaith i ddwyn
ymaith bechodau *llawer*; ac iddo roddi ei einioes dros y
defaid; a'u *prynu* hwy "oddi ar y ddaear, ac oddiwrth
ddynion;" ac "allan o bob llwyth, ac iaith, a phobl, a
chenedl." Nid yw'r ysgrythyr honno yn Timothi, "Yr
hwn a roddes ei hunau yn bridwerth dros bawb," yn cadarn-
hau ddim o'r gwrthddadl; canys rhaid i "bawb" yn y 6
adn. arwyddocau yr un peth a "phob dyn" yn yr adn. 1.
yr hyn y mae'r testun ei hun yn ei ddechongli "brenhinoedd
a rhai mewn goruchafiaeth." Ac am y gair "byd," y mae
iddo *lawer* ac amryw arwyddocad yn yr ysgrythyr; nid yw
yn wastad yn arwyddocau *dynion*; ac anfyfych y mae yn
arwyddocau *pawb*; i.e. yr ydys yn fynych yn ei gymmeryd

am ychydig iawn, mewn cymmariaeth i bawb: fe a wedda gan hynny, ei fod yn rhyfyg mawr i briodoli y cyfryw ar cyffredinol i neillduol arwyddocad; megis mewn rhan y mae yn amlwg wrth y siamplau canlynol: y mae weithiau yn arwyddocau preswylfod dynion ar y ddaear; weithiau, holl ymerodraeth Rhufain, Luc ii, 1.; weithiau, y Cenhedloedd, fel y gwahaniaethir hwynt oddiwrth yr Iuddewon; weithiau, lluwaws mawr, Ioan xii, 19. 'Chwaneg a ellid eu ddywedyd; ond y mae hyn yn ddigonol i ddangos mae rheidiol yw ystyried yn dda amcan ac amgylchiad yr ysgrythyrau, a pheidio a gorphwys ar swm llythyrenol geiriau.

Y mae etto ddau ystyriaeth i'r gair, y rhai sy'n dyfod yn nes at y peth yn llaw: y naill yw, lle ei cymmerir am yr holl rai drygionus eu hunain yn unig; megis lle dywedir, "y barna y saint y byd," 1 Cor. vi, 2. rhaid dyall y *byd* annuwiolion; canys ni farna y saint y naill y llall: felly, "yr holl ddaear (neu'r byd) a ryfeddodd ar ol y bwystfil, ac a addolasant y ddraig," Dat. xiii, 3, 4. rhaid dyall hyn hefyd am yr eilun-addolwyr yn unig, ac nid am ddilynwyr yr Oen. Fe ddywedir hefyd, fod "yr holl fyd yn gorwedd mewn drygioni:" dyma yr un geiriau, wedi eu cyssylltu yn yr un modd ag yn yr wrthddadl; ac etto ni ellir eu dyall am holl ddynolryw; ond am y cyfryw o honynt ag y sydd dan lywodraeth satan; yr hyn nid yw y saint; ac am hynny nid ydynt hwy yn rhan o'r byd; neu yr holl fyd, am yr hwn y sonir yma. Ystyriaeth arall a ellir ei gael yn y lleoedd a wrthddadleuir; lle dywedir fod Crist "yn tynnu ymaith bechodau'r byd;" a'i fod yn "iawn dros bechodau yr holl fyd:" canys, paham na ellir cymmeryd y gair mewn ystyr terfynedig yma, yn gystal ag yn y lleoedd y soniwyd o'r blaen? gan fod weithiau y gair *byd* yn meddwl y byd o'r annuwiolion, heb y saint; wrth yr un rheswm weithiau, y gall arwyddocau y saint, heb yr annuwiol; yn enwedig pan na bo dim yn amcan nac amgylchoedd y lle yn wrthwyneb i hynny. Paham gan hynny, nad yw y gair *byd*, yn y lleoedd a wrthddadleuir, yn arwyddocau yr *etholedigion* heb eraill, fel y mae "y byd sy'n gorwedd mewn drygioni," yn arwyddocau eraill, heb yr *etholedigion*? Diau na all bod dim perygl o'i ddyall felly; canys ni a wyddom fod Crist yn iawn dros eu pechodau hwynt; ond os dywedwn ei fod felly dros bechodau pawb, y mae llawer o bethau afreolus, anaddas yn canlyn; fel y dangoswyd o'r blaen. Ond pa fyd oedd yr hwn nid oedd Crist yn gweddio drosto? Ni allai fod yr hwn y bu ef farw drosto: o herwydd yr oedd yr *offeiriad*

yn rhwym i weddio dros y rhai yr oedd yn aberthu drostynt; rhaid ei fod wrth hynny yn un arall; ac felly y mae yn eglur fod dau fyd: 1. Y byd lleiaf o'r rhai etholedig, yr hwn a gymmerwyd allan o'r byd cyffredinol; fel y cymmerwyd cenedl Israel o fysg yr Aiphthiaid; neu'r eglwys grist'nogol ar y cyntaf o'r un Iuddewig. Y rhai hynny y mae ein Hiachawdwr yn eu galw, "Y dynion a roddodd y Tad iddo allan o'r byd:" o herwydd dros y rhai hynny y "sancteiddiodd ef ei hunan;" sef y neillduodd ei hun i ddyoddef, a gweddio drostynt; ac o'r rhai hynny y gwneir i fynu y *byd*; pechodau yr hwn y mae yn dynnu ymaith. Y rheiny a gyfrifir yn "deilwng o'r byd a ddaw," Luc xx, 35.; a hwy a elwir yn *fyd*, o herwydd y cyflwr a'r lle gogoneddus y cymmerir hwynt iddo: megis y gelwir preswylwyr y ddaear yn *fyd* oddiwrth eu preswylfod. 2. Y mae hefyd fyd o an-nawiolion, allan o ba un y dewiswyd y byd lleiaf hwn: am y rhai y dywedir, mai'r diafol yw "eu duw;" ac "nad yw eu hauwau yn 'sgrifenedig yn llyfr bywyd yr Oen;" ond eu bod "oll yn gorwedd mewn drygionia;" a hwn yw'r *byd* dros yr hwn y mae Crist yn eglur yn dywedyd "nad yw'n gweddio;" a diau na wnaeth ef ei euaid yn aberth dros eu pechodau hwynt.

Eithr gan fod yn gosod cymmaint bwys at ystyr llythyr-annol y gair, gadewch i ni ystyried ychydig y'mhellach y *byd* hwn, yr hwn y tynwyd ymaith ei bechod. Yr ydwyf yn meddwl na ellir ei ddyall am holl ddynolryw; canys, er bod Brynedigaeth yn perthyn i'r byd yn gyffredinol, y mae y berthynas honno yn rhy ysgafn i gyfattedb pwys yr ysgrhythyr hon: ni all pethau amserol mewn un modd gyfattedb dyben a phridwerth *tragywyddol Brynedigaeth*: gan ei bod y weithred fwyaf ofnadwy ag a welodd, neu a wél yr haul byth; rhaid bod ei ffrwythau hefyd yn gyfattedbol o ran maint a gogoniant; ac felly yn perthyn yn unig i'r etholedigion. I wneuthur hyn allan, gadewch i ni ystyried beth yw pechod y *byd*, a ph'eth y mae ei dynnu ymaith yn ei arwyddocau; ac am y cyntaf, rhaid ei fod naill ai rhyw un pechod mawr, neu'r holl gorph o bechod ynghyd: os unrhyw bechod neillduol yw, rhaid ei fod yn anghrediniaeth; canys hwnnw yw'r cyntaf, a thad y lleill oll: yr y's yn ei alw'n bechod y *byd*;
1. Am mai hwnnw yw pechod pawb, Iuddewon a Chenedl-oedd. 2. Efe yw'r gwreiddyn o'r hwn y mae pob pechod arall yn tarddu. A'r pechod sy'n damnio yw, ni cholli'r neb, ond am anghrediniaeth; lle nid yw'r efengyl y maent yn

golledig, eisiau credu i Dduw; a He y mae hi, eisiau credu yn Nghrist. Os pechod yn gyffredinol yr y's yn feddwl, yna y mae'r 'sgrythyr hon yn eu hystyried megis wedi eu gosod ynghyd, a'u tynnu ymaith ar unwaith fel un pechod. Ond p'odd bynnag, anghrediniaeth yn neillduol, neu gorph pechod yn gyffredinol, yr un peth yw: canys aelod o'r corph hwnnw yw anghrediniaeth, ie prif aelod; a lle mae Crist yn achub oddiwrth anghrediniaeth, y mae yn achub oddiwrth y cwbl sydd ddamniol: o herwydd fel y mae ffydd yn cynnwys pob gras, felly y mae anghrediniaeth yn cynnwys pob pechod: cymmerwch ymaith hwn, ac mae'r gwaith ar ben: pob pechod arall sy'n diflannu; o ran eu heuogrwydd a'u nerth; yr hwn sy'n credu a fydd gadwedig. Yn ail, I ystyried pa fodd y mae yn tynnu ymaith bechod, 1. Lle yr y's yn dywedyd yn yr amser presennol, yr hwn sydd yn tynnu ymaith, y mae yn dal allan weithred barhaus; yn diwyd ganlyn yr un dyben: a gweithred berffaith; nid yn tynnu ymaith yn hannerog, nac yn amcanu yn ofer; ond yn gyflawn ac yn sicr; fel y cymmer dyn dom ymaith nes ei ddarfod oll. 2. Mae Crist ei hun yn unig sy'n gwneuthur hynny. 3. Y mae yn tynnu ymaith bechod fel oer wedi ei ladd; nid drosto ei hun (canys ni chafwyd ynddo fai) ond drostynt hwy, pasg y rhai ydoedd. Ac, 4. Megis Oen Duw, Oen a baratôdd Duw i achub bywyd ei Isaaciaid. Y mae yn tynnu ymaith bechod yn llwyr, ac yn ei osod yn nhir anghof, Jer. xxxi, 34.

Ac y'mhellach, i sicrhau ei hollol *ddiddymiad*, dywedir ei ddinystrio, a chroeshoelio yr hen ddyn, *lladd y gelyniaeth*, a *diddymu* corph pechod: hwn oedd gwaith diafol yr hwn y daeth Mab Duw i'w ddinystrio, trwy ei "hoelio wrth y groes." Y mae gwaed yr Oen wedi gorchfygu yn y fath fodd, fel nad oes rhaid mwy wrth aberth dros bechod; na dim i'wneuthur Prynedigaeth yn dragywyddol. Ac ni ellir dywedyd fod pechod y byd i gyd wedi ei gymmeryd ymaith yn llyn; o herwydd pe b'ai pechod wedi ei symmud, ni byddai dim i'w roddi yn erbyn y byd. Ond nid oes dim eglurach nâ bod dynion yn gyffredin wedi soddi mewn pechod, ac yn gaeth-weision i lygredigaeth hyd y diwedd: rhaid gan hynny fod byd neu lwyth arall i'r hwn y mae'r drugaredd fawr hon yn perthyn, ac i'r rhai y cyflawnir hi: a chan nad oes ond un byd arall, sef etholedigion Duw, yr ydwyf yn dywedyd mae hwy yw y dynion a'r byd a feddylier yn yr ysgrythyr hon; "Canys nyni a wyddom fod y dynion hyn o Dduw; a bod yr holl fydd yn gorwedd mewn drygioni."

Gwrthddadl. 'Os rhai yn unig a brynwyd, a rhei'ny ond rhai, o'u cyffelybu i eraill; nid oes lle wedi ei adael i'r rhan fwyaf o ddynion i gredu.'

Atteb. 1. Nid yw bod Crist heb farw dros bawb, yn rhwystro neb i gredu, mwy nâg y mae yn rhwystro i eraill redeg, am na all ond un ennill y gamp. Nag é, y mae yn dysgu (fel y maent hwy) i Grist farw dros bawb, ac etto bod y rhan fwyaf o ddynion yn eu pechodau, ac eu bod yn goll-edig dros byth; yn fwy o rwystr i gredu, nâg iddo farw dros rai, ac y bydd pob un o'r rhai hynny yn sicr yn gadwedig.

2. Os barnwn y pren wrth ei ffrwyth, ni allwn ddal sylw, fod y rhan fwyaf o ddynion (ag sy'n son am grefydd) yn dal yn fawr dros gyffredinol Brynedigaeth; yr hyn sy'n dangos, nad yw'r athrawiaeth hon yn awdurdodol iawn i weithio ffydd: pe b'ai felly, ni byddai nifer y crediniol mor lleied. Ni allwn hefyd weled fod y rhan fwyaf o ddynion, y rhai ni chymmerant addysg, yn dirmygu neillduol Brynedigaeth, yn gystal ag Etholedigaeth. 3. Gwneuthur ffydd yn *amlygiad* o'n hawl i Brynedigaeth, sydd yn cau allan yr anghrediniol, yn gymmaint a'i gwneuthur yn ammod. 4. Yr hwn a ewyllysio wybod ei fod ei hun wedi ei brynu, cyn credu, sy'n dechreu ei waith o chwith; ac ni ddaw byth i wybodaeth o hynny, y ffordd honno. Nid gwaith cyntaf ffydd yw credu i Grist farw dros bawb, neu drosoch chwi yn neillduol; y naill sydd anwireddus; a'r llall yn anadnabyddus i chwi, nes yn ol credu. Rhaid i'r hwn a fyddo gadwedig ymddarostwng i drugaredd; gan ddywedyd, "Fe allai y ceidw fi yn fyw." 5. Y mae gan bob dyp ag sydd yn cydnabod ei hun yn bechadur, gystal lle i gredu ag un yn y byd; i'e gystal ag oedd gan gredadyn cyn iddo gredu: ac ni ddylai un, mewn un modd, gau allan ei hun oddiwrth Brynedigaeth; oni bydd iddo trwy ei wrthnysigrwydd a'i fwrriadol barhad mewn anghrediniaeth, amlygu ei fod yn wrthodedig.

Y mae digon o resymau pwysfawr i annog dynion i gredu, heb wneuthur Prynedigaeth gyffredinol yn sail eu ffydd:

1.) Y gair gwir hwnnw, yr hwn sydd yn haeddu pob der-yniad, "Ddyfod Iesu Grist i'r byd i achub pechaduriaid;" e felly yr y'ch chwi. (2.) Iddo roddi ei einioes yn bridwerthros lawer; a chwi allwch fod o'r nifer honno yn gystal ag eraill. (3.) Y bydd i'r neb y bu Crist farw drostynt gael eu yfiawnhau, pan gredont: a chael ffydd hefyd pan ceisiant ni, megis yr hyn a brynwyd ganddo, ac a roddir er ei fwyn. (4.) Gorchymyn y tragywyddol Dduw, (i'r hwn yr ydym yn

rhwym i'nfuddhau) yw i ni "gredu yn ei Fab ef." (5.) Yr amryw addewidion ffyddlon, ag y sydd yn sicrhau iechyd-wriaeth i'r sawl a gredo. Yn ddiweddaf, Y perygl o anghrediniaeth. Ac oni ddychon y cyfryw ystyriaethau eich perswadio i gredu, yn sicr ni wna'r athrawiaeth o Brynedigaeth gyffredinol ddim o'r gwaith.

Gwrthddadl. 'Yr oedd yn fwy o glod i ras Iesu Grist brynu holl ddynolryw, nâ phrynu gweddill o honynt.'

Atteb. Nid yw ddim mwy o anghlod i ras Crist, iddo farw yn neillduol dros y gweddill hynny, nâg oedd iddo ddewis un genedl, a honno yr anamlaf o'r byd; a rhoddi iddyn ddeddfau yn tueddu i fywyd; pan yr oedd yn gadael i bawb eraill redeg y ffordd lydan ag oedd yn tywys i ddistryw. Ac y mae Prynedigaeth gyffredinol ar ammodau, cyn belled oddiwrth fawrhygu gras Crist, a'i bod yn gwbl wrthwyneb iddo: canys, gan ei fod o'r dechreuad yn gwybod pwy ni chredai, yr oedd yn fath o ras iddo beidio a marw dros y rhei'ny; am fod hynny yn chwanegu eu pechod a'u damnedigaeth: megis y buasai gwell i rai fod heb adnabod ffordd cyfiawnder, nâ gwedi ei hadnabod, droi oddiwrthi, 2 Pedr ii, 21.

Gwrthddadl. 'Y mae hyn yn gadael y rhan fwyaf o ddynion yn ddigymmorth.'

Atteb. Yr angylion a syrthiasant oeddent uwch nâ ni; etto nid oes ganddynt le i achwyn na roddwyd Cyfryngwr iddynt; canys os oes neb yn ddigymmorth, eu bai eu hunain yw: o herwydd, os ydyw rhyddid ewyllys (fel yr haerant) yn awr yn nerthu dynion i ymiachau, (sef trwy dderbyn a chymhwyso) mwy o lawer, fel yr oedd y pryd hwnnw, y gallasai, pe myn'sent, eu cadw, fel na buasai raid iddynt wrth feddygiaeth. Fe allai y gofynnwch (fel y mae rhai yn gwneuthur) Paham y gadawid dynion i'r rhyddid ewyllys hwn, os oeddid yn rhagweled yr arferent ef fel y gwnaethont? Nag é yn hytrach, Paham y mae dynion, ar ol y fath wylofus brofiad, yn dewis cael eu gadael felly? y maent yn cael eu dymuniad, edrychent hwy.

Ac felly yr wyf yn ymadael â'u gwrthddadleuon: canys yr ydwyf yn dymuno o'm calon, er mwyn gwirionedd a thangnefedd, fod yr ymraffaelion hyn wedi eu claddu, rhag iddynt fwytta allan fywyd crefydd: (afiachus y mae'r rhei'ny yn byw ag sydd yn byw arnynt.) Ac yr wyf mewn gwirionedd yn barnu, pe byddid yn dwys ystyried yr ysgrythyrau a wrthddadleuir, (sef, trwy gydfarnu pethau ysbrydol â phethau ysbrydol, heb ymgyngheri â chnawd) y buan ddibennid

yr ymrafaelion presennol, y rhai gan mwyaf a gynhelir trwy'r arfer anhydyn o philosophyddio mewn duwioldeb; a thrwy ddal ar eiriau o arwyddocad ansicr, yn hytrach nâg ar amcan ac amgylchoedd y lleoedd.

Defnyddion.

I. Oddiwrth yr hyn a ddywedwyd am *waith a dybenion* Prynedigaeth, yr ewyllysiwn droi (ychydig) at y rhai sy'n dal athrawiaeth *gyffredinol*; nid y rhai sy'n proffesu duwioldeb yr wyf yn ei feddwl; (er bod gormod o'r rhei'ny wedi eu llygru â hi) ond yr ysbrydion bryntion anhynaws hynny, y rhai sydd yn cymmeryd arnynt ymddiffyn Prynedigaeth gyffredinol, (gan ymguddio tan ei chysgod) ac etto heb amcanu cyfatteb ei dybenion; y rhai sy'n breuddwydio am Brynedigaeth o uffern, ond heb feddwl am Brynedigaeth oddiwrth bechod: y maent yn dadleu i Grist farw dros bawb; etto yn byw megis pe buasai ef heb farw dros neb; yn enwedig drostynt hwy: canys nid oes ganddynt na nôd na naws y cyfryw Brynedigaeth arnynt; eithr y maent yn eglur yn parhau yn gaethweision i lygredigaeth. A allwch chwi dybyg i Fab Duw farw drosoch chwi, pan na b'och yn prisio am fyw iddo ef—yn cashau y rhai sydd yn ei garu—yn gwrthsefyll yr hyn oll sydd anwyl ganddo—yn erlid i farwolaeth (pe gallech) y sawl a fo arnynt nodau o Brynedigaeth? A wnaeth ef ei enaid yn aberth, i brynu tyddid i bechu? Neu a groeshoeliwyd Crist, fel yr arosai corph pechod, i.e. fel y byddai yn fwy afreolus? Ai caru eich Cyfaill yw caru ei elynion (y waywffon a'r hoelion) a threulio ac ymdreulio yn ngwasanaeth eich trachwantau? Efe a fu farw, fel na byddai "i'r rhai byw fyw mwyach iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw drostynt ac a gyfododd!" Pe baech mewn gwirionedd yn credu iddo farw drosoch chwi, ni allwch lai ná bod o'r meddwl hwnnw; ei gariad a'ch cymhellai chwi. Gwyr rhyddion i Dduw yw'r rhai a brynwyd: ond nid ydych chi yn rhydd i ddim ond i ddiabol a pechod. Ai nod eich rhyddid yw hwn? yr arwydd, wrth yr hon y gwahaniaethir rhwng deiliad Crist a gwrthryfelwyr? Nag é, ond nôd gwrthryfelwyr yw; a chwi gewch weled hynny yn y diwedd. Hyn a drymhâ eich damnedigaeth, eich bod yn gwadu yr Arglwydd a'ch prynodd: caseion Duw ydych; ac efe a wna i chwi ei wybod: digofaint a ddaw arnoch hyd yr eithaf. Os nid arbedodd Duw ei Fab, yn yr hwn nid oedd pechod (ond trwy gyfrifiad) pa fodd yr arbed efe chwi, yn y rhai nid oes dim ond pechod? "Yr hwn a ddirmygai

gyfraith Moses, a fyddai farw heb drugaredd, pa faint mwy cospedigaeth y bernir haeddu o'r hwn a sathrodd Fab Duw, ac a farnodd yn aflan ei waed," (yr hwn yr ydych yn gymmeryd arnoch gredu ei fod yn waed eich "cymmmod," Heb. x, 28, 29.) Ofnadwy yw digofaint yr Oen! Efe a'ch dryllia, ac ni bydd neb i'ch achub. Meddyliwch gan hynny, mewn amser! Ystyriwch pa fodd y dygwch y pwys hwnnw o ddigofaint, tan yr hwn y bu farw Mab Duw! Y mae etto obaith am y peth hwn: "Os ymfynwch, ymfynwch (yn ddioed) dychwelwch, dewch."

II. Ni ddylai yr athrawiaeth o neillduol Brynedigaeth wanbau gobaiith neb ag sy'n dyfod at Iesu Grist am iechydwrriaeth, mwy nâg y dylai "llawer yn ceisio ac heb gael," twystro dynion i ymdrech: ond o'r gwrthwyneb (yr hyn, yn ddiau, oedd meddwl ein Harglwydd) a ddylai ein cynhyrfu i ddyfod ar frys cyn cau'r drws; yr hwn sydd gwbl agored tra fyddo efe yn galw. Bwriwch y gwaethaf; bwriwch (meddaf) nad oes gennych ond hawl gyffredinol yn Mhrynedigaeth; sef, am fendithion tymhorol yn unig; y mae hynny yn haeddu yr hyn a alloch ei wneuthur, a mwy. Pa ddrwg-weithredwr, yn sefyll ar drugaredd ei dywysog, ni thybyga ei hun yn rhwymedig i dreulio yr amser a ganiattâer iddo yn ngwasanaeth ei dywysog; yn enwedig pan ystyrio na bydd y gwasanaeth hwnnw heb ei wobwr? Ond paham y cauwch chwi eich hunain allan? Pechu yn erbyn ei enaid ei hun, yw i neb gau eu hunain allan, a bod yr ail waith yn euog o'i ddinystrio ei hun. Profwch y peth; ni allwch gollu dim wrth anturio; ond y cwbl wrth beidio. Pwy a w'yr, nad yw eich enwau yn ysgrifenedig ar ddwyfronneg yr Arch-offeiriad, fel enwau Reuben a Juda? Ac nid oes gennych un ffordd i'w brofi, ond trwy fyned a gweled; yr hyn ni wnaeth neb erioed mewn gwirionedd, na's cawsant felly.

III. Oddiw'rth yr hyn a ddywedwyd am Brynedigaeth, fel y mae hi yn briodol i'r etholedigion, ynghyd â'r ymddangosiadau tég a ddygir yn ei herbyn, y bydd i mi gasglu, mor dra rheidiol yw i ni brofi'r ysbrydoedd a'r athrawiaethau ag sydd ganddynt, ai o Dduw y maent. Nid yw ymddangosiad tég oddi allan yn y cnawd, yn arwydd o wirionedd yn yr ysbryd. Nyni a ddylem fod yn eiddigeddus o bethau, o ran eu bod yn boddioni natur. Y rheol oreu ag a allwn fyned wrthi yn yr achos hwn, yw rheol ein Hiachawdwr, "Wrth ei firwyth yr adwaenir y pren." Ac os mesurwn yr athrawiaeth o gyffredinol Brynedigaeth wrth hon, hi a geir yn ddiffygiol (er cymmaint ei ffrost) ac yn feius iawn:

canys, 1. Yn lle mawrhygu gras Crist a haeddiant ei ddyoddefiadau, y mae hi yn diddymu'r ddau: y mae hi yn gwneuthur Brynedigaeth yn gyffredinol o ran *personau*, ond nid o ran pethau: y mae hi yn prynu holl ddynolryw oddiwrth ran o'u caethiwed, ond nid yw hi yn gwared neb oddiwrth y cyfan: neu ar y fath ammod nad oes un dyn yn abl i'w gyflawni: dychymyg aadidas i ras a doethineb Duw. Ni ellir galw honno yn feddyginiaeth gyffredinol, yr hon sy fynychaf yn cael ei gorchfygu gan yr afechyd; na honno yn Brynedigaeth berffaith, ag sy'n gadael mewn caethiwed. Nid ydwyf yn ammeu, nad yw gwaed Mab Duw yn ein natur ni o haeddedigaeth anfeidrol; ond y mae ef hefyd o'r un anfeidrol effaith, ac yn gweithio yn gyfattebol. Eithr os ydychyd ei lwyddiant a'i achubol effeithiau yn sefyll ar ryw beth i'w wneuthur gan ddynion, yr hyn nid yw Brynedigaeth ei hun yn ei roddi iddynt; yna y mae i ddynion ran gyda Christ yn ngogoniant eu hiechydwrriaeth: ond yn y peth hwn, y 'chwanegiad lleiaf o allu dynol sy'n diddymu gras Crist: lle y mae ymddiried i Grist am sancteiddrwydd, yn gystal a chyfiawnder, disgwyl oddi wrtho am allu i edifarhau a chredu, yn gystal ag am dderbyniad pan credom; yn rhoddi iddo ei wir anrhydedd, gan gyfrif iddo ef y cwbl o'n hiechydwrriaeth, yr hyn sydd mewn gwirionedd yn perthyn iddo, ac iddo ef yn unig. A hyn, fe allai, yw'r achos pahan y mae y rhai sy'n profesu enw Crist, yn gyffredinol gymaint dieithraid i ffydd a sancteiddrwydd; nid ydynt yn ei geisio oddiwrth Grist fel rhan o'i bwrcas; ond yn eu nherth eu hunain. 2. Yn lle gosod sail i ffydd, a rhoddi cymmorth i gredu, y mae'r athrawiaeth o gyffredinol Brynedigaeth yn gwneuthur yr enaid yn ddiosfal yn ei anghrediniaeth; trwy beri iddo ryfygu bod ganddo allu i gredu pan mynno. Ychydig yr ydym ni yn feddwl, pa faint o ryfyg a diosfalwch enawdol sy'n tarddu o'r gwreiddyn hwn; lle mae neillduol Brynedigaeth yn ei helaethrwydd, (sef, megis y prynodd i ni hawl i ffydd a sancteiddrwydd, gydag Ysbryd Crist i'w heffeithiol weithredu) yn annogaeth i'w taer geisio gan Grist fel rhan o'i bwrcas; ac heb yr hwn ni allwn fwynbau ffrwythau eraill ei farwolaeth. Ac ni allaf lai na meddwl, y dewisai un dyn yn ei iawn bwyll, yn hytrach ymddiried i'r cyfryw Brynedigaeth ag a f'ai yn gwaredu oddiwrth bob anwreidd; (er na byddai yn perthyn ond i nifer fach) na gorphwys ar un sy'n prynu pawb yn gyffredinol, ar yr ammod o ffydd ac edifeirwch; ond heb waredu oddiwrth ddiedifeirwch ac anghrediniaeth. Bydded fy rhan yn y *Brynedig-*

æth sy'n gwared oddiwrth bechod; yn lladd y gelyniaeth; yn cymmodi â Duw, yn dwyn i mewn gyfiawnder tragwyddol; ac nid yn unig yn dwyn i gyflwr o iechydwriaeth ar ammodau; eithr yn effeithiol *weithredu* ac yn *cynnal* yr ammodau a'r cynheddfau hynny y rhai mae iechydwriaeth yn eu canlyn.

IV. Gan i Grist roddi ei hunan yn bridwerth dros yr *etholedigion*, y mae Prynedigaeth hefyd o *ras*, ac yn *rhad* yn gystal ag Etholedigaeth; yr hyn sy'n dangos y dylem fod yn ddiolchgar, ac ymwadu â ni ein hunain. Y mae tueddiad rhyfedd ynom i anghofio ein dechreuad; i dalu diolch lle nad yw yn ddyledus, ac i beidio lle mae. Cyngor rheidiol gynt oedd, ac nid yw lai rheidiol etto; "Dilynwyr cyfiawnder, edrychwch ar y graig eich naddwyd o honi," Esa. li, 1. Eich Prynwr a'ch gwnaeth ar y cyntaf o *ddim*, efe a roddodd ei hun yn bridwerth drosoch, er nad oedd *dim* rhaid iddo wrthych; byddwch sier, gan hynny, i ddiolch am y cwbl i'w gariad ef. Nid eich daioni a roddodd i *chwi* yr uchel ragoriaeth; nid eich cyweithas ufudd-dod a wnaeth Brynedigaeth yn effeithiol i *chwi*. Oni buasai i'ch Prynwr eich prynu oddi wrthych eich hunain, eich rhyddhau oddiwrth eich rhyddid *dychymygod*, a'ch gwaredu oddiwrth *anghrediniaeth*, ni buasech byth yn gwybod beth oedd Prynedigaeth, na pheth oedd bod yn rhydd *mewn gwirionedd*. Cariad eich Prynwr yn unig a'i parodd: yr oedd yn eich mawr brisio fel *rhodd* ei Dad; wedi eu *rhoddi* i fod yn un âg ef ei hun; am hynny y carodd *chwi*, ac y rhoddodd ei hun drosoch. Pan yr oedech yn eich gwaed, heb un llygad (na *chwi* eich hunain) yn tosturio wrthych; yno yr oedd amser ei gariad ef: y pryd hwnnw y derbyniodd y swydd a ymddiriedwyd iddo gan ei Dad ef a'ch Tad chwitnau, ac y seliodd yr ammod. Efe a wyddai eich pwys a'ch pris; eich anghymmwysdra iddo wrth natur, a'ch anewyllysgarwch i'w gymmeryd: a pheth a gostai iddo ef eich gwneuthur yn gymmwys ac yn ewyllysgar; a'i fod yn waith anhyffordd ag a ddrylliasai holl luoedd y nefoedd. Ac efe a wyddai yn mhellach, yn ol iddo wneuthur a dyoddef y cwbl drosoch, na allech wneuthur iddo y daioni lleiaf; ond yn unig y cai ef y boddlonrwydd o'ch gwneuthur yn ddedwydd yn erbyn eich anianol ewyllys; ac etto ni wrthododd y gwaith: *efe* a ddaeth "yn neidio ar y mynyddoedd ac yn llammu ar y bryniau" (o farwolaeth ac anhawsdra) megis yn hiraethu am, ac yn ymhyfrydu yn y gwaith: cyfyng oedd arno nes ei orphen: mor sawr oedd ei gariad tuag attoch; ac efe a

gymmerodd lawer o boen i'ch gwneuthur yn ewyllysgar. Ac er hyn oll nid yw yn disgwyl, ond i chwi aros yn ei gariad, a bod yn ewyllysgar iddo eich achub yn *rhad*; a chydabod mae ei gariad ef yw'r ffynnon ddigyfrwng o'r hon y mae eich dedwyddwch yn tarddu.

V. Gan fod eich hawl i Brynedigaeth yn tarddu oddiwrth Etholedigaeth, arferwch bob diwydrwydd i wneuthur eich Etholedigaeth yn sicr: nag arbedwch gost; fe a dal y wybodaeth hon yr holl lafur a'r draul a gymmeroch yn ei cheisio; os hyn sydd eglur, y mae yr holl gorph yn oleu. Ac yn mysg amlygiadau eraill o Etholedigaeth, ystyriwch y nodau a roddwyd eisoes dan y pen hwnnw. Amlygwch hefyd eich hawl i Brynedigaeth, trwy rodio yn addas o'r cariad a'ch prynodd, yr hyn ni all eraill; rhaid bod rhyw *beth enwedigol* i amlygu eich hawl i'r *rhagorfraint enwedigol* honno: amlygwch hi gan hynny yn eich ymarweddiad. Nid oes un ffordd well i chwi (os gallaf ddywedyd felly) i foddioni eich Prynwr, nâ thrwy adael iddo weled o lafur ei enaid: hollol newydd-deb buchedd, gyda chyflawn roddi eich hunain i Dduw, a fydd anrhydedd nid bach i Brynedigaeth; ac a gyhoedda yn ddiddadl ei gwerthfawrogrwydd a'i heffaith. Fe a fydd yn dda i chwi eich hunain, fel amlygiad o'ch hawl neillduol i Brynedigaeth; ac a ddengys eich bod yn gristianogion, yn llawer gwell na phroffes ffurfiol, neu ymddadleu fanbaid. Ac er mwyn hyn, 1. Na fernwch wybod dim ond "Iesu Grist, a hwnnw wedi ei groes-hoelio:" na thybiwch y tal dim arall i chwi ei wybod; canys mewn gwirionedd pob gwybodaeth arall a ddaw i ddim. Bydded pob peth gan hynny yn "golled, yn dom, o herwydd ardderchawgrwydd gwybodaeth Crist Iesu ein Harglwydd," Phil. iii, 8. Myfyriwch ar athrawiaethau ei groes ef; fel na byddo i chwi sefyll a chlywed ei oganu, heb air i ddywedyd drosto: daliwch sylw arno, fel pan byddo'r byd ac yntef yn ymadael, y galloch adnabod eich Meistr, ac yntef eich adnabod chwithau. 2. Na fydded dim mor anwyl gennych, na byddoch barod i ymadael âg ef er mwyn eich Prynwr, pan galwer arnoch; a chodwch yn foreu i'w wneuthur: cymmerwch i fynu eich croes, ac ymarferwch â hi, cyn y gosodir hi arnoch: fe ymadawodd yr Arglwydd â'i fywyd er eich mwyn chwi; ac nid oes dim fwy rhesymol, a naturiol i galon uniawn, nâ charu a byw i'r hwn a fu farw drosom: ni all pwy bynnag a adnabu ras Duw, a chariad Crist, lai nâ barnu felly. 3. Triwiwch bechod yn ol ei natur; anian ddychrynlyd pa un, nid oes dim all ei ddatguddio ond poenau

uffern, neu (yn bennaf) dyoddefiadau Crist: na fydded farw un farwolaeth ond marwolaeth y groes; a pha fwyaf y byddo yn llefain am ei arbed, llefwch chwithau yn fwy, Croeshoelieſ ef. 4. Na ranner Crist: y mae yn addas cys-sylltu ei swyddau, ac ni ellir eu gwahanu gyda'ch diogelwch chwi; ie heb eich sicſ ddinystrio. Adnabyddwch ef, gan hynny, fel eich Prophwyd a'ch Arglwydd yn gystal a'ch Prynwr; ac fel eich Doethineb a'ch Sancteiddrwydd yn gystal a'ch Cyfiawnder; (lle mae yn un peth, y mae yn bob peth.) Cymmerwch eich trefnu ganddo fel eich Tywysog; ceisiwch eich cyfraith o'i enau ef; yr hyn a bero i chwi wneuthur gnewch; canlynwch ef b'le bynnag yr elo; ac ymddygwch fel y gweddai i'w ddilynwyr: y mae lluoedd y nef yn ei ganlyn ar feirch gwynion mewn gwisgoedd gwynion: na fyddwch eich cyfarwyddwyr eich hunain mewn dim, nac yn rhy fyrbwyll; na chyffröwch eich Anwylyd, hyd oni fynno ei hun; disgwylwch wrth ei gyngor a'i arweiniad, gan wybod y gwyr pa amser a pha bryd, pa ddull a pha fodd, i weithio a gorchymyn, yn well na chwi. 5. Na fydded i ddim eich tynnu oddiwrth Grist: na fydded i ddim ond marwolaeth, ie, na fydded i farwolaeth ei hun wahanu rhyngoch chwi âg ef. Ni allai dim, fel y gwelwch, ei wahanu ef oddi wrthych chwi; oni buasai chwi a'ch cyffelyb, ni buasai ef farw: "Nid eiddo ein hunain ydym, er gwerth ein prynwyd," hyn yw'r rhwymedigaeth fwyaf yn mhob cyflwr ac yn mhob dyledswydd, mewn bywyd a marwolaeth, i fod yn "eiddo yr Arglwydd."

VI. Y mae gwaith Crist yn rhoddi ei hun yn bridwerth dros och, yn rhoi lle i chwi ddisgwyl yn helaeth am bethau da oddi wrtho: pa bechodau sydd mor fawr na ellir eu mhaddeu? Pa anwiredd mor wrthnysig na ellir ei ddarostwng? Pa ras mor werthfawr na ellir ei gael? Nid yw'r Arglwydd yn ymfoddloni mewn dim yn fwy na thrugaredd; pechod oedd yr unig attalfa: yr hwn gan ei ddinystrio trwy waed Crist, y mae gras a gogoniant yn rhedeg yn ddirwyst. Gan mai ein gwneuthur ni yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw, yn "un yn y Tad ac ynddo ei hun," oedd dyben ei farwolaeth ef; pa fodd yr attalier dim daioni oddi wrthym? Pethau gwerthfawr rhagorol yw ffydd a sancteiddrwydd; etto gadewch i mi ddywedyd, nad yw y rhei'ny a'r holl bethau daionus eraill, ond ychydig iawn o'u cyffelybu i'r gras a'n gosododd yn Nghrist; yr anrhydedd a'r rhagorfraint o undeb âg ef; a'r pridwerth a dalodd drosom: "Yn hyn y mae cariad, i Dduw anfon ei Fab i fod yn iawn dros ein

chodau:" y mae'r gwerth wedi ei dalu, y 'sgrifenadau
edi eu selio, ac efe mewn meddiant; a phob peth yn
rod: nid oes dim yn awr ond cyfranu yr hyn a barottôdd,
hyn hyfryd ganddo ei wneuthur.

Defnyddion eraill a ellir eu gwneuthur o'r athrawiaeth hon,
r rhai ni allaf ond cyffwrdd, fel Jonathan â'r mêl: 1. Y
mae'n dangos mor fawr y mae Duw yn prisio ei *etholedigion*,
y rhai yr aeth ef ei hun i'w gwaredu, ac a'u pwrcasodd â'i
riod waed." 2. Wrth hyn y dylai y rhai a gawsant ffafr
ydâ Duw brisio eu hunain; gan ddiystyru dirmyg y byd,
eb dywyllu y nodau o ardderchawgrwydd a osododd Pryn-
digaeth arnynt. 3. Hyn sydd yn dangos gwenwynllyd
natur pechod; yr hwn nid oedd dim yn abl ei ragflaenu
ond gwerthfawr waed y Sanctaidd hwnnw; nid oedd dim
arall a allai wrthsefyll ffwrdd y pydew tanllyd: y mae yn
dangos hefyd mor ofnadwy yw, gan i Fab Duw farw yn yr
mdrech. 4. Y mae yn amlygu hefyd werthfawrogrwydd yr
enaid; yr hwn ni allasai dim ei waredu ond gwaed Mab
Duw. 5. Fod y byd yn rhwymedig iawn i bobl Dduw am
eu holl bethau da; o herwydd er eu mhwyn hwy y maent yn
eu cael, a hwy a ddylent am hynny roi groesaw gwell iddynt.
6. Na chymmer Duw yn ysgafu y cam a wnelir â'i bobl:
Prynedigaeth a'u gwnaeth yn frenhinoedd; y rhai y mae yn
deym-fradwriaeth siarad yn eu herbyn: pa mor ddichlyn
gan hynny yr ymfyn ef am waed! 7. Y mae yn dangos
bod Etholedigaeth yn *ddiammeu*, gan fod anfeidrol werth
wedi ei anghyfnewidiol arfaethu a'i dalu i sicrhau eu hawl.
8. Y mae hefyd yn amlygu bod Etholedigaeth yn *ddiam-*
modol, gan nad yw bosibl i'r creaduriaid haeddu, na bod yn
deilwng o'r cyfryw bridwerth. 9. Y mae hefyd yn dangos
mor dra phwysfawr yw'r gogoniant hwnnw, yr hwn a bryn-
wyd â'r fath anfeidrol werth. Yn ddiweddas, Y mae hyn
hefyd yn mawr sicrhau parhad y saint: o herwydd, (1.) Nid
ddynt hwy yn awr tan eu llywodraeth eu hunain; Pryned-
igaeth a'u gwnaeth yn eiddo arall, yr hwn sydd yn eu caru
n well nag y gâd hwynt mewn perygl o ail gwymp, o'r hwn
nid oes dychweliad. (2.) Gan fod wedi eu prynu er gwerth,
r gwerth hwnnw wedi ei dderbyn, y mae cyfiawnder Duw
n rhwym i'w hachub; ac am hynny rhaid yw iddo ragflaenu
goruwch-reoli beth bynnag a allo rwystro eu hiechydwr-
aeth. O ran yr holl bethau hyn, a'r cyffelyb, ni a ddylem
n fynych son am, a myfyrio ar ein Prynedigaeth; yr
ddewid gyntaf ar ol y cwymp, â'r hwn y darfu i Dduw
ereiddio anadl ei holl sanctaidd brophwydi, y rhai a fuant

er dechreuad y byd. Yr oedd ein Harglwydd a'n Hiachawdwr ei hun yn mynych son am dano; wrth yr hyn y mae yn eglur ei fod yn meddwl llawer am dano; ac y dylem ninnau wneuthur felly. Testun yw, hyfryd gan y saint a ogoneddwyd; fel y mae yn eglur yn Moses ac Elias ar y mynydd sanctaidd; a Ioan, yr hwn a gipiwyd i fynu i'r nefoedd ar ddydd yr Arglwydd, a'u ca'dd hwynt ar y gwasanaeth hwn ger bron gorseddfa Duw; lle ni allaf lai na nodi tri pheth: 1. Bod y saint yn y nefoedd yn mawrhygu gwaith Creadigaeth a Phrynedigaeth yn yr un dydd, a hwnnw yn ddydd yr Arglwydd; yr hyn sydd reswm da am gadw y dydd hwnnw yn sabath. 2. Eu bod yn rhoddi yr un gogoniant a'r un anrhydedd i'r Oen a laddwyd, ac i'r hwn sydd yn eistedd ar yr orsedd; profiad eglur o Dduwdod Crist. Ac, 3. Mai nid am Brynedigaeth *gyffredinol*, ond un *neillduol*, y maent hwy yn gorfoleddu; yr hyn sy'n mawr gadarnhau y gwirionedd presennol. Ac y'mhellach, y mae ein Harglwydd a'n Hiachawdwr yn dwyn yn wastadol o'i amgylch nodau ei groeshoeliad; y mae yn ymddangos "megis Oen wedi ei ladd," ac yn gorfoleddu yn hynny; "Myfi yw yr hwn a fu farw;" ac â'r nodau hynny yr ymddengys, pan ddelo i farnu'r byd; ac hyd hynny, y mae dydd yr Arglwydd yn goffadwriaeth o hono ef. Beth byunag a ddigwyddo i ni, a ddylai ddwyn ar gof y weithred ogoneddus hon; os *drwg* a fydd, Prynedigaeth a'n gwaredodd oddiwrth ei ddrwg; os *da*, Prynedigaeth a'i prynodd i ni ganddo; p'un ai drwg ai da, Prynedigaeth a'i sancteiddiodd i ni. Eithr pan meddylioch am nef y nefoedd, coelbren eich eiddiaeth, gydâ'r holl luniaeth nefol y sydd barod i chwi yn mhob gyrfa, "hyd oni ymddangosoch ger bron Duw yn Seion;" yn enwedig, pan byddoch yn rhyfeddu, (canys ni allwch ei amgyffred) pan fyddoch, meddaf, yn rhyfeddu y rhagorol ogoniant, yr hwn a dardda oddiwrth yr annhraethadwy undeb hwnnw yr hwn a berffeithier rhwng y Tad, a Christ, a'r saint, dywedwch gydâ'r Salmydd nefol, "Beth a dalaf i'r Arglwydd am ei holl ddoniau i mi?" Attebwch eich hunan gydag ef; "Mi a gymmeraf phiol iechydwrriaeth, (gogoneddus Brynedigaeth, yr hyn y mae phiol yn arwyddocau) ac ar enw'r Arglwydd y galwaf." Holl briodoliaethau Duw sydd yn cyd-gyffwrdd yn Mbrynedigaeth (megis goleuni a gwres yn yr haul) ac oddi yno yn llewyrchu yn iachusol ar y rhai a brynwyd: a hon yw'r ffordd fyrraf i ganfod gogoniant Duw, ac i ganmol ein gwerthfawr ddedwyddwch. Rhyw beth cyffelyb i hyn (ond llawer gwell) yw firwyth y

winwydden, yr hwn y bydd i Grist a'i ddysgybllion ei yfed yn newydd yn nheyrnas ei Dad; pan bo i'r hwn a hauodd, a nyni y rhai sydd yn medi, lawenhau ynghyd. Am hynny, "Iddo ef yr hwn a'n carodd ni, ac a'n golchodd ni oddiwrth ein pechodau yn ei waed ei hun, y byddo'r gogoniant a'r gallu yn oes oesoedd. Amen."

III.

Ni ellir diddymu amcan marwolaeth Crist; neu, Y bydd i'r rhai y bu Crist farw drostynt yn ddiâu fwynhau ffrwyth ei farwolaeth.

Y mae holl gynghorion Duw er tragywyddoldeb; ei holl addewidion, y rhai sydd yn dal allan ei gynghorion, a'i holl oruchwyliaethau i'w dwyn i ben, yn golygu mewn modd enwedigol yr Arglwydd Iesu, fel yn marw dros ei bobl, a'u hiechydwrriaeth hwynt fel y dyben o hynny. Y dyben yw yr hyn, er mwyn yr hwn y mae peth yn bod; ac oni buasai yr hwn, ni buasai yn bod: hwnnw y mae y prif weithredydd yn bennaf yn ei fwriadu ac yn amcanu atto; ac os doeth y fydd, efe a arfer y cyfryw foddion, ac a'i trefna yn y fath fodd, ag na allo lai ná dwyn ei fwriad i ben. Fe all dynion yn ddiâu ddyfod yn fyr o'r hyn y maent yn fwriadu; hwy a allant fwriadu un peth, a dwyn y llall i ben; megis wrth adeiladu tŵr Babel: yr hyn sydd yn wastad o ran rhyw anmherffeithrwydd ynddynt eu hunain; naill ag y mae'r peth yn *anmhosibl*; neu'r ffordd wedi ei threfnu yn annoeth; neu'r moddion wedi eu cam-arfer; neu'r meddwl yn cyfnewid; neu yn gorfod rhoddi i fynu o ran rhyw bwer goruwch iddynt, &c. Ond nid felly y mae gyda'r unig ddoeth a'r hollalluog Dduw; ni all dim o'r pethau ag y sydd yn rhwystro amcanion dynion ddigwydd iddo ef; ni all ddigwydd, ond yr hyn a drefnodd; ni ddiddymir y lleiaf o'i fwriadau; llai o lawer y diddymir ei fawr fwriad i achub dynion trwy farwolaeth ei Fab. Fe drefnwyd mor ddoeth, ag y mae pawb perthynol wedi eu boddioni a'u diogelu: y mae Duw yn gyfiawn yn cyfiawnhau; y pechadur yn cael ei achub; a'i bechod ei gopsi; a Christ ei foddioni mewn had i'w wasanaethu ef. Yr ydys yn ei wneuthur yn y fath ffordd ag y fydd sicr i ddwyn y dyben i ben; gallu Duw sydd wedi ymrwymo yn y peth; yr hwn nid yw yn y mesur lleiaf, yn gorphwys ar gydweithiad na chydsyniad un gweithredydd cyfnewidiol, neu offeryn twyllodrus. Ni all roddi heibio ei waith; ar hynny y bu ei feddyliau er tragywyddoldeb; a'i feddyliau a sefant yn sicr yn oes oesoedd. Ac yn

ddiweddaf, Nid oes gallu uwch, i ddiddymu ei arfaeth: efe yw yr holl-awdurdodol Arglwydd, sydd yn rheoli'r cwbl.

I sicrhau y pwngc, cymmerwch y rhesymau sy'n canlyn:
I. A gymmerir oddiwrth Brynedigaeth ei hun; lle y dylem ystyried, 1. Mawrder y gwerth; 2. Natur a dull y daledigaeth; ac, 3. Ystyriaeth y gair yn yr ysgrythur.

1. Am y *gwerth* a dalwyd: bywyd Mab Duw oedd; yr hwn yr oedd urddas ei Berson yn gwneuthur ei farwolaeth o haeddiant tra rhagorol; ac am hynny ni ellid ei roddi am bwrcas amheus ansicr; ac nid oedd un peth llai na iechyd-wriaeth yn deilwng o hono. Yn hyn y mae grym rheswm yr apostol; yr hwn, i ddangos ddedwydd gyflwr etholedigion Duw, ac i brofi eu bod allan o berygl, sydd yn son am werth eu Prynedigaeth; "Pwy yw yr hwn sydd yn damnio? Crist yw yr hwn a fu farw." *Ardderchawgrwydd* y Person, a'r dyoddefiadau yr aeth danynt, sydd yn mawr amlygu ei gariad tuag at ddynion; ac yn nerthol gadarnhau ac yn sicrhau ffirwyth ei farwolaeth: "Canys, os heddychwyd ni a Duw trwy farwolaeth ei Fab ef, mwy o lawer i'n achub trwy ei fywyd ef."

2. Natur a dull y daledigaeth, oedd trwy ddyoddef. Pe buasai y gwerth y fath beth ag allasid ei osod i lawr, a'i gymmeryd i fynu drachefn, (sef, ei osod i lawr i sicrhau boddlonrwydd, os y cyttundeb a'ai ymlaen, a'i gymmeryd drachefn, oni thyciai) ni buasai fawr o bwys yn y peth; ni chawsai yr hwn a'i gosodasai nemawr o golled; fe a allasai dderbyn ei eiddo drachefn, er nad gyda llôg: ond y dyoddefiadau a ddyoddefir un waith, ni ellir eu galw yn ol; y maent fel y dwfr a dywalltir ar y ddaear; ni ellir eu casglu drachefn, ond yn eu ffirwythau; sef, yn y cyflawniad o'r hyn oeddid yn amcanu trwyddynt; yr hyn sydd yn dangos, trwy ei ddwys ystyried, na all Prynedigaeth fod yn ammodol; na'r effeithiau a ddisgwyliet oddi wrthi, sefyll ar bethau damweiniol. Heblaw hynny, ni ellir 'chwanegu at yr hyn sydd anfeidrol; ac ni all yr hwn sydd yn gyflawn yn perchennogi pob gwerthfawrogrwydd ynddo ei hun, gael dim ag sydd werthfawr allan o hono ei hun ddisgwyl wrtho.

3. Oddiwrth arfer ac ystyr y gair yn yr ysgrythur: yr hyn sydd yn dangos, bod Prynedigaeth wedi gwneuthur bywyd tragwyddol yn ddyledus i ni; a bod pob ammod ag ellir feddwl am dano, a phob math o rasmusau, moddion, a chynnorthwyau, ag y sydd rheidiol rhwng cyflwr natur a gogoniant, ie gogoniant ei hun, yn y gorchwyl o Brynedigaeth, wedi eu pwrcasu trwyddi, a'u cynnwys ynddi; megis y cyn-

hwysir y gangen ar yr hon y mae yn rhaid i'r blodeuyn dyfu, yn rhinweddol yn yr un hedyn a'r blodeuyn ei hun. Nid yw Prynedigaeth yn gadael pobl yn unig ar nawdd eu llyfr-
au, ac yn eu hachub os gallant ddarllen; eithr y mae yn eu cymmorth i ddarllen yn gystal o ran ewyllys ag o ran gwybodaeth. Y mae ffydd i iechydwrïaeth, fel rhoddi'r brîgyn, y dywarchen, a'r garreg, i feddiant; nid ydynt na rhan o'r gwerth, nac ammod o'r hawl; ond cyfreithlon arddangosiad o'ch dyfodiad i'r gweithredol fwynhad; i.e., y mae'r arian a dal soch yn rhoddi i chwi hawl i'r pethau hynny yn gystal ag i'r etifeddiaeth. Fel na allwn geisio dim gan Dduw yn gyfreithlon, nac yn llwyddiannus, ond ar gyfrif Prynedigaeth; felly y gellwch, ar y cyfrif hwnnw, geisio beth bynnag sydd yn tueddu i'r dyben hwnnw; chwi ellwch geisio ffydd er iechydwrïaeth, yn gystal ag iechydwrïaeth yn niwedd eich ffydd.

Ac yn awr, fe a fydd i mi, trwy ystyried rhai pethau neillduol, amlygu, nad yw Prynedigaeth yn unig yn dwyn dynion i gyflwr yn yr hwn y gallont fod yn gadwedig; eithr hefyd trwy ei phriodol rinwedd yn dwyn ei dyben i berffeithrwydd: bod cyflawn weithredol iechydwrïaeth i'r rhai a brynwyd, wedi ei rwymo i fynu ynddi; a'r hyn oll a allei ei rhwystro, wedi ei symmud ymaith. (1.) Y mae Prynedigaeth yn dal allan foddlonrwydd. Oni buasai hyn, ni buasai y byd wedi ei gymmodi; ac ni allasid ddywedyd, "Ewyllys yr Arglwydd a lwydda yn ei law ef," Esa. liii, 10. Fe a fynnai yr Arglwydd ei ddryllio ef: yr hyn yn yr iaith dadogol sydd yn arwyddocau, nid yn unig mai pleser neu ewyllys Duw oedd ei fod felly; ond ei fod wedi ei foddloni trwy yr hyn a wnaethpwyd; sef, ei fod wedi ei gymmodi trwy yr hyn a wnaethpwyd; sef, ei fod wedi ei gymmodi drachefn â ni, dros y rhai yr oedd ef yn dyoddef; gan fod ei gyfiawnder wedi ei foddloni trwy hynny. A'r rheswm hwn a'chwanegir yn Esa. xlii, 21. "Yr Arglwydd sydd foddlon, er mwyn ei gyfiawnder, efe a fawrha y gyfraith, ac a'i gwna yn anrhydeddus:" sef, trwy fynnu boddlonrwydd oddiwrth Grist. Yr hyn sydd hefyd yn cyttuno â, ac yn eglurhau yr hyn a ddywedir yn Rhuf. iii, 31. "Wrth hynny a ydym ni yn gwneuthur y ddeddf yn ddirym trwy ffydd? Na atto Duw: eithr yr ydym yn cadarnhau y ddeddf." Fe'i sicrhair y'mhellach oddiwrth 2 Cor. v, 19. "Bod Duw yn Nghrist, yn cymmodi y byd âg ef ei hun:" rhaid dyall hyn o'r ddau ochr; pe amgen, ni buasai'r darbod wedi ei wneuthur i fynu: ond diau, na buasai Duw yn y fath draul, i adael ei

waith yn ei hanner: canys beth yw cymmodi, ond adnewyddu cyfeillach o'r ddau tu? Ac yn yr ystyr hwn y mae Crist yn cymmeryd y gair, sydd eglur oddiwrth Mat. v, 23, 24. "Os oes gan dy frawd ddim yn dy erbyn, dos ymaith, cymmoder di a'th frawd." Rhaid ei fod gan hynny yn cynnwys cymmodiad Duw â ni, yn gystal a'n cymmodiad ni âg ef, yr hyn ni allai fod heb foddlonrwydd; ni adawai ei gyfiawnder i hynny fod; ni chyfrif ef yr anwir yn gyfiawn. Ac i wneuthur y peth yn ddiddadl, y mae yr Un Mawr, i'r hwn yr oedd y dyled, yn cyhoeddi ei hunan wedi ei foddloni, trwy anfon o'r nefoedd i ryddhau ein Meichiau, Mat. xxviii, 2. yr hyn oedd gymmaint a phe dywedasai, nad oedd ganddo ddim mwy i ofyn i ni. (2.) Y mae Brynedigaeth hefyd yn dal cyfiawnhad, Eph. i, 7. "Yn yr hwn y mae i ni Brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau." Rhuf. iii, 24. "Wedi eu cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras ef, trwy'r Brynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu." Rhuf. v, 9. Gal. iii, 13. "Crist a'n llwyr brynodd oddiwrth felldith y ddeddf, gan ei wneuthur yn felldith drosom: efe a ddileuodd yr ysgrifên-law, yr hon oedd i'n herbyn ni, gan ei hoelio wrth y groes," Col. ii, 14. (3.) Y mae yn dal allan, gorchfygu, neu rwymo y gwr cadarn; yr hwn, oni buasai hynny, ni ollyngasai ei ysglyfaeth, ac ni chollasai ei feddiant; "Trwy farwolaeth y dinystriodd efe yr hwn oedd â nerth marwolaeth ganddo, hynny yw diafol," Heb. ii, 14. Trwy waed ei groes "yr yspeiliodd efe y tywysogaethau a'r awdurdodau, gan ymorfoleddu arnynt," Col. ii, 15. (4.) Y mae yn dal allan ryddid oddiwrth bwr pechod, Rhuf. vi, 6. "Ein hen ddyn a groeshoeliwyd gydâ Christ, er mwyn dirymu corph pechod, fel rhag-llaw na wasanaethem bechod." Lle mae yn caulyn, "Yr hwn a fu farw, (sef gydâ Christ) sydd wedi ei ryddhau oddiwrth bechod," adn. 7. "Ac nid arglwyddiaetha pechod arnoch," adn. 14. (5.) Y mae yn dal allan sancteiddrwydd oddi mewn, neu sancteiddiad, Col. i, 21, 22. "A chwithau y rhai oeddech elynion mewn meddwl, yr awr hon a gymmododd efe, yn nghorph ei gnawd ef trwy farwolaeth, i'ch cyflwyno chwi yn sanctaidd." Heb. x, 10. "Yr ydym ni wedi ein sancteiddio trwy offrymiad corph Iesu Grist." Rhuf. vi, 18. "Wedi eich rhyddhau oddiwrth bechod, fe a'ch gwnaethpwyd yn weision i gyfiawnder:" ac mai trwy rinwedd marwolaeth Crist yr oedd, sydd eglur oddiwrth adn. 8. "Os buom feirw gydâ Christ, byw a fyddwn hefyd gydâg ef: ei waed ef sydd yn puro'r gydwybod oddiwrth weithredoedd meirwon i wasan-

aethu y Duw byw," Heb. ix, 14. (6.) Y mae hefyd yn dal allan adgyfodiad, Ioan vi, 54, 55. "Myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf: canys fy nghnawd i sydd fwyd yn wir." Crist with farw a fu yn angeu i angeu. Hos. xiii, 14. "Yn Nghrist y bywheir pawb," 1 Cor. xv, 22. (7.) Y mae y'mhellach yn cyrraedd at waith y rhai a brynwyd yn weithredol, yn meddiannu gwynfydedigrwydd a gogoniant, Rhuf. viii, 30. "Y rhai a gyfiawnhaodd efe, y rhai hynny hefyd a ogoneddodd efe." Rhyddid i fyned i mewn i'r cyssegr sydd trwy waed Iesu, Heb. x, 19. "Ti a'n prynaist ni i Dduw trwy dy waed," Dat. v, 9, 10. Llais y rhai sydd yn y nef-oedd yw. Ac yn awr, eglur yw bod yr holl bethau hyn yn Mhrynedigaeth; ac mor eglur yw, nad yw, ac na all Pryn-edigaeth, gan ei bod yn cynnwys y fath bethau, fod yn ddarostyngedig i ddiddymiad; canys y mae yn ein dwyn i'r nef, ac yno'n ddiau yn bod allan o gyrraedd perygl. O'r achos hyn nid oedd Paul yn gofalu, ac nid rhaid iddo ofalu, "am wybod dim (mewn cyffelybiaeth) ond Iesu Grist, a hwnnw wedi ei groes-hoelio," 1 Cor. ii, 2. Diau fod gan adgyfodiad Crist, ei dderchafiad, ei eisteddiad ar ddeheu-law'r Tad, a'i eiriolaeth, eu gwaith neillduol yn holl ogoneddus ragorfreintiau a rhanau bywyd tragywyddol; eithr y maent oll yn tarddu oddiwrth ei groeshoeliad ef.

II. Ni ellir diddymu dyben Pryn-edigaeth; o herwydd bod cyfiawnder Crist (o'r hyn lleiaf) mor rhinweddol ac mor effeithiol i'w had ef, ag yr oedd camwedd Adda i'r eiddo yntef. Ei holl hiliogaeth, yn ddiau, aethant dan y felldith; ond etto yn y fath fodd, ag yr oedd, trwy gyfryngdod gras, bosiblwydd o ollyngdod wedi ei adael; eithr y mae cyfiawnder Crist felly wedi perffaith adferu a sefydlu ei had, fel na allont byth gollu eu cyfiawnder: a'r rheswm yw, o herwydd i ras orchfygu a myned tu hwnt i bechod; "Gras a ragor-amlhaodd," Rhuf. v, 20. Ni ellir meddwl bod gras yn rhagor-amlhau mewn perthynas i'r rhai sydd dano, megis pe baent yn fwy o nifer nâ'r rhai sydd dan bechod; (canys pechod a ddaeth ar bawb, ac ni all gras ddyfod ar fwy nâ phawb) ond yr ydys yn ei feddwl am dra nerthol effaith gras, a'r parhad o'i effeithiau tuag at bawb ag y sydd dano: o herwydd hyn yr ydys yn dywedyd bod "gras yn teyrnasu trwy gyfiawnder, i fywyd tragywyddol," Rhuf. v, 21.

III. Y mae mor bossibl i brif ddyben Duw yn gwneuthur y byd fethu, ac i ddyben marwolaeth Crist gael ei ddiddymu. Pob peth a wnaethpwyd er ei fwyn ei hun, ac ar hyd yr ysgol hon y maent yn esgyn attó; y byd i'r etholedigion, a'r

etholedigion i Grist, a Christ i Dduw. Ei holl weithredoedd a'i canmolant ef, ond yn enwedig Prynedigaeth, fel yr uwchaf a'r ardderchoccaf. Y mae gogoniant Duw yn dysgleirio yn amlyccaf yn ngwyneb Iesu Grist, megis yn *marw*; ie yn marw i'r cyfryw ddyben; sef, er iechydwriaeth ei bobl: hon yw'r pennaf o ffyrdd Duw, ac uwchder ei ogoniant, (nid ei ogoniant *hanfodol*, ond ei ogoniant a amlygir) yn y byd hwn ac yn yr hwn a ddaw. Trwy brynedigaeth yr oeddid yn amcanu gogoneddu holl briodoliaethau Duw; rhaid oedd gan hynny ei drefnu yn y fath fodd, fel yn anod un o holl amcanion Duw y byddai hon yn sicri dyccio: canys, os cymmerwch ymaith sicriwydd ei effaith, a gadael y rhai a brynwyd mewn cyflwr ag y gallont fod yn golledig; y mae yn peri anharddwch ac nid ardderowgrwydd i holl briodoliaethau Duw. Oblegid, (1.) dyben Duw yn "gosod Iesu Grist yn iawn, oedd i ddangos ei gyfiawnder yn maddeuant pechodau;" yr hyn y mae yn ei wneuthur ddwy ffordd. Na allid yn gyfiawn ei gyfrif, yn ol cael hoddlonrwydd. Eithr pe bae y rhei'ny, tros y rhai y rhoddwyd hoddlonrwydd, yn cael eu gadael heb eu cyfiawnhau a'u hachub, fe a fyddai i gyfiawnder Duw gymmairt i'w feio; a phe buasai ef yn eu hachub heb foddlonrwyd; ac felly yr hyn oeddid yn ei amcanu er anrhydedd i'w gyfiawnder, a droi yn ddianrhydedd iddo. (2.) Nid yw gyttunol a chariad, a daioni Duw at ei etholedigion; yr hyn oeddid yn ei fwriadu er adferiad iddynt, ac oedd yn bridwerth er mwyn yr hwn yr haeddent gael eu rhyddhau, fod yn bossibl i droi er mwy o ddamnedigaeth iddynt; (canys felly y mae yn rhaid iddo fod oni byddant yn gwbl gadwedig.) Ni all hyn fod yn ewyllys yr Arglwydd yr hon oedd i lwyddo yn llaw Crist. (3.) Ni byddai yn ol ffyddlondeb a gwirionedd Duw, i Grist ddyfod yn fyr o'r hyn a addawyd iddo, a'r hyn y mae yn ddirfawr yn ei ddisgwyl, megis ffrwyth ei ddyoddefiadau; sef cael had i'w wasanaethu: yn y meddyliau o'r hyn yr oedd yn ymbyfrydu er tragywyddoldeb. Eithr pe buasai i'r rhai y bu ef farw drostynt, nid yn unig aros tan yr un ddamnedigaeth ag y daeth ef i'w gwared oddiwrthi; ond hefyd tan ddigofaint llawer mwy echryslon, na phe buasai ef erioed heb ateb drostynt; pa mor flinderus y byddai hyn iddo ef, a pha mor wrthwynebol i ffyddlondeb Duw. (4.) Dyben arall Prynedigaeth oedd, amlygu amryw ddoethineb Duw yn ngwydd dynion ac angylion. "Doethineb Duw yw Crist wedi ei groeshoelio." Eithr pe bae felly, fel y gallasai yr hyn yr ydys fwyaf yn ei amcanu beidio a dyfod i ben; ni fyddai clod i ddoethineb. Pwy ddyn synhwyrol a ymad a'i

dlysau a'i drysor gwerthfawroccaf am yr hyn, a wyr ei fod yn amheus? Diau y gall dynion dreulio eu meddiannau ar ddychymmygion a phrofiadau na ddaw byth i ben; ond pe gallent ragweled beth a fyddai'r diwedd, ni wnaent eu hunain yn watwor-gerdd. (5.) Anghlod i ddoethineb a nerth Duw, fyddai, bod gallu un rhyw greadur, yn abl diddymmu ei dra doeth a'i sanctaidd fwriadau, a rhwystro dwyn ei orchwyl pennaf i ben. Beth a ddywedai yr Aiphthiaid, ond iddo eu dinystrio hwynt eisiau ei fod yn gallu cwplau yr hyn a gymmerasai arno. (6.) Pe buasai bossibl i ddyben marwolaeth Crist gael ei ddiddymmu; fe fyddai bossibl i'r amcan bendigedig o ogoneddu gras Duw, gael ei rwystro a dyfod i ddim; canys, nid oes ac ni all neb ond rhai a achubwyd ogoneddu y gras hwnnw.

IV. Rhesu am arall am sier effaith marwolaeth Crist, yw, bod wedi ymddiried iddo am yr holl waith, yn gystal am gymhwyso a phwrcassu iechydwrriaeth. Efe yw'r gwreiddyn a'r tryssor, lle cadwir holl firwythau Prynedigaeth; a'r gorchwylwr mawr trwy ddwylo yr hwn y cyfrannir hwynt. Nid oedd Adda mwy yn berson cyffredin yn ol ei gwmp; ni ymddiriedwyd iddo ef am y trysor newydd, ond i Grist, yr hwn a rydd gyfrif gwell o hono.

V. Nid oes dim yn eisiau ar ein Harglwydd a'n lachawdwr ag a alio fod yn llesiol i gyflawn berffeithio ei waith. Y mae pam peth yn dra anghenrheidiol i wneuthur gorehwyl mawr yn llwyddiannus; awdurdod, nerth, deall, calonid, a ffyddlondeb: yn y rhai'n oll y mae tywysog ein iechydwrriaeth yn hynod; "y mae y Tad yn caru y Mab, ac efe a roddodd bob peth yn ei law ef." Ioan 3, 35.

1. Awdurdod; efe a appwyntiwyd i'w swydd; (oblegid fel cyfryngwr y mae'r Tad yn fwy nâg efe:) "nid o hono ei hun y daeth, ond y Tad a'i hanfonodd ef; efe a alwyd gan Dduw; hyn a osodwyd arno, ac efe a aeth dano, mewn ffordd o gyfammod, wedi ei sicrhau trwy lw, na elwir byth yn ol; yr hyn hefyd mewn rhan a all bod meddwl y lle hwnnw, lle dywedir i'r Tad ei selio ef. Y llywodraeth a osodwyd ar ei ysgwydd ef: iddo ef y rhoddwyd agoriad Dafydd; yr hyn sy'n dangos mor hollol yw ei awdurdod: hebdo ef ni all neb godi na llaw na throed yn yr holl ddaear.

2. Nerth neu bwer; ni all fod yn ddyffygiol ynddo ef, os ydyw yr hyn oll ag y sydd yn y nefoedd a'r ddaear yn ddigonol i'r peth; o herwydd, y mae hyn ganddo, ac y mae ganddo y dyben hwn, fel y rhoddai fywyd tragwyddol i gynnifer ag yr atebodd drostynt; yr hyn pe nis caent,

ddywedyd, nad yw yr holl bwer yn abl eu hachub. Diau fod yr hwn a wnaeth y byd yn abl i'w lywodraethu, ac i oruwch-reoli beth bynnag ag a ddelo iddo. Ni adawsai byth i bechod (yr unig elyn) ddyfod i mewn, oni buasai ei fod yn abl ei ddarostwng pan mynnai; "eu Gwardwr sydd gryf, Arglwydd y lluoedd yw ei enw, efe a lwyr ddadleu eu dadl hwynt: rhaid iddo deyrnasu hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed, a ninnau."

3. Deall neu wybodaeth; ni all bod hyn yn eisiau arno, gan mae ef yw doethineb y Tad; "fe a roddes yr Arglwydd iddo dafod y dysgedig, i fedru mewn pryd lefaru gair wrth y diffygiol;" efe a wyr ei waith; beth yw, pa fodd i'w wneuthur, ac i bwy y mae yn perthyn. 1. Efe a wyr beth yw ei waith; sef, ymofyn am, a chadw yr hyn a gollasid: Nid i ddwyn pobl, (fel y dywed rhai) i gyflwr yn yr hwn y gallont fod yn gadwedig; eithr i'w gwaredu, a hynny oddiwrth eu pechodau. Efe a ddaeth i agor llygaid y deillion, a chlustiau y budduriaid; i adferu yr aelodau gwiwedig; i lanhau y gwahanglwyfus; i iachau y cleifion; i godi y meirw; i fwrw allan gythreuliaid; i bregethu yr efengyl, ac i beri i'r neb yr oedd yn perthyn iddynt, eu gwrando a'u derbyn: efe a'wyr eu bod yn feirw, ac y mae efe sydd raid eu bywhau; ac am hynny y dywedir, Ioan 5, 25. "A'r meirw glywant ac a fyddant byw:" a 10, 16. o'r un llyfr; "Defaid eraill y sydd gennyf, y rhai hefyd sy raid i mi eu cyrchu, a'm llais a wrandawant." Mae ef hefyd i'w cadw ac i edrych attynt fel na choller un o honynt; ac hefyd i'w hadgyfodi yn y dydd diweddaf, ac i'w cymmeryd gydâg ef i'r nefoedd; yr hyn oll y mae efe yn berffaith yn ei wybod; "mae ei waith o'i flaen." 2. Fel y mae yn gwybod beth i'w waith, felly hefyd y gwyr y pryd a'r modd goreu i'w wneuthur. Efe a ddaeth yn nghyflawnder amser, pan yr oedd pethau wedi aeddfedu i'w ddyfodiad: efe a ddaeth pan yr oedd mwyaf rhaid wrtho; teyrnas satan gryfaf; a'i oraclau mewn mwyf cymmeriad; y byd wedi ei orchfygu gan bwer Rhufeiniaid; a gwir grefydd y'mron yn gwbl wedi ei llygru yn mysg yr Iuddewon. Arwydd o barodrwydd deall, yw cymmeryd gelyn yn ei gryfder a mawrder ei nerth, a'i osod ar ei gefn; cymmorth cyfaill gwan pan bydd tan draed, a'i osod ar ei uchel leoedd: yr hyn yn yr ysgrythyr a elwir "nerthu yr anrheithiedig yn erbyn y cryf:" a hyn y mae ein Harglwydd Iesu Grist yn ei wneuthur, ac o'r achos hynny mewn rhan y dywedir, bod "ei ddeall yn fywiog:" yn mhob peth y mae yn gwneuthur yn gall; ac i hyn y mae Hanna yn cyfrif llwyddiant; "Daw

gwybodaeth yw yr Arglwydd, a'i amcanion ef a gyflawnir." 3. Efe a wyr dros bwy y mae yn gwneuthur. Ni chyfrannir ffrwythau ei farwolaeth ef fel pethau cyffredin; nid ydynt yu dyfod i bob math o ddynion, fel y mae'r gwlaw yn syrthio ar bob math o dir: y mae yn adnabod pwy y ddaeth i'w prynu; nid eu rhif yn unig, ond eu personau hefyd; yr "oeddent oll yn ysgrifenedig yn ei lyfr:" ac y mae ef mor hyddysg yn hwnnw, a'i fod "yn eu galw oll erbyn eu henw:" nid yw yn gadael yr un, nac yn galw'r naill yn lle'r llall: efe a wŷr pwy a "ddewisodd" y Tad, a phwy a "roddodd ef" iddo ef: ni all ua'u gollwng yn angof, na'u camsynied: y maent yn "argraphedig ar ei ddwyfron, ac ar gleidr ei ddwylaw."

4. Y mae gorchwyl mawr yn gofyn *calondid*, neu *fawredd ysbryd*, i wrthsefyll gwrthwynebrwydd, ac i dorri trwy anhawsdra: ac os hyn ni bydd, ni byddir nês i lwyddo er neb rhyw gynheddfau eraill. Ac mor rhyfeddol yr oedd ein Harglwydd a'n Prynwr yn hyn! pan yr oedd yn myned dan ei ddyoddefiadau, (yn erbyn y rhai y darfuasai iddo weddio, "Os oedd bosibl i'r cwppan hwnnw fyned heibio iddo") yno yr oedd iddo fawr achos wrth *gefnogrwydd*; ac yr ydym yn ffeindio ei bod ganddo yn gyfattedbol. Yn y 50 o Esaia, y mae'r prophwyd yn ei arddangos ef megis wedi ei arfogi; "Am hynny gosodais fy wyneb fel callestr, a gwn na'm cywilyddier." Yn mawredd ei nerth y mae yn myned trwy holl wrthddywediadau pechaduriaid, profedigaethau, gwaradwyddiadau, cabledau, &c. A phan ddaeth ei awr ni thynnodd yn ol, ac nid ymguddiodd rhagddynt; ie ni arosodd nes eu dyfod lle yr oedd, ond efe a aeth i'w cyfarfod. Ac er y gallasai gael mwy na deuddeg lleng o angylion er eu gofyn, y mae yn eu gadael hwynt; ac yn ei berson ei hun yn unig yn myned yn erbyn y byd hwn, a galluoedd y tywyllwch; ie a lldiawgrwydd ei Dad hefyd, yr hwn oedd fwy gofidus ac yn llawer mwy dychrynadwy na'r lleill oll; ac yn hyn oll yr oedd ef ei hun, ac nid oedd neb gydâg ef. A bod "angel o'r nef yn ymddangos iddo i'w nerthu ef," oedd yn hytrach yn *arwydd* ac yn *rhan* o'i *fawr ddarostyngiad*, (bod y Duw galluog yn ymddangos megis pe buasai iddo yn rhaid wrth, ac yn derbyn y gwasanaeth yr oedd ei greadur yn ei gynnyg iddo) nâg yn lleihau ei ddyoddefiadau. Hyn oll a wnaethpwyd i gyrraedd Prynedaeth; gan hynny a all ef fod yn ddiffygiol i'w effeithiol gymhwyso? Ni all yr hwn a ennillodd y frwydr, ac a gwbl gadwodd y maes, ofni y milwyr gwasgaredig: ac am hyn hefyd y mae gennym air

sicrach y prophwyd, "Ni phalla efe, ac ni ddigalonna, hyd oni osodo farn ar y ddaer."

5. *Ffyddlondeb*: hyn hefyd sydd dra angenrheidiol i orchwyl mawr; ac am hyn y mae ein Prynwr yn dra hynod. I wneuthur ewyllys ei Dad y daeth ef o'r nefoedd: a hyn oedd ei ewyllys ef, "O'r cwbl a roddes ef iddo, na chollai ddim o hono, eithr bod iddo ei adgyfodi ef yn y dydd diweddaf;" hynny yw, "rhoddi iddynt fywyd tragywyddol;" ac y mae yn dywedyd iddo wneuthur, ac y gwna ef hynny, yn ol ei addewid, yr hwn mor fynych a ail-adroddir yn y 39, 40, 44, a'r 51 adnodau o'r 6 o Ioan. Ac y mae yn eu cadw yn ol ei ffyddlondeb, yr hyn a gymmerodd arno; sef, "fel y cyflawnid yr ysgrythyr." Judas a adawyd i syrthio trwy ei droseddiad ei hun; yr hwn (yn ddiammeu) a allasai ac a fuasai ef yn ei gadw, fel y lleill, pe buasai, fel hwythau, wedi ei roddi iddo: canys y mae yn rhoddi i bawb fel y derbyniodd iddynt, fel y mae yn amlwg wrth gymmaru Salm lxviii, 18. a Eph. iv, 8. Yn y naill le y dywedir iddo "dderbyn," yn y llall, "roddi rhoddion i ddynion;" am hynny ni all y rhai y derbyniodd ef fywyd tragywyddol iddynt ddyfod yn fyr o hono, oni bydd iddo ef fod yn anffyddlon yn y peth yr ymddiriedwyd iddo; yr hyn yn ddiaw ni all ei wneuthur: o herwydd "y mae yn ffyddlon yn ei holl dŷ ef;" a hynny megis Mab; a cyd-hawl sydd rwymedigaeth naturiol a nerthol i ffyddlondeb. Pe amcanai neb ei ddifeddiannu, efe a atebai fel Naboth i Ahab, "Na atto Duw, i mi ymadael âg etifeddiaeth fy nhad." A'i ffyddlondeb a amlygir y'mhellach, o ran mai ei orchwyl mawr ef yn awr yn y nefoedd, yw perffeithio'r gwaith hwn; "Y mae ef yn byw bob amser i eiriol drostynt hwy." Yr ydys yn edrych yn fawr ar hyn yn Rhuf. viii, 34. "Pwy yw yr hwn sydd yn damnio? Crist yw yr hwn a fu farw, i'e yn hytrach yr hwn a gyfodwyd, yr hwn hefyd sydd yn erfyn drosom ni:" a swm ei weddi yw, i'r rhai a roddwyd iddo gael eu cadw oddiwrth ddrwg; ar iddynt fod yn un yn y Tad, ac ynddyntef; ac ar iddynt gael bod lle mae ef, i weled ei ogoniant. Yn awr gan hynny, os dyben ei farwolaeth oedd iechydwr-iaeth y rhai y bu ef farw drostynt; ac os oedd y gwerthi y dalodd yn deilwng o'r pwrcas; ac os ewyllys ei Dad yw eu bod yn gadwedig; os dros eu hiechydwr-iaeth hwynt y mae ef yn gweddio; ac os caiff ef ei wrando gan Dduw yn yr hyn oll a ofynno, Ioan xi, 22. mae yn rhaid bod yn ganlynol, "na ellir diddymu amcan ei farwolaeth ef."

Ond nid yw'r gwirionedd hwn heb ei wrthsefyll; nid o

rany bai ag sydd ynddo ei hun; ond eisiau ei fod yn rhoddi lle i beth arall, yr hwn sydd yn anghyfiawn yn ceisio yr oruchafiaeth. Nid ydys mewn cyflawn eiriau yn ei wadu; ni ddywed neb yn amlwg, y gellir diddymu amcan marwolaeth Crist; eithr y mae rhai yn cyfyngu ei amcan ef, ac yn ei amgylchu âg ammodau, fel y mae yn rhaid ei diddymu. Nid ydwyf yn dyall b'le y dechreuodd, neu i bwy bwrpas y mae hyn: ond yn bwrw mai angenrhaid a'i parodd (eisiau bod gwell) i ddal i fynu yr athrawiaeth o gyffredinol Brynedigaeth. Nid oeddwn ar y cyntaf yn meddwl am un gwrthddadl yma, ond gan i mi gael hon ar y ffordd, yr wyf yn ewyllysio ei gosod yn nghlorianau'r cyssegr, ac edrych beth yw ei phwys. Swm yr hyn a ddywedir yw—

Gwrthddadl. 'Mai amcan marwolaeth Crist oedd yn unig i ddwyn dynion i gyflwr yn yr hwn y gallent fod yn gadwedig; a rhoddi y fath foddion a chyfryngau ag a'u dygai i iechydwriaeth, os gwnaent ddefnydd o honynt: ac nad oes un achos paham nad yw neb yn gadwedig ond eu hanghrediniaeth.'

Atteb 1. Nid rhaid profi mai anghrediniaeth yw'r pechod sydd yn damnio: ond nid eisiau bod dynion yn credu yn Nghrist yw yr unig achos, neu yr achos cyntaf o'u damnedigaeth; ond eu gwrthgiliad oddiwrth, a'u gwrthryfelgarwch yn erbyn Duw: er bod gwrthod y feddyginiaeth yn mawr drymhau damnedigaeth y sawl nid y'nt yn credu; megis pe bai un a euog-farnid am deyrn-fradwriaeth, yn gwrthod maddeuant; ei wrthodiad, yn ddiâu, yw'r achos nesaf digyfrwng o'i farwolaeth, ag sydd, fe allai, yn ei wneuthur yn dostach; eithr ei deyrn-fradwriaeth oedd yr achos haeddianol o'i farwolaeth; ac am hynny y buasai raid iddo ddyoddef, pe buasid heb gynnyg y fath faddeuant iddo. Nid rhaid un achwyniad oddiwrth Crist, i gyfiawnhau damnedigaeth pechaduriaid; Moses, cyfraith yr hwn a droseddasant, a dystiolaetha yn erbyn yr Iuddewon; a chyfraith natur, yn erbyn y Cenhedloedd. Gwirionedd sylfaenol, a thra angenrheidiol i wybod yw, mai ffydd yw yr un peth rheidiol o'n tu ni, fel y byddom gadwedig: ac mor sicr yw nad yw'r ffydd hon yn 'chwanegu dim at haeddiant na rhinwedd croes Crist. Lle dywedir bod yn cyfiawnhau, neu yn achub, pobl trwy ffydd, yr y's yn meddwl y gwrthddrych, ac nid y weithred o ffydd, er nad heb honno. Canys fel y mae yn rhaid bwytta'r bara a'i gymmeryd i'n corph, cyn y gallo ein porthi, felly rhaid derbyn cyfiawnder Crist trwy ffydd, cyn y gallom ein cyfiawnhau trwyddo. Eithr megis nad y weithred •

fwytta yw'r matter neu sylwedd ein porthiant, ond y bara yr ydym yn ei fwytta; felly nid ein gweithred o gredu, ond cyfiawnder Crist wedi ei dderbyn trwy ffydd, yw'r defnydd o'n cyfiawnhad. Eithr,

2. Paham y mae'n rhaid i Brynedigaeth ddisgwyl wrth bwer arall i ddwyn i ben ei amcan? Paham y gadawid peth cymmaint yn uwylaw dyn, i ffynnu neu i ffael fel y rhyngobodd i ewyllys wrthnysig? Marwolaeth Crist yn hytrach a ddylasai fod yn ammodol, ac nid iechydwrriaeth y rhai y bu ef farw drostynt; ac felly mewn doethineb y dylasid ei oedi hyd ddiwedd y byd, i weled pa firwyth a ddeuai oddi wrtho; ac oni's deuai dim, na byddai iddo yntef farw; o herwydd paham y byddai farw yn ofer! Ond y byddai Grist farw, a hynny ar y pryd ag y bu ef farw, a ragordeinasid gan Dduw, a hynny trwy lw; yr hyn oedd yn ei wneuthur yn angenrheidiol, fel na ellid ei alw yn ol. Nid allai, gan hynny, gyd-sefyll â doethineb, neu wirionedd Duw, adael dyben ei farwolaeth fel y gallai fethu, neu gael ei ddiddymu; megis y buasai yn rhaid iddo fod, pe buasai yn sefyll ar ewyllys dyn: yr hon sydd mor wibiog ac ansefydledig, na wyr yn y funud hon beth a wna, neu a fwriada yn y nesaf, (heblaw ei bod wrth-natur yn wrthwynebol i'r peth hwn); eithr eglur yw bod y dyben wedi ei sicrhau yn yr un modd a'r cyfryngau, sef trwy arfaeth, addewidion, a llw. Ac a fydd i'r fath weithred uchel nodedig, a'r fath ddisgwyliad oddi wrthi gael ei throi i ddamweiniad? Addewid i Grist, had i'w wasanaethu, a'r fath olwg o lafur ei enaid ag a'i digonai ef; y byddai "iddo rannu'r yspail gyda'r cedyrn: y cai y Cenhedloedd yn etifeddiaeth: y byddai i frenhinoedd y ddaear weled a chyfodi, ac i dywysogion hefyd ymgrymu iddo: y cai ei elynion fod yn faingc i'w draed ef:" a hyn fel gwobr am ei ddyoddefiadau; ac y mae yn eistedd yn y nefoedd i'w disgwyl hyd oni chyflawnir. Ac a fydd y creaduriaid wedi syrthio, gynneryd arnynt bwer i naccau ewyllys eu Creawdwr? Ai wrth eu pleser hwy y caiff bod, pa un a wnelo Etifedd pob peth a chael meddiannu ei drestadaeth neu beidio? A fydd i lwch pechadurus cyn belled ymdderchafu a dywedyd, Ewyllys fy Nghreawdwr a gaiff sefyll, ond i'm ewyllys i fod yn rheol iddi? A fydd i gyfreithiau y nefoedd, er mwyn yr athrawiaeth ammodol, redeg yn llyn? Y gwre cadarn arfog a yspeilier ac a fwrier allan, os bydd ef yn ewyllysgar: y Cenhedloedd, i'r rhai y mae'r diafol yn dduw, a gaent ei wadu ef, a throi yn ddeiliaid i Grist, os efe a gydsynia â hynny, ac os tybiant hefyd i fod yn fuddiol

iddynt: brenhinoedd a thywysogion a gyfodant, ac a ym-grymmant iddo, os eu mawredd a âd iddynt; a'i elynion a gânt fod yn faingc i'w draed, os byddant ewyllysgar i ym-ddarostwng i hynny, &c. Pwy ni chrynai wrth glywed cynnyg y fath anmarch i Grist?

3. Nid oedd un rheswm i fab Duw farw, am beth cyn lleied a dwyn dynion i'r fath gyflwr ag y gallent fod yn gadwedig ar ammodau: i'r peth mwyaf yn y byd gael ei grogi ar hoel mor wan na allai ddala pwys afal. Yr wyf yn ei alw yn beth bach, am fod ganddynt fwy ná hyn yn Adda: yr oedd ganddynt y pryd hwnnw berffaith ryddid ewyllys heb dueddiad i ddrwg. Eithr yn awr, meddwch chwi, hwy a gynnorthwyir trwy gynhyrifiadau a rhesymau, oddiwrth y perygl y maent ynddo, a'r pethau daionus a allant eu cael trwy gyfnewid eu cyflwr: eithr beth yw y rhei'ny, fel y mae y peth yn sefyll? Pa gynhyrifiadau a'u cynhyrsa, pan na b'ont yn deimladwy o'u perygl, nag yn gwybod oddiwrth y pethau daionus a gynhygio iddynt? Yr oedd ganddynt y cyfryw gynhyrifiadau o'r blaen yn fwy nâg yn awr; yn gym-maint a bod y teimlad presennol o gyflwr dedwydd, yn fwy rhinweddol a nerthol i'w gadw ef, nâg y gall y cynhygiad noeth o ryw ragorfraint bell anghydnabyddus, i beri i ni ym-rosyn am dani: (canys nid y's yn chwennyech yr hyn ni w'yr oddi wrtho): yn enwedig pan byddo ganddynt eisoes yr hyn sydd fwy cyttunol â'u teimlad presennol: ac mae yn wrth-wyneb i'w rheswm adael y pethau hyn am y lleill: nid ydynt yn gweled na'r perygl na'r rhagorfraint, ac am hynny y maent yn dirmygu'r ddau. Neu os bydd ganddynt ryw ar-gyhoeddiadau gwan ar brydiau, y mae'r boddlonrwydd yr hwn y maent yn ei freuddwydio eu bod yn ei gael yn eu trachwantau, yn eu cario bendramwnwgl, megis gwynt a llanw.

4. Pe b'ai annogaethau a rhesymau mor bwysig ac eff-eithiol i weithredu ffydd, ag y mae rhai yn bwrw; yna y rhai helaethaf eu doniau naturiol fyddent fwyaf tebyol i'w hen-nill. Eithr a oes neb o'r Phariseaid yn credu ynddo ef? Onid yw tywysogion doethineb bydol yn cyfrif pregethiad y groes yn ynfydrwydd? Onid ydym yn canfod dynion enwog o ran callineb dynol, rhagorol am sancteiddrwydd moesol, a mwyaf gorfoleddus yn yr egwyddorion o ewyllys-rydd, etto yn fwyaf yn dirmygu ffyrdd sancteiddrwydd, ie yn yspeilio Crist ei hun o'i Dduwdod, a'r grefydd grist'nogol o'i gogon-iant pennaf? Nid dim eglurach i bawb a'i ystyrio! Diau-gan hynny, mai afresymol y fuasai gadael gogoneddus Bryn-

edigaeth wrth lywodraeth ewyllys withnysig; gan mai hwnnw yw'r peth sydd yn attal, ac a ettyl, nes ei dyunu ymaith. Ni thraddodwyd Crist ond un waith i ewyllys dynion, a hwy a'i croeshoeliasant ef; ac y maent er hynny yn croeshoelio ei groes ef. "Pe adwaenasent ef, ni chroeshoeliasent Arglwydd y gogouiant:" eithr felly y mae "yn noethineb Duw, nad adnabu y byd trwy ddoethineb mo Ddow." Ni bu ddoethineb dynion erioed yn awdwr ffydd, nag iddynt eu hunain, nag i eraill: pregethiad y groes fydd yn *drangwydd* i'r Iudew deddfol, ac yn *ynfydrwydd* i'r philosophydd rhesymol; a hynny yn Athens.

5. Nid yw *amcan* Crist yn prynu, nac *anian* y caethiwed y mae yn gwaredu oddi wrtho, yn rhoi dim lle i osod ammod yn y peth. *Caethiwed llygredigaeth* y gelwir ef gyda'i gilydd; ac o herwydd ei rannu y mae yn dwyn yr enw o "ddallineb, tywyllwch, marwolaeth, caledrwydd, anghrediniaeth, gelyniaeth." Ac mai gwaredu oddi wrth y rhei'ny oedd *amcan* a *dyben* Prynedigaeth, a ellid yn neillduol ei amlygu: fe fydd i mi yn unig gyffwrdd â dau beth neu dri yn gyffredinol: "I hyn yr ymddangosodd Mab Duw, fel y dattodai weithredoedd diafol. Ein hen ddyn ni a groeshoeliwyd gyda Christ, er mwyn dirymu corph pechod. Duw a ddaunfonodd ei Fab ei hun, yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus, ac am bechod a gondemniodd bechod yn y cnawd. Yr hwn a'i rhoddes ei hun drosom, i'n prynu ni oddiwrth bob anwiredd. Crist a roddes ei hun dros yr eglwys, fel y sancteiddiai efe hi, a'i glanhau, a'i gosod yn eglwys ogoneddus iddo ei hun, heb na brycheuyn, na chrychni, na dim o'r cyfryw." Eithr ai peth mewn amcan yn unig oedd, yr hyn a allai gael ei ddiffuddio? Nag é, eithr yr oedd wedi ei rag-arfaethu a'i sefydlu; canys, "Efe a wared Israel oddiwrth eu holl anwireddau; a gwaed Iesu Grist ei Fab ef, sydd yn ein glanhau ni oddiwrth bob pechod;" fe ddywedir yn yr amser presennol megis peth ag sydd etto ac yn wastadol yn cael ei wneuthur. Rhaid i ni gymmeryd *pob* yn y lle hwn, mewn ystyr cyffredinol; canys oni'n gwaredir oddiwrth *bob pechod*, yr un man o'r diwedd y fyddai i ni fod heb ein gwaredu oddiwrth *un*: un hatling heb ei thalu o'r dyled, sy'n ein rhwymo i ddigofaint; yn enwedig anghrediniaeth. Paham, gan hynny, yr ydys yn ammeu ac yn ymddadleu ynghylch hwnnw yn anod un o'r lleill? A ydym yn tebyg bod ffydd mor hawdd, nad rhaid i ni dryblu ein Meistr yn ei chylch? Nemawr o'r rhai credadwy a ffeindiodd ei bod felly: neu a ydym yn tybyg ein hunain yn ablach i ddelio â'n calonau

ein hunain, neu yn ffyddlonach i ni ein hunain nâg ef? Twyll ein calonau sydd yn peri i ni farnu felly: neu a chwanegwn ni at Grist ryw beth o'n heiddo ein hunain, i helpu allan ei haeddedigaethau, ac i'w gwneuthur yn effeithiol? Y mae yn ffaidd ganddo hynny; canys, "Os enwaedir chwi, ni lesha Crist ddim i chwi:" neu, a ydym yn ymdderchafu i eistedd ar ei law ddeheu ef yn y gogoniaut o Brynedigaeth? Ni wn beth yw, ond diau fod rhyw beth nad yw iawn, yn gorwedd yn y gwaelod, er na ellir ei ddirnad. O herwydd, gan mai anrhydedd Prynedigaeth yw gwaredu oddiwrth bechod; yr hwn sydd yn gwaredu oddiwrth anghrediniaeth, yr hwn yw'r pechod mwyaf, a ennillodd y rhan oreu o'r anrhydedd honno: anghrediniaeth yw clo ei cadwyn a'n caethiwed; ac hyd oni ddatglöer hwnnw, nid oes dim rhyddid. Nid yw Prynedigaeth Crist fel cyfreithiau dynol, y rhai sydd yn dala y rhai bychain, ond yn gadael i'r mawrion dorri trwodd: nag é, y mae Prynedigaeth yn amcanu at y Pen, ac yr oeddidd yn bwriadu hynny ar y cyntaf. Ond pa fodd yr achubir dynion oddiwrth anghrediniaeth? trwy efi gwaith eu hun, neu un arall? Os eu hunain, yna o weithredoedd; yr hyn ni all gyd-sefyll â gras: os trwy un arall, yr un arall hwnnw sy'n gwneuthur y peth naill ag yn hollol, neu ar ammod: os yn hollol, tynnaf ddiwedd ar y gwrthddadl: os ar ammod, beth oedd yr ammod hwnnw? Ni allai fod dim ag oeld ynom cyn credu; canys, "Beth bynnag nid yw o ffydd pechod yw:" rhaid wrth hynny ei fod oddiwrth achos arall, ac yn ddiammod, ac ni all ef fod oddiwrth un peth arall, ond Prynedigaeth yn unig; ni all dim arall ei arddel; ac arddeliadau honno sydd dda; canys fe a ddywedir yn eglur mai Crist yw awdwr ffydd: ac y mae yr efangylwr Ioan yn dywedyd, mai o'i gyflawnder ef y mae pob gras yn dyfod: y mae Paul hefyd yn dangos, fod Crist yn ymaflyd ynom, nid o achos ein bod ni yn ymaflyd ynddo ef, ond fel y gallom wneuthur hynny. Ac y'mhellach, yr Ysbryd Glân (yr hwn yw awdwr pob gras) a dywalltir arnom trwy Iesu Grist ein Hiachawdwr. Ni bydd i'r ffydd honno, yr hon nid yw yn gwbl oddiwrth Grist fel ei hawdwr a'i gwreiddyn, byth ddwyn yr enaid at Grist fel ei gwrth-ddrych a'i gorphwysdra. Ond mi a dybygw'n y dylai yr athrawiaeth o Brynedigaeth ammodol gael yn gwbl ei distewi gan eiriau ein Hiachawdwr, lle mae yn dywedyd, "Cafwyd fi gan y rhai ni'm ceisiasant."

A gollir gan hynny yn awr y gwirionedd hwn, sef, i Brynedigaeth Crist wneuthur diwedd ar bechod? neu a

ddywedwn, fod ein hen ddyn wedi ei groeshoelio i gyd ond ei brif ranau? bod ei holl weithredoedd wedi eu dattod, ond ei waith pennaf? bod Israel wedi ei waredu oddiwrth ei holl anwireddau, ond yn unig y gwaethaf a'r inwyaf damnedig? A ydyw yr ysgrythyr yn llefaru yn dwyllodrus? neu a ydyw dyn gwag yn anffyddlon yn ei gyfammod? Yr wyf yn gofyn (gydâ mawr ddifrifwch, canys matter difrifol yr y'm arno) pa les y wna Brynedigaeth i ni, os ydyw yn ein gwaredu yn unig oddiwrth rai pechodau, ac nid oddiwrth bob pechod? neu os oddiwrth bob pechod oddi eithr anghrediniaeth? Oni fyddai hyn yn gyffelyb i faddeuant o bechodau bychain (bychain mewn cyffelybiaeth) tra fyddai euogrwydd ein teyrn-fracwriaeth yn aros arnom? Pwrcasu iechydwrriaeth in', os ni a gredwn, sydd ry debyg i waith un yn cymmeryd arno wella dyn o'i wallgoti, ond iddo fod yn sobr: beth a wna rhai sydd yn ymfoddloni â'r fath brynedigaeth a hon?

Yn olaf, Ystyriwch Brynedigaeth yn yr arwydd o homi: nid oedd yr aberthau dan y gyfraith yn tynnu ymaith bechod heb daenllu'r gwaed; ac nid y bobl eu hunain oedd yn ei daenllu, ond yr offeiriad: ac a fydd i ni gan hynny dybyg y tywalltai Grist ei waed dros y rhai na byddai iddo ei daenllu ef arnynt? na bydd iddo-rodde ychydig ffydd i'r neb y bu ef farw drostynt, gan nad yw yr hyn oll a wnaeth ef yn abl eu lleshau heb hynny? a wnaeth ef y fath waredigaeth i'w weision, ac a gânt hwy yn awr farw o syched? Anmhosibl fod ei gariad wedi oeri cymmaint (yn ol ei fyned i'r nefoedd) a'i fod yn ddifatter am lafur ei enaid. Bychandra mawr i haeddedigaeth dyoddefiadau Crist, yw i neb ddywedyd, nad yw credu wedi ei phrynu a'i heffeithiol gyfarannu ganddo ef, ond ei bod yn sefyll ar ryw beth i'w gyflawni gan ddynion; y mae yn gymmaint a lladratta tlws o goron ein tywysog, a'i osod ar gap yr ynyd.

Defnyddion.

I. Anmhosiblwydd o ddiddymu amcan marwolaeth Crist, sy'n brofiad eglur o neillduol Brynedigaeth. Canys, os iechydwrriaeth y sawl y bu ef farw drostynt oedd amcan ei farwolaeth, ac ni ellir diddymu yr amcan hwnnw; yna nid oedd ef yn amcanu iechydwrriaeth y rhai ni byddant gadwedig.

II. Edrychwch beth a glywoch, a pha fodd. Gochelwch yr athrawiaethau ag sydd yn tueddu i wanychu'r cyfammod o ras; gan ei droi i gyfammod o weithredoedd, neu ryw beth anhawsach; y bennaf yw'r hon sydd yn gwneuthur Pryn-

edigaeth yn ammodol, ac i sefyll ar ryw beth i'w wneuthur gan ddynion, heb Grist: yr hon y bydd i mi son am ddau o'i chanlyniadau drwg.

1. Y mae yn ein hyspeilio o'r sylweddol sail o gysur, yr hon sydd yn tarddu i ni oddiwrth ddiammadrwydd Prynedigaeth; (canys llawenydd yr Arglwydd yw ein nerth); gan ein rhoddi yn noeth i bob awel o brofedigaeth. Pwy all addo y saif yr adeiladaeth a adeiladir ar suil amheus? Nid yw hanner gymmaint perygl adeiladu gwair a sofr ar y graig, ag adeiladu aur ac arian ar y tywod: canys y naill a fydd gadwedig trwy anhawstra; y llall a goll ei waith a'i hunan hefyd: canys er mor sicred ac mor ddiammad yw Prynedigaeth ynddi ei hun, etto os ei sefydlrwydd a'i heffaith sydd yn sefyll ar beth ansicr ac ansefydlog, sail ein gobaith a ddarfu: y mae yn gyffelyb i'r pydewau hynny, yn y rhai y mae dwfr ddigon, ond ni roddant ddim i chwi, nes i chwi yn gyntaf fwrw peth i mewn o'ch eiddo eich hunain, yr hyn nid oes gennyh; (megis ffynnon Jacob, heb ddim i godi dwfr). Dynion trwy 'chwanegu ammodau, sydd yn rhwystro madd-euant iddynt eu hunain; ac yn lle gwella, yn dinystrio'r ddeddf o ras: dywediad y Pregethwr a weddai fod yn berthynol yma; "Na fydd ry gyfiawn, ac na chymmer arnat fod yn rhy ddoeth: paham i'th ddifethit dy hun," Preg. vii, 16.

2. Gwneuthur Prynedigaeth i sefyll ar ein ffydd, yw rhoddi i ras creuedig yr anrhydedd sydd yn perthyn yn unig i Grist, yr hyn a ddylai y rhai a brynwyd fod yn dyner iawn i hono. A ddarfu iddo ef ei hun bwreasu Prynedigaeth, ag a fydd i ni dybyg bod yn rhaid iddo wrth gynnorthwywr i'w chymhwyso? a fydd i ni farnu bod yn rhaid i'r gorchwyl ardderchog hwnnw wrth ein cymmorth ni i'w orphen? Nag e, ond pa rasmusu bynnag sydd gennyh, rhaid i chwi ddiolch i Brynedigaeth an danynt; ac nid iddynt hwy am Brynedigaeth. Nid yw ei holl oleuni ond benthyg; nid oes ganddynt ddim o honynt eu hunain, ond yr hyn y mae Haul y cyf-iawnder yn ei roddi iddynt. A oes gennyt ffydd? medd-ianna hi i ti dy hun, a chydnebydd hi er daioni it'; cymmer hi fel effaith ac amlygiad, ac nid fel yr achos o'th hawl yn Mhrynedigaeth. Y mae pob gras yn hardd a llesiol yn ei le, grasusau efangylaidd a gollant eu harddwch, os gwneir hwynt yn ddeddfol. Rhaid i mi ddywedyd wrth ffydd yn yr achos hwn, 'Y cyfaill, eistedd yn is; y lle hwn sydd yn perthyn i'th Wneuthurwr: creadur Prynedigaeth wyt, oddiwrth honno y cefais dy enedigaeth; ac ynddi yr wyt yn byw ac yn symmud: y mae it' roesaw fel un o'r gwahoddedigion,

ie fel rheolwr y wledd; ond nid fel cyfaill y Priod-fab. Ond y mae gwir ffydd ddifrycheulyd yn foneddigaeddach nag y byddo yn rhaid ei cheryddu yn llyn.

III. Gan fod pob haeddiant a gras yn rhinweddol yn mhrynedigaeth, i'w gyfrannu oddi yno trwy law ein Prynwr ei hun; y mae yn rhoddi i'n gerydd cariadol, a chyfarwyddyd ynghyd: cerydd i ddisgwylfa yn un lle arall; a chyfarwyddyd i eneidiau tlodion sychedig, pa le, a pha fodd i gael eu digoni. Yr ydych wedi eich andwyo ynoch eich hunain, ac a fyddai yn dda i'ch osod y cwmp hwn tan law Crist, fel un yn abl i'w adweirio. Hyd hyn yr ydych ar y iawn: ond yr ydych yn ymofyn am ryw beth ynoch eich hunain, i berthu eich gobaith, ac i ennill ei ffafr tu ag attoch. Ymaith a'r fath esgusodion, a ffowch at eich Prynwr fel yr ydych; canys o hono ef yn unig y mae'r firwyth hwnnw. Byddwch mor deimladwy o'ch annheilyngdod, a'ch anmhrydferthwch, ag y galloch; a rhodiwch yn ostyngedig yn y teimlad o hono; ond na wnaed eich dyfodiad yn fwy gerfyddig a'ch gobaith yn llai. Os gall dim eich gwneuthur yn deilwng, (hynny yw, yn wrthddrychau addas o drugaredd,) eich dyfodiad hyderus at orsedd gras, a'ch holl annheilyngdod o'ch amgylch a wna hynny. Gweddeidd-dra diflas yw bod yn anhawdd gennym dderbyn oddiwrth rai sydd uwch na ni: y mae yn edrych fel y byddem yn anewyllysgar i neb debyg fod arnom eisiau eu rhoddion: neu fel pe baem yn tebyg fod arnynt hwy eisiau ein diolchgarwch; neu o'r lleiaf fel pe baem yn anewyllysgar i fod yn rhwymedig iddynt: mwy anweddaidd o lawer yw bod yn anhawdd gennym dderbyn y cynnygion o ras oddiwrth ein Harglwydd a'n Iachawdwr. O mor annaturiol yw ein calonnau natutiol, ie yn ein daioni ni ein hunain! Gwrthddrychau truenus o drugaredd ydym; y mae pob cyflawnder yn Nghrist, ac fe ellir ei gael am fyned i'w ymofyn; ac etto, megis pe buasai arno eisiau rhai i dderbyn, y mae yn gwahodd yn gyhoeddus, "Ob dewch i'r dyfroedd bob un y mae syched arno, ie yr hwn nid oes arian ganddo: ac od oes ar neb syched, deued attaf fi, ac yfed." Pethau mawrion a gynnygir, ond ar bwy bris? dim; ond dewch a chymmerwch: ac etto ni gawn ffeindio fod y dim hwn yn rhyw beth; ie yn beth o'r pris a'r anhawstra mwyaf: un o'r pethau anhawsaf yn y byd yw bod yn *ddim*, (yn *ddim* ynom ein hunain) ac felly ffoi yn uniawn at Grist fel y byddom *ryw beth*: ond ewch atto ef am hyn hefyd. Pe buasai'r Mab afradlon yn peidio a dychwelyd nes cael dillad gwell, a golwg debycach i Fab y cyfryw Dad; cadach-

au fuasent byth yn wisgoedd iddo, a'r cibau yn fwyd. Ystyriwch y peth yn well; Iesu Grist sydd yn eich galw, oherwydd eich bod yn ddall, i ddyfod atto am eli llygaid; ac nid ewch nes byddoch yn gweled yn well: yr ydych chi yn noeth, y mae yn eich galw i gael dillad; ond ni fynnwch fyned nes byddo gennych well gwisgoedd: y mae yn cynnyg i chi aur, o herwydd ei fod yn gwybod eich tlodi, ac ni fynnwch ei dderbyn nes byddo gennych ryw beth i roddi amdano. Ystyriwch y peth etto, a gwelwch a ydych yn delio yn weddaidd â chi eich hunain, neu âg yntef. Rhydd-ras sydd i'w ogoneddu yn Mhrynedigaeth; ond rhyw beth o'ch eiddo eich hunain, a wna'i yn llai eich rhaid wrth Grist, ac yn llai eich pris am ei ras ef; ie a fyddai yn fodd eich cadw oddiwrtho, fel y cadwodd y tyddyn a'r ychen, y rhai a wahoddasid, oddiwrth y Swpper. Ystyriwch yn mhellach, nid yw Crist yn groesawi neb, o ran dim ac y maent yn ddwyn gyda hwynt; y mae mwy o roesaw i'r rhai sydd yn dyfod heb ddim, i ddisgwyl pob peth. Beth a roddasoch i Grist, neu a wneuthoch drosto, neu a alloch byth ei wneuthur, ag a allasai ei gynhyrfu ef i farw drosoch chi? Ie i gael ei wneuthur yn bechod ac yn felldith drosoch chi? A ddisgynodd ef i uffern i'ch cyrraedd oddi yno, ac a osododd ef ei enaid, ei enaid gwerthfawr, yn bridwerth drosoch? Ac a allwch debyg y saif ef am bethau bychain? Iawn y gellir dywedyd wrthy chi chi a minnau, "Oh ynfydion, a hwyrffrydig o galon i gredu!" Efe a w'r nad oes gennym ddim, ac a fyn i ni wybod ei fod yn gwybod hynny; a bod ganddo ef bob peth i ni: ac er ein anorchfygol annogaeth, bod pob peth yn eiddom ni mewn ffordd o gyfiawnder; ei waed ef a'u gwnaeth hwy felly: nyni yw ei wahoddedigion ef, nid rhaid i ni ddwyn ein ystol na'n hymborth gyda ni. Ni bydd i'm ychwanegu ond un ystyriaeth yn mhellach; sef, a chadw oddiwrth Grist, nes byddoch, (fel y dywedwch,) yn addas o'i bresenoldeb, yw'r ffordd i wella eich cyflwr; chwiliwch a gwelwch, onid oes balchder yn y gwaelod; chi a fynnech, cyn dyfod, gael rhyw beth a'ch gwneilo yn gymmeradwy: a hynny sydd raid ei gael oddiwrtho ef yn unig; ac ni ellwch ei gael ond trwy ddyfod hebdo. Y mae yn Mhrynedigaeth drysorau anfeidrol o bethau sydd ddiffyg arnom; ac y mae ein lachawdwr yn anfeidrol fwy ewyllysgar i'w cyfrannu, nag yr ydym ni i'w derbyn. Meddyliwch, gan hynny eich bod yn wastad yn clywed y llais gorfoleddus, "deuwch attaf fi bawb ag y sydd yn flinderog, ac yn llwythog; a mi a esmwythaf arnoch; a'r hwn a ddel attaf fi, ni's bwriaf ef allan ddim."

IV. Y mae hyn yn mawr gefnogi y rhai credadwy yn eu hymdrech ysbrydol. Canys "os darfu croeshoelio ein henn dyn ni gydâ Christ, er mwyn dirymmu corph pechod;" ac ni ellir diddymmu amcan ei farwolaeth ef; yna "ni arglwyddiaetha pechod arnoch chwi;" na'r hyn, nid oes dim mwy yn nerthu ein ffydd wrth ymladd yn erbyn pechod: dim yn fwy yn *cyssuro* enaid "am waith a llafur ei ddwylo." Oherwydd, mae "tynnu ymaith bechod," oedd *dyben* Prynedigaeth, Crist ei hun a wnawd yn bechod trwy gyfrifiad, nid trwy lygredigaeth: holl bechodau rhai y bu ef farw drostynt, a ymgdygyfarfuant arno ef; fe a'i cyssylltwyd ef a hwynt, fel na ellir eu gwahanu ond trwy farwolaeth; ni allasai pechod farw oni buasai i Grist farw; ni allasai Crist farw oni buasai ei wneuthur yn bechod; ac ni allasai ef farw heb i bechod farw gydâg ef: Crist i gyd, y pen a'r holl aelodau, a gydgroes-hoeliwyd, ac a gydgyfodasant; eu gyd ond pechod, yr hwn a adawodd ef yn ei fedd; a gadewch i ni gofio ei fod ef *yno*; ac felly yn awr nid oes, mewn cyffelybiaeth, ddim i'w wneuthur, ond cymmeryd yr yspail; canys y mae'r gelyn wedi ei orchfygu yn barod: "Eleazer a darawodd, a'r bobl a ddychwelasant ar ei ol ef yn unig i anrheithio;" felly mae yma; ac yn hyn y cyflawnir y gair, "mae arall yw'r hwn sydd yn hau, ac arall yr hwn sydd yn medi." Ein gwaith yn awr yw clodfori ein tywysog; adrodd ei fuddugoliaethau; ac ymbarottoi erbyn ei orfoledd; fel y byddom addas o'i gymdeithas ar y dydd gogoneddus dymunol hwnnw.

Diau fod byddinodd gwasgaredig, yn disgwyl i ni gloffi yn fynych, heb hynny, ni allant ein drygu: eithr y mae eu calon wedi torri; ac os dilynwn hwynt yn enw gorfoleddus ein Captain, hwy giliant yn ol yn wastadol; nid oes dim yn eu digaloni yn fwy na'ch gweled yn eu gwrthwynebu. Eich gelyn a roddai i chwi fynydd o aur, neu un peth hyd at hanner ei deyrnas, am gilio yn ol, neu beidio a llefaru mwy yn yr enw hwnnw. Gwregyswch gan hynny lwynau eich meddwl; a bydded i hyder sanctaidd eich meddiannu, gan wybod y cewch eich coroni yn niwedd eich hymdrech. Nid ydych yn rhedeg megis ar amcan; am hynny nag ymdrech-wch fel rhai yn curu yr awyr; o herwydd sicr yw, fod eich gelyn yn wrthnysig, a'ch herlidiad parhaus a'i gwana yn gyn-deiriog; gan na chyttunwch âg ef, efe a wna'i ei oreu na byddo ef farw yn unig; fe a saif ar ei liniau yn ol torni ei draed, ie ac a ymladd o'i orwedd, (oblegid y mae ei genfigen yn anghymmmodol) ni phaid byth tra b'ô anadl, ac ni bydd hebdi yn gwbl, tra b'och chwi yn anadlu; rhaid i ni

farw ynghyd. Eithr yma y mae'r gwahaniaeth; y bydd i ni, wedi marw yn yr ymdrech, godi i fynu drachefn mewn gogoniant, ac y bydd ein lawryf yn wyrdd i dragywyddoldeb; ie, ni gawn eistedd gydâ'n Tywysog gogoneddus ar ei orfol- eddus orsedd: ond ein gelyn a orwedd mewn distawrwydd tragywyddol, a'i enw a anghofier; neu a gofier yn unig i sawrhau ein gorfoledd a'n gogoniant: yn unig, fel o'r blaen, byddwch sicr i sefyll; bydded eich wyneb fel callestr, fel yr oedd wyneb eich Arglwydd a'ch Meistr; a gwybyddwch na chywilyddier chwi mwy nâg yntef: y mae gennych chwi bob peth ar eich ochr ag oedd ganddo yntef, a'i haeddedigaethau ef yn ychwaneg: y gallu a roddodd y Tad iddo ef, y mae yntef yn ei roddi i chwi, sef gallu goruwch holl allu y gelyn, fel meddyginiaeth i wanychu yr hyn oll a ddelo yn eich erbyn. Pa'm, gan hynny, yr amheuwch? "Er iddynt eich amgylchynu fel gwenyn, yn enw'r Arglwydd chwi a'u tor- wch ymaith." Cofiwch y pethau da sydd o'ch ochr; heb- law 'sigo siol y gelyn, a hynny yn ddifeddyginiaethol, y mae eich Pen chwi yn y nefoedd; ac y mae ef yno megis ar fynydd, i ganfod pa fodd y mae hi gydâ chwi, a chydâ eich gelynion, ac i aufon cymmorth, yr hyn ni fetha ef ei wneu- thur yn amser cyfyngder; ac y mae yn eiriol drosoch; tra fyddoch yn ymladd, y mae ei ddwyllaw ef i fynu, ac heb- ddiffygio, ac am hynny chwi a ellwch fod yn hyderus o'r fuddugoliaeth. Trwy rinwedd ei weddi ef ni ffaelodd fydd Pedr, pan nad oedd ond trwch blewyn rhyngddo ac angeu: yr oedd y gelyn yn nithio, a Christ yn sefyll gerllaw, ac yn dala'r gwynt yn ei ddwrn. Eithr,

Yn olaf, Pe baech yn cael y gwaethaf, a phethau heb fyned gydâ chwi fel o'r blaen, neu yn ol eich disgwylfa; a hynny yn eich bwrw yn ol yn eich ffydd; yn peri i chwi lesain allan, "Os felly, beth a wnaif fi fel hyn?" Yma y mae'r Arglwydd yn dywedyd wrthy, (fel wrth ei was Joshua) "Cyfod, paham yr ydwyt yn gorwedd fel hyn (yn ddigalon) ar dy wyneb?" Y mae rhyw beth i'w wneuthur; cais allan yr hwn sydd yn dy flino, ac nag arbed ef: ac os bydd ry galed i', (megis yn ddiâu y bydd) galw i mewn i'w gymmorth y trugaredd a addawir yn Salm xii. "O herwydd anrhaith y rhai cystuddiedig, o herwydd uchenaid y tlodion, y cyfodaf yn awr, medd yr Arglwydd; rhoddaf mewn iech- ydwriaeth yr hwn y mugler iddo:" ac yno ewch y'mlaen â'ch gwaith; na rwystred dim eich ymffrost yn y wlad hon, i yn y wlad oruchel hon, o'r gras sydd yn Nghrist Iesu: ad- newyddir eich nerth trwy hyn, os amgen eich ffordd a fydd

ry faith i chwi; ac yn y nerth hwnnw ymdderchafwch: codwch tua'r nef, ar adenydd yr eryr hwn, goruwch holl fŵg a llwch eich nerth, neu eich gwendid eich hunain. Gorfoleddwch yn Naw ar hyd y dydd; yn yr Arglwydd y mae im' gyfiawnder a nerth: ni allaf wneuthur dim o honof fy hun; eithr trwy Grist (trwy'r nerth yr ydwyf yn ei gael oddiwrth Brynedigaeth) nid oes dim ry galed i mi. "O angeu, pa le mae dy golyn? O uffern, pa le mae dy fuddugoliaeth? Colyn angeu yw pechod, a grym pechod yw'r gyfraith. Ond i Dduw y byddo'r diolch, yr hwn sydd yn rhoddi i ni y fuddugoliaeth trwy ein Harglwydd Iesu Grist!"
Amen.

AM

ALWEDIGAETH EFFEITHIOL.

Yr athrawiaeth o *Alwedigaeth* (yr hon yr wyf yn ei galw yn *effeithiol*, i'w gwahaniaethu oddiwrth yr hon sydd oddi allan yn unig, ac heb dyccio) sydd yn perthyn i'r *moddion* trwy y rhai, a'r *modd* yn yr hwn y mae Duw yn weithredol yn cymhwyso yr etholedigion i'r iechydwrriaeth i'r hon y dewisodd ef hwynt: gwaith Duw yn datguddio ei Fab ynddynt, yr hyn mae yn ei wneuthur trwy'r Ysbryd Glân, swydd yr hwn yw *sancteiddio* y rhai a *etholodd* y Tad, ac a *brynodd* Crist: y tair gweithred hyn o ras sydd berthynol i'r tri Pherson yn y Drindod sanctaidd; ac a adroddir oll am yr un rhai, a hynny fel rhai dewisedig wedi eu gwahaniaethu oddiwrth eraill: y maent wedi eu "dewis allan o'r byd; eu prynu oddiwrth ddynion; a'u cymmeryd o'r cenhedloedd."

Y mae'r Arglwydd wedi gosod gwynfydedigrwydd ei etholedigion yn nesaf at ogoniant ei ras, ac anrhydedd ei Fab, yn brif ddyben ac amcan yr hyn oll a wnaeth ac a wna ef yn y byd. Nid yw, gan hynny, yn gyttunol â'i sanctaidd ddoethineb, dël y rhai y rhyngodd bodd iddo ef eu dewis i iechydwrriaeth, i lywodraeth eu deall a'u hewyllys eu hunain, trwy'r fath foddion a chyfryngau ag sydd gyffredin iddynt hwy gydâ dynion eraill; a gadael i'r cwbl o'i amcan mawr sefyll ar hynny: canys, yn y ffordd honno, fe a fyddai nid yn unig yn bosibl i ddysod i ddim, ond yn sicr i gael ei ddi-

ddyddu. I ragflaenu hynny, ac fel y sefai pwrpas ei ras, efe a'i gwnaeth o sylwedd ei arfaeth, barottoi a chymhwyso'r moddion yn gystal ag appwyntio'r dyben; yr hyn, yn iaith yr ysgrythyr, a elwir, " Rhoddi pob peth a berthyn i fywyd a duwioldeb."

Swm yr hyn a ddywedaf ar y peth presennol a gynhwysir yn yr athrawiaeth ganlynol; sef,

Athr. Y MAE DUW YN RHAD RODDI I'W HOLL ETHOLEDIGION BETH BYNNAG Y SYDD REIDIOL I IACHAWDWRIAETH: AC YN EU GWEITHREDU YN EFFEITHIOL YNDDYNT TRWY EI DDUWIOL BWER, I'W DWYN I FEDDIANT O'R GWYNYFDEDIGRWYDD A APPWYNTIODD EFE IDDYNT.

Wrth *iechydwrriaeth* yma, yr ydwyf yn meddwl perffaith sefydliad y saint mewn gwynfydedigrwydd a gogoniant: wrth *bethau rheidiol i hynny*, yr wyf yn dyall y doniau, y grasusau, a'r gweithrediadau ag sydd un ffordd yn rheidiol i berffaith fwynhad o'r cyflwr hwnnw. Y *duwiol bwer*, yw'r gallu o weithredu a gadwodd Duw iddo ei hun; yr hwn ni chynhyrfir, ac ni reolir gan ewyllys y creadur, ond gan fodd-lourwydd ei ewyllys ef.

Afreidiol yw profi bod amryw bethau yn rheidiol i iechydwrriaeth; fy ngwaith i gan hynny yw dangos,

I. *Beth yw y pethau rheidiol hynny.*

II. *Oddiwrth ba wreiddyn y maent yn dyfod.*

III. *I bwy y maent yn perthyn, a pha fodd.*

IV. *Y ffordd a'r modd y mae Duw yn eu cyfrannu.*

I. *Beth yw y pethau rheidiol hynny.*

Y maent o dri math; rhai i'w gwneuthur *drosom*; rhai, *arnom neu ynom*; ac eraill *gennym*; ond etto nid heb help a chymmorth y Gweithredydd cyntaf, yr Ysbryd da hwnnw yr hwn a ddechreuodd y gwaith, ag sydd yn gweithio pob peth yn mhawb. Y peth mawr i'w wneuthur *drosom* (nesaf at Etholedigaeth) yw *Prynedigaeth* oddiwrth bechod: gwaith pwysfawr anfeidrol yw hwn, tu hwnt i allu neb rhyw creadur ei gyflawni; o herwydd, 1. Cyflawnder Duw, yr hon sydd yn rhaid ei boddloni, trwy ddwyn y felldith ddyledus i bechaduriaid: trwy hyn ein hachubir rhag digofaint; ac heb hyn, ni agor Cyflawnder Duw ddrws ei charcharorion. 2. Rhaid cyflawni pob cyflawnder, trwy gyflawn berffaith ymddarostyngiad i'r gyfraith: trwy hyn y mae gennym hawl i fywyd tragywyddol; ac heb hyn nid oes mynediad i or-

phwysfa. 3. Rhaid dinystrio diafol, gan yr hwn y mae pŵer marwolaeth, a dattod gweithredoedd y tywyllwch, (trwy y rhai y mae yn tywys i gaethiwed wrth ei ewyllys); fel y dygid i oleuni fywyd ac anfarwoldeb, ac y gwaredid yr ysglyfaeth. Ni allasid byth gyflawni un o'r pethau hynny, ond gan un o'r unrhyw natur â'r hwn a bechasai; ac etto yn ogyfuch o ran gallu ac urddas, â'r Mawrhydi y pechasom yn ei erbyn: i'r achos a'r dyben hwnnw, "Duw a ddanfodd ei Fab, wedi wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf," &c. fel y byddai iddo ef yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus, gyflawni yr hyn ni allai y ddeddf, o ran ei bod yn wan trwy'r cnawd, i'w wneuthur; ac felly gondeinio pechod yn y cnawd, trwy yr hwn y cawsai ddyfodiad i mewn. Hyn oedd berthynol i'r pen o'r blaen, sef Pryn-edigaeth: dyben yr hyn (mewn rhan) oedd dwyn yr ail fath o bethau rheidiol i iechydwrïaeth, sef y cyfryw ag y sydd i'w gwneuthur ar, ac yn yr etholedigion, yn enwedig eu cymmod â Duw, a'u derbyniad a'u mabwysiad. *Gweithredol* gyflawniad o'r hyn oedd yn *fwriadol* yn Etholedigaeth, ac yn *rhinweddol* yn marwolaeth Crist (fel y ffordd a'r modd angenrheidiol i ddwyn i ben y prif ddyben) yw hyn. Crynhoddeb y pethau rheidiol hynny a gynhwysir yn ffydd a sancteiddrwydd; y naill sydd yn dal allan ein *hawl*, y llall ein *cyfatebolrwydd*: ffydd sydd yn rhoddi *hawl*; a sancteiddrwydd yn cymhwyso: y rhai'n er eu hadrodd fel *dau*, ydynt yn myned yn wastad ynghyd fel *un*; a ydynt mor ddiwahanol a goleuni oddiwrth yr haul: heb y rhei'ny, ein byd bach ni a fyddai yn wastad yn dywyllwch, er dim goleuni a ddisgleirio oddi amgylch in', neu ynom; heb wybod ein perygl, na pha fodd i'w ochelyd.

1. *Ffydd*. Yr hon, yn gyffredinol, yw *y goleuni ysbrydol* yn yr hwn yr ydym yn canfod ein hunain wrth natur yn *blant digofaint*, ac yn gwbl anabl i gyfnewid ein cyflwr; "A Duw hefyd yn cyfiawnhau yn rhad trwy ei ras, trwy'r Brynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu:" ac er mwyn hynny yn treiglo ein hunain arno ef, ac yn rhoddi ein hunain i fynu i'w gyfreithiau a'i lywodraeth. Y mae yn hanfodol i ffydd i arllwys yr enaid o'i nerth ei hun. Ac, 1. O'i ddeall ei hun: pelydr o oleuni duwiol yw, yn amlygu nad yw gwybodaeth naturiol dyn, ond anwybodaeth a thywyllwch, mewn pethau ysbrydol: y mae'r apostol yn son am dani fel am swydd gynneddf *newydd roddi*; ac anian y gwrthddrychau newydd sy'n gofyn hynny; "Canys ni all y dyn anianol wybod pethau Duw:" y neb sydd â'r llygaid goreu yn awr, a fuant

gynt yn dywyllwch. 2. Ffydd sy'n gwaghau yr enaid o hunan-gyfiawnder: (1.) Trwy ddatguddio ei aflendid. (2.) Trwy ddangos yr angenrheidrwydd o un gwell. (3.) Yn mhwy y mae y Cyfiawnder gwell yna i'w gael. (4.) Y gellir ei gyrraedd a'i gael. (5.) Yn ol ei gael, bod yr enaid yn ddiogel, ac y gall orfoleddu ar bob peth. (6.) Na all y Cyfiawnder gwell hwn o'r eiddom ni ein hunain gyd-sefyll. Ac yno, 3. Gwaith nesaf ffydd yw, gwaghau yr enaid o'i nerth ei hun; sef o bob hyder ynddo ei hun o ran cyrraedd y Cyfiawnder gwell hwnnw. Y mae yn ymroi yn ddiâu i ymddiosg o'i gyfiawnder ei hun; a gwych fyddai ganddo gael ei wisgo â Chyfiawnder Duw; eithr y mae yn ei ffeindio yn beth anhawdd iawn: diammeu ganddo yn awr mai nid peth hawdd yw bod yn gadwedig; gan fod cyn hawsed credu a chadw'r holl gyfraith; hynny yw, y mae'r naill gystled a'r llall yn anhosibl iddo: ond efe a w'yr nad oes dim ry galed i Dduw; ac am hynny y mae " yn ymaflyd yn ei nerth ef," i weithredu'r ffydd hon ynddo; ac felly o ffydd anweledig, y mae yn credu nes dyfod i ffydd weledig: ffydd y sydd ar waith yr holl amser hwn, er nad yw'r enaid yn ei ddyall hyd yn ol llaw.

2. Y peth mawr nesaf rheidiol i iechydwriaeth yw *sancteiddiad*, neu sancteiddrwydd personol yn aros ynom. Cyfiawnhad sydd trwy Gyfiawnder a *gyfrifir*, a sancteiddiad trwy Gyfiawnder a *gyfrannir*: y cyntaf sydd gyntaf o ran trefn natur; er ei bod ynghyd o ran amser, fel y goleuni yn yr awyr ar ddangosiad yr haul; neu fel y mae galw owlari yn ol, yn bresennol yn dychwelyd dyn i'w ragorsfreintiau; neu ddiddymu achwyniad o deyrn-fracdwriaeth yn adferu'r gwaed. Sancteiddiad yw'r natur Ddwyfol wedi ei chyfrannu, trwy yr hon y bwrier allan yr hen ddyn a'i weithredoedd; neu yn hytrach y gorchfygir ac y darostyngir ef; o blegid ni ddiddymir hwynt yn gwbl yn y bywyd hwn; yn unig y enawd balch a dynnir o'i orseddfa (yr hyn sydd fatter mawr); ei lywodraeth a gymmerir ymaith, a had Duw sydd yn teyrnasu yn ei le: ac felly y dywedir ein symmud o deyrnas, neu lywodraeth satan, i deyrnas Crist. Hyn a elwir weithiau yn adenedigaeth, neu fod wedi ein geni drachefn: torri dyn ymaith oddiwrth ei olewydd-wyllt, a'i impio yn y wir Olew-dden: ffurfio Crist ynom, a 'sgrifenu'r gyfraith yn ein calonau; hynny yw, tueddiadau yn ol ewyllys Duw, neu galon yn ol ei galon ef. Fe a elwir hefyd yn fynediad heibio yr hen bethau, a gwneuthur pob peth o newydd; hynny yw, cyfnewidiad o egwyddorion, amcan, a dyben bywyd dyn.

Nid am ei fod yn dileu neu yn dinystrio yr hen swyddgynheddfau, ond yn eu hadferu ac yn eu hadnewyddu “yn ol delw yr hwn a'i creodd ef.” Megis y mae'r corph pan ail-enir (neu yr adgyfodir ef) yr unrhyw ag yr oedd pan hauwyd ef; eithr wedi ei gyfnewid a'i wellhau yn y fath fodd o ran ei gynheddfau, fel pe na byddai yr un: felly yn adenedigaeth yr enaid yr un deall, ewyllys, a nwydau sydd yn aros; ond wedi eu cwbl gyfnewid o ran eu tueddiad, yn ol y gwrthddrychau newyddion ag y maent i'w hymarfer yn eu cylch. Ac y mae hyn mor rheidiol i iechydwriaeth, ag na allwn fod yn addas o'r nefoedd hebdo: ni allai enaid heb ei sancteiddio gael dim happusrwydd yn y nefoedd; nid oes dim cymmundeb yno heb undeb: a hynny yw'r rheswm fod pethau ysbrydol mor ddiflas i ddynion cnawdol; ac oni allant oddef y *cysgod*, pa fodd y gallent gyd-ddwyn â'r *syhwedd* ei hun? Yn y gwaith hwn yr ydys yn gweithio ar yr enaid: ond yn ol ei fywhau yn llyu gan Ysbryd Duw, a'i osod ar ei draed, y mae yn addas i weithredu; yn awr y mae yn dywedyd (megis Daniel) “Llefared fy Arglwydd, o herwydd cryfheist fi.” Ac o hynny allan eu gwaith a'u gorchwyl yw, rhodio yn addas i'r Arglwydd; gogoneddu y gras a'u hachubodd hwynt; rhodio ger bron Duw mewn beunyddiol ymarfer o'r grasusau a roddodd ef iddynt; ac ymestyn at berffeithrwydd, sef addfedrwydd mewn gras neu gymhwysdra i gyflwr o ogoniant, i'r hwn y mae'r pethau hyn yn eu rhagbarottoi; i ddangos ei ogoniant ef a rhinweddau yr hwn a'u galwodd; gan wneuthur ei gyfraith ef yn rheol, a'i ogoniant yn ddyben goruwch pob peth; a'r cwbl mewn ffordd o ddyledus ddiolchgarwch: canys, er y gallwch, ac y dylech edrych am eich iechydwriaeth, eich tangnefydd, a'ch cysur eich hunain; etto trwy ddarostwng y cyfan i ogoniant gras Duw: a chymmerwch hyn ar y ffordd, i'ch cefnogi yn eich dyledswydd, bod gogoniant Duw a iechydwriaeth ei bobl wedi eu cyd-gymmysg yn y fath fodd, fel na ellir byth eu gwahanu: tra fo hynny yn eich golwg a'ch amcan, y pethau perthynol i chwi eich hunain sydd yn myned y'mlaen yn dra llwyddiannus; y maent yn cydffynnu, ac yn cerdded yn yr un ystod.

II. O ba le y mae'r pethau rheidiol hynny yn tarddu?

Fel y gwybyddai dynion mai creaduriaid oeddent, rhaid oedd gwybod dechreu'r byd, trwy bwy, a phwy fodd: ac mor rheidiol wybod dechreuad y byd adferedig.

Ein hymofyniad presennol gan hynny sydd—Am Awdwr

ffydd a sancteiddrwydd? Oddiwrth ba wreiddyn y maent yn tarddu? Pwy, neu beth yw'r achos effeithiol o'r ail-enedigaeth? Trwy ba bwr y ffurfier ac y dygir allan y creadur newydd?—Yr ydym yn haeru, 'Mai gwaith Duw yu gwbl ac yn unig yw y creadur newydd.' Yr ysgrythyr sy'n eglur am hyn, ac yn ei adrodd yn amlwg yu Iago i, 17. "Pob rhoddiad daionus, a phob rhodd berffaith, oddi uchod y mae, yn disgyn oddiwrth Dad y goleuni:" yr hyn sydd mor gyflawn yn ateb y gofyniad, ag y gallai un dybyg na byddai raid ymofyn y'mhellach. Eithr gan ei fod yn wirionedd mor anghymeradwy gan natur, a bod cymmaint ymdrech i geisio gwneuthur gallu ac ewyllys dyn yn dad i creadur newydd, rhaid i ni brwfo y'mhellach; a'n rheswm am dano yw, 'Rhaid gwneuthur y creadur newydd naill ai gan allu Duw, neu allu dyn, neu gan y ddau ynghyd.' Eithr, Yn gyntaf, Ni ellir ei wneuthur gan allu dyn; o herwydd y fath resymau a'r rhai'n:

I. O herwydd mai *creadur newydd* yw'r *boneddicaaf* a'r *godidoccaf* o'r holl creaduriaid. Nid yw holl rai *galluog* y byd yn abl *gwneuthur* un brycheuyn; y maent yn abl *puro* a *diwygio* y pethau sydd; ond ni allant roddi bod i'r peth lleiaf nad yw. Pa fodd, gan hynny, y gall dyn naturiol beri i'r creadigaeth newydd fod? Bychandra i'r duwiol anian a fyddai meddwl y cyfryw beth; gosod delw y *nesol* yn llai na delw y *daearol*: o blegid yr hwn sydd yn adeiladu, sydd yn haeddu mwy o barch na'r hyn a adeiladir ganddo, Heb. iii, 3.

II. Ni all dim roddi yr hyn nid oes ganddo. Y mae pob enaid wrth natur yn dywyllwch, ac yn llawu gwrthwyneb-rwydd anianol i Dduw: eithr ni ddaw goleuni o dywyllwch, na chariad o elyniaeth: nid oes neb yn disgwyl grawnwin ar ddrain; rhaid i'r ffrwyth fod yn gyfattedbol i'r peth sydd yn ei ddwyn; "Y mae gan hedyn ei gorph ei hun; ni ddychon pren drwg ddwyn ffrwythau da; yr hyn a aned o'r cnawd sydd gnawd," ac ni bydd byth well: am hynny ni all y creadur newydd, yr hwn sydd beth duwiol, darddu oddiwrth egwyddorion naturiol.

III. Y mae y dyn naturiol, nid yn unig heb ddim rhinwedd na phriodoliaeth tueddol i'r ail-enedigaeth, eithr hefyd yn gwbl wrthwyneb iddi. Cael ein impio i'r wir olewydden sydd yn groes i natur; "Syniad y cnawd sydd elyniaeth yn erbyn Duw:" a gelyniaeth sy'n egwyddor anghymmudlon, ni ellir meddwl y bydd iddi gymmorth i'w dinystrio ei hun. Ni wnaent gymmair a "cheisio Duw," na'i "gymmeryd

i'w meddyliau." Y maent yn ewyllysgar "i wneuthur trachwantau satan;" ond am air yr Arglwydd, y maent yn dywedyd yn wrthun, "na wrandawant arno:" carasant ddieithraid, ac ar eu hol hwynt yrânt. "Mor ddrwg ddiobaith yw calonau dynion;—o drachwantau cnawdol yn ymladd yn erbyn yr enaid" y gwnaethpwyd hwynt, y maent yn gwrthwynebu yr hyn oll ag y sydd yn tueddu i'w sanctaidd adferiad. Y gelyniaeth hwn a gynhalier ac a gynhyrfir gan y tywyllwch sydd ynddynt; o'r hwn, neu o gau oleuni, (mor wrthwyneb ac mor ddinystriol i'r gwaith hwn) y llenwir pob dyn wrth natur: o herwydd yr hyn beth y gwrthdryschiu mwyaf gogoneddus, er eu bod ger eu bronau, ydynt guddiedig oddiwrth eu llygaid; "nid ydynt," ac ni allant "ganfod y pethau sydd o Dduw:" y maent yn camgymeryd bob peth; "yn galw'r da yn ddrwg, a'r drwg yn dda; yn gosod goleuni yn lle tywyllwch, a thywyllwch yn lle goleuni;" a'r pethau mwyaf godidog sydd fynychaf yn lleiaf cymmeradwy yn eu golwg. Prawf cyffredinol yw, mai pa mwyaf ysbrydol y byddo un peth, mwyaf y mae rheswm naturiol yn ei wrthwynebu; "Pa fodd y dychon y pethau hyn fod? Pa fodd y dychon hwn roddi i ni ei gnawd i'w fwytta?" Nid yw'r holl ddeall ag y sydd gan bobl cyn eu troedigaeth, ond eu gwneuthur yn fwy cildyn yn erbyn y gwirionedd. Y gelyniaeth hwn a gadarnhair ac a sefydlir y'mhellach trwy ei fod yn *naturiol*. Pe b'ai peth wedi dyfod trwy ddamwain, fe a allai y gellid ei symmud; ond yn awr y mae yn anhosibl trwy un nerth ddynol. A'i fod yn naturiol sydd amlwg, o ran bod holl ddynolryw yn gyffredinol wedi eu llygru âg ef: nid un yma ac accw; ond pawb a phob un; "Iuddewon a Chenhedloedd sydd oll dan bechod; nid oes neb yn dyall; nid oes neb yn ceisio Duw; nid oes un yn gwneuthur daioni, nac oes un: pob cnawd a lygrasant eu ffordd; pob bryd calon dyn sydd yn ddrwg, a hynny yn wastadol; ynfyd yw pob dyn yn ei wybodaeth;" a hyn yw eu dechreuad, y maent wedi eu "llunio mewn anwiredd," ac "ymddieithro o'r groth." Y mae hefyd yn cynhyddu ynddynt; pa hwyaf byddo byw, y mae yn myned yn waeth ac yn fwy anorchfygol: "Nid yw ddarostyngedig i ddeddf Duw, ac ni's gall fod." Ac er eu bod ar brydiau yn edrych ffordd arall, megis cerrig neu blwm, wedi eu cynhyrfu gan nerth oddi allan, a dderchafant i'r awyr; eu mynediad i fynu a dderfydd chwypyn, am nad yw'n naturiol; y maent yn dyfod drachefu i'w gorphwys-fan o honynt eu hunain, ac yno y byddant fyw a marw; megis y gwelwyd wrth Saul, Ahab, Agrippa, ac eraill.

IV. Ni all y creadur newydd darddu oddiwrth nerth naturiol, o herwydd peth sy'n cael ei dderbyn a'i gynhyddu yn anian yr hyn sydd yn ei dderbyn. Planhigion a chre- aduriaid eraill sy'n troi eu holl luniaeth i'w rhyw a'u natur eu hun. Gwinwydden ac ysgallen wedi eu cydblannu yn yr un tir, sy'n cael yr un haul, gwllith, awel, a phob peth arall yn yr un modd; etto pob un o honynt sydd yn troi yr hyn oll ag y mae yn ei dderbyn i'w sylwedd a'i anian ei hun. Chwi ellwch blannu a thrîn, a chloddio oddi amgylch, a gosod tail at bren drwg; ond cymmerwch y draul a'r poen y fynnoch wrtho, nid yw'r cwbl ond ei wneuthur yn fwy pa- rodol i ddwyn ffrwythau drwg: felly yn uniawn y mae'r dyn anianol, yn troi hyd yn oed gras Duw i drythyllwch: megis i'r pur, y mae pob peth yn bur; felly i'r rhai halogedig, halogedig yw pob peth. Dafydd trwy ei gystudd a ddysg- odd gadw gair Duw; eithr Ahaz a 'chwanegodd dreseddu. Calon dda Josias sydd yn meddalhau wrth ddarllen y gyf- raith, y mae ef yn ymddarostwng, ac yn dychwelyd; ond Jehoiacim ddrygionus sydd yn torri'r llyfr â chyllell, ac yn ei fwrw i'r tân: yn llyn y mae pechod neu natur lygredig yn gweithio marwolaeth trwy yr hyn sydd dda.

Yn ail, Na wnaer y creadur newydd trwy allu Duw a gallu dyn ynghyd, sydd amlwg wrth y rhesymau canlynol; sef,

I. Nid rhaid i'r Ysbryd Glân wrth gymmorth yn ei waith: pwy oedd, a pha le y mae yr hwn a fu yn gymmorth iddo, pan oedd yn ymsymmud ar wyneb y dyfroedd, ac yn ffurfio y byd presennol? a phan bwysodd y mynyddoedd mewn pwysau, a'r bryniau mewn clorianau? Ni ellir tybyg bod yn rhaid i'r hwn a wnaeth bob peth o ddim, wrth gymmorth neb. Megis nad oedd gan ddyn ddim i'w wneuthur yn ffurfiad natur ddynol Crist, nerth y Goruchaf yn unig oedd yn y gorchwyl hwnnw; felly y mae yn ffurfio Crist ynom. Paham y ceisiai help gan arall, oni byddai ei fod yn ddiff- ygiol ynddo ei hun? A rhaid bod eisiau mawr ar yr hwn a gymmero gymmorth gelyn.

II. Pe b'ai ar yr Ysbryd Glân eisiau cymmorth, nid yw'r cnawd nac yn ei gymmorth, nac yn abl gwneuthur hynny yn y mesur lleiaf: canys y mae'r dyn naturiol yn wan. Nid yw'r dyn goreu yn y byd ddim ond cnawd nes ei ail-eni; "A phob cnawd fel glaswelltyn yw, a'i ogoniant fel blo- deuyn y glaswelltyn:" yr hwn sydd yn gwiwo mewn munud: braich heb gadernid yw: yn ymddangos, ond gallu gwneu- thur dim. Ac y mae nid yn unig yn wan ynddo ei hun,

eithr hefyd yn gwanhau ac yn dirymu beth bynnag sydd yn pwysu arno, neu yn cael ei arfer ganddo i ddybenion ysbrydol: ni wna gwelltyn fwy o wrhydri yn llaw cawr nag yn llaw plentyn; i.e., "y gorchymyn ei hun yr hwn a ordeiniwyd i fywyd, ydoedd wan trwy'r cnawd." Egwyddor wrthwynebol, gwbl elynol i'r had sanctaidd yw'r cnawd; fel y gwelwch o'r blaen: y mae yn ateb, megis Pharao, "Pwy yw yr Arglwydd, fel y gwrandawn i ar ei lais ef?" Ei holl amcan yw diffodd gweithrediad yr Ysbryd; ac ni phaid yr ymdrech nes bo'r naill neu'r llall wedi ei gwbl orchfygu. Fe fu, y mae, ac fe fydd y cnawd a'r Ysbryd yn wastadol yn ddau; i.e., lle mac'r gelyniaeth wedi colli ei lywodraeth, y mae yn cadw ei ymdrech hyd y diwedd: a chan fod y naill yn ymdrech yn erbyn y llall yn ol ffurfio'r creadur newydd, diammen y gwrthwyneba ei ffurfiad cyntaf ef. Pe baem yn bwriw bod y cnawd mewn un mesur, yn abl cymmorth yn y gwaith hwn, ni fynnai'r Ysbryd Glân mo'i gymmorth; pa gysondeb sydd rhwng Crist a Belial; cās ganddo'r cyfryw gymmysgedd: ni adawai i'w bobl "aredig âg ŷch ac asyn ynghyd; na hau eu tir âg amryw had:" ac os byddai iddynt wrth adeiladu allor, godi offeryn arni, yr oedd, yn nghyfrif yr Arglwydd, yn ei halogi. Eithr bwriwch fod yn bosibl iddynt gael eu cyssylltu; beth a ddeuai o hynny? "Pan ddaeth meibion Duw at ferched dynion, cawri a aned iddynt." Beth ellir ddisgwyl rhwng creaduriaid o amryw ryw ond anghenfilod? Y fath anghenfilod mewn ystyr ysbrydol, yw rhagrithwyr a phroffeswyr tymhorol: yn y rhai y mae rhyw beth wedi ei genhedlu o'u hewyllysiau, trwy gynhyrffiadau a goleuadau cyffredinol Ysbryd Duw: yr hwn sydd yn cyrraedd rhyw fath o ffurfiad, ond yn y diwedd nid yw ond cnawd marw; nid yw byth yn dyfod i fod yn creadur newydd; fel y gwelwch yn Herod ac Agrippa: ni ddaw ond aderyn nos o ŵy dullyan, er ei ddeor gan golommen neu eryr. Had y gaethi-wraig a fydd gnawdol, er bod Abraham ei hun yn dad iddo.

I eglurhau hyn ychydig y'mhellach, fe fydd i mi yn fyr ystyried y pethau mwyaf tebygol i gynhyrfu calonau dynion, a'u tywys i edifeirwch; ynghyd â'r ffrwyth cyffredin sydd yn tarddu oddi wrthynt, pan gadawer hwynt i driniaeth ewyllsrydd: mi a'u rhannaf i bump pen, sef Llwyddiant, Gorthrymder, Gair Duw, Ymrysoniad yr Ysbryd, a Gwyrthiau.

1. *Llwyddiant*: hyn yr ydym yn ffeindio ni thycciodd. Pa sawl a fuant waeth, a pha leied os neb, a fuant gwell erddo? Yr union a aeth yn fras ac a wingodd. Yn amser y

Barnwyr, cyn gynted ag y caent lonyddwch, yr oeddent yn syrthio i eilun-addoliaeth; "Pan aeth Uzzia yn gryf, ei galon a dderchafwyd i'w ddinystri ei hun." Y mae rhai "nid ydynt mewn blinder fel dynion eraill: eu llygaid a saif allan gan frasder; aethant tros feddwl calon o gyfoeth," &c. Eithr a ydynt yn well o rau hynny? Nag ydynt, "Balchder a'u cadwynodd hwynt, gosodasant eu genau yn erbyn y nesoedd:" mor wir yw'r gair hwnnw, "Gwneler cymmwynas i'r annwyl, etto ni ddysg efe gyfiawnder; yn nhir uniondeb y gwna ar gam."

2. Ni thyccia blinderau a barnedigaethau. Y mae yn amlwg yn Amos, fod y bobl hynny wedi eu llwytho âg amryw farnedigaethau; etto ni ddychwelasant at yr hwn a'u tarawodd; "Pa fwyaf y tarawyd hwynt, mwyaf y'chwanegasant gildynrwydd. Yr Arglwydd a ddigiodd wrth Ephraim, ac a'i tarawodd ef; ymguddiodd, a digiodd;" (yr hyn yn anod un peth a ddylasai ei gynhyrfu ef): ond beth waeth gan Ephraim? "Efe a aeth rhagddo yn gildynnus yn ffordd ei galon." Y mae'r Iuddewon yn para hyd heddyw yn eu hanghrediniaeth, er bod digofaint wedi ei dywallt arnynt hyd yr eithaf. Y byd anghrist'nogol, pan tywallwyd arnynt phioleidiau digofaint, "a gablasant Dduw, ac nid edifarhasant; canys er pwyo ffol mewn mortar, etto nid ymedy ei ffolineb âg ef:" y mae yn naturiol iddo, ac am hynny yn ddiwahanol.

3. Gair Duw a'i ordinhadau nid y'nt abl i ddychwelyd y galon yn ol. Pobl Israel sydd siampl hynod o hyn; "iddynt hwy yr ymddiriedwyd am ymadroddion Duw; nid oedd Duw mor nesed i un genedl ag iddynt hwy;" etto y bobl fwyaf gildynnus a gwargaled ar wyneb daear oeddent. Yr Arglwydd a anfonodd attynt ei *brophwydi*, gan foreu godi ac anfon: eithr gwelwch pa roesaw y maent yn ei gael! Yn gyntaf, "hwy a amharchasant ei genhadau, ac a'u hanfonasant ymaith yn waglaw:" yno yn eu *curo* ac yn eu *carcharu*; ie, y maent yn myned y'mlaen y'mhellach (canys nid oes diwedd i'r gelyniaeth hwn) i *labyddio* rhai, ac i *ladd* eraill â'r *cleddyf*: pwy a ddihangodd rhagddynt? Yn ddiweddaf y mae yn anfon attynt ei Fab: diau hwy a'i parchant ef! Na wnaent; eithr "hwn yw'r etifedd; deuwch, lladdwn ef:" ac yn llyn yr aethant y'mlaen hyd nad oedd iachâd.

4. Y byd o annwylion yn amser Noa, yn ol eu rhybuddio am y diluw, a gawsont "Ysbryd Duw yn ymryson â hwynt dros ugain mlynedd a chant" ynghyd: ac etto ni ennillwyd dyn yn yr holl fyd. Pa sawl ffordd bu'r Ar-

glwydd yn ymryson â'r bobl yn y diffeithwch, trwy waredigaethau nerthol, ymddangosiadau ofnadwy, rhagluniaethau trugarog, barnedigaethau dychrynlyd; a hyn dros ddeugain mlynedd ynghyd! Ac etto yr oeddent yn myned y'mlaen yn "wrthryfelgar, ac yn gofidio ei Ysbryd sanctaidd ef."

5. Ni thycia gwyrthiau. Pa luaws o'r rhei'ny, ynghyd â barnedigaethau, a ddangoswyd ar Pharao! Ac ni wnaethant ond ei galedu yn fwy. Ac am bobl yr anialwch, ystyriwch yn unig siampl Cora a'i gyfeillion; "Y ddaear a agorodd ei safn ac a lyngcodd" y rhai pennaf o'r tuchanwyr; "gydá'u holl gyfoeth disgynasant yn fyw i uffern." Dau cant a deg a deugain yn ychwaneg a ddifawyd gan dân o'r nefoedd; yr hyn allasid dybyg a fuasai yn peri iddynt ofni'r Arglwydd, a pheidio gwneuthur mwy yn rhyfygus; ac etto y peth nesaf yr ydym yn ei glywed am danynt drannoeth yw eu bod wrth y gwaith drachefn: a hynny nid rhai o honynt, ond yr holl gynulleidfa. Yn ol dwys ystyried hyn oll, y mae yn eglur yn canlyn,

Yn drydydd, 'Mai gwaith Duw yn unig yw y creadur newydd.' Peth o bwys mawr o'i ddwys ystyried.

Yr efangylwr Ioan sy'n gwbl o'n meddwl, o ran gwreiddyn ac achau'r creadur newydd; yn gystal o ba le *nid yw*, ac o ba le *y mae*: "Ni aned ef o waed;" hynny yw, nid yw yn perthyn i neb, ac ni chreuir ef yn neb, fel y maent yn ddynion wedi eu gwneuthur o gnawd a gwaed; neu "o blegid eu bod yn had Abraham" o ran y cnawd: ac ni aned ef "o ewyllys y cnawd;" nid oes gan y nwydau cnawdol anianol ddim i'w wneuthur yn yr enedigaeth ysbrydol: "Nac o ewyllys gwr;" nid yw ein swyddgynheddfau synhwrol, trwy y rhai y mae dynion yn rhagori ar greaduriaid eraill, yn gwneuthur dim i beri i ni fod yn feibion i Dduw: "Eithr o Dduw y mae;" hynny yw, ei waith ef yn unig ydyw; ac nid oes gan y dyn anianol ddim i'w wneuthur ynddo: y mae ef mor gwbl anabl yn y gorchwyl hwn, ag oedd yr esgyrn sychion i beri iddynt eu hunain fyw; neu Lazarus i adgyfodi ei hun; am yr hwn y dywedir, "I'r hwn a fuasai farw ddyfod allan yn rhwym ei draed a'i ddwyllaw;" yr hyn oedd gymmaint arwydd o ddwyfol bwer, ag y darfu i'r Phariseaid eu hunain addef, "Os gadawir ef fel hyn, pawb a gredant ynddo." (A phe ni byddai felly, ni ddyrchefid yr Arglwydd yn unig.) Ac â hwn y mae dysgybl anwyl arall yn cyttuno, sef Iago, "O'i wir ewyllys yr ennillodd efe nyni;" hynny yw, o'i dduwiol bwer ei hun, y mae yn ffurfio ac yn dwyn allan y creadur newydd, heb gymmorth na chydweithiad yr

hen; nid ydynt yn gwneuthur dim mwy tuag atto na'r rhai sydd yn cysgu yn y llwch i adgyfodiad eu hun. Y mae Pedr hefyd yn dywedyd, "Ei eni o had anllygredig;" a Ioan drachefn, "Ei eni o'r Ysbryd;" sef mai hiliogaeth Duw yw. I'r un ystyr y mae'r prophwyd yn dywedyd, "Ti Arglwydd a wnaethit ein holl weithredoedd ynom ni;" a Phaul, "Ei waith ef ydym;" a'r Salmydd, "Ese a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain, yn bobl iddo ef." Yr ydys yma, ac yn Ioan, yn dywedyd yn eglur, o b'le y mae, ac o b'le nid yw; yn hwrpasol i gau allan dros byth beth bynnag sydd mewn dyn, rhag bod mewn un modd yn offerynol i'r greadigaerh newydd; ac fel y cyfrifid yr holl waith i Dduw yn unig: yr hyn yn ddiau yw meddwl yr holl ysgrythyrau hynny lle sonir am dano megis am greadur; yr hyn sydd yn eglur yn dal fod y cwbl o hono, ei ddefnydd a'i ffurf, oddi wrth y Creawdwr: canys, mewn gwirionedd, nid oes sail arall i *greadur*, ond "boddlonrwydd ewyllys Duw." Ni allwn nodi y'mhellach, bod yn dywedyd yn Iago, mai "Tad y goleuni a'i ennillodd;" ac yn y Galatiaid, mai "y Jerusalem uchod yw ei fam;" ac yn Ioan, megis o'r blaen, "Ei eni o'r Ysbryd." Yn awr, gan fod y *Tad* a'r *fam*, yr hwn sydd yn ennill, ac yn ymddwyn, eich dau yn y nefoedd, pa le sydd i ddyn daearol gymmeryd arno fod yn dad i'r creadur newydd?

Ac y'mhellach, fe dal i ni nodi, 1. Pa fath offerynau a arferwyd gan mwyaf yn y gwaith hwn: nid y dysgedig, ond yr annysgedig; ac o'r rhei'ny y cyfryw, yn fynychaf, ag nid oedd hyddysg i ymadrodd, nac o bresennoldeb awdurdodol: a hyn oll i ddangos ac i amlygu i ddynion, "nad oedd eu ffydd yn sefyll mewn (nac yn dyfod o, nac yn cael ei chynnal gan) ddoethineb dyn, ond nerth Duw." 2. Mor *anaddas* yn gyffredin oedd y rhai oeddid yn alw i dderbyn y cyfryw egwyddorion goruchel: nid llawer o'r *doethion* a'r *boneddigion*; ond y *tlawd*, y *distadl*, a'r *ynfyd*, (mewn cyffelybiaeth i eraill); a phaham y rhei'ny? Diau mai i wneuthur allan wirionedd a adroddir yma; sef, "fel na orfoleddai un cnawd ger ei fron ef." Eithr daliwch sylw, nad oeddid yn cau allan y *doethion* a'r *boneddigion* 'chwaith; fel yr ymddengys wrth *wraig* goruchwyliwr Herod, Joseph, Nicodemus, a Sergius Paulus, gwr doeth; yr hyn sydd y'mhellach yn amlygu gallu Duw, yr hwn a ddygodd i mewn y cyfryw rai trwy'r fath foddion gwael a distadl. 3. Mor eglur y mae yr ysgrythyr yn cyfrif y gwaith i Dduw: yr hwn a fyddai amherthynol iawn, pe byddai *ffydd* a *sancteiddrwydd* mor

gyffredin, ac mor hawdd eu cael; a dyn anianol yn offeryn mor nerthol ac mor rhinweddol yn y matter hwnnw, ac y mae rhan fwyaf yn tebyg. Paul sy'n ei alw yn "ffydd gweithrediad Duw:" ac Esay yn beth, yn yr hwn y "datgyddier braich yr Arglwydd; y dinoethir ac y gosodir allan ei fawr nerth ef: ein lachawdwr sy'n ei gyfrif i "Dduw Dad" fel y mae yn "Arglwydd nef a daear." A Phaul drachefn sydd yn ei briodoli i "ragorol fawredd ei nerth ef, sef y nerth trwy'r hon y cyfodwyd Crist o feirw;" pan yr oedd pechodau ei holl bobl yn gorwedd arno; a holl genfigen, nerth, a dichell gallu'r tywyllwch yn arfog yn ei erbyn: Yr hyn yn ddiau oedd yr amlygiad mwyaf o allu Duw, ag a fu erioed neu a fydd byth.

III. *Yr hyn nesafi'w ddangos yw, I bwy mae'r pethau rheidiol hyn yn perthyn, a pha fodd?*

Yr ateb yw, y maent oll yn perthyn i'r etholedigion, a hynny o ran eu hetholedigaeth. Geiriau perthynol yw ffydd ac etholedigaeth; y mae pob credadyn yn etholedig, a phob un etholedig yn bod neu i fod yn gredadyn. Yr hawl hon yn ddilys a seilied yn fwyaf digyfrwng ar Brynedigaeth; ond gan eu bod yn wreiddiol o Etholedigaeth, mi a soniaf yma yn unig am hynny. Gosod achosion, yn lle effeithiau, ac effeithiau yn lle achosion, sydd ynfyrwydd mawr mewn pethau naturiol; eithr pa mor barod ydym i wneuthur hynny mewn pethau o dragywyddol bwys? Yr hyn fwyaf sydd yn dyfod oddiwrth falchder ein hysbrydoedd, am y mynnem wneuthur rhyw beth tu ag at ein hiechydwrriaeth ein hunain; ac am hynny yr ydym yn ei gyfrif i bob achos, yn hytrach na'r hwn sydd briodol iddo. Drwg mawr yw hwn, ac yn fwy peryglus ac embeidius, o herwydd bod yn ei arddel gan rai profeswyr enwog; a hynny gydâg ymddangosiad mawr o reswm am dano. I ateb yr hyn, eich ffordd fwyaf rhesymol yw chwilio ac ystyried yr ysgrythyrau; y rhai y mae eu tystiolaeth yn wastadol yn cyttuno â gwir reswm: ac os bydd i chwi ar y graddau hyn, olrhain iechydwrriaeth, a'r holl bethau perthynol iddi at y gwreiddyn; chwi a'u cewch hwynt i gyd yn gwbl ac yn hollol o Dduw, ac yn gynhwysedig yn yr un arfaeth; ac yn ganlynol, mae effeithiau a chanlyniadau, sicr Etholedigaeth yw ffydd a sancteiddrwydd.

Y mae iechydwrriaeth yn iaith yr ysgrythyr o arwyddocâd tra helaeth, yn cynnwys beth bynnag y sydd reidiol mewn un modd i berffaith gyflawniad y peth: iechydwrriaeth oddi allan, sydd yn cynnwys beth bynnag sydd yn perthyn i

ddiogelwch dyn, o ran ei gyflwr oddi allan; megis bara, dwfr, caerau a rhagfur, &c. Esa. 26. 1. "Iechydwrïaeth sydd gaerau a rhagfur;" hynny yw yr addewid o iechydwrïaeth, sydd yn cynnwys ynddo bob peth perthynol i ddiogelwch: felly iechydwrïaeth ysbrydol, beth bynnag sydd yn perthyn i wynfydedigrwydd a gogoniant, sef "Prynedigaeth oddiwrth bechod, ffydd, sancteiddrwydd, a pharhad hyd y diwedd;" y rhai pe byddid heb yr un o honynt ni thalsai'r lleill ddim; fel na ellwch escyn ar hyd yr ysgol os bydd un ffon yn eisïau. Os dyru un i mi faes o dir wedi ei amgylchu, y mae'r gyfraith yn rhoddi i mi ffordd, (er nad oes son am hynny yn fy ysgrifen i) i gymmeryd ei ffrwythau ef; oni b'ai hynny ni thalai ei rodd ef ddim i mi. Iechydwrïaeth yw'r hyn a roddir i'r etholedigion; ffydd a sancteiddrwydd, y ffordd angenrheidiol i'r gweithredol fwynhad o honi; ac am hynny rhaid eu hordeinio, ac fe a'u hordeiniwyd i hynny yn gystal ag i'r iechydwrïaeth ei hun. Canys, gan iddo "eu rhagluniaethu i fabwysiad; ac i fod yn un ffurf â delw ei Fab ef;" yr hyn ni chyflawn berffeithier hyd oni ymddangoso mewn gogoniant; rhaid eu bod hefyd wedi eu hordeinio i'r holl bethau a'r grasusau cyfryngol ag sydd yn rheidiol i hynny. Canys hawl i'r dyben, sydd yn rhoddi hawl i'r moddion: ac am hynny y dywedir eu bod wedi eu "hethol i iechydwrïaeth trwy sancteiddiad yr ysbryd a ffydd i'r gwirionedd." Wrth arfaethu y mae Duw yn ewyllysio'r dyben yn gyntaf, ac yno'r moddion: ond wrth gyflawnu, y moddion yn gyntaf, megis yn arwain at y dyben; y dyben yw achos y moddion, ac etholedigaeth yw achos y ddau.

Yr oedd addewid o Ganaan i had Abraham, yn cynnwys beth bynnag oedd raid ei ddigwydd rhwng gwneuthuriad yr addewid, a'r perffaith gyflawniad o honi, megis, 1. Amlhau ei had ef yn genedl. 2. Rhwystro Esau, Laban, ac eraill, i'w drygu. 3. Parottoi iddynt yn amser newyn. 4. Eu lluosogi yn yr Aipht, er dim allai cyfrwystra a chreulonder yr Aiphthiaid i wneuthur i'w cadw tan law. 5. Eu dwyn allan â llaw uchel, er bod Pharaoh yn llawn fwriadu eu hattal ac yn alluog i'w gwrthwynebu. 6. Agor y môr o'u blaen a pharottoi iddynt ffordd yn y diffeithwch. 7. Gwneuthur i galonau eu gelynion ballu, a myned fel y dwfr. 8. Anfon y caccwn o'u blaen ac ymladd drostynt, &c. (Canys, oni buasai hynny, ni buasai gwaith Duw yn rhoddi Ganaan, ond cyffelyb i waith y Pab yn rhoddi Lloegr i'r Yspaniaid; sef, os gallent ei hennill hi.) Ac yn ddiweddaf; macdeu eu mhawrion, eu huchel, a'u haml anwiredd; trwy y

rhai yr oeddent beunydd yn ddarostyngedig i ddigofaint a distryw. Felly y mae *Etholedigaeth*; y mae hi yn cynnwys ynddi beth bynnag sydd fuddiol i gyflawnu y sanct i ogoniant. O herwydd hynny, y mae'r apostol yn cyssylltu tragywyddoldeb o'r blaen, a thragywyddoldeb ar ol; yn gosod *Etholedigaeth* a gogoniant y naill gyferbyn a'r llall: galwedigaeth a chyfiawnhad (megis peth cyfryngol,) y mae yn eu seilio ar y naill, mewn trefn i'r llall; ac yn dangos eu trefn i chwi, yn Rhuf. 8. "Y rhai a ragwybu, a ragluniodd ef hefyd (i beth?) i fod yn un ffurf â delw ei Fab ef, a'r rhai a ragluniodd efe, y rhai hynny hefyd a alwodd efe." Ac i beth y galwodd ef hwynt? "I sancteiddrwydd, i ogoniant a rhinwedd, a'r rhai a alwodd efe," y rhai hynny hefyd a gyfiawnhaodd ac a ogoneddodd efe; yr holl bethau hyn ydynt oll yn perthyn i'r un rhai, trwy rinwedd yr un arfaeth; ac ni bu un o honynt erioed heb y llall.

Yr un fath ganlyniaeth o achosion ac effeithiau sydd yn Ezec. 26. Y mae'r Arglwydd yn eu cael yn eu gwaed, sef, yn eu cyflwr naturiol colledig: y mae yn gwneuthur cyfammod a hwynt, ac yn eu cymmeryd yn eiddo ef ei hun; dyna eu *Hetholedigaeth*: Yna y mae yn eu golchi, a hynny yn lân; dyna eu cyfiawnhad: ac yno yn eu haddurno: a thyna eu sancteiddiad; yr hwn yn wastad sydd yn diweddu mewn gogoniant. Yn Act. 17. y cewch Paul yn pregethu yn Thessalonica: y mae yn cynnyg yr un athrawiaeth i bawb yn gyffredinol; a rhaid iddo wneuthur hynny, canys nid yw'r gweinidog yn adnabod yr etholedigion oddiwrth eraill; eithr yr Ysbryd Glân, yr hwn sy'n chwilio dyfn bethau Duw, ac i'r hwn yr ymddiriedwyd am y gwaith hwn, yr oedd ef yn eu hadnabod wrth eu henwau, ac felly yn eu cymmeryd; ac yn eu casglu bob yn un ac un, (pob un yn ei amser priodol) ac yn agor eu clustiau hwy i dderbyn cerydd; gan eu gwneuthur, yr hyn y dewiswyd hwynt i fod. A'r un apostol, yn ei lythyr at y Thessalonïaid, lle mae yn canmol effeithiau'r bregeth hon, sy'n dangos mae eu hetholedigaeth oedd yr achos o'u troedigaeth; "gan wybod, frodyr anwyl, eich etholedigaeth chwi gan Dduw; o blegid ni bu ein hefengyl ni tu ag atoch mewn gair yn unig," (megis y bu tu ag at eraill,) 'eithr hefyd mewn nerth:' felly yn yr Actau, "Cynnifer ag oedd wedi eu hordeinio i fywyd tragywyddol a gredasant; a'r Arglwydd a chwaregodd at yr eglwys beunydd," (ond pwy?) "Y rhai a fyddent gadwedig:" galwedigaeth effeithiol sy ddangosiad eglur o *Etholedigaeth*, a'r effaith gyntaf wrth yr hon y gellir ei hadnabod.

Y ffydd werthfawr, trwy yr hon ein achubir, a gair "trwy gyfiawnder Duw, a'n Hachubwr Iesu Grist." Hi a roddir trwy gyfiawnder Duw Dad; ac felly mai hi yn perthyn, naill ai i'w waith ef yn ein hordeinio i fywyd tragywyddol, yn yr hon weithred yr ymrwymodd i roddi i ni ffydd, ac am hynny y gelwir hi yn ffydd etholedigion Duw; neu i'r addewid a wnaeth ef i Grist, "Pan osodai ef ei enaid yn aberth dros bechod, y cai ef weled ei had;" neu i'r ddau.—Y mae hi ddwy ffordd yn perthyn i gyfiawnder Crist; 1. Fel yr achos haeddedigol o honi; ac felly y mae'r ffydd hon yn ddyledus i bob un ag y bu ef farw drosto. Neu, 2. Megis y mae efe yn was ffyddlon, ag sydd yn rhoddi i bob un yn ol yr hyn a dderbyniodd iddynt gan y Tad: yn yr holl ystyr-iaethau hyn, y mae hi yn eglur yn tarddu oddiwrth Etholedigaeth. I gadarnhau hyn, Pedr sy'n dywedyd yn y blaen yn ei lythyr cyntaf, eu bod yn "etholedigion i ufudd-dod a thaenelliad gwaed Iesu Grist. Felly dirgelwch ei ewylllys a byspysir yn ol ei foddlonrwydd ei hun, yr hon a arfaethodd efe ynddo ei hun." Yr un peth sydd gennym yn y Corinthiaid; "Yr ymadrodd am y groes, i'r rhai colledig ynfydrwydd yw; eithr i ni y rhai cadwedig, nerth Duw ydyw:" ac yn Nhimothy, "Yr hwn a'n achubodd ni, ac a'n galwodd â galwedigaeth sanctaidd." Yn y ddau le, yr ydys yn gosod achub o flaen galw; ac felly yn ganlynol o flaen ffydd: ac ni allwn ganfod, pa fodd yr achubir dynion cyn credu, oddi eithr trwy Etholedigaeth, neu Brynedigaeth (yr hon sydd o'r un helaethrwydd ag Etholedigaeth). I'r dyben hwn y gallwn nodi y'mhellach, fod yr apostol, yn Rhuf. viii, yn gosod rhagluniaeth o flaen galwedigaeth; fel cadwedig, yn Timothy a'r Corinthiaid; ac yn Rhuf. ix, y mae yn gosod galwedigaeth ar ol rhagluniaeth, o ran amser. Y mae Judas hefyd yn cyttuno â hwy; lle mae yn anfon ei lythyr at "y rhai a sancteiddiwyd gan Dduw Dad, ac a gadwyd yn Iesu Grist, ac a alwyd." Wrth sancteiddio, yr y's yn meddwl ethol neu neillduo: yn yr ystyr hwn yr arferir y gair mewn lleoedd eraill, lle ni ellir ei ddyall mewn modd arall, Ecs. xxxi, 14. "Myfi yw yr Arglwydd sydd yn eich sancteiddio:" ac yn eglurach, Num. viii, 17. "I mi y perthyn pob cyntaf-anedig yn mhlith meibion Israel; er y dydd y tarewais bob cyntaf-anedig yn ngwlad yr Aipht, y sancteiddiais hwynt i mi fy hun:" ni ellir yma ei gymmeryd mewn un ystyr ond ethol neu neillduo: ac nid oes unrheswm paham na ddylid ei ddyall felly yn Judas hefyd.

A hi a elwir yn alwedigaeth *sanctaid*, nid yn unig o ran ei bod yn galw i *sancteiddrwydd*; ond o herwydd ei bod yn gyssygreddig, yn briodol, yn neillduol, ac yn perthyn i bobl sanctaid, sef i'r rhai a neillduodd Duw iddo ei hun: ei waith ef yr eu sancteiddio yn weithredol mewn amser, "A chariad tragywyddol y carodd hwynt, am hynny y tynnodd hwynt a thrugaredd:" ac y mae'r sancteiddiad gweithredol hwn mor sicr yn canlyn yr arfaeth, ac mor briodol i'r un rhai, ag yr ydys yn arfer yr un gair i arwyddocau y ddau; i.e. a phrynedigaeth hefyd; "Er eu mwyn hwy," medd Crist, "yr wyf yn fy sancteiddio fy hun." Y mae gennym siampl eglur o hyn yn Eldad a Medad, y rhai, er na ddaethant i'r babel gyda'u brodyr, etto am eu bod o'r rhai a ysgrifenasid, yr Ysbryd a orphwysodd arnynt, a hwy a brophwydasant yn y gweryll: y mae Etholedigaeth yn chwilio rhai allan, pan na byddont yn meddwl am hynny. Y mae'r Arglwydd yn gyntaf yn appwyntio Jeremy i'w swydd; ac yno yn estyn ei law ac yn ei gymhwyso i'r gwaith. I.e. Crist ei hun a appwyntiwyd yn gyntaf i swydd Cyfryngwr; ac yno yr Ysbryd a ddaeth arno, o herwydd ei fod wedi ei appwyntio.

Ymofyniad. Fe ddywedir yn Ioan i, 12. mai "i gynnifer ag a'i derbyniasant ef, y rhoddes allu i fod yn feibion i Dduw;" wrth yr hyn y gallem dybyg bod eu ffydd yn rhagflaenu eu mabolïaeth?

Atteb. Er bod ffydd yn rhagflaenu amlygiad o'n mabolïaeth, etto nid yw yn rhagflaenu ein mabolïaeth ei hun; i fabwysiad ein hetholwyd cyn seiliad y byd. Dywediad Ioan, gan hynny, sydd i'w ddyall fel dywediad Moses, I.e. wrth bledio â Duw am ei bresennoldeb gyda'i bobl, y mae yn dywedyd, "Felly myfi a'th bobl a neillduir oddiwrth yr holl bobl sydd ar wyneb y ddaear;" nid o ran bod y neillduoeth hwnnw i'w wneuthur yn awr; yr oeddent wedi eu neillduo o'r blaen: eithr ei feddwl yw, yr amlygid eu neillduoeth hwn, trwy i'r Arglwydd fyned gyda hwynt. Yn yr un ystyr y mae i ni gymmeryd Mat. v. lle dywedir, "Carwch eich gelynyon, bendithiwch y rhai a'ch melldithiant, fel y byddoch (sef fel yr amlygoch eich bod) yn blant i'ch Tad sydd yn y nefoedd:" yn yr un modd yr ydym "yn blant i Dduw trwy ffydd," Gal. iii, 26.

Nid blodeuad gwialen Aaron a barodd i'r Arglwydd i ddewis ef yn offeiriad; ac nid syrthiad y goelbren ar Saul, ac yn ol hynny ar Mathias, a wnaeth i'r Arglwydd eu dewis y naill i'r deyrnas, a'r llall i'r apostoliaeth; yr oeddent eich dau wedi eu dewis o'r blaen, ac nid oedd y digwyddiadau

hynny ond effeithiau ac amlygiadau o'u rhag-ordeiniad. Felly y mae rhoddiad yr Ysbryd yn canlyn Etholedigaeth; "O herwydd eich bod yn feibion yr aafonodd Duw Ysbryd ei Fab i'ch calonau chwi." Er bod yr amlygiad o'n mabwysiad, a'r gweithredol fwynhad o hono mewn amser, etto yr oeddem wedi ein rhaglunio i'r peth er tragywyddoldeb. Yn ganlynol i hyn, y mae ein Hiachawdwr "yn egluro enw ei Dad i'r dynion a roddasai ef iddo ef allan o'r byd, a'r rheiny sydd yn ei dderbyn: ei ddefaid sydd yn gwrando ei lais, ac yn ei ganlyn ef." eithr am eraill y mae yn dywedyd yn eglur, "Chwi nid ydych yn credu, canys nid ydych o'n defaid i: y mae yr hwn sydd o Dduw yn gwrando geiriau Duw; am hynny nid ydych chwi yn eu gwrando, am nad ydych o Dduw." Yr un rheswm y mae yn ei roddi am wahaniaeth ei ymddygiad tuag at ei eiddo ei hun ac eraill; i'r naill y rhoddiwyd gwybod dirgelion teyrnas nefoedd, ac ni roddwyd i'r lleill: am hynny, yn ol diweddu ei ddatnhegion, y mae yn gollwng ymaith y dyrfa, megis pe na b'ai ganddo ddim ychwaneg i'w ddywedyd wrthynt; ond yn egluro pob peth o'r neilldu i'w ddysgyblion: chwi welwch ei fod yn dangos mai Etholedigaeth sydd yn gwneuthur y gwahaniaeth; "I chwi y rhoddiwyd," hynny yw, yr oedd yn perthyn iddynt wrth rodd ac appwyntiad Duw; y maent yn gyntaf wedi eu hethol, ac yno wedi eu galw i fod yn saint.

Pan ymddangosodd Crist i Paul wrth fyned i Damascus, y rhai oedd gydag ef oeddent oll mewn braw; yr oeddent yn clywed llais, ond ni wyddent beth oedd yn ei ddywedyd: paham felly, gan eu bod mor debygol i wrando ag yntef? Nid oeddid yn ei amcanu iddynt hwy; ac am hynny ni agorwyd eu clustiau, ac ni chyfeiriwyd yr ymadrodd attynt hwy, ond at Paul; ie at Paul erbyn ei enw: ond paham at Paul, yn hytrach na'r lleill, ond ese oedd y blaenaf, a'r erlidiwr gwaethaf yn y cwmpeini? "Llestr etholedig oedd Paul;" a hyn yn fyr oedd y rheswm, fel y dywedir, Act. xxii, 14. "Duw ein tadau ni a'th rag-ordeiniodd di, i wybod ei ewyllys ef." Yr oedd gan yr Iuddewon amryw foddion i adnabod y Messia, ac amrafael annogaethau i gredu ynddo, y rhai nid oedd gan y Cenhedloedd; ac etto y rhai hynny yn derbyn yr efengyl, pan y mae yr Iuddewon yn ei gwrthod. Y rhai oedd yn dilyn cyfiawnder ni chyrhaeddasant ef; er i'r rhai nid oedd yn dilyn cyfiawnder ei gyrraedd. Fe a'n hanfonir at Etholedigaeth am y rheswm o'r gwahaniaeth hwn, "Yr etholedigaeth a'i casas, a'r lleill a galedwyd."

Pa anryw effeithiau sydd gan bobl wrth wrando yr un gair? y defaid ac eraill sydd yn mwynhau yr un moddion oddi allan: y mae un yn ei esgeuluso; nid yw yn gwrando nac yn ystyried beth y mae yn ei glywed: ac un arall yn beio arno; fel y gwnaeth yr Iuddewon yn fynych: y mae'r trydydd o fewn ychydig i'w ennill; fel yr oedd Agrippa, a'r rhai oedd yn ewyllsio clywed Paul drachefn: y pedwarydd a ddwysbigir yn ei galon, ac a ennillir yn gwbl. Y mae yn drangwydd i rai, ac yn ymfydrwydd i eraill, ac i rai yn allu Duw, y rhai hyn yw'r etholedigion, i'r rhai y gwnaethpwyd yr addewid: ac am hynny gelwir hwynt "y rhai a alwyd yn ol ei arfaeth ef; ac yn ol ei arfaeth ei hun a'i ras, a'r hwn a roddwyd i ni yn Nghrist Iesu cyn dechreu'r byd;" y maent yn gyntaf wedi eu dewis, ac yn ol hynny wedi eu hagosau at Dduw.

Nid oes dyben ar ysgrythyrau i'r pwrpas hwn: mi soniaf am un y'mhellach, ac felly y diweddaf y pen hwn. Yr holl fendithion y mae'r saint yn eu cael *mewn amser*, a roddir yn ol arfaeth Duw o Etholedigaeth *cyn amser*; fel y mae yn amlwg, Eph. i, 3, 4, 5. Lle yr wyf yn dat sylw, 1. Bod Etholedigaeth yn rhagflaenu gweithredol gyfranniad doniau ysbrydol; canys y naill a gyfrannir mewn amser, a'r llall oedd cyn amser; ac ni all yr hyn sydd yn dyfod ar ol, fod yn achos o'r hyn a aeth o'r blaen. Fe all un effaith fod yn achos o'r llall; ond ni all un peth fod yn achos o'i wreiddyn ei hun. 2. Bod y gweithredol gyfraniad o ddoniau ysbrydol yn ol Etholedigaeth; neu mai Etholedigaeth yw'r rheol wrth yr hon y cyfrannir hwynt: y mae yn gyttunol a, ac yn gyf-atebol i Etholedigaeth, fel y llythyrenau i'r print-wasg; neu'r babell i'r portreiad yn y mynydd; yn ol yr hwn y gwnaethpwyd pob peth, yn gystal o ran rhif, pwys, a mesur, ac o ran llun a ffurf. Nid y's yn cyfrannu bendithion ysbrydol i neb yn fwy neu yn llai, ond yn uniawn fel y trefnodd Etholedigaeth: yr hyn a gadarnhair y'mhellach oddi wrth Dat. xxi, 27. Lle yr ydym yn ffeindio na dderbynir neb i'r ddinas sanctaidd, "ond y rhai sydd wedi eu hysgrifenu yn llyfr bywyd yr Oen; a phwy bynnag ni chafwyd wedi ei 'sgrifenu yn llyfr y bywyd, bwriwyd ef i'r llyn o dân;" yr hyn sydd yn dangos y byddir yn cyfrif yn y dydd olaf "i gynnifer ag oedd wedi eu hordeinio i fywyd tragywyddol gredu;" ac i bawb na etholwyd farw mewn anghrediniaeth; ac mai yr "Etholedigaeth a'i casas, a chaledu y lleill;" am hynny, nid achos Etholedigaeth yw ffydd a sancteiddrwydd, ond effeithiau sicr ag y sydd yn ei chanlyn hi.

Os myn neb ofyn (ar y ffordd) yn mheth y mae cariad neillduol Duw tuag at ei etholedigion yn ymddangos cyn eu troedigaeth? ni allaf ddatguddio neb-rhyw amlygiadau eglur agored o hono, trwy yr hyn y gellid adnabod yr etholedigion oddiwrth eraill; gan fod pob peth oddi allan yn digwydd yr un i bawb: tra fo "yr etifedd yn fachgen, nid oes dim rhagor rhyngddo a gwas, er ei fod yn arglwydd ar y cwbl," trwy Etholedigaeth. Ond etto y mae amryw weithrediadau grasol o'r cariad hwnnw tuag attynt, ie mewn rhagluniaethau cyffredin, er na ellir eu canfod hyd yn ol llaw: megis,

1. Yn cadw yn fyw y gwreiddyn a'r boncyff o'r hwn yr oeddent i flaguro: nid hyn, fe allai, oedd yr achos lleiaf o 'chwanegu pumtheg mlynedd at fywyd Hezecia; sef er mwyn Josia, yr hwn oedd i ddyfod o'i lwynau ef; gan nad oedd Manasse ei dad wedi ei eni etto: felly dyddiau y blinder mawr a fyrhawyd, a llawer o'r Iuddewon trwy ragluniaeth neillduol, a gadwyd yn fyw, er mwyn yr etholedigion a enid o'honynt, fe allai ddwy fil o flynyddau ar ol hynny.

2. Yn achub yr etholedigion eu hunain oddiwrth amryw o farwolaethau, i'r rhai yr oeddent yn ddarostyngedig cyn eu troedigaeth; fel y gwnaeth i Manasse: a hyn a wnaeth i'r Arglwydd, pan yr oeddent yn rhwyd satan, wedi eu tynnu hysu i'n uffern, "anfon o'r nefoedd a'u gwared hwynt;— Gollwng ef, myfi a gefais iawn;" yr hyn sydd fel pe dywedasai, Eiddo fi yw, a mi a'i harfaethais ef i ddyben arall.

3. Yn eu cadw rhag y pechod ni faddeuir: felly Paul, yr hwn oedd lestr etholedig, a gadwyd rhag y wybodaeth o Grist, yr hon oedd gan rai o'r Phariseaid; canys oni buasai hyn, ni fuasid yn maddeu ei waith yn erlid eglwys Dduw, fel y mae yn amlwg oddiwrth 1 Tim. i, 13. "Mi a gefais drugaredd, am i mi ei wneuthur yn ddjarwybod."

4. Yn trefnu i'w trigfanau fod, lle mae ef wedi plannu, neu ar fedr plannu, moddion gras; neu yn eu dwyn trwy ei ragluniaeth i'r lle y bo i ryw air effeithiol gael ei ddywedyd wrthynt: yr hyn sydd wir yn nhrigolion Corinth, i'r rhai yr oedd yn rhaid i Paul bregethu, heb dewi; o herwydd, medd yr Arglwydd, "y mae i mi bobl lawer yn y ddinas hon:" ac yn y rhai a ddaethant i Jerusalem ar wyl y Pentecost, o holl ranau'r byd; yr hyn a roddodd iddynt achlysur i ddyfod ynghyd i wrando pregeth Pedr, trwy yr hwn y trowyd mil-oedd: ac a eglurhair y'mhellach yn hanes yr eunuch; ac hefyd yn Zacheus, yr hwn nid oedd yn amcanu dim mwy na gweled pa fath ddyn oedd Crist, am yr hwn y clywsai

gymmaint son; ac am ei fod yn fyr o gorpholaeth y mae yn dringo i bren, lle mae iechydwrïaeth yn cyfarfod âg efe a'i deulu.

IV. *Y peth diweddaf ag yr ydym i ymosyn am dano yw, Y ffordd a'r modd ag y mae Duw yn cyfrannu bendithion ysbyrdol, sef yn effeithiol ac yn rhad.*

Yn gyntaf, Yn effeithiol. Ni thynnir yr enaid at Dduw wrth edefyn; ac nid yw'r Arglwydd yn ymfoddloni ar ddy-muno ac ewylllysio ei fod felly, megis y mae dynion; y rhai sydd naill ai yn ddi-fatter yn y peth, neu heb fodd i gyflawni eu dymuniadau: nac yn unig trwy gynnyg iddynt, eu cynhyrfu a'u hannog â rhesymau, cyfarwyddiadau, bygythion, a'r cyffelyb; (y rhai ni allant wneuthur dim yn y dealldwrïaeth tywyll, a'r gelyniaeth setledig, yr hwn sydd yn mhob dyn wrth natur): ond trwy osod allan *allu anorchfygol*; gallu na chymmer ball, eithr yr hyn a ewylllysio, hynny a wna; yr hyn y mae yn gymmeryd arno, y mae yn myned trwyddo. Gwneuthur peth yn *effeithiol*, yw ei wneuthur *trwyddo*, yn *berffaith*, yn *llwyddiannus*; arfer a chymhwyso y moddion felly, fel bo'r dyben a amcanodd yn cael yn sicr ei ddwyn i ben; a hyn er gwaethaf holl weridid, gwrthwynebrwydd, a gelyniaeth syniad y cnawd yn ei erbyn.

Myfi allwn son am siamplau nid ychydig, o waith Duw yn *effeithiol weithredu* i ddwyn o gylch bethau o lai pwys. Pa mor anewyllysgar oedd Moses i fyned yn gennad at Pharao? mor wrthwynebus yw, ac y mae, pan nad oedd ganddo na rheswm nac esgus y'mhellach, yn ymddwyn yn wrthnysig yn erbyn yr Arglwydd, gan ddywedyd, "Danfon gyda'r hwn a ddanfonech!" ond gan i Dduw ei appwyntio i'r gwaith, nid yw yn ei adael nes ei ennill i'r peth. Felly mae Pharao yn llawn swriadu na adawai i'r bobl fyned ymaith; ond, "Mi a estynaf fy llaw," medd Duw, "ac efe a'ch gollwng chwi ymaith." Mwy o lawer y noetha ef ei fraich er iechydwrïaeth i'w etholedigion, y rhai a garodd ef er tragwyddoldeb: a rhaid gwneuthur felly.

I. O herwydd oni b'ai hynny, ni byddai'r etholedigion mewn dim gwell cyflwr na dynion eraill; canys y maent, cyn eu troedigaeth, mor ddiogel gan satan a dynion eraill. Prif waith diafol oedd cwmp Adda: dwyn dynion i'r un damnedigaeth ag ef ei hun, yw yr hyn y mae yn gorfoleddu ynddo; a chan ei fod yn dywysog balch, cyfrwys, uchel, na thybygwch y cymmer ef ei wawdio a'i gellwair allan o'i feddiant: nid yw ef yn prisio am eich gwaith yn ymbil, yn by-

AM ALWEDIGAETH EFFEITHIOL. 163

gwth, neu yn ymresymu; y mae yn chwerthin am ben eich rhesymau cadarn, ac yn eu cyfrif fel coed pwdr; yr "Iesu yr wyf yn ei adnabod, a Phaul a adwaen;" ond beth yw y rhai'n? nid â y rhyw hyn allan trwy gyttundeb; nid oes dim yn abl ei gynhyrfu ond y gallu hwnnw, i'r hwn y mae'r nefoedd a'r ddaear yn ymddarostwng; yr hwn a'i gwnaeth yn unig a all beri i'w gleddyf agoshau atto, a dwyn yr yspail ar y *creulon* hwn. Ac o'r achos hyn y mae ein *Hiachawdwr* yn dywedyd wrth ei apostolion, (pan yr oedd yn eu hanfon i droi dynion oddiwrth satan at Dduw) "bod awdurdod yn y nefoedd ac ar y ddaear wedi ei roddi iddynt;" ac "y byddai ef (yn yr awdurdod hwnnw) gydâ hwynt hyd ddiwedd y byd:" yr hyn yn ddiâu oedd reidiol; canys ofer a diffrwyth y fuasai eu gwaith, oni buasai i Grist, wedi ei awdurdodi yn llyn, fyned gydâ hwynt. Ac am yr etholedigion, nid ydynt (o'u rhan eu hunain) ddim barottach i'r gwaitn hwn, nâ'r rhai na throir byth: y maent "yn elynion yn eu mheddwl, yn dywyllwch, yn farw mewn pechod, ac yn blant digofaint yn gystal ag eraill;" a hyn oll wrth natur: ni allasid, gan hynny, gyfnewid eu cyflwr, oni buasai bod *gallu anorchfygol, llawn-fwriadol*, yn yr hyn y mae yn gymmeryd arno, wedi ymrwymo yn y peth. Ephraim, er ei fod yn llestr etholedig, etto, tra parhaodd yn ei gyflwr naturiol, yr oedd cynddrwg ei natur na allai dim moddion moesawl dyccio gydâg ef. Er anfon cenhadau atto yn foreu ac yn hwyr, y mae yn tynnu ymaith ei ysgwydd: yr Arglwydd a ddigiodd wrtho, a'i tarawodd, ac a guddiodd ei wyneb oddi wrtho, ond efe a aeth y'mlaen yn gildynnus: dangosodd iddo ei glefyd, fel na allai nâ'i ganfod; ac y mae yn hebrwng at frenin Jareb, (yn myned bob ffordd yn hytrach nâg yn dychwelyd at yr hwn a'i tarawodd): cymmerwch ymaith y iau oddi ar ei foch-gernau, rhoddwch iddo ryddid ei ewyllys, a'r peth cyntaf ag a gymmer ef yn llaw y fydd y ffrwyth gwaharddedig: rhoddwch ymborth wrth ei enau, ie yr hyn sydd ymborth mewn gwirionedd, a gwell ganddo newynu na bwyta; (gwell gan y rhai a adawyd i ryddid eu hewyllys eu hun fyned i uffern, na bod yn rhwymedig i rydd ras am iechydwrïaeth). Eithr, medd yr Arglwydd, "A mab hoff geanyf yw Ephraim?" A'r un y brynais am werth yw? "Ai plentyn hyfrydwch yw?" un a gerais er tragywyddoldeb; ac a gollaf ef? A geir ddywedyd i mi wneuthur creadur, yr hwn na allwyf ei reoli a'i ddwyn at fy ewyllys? neu i mi wneuthur i'r cyfryw ddyben? Na allid gwneuthur drosto yr hyn oll ag sydd dueddol i'r dyben hwnnw? A gaiff fy ewyllys i ei chroesi yn hytrach nâ'i ew-

yllys ef? Myfi i'w ddinystrio ef, yn hytrach nâg iddo ef i fod yn gadwedig? Nag é, ni wnaethum hyn oll i'w golli ef yn y diwedd: ac ni chymmerais ganddo fy nhroi ymaith, eisiau gallu gwell; eithr fel y gallai efe weled beth y ddeuai o hono, pe gadawsid ef i ryddid ei ewyllys ei hun; (rhydd yn ddiau yn unig i'w ddinystri ei hun!) ac yn awr mi a'i iachâf ef; ac effaith gyntaf yriachâd hwn oedd gwaith Ephraim yn rhoddi ei hun i Dduw, "Dychwel di fi, a mi a ddychwelir." Nid cariad a charedigrwydd wedi ei gynnyg gyda chynhyrifiadau diddymol i berswadio rhai i'w dderbyn, yw y rheffynau o gariad â'r rhai y mae Duw yn tynnu dynion atto ei hun; ond "cariad Duw wedi ei dywallt yn y galon" yw; nid wedi ei 'sgrifenu âg ingc, (peth o wneuthuriad dyn) ond âg Ysbryd a gallu Duw. A hynny yw'r achos bod mor fynyched y geiriau awdurdodol hynny, "Mi a wna, a chwi a wnewch," yn y matter hwn. Yn llyn y dechreuodd yr Arglwydd â'r sarph, (yr hyn oedd bortreiad i'r hyn oll a ganlynodd) "Efe a ysiga dy ben di:" yn y geiriau byrrion hynny, yr effeithiol rag-barottoir dinystri i satan a phechod: y mae mewn lle arall yn dywedyd cymmaint a hynny i fywiocau'r enaid; "Rhoddaf i chwi galon newydd, a rhoddaf fy Ysbryd o'ch mewn, a gwnaf i chwi rodio yn fy neddfau; chwi a gewch fod yn bobl i mi, a minneu a fyddaf yn Dduw i chwi; troant attaf fi â'u holl galon;" a llawer o'r fath. Y mae'r Arglwydd yn wastadol yn llefaru mewn geiriau o holl-alluogrwydd, megis yn gosod allan ei holl-alluog nerth; yr hwn, megis nad rhaid iddo, felly ni chymmer (ac ni all gydâg anrhydedd gymmeryd) ddiro cymmorth gan bwer creaduriaid i'w wneuthur yn llwyddiannus: "Ni ddychwel ei air atto yn wâg; eithr efe a wna yr hyn a fynno, ac a lwydda yn yr hyn yr anfono efe o'i blegid: yr hwn a fuasai farw, a ddaw allan, ac ei air ef, er bod yn rhwym ei draed a'i ddwylaw."

II. *Gwaith creadigaeth yw troedigaeth*; yr hwn sydd raid ei ddwyn y'mlaen, er mae ychydig ac ychydig, gan yr hwn a'i dechreuodd; neu ei holl ranau blaen-llaw (megis argyhoeddiad, &c.) a ddiddymir ac a ant i ddim. Megis, wrth wneuthur Adda, yr Arglwydd yn gyntaf a barottodd y pridd, ac yna a'i ffurfiodd i'r cyfryw lun, ac yn ôl hynny "a anadlodd ynddo ef anadl bywyd;" pe amgen, ni buasai'r telwyn hwnnw byth yn enaid byw: felly yn y greadigaeth newydd, yr Arglwydd sy'n gweithio, ac yn myned y'mlaen yn ei waith heb ei adael nes ei orphen. Nid ydyw yn unig yn gwneuthur i'r goleuni dywynnu yn y tywyllwch, ond yn rhoddi gydâg ef ddeall cyfaddas, cyfattebol i'r gwrthdrys,

heb yr hwn ni allai'r tywyllwch byth ei amgyffred ef. Gallasai Ezeziel brophwydo hyd ddydd barn, cyn y buasai'r esgyrn sychion fyw, oni buasai i'r Arglwydd ei hun beri i'w anadl fyned iddynt: ac y mae'n debygol bod yn ei alw yn "Dad y goleuni," (yn y rhif luosog) i arwyddocau, bod y goleuni ag sydd yn amgyffred (neu yn ein gwneuthur ni yn abl i amgyffred) oddiwrth Dduw, yn gystal a'r hwn a amgyffredir: "Yn ei oleuni ef y gwelwn oleuni."

III. Effeithiol weithrediad Duw yn y peth hwn, a'r angenrheidrwydd o'i fod yn gweithio felly, a ellir y'mhellach ei ddangos wrth brawf cyffredinol y rhai sydd eisoes wedi gweithio arnynt, a'u dwyn i mewn; wrth weddïau a chyfaddefïadau y rhai y mae'n eglur, bod yn rhaid iddynt wrth alluog ac effeithiol gymmorth yn wastadol i gario y'mlaen y gwaith a ddechreuwyd eisoes: "Dychwel di fi, a myfi a ddychwelir; bywha ni, a ni a alwn ar dy enw; tyn ni, a ni a redwn ar dy ol; nid o herwydd ein bod yn ddigonol o honom ein hunain i feddwl dim, eithr ein digonedd ni sydd o Dduw: byw ydwyf, ond nid myfi, ond Crist sydd yn byw ynof fi," &c. Oddiwrth hyn y mae yn eglur, oni all y sawl a drowyd eisoes, ac a wnaethpwyd yn gyfrannogion o'r duwiol anian, y rhai mae eu calonau wedi eu sefydlu yn ffyrdd da Duw, ac nad y'nt yn dymuno dim yn fwy na rhodio ynddynt, fyned y'mlaen heb barhaus effeithiol gyfraniad a chyfnerth oddi uchod; llai o lawer y gall y dyn anianol (heb yr unrhyw effaith dduwiol goruwch-naturiol) ddarostwng ei galon iddynt: canys "ffiaidd gan ynsydion gilio oddiwrth ddrygioni."

IV. Pe b'ai'r Arglwydd heb weithio yn effeithiol, fe gollai'r anrhydedd o'i waith. Pe byddai i ryw gynhyrïad, neu weithred ewyllys dyn, yr hon ni wneir gan ras, wneuthur gras yn effeithiol, yna natur a gai'r rhagoriaeth; gweithredoedd a ymorfoleddant ar ras; fe ddywedir bod ewyllys-rydd yn well na rhydd ras: o herwydd, "yn ddiddadl, yr hyn sydd leiaf a fendithir gan ei well:" ac mor eglur yw, bod yr hyn sydd yn sancteiddio yn fwy na'r hyn a sancteiddir ganddo; ac y mae Crist yn appêlio at reswm *ffyliaid a deillion* yn y peth. Eithr os caniatteuwch fod gras yn well na natur; y mae yn canlyn, bod yn bendithio ac yn sancteiddio yr ewyllys gan ras, sef gan ei bwerus a'i effeithiol weithrediad arni. Yn hyn, yn ddïau, y mae anrhydedd ac effaith gras, nid o ran ei fod mewn modd gorchfygol yn cynhyrfu, yn annog, yn perswadio, neu yn bygwth yr ewyllys i ddarostwng; eithr o ran ei fod yn tynnu ymaith dueddiad natur, ac yn ei osod megis o'r tu arall; yn gweithio'r galon i hy-

nawsaidd gyttundeb âg ewyllys Duw, er ei bod mor wrthwynebus iddo o'r blaen: ac yn llyn y mae'r Arglwydd yn gwneuthur, ac yn llyn y gwna b'le bynnag y bydd drugarog; er cymmaint y bo'n wrthwyneb i feddwl presennol, a thueddiad naturiol y dyn: ac etto nid ydys yn treisio'r ewyllys, fel y dangosir isod.

V. Yr athrawiaeth o Alwedigaeth effeithiol a sicrhair y'mhellach oddiwrth swydd Crist fel Prynwr; yr hyn nid oedd yn unig i brynu, eithr hefyd i'n dwyn i weithredol feddiant o'r pethau da a bwrcasai ef i ni. *Prynedigaeth, maddeuant pechod, a chymmod*, ydynt bethau perthynol, o'r un fesur, ac yn ddiwahanol oddiwrth eu gilydd. Nid mewn cyflwr ag y gallid ein heddychu y mae Prynedigaeth yn ei gosod, ond mewn cyflwr o weithredol heddychiad; "Y mae yn dirymu'r gelyniaeth, yn dybeu'r pechod, ac yn dwyn cyfiawnder tragywyddol" i mewn. O'r achos hwn y mae i'n Iachawdwr enw gogoneddus: "Ti a elwi ei enw ef Iesu, o blegid efe a wared ei bobl oddiwrth eu pechodau;" ac, "I hyn yr ymddangosodd Mab Duw, fel y dattodai weithredoedd diafol." Ac o'r gweithredoedd hynny, dallineb meddwl yw'r cyntaf-anedig a mam y lleill oll: hwn sydd yn cadw'r enaid mewn anghrediniaeth megis â chloïon a barrau; ac am hynny rhaid ei fwrw allan; yr hyn ni ellir ei wneuthur, ond trwy beri i'r gwir oleuni dywynnu yn effeithiol; megis y parodd i oleuni'r byd hwn wneuthur yn y greadigaeth gyntaf, i'r hyn y mae'r ysgrythyrau yn cyffelybu'r gwaith hwn. O herwydd hyn yr ydys mor fynych yn dywedyd ei fod wedi ei anfon "i agoryd llygaid y deillion; i lewyrchu i'r rhai sy'n eistedd mewn tywyllwch; ac i ddwyn allan y carcharorion o'r carchardŷ;" y rhai nid oeddent bethau mewn amcan ag ellir eu diddymu; ond mor sicr i gael eu cyflawni ag yr oedd Crist i farw. Yn Salm x, 7. yr ydys yn son amdano fel am beth wedi ei wneud; "Dug hwynt allan o dywyllwch a chysgod angeu; a drylliodd eu rhwymau hwynt;" mai am y gwardigion yr oedd yn dywedyd, sydd amlwg oddiwrth yr ail adnod. Ystyriwch hwynt yn gyntaf, fel maent yn y tywyllwch; y mae ef i'w goleuo felly, "fel y cyfeiried eu traed i ffordd tangnefydd." Hanes y gwr dall yn Marc, sydd gysgod priodol o hyn; Crist sy'n poeri ar ei lygaid, yn gosod ei ddwyllaw arno; ac etto nid oedd yn gweled ond (yn dywyll) dynion fel prenau yn rhodio; eithr gosododd ei ddwyllaw arno drachefn, ac nid yw yn ei ollwng ymaith nes gwneuthur iddo weled *yn eglur*. Yna ystyriwch hwynt fel carcharorion, i.e. "carcharorion y pydew;" rhaid

i'r hwn a'u gwaredo, nid yn unig agor y ddôr, ond diarfogi'r ceidwaid, tynnu ymaith eu cadwyni, a'u dwyn allan; megis y gwnaeth yr angel â Phedr, i'e tra yr oedd y "ceidwaid o flaen y drws." Y mae yn "galw ei ddefaid" yn y fath fodd, ag y mae yn eu "harwain allan;" a hyn "trwy waed ei ammod;" trwy hwnnw y mae y rhai sydd yn y pydew, yn "garcharorion gobeithiol." A'r effeithiau hyn sy'n tarddu mor naturiol oddiwrth Brynedigaeth, a goleuni oddiwrth yr haul: am hynny dywedir yn eglur, bod "gwaed Iesu Grist yn glanhau oddiwrth bob pechod; a'n bod wedi ein sancteiddio trwy offrymiad corph Iesu Grist unwaith." Hyn sydd yn peri i'r apostol ymresymu mor hyderus yn Rhuf. vi. Os ydym gyd-blanhigion i'w farwolaeth, felly byddwn hefyd i'w adgyfodiad; ac i osod y pwys hwnnw arno, mae "Os heddychwyd ni â Duw trwy farwolaeth ei Fab ef, mwy o lawer ein hachubir trwy ei fywyd ef." Y dywediad hwnnw o eiddo Crist, sydd berthynol iawn i hyn; "Defaid eraill sydd gennyf, y rhai hefyd sydd raid i mi eu cyrchu, a'm llais i'a wrandawant;" y rhaid hwn sy'n dal allan ddyledswydd anhepgor; yr oedd wedi derbyn gorchymyn am hyn gan ei Dad; a'r *gwrandawant* hwn sy'n dal allan yr effeithiol weithrediad, trwy yr hwn y mae yn darostwng pob peth iddo ei hun; a thrwy yr hwn y gwnair iddynt gredu. Y mae'r defaid, o honynt eu hunain, mor wrthwynebus i'r gwaith hwn a dynion eraill, "Beth sydd i mi a wnelwyf â thi?" (medd y Gadarene dieffig.) Ond gan mai ei ddefaid ef ydynt, rhaid iddo eu gwneuthur yn ewyllysgar; i'e, a phe cauent eu clustiau, y mae efe i'w hagogor hiwynt; canys, "efe a dderbyniodd roddion i'r rhai cyndyn." Ni chaiff cyndynrwydd dynion ddiddymu hawl Crist, na gwneuthur ei waith yn aneffeithiol. I'r dyben hwn cododd Duw ef, sef "i fendithio ei bobl trwy eu troi ymaith oddiwrth eu drygioni;" ac "i roddi iddynt edifeirwch," sef y fath edifeirwch ag y mae "maddeuant pechodau" yn cydgerdded âg ef; a hyn oll y mae yn ei wneuthur fel Tywysog, neu un âg awdurdod ganddo i symmud beth bynnag a allo rwystro ei amcan; iddo ef y rhoddwyd "agoriadau uffern a marwolaeth." Oddiwrth yna yr wyf yn hyf yn easglu, bod Crist yn gwneuthur, ac y gwna ef beth bynnag a ddaeth ef, fel Cyfryngwr, i'w wneuthur; ac na syrthia'r un o'i weithredoedd ef i'r ddaear. Yr yn a ddywed yn y 17 o Ioan, sydd brophwydoliaeth o'r hyn ddywed ef yn y dydd olaf; "Mi a gwplheais y gwaith a roddaist i mi i'w wneuthur: mi a eglurais dy enw i'r dynion roddaist i mi allan o'r byd: y geiriau a roddaist i mi, a

roddais iddynt hwy; a hwy a'u derbyniasant." Mwy ellid ei 'chwanegu; ond y mae yn amlwg, fel yr wyf yn gobeithio, wrth yr hyn a 'sgrifenwyd eisoes, nad oedd Iesu Grist yn unig yn *Brynwr*, i dalu *pridwerth* drosom; ond yn *Swyddog* wedi ei appwyntio gan Dduw i roddi i ni *ryddid*, ie ogoneddus ryddid meibion Duw: a hwn yw "ewyllys yr Arglwydd yr hwn sydd i lwyddo yn ei law ef;" megis y gwnaeth, y mae yn gwneuthur, ac y gwna dros byth: ac y mae yn gysurus iawn i'r rhai sydd yn ymaflyd yn ei gyfammod ef.

Yn ail, Beth bynnag y mae Duw yn ei wneuthur dros ddynion, neu yn ei roddi iddynt er iechydwriaeth, sydd yn rhad. Ac fe ddywedir bod peth wedi ei wneuthur, neu ei roddi yn llyn, pan bo yn dyfod yn unig oddiwrth ewyllys-du a ffiafr y gwneuthurwr, neu y rhoddwr; ac nid o ran dim a wnaethpwyd, neu a haeddwyd gan y derbyniwr: *gweithred ewyllysgar* yw, yr hon nid yw yn tarddu oddiwrth un rhwymedigaeath ar y rhoddwr, nac un rhinwedd rhwymedig yn y derbyniwr; nac ychwaith ddim disgwylfa o daledigaeth oddi wrtho. Ni byddai raid dywedyd nemawr i brofi rhad roddiad y pethau yr ydym yn son am danynt, pe iawn ystyriem, 1. Holl-awdurdodol fawredd yr hwn sydd yn rhoddi; "y Duw goruchaf, Meddiannydd nefoedd a daear yw;" yr hwn sydd yn anfeidrol ddedwydd ynddo ei hun; ac am hynny ni ellir 'chwanegu atto, ac ni all efe dderbyn oddiwrth unrhyw greadur. Pwy a all roddi iddo ef, yr hwn sydd yn rhoddi i bawb eu bywyd a'u hanadl? 2. Rhagorol odi lawgrwydd ac anhraethadwy werthfawrogrwydd y pethau a roddir: y rhodd gyntaf a'r pennaf yw ein Harglwydd Iesu Grist; mawredd yr hwn oedd gymmaint, a bod y nefoedd a'r ddaear yn rhy fychau i'w rhoddi am dano; yn enwedig gan ei roddi fel y rhoddwyd ef: ac ynddo ef gyfiawnder a nerth, mabwysiad a chymmmod, gras a gogoniant. 3. Gwagedd a thrueni y rhai y rhoddwyd iddynt: nid yw'r ysgrythyr na phrofiad yn dywedyd dim am danynt, yn eu cyflwr naturiol, nad yw yn gosod allan 'stad gwbl wylofus, ac anabl i haeddu'r cyfryw rodd; megis y dangoswyd uchod: eithr o herwydd ein bod gymmaint yn ein caru ein hunain, ac mor barod i ddottio ar ein gwaith ein hunain, ac mor gwbl dueddol i gyfammod o weithredoedd, i'n cymorth o'r lleoedd peryglus hyn, gadewch i ni aros ychydig ar y rhesymau canlynol:

I. A gymmerir oddiwrth anian a meddwl y cyfammod o ras. Trwy'r cyfammod hwn y mae pawb ag sydd yn profesu bod yn grist'nogion, yn disgwyl bod yn gadwedig; er eu bod

yn anghyttuno o ran ei feddwl a'i helaethrwydd. Eithr os derbyniwn yr ystyr ysgrythyrol, (yr hwn sydd raid ei fod yn oreu) ni gawn ffeindio ei fod yn naturiol ac yn sylweddol i'r cyfammod hwn, roddi yn rhad ac yn ddiammod; heb ammodi am ddim i'w wneuthur gan ddyn, fel y sail neu'r cynhyrriad o hono. Yr hyn oll ag y mae Duw yn ei wneuthur i'r rhai y mae yn eu hachub, y mae yn ei wneuthur er mwyn ei enw; yr hwn enw a roddir ar lawr yn Ecs. xxxiv, 5, 6. "Jehofa, Jehofa, y Duw trugarog a graslawn, &c." Bod yn raslawn, yw gwneuthur da i'r hwn sydd yn haeddu drwg; a phe amgen, ni byddai ond yn ol y cyfammod o weithredoedd: yr hwn etto nid oedd feius na diffygiol ynddo ei hun; canys yr oedd yn rhoddi yr hyn oedd ddigonol i gyrraedd y benthion a gynnygid ynddo; yr hwn pe buasent yn ei arfer ac yn ei ddefnyddio fel y dylasent, ni buasai raid wrth yr ail. Eithr yr Arglwydd, yn rhagwybod cyfnewidioldeb y creadur, ac yn ganlynol, pa raid wrth fath arall o allu a gras, nac a roddasid i Adda yn y greadigaeth; a appwyntiodd yr ail, yr hwn yn yr ysgrythyr a elwir, "Gobaith bywyd tragywyddol, yr hon a addawodd y digelwyddog Dduw cyn dechreu'r byd," Tit. ii, 2. Fe a elwir y "Cyfammod o ras," nid yn unig o ran ei fod yn amcanu gogoniant ei ras wrth achub dynion; ond o ran ei fod yn rhoddi yn rhad o'i ras a'i ffafr yn unig, beth bynnag sydd reidiol i ddwyn yr iechydwrtaeth honno o angylch: canys yn mheth arall y gall y gwahaniaeth fod rhwng y ddau gyfammod? Ni all fod yn hawsdra neu anhawsdra y dyledswyddau a orchymynir; o blegid y mae ffydd ac edifeirwch y'mhellach allan o gyrraedd gallu naturiol, nac ymgadw oddiwrth y ffirwyth gwaharddedig: ond y gwahaniaeth sydd yn sefyll yn hyn—bod y cyfammod newydd yn cynnwys addewidion gwell; ac yn well o ran bod Duw yn rhydd, yn rhad, ac yn ddiammod yn ymrwymo ei hun, i roddi i'w rai ammodol bob peth perthynol i'r gwynfydedigrwydd a gynhygir; yn gystal yr hyn sydd i'w wneuthur o'u tu hwynt, ac o'i du yntef ar eu gwaith hwynt yn ei gyflawni; sef, rhoddi iddynt, a gweithio ynddynt, beth bynnag y mae yn y cyfammod hwn yn ei ddisgwyl oddi wrthynt. Y gyfraith sy'n dangos y ddyledswydd, ond nid yw yn rhoddi nerth i'w chyflawni; y mae'r cyfammod o ras yn gwneuthur y ddau, trwy 'sgrifenu'r gyfraith yn y galon: ac heb hyn, ni byddai ond cyfammod o weithredoedd, beth bynnag i'w dyledswyddau a orchymynwyd. Nid yw, gan ynnny, yn rhedeg ar dilerau ammodol siomgar, 'Myfi a wnaaf, os chwi a wnewch;' eithr yn ddiammodol ac yn aw-

durdodol, 'Myfi a wnaf, a chwi gewch wneuthur.' Nid yw y cyfammod hwn yn unig yn rhoddi bywyd, os credir; eithr ffydd a sancteiddrwydd hefyd, fel y moddion angenrheidiol i gael y bywyd hwnnw: a hyn nid ar eich hynawsol ymddarostyngiad, (fel y mae rhai yn ei alw) neu eich gwaith yn gwneuthur gwell defnydd o'r hyn a roddir i chwi yn gyffredin gyda dynion eraill; (y cyfryw fwriadau y mae Duw yn eu gwarafu, ac yn fynych yn rhybuddio yn eu herbyn) eithr trwy ras. Cyfammod wedi ei wneuthur i fynu o addewidion yw; ac addewid (yn iaith yr ysgrifthyrr) sydd yn wastad yn rhad; wedi ei wneuthur yn rhad, a'i gyflawni yn rhad, heb haeddiant na chymmorth dyn. Cymmerwch Isaac yn siampl: yr oedd corph Abraham wedi marweiddio; a Sara, heblaw ei bod yn anmhlantadwy wrth natur, yn awr "fe a beidiasai a bod iddi yn ol arfer gwagedd;" ac etto "mab a fydd i Sara." Ond pa fodd? Yr oedd yn yr addewid (er nad oedd yn Abraham a Sara) yr hyn oll ag oedd reidiol i ymddwyn Isaac a'i enedigaeth; ac o'r achos hyn y gelwir ef yn "blentyn yr addewid;" megis y gelwir y rhai credadwy hefyd: hwy a elwir hefyd yn "etifeddion yr addewid," Heb. vi, 17. O'r achos hwn y gelwir Crist yn "Had yr addewid," a'r Ysbryd Glân yn "Ysbryd yr addewid;" sef, i ddangos mor hollol *rad* yw rhoddion Duw; yr addewid o'u hanfôn, eu gweithredol ddyfodiad, a'u heffeithiol weithrediadau, ydynt oll yn rhad y'mhob ystyr. "Y gwlyth hyn oddiwrth yr Arglwydd, nid erys ar ddyn," Mica v, 7.

Er mwy o eglurhad, yr Iuddewon sy'n siampl hynod, megis yr ydych yn darllen yn Jeremi: ni wnaethent hwy ddim ond drygioni o'u mebyd, yr oeddent yn digio Duw yn wastadol: ac er eu gwasgaru y'mysg y cenhedloedd, nid oeddent ddim gwell; ond yn peri i'r cenhedloedd gablu: ond etto er hyn oll, "Yr Arglwydd a'u cynnull hwynt, ac a rydd iddynt galon i'w ofni ef byth;" a hyn pan nad oedd dim yn talmu arnynt, ac "ni fedrent wridio." Gwelwch hefyd, â pha radlondeb annhraethadwy o ras y mae'r Arglwydd yn delio â hwynt yn y 43 o Esay, "Myfi, myfi yw yr hwn a ddilea dy gamweddau, ac ni chofiaf dy bechodau." Ond beth sydd yn rhagflaenu y cyfryw addewid fawr? Gwelwch, a rhyfeddwch! "Ni elwaist arnaf, Jacob; ond blinaist arnaf, Israel: ni ddygaist im' filod dy offrymau poeth; ni phrynaist im' Galamus âg arian; eithr ti a wnaethost i mi wasanaethu â'th bechodau, blinaist fi â'th anwifeddau: Myfi, ie Myfi, (â'r hwn y deliaist mor andi-

olchgar ac mor anhygar) Myfi yw yr hwn a ddilea dy gamweddau, er fy mwyn fy hun." Peth mawr, nad oeddent yn ei ddisgwyl, oedd hwn; ac, yn wir, wrth ystyried eu hunain, a'u hymddygiad, nid oedd ganddynt le i ddisgwyl am dano. Oddiwrth hyn oll mae'n eglur, nad yw gras yn edrych ar deilyngdod dynion yn yr hyn y mae yn ei wneuthur; i.e., y mae yn edrych ar eu hanneilyngdod yn hytrach, fel trwy hynny y byddo gras yn fwy ardderchog, a'i ogoniant yn ymddangos yn fwy; gan "lle yr amlhaodd pechod, i ras ragor-amlhau." Ac y mae Paul yn ei gyhoeddi fel peth a wiriwyd ynddo ef ei hun; "Yr oeddwn yn gablwr, ac yn erlidiwr, ac yn drahäus; eithr mi a gefais drugaredd, a gras ein Harglwydd ni a dra-amlhaodd:" ac y mae yn cwmpo i ogoneddu'r gras hwnnw, "I'r Brenin tragywyddol, anfarwol, anweledig, i'r Duw unig ddoeth, y byddo anrhydedd a gogoniant yn oes oesoedd. Amen."

Cyfoeth trugaredd a ddangosir, trwy achub y pennaf o bechaduriaid, a'u bywiocau pan yr oeddent feirw; a pheth hynod yw, nad yw'r apostolion, yn un lle ag y maent yn sou am ras Duw yn achub, yn bywiocau, &c. yn dywedyd dim am *deilyngdod*, *parodrwydd*, *ymddarostyngiad* dynion, a'r cyffelyb; eithr meirw mewn pechodau, ac wedi bywiocau trwy ras, sy'n canlyn y naill y llall; (fel y goleuni yn canlyn y tywyllwch, yr hwn nid yw mewn un modd yn peri goleuni, nac yn parottoi y ddaear neu'r awyr dywyll i'w dderbyn), fel y mae yn eglur yn eu holl epistolau. A pha mor fynych y mae Duw yn datgan yn erbyn ymfrostiau dynion o'u gweithredoedd yn y peth hwn, yn *Esaiä*, *Jeremia*, *Ezeciel*, *Hosea*, &c.? Ac i rwystro yr ymfrost hwn, y mae yn galw'r "bobl sanctaidd yr hon a geisiwyd," ac yn cyhoeddi, "Cafwyd fi gan y rhai ni'm ceisiant." Mi a ddiweddaf hyn a siampl hynod, ac yn fy amser i; yr hon nid wyf yn ei choffa i brofi'r peth, eithr i'w eglurhau. Myfi a adwaenwn wr, yr hwn pan oedd dan argyhoeddiadau, a wnaeth ei oreu i'w diffodd: ei argyhoeddiadau a gryfhasant, ac efe a ymgaledodd yn eu herbyn: efe a ganfu i ba le yr oeddent yn tueddu, ond yr oedd mor wrthwyneb iddynt, ag y darfu iddo lawnswriadu, beth bynnag y ddeuai o hono, ni byddai byth yn Biwritan. Rhaid iddo fyned i'r eglwys; gorchymyn ei feistr oedd: ond ei arfer yno oedd pwyso a'i elinnedd ar yr eisteddfa, a'i fysedd yn ei ddau glust, (lle yn ddiau ni allai gras cyffredinol ammodol wneuthur dim). Ond ni ellir colli llestr etholedig felly; y *gras* a etholodd a ddaeth i mewn yn awr, a thrwy ddamweiniol lithrad ei elin, a dynnodd y topau,

ac a ddanfonodd air o'r pwlpit, yr hwn fel tân o'r nefoedd a doddodd ei galon, ac a'i bwricodd i fowld newydd. Yn ddiammeu ni ddarfu i'r Arglwydd yma ddisgwyl am ei waith ef yn ymddarostwng ac yn iawn ddefnyddio.

II. Ni allai iechydwriaeth fod o ras, oni b'ai'n rhoddi yr hyn oll ag y sydd berthynol iddi yn rhad: canys, "I'r neb sydd yn gweithio, ni chyfrifir y gwobr o ras, ond o ddyled:" eithr iechydwriaeth sydd o ras, Eph. ii, 5. "Trwy ras yr ydych yn gadwedig." A thrachefn, adn. 8. "Trwy ras yr ydych yn gadwedig trwy ffydd;" lle hefyd, rhag i'r 'chwane-giad o ffydd beri lleihau y gras hwnnw, neu dybyg ei fod yn ei wneuthur yn llai rhad; y mae yn ebrwydd yn chwane-gu, mai gwaith y gras hwnnw yw'r ffydd hon, "Nid o honoch eich hunain, rhodd Duw ydyw." O herwydd, gan fod gras yn gwbl rad yn dewis, rhaid ei fod mor rhad yn rhoddi ac yn cymhwysu y moddion i ddwyn i ben y dyben ein dewisodd iddo: o blegid pe b'ai effaith y moddion yn sefyll ar ryw beth i'w wneuthur gan ddynion, o'r hyn nid yw gras yn awdwr; fe a ddeuai gweithredoedd i fod yn gyfran-nog o ogoniant iechydwriaeth; ac felly gras Duw a gollai'r orsedd, ac a fyddai megis pe ni b'ai; "Nid yw gras yn ras mwyach," fel y dywedir yn Rhuf. xi, 16.

III. Rhaid bod bendithion ysbrydol i'w rhoddi yn *rhad* ac o *wir ras*, o herwydd nad yw dyn naturiol yn abl gwneuthur un weithred ag a allo beri rhoddi'r fath rodd iddo. Hwy allant wneuthur pethau da o ran eu defnydd, fel y gwnaeth Cain wrth aberthu y blaen-ffrwyth; ond nid yn gymmeradwy, o herwydd na wnaer hwy mewn iawn fodd, sef trwy ffydd; y diffyg o'r hyn sydd yn gwneuthur *arogl-darth* yn *ffiaidd*. Gan fod yn amhosibl rhyngu bodd Duw heb ffydd, rhaid ei fod yn amhosibl i chwi wneuthur dim cyn credu, ag a allo beri i Dduw roddi i chwi ffydd. Iechydwriaeth a addewir i ffydd; maddeuant pechod i edifeirwch; yr olwg fendigedig i burdeb calon: ond nid ydym yn ffeindio, bod yn addo'r grasusau hynny i un weithred neu gynneddf, yn rhagflaenu y grasusau eu hunain; nid trwy 'ein gweithredoedd ein hunain' yr ydym yn cael hawl i'n 'galwedigaeth sanctaidd, a golchiad yr ail-enedigaeth.'

IV. Pe rhoddid un peth rheidiol i iechydwriaeth ar ammod, fe weddai mai hwnnw fyddai, yr hwn o ran ei bris a'i riawedd sydd yn cynnwys y lleill oll, ac heb yr hwn ni buasai'r lleill yn bod, neu ni thal'sent ddim; a hwnnw yw ein Harglwydd Iesu Grist; am yr hwn y dywedir, fod "holl gyflawnder y Duwdod yn preswyllo yn gorphorol yuddo;"

ac mai "o'i gyflawnder ef y derbyniasom oll ras an ras;" rhoddi yr hwn oedd y ganmoliaeth mwyaf o gariad Duw tuag at ddynion; ac am hynny gelwir ef yn "ddawn Duw" mewn ffordd arbennig, o ran ei fod y fath un ag sydd yn cynnwys y lleill oll. Ac am Grist wedi ei roddi yn rhad ac yn ddiammod, gwelwch y brif banes yn Gen. iii, 15. "Efe a ysiga dy ben di:" lle cynhwysir addewid rhad diammod o anfon Mab Duw yn y cnawd i fod yn Gyfryngwr. Ac ni a wyddom yn hollol, nad oedd ei weithredol ddyfodiad ef, a'r cyflawniad o hono, yn sefyll ar ddim haeddedigaeth na theilyngdod dynion: pa fodd y gallai fod, pa ar ol y cwmp, nid oeddent yn gwneuthur, ac ni allent wneuthur dim, ond yr hyn a allai beri iddo yn fwy eu cashau? Er amlygiad o hyn, nid rhaid i ni fyned oddiwrth angylchiadau'r lle hwn: yn unig ystyriwch ymddygiad yr Adda cyntaf ychydig o flaen gwneuthur yr addewid: yn gyntaf, y maent yn credu i'r sarph o flaen Duw; ac yno yu torri gorchymyn y bywyd, heb na rhaid nac achos. Yn ol hyn, a chael eu hunain yn golledig, nid ydynt gymmaint ag ymfyn â Duw am gymmorth: ond yn hytrach cuddio eu hunain oddi wrtho: a chyn belled oddiwrth gyfaddef eu hunain yn feius, a'u bod yn ynfyd yn bwrw'r bai ar yr Arglwydd megis yr awdwr o'u pechod; "Y wraig a roddaist TI gyda mi, HI a roddodd i mi o'r pren."—A'r "sarph (yr hon hefyd sydd creadur o'th wneuthuriad di) a'm twyllodd," &c. Nid oes yma ddim yn eu hymddygiad ag ellid dybyg ei' fod yn achos o'r fath addewid. Eithr er eu bod yn rhedeg oddiwrth Dduw, nid ymad efe felly â hwynt; ie y mae efe yn eu dilyn, yn eu ffeindio allan, ac yn lle drws gobaith, yn rhad yn rhoddi iddynt yr addewid graslon hwn, o anfon ei Fab i ddinystrio'r hen sarph y diafol; ac yn ganlynol natur y sarph, yr hwn yn awr oedd wedi ymgymmysgu â'u nhatur hwy. Cyhoeddiad cyntaf yr efengyl yw, ac y mae yn llefaru gyda chymmaint o radlondeb ag y gall geiriau wneuthur, "Efe a ysiga dy ben di." Yr wyf yn sefyll yn helaethach ar hwn, o herwydd mai yr addewid cyntaf ag a wnaethpwyd mewn amser yw, ac mai o hwn y mae'r holl addewidion canlynol yn tarddu.

Adferiad a chysur Adda oedd dyben yr addewid hwn; yr hwn, yn ddiammeu, ar y pryd hyn, oedd mewn cyflwr tra anghysurus; gan ei fod yn dra theimladwy o'r dedwyddwch a gollasai, a'r cyflwr gresynol i'r hwn y tafasai ei hun; ac am hynny yr oedd yn angenrheidiol, fel y byddai i Adda gael cysur, fod y tilerau yn gwbl rad a diammod: eithr bwriwch eu bod yn ammodol, sef, os byddai i Adda yn awr

edifarhau a dychwelyd; os byddai iddo wneuthur gwell defnydd o drysor newydd, (neu yn hytrach o weddill rhwdlyd yr hen) yna fy Mab a ddaw i'r byd isaf hwn i ddistewi; gelyn a'r dialydd; efe a gaiff roddi ei fywyd dros dy fywyd di; myfi a fyddaf heddychlon â thi, ac a'th adferaf i'th gyflwr cyntaf. Ni buasai hyn oll, a llawer o'r fath, yn rhoddi ond ychydig gysur neu obaith i gydwybod aflan euog; yr hwn oedd yn ffeindio ei hun, nid yn unig yn noeth ac wedi ei gwbl yspeilio o'i gyfiawnder gwreiddiol, ond hefyd yn elyn i'w Greawdwr ac yn gaethwas i satan; canys y cyfryw resymau a'r rhai'n a dorrasent i mewn fel llifeiriaint i gario ymaith ac i ddifa pob cyfryw obaith; sef, os darfu im', pan yr oeddwn mewn cyflwr mor ddedwydd, ac yn abl i sefyll, wrth gyn lleied brofedigaeth, gydsynio a phechu, pa fodd y gallaf godi yn awr, gan fy mod ar lawr a'm nerth wedi pallu? Os bu im', pan yr oedd gennyf ryddid ewyllys, ac yr oeddwn yn sefyll yn uniawn, mor hawdd wyro i lwybrau ceimion; pa fodd y gallaf yn awr obeithio dychwelyd a gwneuthur yn well, gan fod fy ewyllys wedi ei gwyrddroi a'i thueddu i'r gwrthwyneb? Os darfu im' pan yr oedd llygaid gennyf, ac yn eglur, etto golli fy ffordd a chrwydro; pa fodd y gallaf yn awr ddisgwyl ei chael drachefu, pan yr wyf mewn anialwch a'm llygaid allan? Pa fodd y dygaf beth glân allan o beth aflan, gan na chadwais fy nghalon yn lân pan yr oedd felly? Pa fodd yr ennillaf lawer âg ychydig dalentau, gan im' fyned trwy'r cwbl pan yr oedd llawer gennyf? Ni thÿf grawnwin ar ddrain, na ffigys ar ysgall: nag é, pe dychwelid fi lle yr oeddwn ar yr un tilerau, ni allwn ddisgwyl i gadw, gan im' gael prawf mor wylofus o wrthgiliad ofnadwy heb achos, &c.

Yr oedd, gan hynny, yn dra angenrheidiol fod yr addewid cyntaf hwn, yr hwn a wnaethid ar y fath achos mawr arbennig, ac yn yr hwn yr oedd gobaith a chysur pobl Dduw i dragywyddoldeb yn sefyll, yn gwbl rydd a diammod; heb sefyll yn y mesur lleiaf ar un peth da i'w wneuthur gan ddyn fel yr ammod o hono. A chan roddi Crist yn *rhad*, y mae gennym le da i resymu oddiwrth hynny, bod pethau llai wedi eu rhoddi yn *rhad* hefyd: canys, "Yr hwn nid arbedodd ei Fab, pa wedd gydag ef na ddyry efe i ni bob peth? Onid yw'r bywyd yn fwy na'r bwyd?" Onid yw Crist yn fwy na ffydd, a phob gras? A roddodd Duw i ni gnawd ei Fab, yr hwn sydd fwyd yn wir; ac oni adfera ef ein llaw wiwedig i'w dderbyn? Ni all hynny fod; yn enwedig wrth ystyried, y gall wneuthur hyn â'i *air*, ac y bydd y cwbl heb

AM ALWEDIGAETH EFFEITHIOL. 175

hyn wedi ei golli, ac megis dwfr wedi ei dywallt ar y ddaear. Ond er bod yr addewid hwn o Grist yn addewid o bob gras; etto, o herwydd ein bod yn hwyrfrydig o galon i gredu, ac i'n hennill oddiwrth ein meddyliau deddfol; y mae yn rhyngu bodd i Dduw foddloni ei bobl mewn geiriau yn gystal a sylwedd: ac am hynny,

V. I gyflawn amlygu bod pob bendith ysbrydol yn berffaith rad, efe a'u gosododd oll mewn addewidion diammod. Nid am fod pob addewid yn rhedeg felly: mae ammodau wedi eu 'chwanegu at amryw o honynt; y rhai hefyd (yn eu lle) sydd o dra buddiol arwyddocad: 1. Megis prawf o'n hewyllysgar ymddarostyngiad i Dduw. 2. Fel cyfarwyddiadau, trwy ba foddion y rhaid i ni gael y gwynfydedigrwydd a barottowyd i ni, a pa fodd ein cymbwysir i'r mwynhad o hono. 3. Fel nodau ac amlygiadau o'n bod ar y ffordd tuag atto, ac o'r rhai y mae yn perthyn iddynt. Nid yw y 'chwanegiad yma o ammodau yn dal allan y gall dynion eu cyflawni; er bod yn rhaid eu cyflawni cyn y derbynion y wobr a addewir; ac nid yw effaith yr addewidion hynny yn sefyll ar unrhyw beth i'w wneuthur gennym ni, yr hyn ni pharot- toir in' trwy ryw addewid arall. Eithr yr addewid mawr sylfaenol hwnnw, ar yr hwn y seilier ein gobaith o fywyd tragywyddol, sydd ddiammod; fe a roddwyd "cyn dechreu'r byd." Er ei fod ar ammodau trymion iddo ef â'r hwn y gwnaethpwyd y cyttundeb; etto y mae yn berffaith rad a diammod i ni; ac am hynny ni ellir tybyg, bod 'chwanegu ammodau at addewidion *canlynol*, yn dirymu'r addewid eynaf. Rheol ysgrythyrol yw, "Nad yw y ddeddf, oedd bedwar cant a deg ar hugain o flynyddau wedi'n, yn dirymu yr ammod a gadarnhawyd o'r blaen gan Dduw yn Nghrist, i wneuthur yr addewid yn ofer." Yr un peth a ellir ei ddywedyd am yr addewidion a wnaethpwyd mewn amser; sef, "Nad yw ammodau rhai yn diddymu rhadlondeb y lleill." Fel yr oedd y ddeddf i Grist, felly y mae'r addewidion ammodol i'r rhai diammod; maent yn dangos beth a ddylem fod, a ph'eth y ddylem wneuthur; ac yn ganlynol, na allwn na bod na gwneuthur fel y dylem; ac oddiwrth hynny yn dangos mor rheidiol yw i ras Duw weithio drosom; ac yno yn wir, ac nid cyn hynny, y mae rhadlondeb-gras yn werthfawr, yr hwn sydd yn addaw cymmorth ar dilerau diammodol. Ac felly yr ydym yn cael, bod yr hyn oll a ofynir mewn un ysgrythyr fel yr ammod o'n cymmeriad gydâ Duw, ac o fywyd tragywyddol, wedi ei addo yn ddiammodol mewn ysgrythyrau eraill: fel y mae yn amlwg wrth yr

y chydig brofiadau canlynol; yr hyn ni ammhewid, pe gwypai dy nion beth sydd dda er eu lles:—

Addewidion ammodol.

Ymolchuch, ymlanheuch, peidiwch a gionethur drwg; dysgwch, wneuthur daioni: Deurh yr awr hon ac ymresymon; pe byddai eich pechodau fel ysgarled, ánt cynwynned a'r eira.

Dychwelwch a throwch, fel na byddo anwiredd yn dramgwydd i chwi; a gwnewch i chwi galon newydd ac ysbryd newydd.

Gwrandewch, a bydd byw eich enaid. Os ceisi yr Arghwydd dy Dduw, ti a'i cai ef, os ceisi ef á th holl galon.

Yna'r adnabyddwn, os dilynwn adnabod yr Arghwydd.

Enwaedwch chwithau ddi-enwaediad eich calon.

Trowch chwi, blant gwrthnysig.

Os byddwch ewyllysgar ac ufudd, daioni y tir a fwytewch.

Ymosynir á myfi etto gan dy Israel, i wneuthur hyn iddynt.

Y neb a barhao hyd y diwedd, hwnnw a fydd gadwedig.

Dyna rai o'r 'addewidion mawr iawn a gwerthfawr trwy y rhai ein gwneir yn gyfrannogion o'r duwiol anian.' A'r rhai, o'u iawn ystyried, a fyddent dra buddiol i sicrhau y gwirionedd presennol, sef, bod yn rhoddi pob peth perthynol i fywyd a duwioldeb yn gwbl rhad; ac nid oes dim fwy gwrthwyneb i hyn, na gosod yr oruchwyliaeth o ras i sefyll ar ewyllys ac ymarferiad dyn naturiol. Cau allan yr hyn yw prif ddyben addewidion diammad, "fel na orfo-

Addewidion o'r Ammod.

Yna y taenellaf arnoch ddwfr glân, fel y byddoch lân; oddiwrth eich holl frynti y glanhaf chwi.—Mi a faddeuaf eich anwiredd, a'ch pechod ni chofiaf mwyach.

Ysbryd newydd a roddaf ynoch. A rhoddaf i chwi galon newydd, ysbryd newydd hefyd a roddaf o'ch mewn chwi.

Titheu a ddychweli ac a wrandewi ar lais yr Arglwydd. Hwyl a droant attaf fi a'u holl galon. Cafwyd fi gan y rhai ni'm ceisiasant.

Ti a elwi arnaf fi, fy Nhad, ac ni throi ymaith oddi ar fy ol i.

Yr Arglwydd dy Dduw a enwaeda dy galon.

Meddyginiaethaf eu hymchweliad hwynt.

Dy bobl a fyddant ewyllysgar. Gwnaf i chwi rodio yn fy neddfau.

Tywaltaf ar dy Ddafydd ysbryd gras a gweddiau.

Ni chiliaf oddi wrthys. Yr hwn a'ch cadarnha chwi hyd y diwedd.

oddai un cnawd ger ei fron ef;" gan mai "Duw sydd yn gweithio pob peth yn mhawb, ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ei hun."

Y mae etto lawer o bethau yn cael eu rhoddi yn erbyn yr athrawiaeth hon; y rhai y mae yr ysgrythyrau sanctaidd, a'r rhesymau a gasglir oddi yno, a phrofiad crist'nogion, yn ddigonol i'w hatteb: a hyn o ddaioni y maent yn ei wneuthur i ni, sef dwyn i'n cof rai pethau (a anghofwyd o'r blaen) y rhai a allant y'mhellach egluro a chadarnhau y gwirionedd.

Gwrthddadl. "Y mae gan bawb yn gyffredinol (eraill yn gystal a'r rhai a alwch yn etholedigion) foddion digonol i iechydwrtaeth."

At. Na atto Duw i ni leihau y moddion a ganiatteir i neb, na'u pechod yn peidio a byw i'r hyn sydd ganddynt: mae ganddynt oll foddion i fod yn well nag y maent; ac etto ni allwn ni gyttuno fod gan bob dyn yn awr, er y cwmp, y digonoldeb a haerir: canys ni ddylid gau allan o fysg y lleill enw Crist, a ffydd ynddo ef; eithr nid yw y rheiny gan bawb. Nid ydys mewn rhan fawr o'r byd gymmaint ag enwi Crist; "A pha fodd y credant yn yr hwn ni chlywsant am dano?" A lle mae yr efengyl, "nid oes ffydd gan bawb." Nid credu yn Mab Duw yw, i ddynion gredu (neu freuddwydio yn hytrach) fod rhyw un ardderchog wedi gwneuthur cymmod, i droi ymaith ddigofaint oddiwrth bechaduriaid; ond codi allor i Dduw dieithr, ac addoli ni wyddant pa beth. Y mae ein Hiachawdwr yn dywedyd wrth yr Iuddewon, y rhai a wyddent fod y Messia yn dyfod, "Oni chredwch mai myfi yw efe, chwi a fyddwch feirw yn eich pechodau." O herwydd rhesymau eraill hefyd, ni allwn gydsynio â'r gwrthddadl: 1. O herwydd ei fod yn gosod dyn yn awr yn yr un cyflwr ag yr oedd cyn y cwmp; y pryd hynny, yn ddiaw, yr oedd ganddynt ddigonoldeb i gadw eu cyflwr presennol; ond er hynny pawb a enir yn blant digofaint ac yn elynion i Dduw: y mae rhai dynion yn gwneuthur iddynt eu hunain ragori; yr hyn sydd yn groes i bawb oddi uchod. 2. Waith eu bod yn rhoi lle i ymfrost: canys os yr unrhyw foddion yn unig yr ydys yn eu rhoddi i bob rheswm, gan na all yr un moddion gael ond yr un effaith ar y rhai yn yr un amgylchiadau. 3. Am fod yr ysgrythyr yn dywedyd yn gwbl wrthwyneb; a hynny am y rhai yr oedd ganddynt ddigonoldeb mwy na neb arall; ac etto ni allent gredu: ac am y rhai credadwy eu hunain, nad oeddent ddigonol i feddwl: ac am ddysgyblion Crist ei hun,

(gan y rhai yr oedd y moddion goreu) “na allent wneuthur dim hebddo ef:” ac oni all y fath rai a'r rheiny na gwneuthur na meddwl, b'le mae y digonoldeb o'r hwn yr yuffrostier? Yr ydych yn dywedyd y gallant gredu os mynnant: nid felly, eithr os mynnant hwy a allant. Nid yw gallu a mynnu yn y matter hwn, ond yr un peth wedi adrodd ddwy ffordd: peth cyffredin yw dywedyd ni allwn, pryd na bo dim yn eisiau ond y mynnu. Ac ni byddai gallu i fynnu (pe gallai'r fath beth fod) heb fynnu i weithredu; ond megis braich heb nerth, neu draed a fferrau yr hwn a aned yn gloff, yn unig o ran golwg, heb allu i wneuthur dim. Eithr pa fath ddigonoldeb wylofus yw hwnnw, yr hwn sydd yn ein gadael “heb obaith ac heb Dduw yn y byd?” Ac etto hynny yw cyflwr rhan fawr o ddynolryw. Fe allai y dywedwch, hwy a gawsant ddigonoldeb, ond trwy gam-arfer a'i collasant: ac a all bod eglurach dangosiad o annigonoldeb un peth, nâ'i anallu i ymddiffyn ei hun? a'i gyffredinol ddiffwythdra? Eithr fe all moddion fod yn berthynol ddigon, ac yn eu lle yn ddigonol, i ddwyn i ben y cyfryw beth; ac etto na ddelo'r peth hwnnw byth i ben, eisiau rhyw beth arall ag sydd yn rheidiol atto. Yr oedd rhai o'r Iuddewon, wrth eglur dystiolaethau o Dduwdod Crist, yn credu mae efe oedd y Messia; ac etto ni ddaethant at berffeithrwydd; “Ni chyffesasant ef;” a hynny eisiau bod “braich yr Arglwydd wedi ei ddatguddio iddynt;” hynny yw, (fel y dywed Moses) “Ni roddasai'r Arglwydd iddynt galon i wybod;” *plannu a dwfrhau* ydynt briodol a digonol yn eu rhyw, fel moddion ac ail achosion; ond ni allant beri llwyddiant heb fendith oddiwrth Dduw. Pwy a allai ymresymu yn fwy nerthol nâ Paul? na llefaru yn fwy areithiol nâ Apolos? Ac etto llwyddiant eu gweinidogaeth oedd, “Fel y rhoddes yr Arglwydd i bob un; Duw sydd yn gweithio, ewyllysio, a gweithredu: efe sydd yn agor y clust i dderbyn cerydd, ac yn selio addysg:” pan gosodo efe ei law wrth y gwaith, y mae yn iawn ac yn bwerus, a nid cyn hynny. Y mae'r hen Iuddewon yn siampl eglur o hyn. Yr oedd ganddynt foddion i ymlanhau, ond ni ymlanhausant; ond yn ol hynny y mae'r Arglwydd yn cymmeryd y gwaith i'w ddwylaw ei hun; “Taenellaf arnoch ddwfr glân, fel y byddoch lân; oddiwrth eich holl frynti ac oddiwrth eich holl eilunod y glanhaf chwi. A rhoddaf i chwi galon newydd; a gwnaf i chwi rodio yn fy neddfau:” wrth yr hyn y mae'n eglur, na bydd i'r Arglwydd yn unig roddi iddynt foddion a'u gadael i'w defnyddio eu hunain; canys efe a

welodd na wna hynny y tro; eithr y mae yn cymmeryd y cwbl arno ei hun: nid yw yn eu rhyddhau oddiwrth eu dyledswydd, ond yn eu cymmorth i'w chyflawni; gan 'chwanegu ei dduwiol bwer i wneuthur y moddion yn effeithiol; fel y mae yn eglur wrth eiriau Jeremi, "Myfi a ddygaf iddi hi iechyd a meddyginiaeth, a mi a'u meddyginiaethaf hwynt." Hynny yw, efe a rydd iddynt galon hawddgar a da, fel y dygout firwyth i berffeithrwydd. Hynny yw y moddion priodol a digonol i iechydwriaeth, a llai na hyn ni wna.

Gwrthddadl. 'Oni roddir i bawb foddion digonol i ffydd ac edifeirwch, pa fodd y gall Duw yn gyfiawn gospi eu hesgeulusdra?

At. Nid rhaid i Gyfiawnder Duw wrth ein iachâd ni, yn enwedig â meddyginiaeth o'n gwneuthuriad ein hunain: pa un a wnelo ai euog-farnu neu gyfiawnhau, y mae yn gyfiawn yn yr hyn a wnelo; er na all rheswm cibddall ganfod hynny. Dyfnder mawr yw ei farnedigaethau; ac ni all deall dyn eu hamgyffred. A fydd i chwi dybyg nad oes un gwaelod i'r môr, am nad yw eich llinyn chwi yn abl ei gyrraedd? Ni wnaeth Duw felly, o ran moddion, âg un genedl fel y gwnaeth ef âg Israel; ac ni chaniattaodd Duw i'r rhai oedd yn cydymdeithio â Phaul i Ddamascus, welod ei wyneb na chlywed ei lais, fel y gwnaeth ef i Paul; ac etto nid rhaid iddo wrth amddiffynfa, pa'u y mae yn eu cospi hwynt am anghrediniaeth: "Cynnifer ag a bechasant yn ddiddeddf, a gyfngollir hwynt yn ddiddeddf," Rhuf. ii, 12. Heblaw hynny, y mae dynion yn gyfiawn yn ddarostyngedig i gosp, am esgeuluso, a pheidio a defnyddio y moddion sydd ganddynt; er na b'ai'r moddion hynny, er gwneuthur y goreu ag a allai natur ei wneuthur, yn abl achub: y mae dynion i'w cospi am beidio porthi a dilladu'r tlawd; ac etto nid yw gwneuthur y pethau hynny yn cyfiawnhau. Y mae'r troseddiad lleiaf yn ein gwneuthur yn ddarostyngedig i ddigofaint; ac ni allwn wrth gadw rhai gorchymynion wneuthur iawn am droseddu rhai eraill.

Gwrthddadl. 'Lle dywedir, "Myfi a 'sgrifenaf fy nghyfraith yn eu calonau, ac a wnaif iddynt rodio yn fy neddfau," nid ydys yn meddwl dim yn ychwaneg na rhoddi iddynt foddion perthynol i'r cyfryw ddyben."

At. Pe b'ai un a f'ai yn rhwym i achub eich bywyd, yn dehongli ei rwymedigaeth yn llyn; ni thybiech ei fod yn daledigaeth dda, nac iddo ef ddelio yn ffyddlon â chwi. Ni all yr addewid tra graslawn hyn fod o ystyriaeth mor gyfyng

ag y dywedir; canys, 1. Rhaid i'r addewid fod mor helaeth a'r gorchymyn; pe amgen, fe fyddai yn rhy gyfyng i ni i ymddiried iddo. Os ydyw'r gorchymyn, gan hynny, yn meddwl yn ol ystyr lythyrennol y geiriau, y mae'r addewid felly hefyd: eithr y mae'r gorchymyn yn rhwymo, nid yn unig i arfer y moddion perthynol i'r cyfryw ddyben, ond hefyd perffaith ac effeithiol gyflawniad o'r ddyledswydd ei hun, o ran ei defnydd a'i dull; ac felly y mae yn rhaid bod yr addewid hefyd: yno y mae'n ganlynol bod 'sgrifeu y gyfraith yn y galon, a gwneuthur i rodio ynddi, &c. yn fwy na rhoddi'r moddion, sef y peth ei hun. 2. Y mae hi yn galed gyda'r athrawiaeth honno, ac nid oes nemawr o goel i'w rodidi iddi, sy'n rhaid iddi, er ei hamddiffyn ei hon, ddehongli yr addewidion goruwchaf a grasusaf ag a wnaeth Duw, yn y fath fodd ag a'u gwuelo yn egwan ac yn ddi-frwyth. 3. Lle mae Duw yn eglur ac yn ddi-os yn dywedyd y gwna efe y cyfryw beth; nid yw gwaith dyn yn 'chwanegu ammodau a therfynau, dim llai na dileuo neu 'chwanegu at y gof-sgrifen; yr hyn sydd weithred ledrataidd: a pha fodd y gwna i'r sawl sydd yn 'chwanegu at, neu yn cymmeryd oddiwrth ei eiriau, chwi a ellwch ffeindio yn y bennod olaf o'i lyfr: (nid da cellwair a phethau sanctaidd). 4. Ni ddywedir i'r physygwr hwnnw, yr hwn a gymmerodd arno wela un gwallgof, a'i gadw yn ei iawn bwyll, gyflawni ei waith, neu wneuthur ei air yn dda, (pa foddion bynnag a arferodd) os y dyn sydd yn parhau yn, neu yn dychwelyd i'w gyflwr dibwyll. 5. Nid oes na rhaid na rheswm i'r Arglwydd addo, neu wneuthur fe pe b'ai yn addo, mwy na'g y mae ar fedr ei gyflawni: (o herwydd hynny a fyddai corsen ysig): neu, paham yr arferai ef eiriau cyflawnach, neu rwymedigaeth mwy hollol, na'g a allai yn gwbl gydsefyll â'i ddoethineb, ei gyfiawnder, a'i sancteiddrwydd, &c.? 6. Yn olaf, yr ydys y'mhellach yn rhoi yn erbyn ac yn gwrthod y gwrthddadl, nid yn unig o ran ei bod yn gwneuthur dyn yn weithydd pennaf yn ei iechydwrriaeth ei hun, eithr hefyd o ran ei bod yn dywedyd, nad yw Duw yn gwneuthur dim ychwaneg dros y rhai cadwedig na'r rhai colledig. Os dynion sydd yn gwneuthur eu hunain ragori, y mae hynny ar unwaith yn gwneuthur diwedd ar y dyben mawr o ogoneddu gras. Ac yn ddiâu, matter o ryfeddod a thosturi yw canfod, pa mor ddifrifol gyfrwys y mae rhai pobl i ddirymu addewidion Duw; megis pe na allent dderbyn iechydwrriaeth, oni chai eu hewyllysiau hwy eu hunain fod yn gydgyfrannogion â gras yn y gwaith.

Gwrthddadl. ‘Oni ddywedir, “I bob un y mae ganddo y rhoddir;” hyany yw, yr hwn sydd yn iawn ddefnyddio gras cyffredin, a gaiff ras neillduol?’

At. 1. Os ydyw yr addewid hwnnw o 'sgrifenu'r gyfraith yn y galon, yn arwyddocau yn unig roddi moddion, (yr hyn nid yw ond gras cyffredin) b'le y cawn ni addewid o ras neillduol? Dyledswydd pawb, yn ddiau, yw iawn arfer gras cyffredin; ond nid yw yn haeddu nac yn peri i Dduw roddi gras neillduol: y mae ef uwchlaw annogaethau dynol; ac ni chynhyrfir ef ganddynt, fel y cynhyrfir dynion: fel y mae yn amlwg yn Mhau, yr hwn y cymmerodd gras neillduol afael ynddo, pan yr oedd fwyaf yn cam-arfer gras cyffredinol: nid oedd dim yspaid o amser rhwng ei fod yn *erlidiwr* ac iddo *gael trugaredd*. 2. Pa gyfattedboldeb, o ran gwerth-fawrogrwydd, sydd rhwng llonaid llaw o bridd, a thalent o aur? y mae yn anfeidrol fwy, y gwahaniaeth rhwng y gras o ffydd a dim ag a allo dyn naturiol ei wneuthur i'w chyrraedd: “Y rhai sydd yn y cawd ni allant ryngu bodd Duw.” 3. Beth bynnag nid yw o ffydd, pechod yw; ond ni all pechod dyn fod yn achos o ddaioni iddo: nid yw pledio eich defnyddiad da, ond gwneuthur eich brattiau bydron yn rheswm paham y dylai Duw eich derbyn. Cofiwch yn mha gyflwr yr oedd yr hwn a gynhygodd arian am ddawn yr Ysbryd Glân; nid yw cynnyg eich ymarferiad da am ffydd ddim gwell. 4. Ni byddai addas i ddoethineb, gallu, neu ras Duw, adeiladu ar sylfaen a barottowyd gan un arall: nid rhaid iddo wrtho, ac nid yw mewn un modd yn cyttuno â'i amcan ef; sef, fod i'w ras ef gael ei gydnabod yn Alpha ac Omega o iechydwrïaeth dyn. 5. Y mae yr ewyllys i ymarfer gymmaint oddiwrth Dduw, a'r peth a arferir: “Ni ddychon dyn dderbyn dim, oni bydd wedi ei roddi iddo o'r nef:” y peth a roddir, a'r pwr i'w dderbyn neu i'w ddefnyddio, ydynt eich dau oddi yno: ac nid dynion sydd yn tynnu i lawr bethau oddi uchod; ond y maent yn disgyn y pryd y mynno, ac i'r neb y mynno Tad y goleuni.

Gwrthddadl. ‘Yr ydys yn gorchymyn i ddynion “wneuthur iddynt galon newydd;” yr hyn sy'n arwyddocau gallu i wneuthur hynny: canys, pa fodd y mae yn gyfiawn orchymyn pethau amhosibl, yn enwedig dan y fath boen?’

At. Beth bynnag a gynhwysir yn y gorchymyn, y fath gasgliadau sy'n dangos, fod y neb sydd yn eu gwneuthur yn dra anghydnabyddus â'r ysgrythyrau, ac yn rhyfygus yn ymresymu oddi wrthynt. Y mae digon o resymau a dy-

oeddent yn ei ewyllysio: ond nid yw yr ewyllys yn nhroedigaeth yn dyfod dan y fath gymhelliad, na dim cyffelyb iddo. 2. Y mae cymhelliad naturiol: fel y mae yn gorfod ar ddynion a chreaduriaid eraill fwytta, yfed, cysgu, ac anadlu: nid rhaid i neb beri iddynt, nac arfer rhesymau i'w hannog; y mae'r naturiaeth a roddodd Duw iddynt er eu cynhaliaeth, yn gwneuthur iddynt wneuthur felly: y cymhelliad hwn sy'n briodol i'r enaid a drowyd, o ran bywyd a gweithredoedd ysbrydol. 3. Y mae hefyd gymhelliad rhesymol, yr hwn sydd nesaf at y peth yn llaw: sef, pan byddo'r deall a'r farn yn canfod hynny yn dda, yn rheidiol, ac yn fuddiol; yr hwn o'r blaen a dybygwyd ei fod ffordd arall. Am hyn, gwelwch rhesymau y mab afradlon am ddychwelyd at ei dad; a'r gwahanglwyfus, am fyned i wersyll y Syriaid: eu rheswm a ddywedodd wrthynt mai gwell oedd myned lle yr oedd gobaith, nag aros lle nad oedd dim. Gwelwch hefyd reswm y saint am fyw i Grist; cariad Crist sydd yn eu cymmell; ni allant lai na barnu felly, sef, gan i Grist farw drostynt, eu hod hwythau yn rhwym i fyw iddo yntef; yr hwn nid yw yn lleihau eu rhyddid, er nad oeddent yn meddwl felly o'r blaen.

Nid yw y cyntaf o'r rhei'ny, sef y gorthrechol, yn perthyn i'n hathrawiaeth ni: diau fod yn tynnu dynion wrth eu troi; ac ni byddai droedigaeth heb hynny; "Ni ddychon neb ddyfod at Grist nes ei dynnu:" y tynnu hwn sydd yn arwyddocau gwrthwynebiwydd, neu o leiaf, anallu yn yr hwn a dynnir; ac yn ganlynol rhyw fath o *drais* neu bwer oddi allan wedi ei arfer arno. Eithr gadewch i mi ddywedyd ei fod y cyfryw gymhelliad ag y mae'r enaid a oleuwyd yn dra llawen yn ymddarostwng iddo, ac ni fynnai er y byd fod o dan ei bwer a'i fendigedig arweiniad. Nodwn, gan hynny, pa fodd y mae'r Tad yn tynnu; sef, yn y ffordd hawddgaraf a thyneraf ag a ellir ei ddychymyg. Y mae yn tynnu trwy ddysgu: nid fel yr oedd Gideon yn dysgu gwyr Succoth; nac fel yr oedd swyddogion yr Aipht yn tynnu'r bobl at eu gwaith: ond fel y tynnid Jacob i'r Aipht; yr hwn nid oedd yn rhaid ei yrru i newid ei letty a symmud ei habell, pan yr oedd wedi ei amgylchu â newyn, ac yn clywed bod llafur yn yr Aipht; pan oedd y brenin wedi danfon cerbydau i'w ymosyn, a lluniaeth i'r daith; gan ddywedyd y'mhellach, fod daioni yr holl dir o'i flaen ef: yn enwedig gan fod ei anwylid Joseph yn o yn byw mewn anrhydedd mawr, ac yn barod i'w dderbyn ef. Yn yr un modd, pan gaffo'r enaid olwg o'i waeldra ei hun, a sancteiddrwydd Duw; o burdeb, union-

uwchder, balchder, 'styfnigrwydd ysbryd, a gelyniaeth yn erbyn Duw: gochelwch ef megis uffern; canys diau mai angeu yw, yr hwn y mae uffern yn ei ganlyn: lle o'r gwrthwyneb, ni all bod arwydd gwell o gyflwr gobethiol, nâ difrifol ddisgwyl wrth Dduw yn ei ffordd. I gael gwybod eich etholedigaeth, dechreuwch lle dylech; arferwch bob diwydrwydd i wneuthur eich galwedigaeth yn sicr; a'r sicrwydd o'ch etholedigaeth a ganlyn.

IV. Dysgwch, oddiwrth natur yr athrawiaeth wrthwynbol, pa wastadol raid sydd wrth, a pha ddefnydd sydd i'w wneuthur o'r gocheliadau hyn, y rhai a fynych ail adroddir; sef, "Profwch yr ysbrydoedd; chwiliwch yr ysgrythyrau; edrychwch pa fodd y clywoch; ac na thwyller chwi gan ymddangosiadau tēg yn y cnawd." Pa fwyaf llyfn a boddlongar i glust cnawdol y fyddo un athrawiaeth, mwy eiddigeddus y dylem fod o honi, a'i profi yn fwy hollol cyn ei derbyn. Bydded i amcan y gyfraith a'r dystiolaeth farnu'r peth; a hynny a ddywed i chwi, na ddylid cyfrif yr athrawiaethau hynny yn ddiuog, y rhai sydd yn derchafu y creadur godidog hwnnw, sef dyn; gyda nerth a gallu rheswm naturiol; digonoldeb ewyllys-rydd; y pwer i ddefnyddio, (ac yn ddiau ni wn pa beth, canys nid ydynt yn ol dull ymadroddion iachus); gan wneuthur yr hyn sy'n fach yn fawr, ar yr hwn y mae yn rhaid i amcan (ie y gogoneddus amcan) o ras yn Etholedigaeth, cyfryngdod Crist, a gweithrediadau'r Ysbryd Glân, oll grogi a symmud, ie hefyd gael eu difetha a'u diddymu; oni bydd rheswm dyn yn ewyllysgar i ymadael â'r orsedd, ac i ymddarostwng i'r hyn y mae yn ei gyfrif yn ymfydrwydd. "Dirgelwch yw duw-oldeb," ie dirgelwch mawr; ie dirgelwch ysbrydol, yr hyn ni ellid dywedyd ei fod, pe gallai rheswm ei amgyffred. A'ch holl ofal, gan hynny, ffowch oddiwrth y sugn-draeth beryglus hon, yn yr hon y suddodd ac y dinystriwyd yr Iuddewon: a pha sawl yn ein dyddiau ni sydd mewn perygl o hynny! Hi a laddodd ei miloedd, am ddeg a ddi-fethodd eraill. I ragflaenu hyn, mi a roddaf dri gocheliad;

1. Bod gwahaniaeth rhwng rhinweddau moesol a rhai duwiol; neu sancteiddrwydd mewn gwirionedd. Y mae'r cwbl o foesau da mewn gwir sancteiddrwydd; ond fe all oll a elwir yn foesol fod heb wir sancteiddrwydd, ac ni chynhydda byth i fod yn sancteiddrwydd: nid yw cynnydd yn newid y rhyw, y mae yn rhaid i sancteiddrwydd gael gwreiddyn o'i eiddo ei hun. Yr hwn oedd oreu yn adnabod natur y peth a ellid ei ddisgwyl oddi wrthynt, sy'n dywedyd

bod mor afresymol dybyg yn amgen, a disgwyl ffigys oddiar ysgall. Eu hamryw derfynau sy'n dangos nad ydynt yn tarddu o'r un ffynnon; yr hyn sydd yn tarddu o'r duwiol anian, sydd yn rhedeg at Dduw, ac nid yw yn sefyll nes dyfod atto; a'r hyn sydd yn tarddu o hunan, sydd yn diweddu yno; megis cylch b'le bynnag y dechreuo, yno y diweddaf, er pelled y tynnoch oddi amgylch. Yr oedd Paul yn wr moesol rhagorol; ei waith yn mynych goffa hynny, sy'n dangos pa gyfrif oedd unwaith yn ei wneuthur o hono: eithr "pan welodd Duw fod yn dda ddatguddio ei fab ynddo ef," y mae yn ei gyfrif oll yn *dom*; yr hyn ni's gwnaethai, pe buasai'r creadur newydd yn tarddu o'r hen. Na feddyliwch gan hynny gael defnydd sancteiddrwydd efangylaidd o honoch eich hunain, y rhai, er eu bod yn dda yn eu lle; etto ni ddygant ffrwyth o'r fath hynny, nes eu cymmorth gan yr "impiedig air." Nid yw yr hwn sydd yn meddwl tynnu grasusau safadwy o egwyddorion naturiol, ond nyddu ei ymysgaroedd ei hun, gael marw yn ei wê.

2. Na thybygwech y cewch ras neillduol am eich gwaith yn gwneuthur defnydd da o ras cyffredin: y mae yr hwn sydd yn gwneuthur felly yn adeiladu ar gam-sylfaen; ac y mae etto tan gyfammod o weithredoedd; tan yr hwn ni achubwyd un dyn etto, ac ni wneir byth. Yn llyn, yr oedd gydâ'r rhai oedd "yn dilyn deddf cyfiawnder, ond ni chyrhaeddasant hi;" beth a'u rhwystrodd? "Am eu bod yn ei cheisio megis trwy weithredoedd y ddeddf:" eithr y "cenhedloedd, y rhai nid oeddent yn eu dilyn a'i derbyniasant." Nodwch ar y ffordd, fod y rhai nid ydynt yn dilyn cyfiawnder a bywyd, mor debyg i'w chael a'r rhai sydd yn ei cheisio mewn modd anaddas, sef, trwy eu gweithredoedd eu hunain. Ofer yw disgwyl am iechydwrïaeth o'r mynyddoedd o ryddid naturiol ewyllys rydd, ymroiadau dynion, neu beth bynnag arall sydd fwyaf ei gyfrif yn mysg dynion: nid oes neb mewn mwy perygl o gael eu torri ymaith, nâ'r rhai *uch l-fryd*, y rhai sy'n sefyll allan, ac ni ymddarostyngant oni chant gymmeryd eu hyspail gydâ hwynt: felly'r oedd gydâ'r Iuddewon cnawdol hynny, "Had Abraham ydym ni, ni wasanaethasom ni neb erioed;" ac, "Ydym ninnau hefyd yn ddeillion?" Os bu dy galon gnawdol yn tynnu y ffordd hon, bendithia Dduw os yw heb fod felly etto: cofia'r perygl a ddihangaist, ac na ddere iddo mwy, a chadw yn dy galon megis rhagdal rhwng dy lygaid, y gair da hwnnw yn Jeremi, yr hwn sydd yn dangos y perygl o wneuthur cnawd yn fraich it', a'r gwynfydedigrwydd o ymddiried yn unig yn yr Arglwydd. A hyn,

deb, a chyfiawn greulondeb y gyfraith, ac o'i aflendid, ei wyrni, ei euogrwydd, a'i anallu ei hun, i'w chadw nac i ddyoddef ei melldith: ac y canfyddo, mai yn Nuw yn unig y mae ei holl wynfydedigrwydd, ac etto na all ef ddyfod atto ond fel soft sych at y tân fflamlyd: eithr oni ddaw, rhaid iddo farw lle mae, a phreswyllo gyda llosgfeydd tragwyddol; a phan, gyda hynny, y clywo am Gyfryngwr, a ddaeth o'r nef i achub y fath ag yw ef; yr hwn nid yw yn bwrw ymaith neb ag sydd yn dyfod atto; a thrwy yr hwn y gall ef ddyfod at Dduw yn ddiogel ac yn gymmeradwy: nid rhaid rhoddi llaw ar yr enaid, y mae hunan gariad yn adenydd i'r enaid. Y mae, yn ddiaw, orchestol (neu yn hytrach) holl-alluog bwer yn gorchfygu ac yn bwrw allan yr hwn sydd yn gorthrymu ac yn gwyrddroi yr ewyllys, trwy dwyllo'r deall ag ymddangosiadau ffalst a rhesymau cnawdol; y rhai, pan rwyllir ymaith trwy ddisgleirdeb y gwir Oleuni, y mae'r ewyllys yn ymddarostwng ac yn canlyn gyda pherffaith ryddid. Ni chynnygodd Crist ddim trais i'r dyn o'r hwn y bwriodd y lleng; ond trwy hynny a'i hadferodd i'w berffaith ryddid: canys yr ydym yn bresennol yn ei gael ef "wrth draed yr Iesu, yn ei ddillad a'i iawn bwyll;" yn awr yn ewyllysio aros gyda'r hwn yr oedd o'r blaen yn ffinder iddo ei weled: ni ddywed neb yma wneuthur cam â'r dyn, er croesi ei ewyllys; os dywedant, y mae achos i ofyn pa un ai bod hwy yn eu hiawn bwyll. Pan byddo'r swyddgynheddfau wedi eu trefnu trwy adnewyddiad, y deall yw ysbryd yr ewyllys; yr hon, gan hynny, sydd yn edrych ac yn myned yr un ffordd ag ef, fel yr oedd yr olwynion yn gwneuthur â'r pethau byw, heb eu cymmell i wneuthur hynny: y mae ganddi yn awr dueddiad o'i mewn, trwy yr hwn ei chynhyrfir ac ei tywysir, (gan ei bod ei hun hefyd wedi ei hadnewyddu a'i sancteiddio) yn ol y goleuni adferedig: megis nad rhaid troi y nodwydd, os byddir wedi cyffwrdd â hi yn iawn, at y gogledd; y mae hi yn gwneuthur felly o honi ei hun: os y llygad sydd syml, yr holl gorph sydd oleu.

Eithr bwriwch bod yr hyn a haerir yn wir, (sef, bod yn gorthrechu'r ewyllys) ni ddylid ei alw yn greulonder ac yn orthrymmusdra, fel y mae rhai (ag y sydd yn dyner iawn o bethau naturiol) yn rhyfygu dywedyd; nac yn ddiaw i achwyn arno mewn un modd; gan ei fod yn tueddu, ac yn diweddu mewn daioni anfeidrol. Pa dad ni chroesai ewyllys ei blentyn, yn hytrach nâg edrych arno yn dinystrio ei hun trwy ei ynfydrwydd? A fydd i rieni megis dreisio ewyllys eu

plant er daioni iddynt, a bod yn ddifeius? ac oni chaiff Tad yr ysbrydoedd yn hytrach, fel y byddom byw? Onid trugaredd ydoedd i Jeremi, "fod gair yr Arglwydd fel tân yn ei esgyrn, fel na allai beidio a llefaru," yn hytrach na chael ei ddifetha am dewi? Pa faint gwell yw myned i'r bywyd yn gloff neu yn un-llawiog, nâ chael ein bwrw i uffern yn ddi-nam! Yr wyf yn gobeithio nad oes neb mor ynyfyd a barnu yn angen; neu a achwyno am eu cymmell neu eu cario i'r nef, pe b'ai hynny mewn trowynt a cherbyd o dân. Yr wyf yn cyfaddef mai angenrheidrwydd sydd yn gyrru at Grist ar y *cyntaf*; ond yn ol hynny, y mae ei odidawgrwydd personol a'i hawddgarwch yn cymmell i aros gydâg ef; (cymbelliad melus a bendigedig!) Ac yn awr ni ymadawech âg ef, pe b'ai heb fod yn rhaid i chwi, megis o'r blaen, fyned i'r nef-oedd: ond etto yr ydym yn dywedyd, fel o'r blaen, nad ydys yn treisio, ond yn cyfnewid yr ewyllys; a hynny mewn ffordd ddyledus drefnus, trwy ei darostwng i ddeall wedi ei oleuo; nâ'r hyn nid oes dim mwy hyfryd na naturiol.

Defnyddion.

Y defnydd o'r athrawiaeth hon a rannaf i ddau ben;

1. O *ocheliad*, i ragflaenu cam-arfer o'r fath wirionedd mawr.
2. O *gyfarwyddiad*, i dynnu allan beth o'i nerth i ymarfer: ac am y ddau hyn ynghyd ac yn fyr, er eu bod yn haeddu eu trîn yn helaeth. Yn gyffredinol, daliwch sylw, mai nid dyben yr athrawiaeth hon yw cefnogi esgeulusdra, neu swrthni a diogi cnawdol; eithr gosod allan gyflawnder, rhadlondeb, a nerthol effaith duwiol ras; gydâ diddymdra'r creadur (o'ran dim ag a allo ei wneuthur) yn y peth hwn. Yn fwy neillduol:—

I. Na thybygwch bod gennych hawl yn yr addewid o fywyd tragywyddol, nes caffoch ynoch eich hunain y cybeddfau rheidiol i'w amlygu; sef, ffydd ac ail-enedigaeth: neu o'r hyn leiaf, wir ddifrifol ac ymorchestol ymfyniad am danynt; "Ni'th ollyngaf oni'm bendithi," Gen. xxxii, 26.

II. Na ddirmygwch ac na ddibrisiwch y moddion, o ran eu bod yn annigonol i achub o'honynt eu hunain. Lle mae moddion, y mae Duw yn disgwyl i ddynion eu harfer: ac nid ydym yn darllen am neb a achubwyd hebddynt, lle y gallid eu cael.

III. Na esgeulused neb ei ddyledswydd mewn ffordd ryfygus ddiotal; gan ddywedyd, "Os ydwyf wedi'm hethol, diau byddaf gadwedig; os amgen, ni all y cwbl a wnelwyf fy nghymmorth. Y mae'r cyfryw dymmer yn dangos

fel yr wyf yn ddiau yn barnu, yw'r achos bod rhai, a wnaethant broffes deg yn syrthio ymaith ac yn gwiwo; y maent yn gwneuthur addewidion gras yn ammodol, ac yn peri i'w heffaith sefyll ar eu hewyllysrydd hwynt, ac y mae yn digwydd iddynt yn gyfattedbol. Y fath ffydd sydd o wreiddin dynol; o ddyn y mae, ac am hynny y mae hi yn dyfod i ddim; "Pe buasai hi o Dduw, ni allasid ei diddymu."

3. Nad yw doethineb dynol farnwr addas yn y peth hwn. Chwi a allwch gystled brofi mettel ar bridlech, dirnad lliwiau wrth oleu'r lloer, a barnu pethau ysbrydol wrth reswm naturiol; y maent uwch ei law, er nad yn wrthwyneb iddo; ac ni all eglurder goleuni oddiallan gymmorth yma, yr un peth yw canol dydd a chanol nos i'r hwn a aned yn ddall; ni wnai llewyrch yr haul pe b'ai saith mwy, ond dallu golwg na byddai gymmwys i'w dderbyn. Ni allir canfod pethau ysbrydol ond â golwg addas i hynny; y diffyg o'r fath olwg sydd yn fynych yn peri gwyrdroi'r ysgrythyrau; a chymeryd y llythyren yn lle, ie i ddinystrio yr ystyr. Nid oedd y dysgyblion eu hunain yn deall yr ysgrythyr, nes iddo ef agor eu deall a thewynnu arno; ac wedi eu cymmorth yn llyn yr oeddent yn edrych ar, ac yn trin gair y bywyd, fel y cyfryw, ac "yn gweled ei ogoniant ef, gogoniant megis yr unig anedig oddiwrth y Tad;" pan ar yr un pryd nid oedd y sgrifenyddion, er eu holl ddysg a'u moesau, yn canfod dim o'r fath beth, ond yn ei gyfrif yn dwyllwr ac yn un â chythrael ganddo. "Pethau Duw, nid edwyn neb ond ysbryd Duw;" a'r hwn y gwelo yr ysbryd fod yn dda eu datguddio: "Eithr dyn anianol (tra parhao felly) ni dderbyn y pethau sydd o ysbryd Duw: ynfydrwydd ydynt iddo; ac nis gall eu gwybod, oblegid yn ysbrydol," ac nid mewn un modd arall "y bernir hwynt. Ond yr hwn sydd ysbrydol wedi ei gynnysgaeddu a nerth oddi uchod, sydd yn barnu pob peth, eithr efe ni's barnir gan neb:" nid oes un dyn anianol yn ei ddeall ef na'i egwyddorion; "Enw newydd yw, yr hwn nid edwyn neb ond yr hwn sydd yn ei dderbyn." O ran hynny yr ydys yn eu galw yn bethau anneallgar; "Beth a fynnai'r siaradwr hwn i ddywedyd am ei fod yn pregethu yr Iesu a'r adgyfodiad." Ac am hyn y mae yr apostol yn gweddi dros y rhai y mae'n ysgrifenu attynt, ar i "Dduw roddi iddynt ysbryd doethineb a datguddiad, a goleuo llygaid eu mhedlyliau;" (lle nodwch mae un o'r pethau yr oeddent i'w canfod, oedd "ragorol fawredd ei nerth ef," yn y rhai a alwyd;) ac "ar iddynt amlhau mewn gwybodaeth a phob synwyr;" a hyn "fel y profent y pethau sydd a gwahaniaeth

TRAETHAWD DEFNYDDIOL

agddynt; ac felly dros y "Colossiaid, nid oedd yn peidio gweddio ac eu cyflawnu â gwybodaeth ei ewyllys ef, yn mhob doethineb a deallysbrydol." Yr ysgrythyrau hyn sydd yn dangos, nad yw'r wybodaeth hon yn mhob dyn; ac nad yw hi yn berffaith yn y goreu; canys pa ham y gweddiai ef mor wresog am yr hyn sydd gyffredin, a hawdd ei gael? Felly "pennaf peth yw doethineb," eithr rhaid ei bod yn "ddoethineb oddi uchod," heb yr hwn nid yw'r deall yn dda, nac yn addas i iawn farnu, er maint y trwsier ef â dysgeidiaeth ddynol: ond pan gynnysgaeddir ef â hwn, y lleill sy'n llawforwynion da: os bydd y llygad yn syml, yr holl gorph sy'n oleu. Y goleuadau lleiaf hynny sydd ddefnyddiol a llesiol i lywodraethu'r nos, i'r hwn y gwnaethpwyd hwynt, ond pan codo'r seren ddydd y maent yn diflannu; yno y mae'r bwystfilod gwylltïon o allu dynol, yn gorwedd yn eu hogfeuydd, a dyn yn myned allan i weithio, gyda math o fedrusdra a gallu amgen nâg oedd ganddo o'r blaen, a chydâ mwy o lwyddiant. Am hynny "cais ddoethineb, ac â'th holl gyfoeth cais ddeall:" y mae hi yn "ffynnon bywyd i'w pherchennog;" y mae delw Duw, a bywyd tragywyddol yn dechreu yma. Y cam cyntaf tu ag atti, yw gwybod eich diffyg o honi; "Y neb sydd yn tybied ei fod yn gwybod dim, ni wyr efe etto ddim fel y dylai wybod." Pa fwyaf y wypoeh mewn gwirionedd, mwyaf teimladwy y fyddwch o'ch anwybodaeth. Os ewyllysia neb fod yn ddoeth "bydded ffol" (yn ei dyb ei hun,) "fel y byddo doeth." Y neb y mae Duw yn bwriadu "dysgu iddynt wybodaeth, a pheri iddynt yr hyn a glywont," y mae yn eu "diddyfnu oddiwrth laeth," ac yn eu tynnu oddiwrth fronau, eu deall a'u callineb cnawdol. Eich cam nesaf yw ymofyn doethineb lle mae i'w gael, sef yn llygad y ffynnon, gan Dad y goleuni. Yr hwn sydd yn ceisio ei gael o hono ei hun, sydd yn myned at y cam ddrws; ac nid yw tebyccach i gael, na'r cardottyn sydd yn ceisio cardod ganddo ei hun: a hyn yw'r achos o gynnifer ag sydd yn ceisio, fod cyn lleied yn cael. Pan darfu i Solomon trwy deimlad o'i blentynrwydd mewn gwybodaeth, geisio doethineb gan Dduw, efe a'i casas; pan ceisiodd ynddo ei hun, er bod ganddo fwy nac o'r blaen, efe a fethodd; "Mi a ddywedais, mi a fyddaf ddoeth, eithr peff oedd oddiwrthyf;" fe weddai ei fod y pryd hwn o feddwl yr ewyllysiwr-rhydd, a digwyddodd iddo yn ol hynny. Ac am hynny y mae yn rhoddi anglod i'r ffordd honno; "Y neb a ymddiriedo yn ei galon ei hun sydd ffol." Mi a ddymunon e'm calon na allid dywedyd wrth neb yn ein mysg na 'Dy

ddoethineb, a'th wybodaeth a'th hurtant.' A phan unwaith y caffoch y gynneddf ysbrydol hon, cadwch hi fel tân ar yr allor nad elo hi byth yn niffodd: ac fel cynhyddoch, byddwch fwy yn ol eich gwybodaeth; "Yr hwn a ewyllysio wybod ei ewyllys ef, efe a gaiff wybod am ei ddysgeidiaeth."

V. Gan fod nerth Duw yn gwbl angenrheidiol, na orphwyswch ar y moddion a'r weinidogaeth oreu; arferwch hwy fel moddion, ond bydded eich gofwg yn wastadol at y gallu a'r gras, yr hwn yn ufng a all eu gwneuthur yn effeithiol. Elisens a darawodd y dyfroedd â mantell Elias; eithr Duw Elias a'u gwahanodd yma ac accw, i wneuthur ffordd trosodd. Dynion a dreiglasant y maen oddi ar y bedd, ond Crist a wnaeth i Lazarus ddyfod allan: felly gweinidog sydd yn pregethu Crist; ond Duw yn unig sydd yn rhoddi deall i'w adnabod ef. Ein gwaith yw gwneuthur ein dyledswydd, a chredu yn Nuw, fel y rhan bennaf o honi; canys efe sydd yn parottoi'r plastr, ac yn ei osod ar ein dolur; yr hwn hefyd sydd yn ei wneuthur yn effeithiol, ac yn ei drin o'r dechreu i'r diwedd: efe yw'r "Pen-tywysog a'r perffeithydd;—Duw sydd yn gweithredu pob peth y'mhawb."

VI. Wrth edrych dros amryw ranau'r gwaith mawr hwn, a'r rhai y mae yn perthyn iddynt; nac anghofiwch ras Iesu Grist; a bydded i chwi ddwys ystyried pa leied (yr hyn yn ddiau sydd lai ná dim) y ddarfu i chwi a minneu wneuthur i'w beri, neu i'w gymmorth. Gwelwch mor rhagorol y mae ein Harglwydd a'n Prynwr yn dangos ei hun yn Fugail da: nid digon ganddo anfon ei weision, ond y mae yn myned ei hun; a chymmaint yw ei ofal ain, a'i gariad at ein heneidiau, nad yw efe yn gadael un lle heb ei chwilio; y mae yn crwydro trwy'r llwyni a'r mieri; heb beidio a myned i fynydd na dyffryn; ie dyffryn cysgod angeu: nag é, efe a wŷr mai yno y mae debyccaf i'w cael, ac nid yw efe yn gorphwys nes mynnu gafael ynddynt. Y mae megis yn anghofio'r namyn un cant o'i wir ddefaid, y rhai a ddygwyd i mewn eisoes, (ond nid yn eu gadael heb geidwad); a hyn oll i gyrraedd i mewn yr hwn a grwydrodd; yr hwn yn ol ei gael, nid yw yn ei adael nes ei ddwyn i'r gorlan. Nid digon ganddo ef gynhyrfu, ymresymu, annog, a bygwth; ac oni ymddarostyngant, eu gadael i'w ffyrdd eu hun, i ymborthi ar eu gweithredoedd eu hun; nid yw ei drugareddau ef fel ein trugareddau rhydd-ewyllysiol ni ein hunain: nid gweled o lafur ei enaid a chael ei ddiwallu, yw eu gweled yn unig wedi soddi yn ddyfnach trwy yr hyn oll a wnaeth ef drostynt. Ac oni thyccia hyn oll (ac efe a wŷr na wna) y mae yn dala

ei ddafad grwydredig (fel y gwnaeth â Manasse, ac â Phaul, neu fel y gwna swyddog â'r hwn sydd yn ffoi) yn ei gosod ar ei ysgwydd ac yn ei dwyn adref, yr hyn sydd yn amlwg yn dangos mor wrthwynebus yw'r ddafad i ddychwelyd: canys pe gwnai na gyrru nac arwain, ni ddygai'r Bugail hi ar ei ysgwyddau. O na byddai i gariad a ffyddlondeb Crist gael ei le yn ein calonau, fel y byddai i ni ei garu ef yn fawr, a ni ein hunain yn unig er ei fwyn ef; yr hwn ar y cyntaf sydd yn ein hachub yn erbyn ein hewyllys, trwy ein gwared oddi-wrth ein hewyllys cnawdol, ac felly ein gwneuthur yn ewyllysgar i gael ein hachub mewn gwirionedd.

VII. Gan mai trwy Etholedigaeth yr y's yn rhoi yr hyn sydd yn perthyn i iechydwrriaeth, bydded i bob enaid ag sydd yn ymofyn doniau ysbrydol ac yn ewyllysio eu cael, fyned at y cariad a etholodd; a diolch am y cwbl a dderbyniasoch, ac yr ydych yn obeithio ei dderbyn, i'r cariad hwnnw: canys honno yw'r graig o'r hon y naddwyd hwynt; y ffynnon o'r hon y maent yn tarddu.—Gwelwch ei haelioni a'i bouheddigeiddrwydd! y mae nid yn unig yn parottoi i chwi gyfannedd-le, eithr hefyd yn anfon cerbydau a llun-iaeth i'r daith: na phrisiwch am eich dodrefn; dim ag y sydd eiddo chwi, bydded da neu ddrwg; da yr holl wlad sydd eiddo chwi. Na son am ddim ag sydd eiddo ti dy hun, oddi eithr mawdra dy bechod, fel Dafydd; nerth y llygredigaeth sydd ynnot, fel Paul; dy anallu i'w wasanaethu ef, fel Josua a Jeremi; na allai na boddloni, na gogoneddu Duw heb ffydd; na allai ddangos ei rinweddau ef, na chyf-ateb y dyben er mwyn yr hwn dy ddewisodd, heb sancteiddrwydd; ac yn olaf, mai trwy'r ewyllys honno yn unig, yr hon sydd yn ewyllysio dy sancteiddiad, y gellir dy sancteiddio.

Pan y mynnai Moses gael presennoldeb Duw gyda'r bobl, beth y mae yn ei bledio ág ef? “Gwel (medd efe) mai dy bobl di yw'r genedl hon; a pha fodd y gwyddir gael o honof fi ffafr yn dy olwg, mi a'th bobl? onid trwy fyned o honot ti gyda ni? Yma gwelwch, y mae yn gwneuthur presennoldeb Duw gyda hwynt, yn arwydd o'i fod wedi eu dewis hwynt; ac oddiwrth ei fod wedi eu dewis hwynt, y mae yn ymresymu y dylai fyned gyda hwynt. Ni feiddiodd Moses ddywedyd, ‘Pobl yn cadw dy orchymynion ydynt; rhai o dymmer onest gyweithasgar (fel y dywed rhai) ydynt; dynion hawdd eu trin, wedi ymddarostwng i ti, a gwneuthur gwell defnydd o'th drugareddau na'u cymmydogion ydynt; am hynny, arddel a dos gyda hwynt.’ nag é, “Eithr ystyria,

attolwg, mai dy bobl di ydynt; ti a wnaethost ddewis o honynt o flaen yr hoil bobl;" ac am hynny gwna iddynt hwy yn rhagorach nâg i eraill.

Yn yr un modd, pan dderbynioch ryw ffafr neillduol oddi wrth Dduw, na thybygwch eich bod yn well nâg eraill; eithr, megis Daniel, yr hwn, er ei fod yn wr o fawr ddoethineb, sydd yn dywedyd, " Nid o herwydd y doethineb sydd ynof fi yn fwy nâ neb byw, y datguddiwyd im' y dirgelwch hwn." Yn llyn yr ydym yn cael Dafydd yn ymddwyn ei hwn, y pryd y mae Nathan yn dwyn iddo y gennadwri rasol honno oddiwrth Dduw, sef, pa bethau mawrion a wnai efe iddo ef ac i'w dŷ; i beth y mae Dafydd yn ei gyfrif? " Ti, O Arglwydd Dduw, a adwaenost dy was," sef, na wneuthum i ddim ag a allai dy gynhyrfu i ddelio mor haelionus â mi; eithr, " Er mwyn dy air di, ac yn ol dy feddwl dy hwn, y gwnaethost yr holl fawredd hyn:" dyma leferydd y gwr yn ol calon Duw.

Trachefu, bwriwch i chwi wneuthur rhyw wasanaeth rhagorol dros Dduw; ystyriwch eich gwaeledd, a mawrhwygwch Dduw, yr hwn a welodd bod yn dda roddi i chwi y fath anrhydedd. Felly hefyd y gwnaeth Dafydd, y pryd trwy osod ei galon ar dŷ Dduw, y casglasai y trysor mawr aneirif hwnnw tuag at ei adeiladu: nid yw ef gymmaint yn rhyfeddu iddo ei gasglu, (er bod hynny hefyd yn rhyfeddod) a bod ganddo galon mor ewyllysgar i'w roddi i'r fath waith cyssegredig; " Pwy ydwyf fi, a phwy yw fy mhobl i, fel y caem ni rym i offrymu yn ewyllysgar fel hyn? Canys oddi wrthyt ti y mae pob peth." Y mae yn cyfaddef yr ewyllysgarwch i offrwm oddiwrth Dduw, yn gystal a'r hyn yr oeddent yn ei offrymu. A Phaul, yn ol " llafurio yn helaethach" nâ'r holl apostoliou, nid yw yn ei anrhydeddu ei hun; " Nid myfi, ond gras Duw yr hwn oedd gydâ myfi."

Wrth edrych am fendithion ysbrydol, byddwch sicr i gadw tri neu bedwar o bethau yn wastadol yn eich cof.

1. Fod yn rhaid i chwi fod yn ddim ynoch eich hunain. Nid yw gwîn newydd addas i hen gostrelau; rhaid mysgu'r costrelau yn gyntaf, a'u gwneuthur o newydd; os amgen, y gwîn a red allan, a'r costrelau a gollir. Rhaid cymmeryd oddi wrthy ch eich holl ddychymyngol gyfiawnder, doethineb, nerth, &c.: y mae mor rheidiol a gadael y tywod, i adeiladu ar y graig.

2. Mae *dawn* yw bendithion ysbrydol; ac ni ellir eu cymmeryd yn gyflog. Yr oedd Lazarus yn caru Crist; etto nid oedd ei chworydd yn pledio hynny, ond " Arglwydd, y

mae yr hwn sydd hoff gennyf ti, yn glaf." Yr hyn y mae'r ysgrythyr yn ei arfer i gynhyrfu Duw, chwithau a allwch bledio hynny, a hynny yw ei enw ef; ac yn ddiau ni ellir dadleu dim arall wrth orsedd gras. Na thybygwch yn well o honoch eich hunain, o ran dim ag a alloch ddwyn gyda chwi: na feddylwch y derbynier chwi am eich rhodd; nid eich arian, nid eich arian dauddyblyg yn eich llaw, a ddaw i chwi â llafur oddi uchod, er y gall ddyfod âg ef o'r Aiphf: nid ydys yn prisio am eich arian a'ch aur, eich cyfiawnder a'ch teilyngdod eich hunain, yn nheyrnas rhydd ras; eithr yno y mae, ac oddi yno y mae yn rhad i chwi gael, beth bynnag a baro i chwi gael groesaw yn llys y nefoedd.

3. Na fyddwch ry ofalus beth a ddel o honoch; ac na thybygwch y cewch lai groesaw o herwydd eich bod yn y fath gyflwr tlawd a thruenus. Rhad ras sy'n drugarog, yn gyfoethog, ac yn haelionus: nid oes i chwi lai groesaw, am nad ydych yn dwyn dim gyda chwi: y cymhwysdra goreu yw gwybod eich bod yn anghymmwys, yn wag, yn newynog, yn dlawd, yn noeth, yn ddall, yn resynol. Y cariad a etholodd a barottodd ddigon, a rhagor: nid "bara" a "dwfr" yn unig, (er y bydd y rhei'ny yn dra chymmeradwy i enaid newynog a sychedig); ond "gwîn a llaeth, gwledd o basgedigion breision a gloyw wîn puredig;" nid "arffedogau o ddail ffigysbren," neu "beisiau crwyn;" ond gwisgoedd lleision o "liain main glân a disglair;" nid math o ledr neu ddefnydd gwael, o'r rhai ni allai un gario a'i gwasanaethai fisgwaith; eithr "aur" o'r goreu, "wedi ei buro trwy dân;" yn yr hwn nid oes na rhwd na sothach. Ac onid oes gennyf ond ychydig, edrych ar yr ychydig hwnnw, fel ernes o chwaneb; "Yr hwn sydd ganddo, y rhoddir iddo;" pe b'ait ond "llîn yn mygu, ni'th ddiffoddir." Ond i sicrhau y gwaith mawr hwn,

4. Edrychwch na adawoch allan eich Cyfryngwr, yr Arglwydd Iesu. Ynddo ef y mae'r cariad a etholodd, yn gwneuthur y cwbl, ac felly rhaid i chwithau: gofynwch y cwbl yn ei enw, ac yna dywedwch, 'Arglwydd, y mae yn haeddu cael gennyf wneuthur hyn erddo.' Ac hefyd gochelwch *glyttio*, na chyssylltwch y ddeddf â gras, rhag i'r rhwygiad fod yn waeth. Nid gwisg o amryw ranau a rhywiau, eiddo ef mewn rhan, ac eiddo chwi mewn rhan, yw'r cyfiawnder yn yr hwn y rhaid i chwi ymddangos ger bron Duw; ond gwisg ddiwniad, wedi ei gwneuthur o'r un defnydd, gan yr un llaw: yn hon y gallwch neshau yn byf, a chyffwrdd â phen y deyrn-wialen aur.

VIII. Gan fod gennych graig mor gadarn ac anorchfygol i sefydlu eich ffydd arni, pahan y byddai i'r anhawsdra mwyaf, ie i rym llygredigaeth, rwystro un enaid i fwrw ei hunan ar y cariad a etholodd; yr hwn sydd yn abl ac yn bwriadu darostwng anwiredd yn gystal a'i fadden? Ni ddewisodd ef ni am ein *bod*, neu am y *byddem* sanctaidd; eithr *fel y byddem* felly: ac i'r dyben hwnnw y mae yn myned dan y cwbl o'n gwaith drosom. Y mae rhyngom ni a phechod, fel yr oedd rhwng Israel a'r Canaaneaid; nes i'r Arglwydd ddechreu eu gyrru, ni symmudasant; cewri oeddent, rhy fawr i geiliogod rhedyn i'w gorchfygu; yr oedd ganddynt gerbydau haiarn, a dinasoedd caerog hyd y nefoedd; ac etto y llu hwnnw o geiliogod rhedyn a'u trôdd hwynt allan, a hynny am fod yr Arglwydd, yr hwn a roesai'r tir hwnnw iddynt; yn eu tywys; efe aeth o'u blaen, ac a barottodd eu ffordd iddynt: pan yr oedd ef yn gyrru, yr oeddent yn myned; ond pan yr oedd ef yn peidio, yr oedd y gwaith yn sefyll; ie, ei bobl ef oedd yn ffoi, ac yn cael y gwaethaf. Ac yr ydym yn cael Moses a Josua yn pledio â Duw y cyfammod a wnaethai ef â hwynt, ac yn wastadol yn cael eu gwrando. Gadewch i ninnau wneuthur yr un modd, bydded etholedigaeth oll yn oll; ein bara, ein dwfr, ein hymddiffynfa nerthol, a ph'eth bynnag a allir fwrw fod yn eisiau arnom: yma yr ydym sicr i gael cymmorth a diogelwch; castell caerog hyd y nefoedd yn ddiau yw; cwmmwl o fanna, na arllwysir byth; ffynnon Jacob, na bydd byth heb ddwfr: diau ei bod yn ddwfn, ac nad oes gennych ddim o'r eiddo eich hunain i godi dwfr; etto na ddigalonnir chwi; arosch wrth y ffynnon, a hi gyfyd attoch chwi cyn y bo diffyg arnoch.

IX. Yn ol gwneuthur a alloch, a thra fyddoch yn gwneuthur, rhodiwch yn ostyngedig, fel rhai yn byw ar haelioni un arall. Na chymmerwch i chwi eich hunain, ond cyfrifwch y cwbl o'ch hiechydwrriaeth, a'r hyn oll sydd yn perthyn iddi, i'r gras a etholodd; a gorphwyswch ar y gwreiddyn hwnnw yn unig: ie, ni ddylai ffydd ei hun, fel y mae hi yn weithred y credadyn, gael gorphwys arni, na chael rhan o'r elod. Ni allwn ddywedyd wrth ffydd, fel y dywedodd efe wrth Felix, yr hwn a osodasai Cesar drostynt, "Yr ydym yn cael trwot ti heddwch mawr;" ond yr anrhydedd oedd yn perthyn fwyaf i Cesar, yr hwn a roddasai iddynt y fath lywodraethwr. Rhoddwch i ffydd yr hyn sydd ddyledus iddi; "Bydded i chwi yn gwbl ac yn mhob man gydnabod yr hyn yr y'ch yn ei gael trwyddi gydâ phob diolch;" canys

y mae hi yn gwneuthur i chwi lawer o ddaioni, ac yn ddiaw ni allwch fyw hebddi; yn unig yn yr orsedd, bydd gras uwch ei llaw; o herwydd hwnnw yw yr awdurdod, sydd yn gosod ac yn cynnal ffydd yn ei lle; ac yn wir nid oes un lle ond ei heiddo ei hun yn rhyngu bodd i wir ffydd. I'r dyben hwn y mae'r Arglwydd yn dywedyd wrth ei bobl, mai nid eu cleddyf a'u bwa hwynt a yrrodd ymaith eu gelynion; eithr, medd rhai, y cleddyf a'r bwa ag y roddodd yr Arglwydd yn eu llaw, y rhai a ddarfu iddynt hwy yn wrol en harfer, a wnaeth hynny: nag ê, ni fyn yr Arglwydd i ddynion gymmeryd cymmaint iddynt eu hunain; ond cydnabod mai yr Arglwydd sydd yn sathru eu gelynion. Y mae yn cyfrif y bobl oedd gyda Gideon, yn rhy luosog iddo roddi y Midianiaid yn eu dwylaw; ond paham? rhag iddynt ym-ogoneddu i'w erbyn. Ffydd a grasusau eraill ydynt nerthol yn nuig trwy Dduw; efe yw eu gwneuthurwr, ac efe sydd yn eu nherthu i weithredu. Megis nad oedd gennynt law yn cyfnewid dy galon ar y cyntaf, felly ni elli wneuthur dim o honot dy hun i ddwyn y gwaith y'mlaen. Ein holl ddigon-oldeb sydd o Dduw; ymdrechriad y saint sydd yn o'r nerthol weithrediad Duw ynddynt. Pren da a ddwg firwythau da; ond nid heb haul, gwynt, gwlith, a'r cyfryw gymmorthau o'r nef; heb y rhei'ny y pren ei hun a grina: felly, heb gyfran-iaid parhaus o rinwedd oddi uchod, ni all creadur newydd na gweithredu na byw. Gorphwyswch, gan hynny, ar y gras gwreiddiol, sef ar Dduw; pob gras am gynnal a gweithredu y gras a roddodd efe i chwi: na ymfoddlonwch yn eich bod yn adnabod Duw, ond yn hytrach yn eich bod yn adnabyddus iddo ef.

Erbyn hyn yr wyf yn gobeithio bod yr athrawiaeth, a'i defnydd, wedi eu hegluro; sef, bod Duw yn rhad roddi i'w holl etholedigion, beth bynnag y sydd reidiol i iechydwr-iaeth; ac yn eu heffeithiol weithredu ynddynt trwy ei dduwiol bwer, fel rhan o'r iechydwr-iaeth i'r hon yr appwyntiwyd hwynt; a'u bod oll yn gynnwysedig yn yr arfaeth o Etholedigaeth. Ac ni allaf lai na'i gyfrif yn rhan (a honno yn brif ran) o'r gweithredoedd hynny o'r eiddo Duw, y rhai sydd yn parhau yn dragywydd, ag y sydd mor berffaith, na ellir na'chwanegu atto na thynnu oddi wrtho; ac y mae yn ddyfodiad da at, ac yn rheswm am *barhad* y rhai credadwy hyd y diwedd.

AM

BARHAD:

NEU,

WAITH Y RHAI CREDADWY YN MYNED Y'M-
LAEN YN ANORCHFYGOL MEWN FFYDD
A SANCTEIDDRWYDD.

Er mwy o gymmorth a chysur i'w bobl; er gwendid presennol eu ffydd a llithriadau beunyddiol y cnawd; ac hefyd iddenu ac i ddwyn i mewn eraill, ag sydd yn ymhongian o angyloch y ddôr, neu etto yn y prif ffyrdd a'r pethi; fe a ryngodd bodd i'r sanctaidd a'r unig ddoeth Dduw, ganiattau i ni eglur a chyflawn sicrwydd, y bydd i bawb a dderbyniasant ras Duw mewn gwirionedd, yn ddiammeu barhau a myned y'mlaen hyd y diwedd; er bod bagad, i'r rhai y mae y sicrwydd yn perthyn, heb ei gyrraedd. Ni a ddangosasom o'r blaen fod ffydd a sancteiddrwydd yn ddiwahanol yn canlyn etholedigaeth: ein gwaith yn awr yw dangos eu bod wrth natur yn barhaus, ac na chollir hwy byth: yr hyn yr ydym yn ei alw *parhad*; yr hyn, gan ei fod yn goron a gogoniant yr hyn oll a ddywedwyd uchod, ac yn sicrhau in' y diddanwech sydd yn tarddu oddi wrthynt, a'i fod yn cael ei wrthwynebu cymmaint a neb-rhyw un o'r lleill, y mae yn eglur fod yn angenrheidiol ac yn fuddiol ei brofi. Ac yr wyf yn gobeithio amlygu, nid yn unig bod yr athrawiaeth yn wir, eithr hefyd yn gyflawn o anhogaethau i sancteiddrwydd; yr hyn sydd oreu yn gorchfygu yr athrawiaeth wrthwyneb: canys, felly y mae trwy ddoethineb Duw, fod yn mhob gwir athrawiaeth yr hyn sydd yn briodol yn tueddu i'w ham-ddiffyn a'i sefydlu. Y mae yn addas i ddynion gwir ddoeth amcanu yn unig yr hyn a ellir ei gyrraedd, a'r hyn sydd weddus i'w doethineb; ac hefyd drefnu a thrin y moddion felly, fel na allont ddyfod yn fyr o'u hamcan: mwy o lawer y mae yn addas ac yn rhaid i'r hwn sydd yn Ddoethineb ei hun, wneuthur felly. A chan mai dyben mawr y cwbl yw gogoniant Duw, a'r dyben mawr nesaf yw jechydwrtaeth ei

etholedigion; hawdd y gallwn feddwl ei fod wedi dewis y moddion mwyaf perthynol; a'r fath ag a fyddo sic i ddwyn i ben y dyben. Yr hyn hefyd a all ein sicrhau fod yr holl bethau ag sydd yn rhagflaenu y dyben (er mor anmherthynol y byddont yn eu nhatur eu hun, ac mor ddamweiniol o'n rhan ni) wedi eu rhag-appwyntio gan Dduw, yn ol ei dra ddoeth a'i sefydlog arfaeth; ac yn ganlynol y caent eu gweinidogaethu a'u goruwch-reoli yn y fath fodd, ag na byddont yn rhwystr, ond yn gymmorth i ddwyn y'mlaen ac i gario i ben y peth mawr a amcanir trwyddynt; yr hyn, gan hynny, ni chaiff, ac ni all gael ei ddiddymu na methu dyfod i ben. Ac wrth hynny, er y gall dynion o feddyliau llygredig dramgwyddo wrth y gair, a throi gwirionedd Duw yn gelwydd, a'i ras ef yn drythyllwch; ac eraill, nid yn fwrriadol, ond trwy gamsynied ac eisiau iawn ddyall, yn anfodloni i'r gwirionedd a'i wrthwynebu: etto ni ddylid bwrw ymaith y gwirionedd, na neb sydd yn ei garu gywilyddio ei arddel; ond ymroi yn fwy gorchestol, trwy eu sobrwydd, eu haddfwynder, eu sancteiddrwydd, a phob ffrwythau da, i amlygu i'r byd fod pob peth yn bur i'r rhai pur; er i ddynion eraill (trwy anmhurdeb eu hysbrydoedd eu hunain) ddangos bod pob peth yn halogedig ac wedi ei droi yn bechod; ac yn enwedig i amlygu nad yw yr athrawiaeth o anghysnewidiol gariad Duw at ei etholedigion, a'n gwas-tadol barhad yn ei gariad ef, mewn un modd yn agor y drws i, neu yn cefnogi pechod ac esgeulusdra mewn dyledswydd: eithr yn dra nerthol yn cymmorth yn erbyn gwrthgiliad, ac yn dra effeithiol yn bywiocau ufudd-dod efangylaidd.

Swm yr hyn yr ydwyf ar fedr ei ddywedyd a gynhwysir yn yr athrawiaeth hon—

Y BYDD I BOB UN O ETHOLEDIGION DUW, Y RHAI, UN WAITH, A AIL-ENIR AC A GREDANT, GAEL EU DWYN Y'MLAEN YN ANORCHFYGOL I BERFFAITH FWYNHAD O HAPPURWYDD A GOGONANT.

Er sicrhau y gwirionedd hwn:

I. Gadewch i ni ystyried pethau o lai pwys na bywyd tragywyddol, ac edrych pa fodd y casas y dynion hynny, rhai y swniwyd o'r blaen, yn ol eu happwyntio gan Dduw i wasanaeth arbennig yn y byd, eu cario y'mlaen, a hynny yn berffaith hyd at ddiwedd eu gwaith; er bod yr anhawser mwyaf ac amhosiblwydd naturiol ar eu ffordd: wrth yr hyn yr ymddengys sior effaith bwriadau Duw; ac yr eglurir nid ychydig o'r hyn sydd gennym yn llaw.

1. Mi ddechreuaf ar had Abraham. I'r rhai, Gen. xii, 7-yr addewir gwlad Canaan: Isaac, yn yr hwn y gelwid yr had, oedd etto heb ei eni; ac ni anwyd ef nes bod ei dad a'i fam wedi myned dros ben oedran. I helpu hyn, yr Arglwydd a wnaeth i'r haul fyned yn ol lawer o raddau; rhoddes iddynt megis ieuengctid drachefn, ac a roddodd iddynt Isaac. Pan briododd Isaac, ei wraig oedd anmhlantadwy: yn ol disgwyl ugain mlynedd, yr Arglwydd (mewn ateb i'w weddi) a barodd iddi feichiogi. Dau blentyu oedd iddynt; y mae'r Arglwydd yn gwrthod yr henaf; a'r llall, i'r hwn yr oedd yr addewid yn perthyn, mewn perygl beunydd o gael ei ladd gan ei frawd, yr hyn a dorrasai ymaith had yr addewid. Jacob, er mwyn achub ei fywyd, sy'n ffoi i Badan-Aram; lle mae Laban yn delio yn galed âg ef; a phan fiodd tua chartref, yn ei ganlyn ar feddwl drwg; eithr yr Arglwydd mewn breuddwyd sydd yn ei ragflaenu. Cyn gynted ag y dihangodd oddi wrtho ef, Esau sy'n dyfod yn ei erbyn â phedwar cant o wyr, mewn llawn fwriad i ddial ei hen genfigen; yr Arglwydd sy'n troi ei galon mewn munud, ac yn ei thoddi i gariad brawdok; fel yn lle ei ddinystrio, y mae yn cynnyg ei hun a'i filwyr i'w ymddiffyn. Yn ol i Simeon a Levi ddigio'r Canaanaid cyn belled, a'i bod yn rhyfeddod na ddaethont a dinystrio teulu Jacob ar un waith; yr Arglwydd sy'n peri ofn arnynt, fel na wnaethant gymmaint ag edrych ar eu hol hwynt. Pan oedd saith mlynedd o newyn yn dyfod ar y tir, (yn ddigon tebygol i ddifetha Jacob a'i deulu) yr Arglwydd trwy ryfeddol rhagluniaeth sy'n anfon cennad o'u blaen i barottoi iddynt yn yr Aipht. Pan oedd yr Aiphtiaid yn eu gorthrymu ac yn arfer pob modd i'w difetha, trwy gyfrwysdra a chreulonder; eithr pa fwyaf yr oeddid yn eu gorthrymu, y mae yr Arglwydd yn peri iddynt gynhyddu yn fwy; ac o'r diwedd yn eu dwyn allan â llaw uchel. Y maent yn ymddwyn eu hunain tuag at Dduw yn y diffeithwch mor anhywaith ag y gwnaeth pobl erioed; gan wneuthur cymmaint ag a allent i dorri ymaith yr etifeddiaeth o'r wlad dda honno, trwy eu hanghrediniaeth a'u gwrthryfelgarwch beunyddiol; hyd oni ddarfu i'r Arglwydd fygwth eu difeddiannu: ond er mwyn ei addewid i Abraham, y mae yn tynnu yn ol ei law, ac yn eu harbed hwynt. Mi a allwn hefyd son am y cyfyngderau a'r peryglon mawrion y buont ynddynt wrth y môr coch, yr hwn a agorodd yr Arglwydd o'u blaen: ac yn ol hynny o eisiau dwfr, yr hwn y mae yn ei roddi iddynt o graig: ac wedi hynny o eisiau bara, yr hwn y mae yn ei roddi iddynt.

o'r nefoedd: pa fodd yr oedd rhai yn pallu ffordd, ac eraill yn cynllwyn iddynt, ac etto yr oeddid yn eu dwyn y'mlaen ac yn eu gwaredu! ac yn ddiweddaf, pa fodd y darfu i'r Arglwydd yrru allan o'u blaen hwynt y cewri, y rhai yr oeddent yn anobeithio eu gorchfygu! ac felly roi iddynt feddiant o'u tir, yr hwn a addawsai gannoeddd o flynydd-oedd o'r blaen: "Ni phallodd dim o'r holl bethau da a lefarasai yr Arglwydd; daeth y cwbl i ben."

2. Joseph. Un a fyn yr Arglwydd ei anrhydeddu yw Joseph fechan; yr hyn y mae yn amlygu iddo mewn amryw freuddwydion: am hynny ei frodyr sy'n ei gashau, ac i ddiddymu ei freuddwydion (y rhai oedd yn arwyddocau eu hymddarostyngiad hwynt) y maent yn cyd-fwriadu ei ladd ef: a pha fodd y gall Joseph ddiangc? y maent yn ddeg i un, a Joseph yw y lleiaf. Reuben, yr hwn o ran ei fod yn gyntaf-anedig, a ddylasai o ran ei anrhydedd ei hun, yn fwyaf rwystro derchafiad Joseph; efe gaiff yn awr dos-turio wrtho, ac er mwyn ei dad ei wared ef. Etto, er na laddant ef yn bresennol, hwy a'i bwriant i bydew, lle yn mhob tebygoliaeth, y caiff ei ddifetha; ond, trwy ddaionus ragluniaeth Duw, y mae'r Ismaeliaid yn dyfod heibio yn yr amser hwnnw, cyn i fwystfil drwg ei gael, a chyn i'w frodyr fwriadu gwaeth yn ei erbyn: yr ydys yn ei werthu iddynt hwy, ac y maent yn ei ddwyn i'r Aipht, (yn rhy bell i Jacob ymosyn am dano) ac yn ei werthu i dywysog llu Pharao, un debyg iawn i ddelio yn galed ag ef. Bithr yma yr Arglwydd sy'n ei arddel ac yn ei ddwyn i ffafr, yn gwneuthur yr hyn oll a wnai ef yn llwyddiannus, yr hyn pan welodd ei feistr, y mae yu rhoi yr hyn oll a feddai yn llaw Joseph. Yn awr y mae gobaith o'i ddyfodiad i anrhydedd: ond pa mor ebrwydd y diddymir! Gan fod Joseph yn wr golygus, ei feistres drythylsydd yn ei demtio i ynfydrwydd: rhag yr hyn pan ddarfu i ofn Duw ei gadw, y mae hi yn camachwyn arno wrth ei feistr, ac yn cyfrif iddo ef ei drygioni ei hun. Trwy yr hyn y mae yn colli ffafr Potiphar; ac yn cael ei fwrw i garchar. Rob gobaith o dderchafiad sydd wedi ei golli yn awr; a ph'eth a ddaw o'i freuddwydion ef? etto cyngor Duw, hynny a saif, a chwmp Joseph a gaiff fod yn gam arall taag at ei dderchafiad ef: ac i wneuthur ffordd i hynny, fe gaiff Pharao anfodloni wrth ddau o'i weision a'u bwrw i garchar, a hwy gânt eu gorchymyn i gadwraeth Joseph: yma y caent freuddwydio, a Joseph ddehongli, ac fe a ddigwydd yn ol hynny. Yn awr y mae dydd yn goleuo drachefu ar Joseph, a thrwy adferiad y

pen-trulliad, y mae ganddo beth gobaith o ryddhad: ond hyn a ddarfu yn ebrwydd, canys y trulliad a'i anghofiodd ef: eithr etto y mae rhagluniaethau Duw yn canlyn ei arfaeth; ac nid ydynt yn peidio nes gwneuthur Joseph yn arglwydd ar holl dir yr Aipht, a pheri i'w frodyr ymgrymu o'i flaen ef.

3. Dafydd. Yr Arglwydd sy'n addo i Ddafydd y frenhiniaeth, ac yn ei eneinio ef. Beth, er dim a allo ddigwydd yn y cyfamser? Ie, o herwydd y mae'r addewid yn ddi-os: a ddywedodd yr Arglwydd, ac oni chwplha ef? Os taff Saul waywffon (heb ei disgwyl) ar fedr ei tharo trwyddo ef i'r pared; llygad craff a chorff buan a roddir iddo, fel y gallo ei ganfod a diangc. Os bwriada ef ddrwg yn ei erbyn ef, Jonathan a gaiff ei rybuddio. Os enfyn ef genhadau i Nebaioth i'w gymmeryd ef, hwy a anghofiant eu nheges, ac a syrthiant i brophwydo: ac os enfyn ef eraill, ac eraill ar eu hol hwythau, hwy a wnant yr un modd: Ie Saul ei hun a gaiff droi yn brophwyd dros ddiwrnod a noswaith ynghyd, fel y gallo Dafydd gael amser i ddiangc. Os bydd mewn dinas a'i bradycho, heb neb o honynt i fynegu hynny iddo, Duw ei hun a ddatguddia'r peth, ac a'i hanfon allan. Os llu Saul a'i hamgylcha, heb le i ddiangc; y Philistiaid a gânt dannu ar hyd y wlad, a gair a ddaw, Ie, yn y pryd hwnnw i gymmeryd Saul ymaith. "Pe gwersyllai llu i'm herbyn, nid ofnai fy nghalon:" Paham? Yr Arglwydd a wnaeth addewid diammeu, ac am hynny, oni bydd cymmorth ar y ddaear, "Efe a enfyn o'r nefoedd ac a'm gwarded." Ie, ni chaiff gwaith Dafydd yn ammeu ar brydiau, na gwendid ei fydd, ei rwystro; a'r rheswm o'r cwbl yw, "Yr Arglwydd a'i cymmerasai ef i fod yn dywysog ar ei bobl, ac am hynny y bu efe gydâg ef i ba le bynnag y rhodiodd."

4. Josia. Mab a enir i dŷ Ddafydd a'i enw Josia; ac efe a abertha esgyrn offeiriaid Jeroboam ar ei allor ef. Gan hynny, os Athalia a fwriada ddifetha yr holl had brenhinol, Joas a ladrattir o fysg y lleill ac a gedwir yn fyw; ac ynddo ef y cynhalier tŷ Ddafydd: a Hezecia, er ei fod yn glaf i farwolaeth, ni chaiff farw, eithr efe a iachâir megis trwy wyrthiau; a phumtheg mlynedd a 'chwanegir at ei fywyd ef; yn hytrach nag y casto Manasse, yr hwn oedd i fod yn dadcu i Josia, fod heb ei eni.

5. Paul. Paul oedd lestr etholedig, wedi ei appwyntio i bregethu Crist i'r Cenedloedd; ac o'r diwedd i ddwyn tystiolaeth iddo ef yn Rhufain; a rhaid i hyn gael ei wneuthur, er bod rhwymau, a charcharau, a marwolaeth, yn ei aros yn mhob lle. Am hynny, os cynllwynant iddo yn

Damascus, ac os gwylant y porth ddydd a nos i'w ladd ef; efe a ollyngir i lawr dros y mur mewn basged, ac felly a ddiangc rhagddynt. Os bydd Jerusalem oll mewn terfysg i'w ladd ef, y pen capten a ddaw â llu, ac a'i gwared; er nad yw ewyllysiwr-da i Paul, na'r efengyl. Os bydd i'w nâ deugain rwymo eu hunain â diofryd, na wnant na bwyttanac yfed, nes iddynt ladd Paul; ei gâr a gaiff ei glywed, a thrwyddo ef y bydd i'r pen capten wneuthur ffafr iddo drachefn, a chaniattau iddo ef lu abl i'w gario ymaith yn ddiogel; a'r amcan hwn a fydd yn achos o'i anfon i Rufain, lle mae yn rhaid iddo ddwyn y dystiolaeth olaf. Os bydd i'r luddewon a'r Cenhedloedd wneuthur rhuthr ynghyd i'w amharchu a'i labyddio; efe a gaiff ei ddyall, a thrwy ffoi, achub ei hun; yr hyn a fydd yn fodd hefyd i danner yr efengyl y'mhellach. Ond bwriwch ei adael yn eu dwylaw, ac iddynt ei labyddio, a'i lusgo allan o'r ddinas; yna, yn ddiau, y mae ei waith wedi ei orphen: nag yw, ni chaiff hyn ei rwystro; ni chaiff marwolaeth ei hun wahanu Paul oddiwrth ei waith. Nid ei labyddio un waith, na thorri'r llong dair gwaith, na'i fod mewn marwolaethau yn fynych, na dim arall, a gaiff ddiddymu arfaeth Duw, y byddo ddwyn dystiolaeth i Grist yn Rhufain; fel y mae yn amlwg wrth ei hanes, a'r hyn a ddaeth i ben o'r diwedd.

Ychwaneg o siamplau a ellid eu dwyn i'r un pwrpas; eithr wrth y rhai'n y gallwn farnu y peth; ac iawn gasglu, gan fod yr Arglwydd mor fanol ac mor neillduol yn cyflawni ei air yn y pethau lleiaf hyn; gan ddwyn ei waith ymlaen trwy gymmaint o wrthwynebrwydd naturiol; mwy o lawer y bydd ef felly, yn diogelu ac yn dwyn o gylch dragywyddol happusrwydd ei etholedigion; fel y gwnaeth ef i'w hen bobl; "Efe a'u cododd hwynt ar adenydd eryrod (allan o gyrraedd perygl) ac a'u cadwodd fel canwyll ei lygad, (gydâ phob gofal a thynnerwch) nes eu dwyn atto ei hun;" felly y gwna ef i'w etholedigion; canys nid yw ef yn prisio'r byd ond i ychydig, ond er eu mwyn hwy.

II. Yn awr am brofiad-hyspysach o'r athrawiaeth: er y gall dau neu dri dystion wasanaethu i'w sicrhau hi; etto, gan fod yr ysgrythyr yn llawn o dystioliathau o honi, (y casgliad o'r rhai a all bod yn dra buddiol in', i gymmorth ein ffydd yn amser profedig, ac i nerthu ein heneidiau yn erbyn y rhai sy'n dysgu y gellir yn gwbl syrthio ymaith) mi a fyddaf led helaeth yn son am danynt, gydâ rhai o'r casgliadau naturiol ag sydd yn tarddu oddi wrthynt. Y mae yn yr hen Destament, lawer o erfyniau a bwriadau wedi eu

gwneuthur gan wyr sanctaidd ag sydd yn dal allan yr athrawiaeth hon; "Megis, y cyflawna'r Arglwydd â hwynt, ac nac esgeulusa ef waith ei ddwyllaw; yr arwain ef hwynt â'i gyngor; ac wedi hynny y cymmer efe hwynt i ogoniant," ac yn y cyfamser, "ni lithra eu camrau;" a hyn o herwydd bod Duw "yn eu gwregysu â nerth, ac yn gwneuthur eu ffordd yn berffaith:" (gyda llawer yn ychwaneg, megis hefyd yn epistolau Paul.) Yn mhob un o'r erfyniau a'r dywediadau hyn y cynhwysir addewid o'r hyn a erfynir neu a ddywedir: canys heb y cyfryw addewid ni allasent ei wneuthur mewn ffydd, nac yn gyfiawn eu rhoi i lawr fel cyfarwyddiadau i eraill. Eithr ni a wyddom iddynt lefaru, megis y cynhyrfwyd hwy gan yr Ysbryd Glân; yr hwn gan ei fod yn gwybod dyfnion bethau Duw; beth oedd ei arfaeth, a pheth a gynnwysir yn addewid y "bywyd tragywyddol cyn dechreu'r byd," a dynnodd allan eu calonnau i gredu, ac a drefnodd eu gweddïau yn ol hynny.

Ond heb law y rhai'ny y mae gemym amryw addewidion eglur am y peth. Yn Ioan x, 28. y mae ein Iachawdwr yn dywedyd, "na chyfrgollir ei ddefaid ef;" yr hyn sydd gymmaint a phe dywedasai, 'na phallai eu ffydd hwynt;' canys ni allant fod yn ddiogel rhag cyfrgollu, os eu ffydd a balla. Drachefn, lle y mae yn son am ysbryd sancteiddrwydd, yr hwn y mae y rhai sy'n credu yn ei dderbyn oddiwrtho, Ioan iv, 14. yn eglur ddywedyd, "Pwy bynnag a yfo o hono, ni sycheda yn dragywydd; eithr a fydd ynddo, yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol;" (A chan hynny nid aiff yn ysbryd) Diar. x, 30, "Y cyfiawn nid ysgog byth;" hynny yw, ni ddychwel drachefn i'w gyflwr cyntaf; a'r achos yw, am fod "ffordd yr Arglwydd yn gadernid i'r perffaith." adn. 29. Diar. xxiv, 16. "Saithwaith y syrth y cyfiawn ac efe a gyfyd drachefn;" nid yw ef yn syrthio i orwedd lle syrthiodd; nid yw ef yn syrthio i ddistryw fel y drygionus; ie y mae yn hytrach yn ennill wrth ei gwmp; adn. 5. "Gwr pwylllog a chwanega nerth;" efe a arweinier i nerth tragywyddol, gan deimlad o'i wendid ei hun; fel y gwnaeth Paul, 2 Cor. xii, 10.

Diar. xii, 21. "Ni ddigwydd i'r cyfiawn ddim blinder," neu ddrwg; yna diau na ddigwydd iddo y mwyaf a'r gwaethaf o ddrygau a blinderau; sef, "syrthio oddiwrth y Duw byw:" felly, adn. 3. "Gwraidd y cyfiawn nid ysgoga; fe all ei ffrwyth wiwo a chael ei chwythu ymaith, a'i ganghennau gael eu siglo gan dymhestl; ond y mae ei wreiddyn yn aros yn wastad heb ei ysgog; y mae ei fywyd yn guddiedig, ac felly yn rhydd oddiwrth bob cynnwrf: ac am hynny, a adnewyddda

ei ffrwyth a'i gangheunau; "yr hwn a ymddiriedo yn yr Arglwydd ni phaid a ffrwytho," Jer. xvii, 7, 8.

Jer. xxxii, 40. "Mi a osodaf fy ol yn eu calonnau, fel na chiliont oddiwrthyf." Hwn, medd rhai, sydd addewid o roddi iddynt foddion, ac nid o wneuthur y peth; am hynny gwelwch Pen. iii, 19. "Ti a alwi arnaf fi, fy Nhad, ac ni throi ymaith oddiar fy ol:" a hyn, o ran ei fed yn nerthol weithio yn y rhai sydd yn credu; megis ar y cyntaf berid iddynt gredu, felly yn awr i gynnal ac i berffeithio eu ffydd.

Salm lxxxiv, 11. "Ni attal yr Arglwydd ddim daioni oddiwrth y rhai a rodiant yn beffaith:" ac os felly, ni attal ef allu i barhau yn berffaith oddiwrthynt; yr hyn hefyd a gadarnheir yn mhellach; o herwydd y "cyfiawn a ddel ei ffordd, a'r glân ei ddwylaw a chwanega gryfdwr;" ac hefyd oddiwrth Diar. iv, 18. "Llwybr y cyfiawnsydd fel y goleuni, yr hwn a lewyrcha fwy fwy hyd hanner dydd." Ac y mae Dafydd yn ei sicrhau yn mhellach, lle mae oddiwrth ei ffydd bresennol, yn gobeithio myned yn mlaen; "Ymddiriedais yn yr Arglwydd, am hynny ni lithraf;" a hynny am fod "yr Arglwydd yn gosod ei enaid mewn bywyd, ac na adawai i'w draed lithro, Salm lxxvi, 9."

Marc xvi, 16 "Y neb a greddo, a fydd gadwedig:" a Ioan xi, 26. "pwy bynnag sydd yn fyw, ac yn credu ynof fi," medd Crist, "ni bydd marw yn dragywydd;" hynny yw, ni choll y ffyddlon byth o'i ffydd; yr hyn a gadarnheir yn mhellach oddiwrth Ioan v, 24. "Y neb sydd yn credu, ni ddaw i farw; eithr efe a aeth trwodd o farwolaeth i fywyd:" y mae eu ffydd wedi eu sylfaenu ar y graig; yr hon y gall y gwynt a'r tonau ymguro ac ymdorri yn ei herbyn; ond ni allant byth na thorri'r graig na'r hyn a adeiliadir arni. "Y rhai a ymddiriedant yn yr Arglwydd, a fyddant fel mynydd Seion: yr hwn ni syflir, ond a bery yn dragywydd: ie ni syflir gymmaint ag un o hoelion y babell hon byth; ni chywilyddier ac ni waradwyddir hwynt byth bythoedd. Esa. xlv, 17.

Fe fyddai yn fawr yn lleihau'r achos arbennig o lawenydd, sef, bod ein henwau yn ysgrifenedig yn y nefoedd, pe gallid eu dileu allan drachefn; gan ein bod yn cael ynom ein hunain y fath barodrwydd i wrthgilo; yr hyn sydd raid i bob un ag sydd yn adnabod ei galon ei hun gyfaddef; eithr diau gennym, na chynnygasai Crist i ni achos twyllodrus o lawenydd; canys y mae yn wastadol yn ein hannog i beidio ag ymddiried i'r cyfryw bethau. Y mae'r ffyddloniaid weithiau yn cael y gwaethaf, ond ni orchfygir mo hoaynt; er iddynt syrthio, a hynny saithwaith yn y dydd (fel y dywedwyd,) ette

mor fynyched y cyfodant: ac nid yw ef anglod yn y byd i'w Tywysog, (nag ê, ond clod pen-milwr yw) rhoi lle i'w elyn dros dro, a'i gymmeryd drachefn pan mynno, er mwy o waradwydd a dinystr i'w elyn. Ni ennillodd satan ddim wrth nithio Pedr; fe gollodd Pedr beth o'i ùs, yr hwn a allai yn hawdd fod hebdo, ond satan a gollodd lawer goruchafiaeth wedi hyn; canys y rhai credadwy a fuont fwy gochellog wedi hynny. At hyn y 'chwanegaf yn unig yr hyn y mae'r apostol sanctaidd yn ei ddywedyd, Rhuf. viii, 38, 39. "Yr oedd yn ddiogel ganddo, (hynny yw, yr oedd ganddo gyflawn nerth ffydd i'w gredu drosto ei hun, ac i'w draddodi i'r oesoedd ar ei ol, fel gwirionedd ansiommedig) na allai nac uwchder, na dyfnder, nac un creadur arall wahanu oddiwrth gariad Duw, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu ein Harglwydd." Y mae yn cyfrif y cwbl ag a ellid ei enwi; a rhag i ddim ddiange rhagdo, y mae yn dwyn i mewn uwchder a dyfnder; fel y ddau ag sydd yn cynnwys ynddynt y cwbl, i.e. mwy nâg all dynion ddychymyg: ac yno yn dywedyd nad yw y rhei'ny yn abl i'w wneuthur. Ac yn ddiau, onid yw uwchder sancteiddrwydd Duw, yr hwn sydd uwch na'r nefoedd; na dyfnder pechod tra phechadurus, yr hwn sydd is nâg uffern, yn abl gwahanu oddiwrth y dydd hwnaw o ogoniant; i'r hwn yr etholwad meibion Duw, ac er mwyn yr hwn y gwnaethpwyd, y prynwyd; ac y galwyd hwynt, ac y maent yn ocheneidio? yna y mae y rhai credadwy y'mhell oddiwrth bosiblwydd i syrthio ymaith.

III. Trydydd math o dystiolaeth, er sicrwydd, yw y rhesymau paham y mae yn rhaid i'r saint barhau mewn ffydd a sancteiddrwydd.

Wrth *raid*, nid wyf yn dyall un math o angenrheidrwydd, ond a all gyd-sefyll â *pherffaith ryddid*; y fath ag oedd ar Paul i bregethu'r efengyl, yr hwn waith yr oedd ef yn llawenhau ynddo; a'r fath ag oedd ar Iesu Grist i ddwyn adref ei ddefaid, ac i osod ei fywyd drostynt; "Rhaid oedd iddo ef ddyoddef," Act. xvii, 3, 13.; yr oedd yn gyfyng arno nes ei orphen, Luc xii, 50. Nid oedd ei fod wedi ei 'sgrifenu yn ei galon, yn rhwystro rhyddid ei ewylls ef.

I. Y rheswm cyntaf am Barhad, a gymmerir oddiwrth ddechreuad a gwreiddyn y saint; o Dduw y ganed hwynt; y mae yn hyn reswm dau-ddyblyg.

1. Fel 'y mae Duw yn Dad ac yn wreiddyn tragwyddol iddynt.' Y mae ein Iachawdwr yn gosod y berthynas hon fel sail i'n ffydd mewn gweddi; ac y mae ef ei hun yn dech-

reu yma, lle mae yn gweddio am ei ogoniant ei hun, ac am fod y dysgyblion yn gyfrannogion o hono; i'r un dyben y mae yn fynych yn arfer y gair Tad yn efengyl loan; (y mae megis yn dda ganddo son am y berthynas honno); "Y Tad ei hun sydd yn eich caru chwi; ac yr wyf yn derchafu at fy Nhad i a'ch Tad chwithau." Yr hyn sydd i nerthu ein ffydd yn Nuw, (trwyddo ef) o herwydd ei fod yn Dad i ni. Y mae y Tad yn caru y Mab; ac y mae yn caru y rhai sydd yn credu ynddo ef, megis y mae yn ei garu yntef: ac o ran hyn, y mae yr apostol yn dywedyd na all ef lai na rhoi i ni bob peth. Ffrwyth ei gariad ef yw y ffyddloniaid, yn gystal o ran etholedigaeth ac adenedigaeth; a chan eu bod felly, ni all lai na'u caru fel Tad: i rodidi iddynt yr hyn oll sydd reidiol i'w cynhaliaeth a'u cynnydd; ac i gadw ymaith beth bynnag sydd yn rhwystro, neu yn lleibau ei gyfraniadau grasol iddynt: gan iddo eu caru un waith, y mae yn eu caru hyd y diwedd. Hwylallant, gan hynny, fod yn hyderus, na âd ef i'r hyn a ddechreuwyd yn yr Ysbryd, ddiweddu yn y cuawd; a lle dechreuodd ef waith da, y bydd iddo ei orphen: canys, fel y cawsant eu bod ysbrydol oddi wrtho ef, megis eu Tad; felly y mae mor naturiol iddo ef gyfrannu ei rinweddau iddynt hwy yn ddibaid, ag yw i'r winwydden i anfon ei nhof i'w changhenau; neu i'r haul feithrin y planhigion y sydd yn tyfu trwy ei rinwedd ef. Nid yw yr holl nwydau naturiol sydd yn y creaduriaid at eu heiddo, ond megis defnyddiau o'i anfeidrol gyflawnder ef: fe all mam anghofio plentyn ei chroth; ond ni all yr Arglwydd anghofio ei blant; "Rhag i neb eu drygu (neu, rhag iddynt hwy eu drygu eu hunain) fe a'u cadw hwy nos a dydd, ac a'u dyfrha ar bob moment: fe a'u dygodd o'r groth, ac a'u harweiniodd o'r brw, ac hyd henaint hefyd efe a'u dwg ac a'u gwared hwynt."

2. Megis y mae y creadur newydd yn dyfod oddiwrth Dduw; felly y mae yn bod ynddo, ac yn byw arno ef; ac y mae yn naturiol iddo ymofyn am ei gynhaliaeth, lle casaf ei ddechreuad: ni all dim ei foddioni ef, ond y dyfnder mawr o'r hwn y tarddodd: megis y mae plentyn newydd eni, heb etto ymarfer â rheswm, wrth natur yn ymofyn am y fron, ac ni ellir ei lonyddu hebddi. Cyn gynted ag y trowyd Paul, wele y mae yn gweddio. Yn ol un waith dderbyn Ysbryd Crist, ni allant lai na'i ganlyn ef; fel Eliseus ag Elias, yn ol iddo fwrw cwr ei fantell arno: y mae yn naturiol iddynt, fel y mae i'r gwrychion ehedeg i fynu. Fe ddywedir eu bedyddio â thân, nid yn unig o ran ei natur i

buro; ond hesydd o herwydd ei dueddiad i dderchafu; y mae yn codi, ac ni orpwys nes dyfod at ei elfen ei hun. Y mae yn cyfarfod â llawer o rwystrau; ond yn myned yn mlaen o hyd, ac o fesur ychydig ac ychydig yn gorchfygu'r cwbl, ac yn dwyn gydâg ef yr hyn y mae yn cyfanneddu ynddo, i le ei enedigaeth; fel y golommen, yr hon ni chafodd orphwysfa nes dychwelyd i'r arch, o'r lle y daeth hi allan. Hyn a osodir allan yn rhagorol gan ein Iachawdwr, yn Ioan vii, 38. "Yr hwn sydd yn credu ynof fi, afonydd o dduwr bywiol a ddylifant o'i groth ef." *Afonydd*, y rhai sydd yn ysgub ymaith yr hyn a'u gwrthwynebo: ac afonydd o *dduwr bywiol*, nid llif cornant, yr hwn ni phara ond ychydig; neu byllau safadwy, yn dueddol i sychu; ond afonydd yn tarddu o ffynnon nad elo yn hyspydd. Ni a welwn pa fodd y mae pob peth yn tueddu tuag at ei elfen; "Ni chysg yr anwir nes gwneuthur drwg." Hwyl a allant fod heb y peth mwyaf rheidiol iddynt, yn hytrach nâ bod heb bechu: cenhedlaeth gwiberod ydynt, "a thrachwantau eu tad a fynnant eu gwneuthur." Diafol oedd Judas, a hynny a aeth âg ef bendramwnwgl i'w le ei hun. A chan fod eu genedigaeth o ddiabol, yn rhoddi i ddynion dueddiad mor nerthol ac mor anorchfygol at drachwantau dieffig; rhaid bod y duwiol anian mor nerthol yn gweithio tuag at Dduw a gweithredoedd duwiol: *ei gariad* sydd yn eu cymmell hwy. Ac oni buasai hyn, ni buasai'r impiedig air byth yn dwyn dyn i'r nefoedd: y mae blaenffrwyth yr Ysbryd yn peri iddynt yn fawr ddisgwyl a hiraethu am y cynhauaf. Diau fod gweddillion yr hen ddyn yn wastadol yn gwrthsefyll y newydd; a llawer ymdrech y sydd rhyngddynt; ond gras (fel eiriolwr y Brenin) sydd yn wastad yn cael y gair olaf, ac o'r diwedd a orchfyga. Chwi allwch weled y peth yn Jeremi: yr oedd gair yr Arglwydd wedi myned yn waradwydd iddo; am hynny yr oedd yn bwriadu ei fogi, ac na lafarai ef yn ei enw ef mwyach: ond beth a ddaeth o'r bwriad cnawdol hwn; "Gair yr Arglwydd oedd yn ei galon yn llosgi fel tân, wedi ei gau o fewn ei esgyrn, ac efe a flinodd yn ymattal, ac ni allai beidio." A Jona, pan dybiodd ei fod "wedi ei fwrw ymaith, ac yn mol ufferu; etto (ie etto) y mae yn edrych tua'r deml sanctaidd:" (megis y nodwydd â'r hon y cyffyrddwyd yn iawn, ni all lai nâ thueddu tua'r gogledd): a'r pryd y byddont yn cael eu rhwystro yn eu gyrfa, y maent yn fwy nerthol yn llefain allan, "O pa bryd y deawn, ac yr ymddangoswn ger bron Duw?"

II. Rheswm arall a gymmerir oddiwrth y grasusau eu hunain, y rhai sydd yn para, sef ffydd a sancteiddrwydd; y rhai fydd i ni eu hystyried,

1. Fel y maent yn ddoniau. Y maent o'r "rhoddion daionus a pherffaith, ag sydd oddi uchod, yn disgyn oddiwrth Dad y goleuni, gyda'r hwn nid oes gyfnewidiad, na chysgod troedigaeth." Cymmwys ac ystyriol y 'chwauegir y briodoliaeth hon o *anghyfnewidiad* Duw, i ddangos mai, megis y mae rhoddion daionus a pherffaith oddiwrth Dduw, ac oddi wrtho ef yn unig; felly, nad yw ef un amser yn cyfnewid yn ei bwrpas mewn perthynas i'r rhai y mae ef un waith yn rhoddi iddynt doniau diedifeiriol; ac hefyd i ddangos fod y doniau hynny yn gyfrannog o'i anghyfnewidioldeb ef; ni allant farw, na throï, i fod yn beth nad oeddent ar y cyntaf, ond yn unig o ran perffeithrwydd. Ni all bod dim annheilyngdod yn y rhai y mae yn eu rhoddi iddynt, ond yr hyn yr oedd yn ei ragweled cyn iddo eu rhoddi; (yr hyn a gynhwysir yn y geiriau canlynol, "O'i wir ewylllys yr ennillodd efe nynt"): ac felly ni all bod un achos iddo i'w tynnu ymaith, yr hwn ni allasai'n gystal a hynny beri iddo beidio a'u rhoddi ar y cyntaf; ac hefyd gwaith Duw ydynt; ac "mi a wn (inedd Solomon) beth bynnag a wnel Duw, y bydd hynny byth; ni ellir na bwrw atto, na thynnu dim oddi wrtho."

2. Gadewch i ni ystyried ffydd a sancteiddrwydd yn eu hanianol a'u priodol ffrwythau. Nid oes dim mor beryglus i'r enaid a hunan-gyflawnder; ond ffydd a appwyntiwyd i ddiddymu hwnnw, ac i dreiglo'r enaid ar un arall, sef Crist; yr hyn pa fwyaf y gwnelo hi, diogelach y bydd, ac ni ddadwneir mo hynny byth. Ffydd hefyd sydd ras gweithredol, diwyd, ac am hynny yn cynhyddu; yr hwn y mae hi ganddo, a gaiff mwy o honi, (yna diau na chaiff golli yr hyn sydd ganddo!) Y mae hi yn wastadol yn teithio, ac heb flino un amser; 1. O herwydd ei bod yn ymdeithio yn nerth Hoilalluogrwydd, yr hwn ni ddiffygia ac ni flina: ac, 2. O herwydd ei bod yn gweithio trwy gariad: yn egwyddor fwyaf cynheddfus, ac effeithiol i wneuthur pethau mawrion. Cariad sydd yn ddiorphwys; nid yw ef un amser yn llonydd; y mae yn cymmorth i ddyoddef pob dim, ac ni chwmp byth. O gariad y mae'r cwbl ag y mae Duw yn ei wneuthur i'w bobl; a'r hyn oll ag y maent hwythau yn ei wneuthur tuag at Dduw, sydd yn tarddu oddiwrth yr un gwreiddyn; y maent hwy yn ei "garu ef am iddo ef eu caru hwy yn gyntaf." Cariad sydd yn gwneuthur gwaith yn hyfryd i'r

hwn sydd yn ei wneuthur, ac yn gymmeradwy i'r hwn y gwnair ef iddo; ac felly ffydd yn gweithio trwy gariad sydd ddiffin o'i gwaith, a sicr o'i diwedd; o ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras, ac felly yn sicr. Ac am sancteiddrwydd, (yr hwn sydd dueddiad yn ol Duw, ac yn cymhwys o i'r ddedwydd weledigaeth) ychydig o hono, mewn gwirionedd, sydd anfeidrol werthfawr; ei *fwg* ni ddiffoddir: a rhyfedd y fyddai fod peth mor werthfawr yn ddarostyngedig i lygredigaeth: eithr nid yw felly, y mae yn naturiol iddo helaethu; am hynny y cyffelybir ef i surdoes, yr hwn a guddier yn yr enaid nes sur o'r cwbl. Priodol iddo yw gwneuthur yn gyffelyb iddo ei hun; anian nefolaidd y sydd ynddo, yn sancteiddio'r cyfan a gyffyrddo âg ef; "Pur yw pob peth i'r rhai pur." Y mae yn cymhwys o i gael cymdeithas â Duw; yn tynnu ac yn rhwymo'r enaid atto ef; yno y mae yn ei le, ac oddi yno ni all fyw; a thrwy y gymdeithas hon y mae yn cynhyddu ac yn mawrhau.

Corph naturiol, yn ol un waith ei *fod*, ni ellir ei *ddiddymu*: a pha fodd y gwnaed felly i bethau o dduwiol anian? "Hwy a aned o had anllygredig, yr hwn sydd yn byw ac yn parhau yn dragywydd:" ac fel y mae'r had, felly y bydd y ffrwyth; pa hena y bo, cryfaf y bydd; "Y glân ei ddwyllaw a 'chwana nega gryfdwr." O'r had *sanctaidd* y maent; ac er iddynt fwrw eu *dail* ar brydiau, y mae *sylwedd ynddynt*, a hwy a adferir. Had gogoniant yw sancteiddrwydd; a'r rhai sanctaidd sydd mewn gogoniant, (o ran ei natur a'i sicrwydd); er nad oes iddo ogoniant yn bresennol mewn perthynas i'r hwn a fydd; megis had rosyn neu lili, o'u cyffelybu i blodau a dŷf oddi wrthynt, ag sydd yn rhinweddol ynddynt. Cyttunol â hyn yw geiriau ein lachawdwr, "Yr hwn sydd yn credu, y mae ganddo fywyd dragywyddol:" yr hyn sydd yn dangos eu sicr barhad; "Deddf ei Dduw sydd yn ei galon ef, a'i gamrau ni lithrant:" ac am hynny y mae yn dywedyd, "Na ddifwyna ef, canys y mae bendith ynddo."

III: Rheswm arall a gasglir oddiwrth natur, helaethrwydd, ac amcan Rhagluniaeth; neu amcan Duw yn yr amryw bethau trwy y rhai y mae yn tywys y ffyddloniaid yn y byd hwn. Tri pheth sydd i'w ystyried i wneuthur allan y rheswm hwn:—

1. Bod Rhagluniaeth ddwyfol yn rheoli'r byd; megis yn rhannu i'r cenhedloedd eu hetifeddiaeth, ac yn gosod terfynau eu trigfanat ar y cyntaf; felly yn eu cynnal yn eu mheddiant, neu yn eu bwrw allan fel y mynno; a hyn weithiau trwy foddion annhebygol; ac yn goruch-reoli

pethau yn ol hynny. Gan fod Seir wedi ei roddi i Esau, ac Ari feibion Lot, a'u hamser etto heb ddarfod; y mae yr Arglwydd yn tueddu eu calonau i adael i Israel fyned heibio, ac i roddi iddynt fwyd am arian; ond yr Amoriaid, y rhai oedd wedi eu happwyntio i ddistryw, y mae yn eu "caledu ac yn cadarnhau eu calon," fel y daethant allan yn eu herbyn mewn rhyfel. Felly, pan y mynnai ef roddi ymerodraeth y Caldeaid i'r Persiaid, y mae yn gwanhau y naill, ac yn gwregysu y llall â nerth. Pa fynyched y mae yr ysgrythyr yn dywedyd fod yr Arglwydd yn teyrnasu; ac mai efe sydd yn gostwng y naill ac yn codi y llall; yn ol ei ewyllys ei hun y mae yn gwneuthur â llu y nefoedd, ac â thrigolion y ddaear? Pa mor amlwg y mae yn ei waith yn darostwng Pharao, Nebucodonosor, ac eraill? Y mae Rhagluniaeth yn cyrraedd pob dyn, pob amser, a phob peth yn eu trefnu: nid yw yn gadael dim yn ddamweiniol; y cig-frain, adar y tô, a'r lili; ie, gwallt ein penau sydd oll wedi eu rhifo, a than reolaeth rhagluniaeth Duw.

2. Mae amcan ac ystod Rhagluniaeth yw, cyflawni ewyllys yr Arglwydd. Fel y mae Rhagluniaeth yn llywodraethu'r byd, felly ewyllys Duw sydd yn trefnu Rhagluniaeth. Gwr doeth yw yr hwn sydd yn trefnu ei orchwylion yn ddoeth; sef, fel na bo dim yn eisiau, na dim yn ormod. Y mae y ddau beth hyn yn rhagorol yn Rhagluniaeth Duw; canys, 1. Y mae hi yn holl-ddigonol; yn cyflawni pob diffyg; yn rhoddi bob nerth perthynol i'r cyfryngau a'r dyben. 2. Nid yw hi yn gwneuthur dim yn ofer; yn treulio dim yn afreidiol, neu yn amherthynol i'w phwrpas. Y pethau mwyaf damweiniol o ran dynion, a gyfeirir at ddyben settledig a sertenol: yr hyn y mae'r Arglwydd yn ei "draethu â'i enau, y mae yn ei gwplu â'i law; a'i weithred a fydd yn gwbl yn ol ei arfaeth;" canys cydnabyddus i'r Arglwydd oedd ei weithredoedd oll o'r dechreuad. Beth a wnaeth i Esau aros cyhyd yn hela, nes ei fod yn ddiffygiol? i Jacob ferwi cawl, y pryd yr oedd Esau yn dyfod i mewn, yr hyn a wnaeth iddo ef ei chwennych? ond fel y byddai i gyngor Duw yn ol etholedigaeth sefyll: "Yr hynaf a wasanaetha'r ieuangaf;" yr hyn a ddaeth yn awr i ben trwy werthu'r enedigaeth-fraint. Ac yn llyn y mae Rhagluniaeth Duw yn gwneuthur i ddrygioni dynion wasanaethu i'w bwrpas ef. Yr Arglwydd a arfaethodd fwrw Juda a Jerusalem allan o'i olwg, am eu gwrthnysigrwydd; ac i'r dyben hwn, (sef, i guthur ffordd i hynny) y darfu i "Zedecia wrthryfela yn erbyn brenin Babilon; i gyflawni gair yr Arglwydd," y bu,

er nad oedd hynny yn nghalon y gwrthryfelwr. Felly y rhoddodd ef i Cyrus holl deyrnasoedd y ddaear, fel yr adeiladai efe ei deml ef yn Jerusalem; i gyflawni ei ewyllys, yr hyn oedd wedi ei amlygu o'r blaen. Felly Herod, Pilat, a'r Iuddewon, sydd yn cydfwriadu lladd Crist, bob un i'w ddyben ei hun; heb feddwl yn lleiaf gyflawni rhagderfynedig gyngor Duw; etto dyna'r peth yr oedd Rhagluniaeth yn ei wneuthur, fel y gwelir yn Act. ii, 23. Felly y milwyr hefyd yn rhannu ei ddillad, ac yn trywanu ei ochr; eu creulonder naturiol a barodd iddynt hwy ei wneuthur; ond Rhagluniaeth oedd yn cyflawni prophwydoliaeth, am hynny y gwnaeth y milwyr y pethau hyn. Nid yw yr hyn oll y mae Duw yn ei wneuthur yn y byd, ond cyflawniad ei arfaeth.

3. Nad yw Rhagluniaeth Duw byth yn methu o'i hamcan. Os efe a weithia, pwy a'i rwystra? Ein Duw ni sydd yn y nefoedd, ac yn gwneuthur yr hyn a fynno. A ph'eth a wna ef? Y pethau sydd ar ddyfod, a'r pethau a ddaw, efe a fwriadodd ac efe a wnaeth. Y mae yn bwriadu achub ei bobl; am hynny, "Ni lwydda un offeryn a lunier i'w herbyn; a phwy bynnag a ymgasglo i'w herbyn, efe a syrth:" canys megis yr amcanodd, felly y bydd. Y mae'r ysgrythyr yn llawn o siamplau o'r fath hyn. Ac o'r tu arall, lle bo'r Arglwydd yn anfon barnedigaeth, hi a ddaw i ben, er gwaeled ac annhebycced y fo'r moddion; pe b'ai lu'r Caldeaid oll yn archolledig, etto hwy a losgent Jerusalem a thân; Shamgar a gaiff ladd chwe' chant o wyr âg ierthi ychen; a Samson fil âg asgwrn cilgên asyn. Y pethau hyn o'u hystyried a'u cyssylltu, (er eu bod gan mwyaf yn perthyn i bethau tymhorol) ydynt yn mawr gadarnhau y rheswm o ran pethau ysbrydol; gan fod pethau o dragywyddol bwys yn haeddu mwy o ofal sicrwydd.

Yn awr, nid oes dim ag a weddai bod perygl i'r ffyddloniaid oddiwrtho, ond naill ai euogrwydd y pechodau a wnaethant; neu bwer y llygredigaeth sydd yn cyfaneddu ynddynt; neu brofedigaethau satan, neu erlidigaethau'r byd: nid oes un o'r rhei'ny yn digwydd iddynt yn *ddamweiniol*, ond megis pethau wedi eu rhag-arfaethu gan Dduw i ddybenda. "Er eu mwyn hwynt y mae pob peth yn bod; ac y maent oll yn cydweithio er daioni iddynt;" sef, i'w darostwng am eu pechodau, i'w diddwyn oddiwrth y byd; i beri iddynt garu Crist, i ddangos iddynt mor suddiol yw ordinhadau, i arfer a phrofi eu grasusau, i buro eu sothach, i'w cymmorth i helpu eraill, i ddangos doethineb, gallu, a ffyddlondeb Duw tuag attynt;

i'w cymmwyso i ogoniant; i beri iddynt hiraethu am gael eu harwisgo a'u tŷ o'r nef; fel y gellid yn gyflawn ei ddangos o'r ysgrythyrau, ac oddiwrth yr effeithiau amlwg a wnaethant yn yr rhai a brofwyd a hwynt. I nodi rhai siamplau; Dafydd, yn ol ei gwmp mawr yn achos Uria, a drylliad ei esgyrn o blegid hynny, a rodiodd yn fwy isel a gochellog dros ei holl ddyddiau; ac a fu yn fwy diwyd yn y dyledswydd mawr o ddysgu i bechaduriaid ffyrdd Duw. Pedr a ennillodd wrth wadu ei Feistr, wrth hynny y daeth i weled ei wendid ei hun; yr achos oedd ildo wrth gymmorth Crist, a'i weddi wastadol drosto; nid ydym yn clywed mwy am ei hyder cnawdol yn ol hyn; ond pa fodd y mae efe yn gwaeddi allan yn erbyn ein gelyn, y diafol! I rybuddio eraill wrth ei siampl ei hun, pa berygl y maent ynddo o ran rhyfyg cnawdol. Ac yn ddi- ammeu, beth bynnag a ennillodd y gelyn wrth gwymp Pedr, efe a gollodd y ddau cymmaint wedi hynny trwy wiliadwriaeth eraill; canys y dyben yw, eu cadarnhau, a'u sefydlu. Fe a gafodd Paul gennad satan i'w gernodio; y dyben o hynny oedd ei ddarostwng ef, a dangos iddo ddigonoldeb gras Crist. Ac y mae yn debygol iddo leshau cymmaint trwy'r *ddraen* honno yn ei gnawd, a thrwy ei weledigaeth a'i ddat-guddiadau; diau iddynt fod yn dda gyda'u gilydd, a'i gymhwyso ef yn well i'w waith. Felly y digwyddodd i Job. Pa fodd y darfu i'r goffadwriaeth o'r saith cythraul a fuasai ynddi, ac o'r cariad a'u bwriodd allan, helaethu cariad Mair Magda- len tuag at Grist; a chadw ei chalou mewn tymmer isel; hi a garodd yn fawr, am faddeu llawer iddi? Ymdeithiad y bobl dros ddeugain mlynedd, trwy anialwch mawr ac ofn- adwy, y lle'r oedd seirph tanllyd a scorpionau i'w profi, ac i wneuthur iddynt ddaioni yn eu diwedd. Hwyl a ddan- fonwyd hefyd i gaethiwed er daioni: yr holl ffrwyth a amcanwyd oedd tynnu ymaith eu pechod; fel y byddent gyfrannogion o'i sancteiddrwydd. Physygwriaeth yn wir yw'r pethau hyn, yr hwn nid yw natur yn bresennol yn ei ddymunio; eithr y maent mor rheidiol a'u hymborth yn eu bryd; ac y mae yn gyfiawn i ni eu cael hwynt; yr hyn sydd anlwg hefyd wrth dueddiad y cyfammod newydd; fel yr ymddengys wrth yr hyn a ganlyn. Yn awr, wedi ystyried a chymmaru y pethau hyn, yr ydwyf yn meddwl y gellir yn iawn ddywedyd, hyn oll a wna Duw a dyn, nid i'w ddinystrio, ond i ddwyn ei enaid o'r pwll; fe wneir iddynt oll weithio er iachawdwriaeth iddynt; hwyl a orfoleddasant arnynt yn wastadol, ac a fuont fwy na chongwerwyr trwy yr hwn a'u carodd hwynt, ac a fyddant felly yn wastadol. Ac os hwn.

yw ffrwyth yr hyn oll y sydd yn digwydd, neu a all ddigwydd i'r ffyddloniaid yn y byd hwn; (ac nid oes drwg na pherygl mwy ar ol hwn) yna groesaw wrthynt (yn nerth gras Duw), fel amlygiad arall o'u hanorchfygol barhad. "Y neb sydd ddoeth ac a gadwo hyn, hwy a ddyallant drugareddau'r Arglwydd."

IV. Rheswm arall am barhad y saint, a gymmerir oddiwrth eu *hundeb* â Christ; yr hwn sydd mor fawr, ag y mae'r ysgrythyrau yn ei osod allan trwy enwau priodol i'r perthynasau nesaf; gwinwydden, megis sylfaen ac adeiladaeth; a changhenau, tad a phlant, gwr a gwraig, pen ac aelodau; ie yr un enw a roddir iddynt eich dau; fe a elwir Jacob, a hwythau yn Nghrist. A'r hyn sydd yn fwy, pe gallai fod mwy, y mae yn rhoddi iddynt yr enw, yr hwn a ellid feddwl ei fod yn anghyfranadwy, sef, "Yr Arglwydd ein cyfiawnder." Ac ni ellir byth wahanu yr undeb hwn: y mae'r un fath undeb rhwng Crist a hwythau, ag sydd rhwng y Tad a Christ; fel y mae yn amlwg wrth ei weddi, Ioan xvii, 21. "Fel y byddont oll yn un:" (ond pa fodd yn un?) "Megis yr wyt ti y Tad ynof fi, a minneu ynot ti, fel y byddont hwythau yn un ynom ni." Y maent mor agosed iddo ag y dywedir eu bod "o'i gnawd ef, ac o'i esgyrn ef:" ac hefyd eu bod yn "un ysbryd." Hwy ac yntef a gynhyrfir gan yr un Ysbryd, megis pen ac aelodau yr un corph gan yr un enaid. A hwn yw'r rheswm paham na all y ffyddloniaid rodio yn ol y caawd; am fod "Ysbryd y bywyd, yr hwn sydd yn Nghrist Iesu," (fel eu gwreiddyn) yn rheoli ynddynt hwy. Hwy a gadwir yn Nghrist, fel Noa yn yr arch, neu y canghenau yn y winwydden: canys, rhaid in' yn wastadol ddal sylw ar y gwahaniaeth hyn, nad yw y bywyd hwn gan y ffyddloniaid ynddynt eu hunain, megis y mae gan Grist; ond y mae ganddynt ynddo ef, yr hyn sydd well iddynt na phe buasai yn eu cadwriaeth eu hunain; o herwydd gan ei fod ynddo ef megis gwreiddyn, y mae yn naturiol iddynt (trwy rinwedd y dduwiol anian a gyfranwyd iddynt) dderbyn oddi wrtho ef; ac yn ganlynol, *am*, a thra byddo "ef fyw, byw fyddant hwythau hefyd; yr hwn y mae'r Mab ganddo, y mae bywyd ganddo;" y mae ganddynt mewn ffordd o hawl, fel y mae gan yr hwn ag y sy feddiannol o'r tir, hawl i'r hyn oll a dyfo arno; yr hyn oll ag sydd eiddo Crist, sydd eiddo hwynt; y mae dedwydd gyfnewidiad rhyngddynt; eu dyled hwy, a'u canlyniadau, a gyfrifir iddo ef, a'r hyn oll oedd eiddo ef, a gyfrifir ac a gyfrannir iddynt hwy. Ac y mae yn gofalu am danynt, gymmaint ag y bydd efe yn abl i ddywedyd ar y dydd olaf,

“Y rhai a roddaist i mi a gedwais,” ni âd ef ewin yn ol. Fe allai y tynnid ymaith y fodrwy oddi ar ei fys (dynion o ymddangosiad teg) ond ni chollir y cymmal lleiaf o'i fys; nid oes dyn yn ei iawn bwyll, a oddef i'r rhan leiaf o'i gorph farweiddio a phydru pan b' o yn abl ei rwystro; ac a fydd i'n Harglwydd Iesu wneuthur felly? Yr hwn, heblaw y cariad naturiol sydd ganddo at ei gorph ei hun, a dderbyniodd orchymyn gan ei Dad i'w gadw yn ddiogel, ag sydd yn mhob modd yn abl i'w gyflawni. Ar y cyfrif hwn hefyd y maent “wedi eu cyflawni ynddo ef:” y mae'r ffyddloniaid wedi eu huno felly â Christ, fel y dywedir, beth bynnag a wnaeth ef, iddynt hwythau hefyd ei wneuthur gydâg ef, wedi eu *henwaedu* gydâg ef; eu *croeshoelio* gydâg ef; eu *claddu* gydâg ef; *adgyfodi* gydâg ef; ac *eistedd* yn y nefoedd gydâg ef. Nid hawsach i'r ffyddloniaid fod yn golledig, na chadw Crist yn meddiant y bedd; y maent dan yr un ddeddf: “gwir yw'r gair, os buom feirw gydâg ef, byw fyddwn hefyd gydâg ef; os ydym yn cyd-ddyoddef gydâg ef, fe a'n cyd-ogoneddir hefyd,” megis “nad yw Crist yr hwn a gyfodwyd oddiwrth y meirw,” yn marw mwyach; felly ni ddychwel neb o'r rhai a gyfodwyd gydâg ef, drachefn i lygredigaeth: canys efe a “reddodd ei hun dros” yr eglwys, nid i'w *sancteiddio* a'i *glanhau* hi unwaith yn unig, ond dros byth, ac fel y “gosodai efe hi heb na brycheuyn na chrychni” yn y dydd diweddaf: a'r “un offrw m hwnnw y perffeithiodd efe yn dragywyddol y rhai sydd wedi eu sancteiddio.” Y rhei'ny yw “sicr drugareddau Dafydd,” am y rhai y sonier Esa. lv. a'r rhai a eglurir yn Act. xiii.

Nid yn ofer y mae ein Harglwydd a'n Hiachawdwr bendigedig, mor fynych yn ail adrodd y gair a'r addewid da hwnnw am y ffyddloniaid, (yr hyn a wnaeth efe yn ddiau gydâ mawr hyfrydwch, y meddyliai am dano,) “Myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf, ac myfi a'i hadgyfodaf ef yn y dydd diweddaf;” megis pe dywedassai, mi a fyddaf gydâg ef hyd ddiwedd y byd, ac a fynnaf ei weled ef yn ddiogel yn y nefoedd: ac fe ellir dywedyd am hyn (fel y dywedodd Joseph wrth Pharao) “ei ddyblu, oblegid sicrwydd y peth gan Dduw, a bod Duw yn brysio i'w wneuthur.”

V. Achos arall o barhad y saint, yw bod holl briodoliaethau Duw yn rhwym i'w cadw. Rhinwedd anorchfygol a ymrwymodd i'w wneuthur, ac am hynny rhaid ei fod.

I. GALLU. Jer. xxxii, 27. gallu hollawdurdodol Duw ar bob cnawd, a osodir megis sylfaen i'w ffydd, i beri iddynt gredu y dychwelent o gaethiwed, ac y-rhoddai efe iddynt

galon newydd; ac y cadwai efe hwynt felly, fel "na chilient mwy oddi wrtho," fel y gwnaethent o'r blaen. Felly y pryd yr oedd yn ewyllysio nerthu ei bobl weinion, y mae yn galw ei hun, "Duw tragywyddoldeb, yr Arglwydd Creawdwr cyrrau'r ddaear, yr hwn ni ddiffygia ac ni flina:" ac yn mhellach drachefn, ei "ddeheu law a'i fraich nerthol" a rwymir trwy *lw*. Yn 2 Tim. i, 12. yr apostol sy'n profi sierwydd ei iechydwrriaeth ei hun oddiwrth allu Duw; (yr hyn ni allasai efe ei wneuthur gyda rheswm na chysur, oni buasai fod y gallu hynny yn rhwym i'w achub); "Nid oes arnaf gywilydd; canys mi a wn i bwy y credais, a'i fod ef yn abl i gadw yr hyn a roddais atto erbyn y dydd hwnnw." Ac y mae yn rhoddi'r un cyngor i eraill, lle y mae yn eu gyrru at allu Duw, i beri i ras helaethu ynddynt. Galwad yr Iuddewon hefyd, a'u himpiad yn Nghrist, a seilir ar yr un graig; "canys fe all Duw eu himpio hwy i mewn drachefn," Eph. vi. Y mae yn dywedyd pa fath elynion yr oeddent i ymdrech yn eu herbyn, sef "tywysogaethau, ac awdurdodau, a drygau ysbrydol yn y nefolion leoedd;" math o elynion rhy nerthol i ysbrydoedd yn preswyllo mewn pebyll o bridd: ond i'w nherthu i'r ymladdfa, y mae'n dangos iddynt allu uwch na'r rhei'ny; ie llawer mwy yn uwch na hwy, ag y maent hwy yn uwch na ni: ac yn hwn y mynnai iddynt ymgefnogi; "Ymnerthwch yn yr Arglwydd, ac yn nghadernid ei allu ef:" hon sydd arfogaeth gyflawn; iawn y gelwir hi "holl arfogaeth Duw;" ac yn y tŵr cadarn hwn y mae'r ffyddloniaid yn ddiogel. Felly hefyd, Eph. i. i'w nherthu yn ngobaith eu galwedigaeth, y mae yn dwyn i mewn "alluog nerth Duw, ie rhagorol fawredd ei nerth ef, trwy'r hon y cyfododd ef Crist o feirw; ac a'i gosododd ef ar ei ddeheulaw ei hun, goruwch pob tywysogaeth ac awdurdod; ac a ddarostyngodd bob peth dan ei draed ef;" lle mae yn gosod Crist fel siampl o'r hyn a wna Duw i'r ffyddloniaid; hwy a gyfodir ac a osodir goruwch pob peth, fel y gwnaethpwyd iddo ef. Ac er iddynt gwympto weithiau ("canys nid oes dyn ni phecha") byddent fwy gochellog, ond na ddigalonnir hwynt; canys "ni lwyr fwir hwynt i lawr;" a hyn o herwydd bod yr "Arglwydd yn eu cynnal a'i law." Fe all y "saethyddion saethu attynt, a bod yn chwerw wrthynt; er hynny eu bwa a erys yn gryf, a breichiau eu dwylaw a gryfhant, trwy ddwylaw rymmus Duw Jacob." A da yw in' fod gallu Duw wedi cymmeryd arno'r gwaith anhawdd hwn; a bod hynny mor eglur yn yr ysgrythyr; canys ni buasai dim arall yn ddigonol i beri i ni gredu y buasem yn para hyd y diwedd; "Eithr gan ei fod yn gadarn o allu, ni phalla un."

2. **DOETHINEB.** Gallu yw hwn i gymhwyso a chyfeirio moddion at eu priodol ddyben. Mewn pethau o lai pwys y mae'r Arglwydd yn trefnu ei waith felly, fel na allu ffaelw: ac felly gan ryngu bodd iddo ef ordeinio dynion i iechyd-wriaeth; y mae ei ddoethineb yn gofyn iddo ei wneuthur yn y fath ffordd ag y sydd sicr i ddyfod i ben; ac i bob math o rwystrau gael, naill a'u rhagflaenu a'u goruwch-reoli, fel na allont rwystro, ond bod yn wasanaethgar i'w ddyben mawr ef; yn ol bwrw ei draul, a dechreu adeiladu, fe weddai i'w ddoethineb edrych i'r gwaith gael ei orphen a'i berffeithio; ac felly barottoi offerynau addas, -y cyfryw ag a w'yr sydd ddigonol, ac nid yn ormod i'r gwaith yn llaw; fel llafurwr yn cymmeryd had cyfattedbol i natur ei dir, ac offer dyrnu addas i'w lafur; ni chymmer ef olwyn, lle gallo gwialen wneuthur, na gwialen lle bo olwyn yn angenrheidiol; a hyn y mae yn ei gael oddiwrth "ei Dduw yr hwn a'i hyffordda ef mewn synwyr." Felly y mae'r "Arglwydd yn attal ei wynt garw ar ddydd dwyrein-wynt:" nid yw ef yn unig yn ordeinio i ddyn ddiwedd ei daith, ond hefyd yn trefnu ei holl gamrau ef: yr Arglwydd sydd yn cadw ei fynediad a'i ddyfodiad: Esa. xxvi, 7. fe ddywedir fod yr "Arglwydd yn pwysu ffordd y cyfiawn;" lle yr ydys yn meddwl, nid yn unig ei fod yn edrych ar eu gwaith, ac yn rhoddi iddynt yn ol hynny; eithr ei fod yn rhag-ystyried beth sydd ganddynt i'w wneuthur, a pheth sydd reidiol iddynt tuag at ei wneuthur; ac yn gwneuthur eu nherth a'u cymmorth yn gyfattedbol. Megis wrth wneuthur y byd, y dywedir iddo "bwyso y mynyddoedd mewn pwysau, a'r bryniau mewn clorianau;" fel y byddai ei ranau o'r un bwys: neu fel un yn rhedeg gyrfa, ac yn dwyn pwysau gydâg ef, y mae'n ddoethineb iddo eu cydbwyso: felly mae'r Arglwydd yn gosod y naill beth gyferbyn a'r llall, yn y pethau perthynol i'n heneidiau. Paul sydd yn dwyn i mewn "ddoethineb Duw," gystal a'i *allu* i gymmorth eu ffydd mewn perthynas i'w *cadarnhad*; a'r apostol Judas, yn niwedd ei lythr, sydd yn diolch i Dduw, fel yr "unig ddoeth Dduw," o ran ei fod yn eu "cadw rhag cwympto, ac yn eu gosod yn ddifeisus ger bron ei ogoniant."

3. **ANRHYDEDD** Duw sydd reswm nerthol hefyd i sicrhau yr athrawiaeth hon; ffordd Duw yn delio i'r hen bobl, a'r achos o hynny, sydd siampl ddiwrthddadl. Nid oedd yr addewid o rod-di Canaan iddynt, ddim mwy di-os; na'r addewid o iechyd-wriaeth i'r rhai a gredo, ac nid oedd dim llai o ammodau, bygythion, a gocheliadau wedi eu 'chwanegu atto yn ol llaw: ond gan wneuthur yr addewid unwaith yn ddi-os, "I'th had di y rhoddaf y tir hwn;" yr oedd yr Arglwydd yn

edrych arno ei hun er mwyn ei anrhydedd yn rhwym i'w gyflawni. Pa mor fynyched y mae megis yn barod i dywallyt allan ei lidiawgrwydd i'w difetha? Yn gyntaf yn yr Aipliti; ac yno yn y diffeithwch, &c. A ph'eth a'i hattaliodd, ond yr ystyriaeth o'i anrhydedd? hyn a wnaeth iddo ffeindio fyrd i'w gwaredu; "Gwnaethum (medd efe) er mwyn fy enw" yr oedd yr Arglwydd megis yn ymroi i ddarostwng ei gyflawn lidiawgrwydd, yr hon a gynhyrfasid gan eu gwrthgiliau digywilydd hwynt: yr oedd y peth yn perthyn i'w enw a'i anrhydedd, a hynny a attaliodd ei ddwyllaw; yr oedd un waith wedi gwneuthur addewid di-os, yr hwn oedd yn rhaid ei gyflawni, er mor annheilynged yr oeddent yn gwneuthur eu hunain. Yr ydym hefyd yn cael yn Esa. xlviii. eu bod yn anffyddlon iawn, nâ'r hyn nid oes dim yn fwy yn cynhyrfu ei ddigofaint: eithr, medd yr Arglwydd, "Er mwyn fy enw yr oedd fy llid?" a thrachefn, "Er fy mwyn fy hun, i'w er mwyn fy hun, y gwnaf hyn; canys pa fodd yr halogid fy enw?" Yr Arglwydd a bassa heibio i filoedd o drosedd-iadau, yn hytrach nâg y bo i'w enw a'i anrhydedd, gael ei halogi, fel y ca'dd un waith trwy ymattaliad tymhorol; i adferu hyn, ac fel y sancteiddid ei enw, efe a'u dwg adref drachefn; i'w er ei fod yn anhosibl yn ngolwg dynion; a'u bod hwy eu hunain yn tybyg hynny hefyd; o blegid, "Ein gobaith a gollodd, torwyd ni ymaith," meddant; a thrachefn, "Darfu am fy ngobaith oddiwrth yr Arglwydd." Yn eu gwlad, ac allan o'u gwlad, yr oeddent yn peri i'w enw ef gael ei halogi; ac "er mwyn ei enw sanctaidd" hwn y mae yn tosturio wrthynt: canys pe buasai ef yn eu bwrw ymaith dros byth, fe a ddywedasid nad oedd efe yn rhagweled pa fath bobl annheilwng y fyddent; neu, nad oedd ef nac abl i'w cadw yn eu gwlad eu hun, nac i'w dwyn yn ôl drachefn; neu ei fod ef yn gyfaewidiol yn ei fwriadau, ac yn anffyddlon yn ei eiriau, &c. Rhyw fai neu gilydd y ffeindiasent arno, yr hyn ni allasai ef ei oddef. Hyn ôll, a llawer o'r fath, a ellir ei gymhwyso at y ffyddloniaid o ran eu parhad.

4. CYFIAWNDER. Ni all bod cynhaliaeth mwy nerthol, na diddanwch cyflawnach i'r ffyddloniaid, nâ bod Cyfiawnder Duw wedi ymrwymo i'w hachub; canys, "Yr Arglwydd cyfiawn a gâr gyfiawnder, ac ni all ef wadu ei hun." Ni chyfiawnhai ef neb, na wnai ei etholedigion, ond mewn ffordd gyttunol â'i gyfiawnder: o herwydd paham yr anfonodd ei Fab i fod yn iawn dros bechod. Diau gan hynny, yn ol derbyn boddlonrwydd, na âd ef le i neb feio ar ei gyf-

iawnder, trwy eu gadael mewn un modd yn ddarostyngedig i ddamnedigaeth. Y mae iechydwrriaeth yn awr yn ddyledus iddynt; ei ras ef a'i gwnaeth hi felly, trwy roddi a derbyn y fath werth ag a rwymodd ei gyfiawnder i'w bachub hwynt; "Pwy yw yr hwn sydd yn damnio?" gan i Grïst farw. Y mae mor gyfiawn gyda Duw roddi esmwythdra i'w bobl, a rhoddi cystudd i'r rhai sydd yn eu cystuddio hwynt. Paul, gan hynny, sydd yn seilio ei obaith o'r goron ar y briodolaeth hon, gymmaint ag ar neb-rhyw un o'r lleill; "O hyn allan y rhoddwyd coron cyfiawnder i'w chadw i mi, yr hon a rydd yr Arglwydd, y Barnwr cyfiawn, i mi yn y dydd hwnnw." Cyfiawnder Duw sydd yn eu gwneuthur yn sicr o "fynd y'mlaen," o "orphen eu gyrfa," ac o "gadw'r ffydd," yn gystal ag o'u gwobr yn ol gwneuthur eu gwaith. "Nid yw Duw yn aughyfiawn, fel yr anghofio lafurus gariad ei bobl;" llai o lawer y gwna efe felly â Christ. Hyn a barodd i'r apostol goelio pethau gwell, am y rhai yr oedd yn sgrifenu attynt na byddai iddynt syrthio ymaith. "Y mae gwaed y cyfammod tragywyddol" wedi ymrwymo i'w "perffeithio yn mhob gweithred dda, i wneuthur ei ewyllys ef," i.e., "hwy a ffrwythant yn eu henaint;" a hyn oll, "i fynegu mai uniawn yw yr Arglwydd, ac nad oes anwiredd ynddo ef."

5. Y mae FFYDDLONDEB a GWIRIONEDD Duw hefyd yn sicrhau parhad y saint. Canys, yn gymmaint ag iddo ef eu tynnu oddiwrth bob rhyw greadur i orphwys yn unig arno ei hun, ni all ef lai ná rhoddi iddynt yr hyn yr ymddiriediasant iddo am dano. Ni bydd yr Arglwydd i'w bobl, fel yr oedd y gorsen ysig honno yr Aipht i'r Iuddewon, i'w gadael pan byddo rheitaf iddynt wrtho: sef, pan y b'ont ar grwydr, wedi eu *gyrru ymaith*, yn *ddrylliedig*, ac yn *glaf*, ac, se allai, heb chwant i ddychwelyd; megis Ephraim, yr hwn "a aeth rhagddo yn gildynnus;" yno y mae hi yn amser addas i ffyddlondeb ymddangos, trwy ymofyn am danynt, eu dwyn yn ol, eu rhwymo i fynu, eu hiachau, a'u cysuro. Iachau eu gwrthgiliad, fel mae yn dangos rhadlondeb cariad Duw, felly hefyd ei ffyddlondeb. Ni wêl yr Arglwydd anwiredd yn Jacob; hyuny yw, ni edrych arno yn y fath fodd ag y gwnelo iddo fod yn waeth ná'i air: canys ni allai ef lai ná chansod eu gwrthnysigrwydd a'u tuchan; am y rhai y mawr gystuddiodd hwynt; ac ar brydiau a fygythiodd eu torri ymaith oddiwrth yr etifeddiaeth: ond yn wastadol yr oedd ef yn cofio ei gyfammod; a hynny a'i rhwystrodd: yr Arglwydd a roddasai y fendith, ac ni allai dyn ei galw yn ol; ni allant hwy eu hunain trwy eu mawr anufudd-dod; na

Balaam, trwy ei ddewiniaeth: "Yr Arglwydd a gâr farn;" (sef, gwirionedd a ffyddlondeb); am hynny ni edy ef ei *saint*; eithr cedwir hwynt yn dragywydd. Y mae'r *saint* mewn cyngrair â Duw, gwnaethant gyfammod ag ef trwy aberth; cyfammod o'i wneuthuriad ef ei hun yw, trwy yr hwn yr ymrwymodd efe i'w hamddiffyn hwynt. Ac er yr gall dynion dorri eu hammod, ni wna Sanct Israel felly; "Nid dyn yw i ddywedyd celwydd, na mab dyn i edifar-hau." Gan i Ddafydd wneuthur Duw yn nerth iddo, y mae yn casglu oddiwrth hynny, bod *enw* Duw yn rhwyngol i'w dywys a'i arwain. Yr oedd y Coriouthiaid mor ddarostyngedig i brofedigaethau a dynion eraill, y rhai oedd yn cael eu gorchfygu ganddynt; canys yr oedd ynddynt wedd-gillion nerthol o lygredigaeth; (fel y mae yn amlwg wrth y ddau lythyr) ac yr oedd ganddynt elyn cyfrwys i'w nosli a'i ddefnyddio: heblaw hynny, yr oeddent yn fawr eu doniau, ac felly yn barottach i dybyg eu hunain yn fwy na christ-nogion cyffredin; na'r hyn nid oedd dim mwy peryglus iddynt: ond, er hyn oll hwy a achubir; ffyddlondeb Duw sydd yn eu cadw, ac a'u "cadarnha hyd y diwedd;" canys "ffyddlawn (medd efe) yw Duw, trwy yr hwn eich galwyd;" yr hwn sydd megis pe buasai yn dywedyd, ni buasai Duw byth yn eich galw i gymdeithas ei Fab, oni buasai ei fod i'w bwriadu eich cadwyno. Felly, drachefn y mae yn dywedyd wrthynt, "Na adawai Duw eu tentio uwchlaw yr hyn a allent;" yr hyn y mae ef yn ei gasglu oddiwrth ffyddlondeb Duw. Y mae efe hefyd yn dywedyd, y cedwir y Thesalonians yn ddiargyoeidd yn nysodiad Crist; o herwydd mai "ffyddlon yw yr hwn a'u galwodd, yr hwn hefyd a'i gwna." A phan y mynâi annog yr Hebreaid "i ddal cyffes eu go-baith yn ddisigl," y mae yn arfer yr un rheswm; canys ffyddlon yw yr hwn a addawodd. Y mae Pedr yn cynghori "y *saint* i orchymyn eu heneidiau i Dduw, megis Creawdwr ffyddlon." Y mae'r ysgrythyr yn wastad yn cynnyg y fath briodoliaethau ac annogaethau ag a fyddo berthynol i'r matter yn llaw; am hynny, gan ei fod yma yn galw Duw yn Greawdwr ffyddlon, y mae yn gymmaint a phe dywedasai, yr hwn a'ch gweithiodd (neu a'ch gwnaeth) chwi i hyn yma, yw Duw; yr hwn sydd ffyddlon i'w fwriad, neu yr amcan cyntaf o'i waith; ac am hynny a'i perffeithia ef, er y profiad tanllyd yr hwn a ddigwydd i chwi: chwi ellwch, gan hynny, orphwys arno, a gorchymyn eich hunain iddo; canys ni phall ei wirionedd ef; a'ch ffyddlondeb chwithau ni chaff wneuthur hynny.

6. TRUGAREDD. Y brodoliaeth hon hefyd sy'n achos o barhad y saint. Trugaredd sydd yn edrych ar rai mewn cyfyngdra, i'w dwyn allan a'u cynnal, y pryd na bo ganddynt ddim i gymmorth eu hunain: nid oes neb yn fwy teimladwy o hyn na'r rhai credadwy; ar y rhai'n, gan hynny, yn weillduol y mae trugaredd yn edrych, Hos. xiv, 3. "Yhôt iti y caiff yr ymddifad drugaredd." Salm lix, 14. "Duw fy nhrugaredd a'n hamddiffyn." Trugaredd yw eiddo a'gogoniant Duw. Trugaredd yw ei ffordd ef; holl lwybrau yr Arglwydd ydynt drugaredd: ei lwybr hyfryd yw, am hynny y dywedir eifod yn hoff ganddo; sy mae yn hoffach ganddo na dim; i.e., "hoff ganddo y rhai a ddisgwyliant wrth ei drugaredd." Ni allwn, mewn ystyr dda, dywedyd, "ei orseddfa" (hynny yw, ei ogoniant yn y byd) a'gadaruheir trwy drugaredd. Ei drugaredd sydd yn pen i ddynion ei ofni ef. Yr holl 136 Salm sydd yn canmol ei drugaredd ef, megis yr hyn sydd yn gwneuthur y cwbl droso; a hyn o herwydd ei fod yn parhau yn dragywydd. Yn y 138 Salm, y mae'r prophwyd yn eglur yn gosod ei hyder i bara ar y briodoledd hon; sef, y cyflawnai'r Arglwydd ág ef, o herwydd bod ei drugaredd (yr hwn a ddechreuodd y gwaith) yn para yn dragywydd. Y cyfammod mawr a adeiladir ar drugaredd, ac am hynny y gelwir ef yn "sîc drugareddau Dafydd," Esa. lv, 3. Ni chwanegef ddim mewn perthynas i'r briodoledd hon; o blegid byw'r lleill oll o'n tu ni, (megis y gwelweh eu bod) rhaid bod trugaredd felly hefyd; canys yn ddiawhi a ddygodd i mewn y lleill, ac a wnaeth iddynt fod felly.

VI. Parhad y saint a ellir ei brofi hefyd oddiwrth y *dybenion* er mwyn y rhai y maent, a'r *Awdwr* o'r dybenion hynny: y mae'r ysgrythyr yn dal sylw ar hyn. Eu dybenion yw gogoneddu Duw, a chael eu gogoneddu gyd ág ef. Eitha ni ellir cyrraedd un o'r rheiny heb barhau: ni ellir cyfateb y cyntaf, canys nid oes dim yn dianrhydeddu Duw yn fwy na gwrthgiliad: na'r diweddaf, canys y rhai a barhau llyd y diwedd yn unig a fyddant gadwedig. Rhaid iddynt, gan hynny, barhau, neu ni allant gyfateb y dybenion hynny; yr hyn ni all gyd-sefyll ág amcan ac awdurdod yr awdwr. Mae dyna y dybenion er mwyn y rhai y maent, sydd amlwg, Esa. xliii, 21. "Y bobl hyn a luniais im' fy hun;" a'r 7fed adnod, "I'm gogoniant y creais ef." Yr apostol sy'n eglur hefyd yn y peth, 2 Cor. v. lle wrth son am yr adeiladaeth nefol a barottowyd i'r ffyddloniaid, y mae yn dywedyd eu gwneuthur i'r dyben hwnnw. Hynny oedd

amcan a dyben ein creadigaeth hen a newydd, sef, yr hyn oll a wnaeth Duw i ni. Ac y mae mor eglur mai Duw yw yr awdwr o'r dybenion hynny; ac am hynny ni allant lai na dyfod i ben. O herwydd hyn y mynnai yr Arglwydd i'w bobl fod yn dra hyderus, fel y mae yn amlwg, wrth ei fod mor fynych yn eu cyfarwyddo i hynny, Esa. xliii. lle i'w cefnogi dan yr adfyd mwyaf, y mae yn dywedyd, "Nac ofna, canys gwardais di, gelwais di," adn. 7. "Creais ef, lluniais ef, gwnaethum ef: myfi, myfi yr Arglwydd a wnaeth felly," adn. 11. A phen. xli, 10. "Nac ofna, canys yr ydwyf gydâ thi; cadarnhaf di, cynnorthwyaf, a chynhaliâf di:" y pwys sydd yn sefyll ar yr hwn sydd yn gwneuthur, sef, Myfi yr Arglwydd; (gair o anfeidrol arwyddocad a diogelwch i'r ffyddloniaid!) Y mae yr apostol hefyd, 2 Cor. v. i gyflawn sierhau y saint eu bod yn ddiogel, yn arddangos Duw fel yr awdwr mawr o'r dybenion pwysig hynny, a'r hollalluog Berffeithydd o'honynt; "Yr hwn a'n gweithiodd ni i hyn yma yw Duw." Megis pe dywedasai ef, y mae yn anmhosibl i ni golli yr hyn a'n gweithwyd iddo; canys Duw a'n gweithiodd i hynny. Nid bwriad eilun, sef rhyw weithredydd *anwybodus*, *byrbwyll*, *siomgar*, neu *gyfnewidiol* yw; yr hwn y mae yn bosibl ei orddiwes â'r hyn nad oedd yn ei ddisgwyl; neu ei dwyllo gan ddeall gwell; neu ei oruwch-reoli gan bwer goruchel; neu roddi heibio ei fwriad o ran ei ansefydlrwydd a'i gyfnewidioldeb naturiol, &c. Ond bwriad Duw yw, yr hwn sydd "ddoeth o galon a galluog o nerth," Job ix, 4. Efe yw, oddiwrth yr hwn y ca'dd pob peth ag y sydd yn bod, a than reolaeth ac awdurdod yr hwn y maent yn gwbl. Yr oedd ganddo dragwyddoldeb o'i flaen i drefnu ei amcan *sicr*; ac felly y mae yn mynegi y diwedd o'r dechreuad. Y mae, gan hynny, mor anmhosibl iddo ef wneuthur, neu beidio a gwneuthur, neu adael gwneuthur un peth a allo rwystro ei amcan, ag yw i Dduw ddywedyd celwydd. Ni buasai ef yn gosod y dybenion hynny fel ei brif amcan yn y cwbl, oni buasai ei fod yn arfaethu eu dwyn i ben. Am hynny (fel y dywed yr apostol) *Yr ydym yn hyderus bob amser, pan byddom oddi gartref o'r corph, y byddwn cartref gydâ'r Arglwydd," 2 Cor. v, 6, 8. Hyn a gadarnhair y'mhellach yn yr addewid byr hwnnw, Jer. xxxi, 33. "Mi a fyddaf iddynt hwy yn Dduw, a hwythau a fyddant yn bobl i mi:" pob gair yma sydd dra ystyriol; 1. Y bydd ef yn Dduw iddynt hwy; 2. eu Duw hwy; 3. a thros byth; Mi a fyddaf, yma sydd yn arwyddocau llawn fwriad, ac amser anhersynedig. Y

mae megis pe dywedasai, Arglwyddi eraill a lywodraethasant arnoch, ac y mae ynoch etto dueddiad i ddychwelyd attynt; ni chaiff hynny fod; ni fwrir fi allan mwy; mi a iachaf eich gwrthgiliad, ac a fyddaf yn Dduw i chwi yn wastadol: mi ymddygaf tuag atoch, a throsoch fel y gweddai i Dduw wneuthur; ac a'ch gwnaf chwi y fath bobl ag a weddai i Dduw eu harddel; "Ni bydd arnaf gywilydd fy ngalw yn Dduw i chwi," Heb. xi, 16. Diau y byddai'n anglod ac yn anfoddlonrwydd i Dduw, pe b'ai ei bobl yn dyfod yn fyr o'r hyn y gwnaeth hwynt iddo; yr hyn yn ddiau na's gall fod; canys Duw sydd eiddo hwynt; a chan fod Duw yn eiddo hwy, pob peth sydd eiddo hwy, y byd hwn a'r hwn a ddaw, 1 Cor. iii, 22, 23.

VII. A'r olaf reswm am barhad y saint, a geir oddiwrth yr arfaeth *odidog* o *Etholedigaeth*. Yr ydwyf yn ei galw yn odidog, mewn rhan, o herwydd ei bod yn amlygiad mwyaf o gyflawn awdurdod Duw ar ei greaduriaid, yn dewis y neb y fynno, ac yn gadael y lleill: ac mewn rhan hefyd, o blegid bod pob math o bethau yn ddarostyngedig iddo, ac yn wasanaethgar i'w dwyn i ben. A hyn, fel yr ydwyf yn tybyg, yw y rheswm o'i fod yn gosod *Etholedigaeth* mor fynych yn nhragywyddoldeb, (neu cyn seiliad y byd); sef i ddangos bod Duw wedi gwneuthur y byd, a'r hyn oll a ddigwyddo ynddo, yn bennaf o herwydd *Etholedigaeth*: yr achos cyntaf hwn sydd yn trefnu'r holl achosion cyfryngol, ac nid yw ef yn ddarostyngedig i'r un o honynt. Nid dim hawddgarwch ag oedd yn yr etholedigion a wnaeth i Dduw eu caru ar y cyntaf: felly ni chaiff eu gwrthgiliadau anhawddgar eu hyspeilio o hono; gellir ei guddio dros dro, i ddryllio eu hesgyrn trwy eu bai eu hnnain. Yr Arglwydd a'u dewisodd er mwyn ei ddelw sanctaidd ei hun, yr hon yn ol hynny a argraffai ef arnynt; a hyn y mae yn wastad yn ei gario yn mlaen trwy ei holl oruchwyliaethau.

Y genedl etholedig, yr Iuddewon, a giliasant oddiwrth Dduw, ac a wnaethant yn waeth na neb arall; etto ni fynnai'r Arglwydd eu llwyr fwrw ymaith. Yn amser Samuel, mawr iawn oedd eu hanwiredd; etto, medd efe, (i'w cadw oddiwrth gyflawn wrthgiliad), "Ni wrthyd yr Arglwydd chwi:" ond beth yw yr achos ei fod mor hyderus a sicr? yr un peth ag yr ydym ni yn awr yn son am dano; "Ni wrthyd yr Arglwydd chwi, o herwydd rhyngodd bodd i'r Arglwydd eich gwneuthur chwi yn bobl iddo ei hun:" nid o herwydd eu bod hwy yn cofio eu dyledswydd, ac yn dychwelyd at Dduw; ond o herwydd "iddo gofio drostynt hwy

ei gyfammod:" yn ol yr hwn, yr hir ymddiffynodd ef ei hawl, er iddynt ei fforffetu yn fynych; ac a'u dychwelodd drachefn o gaethiwed. Ac yn ddiau nid oes dim yn toddi calonnau y neb sydd mewn cyfammod a Duw, gymmaint ag i'r Arglwydd ymheddychu a hwynt yn ol eu holl ffeidd-dra. Y mae ffordd Duw yn delio a'r bobl hyn, yn hyfforddiad rhyfeddol, i gymmorth ffydd yr etholedigaeth ysbrydol, ar bob achos; trwy ddangos y cyfrif neillduol y mae'r Arglwydd yn wneuthur o honynt, er mwyn ei gyfammod: er y gall, ac er ei fod yn cospi eu hanwiredd, etto ni thor ei drugaredd oddiwrthynt. Ac y mae yn wastad yn dywedyd, mae am iddo eu dewis y mae hynny; megis y cewch yn Esa. xli, 9. "dewisais di, ni'th wrthodais." Efe a weddai 'chwanegu y geiriau olaf hyn, "Ni'th wrthodais," i ddangos mae gweithred na ellid ei galw yn ol, oedd eu dewis hwynt: megis pe dywedasai, mi a wyddwn yn mlaen llaw beth y wnait, a phafath y fyddit; a phe buaswn ar fedr dy wrthod; ie oni buasai i'm lawn fwriadu, na wnawn hynny; ni buaswn i ddim yn dy ddewis; ond gan i mi wneuthur hynny, diau mi'th arddelaf, "Cadarnhaf di, cynnorthwyaf di hefyd, a chynhaliad di a dehau law fy nghyfiawnder."

Diammeu yw fod y rhan fwyaf o'r genedl honno, yn awr wedi eu torri ymaith trwy anghrediniaeth; y mae'r rhan oddi allan o'r cyfammod wedi ei attal: nid am fod Duw yn bwriadu eu llwyr fwrw ymaith; canys yr ydys yn wastad, yn achub y sawl sydd iddynt hawl yn yr etholedigaeth neillduol; a'r amser a ddaw pan byddo holl Israel yn gadwedig: canys o ran yr etholedigaeth y maent yn anwyl etto, er eu bod heb eu geni: er eu mwyn hwy y byrhawyd y dyddiau blinion hynny, Mat. xxiv, 22. yr hyn sydd atebol i Esa. lxxv, 8. "Naddifwyna ef, canys y mae bendith ynddo." Nid yw yr Arglwydd yn edrych cymmaint beth y wnaethant, neu a haeddasant; a pheth yw ei gyfammod o ran anghyfnawidoldeb ei fwriad; ac felly er eu torri ymaith yn bresennol; hwy a himpier i mewn drachefn. Er eu gyrru i'r holl dir-oedd; eu gwasgaru i gornelau; eu cymmysgu a'r cenhedloedd; a myned mor gyffelyb iddynt, na ellir yn hawdd eu tynnu oddiwrthynt; etto o herwydd mae ei etholedigion ydynt, a'u bod a fewn ei gyfammod, efe a'u dwg hwynt o'u tyllau, ac a'u casgl hwynt "bob yn un ac un:" efe a'i gwpa yn hollol, mor gwbl ac mor gyflawn, na bo un yn eisiau; er eu "gogryu yn mysg yr holl genhedloedd, ni syrth y gronyn lleiaf i'r llawr." Y gweddill a sonir am dano, Rhuf. xi, 4. oedd hollalluog waith Duw yn achub ei etholedigion,

pan yr oedd y lleill o'r genedl yn syrthio i eilunaddoliaeth: hwy a fuasent oll yn myued fel yr aeth rhai, oni buasai i etholedigaeth gras! Etholedigaeth oedd y peth, a'r gweddill oedd y gyffelybiaeth o hono. Ac mae nid peth neillduol, perthynol i'r oes honno yn unig oedd hwn, sydd amlwg yn Mat. xxiv. He mae ein Iachawdwr yn rhagddywedyd, y bydd cyfrwystra twyllwyr, a phrofedigaethau yr amseroedd, y fath, ac y bydd y ffrwd mor nerthol, ag y bydd, megis yn anmhosibl beidio a chael ein cario ymaith ganhi; eithr yr etholedigion a ddiogelir; Pa fodd? Trwy gyfryngdod yr achos arbennig cyntaf; trwy rinwedd yr hwn, y bydd i'r holl ail achosion hynny. gael naill ai rhag-flaenu, eu symmud, eu dofi, eu gwyrddroi, eu byrhau, neu eu goruwch-reoli, ac y bydd i ffydd y rhai a seliwyd, gael felly ei chadarnhan, fel na allent ei nhiweidio; ie, ac yn mhellach, y pethau sydd ddinystriol i eraill, a berant fywyd ynddynt hwy. Hyn a drodd felldith Balaam yn fendith i Israel, a chystuddiau Paul, i'wiechydwrriaeth: hwy a wnant iddynt hwy "godie eu pennau." Ac oni b'ai ei fod felly, ni allasai yr apostol ein cynghori i'w "gyfrif yn bob llawenydd pan syrthiom mewn amryw brofedigaethau," oni b'ai ei fod yn eu canol hwynt yn cadw traed ei saint; canys (medd Duw) fy mhobl ydynt hwy, meibion ni ddywedant gelwydd; megis pe dywedasai, mi a'u dewisais hwynt, ac a'u neillduais im' fy hun; ac am hynny ni chant ddiddymmu fy amean yn eu dewis hwynt: yr hyn a gynhwysir yn y gair *felty*, felly efe a aeth yn Iachawdwr iddynt; mi a'u hachubaf, o herwydd i mi eu gwneuthur yn bobl i mi.

Ac yn mhellach, fe dal i chwi ddal sylw fod yr arfaeth holl-awdurdodol hon yn teyrnasu yn wastadol; teyrnas yn llywodraethu pob peth, yr hon ni dinystirir byth yw. Salm lxxxix, 34. "Ni thorraf fy nghyfammod; ac ni newidiaf yr hyn a ddaeth allan o'm genau:—a'm cyfammod fydd sicr iddo," adn. 29. Yr ydys yn meddwl y cyfammod â Dafydd ac a'i dŷ; neu yn hytrach â Christ a'i had ysbrydol, o'r rhai yr oedd Dafydd yn gysgod. Ac fel y caffom gysur cryf, y mae yn rhyngu bodd i Dduw ei rwymo a llw; "Tyngais unwaith" (unwaith am y cwbl, ac unwaith dros byth; yr oedd mor gyflawn, mor berffaith, ac mor hollol ag nad oedd rhaid ei newid, ei wella, na'i ail wneuthur) "i'm sancteiddrwydd na ddywedwn gelwydd i Dafydd," adn. 35. Ac mor amhosibl oedd torri'r cyfammod hwn, sydd eglur yn Jeremi, yr hwn, wrth lefaru yn enw'r Arglwydd, sydd yn dywedyd; os "gallwch ddiddymu fy nghyfammod a'r dydd, a'm

cyfammod a'r nos, ac na byddo dydd a nos yn eu hamser, Yna y diddymir fy nghyfanmod a Dafydd fy ngwas:" ac yma nodwch ar y ffordd, bod dydd a nos yn dyfod yn eu cylch, ac yn wastadol yn eu hamser. Y mae Dafydd ei hun yn dywedyd am dano, mae "cyfammod tragywyddol yw, wedi ei luniaethu yn hollol, ac yn sicr;" beth bynnag a allai ddigwydd i'w rwystro, fe arferwyd y fath drefn wrth wneuthur y cyfammod, ac a osodwyd y fath bwer ynddo, ag a fyddai sicr i redeg dros, a churo i lawr y rhwystrau hynny, a gorfoleddu dros y cwbl, a chadw ei ffordd; (fel na all yr holl dymhestloedd a'r cythrybliadau a ddigwyddant yn y byd issaf hwn, mewn un modd rwystro cerddediad a thawelwch y nefoedd uchod.) Y mae eifgan hynny, mewn geiriau uchel, etto gostyngedig, yn datgan na ddymynai well sicrwydd am ei iechydwnaeth. Ac mae yn debygol adael Dafydd a Solomon eich dau i'r gwrthgilladau mawrion angherddol hynny, i ddangos sicrwydd y cyfammod hwn; yr hyn yn ddiaw a wnaethpwyd ganddynt hwy: canys hwy eich dau a dorrasant y cyfammod o'u tŷ hwynt; ac etto ni ddi-ddymwyd y cyfammod: nid rhaid diolch iddynt hwy, ond i'r gras holl-awdurdodol hynny, yr hwn a'i rhag-flaenasai, trwy wneuthur y cyfammod yn ddiatmod ac yn anghyfnawidol. Etto nid yw'r Arglwydd yn esgusodi eu hanwiredau; eithr "os ei feibion a adawant fy nghyfraith, ac a halogant fy neddfau; mi a ymwelaf a'u camwedd â gwialen, ac â'u hanwiredd â ffreyllau;" ond ni thorrâf fy nhrugaredd oddiwrtho; ac ni phallaf o'm gwirionedd. Diau, ar brydiau, y gallasid debyg fod y cyfammod hwnnw wedi ei ddiddymu; ac y maent yn mawr achwyn am hynny, (fel yr oedd achos iddynt) eithr y mae yn adfywio, ac yn adnewyddu drachefn; gorfoledd a ddaw yn y bore; fel y mae yn atilwg wrth ddiwedd y Salm honno, "Bendigedig a fyddo'r Arglwydd yn dragywydd, Amen, ac Amen." Y mae iddo fwy o roesaw oherwydd ei fod yn absennol dros dro; y mae yn ei gyfarfod â llawenydd dau ddyblyg, Amen, ac Amen! Mewn ychydig "sorrïant y cuddiodd ef ei wyneb oddiwrthynt, a hynny dros ennyd awr, ond â thrugaredd tragywyddol y trugarhaf wrthyt, medd yr Arglwydd, dy waredydd: y mynyddoedd a gilant, a'r brynïau a symmudant; eithr fy nhrugaredd ni chilia oddi wrthyt, a chyfammod fy heddi ni syfl, medd yr Arglwydd, sydd yn trugarhau wrthyt." Yn Jeremi yr ydys yn son am anhosiblwydd arall i ddangos tragywyddol sicrwydd y cyfammod hwn, "fel hyn dywed yr Arglwydd, os gellir mesur y nefoedd oddi uchod, a chwilio sylfaeni y

ddaeur hyd isod, minnau hefyd a wrthodaf holl had Israel, am yr hyn oll a wnaethant hwy, medd yr Arglwydd." Yr Arglwydd (gwelwch,) a wnaeth ei hun yn ddechreu a diwedd y chwedl mawr hwn; i ddangos bod dau ben y cyfammod yn ei law ef ei hun.

Wrth yr ysgrythyrau hyn, (a llawer yn ychwaneg) y mae yn eglur na bydd pall o dŷ. Duw; ac yn ganlynol na bydd dim pall; o herwydd efe a gymmerodd arno gyflawni y cyfan; nid i'n hesgusodi rhag ein dyledswydd, ond i'n tywysatti, a'n cymmorth trwyddi: y ffyddloniaid gan hynny a sicrhair yn ddiogel i ddiwedd eu ffydd, sef, iechydwrtaeth eu heneidiau.

Etto nid yw'r athrawiaeth hon yn cael bod yn ddiwrthddadl: ac yn ddiâu, gan fod yr ysgrythyrau mor gyflawn ac mor eglur drosti, iawn y gallwn dybyg, oni buasai i wrthwynebwyr cyntaf Parhad, gael eu hunain mewn cyfyngdra, ac yn rhaid iddynt ei gwrth-sefyll o ran rhyw egwyddorion yr oeddent o'r blaen wedi eu cofleidio, y rhai ni allent gyd-sefyll a'r athrawiaeth hon; ni buasent byth yn ymosod yn ei herbyn. Y mae camsyniadau (megis gwirioneddau yn hynny) yn canlyn y naill y llall: megis modrwyau mewn cadwyn, yn rhaid iddynt fyned yr un ffordd; ond yr ydwyf yn gobeithio, trwy gyfraith oddi uchod, y bydd i'r hyn oll a ddywedir yn erbyn yr athrawiaeth hon, (mewn rhyw fodd, neu ei gilydd) ei chadarau yn mhellach. Y mwyaf ag a gyfarfu â mi, yw'r rhai sydd yn canlyn; a phe buaswn yn cael dim gwrthddadleuon mwy pwysig, yr ydwyf yn gobeithio na pheidaswn a'u hystyried.

Gwrthddadl. 'Y mae'r athrawiaeth o anorchfygol barhad, yn yspeilio dynion o'r cymmorth mwyaf ag a roddodd Duw iddynt, i gadw dan law y rhan ddiadgenedfedig o'r enaid; sef, ofn ac arswyd tân tragywyddol.'

At. Da yw'r gyfraith, os arferir hi yn gyfreithlon; felly y mae ofn, yn ei amser a'i le; ond allan oddi yno y mae fel asgwrn wedi ei ddigymmalu. Y mae'r ddeddf yn gweithio trwy ofn, megis athro at Grist; yr achos cyntaf yn gyffredinol o'n dyfodiad i gredu, yw. Yr etifedd tra fo yn fachgen a all fod dan olygaeth ofn; ond pan cynnyddo ffydd, bwriwch ymaith y gaeth wraig a'i mhab; ni chaiff ofn gyd-etifeddu â ffydd: canys er ei fod yn was da, y mae yn feistr drwg; bod ofn yn rheoli ffydd, yw bod "gweision ar feirch, a thywysogion yn cerdded;" yr hyn sydd gyfeiliorni na ddychon y ddaear ei ddyoddef. Nid yw'r ffyddloniaid, yn enwedig y rhai a wyddont eu bod felly, "yn derbyn ysbryd caethiwed

drachefn i beri ofn:" hwy a gynhyrfir yn awr gan well egwyddor; megis y trinig anifail wedi ei ddofi a'i fforddoli yn iawn, yn well trwy deg, na thrwy hagar. Ffydd sy'n gweithio trwy gariad; nid ofn digofaint, ond teimlad o gariad Crist yn gwaredu rhag digofaint, sydd o hyn allan, yn attal y rhan ddiadgenedledig, ac yn tywys at weithrediadau o ufudd-dod uwch nag y gallai ofn ei wneuthur; er ar brydian y gall fod pob cynhyrfiadau yn rheidiol i'n cadw ar gerdded; ac y gall yr Arglwydd, er arfer ein grasusau a dybenion sanctaidd eraill, adael yr anwylaf o'i blant i hir ymdrech a'u hofnau; tan y rhai, er hynny y mae yn eu cynnal, ac o'r diwedd yn eu dwyn allan, fel aur wedi ei buro. Gwelwch achwyniad Ethan, a'r diwedd y mae yn ei wneuthur yn Salm lxxxix. Gwelwch hefyd y traethawd godidog hwnnw, o waith Dr. Goodwin, sef, *Plentyn y goleuni yn rhodio mewn tywyllwch, &c.*

Y mae dau fath o ofn; sef, ofn Duw, ac ofn y creadur. Yr ydys yn wastadol yn galw y ffyddloniaid oddiwrth *ofn creaduriaid*; a hynny o ran achos da, fel y cawn weled yn ol llaw. Peth o natur arall yw *ofn duwiol*; gras pwysig yw; nid oes un gras achubol, nad ys yn gosod yr ofn hwn am dano, neu yn ei gysylltu âg ef; yr hwn gyssylltiad sy'n dangos mor llesiol yw. Fe osodir weithiau yn lle *ffydd*, Gen. xxii, 12. Heb. xi, 17. Weithiau yn lle *cariad*, Salm cxxx, 4. Luc vii, 47. Weithiau am *barch*, Salm lxxxix, 7. Lef. xix, 3. Heb. xii, 28. Am *wiliadwriaeth*, 2 Cor. vii, 11. Am *ddarostyngiad*, Mal. 1, 6. Yr ydys hefyd yn cyssylltu *ofn a sancteiddrwydd*, 2 Cor. vii, 1. Ac *addfwynder*, 1 Pedr iii, 15. Ac a *gwybodaeth, doethineb, a deall da*, Diar. i, 7, 11, 12. Weithiau y mae yn arwyddocau y cyfan o addoliad crefyddol, Barn. vi, 10. Esa. viii, 13. Job i, 1, 8. Yr ofn hwn sydd yn tarddu oddiwrth olwg ar sancteiddrwydd a mawredd Duw, gyda'i doster cyfiawn yn erbyn pechod; gyda rhadlondeb ei ras, sicrwydd ei gyfammod, y cyflawnder sydd yn Nghrist, a'n hawl ynddo ef; a'r hyn ni all yr ofn slafaidd o uffern gyd-sefyll. Ar y cyfrif hyn y dywedir bod yr "Arglwydd ein Duw, yn enw ofnadwy," Deut. xxviii, 58. sef, mae efe yn unig sydd wrthddrych addas o'n ffydd, ein cariad, ein parch, a'n haddoliad crefyddol: ac yn yr ystyr hwn, gwyn ei fyd yr hwn sydd yn ofni yn wastadol. Ond am ofn uffern, ni ddylem feddwl ei fod y cyfnerth mwyaf yn erbyn pechod, na chynnorthwywr i barhau. Nid ydym yma yn ystyried, pa les y mae yn ei wneuthur i'r rhai diadgenhedledig, i attal eu trachwantau; eithr gan i Saul a

Suddas redeg bendramwnwgl i uffern, â'r ffrwyn hon yn eu genau, nid yw y ffrwyn hon yr un fwyaf effeithiol. Y mae amryw resymau i'w herbyn; 1. Y peth trwy yr hwn y mae Duw yn puro'r galon, a thrwy yr hyn y nerthir y ffyddloniaid i gyd-weithio âg ef, yw'r cyfnerth mwyaf priodol yn ddiâu yn erbyn pechod: ac hefyd rhaid bod yr hyn sydd yn gwanhau ac yn dinystrio y gwreiddyn, yn fwy effeithiol na'r hyn sydd yn unig mewn peth mesur yn rhwystro'r blagur: ond ffydd sy'n gwneuthur hyn oll; hi sydd yn gosod y fwyall wrth y gwreiddyn; "Trwy ffydd y mae Duw yn puro'r galon; a phob un y mae ganddo y gobaith hyn, sydd yn ei buro ei hun megis y mae yntef yn bur." Ni chyfrifir dim o'r fath rinwedd i ofn uffern; ond yr ydys yn eglur yn dangos, bod ysbryd ofn yn wrthwyneb i ysbryd nerth, a chariad, a phwyll: ni all yr hyn oedd yn amcan Crist yn ein gwaredu oddiwrth ein gelynion ein rhwystro'i barhau: eithr amcan Crist yn ein gwaredu oedd, bod i ni wasanaethu Duw yn ddiogel. 2. Ni ddychon yr hyn y mae yr ysgrythyr yn ei osod fel cymmorth i barhau, fod yn rhwystr i hynny; eithr y mae'r ysgrythyr yn gosod ffydd a hyder yn Nuw megis y cymmorth mwyaf i barhau. 3. Ni ellir dywedyd bod yr hyn sydd yn cynhyrfu y rhan ddiad-geuhedledig, yn ei hattal; ond y mae ofn digofaint yn gwneuthur hynny; "Pan ddaeth y gorchymyn yr adfywiodd pechod;" sef, efe a gymmerodd achlysur trwy attaliad y ddeddf, i godi yn fwy nerthol yn ei herbyn: ac felly y mae y ddeddf yn peri digofaint; megis y mae afon wedi ei hattal dros dro, yn rhedeg yn fwy chwyn: yr oedd Cain yn siampl o hyn; a Phaul hefyd cyn ei droedigaeth: wedi cwbl argyhoeddi o bechod, oni ddaw gras i'w ymddiffyn, fe gyfrgollir yr enaid. Nid yw y lle hwnnw yn Mat. x, 28 yn helpu dim o'r wrthddadl; canys y fath ofn ag sydd â ffydd a chariad ynddo, a ddyallir yno; "Na ofnwch y rhai a laddant y corph; eithr ofnwch yr hwn a ddychon ddistrywio enaid a chorph yn uffern." Y mae yn pwysu y ddau beth ag yr ydys yn eu hofni, i ddangos lleied achos sydd gennym i beidio â'n dyledswydd rhag ofn dynion, y rhai ni allant ond lladd y corph; a pha faint mwy i'w ofni ef, gan yr hwn y mae agoriadau marwolaeth ac uffern; sef yr hwn a ddychon fwrw i uffern; ac a allasai yn gyfiawn wneuthur hynny, ond etto a'n hachubodd: a chariad yw yr ofn hwn, fel y mae yn amlwg oddiwrth Mat. x, 37. lle wrth son am yr un peth, (sef, glynu wrth Grist, ac ymadael â'r cwbl er ei fwyn ef) y mae yn eglur yn ei alw yn gariad; "Yr hwn sydd yn caru

tad neu fam yn fwy nâ myfi, nid yw deilwng o honof fi :” ac er dim a aflwn ei ganfod i'r gwrthwyneb, fe allai mai ofn uffern a wnaeth i'r gwas diog guddio ei dalent; “ Mi a'th adwaenwn di, mai gwr caled ydwyt, ac mi a ofnais, ac a aethum ac a guddiais dy dalent yn y ddaear.” Peth i'w nodi hefyd yw, bod yr *afnog* a'r *digred* wedi eu gosod ynghyd o flaen yr orsedd fawr. Pa les bynnag a all y rhai diadgenhedledig ei gael oddiwrth *ofn uffern*, i ffrwyno eu trachwantau; nid yw yr athrawiaeth o Barhad, yr hon sydd yn perthyn yn unig i'r ffyddloniaid, yn eu disuddio o hono. Y mae'r wrthddadl y'mhellach i'w feio am,

1. O herwydd ei fod yn anmharch i ddoethineb Duw, megis pe buasai ef yn cymmeryd oddiwrth y ffyddloniaid ryw gymmorth rheidiol i'w dwyn y'mlaen, trwy roddi iddynt addewidion diammod; lle dylem yn hytrach wadu ein deall-dwriaeth ein hunain, ac ymwrthod â'r opiniynau hynny, i'r rhai y mae yn rhaid wrth y cyfryw gasgliadau annaturiol i'w hamddiffyn: canys bwrw nad yw yr addewidion yn ddiammod, yw bwrw eu bod yn ddirym; hwy a fyddent fel y “ ddeddf, yn wan trwy wendid y cnawd.” Fe w'yr Duw, fod y ffyddloniaid yn cael gwaith mawr, a'u bod yn dra teimladwy o'u hannigonoldeb eu hunain; ac nad oes dim yn gwanhau eu dwylaw yn fwy nâg amheuen ac ofnau; ac o'r achos hyn y gwnaeth ei addewidion yn ddi-os. Yn llyn yr arfogaethodd efe Josua i'r frwydr; “ Ni saif neb o'th flaen di holl ddyddiau dy einioes: ni'th adawaf, ac ni'th wrthodaf:” a thrwy hynny y mae yn ei annog “ i ymgryfhau ac i ymwroli.” Felly Samuel, pan yr oedd y bobl yn ffin iawn o herwydd digofaint Duw tuag attynt, i'w cefnogi yn eu dyledswydd, a'u cysuro yn erbyn eu hofnau, y mae yn dywedyd, “ Nac ofnweh, chwi a wnaethoch yr holl ddrygioni hyn, etto na chiliweh oddi ar ol yr Arglwydd.” A ph'eth yw y rheswm mawr trwy yr hwn y mae yn eu sefydlu? “ Canys ni wrthyd yr Arglwydd ei bobl.” Paul hefyd, wrth annog y ffyddloniaid i'r ddyledswydd fawr o ddarostwng pechod, fel na chai deyrnasu, rhâg i doster a grym yr ymrysonfa beri iddynt droi eu cefnau, sydd, fel cysur mawr, yn rhoddi iddynt “ sicrwydd o fuddugoliaeth;” ac yn dywedyd yn eglur, “ Nid arglwyddiaetha pechod amoch chwi.” O'r un feddwl oedd Pedr ac Ioan; y naill sydd yn cyfarwyddo i fod yn “ ddiwyd i wneuthur ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth yn sicr;” a hyn fel modd arbennig i'n cadw rhag *llithro*; y llall sydd yn dywedyd mai dyben ei holl lythyr yw, bod i'r ffyddloniaid “ wybod fod

iddynt fywyd tragywyddol," a hynny fel yr aent rhagddynt i gredu. Y cyfryw resymau a fuasent dra anmherthynol ac anghymmwys, oni buasai bod sicrwydd o ffyniant yn eu cefnogi i'w dyledswydd; mwy o lawer y buasent felly, pe buasent yn annogaeth i'r cnawd.

2. Gadewch i ni ystyried *ofn* yn ei effeithiau cyffredinol a naturiol; ac eglur y fydd, nad oes dim yn rhyngu bodd i Dduw yn llai, nac yn fwy anghymmwys i wneuthur i ni fyned ymlaen yn ei wasanaeth ef. Fel y mae egwyddor dyn, felly bydd ei ufudd-dod; ufudd-dod slafaidd, yw'r goreu ag a all ddyfod oddiwrth ofn slafaidd; yr hyn ni all fod yn gymmeradwy i ysbryd cyweithasgar: "Rhoddwr llawen y mae Duw yn ei garu;" nid hoff ganddo waith y Samariaid yn ei addoli "rhag ofn llewod." Y cyfryw wasanaeth a fydd hefyd yn wan ac yn ansefydlog; canys nid oes dim yn aflonyddu'r enaid yn fwy nac ofn; y mae yn gwanhau yr ysbryd, ac yn ei wneuthur yn ddirym: "Calon Nabal a fu farw o'i fewn rhag ofn; ac ofn a wnaeth geidwaid y bedd megis yn feirw;" ni all yr ufudd-dod a ddelo oddi wrtho, gan hynny, fod ond ufudd-dod marw, ni all yr effaith fod yn well nâ'r achos. Pharao a ollyngodd Israel ymaith rhag ofn y plâau; ond yn ol eu symmud y mae yn ddrwg ganddo, ac y mae yn beio arno ei hun o herwydd ei ufudd-dod: a'r rhagrithwyr hynny, er i ddychryn eu dal, a barhausant yn rhagrithwyr. Fe all yr ofn hyn hefyd fod, lle bo yr annuwioldeb mwyaf; y Samariaid hynny, y rhai oeddent yn llyn yn ofni'r Arglwydd, oeddent hefyd yn gwasanaethu eu delwau cerfedig.

3. Ofn sydd yn peri i rai arfer moddion anghysfreithlon: hyn a wnaeth i Isaac wadu ei wraig; i Ddasydd ddywedyd celwydd, a chymmeryd arno wallgofi; i Pedr, a gwyr sanctaidd eraill ragrithio. Y mae yn anfon dynion i'r Aipht am gymmorth, fel y gwnaeth i'r Iuddewon; ie i uffern, megis Saul. Am hynny y mae satan a dynion drwg, yn wastad, yn ceisio gwneuthur i bobl Dduw ofni; megis y mynnasant wneuthur i Nehemia, yr hyn a wnaethai i'w waith sefyll. Satan a safodd ar ddeheulaw Josua, i'w wrthwynebu; sef, i'w gyhuddo; ac felly i beri iddo ofni, o herwydd ei "ddillad budron," ac felly i'w ddigaloni yn ei waith.

4. Gadewch i ni gyffelybu ofn i'r hyn sydd wrthwynebu iddo, sef ffydd. Hon sydd yn symmud y mynyddoedd, pan byddo ofn yn eu sefydlu; nag é, ond yn peri i ni debyg eu bod lle ni byddont. Ofn a wnaeth i'r yspiwyr roddi gair drwg i'r wlad ddâ; a dychymyg ei fod yn amhosibl ei

hennill: ffydd a wnaeth Caleb a Josua yn ddewrion; “Gan fyned awn i fynu (meddant hwy) a pherchennogwn hi; canys gan orchfygu y gorchfygwn hi; ie bara i ni ydynt.” Y ddau hyn y rhai nid oeddent yn ofni, o herwydd yr addewid diammod, a ddygwyd i mewn; a’r rhai a aumheuasant a gauwyd oll allan. Pedr, tra’r oedd yn hyderus, a *rodiodd* ar y môr; ond pan ddechreuodd *ofni*, efe a *ddechreuodd suddo*. Ffydd a wnaeth y cedyrn hynny yn “gryfion mewn rhyfel;” a wnaeth i un o honynt “erlid mil;” pan gwnaeth *ofn* i fil ffoi wrth gelydd un, ie wrth “drwst deiler yn ysgwyd.” Ychydig o ufudd-dod yn tarddu oddiwrth ffydd a hyder yn Nuw, sydd fwy cymmeradwy gydag ef, na llawer yn dyfod oddiwrth ofn. Pe buasai Paul, rhag ofn uffern, yn “rhoddi ei gorph i’w losgi,” ni buasai “ddim lleshad iddo:” eithr ffydd a chariad sydd yn gwneuthur pethau bychain yn werthfawr gyda Duw; ie hatling y wraig weddw, a chwpaned o ddwfr oer. Ac fe a haeddai ei nodi, lle yr ydys yn cyfrif ffwrwthau yr Ysbryd; nad ydys gymnaiut ag enwi yr ofn hwn yn eu mysg. A diammeu yw, mai pa mwyaf teimladwy a bywiog y fyddo ein chariad at Dduw, llai yw ein hofn uffern; canys “perffaith gariad a fwrw allan ofn.”

5. Pe b’ai *ofn* y fath ffirwyn effeithiol i bechod, a’r cyfryw gymmorth i barhau, ni byddai y fath addewidion i waredu pobl Dduw oddiwrth eu *hofnad*; ac ni byddent mor ddiolchgar i Dduw am eu gwaredu; nac mor llawn-fwriadol yn ymosod i’w erbyn; ac ni byddai gynnifer o orchymynion iddynt i beidio ag ofni.

(1.) Am orchymynion yn erbyn ofn. “Nac ofna di, O fyngwas Jacob,—myfi a’th gadwaf di; nac ofna,—mi a’th gospaf di wrth fesur;” sef, yn addas, ac fel y mae rhaid, yn ol amcan fy nghyfammad, yr hyn yw dy achub. Ni fynnai’r Arglwydd i ni dybyg, ein bod mewn perygl o gael ein troi ymaith, pan bo yn ein ceryddu; yr hyn yw meddwl y lle hwnnw yn Esaia, “Dewisais di, ac ni’th wrthodais; nac ofna.” Felly, at yr Hebreaid, “Na fwriwch ymaith eich hyder:” ac, medd Crist wrth ei ddysgyblion, “Na thralloder eich calon, ac nac ofned:” (nid oes dim yn trallodi y galon fel ofn). “Ac nac ofna, braidd bychan; (paham?) canys rhyngodd bodd i’ch Tad roddi i chwi y deyrnas.” Aneirif yw’r gorchymynion a roddir i bobl Dduw yn erbyn ofn; Esa. xxxv, 4. a xliii, 5. a xliv, 2. Jer. xxx, 10. Joel ii, 21. Sef. iii, 16. Hag. ii, 5. Zec. viii, 13, 15. Mat. x, 28. Act. xxvii, 24. Dat. i, 17, &c. Am hynny nid yw rhyddid oddiwrth yr ofn hwn ddim rhwystr i barhau.

(2.) Addewidion o waredigaeth oddiwrth ofn. "Jacob a gaiff lonydd, ac ni bydd a'i dychryno; ac efe a gaiff lonyddwch oddiwrth ofn drwg." Nid i ofn ac arswyd y mae'r addewid, ond i ffydd a hyder; "Ymwrola, ac efe a nertha dy galon." Pe buasai Crist yn ewyllysio i'r ffyddloniaid fod yn wastad dan yr ofn hwn, ni buasai ef yn dywedyd wrthynt, "iddynt fyned trwyodd o farwolaeth i fywyd; y caent eistedd ar orseddfeingciau; bod eu hetifeddiaeth ynghadw yn y nefoedd iddynt," a hwythau yn cael eu cadw iddi; a hynny "trwy allu Duw." Ac amcan y cyfan yw, bod i ni, "gan fod gennym yr addewidion hyn, ymlanhau oddiwrth bob halogrwydd cnawd ac Ysbryd, gan berffeithio sancteiddrwydd yn ofn yr Arglwydd."

(3.) Siimplau o lawn-fwriad crist'nogol i beidio ag ofni. "Pe rhodiwn ar hyd glyn cysgod angeu, nid ofnaf niweid;" ac Esa. l, 7. "Am hynny, (sef, o herwydd i'r Arglwydd addaw ei gymmorth), gosodais fy wyneb fel callestr, a gwna'm cywilyddir." Salm lvi, 4. "Nid ofnaf beth a wnel cnawd i mi." A Salm xlix, 5. "Paham yr ofnaf yn amser adfyd, pan i'm hamgylchyno anwiredd fy sodlau;" y rhei'ny, os dim, a ddylasant ei ofni; eithr y mae eu ffydd yn llawn-fwriadu yn ei erbyn: yn ol Esa. xii, 2. "Gobeithiaf, ac nid ofnaf;" hynny yw, nid oedd efe yn ewyllysgar yn y mesur lleiaf i gymmysgu ofn â'i ffydd; ac yr oedd ganddo achos da, gan mai "llawenydd yr Arglwydd oedd ei nerth."

(4.) Siimplau o ddiolchgarwch am waredigaeth oddiwrth ofn. "Mawrhygwch yr Arglwydd gyda mi: a chyd-dderchafwn ei enw ef:" (ond beth yw'r achos o'r gorfoledd hwn?) "Ceisiais yr Arglwydd, ac efe a'm gwrandaedd: gwaredodd fi hefyd o'm holl ofn: am hynny yr aberthaf yn ei babell ef ebyrth gorfoledd:" a'r achos oedd, o herwydd "y cuddiai Duw ef yn nirgelfa ei babell;" hynny yw, efe a'i gwaredai ef o berygl ac a'i gosodai uwchlaw ei ofn: yr hyn ni allasai, yn gyfiawn, orfoleddu ynddo; na gweddio ar ei Dduw, i "roddi iddo drachefn orfoledd ei iechydwrriaeth;" pe buasai arswyd tân tragywyddol mor llesiol i beri myned y'mlaen mewn sancteiddrwydd. Fe ellid 'chwanegu ysgrythyrau; ond y profiad yn amlygu, nad oes dim well i dderchafu ysbryd dyn ac i'w gefnogi mewn gweithredoedd mawrion, na sierwydd o lwyddiant: eithr tra fyddo yn amheus ac yn petruso beth a ddaw o'i waith, yn enwedig, tra fyddo yn meddwl am ddychryniadau, a'r rhei'ny o'r aethlyttaf, y maent yn gwanhau ei ddwyllaw, ac ni wyr beth y mae yn ei wneuthur. Nid ofn methu a cholli'r cwbl yn y diwedd, sydd

yn gwneuthur i ddyn fod yn "sicr, a diymmod, a helaeth yn ngwaith yr Arglwydd yn wastadol;" eithr ffydd a gwybod-aeth sicr, "na bydd ei lafur ef yn ofer yn yr Arglwydd," 1 Cor. xv, 58.

Gwrthddadl. 'Oni all yr hwn a greddo un waith golli ei ffydd, pabam y dywedir, "A'r hwp sydd yn sefyll, edryched na syrthio?" ac, "Edrychwch arnoch eich hunain, fel na chollom y pethau a wnaethom?" onid yw yn bosibl golli, pa raid wrth y fath ocheliadau, a gwiliadwriaeth mor fawr?"

At. Fe ddarfu i'r hwn sydd yn gwneuthur yr wrthddadl hon, mewn lle arall ganiattau, bod yr addewid o wlad Canaan, mor sicr i had Abraham, na allai eu hannheilyngdod eu rhwystro i'w chael: ac etto yr ydym yn ffeindio, bod eu dyfodiad i mewn a'u gweithredol feddiant (yn ol hynny) wedi ei gyssylltu â chynnifer o ammodau a gocheliadau, ag sydd mewn un lle yn cydgerdded â'r addewid o iechydwrriaeth i'r ffyddloniaid, ond etto, er hynny yn sicr. Eithr i ateb yn fwy neillduol,

1. Y mae yn eglur y gall gwr cyfiawn syrthio; ac mor eglur, na all ef syrthio yn llwyr: canys er iddo "syrthio saith waith, fe gyfyd drachefn; a hyn, o herwydd bod yr Arglwydd yn ei gynnal ef â'i law; i.e. efe sydd yn cynnal y rhai oll a syrthiant;" sef, naill ag y mae ef yn ein hattal pan byddont yn syrthio, neu yn terfynu ac yn trefnu'r matter felly, fel nad ydynt yn syrthio i ddistryw, megis eraill; a diau y gesyd ef hwynt ar eu traed drachefn: nid yw geiriau o ocheliad, a adroddir mewn lle arall, yn diddymu addewid di-os, nac yn ei wneuthur yn ammheus. Ni ellir, gan hynny, ei ddyall am syrthio ymaith yn llwyr, yr hyn sydd yn groes i ystyr cyffredinol yr ysgrythyr.

2. Y mae achosion pwysig eraill, i beri i'r ffyddloniaid edrych na syrthiont, heb fwrw y gallant syrthio ymaith yn llwyr: (megis y mae y perygl o ddryllio ei esgyrn, yn ddigon i beri i ddyn ochelyd, pe bai yn gwybod na thorrai ei wddf) dianrhydedd ei Dad; cywilydd Crist; tristwch y Diddanydd; anghlod ffyrdd da Duw; tramgwyddo y gweiniaid; nerthu y drygionus; anghymhwysio ei hun i'w ddyledswydd; a cholli ei heddwch a'i gymmundeib â Duw, &c. pob un o'r rhai'n sydd bwysfawr iawn gydâg enaid a aned o Dduw.

3. Y mae'r Arglwydd yn gyffredinol yn dwyn i ben ei fwriadau trwy foddion; o'r rhai y mae gocheliadau yn rhan; a thrwy y rhai, fel moddion, y mae yn peri iddynt ochelyd rhagddo. Mae'r apostol yn 1 Ioan ii, 28. yn annog "i aros

yn Nghrist;" yr hwn yr oedd rhai proffeswyr wedi ei adael, adn. 19. Ac, megis i ragflaenu'r wrthddadl hon, y mae yn dywedyd, "yr arosent ynddo," adn. 27. ac felly yn eu cefnogi i'w dyledswydd.

Am y lle arall a wrthddadleuir (sef, "Edrychwch arnoch eich hunain, fel na chollom y pethau a wnaethom;") un peth yw colli y teimlad a'r cysur o'n gras, dros amser, fel y gwnaeth Dafydd, Heman, ac eraill; a pheth arall yw colli ein cyflwr grasol yn llwyr; yr hyn ni all credadyn ei wneuthur, fel y dangoswyd o'r blaen. Yr un fath yw y lle hwnnw yn 2 Pedr i, 5, 7, 8, 9. lle mae yn eu cynghori "i roddi cwbl ddiwydrwydd i 'chwanegu'r naill ras at y llall:" ac i'w cymmorth yn eu gwaith, y mae yn dywedyd, 1. Pa fudd y gaent trwy wneuthur hynny; "Ni byddent ddiffwrth yn ngwybodaeth Iesu Grist;" hynny yw, efe a amlyga iddynt mai gwir wybodaeth yw yr hon sydd ganddynt; yr hon ni ellir ei hadnabod oddiwrth un ffurfiol, ond wrth y fath ffwrth. Ac y bydd iddi hefyd trwy hyn gael ei 'chwanegu: arfer pethau yn dda, ac i'w dyben priodol, yw'r ffordd oreu i'w chwanegu; yn ol Ioan vii, 17. "Y neb a ewyllysio wneuthur ei ewyllys ef a gaiff wybod am ei ddysgeidiaeth." 2. Yna y maent yn gosod o'u blaen y golled y gaent, os esgeulusent; "Hwy a fyddent yn ddall heb weled y'mhell, wedi gollwng dros gof eu glanhau oddiwrth eu pechodau gynt;" yr hyn oedd eglur o'r blaen a fydd yn awr yn gymhylog, ac megis pe na b'ai; hwyllys a allant dybygu y deuant yn fyr o'r orphwysfa, yr hon sydd yn sicr iddynt; ac felly y gorfydd arnynt ddechreu eu gwaith o newydd: eithr, "tra fyddont yn gwneuthur y pethau hyn, ni lithrant hwy ddim byth;" hynny yw, ni chollant eu sefydlrwydd, na'r olwg eglur a'r sicrwydd y sydd yn awr ganddynt o'u cyflwr da; sef, o'u "bod yn gyfrannogion o'r duwiol anian, ac wedi eu glanhau oddiwrth eu pechodau gynt;" yr hyn a allasai eu hesgeulusdra ei osod allan o'u golwg, ac felly beri iddynt gollu y teimlad a'r cysur o'r pethau a wnaethant.

Gwrthddadl. 'Yr ydym yn darllen yn Ioan vi, 66. i lawer o ddysgyblion Crist ei adael ef: yn Nhimothei, am rai a wnaethent long-ddrylliad o'r ffydd: ac am Simon Magus, yr hwn a gredodd ac a gafwyd drachefn yn rhwymedigaeth auwiredd.'

At. Y mae ateb digonol i'r gwrthddadl wedi ei roddi yn barod yn 1 Ioan ii, 19. "Oddi wrthym ni yr aethant hwy allan, eithr nid oeddent o honom ni: canys pe buasant o honom ni, hwy a arosasent gyda ni." Ffydd *mewn hwi* a

ellir ei cholli *mewn gwirionedd*, felly y gwnaethpwyd i'r eiddynt hwy; a ffydd *mewn gwirionedd*, a ellir ei cholli *mewn lliw*. Ffydd *mewn lliw* a gollir, am nad yw ond *mewn lliw*; a ffydd *mewn gwirionedd* ni ellir ei cholli, am ei bod *mewn gwirionedd*. Y mae yr hyn sydd yn unig *mewn lliw*, yn cael ei alw ar enw yr hyn y mae'n ymddangos ei fod; megis yn Mat. xiii, 12. y dywedir, "Yr hyn sydd ganddo;" yn Luc viii, 18. y gelwir yr un peth, "Yr hyn y mae yn dybyg ei fod ganddo;" felly nid oedd y rhai a adawsant Crist ond dysgyblion *mewn lliw*; ni chredasent erioed *mewn gwirionedd*; fel y mae yn amlwg wrth Ioan vi, 64. "Yr Iesu a wyddai o'r dechreuad, pwy oedd y rhai nid oedd yn credu;" a hyn (*sef*, nad oedd eu ffydd ond *mewn lliw*) y mae yn ei roddi yn lle rheswm paham y gadawsant ef. Ac y mae yr ateb mor eglur *mewn perthynas* i Simon Magus: Lle gadewch in' ystyried,

1. Y gellir dywedyd bod dyn yn credu, pryd na bo etto yn gredadyn; megis y dywedir fod gwr cyfiawn yn pechu, ac etto nad yw bechadur, Ioan v, 18. Bod yn gredadyn, yw bod yn hollol yn y ffydd; credu yr hyn oll ag y sydd i'w gredu; a llwyr roddi y galon iddo: ni chredodd Simon ddim yn llyn; pe buasai wedi credu felly, ni buasai ef yn tybyg y gallasid brynu dawn yr Ysbryd Glân am arian.

2. Fe weddai nad oedd ei ffydd ef ond y fath gredyniaeth am Philip, ag oedd gan y Samariaid yn ddiweddar am Simon; *sef*, mae mawr allu Daw oedd, o herwydd, gan fod Philip yn rhy galed iddo, yn bwrw allan yr ysbrydoedd, y rhai, fe allai, a anfonasai efe iddynt; ni allai lai yn awr na rhoddi y blaen iddo ef; megis un ag awdurdod mwy nâg ef ei hun; am hynny y "glynodd wrth Philip, "ac y synnodd wrth y nerthoedd mawrion a wneid."

3. Fe allid tybyg nad oedd credyniaeth Simon, ond proffes oddi allan, wedi ei chymmeryd i fynu ar gau-ddybenion; i gadw ei awdurdod a'i Enw da y'mysg y bobl, y rhai yn awr oeddent yn dechreu ei adael ef, a chanlyn Philip; dysgybl yr hwn y eymmer ef arno fod, cyn y bo iddo yn gwbl gollu ei le. Heblaw hynny y broffes hon, a allai (yn ei feddwl ef) fod y ffordd i gael "dawn yr Ysbryd Glân," yr hon pe cawsai, efe a fuasai *mewn cystal cyflwr* o ran enw a budd ag yr oedd o'r blaen.

Os bydd i neb ddywedyd, nad ydynt yn darllen am y gwahaniaeth hyn o ffydd *mewn gwirionedd*, ac *mewn lliw*: yr ydwyf yn ateb, y mae'r 'sgrythyr yn fynych yn galw pethau a dynion, *sef* yr ydys yn gyffredinol yn barnu eu

bod neu fel y byddont yn cymmeryd arnynt fod; fe ddywedir, "I Ahaz, aberthu i dduwiau Damasucs, y rhai a'i tarawsant ef;" ac etto nid oeddent hwy yn dduwiau, ac ni tharawsant ef: ond yr ydys yn dywedyd yn ol ei feddwl ofergoelaidd am danynt. Felly y pedwar cant hynny, y rhai a brophwydasant o flaen Ahab, a elwir yn brophwydi; nid o herwydd eu bod felly mewn gwirionedd; ond oblegid eu bod yn galw eu hunain felly, a bod Ahab a'r bobl yn tybyg eu bod felly. Prophwyd yw'r hwn a gynhyrfir gan yr Ysbryd Glân, eithr ysbryd celwyddog oedd ynddynt hwy. Nid oedd Simon Magus, ddim mwy yn wir gredladyn, nâg oeddent hwythau yn wir brophwydi; na'i ffydd ef mwy gwirioneddol, nag oedd eu rhagddywediadau hwynt yn wir brophwydoliaethau. Ni welwn hefyd fod y 'sgrythyr yn gwneuthur cyflawniad o'r hyn a rag-ddywedwyd, yn arwydd o wir brophwyd: yn ol y rheol hon, parhad i iechydwrriaeth sydd yn dangos gwirionedd ffydd; a pha le bynnag nid yw hon yn canlyn, nid oedd ffydd ond mewn enw; "Y maent yn profesu yr adwaeniant Dduw; eithr ar weithredoedd, ei wadu y maent:" megis y dywedir am y Samariaid rhag-ddywedig, eu bod yn "ofni'r Arglwydd;" ac yn uniawn ar ol, "nad oeddent yn ofni'r Arglwydd:" yr oeddent yn ei ofni mewn lliw, ond nid mewn gwirionedd.

"Y mae sail Duw yn sefyll yn sier, a chanddo y sel hon, Yr Arglwydd a edwyn y rhai sydd eiddo ef." Y mae yn ei ddywedyd i gysuro eu ffydd ac i ddangos y caent sefyll yn ddiogel: er bod rhai o ymddangosiad tēg oddi allan, yn syrthio ymaith: hwy a sefant yn sier, o herwydd bod "Yr Arglwydd yn adnabod y rhai sydd eiddo ef; efe a wŷr pwy a ddewisodd; trôs bwy y derbyniodd iawn; pwy a alwodd, ac a nerthodd i gymmeryd gafael yn ei gyfanmod:" Ac fe gedwir y rhei'ny yn sier, er i eraill wrthgilio yn druenus.

Gwrthddadl. 'Fe a all y cyfiawn ddychwelyd oddiwrth ei gyfiawnder; a hynny cyn belled, ag y bo iddo farw, Eze. xviii, 24.

At. Y mae dau fath o gyfiawnder, 1. Un *moesawl*; y cyfryw ag oedd gan Paul cyn ei droedigaeth; fe all dyn bara yn hwn hyd y diwedd, ac etto bod yn golledig. 2. Un *efangylaidd*; 1. O *gyfrifiad*; hwn yw cyfiawnder Crist trwy yr hwn ein cyfiawnehir. 2. O *gyfraniad*; hwn yw y duwiol aniau a gyfrauir gan Ysbryd Crist, trwy yr hwn ein sancteiddier. Y ddau olaf hyn sydd yn myned y'nghyd, ac ni ellir byth eu colli. Ond y mae yn dybygol, mae am gyfiawnder o'r fath gyntaf, sef cyfiawnder *moesawl oddi*.

allan, yr ydys yn son yn y lle a wrthddadleuir; canys cydffyrfiad oddi allan â'r gyfraith, oedd yr ammod ar yr hwn yr oeddent yn meddiannu gwlad Canaan, gydâ hir einioes, a llwyddiant ynddi. Hyn (os cedwid) oedd yn rhoddi iddynt hawl gyfreithlon i'r addewidion hynny; Os troent oddi wrtho, yr oeddent yn ei fforffettu: ac yr oedd yn bosibl iddynt ei gollu, o herwydd nad oedd ganddynt un addewid y caent barhau ynddo. Ond y mae y cyfammod newydd yn gweuthur rhagddarbodrwydd dros hynny, fel yr ymddengys wrth gymmaru Jer. xxxi, 31, 33. a'r 32 ben. a'r 40 adn. o'r un llyfr. Eithr os bydd neb etto yn hwrw mae gwir gredadyn yw'r cyfiawn y sonier am dano yn Ezeç. xviii. y mae (fel yr wyf yn gobeithio) yn yr atebion o'r blaen ddigon i'w ateb.

Gwrthddadl. 'Nid i ffydd, fel na byddo i honno ballu, y mae yr addewid o barhad, ond i ffafor Duw; sef os dynion a barhant i gredu, y caent aros yn ei gariad ef.'

At. Dirymu yr addewid, a pheri iddo lefaru yn ol y cyfammod o weithredoedd yw ei ddehongli yn llyn: y mae yn ei yspeilio yn gwbl o'r rhagoriaeth hynny a roddir iddo yn Heb. viii, 6—10.; y mae hefyd yn gwneuthur yr addewid yn dwyllodrus; i gymmeryd arno yr hyn nid yw yn ei fwrriadu; y mae fel pe dywedasai, chwi gewch gadw cariad Duw oni chollwch chwi ef. Heblaw hynny, dyfodiad yr enaid at Dduw, yw ffydd; ac ymadawiad âg ef, yw anghredyniaeth; yr addewid hynny, ag sydd yn sicrhau nad ymadawoch a Duw, sydd yn sicrhau eich parhad yn y ffydd: yr hwn sydd yn gwarantu y cewch eich coronni, sydd yn ganlynol yn gwarantu hefyd y cewch barhau hyd ddiwedd eich gyrfa.

Gwrthddadl. 'Eraill hefyd wrth ddeongli yr addewidion, yn Ezeç. xxxvi. a Jer. xxxii. Na chaiff dynion gilio oddiwrth Dduw; sydd yn eu priodoli i genedl yr Iuddewon, ac i'r dyddiau olaf.'

At. Mewn perthynas i hyn yr ydwyf yn uoig yn dywedyd, er bod addewidion yr hen Destament (yn enwedig am bethau tymhorol) yn perthyn yn fwy digyfrwng i ryw amserau a phersonau neillduol, etto nid oes un addewid nad yw, yn ystyr ysbrydol o hono, yn perthyn i bob un ag sydd yn Nghrist, sef, i'r Iuddewon ysbrydol. "Nid oes un 'sgrhythyr o ddeongliad priod;" ac am hynny ni ddylit eu priodoli i'r amseroedd neillduol hynny, yn y rhai, nac i'r eneidiau hynny, i'r rhai y rhoddwyd hwynt; hwy a 'sgrifenyd er lles i bawb; ac yr ydym yn gweled bod yn eu harfer

felly yn y Testament newydd. Y mae yr apostol yn cymmwyso yr addewid a wnaethpwyd i Josua, am lwyddiant yn ei filwriaeth yn nglwad Canaan, at y ffyddlodiaid yn gyffredinol, fel rheswm yn erbyn gormod ofal mewn 'stad o briodas, ac i beri boddlonrwydd yn ein cyflwr presennol. Felly hefyd y mae ein Iaehawdwr yn cymmwyso at y Pharisaid; brophwydoliaeth Esay am ragrithwyr ei amser ef: felly yr addewidion a wnaethpwyd i'r Iuddewon yn Esa. lix, 13. A gymmwysir at y eenhedloedd yn Ioan vi, 45.

Gwrthdadaid. "Y mae yr athrawiaeth o sier barhad yn rhoddi ei gyflawn ryddid i'r hen ddyn ac i'r cnawd yn y ffyddloniaid."

At. 1. Yr un peth (ar y matter) yw'r wrthdadaid hon a'r un gyntaf uchod; ond ei bod yn dywedyd yn llydanach; yr hyn sydd yn dangos, mae pa bella yr elo dynion y'mlaen i wrthwynebu y gwirionedd, mwy o amharch y wnant iddo. Diammetu yw, i lawer ag sydd yn anghredu yr athrawiaeth hon roddi ei gyflawn ryddid i'w cnawd; ond ni ellir dangos i un gwir gredadyn wneuthur y defnydd annuwiol hwnnw o honi. 2. Ni haeddai yr Wrthdadaid gael dim groesaw, am ei bod yn rhoddi anghlod mawr i ddaioni, a ffyddlondeb Duw; megis pe buasai yn lle pysgodyn, yn rhoddi sarph i'w bobl; canys felly y mae, os ydyw ei addewidion diammod yn rhoddi rhyddid i'r cnawd. 3. Y mae hefyd yn gwbl groes i'r ffordd gydnabyddus barhaus, yn yr hon y mae gwyr sanctaidd yn atfer ymresymu oddiwrth addewidion diammod a'r sicrwydd mwyaf: gwelwch rai siamplau o hyn; "Pau ymddangoso Crist, ein bywyd ni; yna hefyd yr ymddangoswch chwithau gydâg ef, mewn gogoniant;" y defnydd o hyn yw, "marwhewch gan hynny eich aelodau, y rhai sydd ar y ddaear." A thrachefn, "ni a wyddom pau ymddangoso ef, y byddwn gyffelyb iddo;" pa ffrwyth sydd yn dyfod o'r wybodaeth hon? "Y mae pob un sydd ganddo y gobaith hyn ynddo ef, yn ei buro ei hun, megis y mae yntef yn bur." Y cyffelyb sydd yn y "Corinthiaid, ni a wyddom, os ein daearol dy o'r babel hon a ddattodir, fod i ni adeiliad gan Dduw, sef tŷ nid o waith llaw, tragywyddol yn y nefoedd;" yn awr gwelwch effaith y sicrwydd hwn; "am hynny yr ydym yn ymorchestu, pa un bynnag ai gartref y byddom, ai oddi gartref, ein bod yn gymmeradwy ganddo ef." Yn y bennod nesaf y mae yn datgan swm y cyfammod newydd, "Mi a fyddaf yn dad i chwi, a chwithau a fyddwch yn feibion ac yn ferched i mi; medd yr Arglwydd hollalluog;" gwelwch pa ddefnydd y mae yn ei

wneuthur o hono, (ac o'r un feddwl y mae'r holl ffyddloniaid); "Am hynny, gan fod gennym yr addewidion (diammod) hyn, ymlanhawn oddiwrth bob halogrwydd cnawd ac ysbryd, gan berffeithio saucteidrwydd yn ofn Duw." Yr oedd Job yn gwybod fod ei Brynwr yn fyw, ac y cai efe fyw gydâg ef etto: o ran saucteidrwydd ac uniondeb, nid oedd gwr fel Job yn yr holl ddaear. Yr oedd y gwr sanctaidd Asaph yn gwbl sicr o barhau yn anofchfygol; "A'th gyngor i'm harweini; ac wedi hynny i'm cymmeri i ogoniant:" ni ddarfu i hyn ei wneuthur yn fwy rhydd; eithr fe a barodd iddo lynu yn glosach wrth Dduw, ac ymwadu â'r cwbl ond efe a'i wasanaeth; "Pwy sydd gennyf fi yn y nefoedd ond tydi?—A neshau at Dduw sydd dda i mi." Yr un fath dymmer ysbryd yr ydym yn ei gael yn Nafydd, "Daioni a thrugaredd yn ddiau a'm canlynant holl ddyddiau fy mywyd;" y defnydd y mae efe yn ei wneuthur yw, "Preswyliaf yn nhŷ yr Arglwydd yn dragywydd." Ac nad oedd hyn yn tarddu oddiwrth ryw gynhyrifiadau disymmwth, neu nwydau tymhorol, ond oddiwrth egwyddor settledig, a amlygir yn mhellach oddiwrth ei ddull o ymresymau; "Yn y dydd blin i'm cuddia yn nigelfa ei labell;" (nid oes lle diogelach yn y ddaear na'r nefoedd); "Ac yn awr y dercha efe fy mhen goruwch fy ngelynyon o'm hamgylch." Ond beth sydd yn canlyn y sicrwydd mawr hwn? "Fy enaid, cymmer dy orphwysdra, bwyta, yf, a bydd lawen?" O! nag ê; "Ond am hynny yr aberthaf ebyrth gorfoledd; canaf, ie canmolaf yr Arglwydd!" Yr oedd ef yn awr ar ei uchel leoedd, allan o gyrraedd perygl; ond nid aeth ef yn esgeulus o blegid hynny, ni attaliodd weddi, ac ni pheidiodd a galw ar Dduw; ond y mae yn fwy gwresog yn myned ynghylch yr hyn a fydd yn waith mawr y nefoedd; efe fuasai fwy tebyg i fod yn esgeulus pe buasai heb y sicrwydd hwn, fel y mae ef ei hun yn cyfaddef, "Diffygiaswn, pe na chredaswn weled daioni yr Arglwydd yn nhir y rhai byw." Felly yr oedd sicrwydd Paul i dderbyn yr hyn yr oedd yn rhedeg amdano, yn ei nerthu yn fawr yn ei yrfa: pwy wedi ei groeshoelio i'r byd megis Paul? mor helaeth yn mhob math o wasanaeth, neu yn barottach i farw dros Grist, nâg ef? yr hwn er hynny oedd ganddo y sicrwydd mwyaf o ddal allan, ac o dderbyn coron cyfiawnder yn y diwedd; ac na allai ddim ei wahanu oddi wrtho. With hyn y gellwch ddysgu, bod y ffyddloniaid o natur fwy caruaid, nâg y byddo iddynt garu Duw yn llai, o ran ei fod ef yn eu caru hwy yn fwy; ac mai nid anair bach yw bwrw bod y rhai credadwy (yn

enwedig y neb sydd â sicrwydd ganddynt) yn fwyaf darostyngedig a thueddol i wrthgilio: yr hyn yn ddiâu sydd yn ganlyniaeth annaturiol oddiwrth eu bod wedi eu selio i ddydd y prynedigaeth. Y mae'r fath wrthddadleuon hefyd yn dangos, nad yw y sawl sydd yn eu gwneuthur ond anghydabyddus iawn yn ffyrdd da Duw; ac yn yr ysbrydol hygar felusdra, yr hwn sydd i'w gael ynddynt; yr hwn ni all y neb a'i profodd mewn gwirionedd droi oddi wrtho, pe b'ai eu happusrwydd tragywyddol heb sefyll ar hynny. Ac nid ydynt yn iawn yn dyall trefn ac anian y creadur newydd, yr hwn sydd ganddo synhwyrâu ysbrydol, wedi eu cymhwyso i ddirnad beth sydd, a pheth nid yw yn llesiol i'w gynhaliaeth. Pe b'ai gennych bumtheg mlyredd wedi eu 'chwanegu at eich bywyd, a sicrwydd o honynt, a gai hynny eich rhwystro i fwyta ac i arfer moddion eraill i gynnal bywyd? Yr oedd gan yr Iuddewon sicr addewid yr achubid Jerusalem o law brenin Assyria; yr hwn oedd yn gwersyllu o'u hamgylch: a ddarfu iddynt agor pyrth a thynnu ymaith eu ceidwaid? Synwyr a rheswm a ddysgai iddynt bethau amgen; y rhai y mae gras yn berffeithio ac nid yn difetha. Gwreichioner o dân nefol yw, yr hwn ni all fyw allan o'i elfen; ac ni all yr holl ddyfroedd dan y nefoedd ei ddiffodd. Cyfraniad o'r duwiol anian yw, ac felly y mae yn caru ac yn cashau fel y mae ei Thad yn gwneuthur; ac efe a lyna wrtho yn mhob cyflwr; "Os ceidw fi yn fyw, myfi a'i gwasanaethaf; pe lladdai efe fi, etto myfi a oheithiaf ynddo ef; yn fyw, ac yn farw, eiddo yr Arglwydd a fyddaf." Dyma dymmer y creadur newydd; y mae yn synied yn unig y pethau sydd o Dduw; pa fwyaf a archwaetho o hono trwy sicrwydd, uwch ydyw, a phellach oddiwrth bob difyrrwch cnawdol: ni allant ei reoli na rhyngu ei fodd. Gan hynny, bydded Duw yn eirwir; a'i brophwydi, a'i apostolion yn dystion ffyddlon; a phob un a lefaro yn groes iddynt yn gelwyddog.

A'r peth nesaf ar ein ffordd, yw ystyried pa ddefnydd a ellir ei wneuthur o'r athrawiaeth hon; yr hon a allai un dybyg ei bod yn dra buddiol, gan fod yr ysgrythyrau yn son cymmaint am dani. Yn gyffredinol, y mae hi yn fuddiol iawn i gynnal y ffyddloniaid, yn enwedig yn eu cyfyngderau mwwyaf: y mae hi hefyd yn dangos matter o ddyledswydd o ran y ffyddloniaid; ac oddiwrth y siamplau a roddwyd uchod, rhyw beth o gyfarwyddyd mewn perthynas i'r ddau; yr hyn a fydd i mi yma eu trin yn gymmysgedig.

Defnyddion.

I. Sefwch a gwelwch iechydwrjaeth yr Arglwydd! Ac ar yr olwg o'r peth mawr hwn, dywedwch yn eich calonau gyda syndod sanctaidd, Pa bethau cymmaint a wnaeth Duw! Llenwir a helaethir eich eneidiau â thragywyddol ryfeddod o'r gras, ie yr holl-awdurdodol ras hwnnw, yr hwn mor anorchfygol a wnaeth iechydwrjaeth ei etholedigion yn sicr; fel na all un peth, ynddynt, nac allan o honynt, ei diddymu na'i hattal: ie, "ni all pyrth uffern:" nagê, ni symmudir un o'i hoelion, na wneir i dragywyddoldeb. Fe a ellir eich siglo a'ch hysgwyd gan dymbestloedd; ond ni ellir eich bwrw i lawr, canys y mae gennyh wreiddyn bythol. Y cariad a etholodd sydd mor bwerus, a'i fod yn rheoli ac yn goruwch-reoli pob peth yn y nefoedd ac ar y ddaear: y mae Iesu Grist, ein Hiachawdwr a'n Harglwydd, a'r Ysbryd Glân, ein Sancteiddydd, ein Cynghorwr, a'n Diddanydd, yn yr hyn oll a wnaethont, y maent yn ei wneuthur, ac a wnant, yn wastadol yn cario y'mlaen y peth hwn. Pob ordinhadau, rhagluniaethau, profedigaethau, gorthrymderau, a pheth bynnag a ellir ei enwi ganddo, (pa un ai da ai drwg a fyddont ynddynt eu hunain) bywyd, angeu, pethau presennol, a phethau i ddyfod, a wnaethpwyd oll yn wasanaethgar i'r arfaeth o etholedigaeth; ac y maent oll yn cydweithio i ddwyu i ben y bwriad gogoneddus hwnnw. Pe b'ai ystod a gyrfa rhagluniaethau cyffredin wedi eu portreïadu i'r eithaf, fe fyddai yn olwg ardderchog: pa faint mwy y byddai y rhagluniaethau neillduol hynny, y rhai sydd yn fwy enwedigol yn perthyn ac yn wasanaethgar i etholedigaeth, felly! Pan byddo ei holl ranau wedi eu cyssylltu a'u gosod mewn trefn, pa mor hardd y bydd! Angylion a dynion a floeddiant o herwydd ei gogoniant! Yna y bydd yn amlwg, na wnaeth Duw ddim yn ofer, nac yn amherthyuol i'ch dedwyddwch: bod yr hyn oll a wnaethpwyd neu a ddigwydd i chwi yma (er mor groes mae i'ch teimlad a'ch meddwl presennol) wedi ei drefnu mewn ffyddlondeb i chwi; a phe buasai un o'r amryw, ac o'r croes ddigwyddiadau, yn y rhai y cawsoch eich ymarfer yma, heb ddigwydd; fe fuasai yn ddiffyg yn eich hanes, ac yn fwlch i'ch anrhydedd. Pan gweloch pa ddichellion a arferwyd i'ch erbyn; pa gelfyddyd, pa gyfrwysdra, pa falais a pha bwer oedd ganddynt; pa mor anabl yr oeddech o honoch eich hunain, i'w rhagweled, eu rhagflaenu, diangc rhagddynt, na'u gorchfygu; a pha fodd yr oedd holl briodoliaethau a rhagluniaethau Duw, bob un yn ei le a'i bryd, (yr hyn oedd yn wastad yn dra thymhorol)

yn dyfod i'ch gwaredu; yn dadymchwel eich gelynyon, ac yn eich amddiffyn chwi; ie, pa fodd yr oeddid yn gwneuthur i'r hyn oedd farwolaeth yrddo ei hun, fod yn fywyd i chwi; pa mor hawddgar a rhyfeddol y fydd y coffadwriaeth o hynny! A phan oedd eich ffydd yn wan, na ddarfu i'r Arglwydd gilio oddi wrthy; a phan yr oedd yn ei grym a'i huwchder, iddo wneuthur i chwi tu hwnt i'r hyn oll a allech ei gredu na'i feddwl; ac iddo gario y'mlaen ei waith ynoch, trwy aneirif o rwystrau a gwrthddywediadau; gan eich cario ar adenydd eryrod nes eich dwyn atto ei hun: pa fodd y mawrygwch ei waith, ac y rhyfeddwch ef y pryd hwnnw! O! dechreuwch yn awr.

II. Myfyriwn fwy ar wybodaeth a chlynhwysiad y gwirionedd mawr hwn, 'O anorchfygol barhad y ffyddloniaid;' ei ddechreu, ei fynediad y'mlaen, a'i ddiwedd, a'r daioni ag y mae yn ei wneuthur i ni; y rhai yn ddiâu ydynt amryw a phwysig iawn.

1. Megis y mae yn rhan o athrawiaeth Etholedigaeth; yr hon sydd yn dangos, mai nid dim ynom ni, ond gras a chariad Duw, oedd yr unig achos gwreiddiol o'r iechydwr-iaeth: y wybodaeth o'r hyn a bar yn yr enaid sanctaidd hynawsrwydd a chariad tuag at Dduw, yr hwn nid oes dim yn ei anfodloni ond pechod. Simon a attebodd yn uniawn, pan ddywedodd, "Mai yr hwn y maddeuwyd iddo fwyaf, a garai fwyaf," Luc vii, 43. Ac yn ganlynol, yr hwn sydd yn credu maddeuant ei holl bechodau o'r cyntaf i'r diweddaf, a gâr Duw yn fwy na'r hwn sydd yn credu yn unig faddeu ei bechodau a bassodd; a hynny yn y fath fodd ag y gallont oll gael eu cyfrif iddo drachefn: neu fod yn bosibl iddo etto gael ei ddifetha am y rhai sydd yn ol, ie, fe a allai yn y funud olaf o'i fywyd: canys nid yw ef yn sicr nagê; y mae yn anmheus iawn, (os ydyw yn sefyll ar ei ewyllys gnawdol ei hun) pa un a wna ffydd ac edifeirwch a bod yn weithred- iadau olaf iddo. Yn awr, gan fod y gras hwn o gariad yn egwyddor nerthol weithgar, rhaid i'r hwn a arweinier ganddi wneuthur yn ei hol; sef, gweithio yn nerthol ac heb ddiff- ygio, megis y gwnaeth Paul. Ac y mae Joseph, yr hwn a dderbyniaasai arwyddion helaeth o gariad Duw tuag atto, ac yn disgwylchwaneg, yn ymresymu yn erbyn, a chydâ ditnyg a bychandra sanctaidd yn gwrthod y brofedigaeth, "Pa fodd y gwnaf i hyn, a phechu yn erbyn Duw?" yr hwn a wnaeth, ac a wna mor haefionus â mi! Y mae duwiol-gariad o anfeidrol nerth.

2. Megis y mae yn dysgu i'r enaid ddisgwyl wrth Dduw.

am ei gadw, gan fod ei alluog nerth wedi sicr ymrwymo i wneuthur hynny. Ond pe b'ai effaith a chyflawndra yr hyn oll y mae Duw yn ei wneuthur im', yn sefyll ar ryw beth i'w wneuthur gennyf fi, yr hwn ydwyf creadur gwan, tueddol i wrthgilio; mi a fyddwn yn wastadol mewn ofn, o herwydd fy mod mewn perygl o syrthio, a cholli'r cwbl yn y diwedd; ac y mae yn rhaid i'r ofn hwn, gan fod yn naturiol iddo wan-hau'r enaid, beri i'm holl ymdrech a'm ymröadau fod yn anhrefnus ac yn ddinerth: eithr y mae ysbryd calonog, di- ofn, yr hwn sy'n canfod ei hun wedi ei amgylch â duwiol allu, yn meddiannu ei hunan yn well, i ganfod ei beryglon a'i oedlaydd; ac felly i ochelyd y naill, ac i ddefnyddio y llall.

3. Megis y mae yn sicrhau, "Na bydd ein llafar ni yn ofer." Hyn a wnaeth i'r Hebreaid credadwy "ddyoddef ymdrech mawr o helbulon, a chymmeryd eu hyspeilio am y pethau oedd ganddynt yn llawen;" sef, o herwydd "eu bod yn gwybod" bod ganddynt olud gwell yn y nefoedd, ac un parhaus. Pe b'ai bod rhyw gynhysgaeth wedi eu huno, a'u gwneuthur yn eiddo chwi, na allent byth eich gwneuthur mor hyderus a chalonog, ag y gall sicrwydd o lwyddiant, a bod yn orchfygwyr yn y diwedd: y mae'r apostol, gan hynny yn ei goffa megis yr annogaeth pennaf yn ein milwr-iaeth gristnogol. A'n Harglwydd bendigedig ei hun (yr hwn oedd ganddo y gwaith calettaf i fyned trwyddo) a "osododd ei wyneb fel callestr, am ei fod yn gwybod na chywilyddid ef."

III. Gwnewch ef yn rhan, a honno yn rhan fawr o'ch gwaith, i ddiddymu a distewi y gwrthddadleuon a ddygir yn erbyn yr athrawiaeth hon: a'r ffordd nesaf i wneuthur hynny yw "cynhyddu mewn gras." 1. Rhoddwch heibio bob pwys, yn enwedig y pechod sydd barod i'ch amgylchu; eich pechod mynwesol, beth bynnag yw; taflwch hwynt i'r wadd ac i'r ystlumyn; nid ydynt addas i ymddangos liw dydd. Am uchel gamp yr ydych yn rhedeg; na lwythwch eich hunain â'r hyn a allo eich rhwystro neu eich gwneuthur yn fwy gorfyddig. 2. Cedwch eich hunain yn nghariad Duw; bydded gennyh deimlad ysbrydol o'i gariad ef tuag attoch chiwi, a chyfattebiad bywiog o'uwydau sanctaidd tuag atto yntef. Beth bynnag a allo leihau neu dywyllu eich teimlad o hono, nac ymyrrwch â hwnnw; ymgedwch oddi wrth eilunod; na chaffed dim hawl yn eich cariad, onid Duw; a phob peth arall mewn perthynas iddo, ac o'i blegid ef yn unig. 3. Gwiliwch yn erbyn dechreuad a chynhyriad.

cyntaf pechod; torrweh ef yn yr eginyn; ymgedweh rhag pob rhith drygioni; ac na rodiweh hyd eithaf eich rhyddid. Hawsach cadw gelyn o feddiant, na'i ddifeddiannu; cadw gwrthryfelwr dan law, a'i rwystro i godi, na'i orchfygu yn of y codo. Nid oes ond dechreu bychau i gymhytau mawron dudew; lled cledr llaw a alk dderchafu a chuddio'r holl nefoedd; am hynny cadw bechod dan law. 4. Byddwch ddiwyd ac ymrôus yn y peth. Na thybygwch, o herwydd mai Duw sydd yn gwneuthur pob peth i chwi, y gallwch chwi fod yn llonydd, neu yn esgeulus yn eich dyledswydd; ni roddwch eich arfogaeth i chwi i rydu yn eich pebyll. Diau y gall Rhagluniaeth eich dwyn i'r fath le, ag y bo hi yn ddyledswydd i chwi, ac felly yn nerth i sefyll yn llonydd; (megis yr oedd iddynt hwy wrth y môr coeh): hyn fydd, pan na byddo gennych le i'w fyned ymhellaeth; ac yno yr Arglwydd a wna ei waith hebdoch chwi: ond yn gyffredinol y mae gennym ni ryw beth i'w wneuthur. Er bod yr Arglwydd yn myned allan o flaen Dafydd i daro'r Philistiaid, etto yr oedd yn rhaid i Dafydd ymroddi ei hun. Rhaid i ni yn wastad feddwl, "Fod i'r rhai a gredasant i Dduw ofalu ar flaenori mewn gweithredoedd da;" a'i wneuthur yn hytrach, "i dorri ymuith yr achlysur, oddiwrth y rhai sydd yn ewyllsio cael achlysur, fel yn yr hyn y maent yn ymfrostio y caif hwynt, megis ninnau hefyd." 5. Glynwch wrth Iesu Crist, ac wrtho ef yn unig; na ymddiriedwch i'ch gwaith chw' yn ymaflyd yaddo ef, ond i'w waith ef yn ymaflyd ynoch chwi. Felly gwnaeth Dafydd, lle mae yn dywedyd, "Ymaffarst yn fy llaw ddeheu." Dilynwch ef, fel y mae y sawl sydd yn byw ar y llys, yn ei ddilyn. Tra dilynnoch ef, ni allwch ffaelu; ac ni bydd arnoch eisiau dim, na chyingor, na nerth; na dim arall. 6. Anghofiwch y pethau sydd o'r tu cefn, ymestynwch at berffeithrwydd; os mewn un modd y gallwch gyrraedd adgyfodiad y meirw; sef i fod yn berffaith mewn sancteiddrwydd. Er na ellir yma yn berffaith gyrhaeddyd perffeithrwydd; etto pa uwchaf yr amcanoch, mwyaf y gewch; a phellaf y byddwch oddiwrth gollu yr hyn a gausoch. Cadwch eich golwg yn wastad ar y nod; a gochelwch yr hyn a allo eich rhwystro i'w ganfod. Dyna rai o'r ffyrdd i wneuthur eich galwedigaeth a'ch etholedigaeth yn sicr: ac os gwnewch y pethau hyn, chwi a ddangoswch mai gwir yw'r athrawiaeth hon: ac felly rhagflaenu neu ddadymchwel yr anait enawdôl diachos a roddir iddi.

IV. Gan fod y fath resymau am Barhad y ffyddloniaid, gadewch i ni oll ymddwyn ein hunam felly, fel y byddo

iddynt oll fod o'n ochr ni, i brofi a dangos ein bod o'r deddwydd weddill, y rhai a neillduodd y Duw mawr iddo ei hun; a'r rhai a wnaeth ac a weithiodd efe i'r dyben hwn: ac megis mai ei amcan ef oedd, felly bydded ein hyfrydwch a'n hymamfer i ogoneddu golud ei ras ef. 1. Os ganwyd ni o Dduw, dangoswn rinweddau ein Tad; ac ymddygwn fel ei blant tuag atto ef, a thuag at y byd. Byddwn byw arno ac iddo; gan orfoleddu yn wastad ger ei fron ef; o ran ei wynfydedigrwydd ef yn gyntaf, ac yno o ran yr eiddom ninnau, megis y mae yn tarddu oddiwrth yr eiddo ef, ac y'nghadw ganddo ef yn y nefoedd i ni; a'r cwbl i'w aurhydeddu ef fel ein Tad. 2. Amlyger ein ffydd wrth ein gweithredoedd. Rhaid i ryw beth neillduol ein gwahaniaethu oddiwrth eraill; nid proffes, na geiriau, na gweithredoedd ychwaith (o ran y defnydd o honynt, ac fel y maent yn weledig i ddynion) a ddengys ein bod yn ffyddloniaid; ond yr egwyddor oddiwrth yr hon y maent yn tarddu, a'r dyben at yr hwn y maent yn tueddu: diwedd ffydd Abraham oedd gogoneddu Duw, ac felly y mae yr eiddom ninnau, os ydym had Abraham. 3. Ymddygwn dan bob rhagluniaeth, nid yn unig yn foddlongar, ond hefyd yn ddiolchgar, ac yn gyfattedbol i ddyben Duw: rhodiwch yn ostyngedig; cashêwch ddrwg; bydded y byd dan eich traed; mawr brisiwch Crist; anrhydeddwch ei ordinhadau; caffed pob gras ei berffaith waith; ymlawenhewch mewn gobaith o'r gogoniant i'r hwn y mae y rhai'n oll yn parottoi. 4. Os ydym yn un â Christ, os efe yw ein Cyfryngwr, rhodiwn fel y rhodiodd yntef; yr hwn yn wastadol a ymddarostyngodd ei ewyllys ei hun i ewyllys ei Dad; gan ei gyfrif yn fwyd i wneuthur ei ewyllys ef a gorphen ei waith: disgwyliwn am ei gyngor a'i hyfforddiad yn mhob peth, a chanlywn ef; gorchymynwn ein hachosion iddo ef, a rhodwn yr hyn oll sydd eiddom yn ei law. 5. Edrychwch at bob priodoliaeth o eiddo Duw, yn ol eich hachos presennol; ac aroschwch arnynt, ac na adewch hwynt, nes caffael y gras a'r cymmorth ag yr ydych yn ei ymofyn oddi wrthynt. Y maent oll wedi eu rhoddi i etifeddiad iechydwrriaeth, i fyw arnynt: na ddyweded neb fod eisiau arnom y'nghanol ein cyflawnder. 6. Gan mai i ogoniant Duw eich gwnaethpwyd, atebwch eich dyben: y mae ef yn ogoneddus mewn sancteiddrwydd, a thrwy sancteiddrwydd y mae i chwi ei ogoneddu ef. Bydded yr Argraph frenhinol hynny, sef, "Sancteiddrwydd i'r Arglwydd," yn nhalceu eich holl amcanion a'ch ymarweddiad, trwy hynny y tystiolaethwch fod Duw yn eirwir; ac yr amlygwch eich

bod yn feibion na ddywed gelwydd. Efe a fydd yn dra llesiol a buddiol i chwi hefyd, mewn perthynas i'ch dyben arall: bod i chwi "ogoneddu Duw ar y ddaear," sydd yn rhoddi lle i chwi ddisgwyl y bydd iddo ef eich "gogoneddu chwi yn y nefoedd." Canys, er nad eich cyfiawnder personol, yw eich *hawl* i'r nefol etifeddiaeth; etto eich cynnydd parhaus mewn sancteiddrwydd, a fydd eich tystiolaeth oreu, (nesaf at dystiolaeth digyfrwng yr Ysbryd) o fod gennych *hawl* a'i bod yn *hawl* dda. Wrth hynny, gan ein gwneuthur a'n bod yn disgwyl y fath bethau, "Pa ryw fath ddynion a ddylem ni fod yn mhob sanctaidd ymarweddiad a duwioldeb?" 7. Os ydym dan y cyfammod o ras, cyfrifwn ein hunain wedi ein nerthu â phob nerth; cadwn atto, gan fod ein holl iechydwrriaeth ynddo; ein cadwrriaeth, ein cynhaliath, ein hadferiad, a'n sefydliad, gras a gogoniant: heb edrych cymmaint pa fodd y bo peth yn edrych neu yn teimlo yma, a phaddyben y mae yn tueddu atto: canys os ydyw y dyben yn dda ni all y moddion lai na bod felly. Ac yn ddiau ni allwn gael gwell amlygiad o'n *hawl* yn y cyfammod hwn, nâ llwyr fwrw ein hunain arno.

A da yw i ni (y rhai ydym yn cael cymmaint o dueddiad ynom i wrthgilio) nad yw ein cyflwr tragywyddol yn sefyll arnom ein hunain; ond ar sail Duw, am yr hon y sonier yn Timotheus; lle mae'r apostol, (wrth son am rai a wnaethant long ddrylliad am y ffydd: rhag i'r ffyddloniaid wangaloni, wrth weled ac ystyried hynny); yn dywedyd wrthynt, eithr (sef, er wylofus wrthgiliad rhai, fe a allai oedd broffeswyr hynod, etto) "Cadarn sail Duw sydd yn sefyll;" megis pe dywedasai y rhai sydd yn perthyn i'r sylfaen a gedwir yn sicr, yr hyn y mae yn ei sicrhau â'r sêl hon, "Yr Arglwydd a edwyn y rhai sydd eiddo ef:" efe a wŷr pwy a ddewisodd, ac am bwy y mae wedi cyfammodi, "Na chânt ymadael âg ef;" ac am hynny ni âd iddynt fyned ymaith; (hwy a gedwir fel y saith mil hynny heb blygu eu glin i Baal): gan 'chwanegu hefyd y gocheliad hwn, sef; "Bod i bob un ag sydd yn enwi enw Crist ymadael oddiwrth anghyfiawnder:" yr hyn, fel y mae yn fodd a appwyntiodd Duw i gadw rhag gwrthgiliad; felly y mae iddynt hwy yn dystiolaeth, eu bod yn perthyn i'r sail honno, ac y cedwir hwynt. Canys gan mae ei ddyben yw cysuro y ffyddloniaid yn erbyn yr amheuron ag oedd yn codi oddiwrth eu teimlad eu hunain, a'u parodrwydd i syrthio ymaith; rhaid ei fod yn arfer rheswm cyfattebol i'r cyfryw ddyben: ac am hynny lle mae yn dywedyd fod "sail Duw yn sefyll yn sicr;" rhaid ei fod yn

meddwl bod y ffyddloniaid yn sefyll yn sicr arni; o herwydd ni byddai, bod y sylfaen yn sefyll yn sicr, ond cysur bychan i ni, os gellir ein chwythu oddi arni, neu os gallwn syrthio heb ei llaw. A ydyw Duw yn gofalu am adar y tô? am ychen, am y cigfrain? mwy o lawer yr eneidiau ffyddlon a orchymynasant eu hunain i'w gadwriaeth ef. Gwnaed yr adarwr a fynno, ni syrth un aderyn i'r ddaear; chwi a ddywedwch, heb ewyllys Duw ni allant syrthio; ac ewyllys Duw na chaffont wneuthur hynny: " Fe all mil gwympo wrth ei ystlys, a deng mil wrth ei ddeheulaw: ond ni ddaw yn agos atto ef." Yr hwn a arfaethodd ni chai y fath aderyn syrthio, a arfaethodd hefyd ragflaenu yr hyn a allasai beri iddo wneuthur felly: ac am hynny, naill ag ni fydd i'r adarwr ganfod yr aderyn; neu fe a fydd i'r aderyn ddirnad ei ddyfodiad, neu aroglu'r powdr, a diange; neu, os saetha, ni chyffwrdd â'i nod; neu, os cyffwrdd, ni bydd ond â'r plyf y rhai a dyfant drachefn; neu, â rhyw ran o'r cnawd ag a ellid ei iachau; neu, fe allai yr agora ryw archoll yr hon ni allasid ei hiachau, oni buasai hynny: fe all sodl y credadyn gael ei sigo, ond ei brif ranau sydd allan o gyrraedd, am hynny yn ddiogel.

V. Bydded i'r athrawiaeth o anorchfygol barhad y ffyddloniaid, mewn ffydd a sancteiddrwydd, nerthu ein calonau yn erbyn pob math o amheumon ac ofnau, y rhai a allent godi oddiwrth bresenoldeb pechod yr hwn sydd yn cyfanneddu ynom, yn nghyd â'i fynych a'i wrthun ymgodiad i'n herbyn; o herwydd y bydd i'r hwn a ddechreuodd, orphen hefyd ei waith yn nerthol. Bernwch farn gyfiawn; nid allwn ni debyg yn rhy ddrwg am danom ein hunain; ond ni allwn wneuthur felly o ran ein cyflwr: gan hynny i'n helpu yn y peth hwnnw, Ystyriwn,

1. Er y bydd i'r natur newydd yn sicr orchfygu yr hen, yn y diwedd, etto ni orphenir y gwaith yn y bywyd hwn. Ond cymmerwch hyn er cysur i chwi yn bresennol; bod yr egwyddor oreu yn wastadol yn rheoli, ac yn cryfhau, ac na ddaw yr hen ddyn byth mwy i'w rym: canys lle byddo teyrnas Dduw unwaith yn y galon, y mae hi yn gweithio ac ymbelaethu ne's newid blas y cyfan; " I bob un y mrae ganddo y rhoddir: y neb a ga'dd fywyd, a'i caiff yn helaethach: Duw a'ch gwregysodd â nerth, fe a wna eich ffordd yn berffaith." Er bod ffydd a sancteiddrwydd yn bresennol, fel dwy ddiadell fechan o fyfnod; a phechod, fel llw yr Assyriaid, yn llanw'r wlad; nac ofnwch; brenin Israel a'i gyr ymaith: " Ei ysbryd ef a gyfyd fauer yn ei erbyn;" ac

er ei ddyfod i mewn fel afon, "Efe a attal ymchwydd ei donau ef." Y mae'r Arglwydd yn dywedyd wrthy ch yn y peth hwn, fel y dywedodd ef wrth Jeremi; "Rhoddas di yn ddinas gaerog ac yn golofn haiarn, ac yn fur pres, yn erbyn yr holl dir: ymladdant yn dy erbyn ond ni'th orchfygant:" neu, fel y dywedodd unwaith wrth ei bobl o blegid Og y cawr; "Nac ofna ef, o blegid yn dy law di y rhoddaf ef, a'i holl bobl."

2. Nid yw'r clefyd hwn i farwolaeth. Nid yw'r ymdrech i wanhau a difetha, ond i brofi a chynhyddu eich ffydd a'ch grasusau eraill; y profiad o'r hyn sydd *werthfawr*, ac a ffeindir felly o'r diwedd; i'w ogoniant ef, yr hwn sydd yn profi; ac i'ch gogoniant chwithau, y rhai a brofir. Abraham, Dafydd, Job, ac eraill, sydd siampl hynod o hyn; hwy a ddaethant allan fel aur wedi ei buro a'i goethi. Dafydd yn ddiau er iddo gadw ein hyder yn hir: etto o ran bod yn wastad yn parhau i'w erlid a'i wasgu arno; a bod peryglon newydd yn ei amgylchu beunydd; ac iddo unwaith gymmeryd rheswm cnawdoli'w gyngor; a ddechreuodd wanhau yn ei ffydd, "Difethir fi ryw ddydd, a phob dyn sydd gelwyddog:" eithr hyn a fu yn ei firwst; heb ystyried y sicrwydd o addewid diammeu; ac am hynny yn ol ystyried y peth yn well, y mae yn cyfaddef ei fai, ac yn dychwelyd; a'i ffydd a sicrhawyd trwy'r profiad hwn: canys pan ddychwelodd atto ei hun, y mae yn gysurus yn dywedyd, "Daioni a thrugaredd a'm canlynant, holl ddyddiau fy mywyd;" ac er ei fod yn awr yn herwr, "Efe a breswylia yn nhŷ yr Arglwydd yn dragywydd."

3. Cofiwch yn wastadol fod Duw yn barnu dyn yn ol ei *feddwl*; ac felly dylai chwithau farau eich hunain, yn llyn; yr oedd Paul yn gwneuthur yn Rhuf. vii. lle mae yn ymresymu fel hyn; "Os ydwyf fi yn gwneuthur y peth nid wyf yn ei ewyllysio; nid myfi sydd yn ei wneuthur ond y pechod sydd yn trigo ynof fi." Cyn troedigaeth, Saul oedd yn ei wneuthur, ond yn awr *pechod*. Fe all y ffyddloniaid (ar brydiau) gael eu caethiwo, ie yn ol dychwelyd at ei gwir Arglwydd; eithr etto *eiddo* ef ydynt yn eu mheddwl, a thynna eu nhod hwynt. Felly mae yn Ioan, "Rob un a aned o Dduw, nid yw yn gwneuthur pechod; ac ni all efe bechu, am ei eni o Dduw;" hynny yw, nid yw, ac ni all efe bechu fel y mae plant diafol yn gwneuthur; - canys y mae eu hewyllys hwy yn y peth, (yr hyn hefyd yw eu nhod hwynt) yn ol Ioan viii, 44. "Trachwantau eich Tad a fynwch chwi eu gwneuthur;" eithr y drwg y mae'r enaid adgenhedledig yn ei wneuthur nid yw foddlon ganddo. Ac ystyriaeth gysurus yw, "Os

ydyd â'r meddwl yn gwasanaethu cyfraith Duw," ni ddinystir mo honom, er "ein bod â'r enawd yn gwasanaethu cyfraith pechod:" ond pa fodd y câf wybod hynny? Os gwneuthur anfodd arnoch, chwi a waeddwch; ac os gwaeddwch trais yw, ni chyfrifir yn bechod i chwi, y mae gennych gyfraith am hynny yn Deut. xxii, 25, 26, 27. Felly ni chyfrifir yn lleiddiad, nac yn haeddu marwolaeth, yr hwn a laddo wr *yn erbyn ei ewyllys*; er bod y weithred ynddi ei hun yr un peth â'r hon a wneir gan un arall, yr hwn sydd rhaid iddo farw am dani, o herwydd ei bod yn ewyllysgar.

4. Prenau yr Arglwydd, wedi eu plannu ganddo ef yw y ffyddloniaid; am hynny ni "ofalant pan ddel sychder." Y maent yn ddiâu yn cael hydref (yn rhy fynych) a gwyntoedd chwerw; canghenau gormodaidd a gwylltion, yn tarddu oddiwrth yr hen foncyff; y rhai sydd yn yspeilio'r gwir geingciau o'u nhôf, ac yn gwneuthur eu firwyth yn llai mewn maint a thegwch: ond etto y mae eu sylwedd ynddynt, am hynny y maent yn adfywio ac yn blodeno drachefn. A phan byddid yn torri ymaith y brigau difirwyth gwylltion hynny, yr y's yn amddiffyn ac yn meithrin y gwir gaughenau; "hwy gânt firwytho yn eu henaint. Y rhai sydd yr awr hon (sef unwaith) yn feibion i Dduw," ni fyddant byth yn amgen, ond yn umg yn fwy cyffelyb i Dduw eu Tad. Ac er bod eu gwaith yn byw arno, a'u cyffelybiaeth iddo, yn ddiwrig iawn yn fynych (fel mae bywyd naturiol plant bychain) etto gan eu geni, rhaid eu hamddiffyn; ac ewyllys a gofal eu tad yw eu methrin hwy i fynu, nes delont i fod yn wyr perffaith.

Ond, fe allai, y dywedwch, na chafodd neb y fath achos i achwyn ag a gawsoch chwi; ac y mae yn bosibl ei fod felly: diau na wyddoch chwi beth y gawsant: ac fe allai, i'r rhai yr ydych chwi yn tybyg fod yn rhagori, ddywedyd yr un peth am danynt eu hunain; a bod ganddynt yr un achos; ein calonau a ffarfiwyd yn yr un môd; yn unig y mae pob dyn yn gwybod yn well oddiwrth bla ei galon ei hun: Agur, gwr o ddoethineb a sancteiddrwydd mawr; sydd yn dywedyd am dano ei hun, "fod yn ffolach na neb." Eithr bwriwch ei fod yn wir, na ymddangosodd llygredigaethau eraill, fel yr ymddangosodd yr eiddo chwi; etto ni ddylai hyn wanhau eich ffydd: llai o lawer i beri i chwi ddigio, neu fyned yn ol, neu lewygu yn eich meddwl: canys yr un gras ag a'u rhagffluenodd hwynt, a all faddeu i chwi; ac a wna hynny, os bwriwch eich hunain arno ef. Fe ellir yn ddiâu adael i chwi achwyn ar eich pechod, canys nid oes gennych ddim

arall i'w achwyn arno: am hynny achwynwch a llefwrch allan: c'uwch ag y mynuoch; " Ys truan o ddyd wyf fi, pwy a'n gwared oddiwrth gorph y farwolæth hon!" Ond hefyd ffowch at yr un noddfa ag y wnaeth yntef, ac aroschwch yno; " Yr wyf fi yn diolch i Ddew trwy Iesu Grist ein Haraglwydd," Rhuf. vii, 24, 25. Yma y gellwch orfoleddu ar y cwbl, eich achwynion, ar achos o honynt.

Rhaid cyfaddef, mai gwaith taled yw yn hyrred a'r pechod, fel y mae wedi ymuno, ymsefydlu ac ymgastellu, etto rhaid ei wneuthur a myned trwyddo, nid oes lle i gilio, nid oes dim arfogaeth ar eich cefnau; rhaid i bob mab Adda ladd, neu gael ei ladd yn y frwydr yma; nid pes dim cytundeb na gollyngdod yn y rhyfel hwn, nes cwbl ennill y maes; ond pa gymmorth sydd wedi ei gasglu ac yn wastadol yn sefyll yn barod fel amddiffynfa sicr! Er bod y frwydr yndost, mae'r fyddygoliaeth yn serfen: ac er mwng hyany (yn mysg rheolau milwriaethus eraill) teofwch yn ychydig gyfarwyddiadau canlynol: 1. Nag ymwystrwch ond ymgedwch oddiwrth, a gochelwch, beth bynnag a all fod yn faich i chwi, neu eich hanghymmwys o'ch dyledswydd. 2. Ymarferwch eich hunain i dda eich arfau ysbrydol, yn enwedig ffydd. 3. Byddwch wiliadwrns; rhag gosod arf nagh yn ddiarwybod neu mewn sbith o gariad. 4. Arfogwch eich hunain a'r un meddwl ag oedd yn Nghrist; gosodwch eich wyneb fel gallestr, a dywedwch a'i cywilyddian. 5. Byddwch foddlon i'r lle y gosododd eich Pen-tywysog i chwi? Pa anhawsaf byddo, mwyaf arhydeddus ym gan gôfio hefyd, pan appwyntwyd y brofedigaeth, ei fod wedi rhagordeinio dihangfa; a'i fod yn rhagddywedyd hyn wrthych fel y galloch eu dwyn, 1 Cor. x, 13. 6. Meddyliwch ymladd ag arfau perthynol; y rhai sydd i'w cael yn unig yn nghyfammod y gras, a chroes Crist; lle nid ydynt un amser yn ddiffygiol; ac edrychwch nad elwch at y Philistiaid i barottoi, na hogi eich arfau. 7. Na ymladdwch fel rhai yn curu yr awyr; ond fel rhai i ddelio a gelyn gwrthgas; yr hwn er hynny y riydych yn sicr o'i orchfygu. 8. Edrychwch yn wastadol ar eich Pen-tywysog, i weled beth y mae yn ei ddywedyd ac yn ei wneuthur, a gwnewch chwithau felly; cymmeryd i fynu'r groes a dyoddef galedi, sydd reidiol i filwr Crist. 9. Disgwyliwch wrth yr Araglwydd a adugwyddu eich nerth; yr hwn sydd yn ymgynohyrfu swyaf, pan bo eich nerth chwi leiaf; yno y mae yn ymaffyd yn y dariana'r astalch, ac yn codi i'ch cymmorth. Salm xxxv, 2, 3, 10. Ac yn olaf, (ac i wneuthur y cwbl yn

effeithiol) dadleuwch â'r Arglwydd ei gyfammod; ie pan y byddoch eich hunain yn meddwl am dano (fe allai gyda blinder) o herwydd eich bod yn ammeu eich hawl ynddo. Dymunwch arno ei gofio drosoch, gyda'r un ewyllys da ag y gwnaeth efe ef: dymunwch arno edrych ar y bwa yn y cwmwl, yr hwn a osododd efe yno, iel arwydd sicr rhyngoch chwi ag yntef; ac er bod yr wybr yn goch ac yn bruddaidd, y cymmlau yn dychwel yn ol y gwlaw, a'r tonnau yn myned dros eich penau. Ni chaent ddylifo drosoch; hwn sydd yn cau oddiamgylch i chwi, ac yn fwa hyd y nefoedd. Am hynny, na sefwch fel dynion mewn petrusder; fel rhai heb pa un oreu a chwympo yn nghylch y gwaith net beidio, neu yn ammeu pa fodd y galloch ei orphen; eithr ymlaen, ymlaen, y mae'r dydd yn eiddo chwi; y mae Arglwydd y lluoedd yn eu hymnid; "A bloeddied holl feibion Duw o lawenydd."

VI. Gan mai'r ffyddloniaid yn unig sydd â hawl yn y cyfammod, a bod ffydd yn offeryn angenrheidiol, heb yr hon ni wna y cyfammod ddim, ac ni allwn ninnau wneuthur dim ag ef; na gweled ein hawl ynddo; edrychwch yn dda at eich ffydd; yn gyntaf, ei bod o rywogaeth uniawn; y cyfryw ag y sydd yn ymwadu â hunan, ac yn byw ar ras; ac os felly y mae, byddwch sicr i'w chadw yn dda, a'i meithrin i'r eirhaf. 1. Dau ddefnydd, yn enwedigol, sydd i chwi i'wneuthur o honi; 1. Megis eich tarian i wasanaethu yn lle pob arfau eraill, pan byddont wedi torri neu yn amharodol; yn gystal ag i'w hamddiffyn pan byddont yn gyfan, ac o'ch amgylch. Os bydd eich helm yn eisiau, a phicellau taullyd yn cael eu tywallt am eich pen; deliwch i fynu eich ffydd rhwng eich pen a hwynt: ffydd sydd oreu i ddiffodd tân uffern. Os yw'r cleddyf wedi ei anghosio, ei osod heibio, neu yn bwl, &c. eich tarian, os arferit yn iawn, a ddymchwel arfau'r gelyn ar ei ben ei hun. 2. Ffydd yw eich 'spien-ddrych yr hwn sydd yn dangos i chwi bethau mawrion, y rhai ni allech eu canfod hebddi; ni ellir hebddi ddirnad cerbydau a marchlogion o dân. Os profedigaethau oddiwrth y byd sydd yn ymosod arnoch, trowch eich ffydd y ffordd honno, a thrwyddi hi gwelwch ac ystyriwch mor wag ac mor fyr yw ei bleserau; a pha mor ebrwydd y derfydd eich dyoddefadau. Yna edrychwch ar y byd a ddaw; y gogoniant sydd ynddo, a'ch hawl iddo; a pha faint mwy disglair y fydd eich coron, pa fwy a bo'r profiadau yr eloch trwyddynt yma; a dwys ystyriwch hynny. Nac edrychwch ddim cymmaint ar berygl a meithdra eich taith, ag ar y

porthladd dymunol y sydd etto'u ol; a chyfrifwch donnau'r dyfnder mawr ofnadwy, yr hwa sydd etto rhyngoch a phen eich siwrnai, fel cynnifer llyw eich dwyn y'malaen. Yn llyn y gwnaeth Moses, a Christ ei hun: nid oes dim yn dirymu tentasiynau satan a'r byd, megis y ffydd yma o eiddo etholedigion Duw. Am hynny meddylwch ddal gafael ar eich ffydd; cadwch hi megis eich bywyd; (os cedwch chwi hi, hithen a'ch ceidw chwithau); na ymadewch â hi nes marw. Yno yn ddian yr ymedy â chwi; canys yno hi a fydd wedi gorphen dim gwasanaeth ag a allo hi ei wneuthur i chwi; ie y cwbl ag a ordeiniwyd iddi ei wneuthur. Ond a gaiff ffydd ei ddiddymu y pryd hwnnw? Gwell gennyf ddywedyd, fel y mae'r apostol yn dywedyd am y ffyddloniaid a gair yn fyw ar ddyfodiad Crist, "Ni hunaut (neu ni fyddant feirw) eithr hwy a newidir." Ffydd y pryd hwnnw a droir yn *olwg*, ac ni a gawn wir breseunoldeb, cyflawn feddiant, a pherffaith fwynhad o'r gwynfydedigrwydd yr hwn yr ydym yn awr yn ei gredu ac yn ei obeithio. Yno y dywedwn wrth ein Prynwr gogoneddus, Tydi yw'r Duw a'm porthodd dros fy holl ddyddiau; dy gnawd, yw fy mwyd yn wir, a'th waed a fu ddiod yn wir: lawer pryd yr ymborthais arno yn nyffryn Baca; ie bu i mi wledd o basgedigion breision a gloyw win puredig, prynwyr eraill ac iachawd-wyr eraill a wnaethant yn rhagonol; ond tydi a aethost tu hwynt iddynt oll; hwy a osodasant y goreu yn gyntaf; ond tithen a gedwaist y gwin da hyd yr awr hon!

VII. Gwelwch yma, y rheswm sydd gan y sainti ddymuno cael ymddattod. Hwy a wyddent pan ymddattodai y babell hon, fod ganddynt adeiliad gwell a helaethach yn y nefoedd. Yr oeddent yn dyall nad oedd ysbrydoedd yn preswylie mewn cnawd, yn abl goddef y gogoniant er mwyn yr hwa y gwnaethpwyd hwynt, na rhoddi diolchgarwch cyfatebol iddo. Ac am hyn yr oeddent yn och'neidio; nid i o'i eu diosg, megis pe buasent yn blino â'u cyflwr preswylol; ond i gael eu harwisgo a'u tŷ sydd o'r nefoedd. Yr awr hon meibion i Dduw oeddent; ond beth a fyddent, ac a fawr ddymanent i fod, nid oeddent etto yn ei ganfod; ac ni allent, nes rhwygo y llen yr oedd rhyngddynt hwy a'r cyssegr sancteiddiolaf. Blaen ffrwyth yr ysbryd, yr hwn oedd ernes a phrosiad o'r gogoniant i ddyfod, a barodd iddynt fawr hiraethu am ryddid; ie y rhyddid yr hwa oedd yn perthyn iddynt hwy fel yr oeddent yn feibion Duw. Yr oeddent trwy ffydd wedi cymmeryd gafael ar fywyd trag-ywyddol; hwn oedd yn wastad yn eu golwg ac am hwn yr

oeddent yn mawr ymestyn; ac mor ymrous oeddent i'r peth a'u bod yn "anghofio yr hyn oedd yn ol," er yr haeddasai ei gofio yn ei amser: y llawer a gyrhaeddasant nid oeddent yn ei gyfrif yn ddim, mewn cyffelybiaeth i'r hyn oedd i ddyfod; ac ni phrisent ddim traul i ennill y fath dlws gwerthfawr, sef, "Camp uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu." Hwyl a wyddent fod y pethau hyn yn rhy fawr i synhwyrau marwol; er eu diwygio a'u derchafu hyd y gallid, tra fyddent yn farwol; ac am hynny, yr oeddent yn hiraethu am y dydd yr harwisgid hwynt ag anfarwoldeb. Yr oedd cariad Duw, yr hwn a dywalltwyd yn eu calonau hwynt, wedi gwneuthur eu heneidiau mor nefolaidd, mor gyfnewidiol, ac mor helaeth, nad oedd dim a allai eu boddioni ond y dyfnder mawr, o'r hwn y cymmerasid ef. "Hwyl a wyddent pan ymddangosai Crist eu bywyd hwynt, yr ymddangosent hwythau gydâg ef," ac y caent ei weled megis y mae; nid dan gysgodau, megis gynt; nac mewn cyflwr o ymddarostyngiad, megis pan oedd ar y ddaear; nac mewn cofadwriaethau ac ymddangosiadau, megis er hynny; ond yn ei gyflwr o ogoniant; yr olwg o'r hyn a'u cyfaewidiai i'w ddelw yn hollol; ac hyd hynny, ni allent ddywedyd digon yw. Hwyl a wyddent bod gryn dedwyddwch nefol yn sefyll yn yr olwg o Dduw; ac na byddai y nefoedd ei hun, nac aneirif lu yr angylion, ac eneidiau y rhai cyfiawn a berffeithwyd, (er eu bod yn gymdeithas dra gogoneddus a dymunol) yn abl boddioni eneidiau nefolaidd, oni b'ai fod eu Harglwydd ei han yno yn ei ogoniant: oddi yma mae, yr â'r dolefaïn hwnnw, "Pwy sydd gennyf fi yn y nefoedd ond tydi? a pha bryd y deuf ac yr ymddangosaf ger bron Duw?" Hen Jacob a âi i weled ei anwylyd Joseph cyn ei farw; a'r rhai'n a fyddent feirw fel y caffent weled eu Hanwylyd hwythau. Yn llyn y mae etifeddion iechydwrriaeth, megis yn treisio teyrnas nefoedd yr ail waith; hwyl a wyddant mai eiddont hwyl ydyw, a'u gwneuthur hwynt i hynny; a chan ei bod yn eiddo hwynt, y gallant yn gyfiawn ei chymmeryd trwy drais ar bob rhwystrau cnawdol.

VIII. I ddiweddu'r cyfan, chwi a welsoch fel y gwnaeth Paul ac eraill; ewch a gwnewch yn yr un modd; "brysiwch at ddydd Duw;" O! disgwylwch am dano, megis y rhai sydd yn disgwyl am y bore. 1. Yn *hiraethus*; megis peth dymunol iawn, yn enwedig ar ol noswaith dywyll a blinderus. 2. Yn *amyneddgar* ac yn *ddistaw*; nid yn rhy fyrbwyll, ond yn gwybod y daw yn yr amser goreu. 3. Yn *ddiwyd*; heb fod yn ewyllysgar i gollu y trwst lleiaf o draed.

254 TRAETHAWD DEFNYDDIOL, &c.

eich Harglwydd. 4. Yn *barod* hefyd; fel na byddo amoch eisiau nac olew na goleuni pan ddelo'r *waedd*. Byddwch barod yn wastadol, ac yno ocheneidiwch (meddaf) am y dydd gogoneddus, pan ddygir bywyd ac anfarwoldeb i oleuni mewn perffeithrwydd; pan byddo i chwi, a holl etholedigion Duw, ymgysarfod yn y *gymmanfa* fawr gyffredinol, "Cynnulleidfa y rhai cyntaf-anedig, y rhai a sgrifenwyd yn y nefoedd;" yn hollol, yn gwbl, ac yn dragwyddol ryfeddu y cariad a'ch etholodd, yr hwn mor ddedwydd ac mor ogoneddus a orphenodd ein holl waith drosom; ac a'n dygodd i'r dyben eithaf a appwyntiodd efe i ni; sef, i fod gyda'r Arglwydd yn wastadol; i'w weled ef fel y mae; ac i brofi yr hyn a gynhwysir yn y dymuniad mawr hwnnw, Ioan xvii. "Fel y byddont hwythau un ynom ni." A thra fyddoch ar eich taith, bydded y sicrwydd hwn yn wastadol gennych; y bydd i'r un llaw ag a osododd y sylfaen, hefyd orphen y gwaith, a hynny gyda gorfoledd; ac y cewch i dragwyddoldeb dderchafu yr uchel lais gorfoleddus hwnnw, "Rhad, rhad iddo ef. Gwynfydedig wyt ti, O Israel, pwy sydd megis ti! O bobl gadwedig gan yr Arglwydd! tarian dy gynnorthwy, yr hwn hefyd yw cleddyf dy ardderchawgrwydd: a'th elynion a geir yn gelwyddog, a'th a sethri ar eu huchel leoedd hwynt!" A, yr hyn sydd fwy nâg a allo dynion nac angylion ei ddywedyd, "Duw ei hun a fydd oll yn oll!" Cyhoeddi yr hyn oedd dyben y gwaith hwn. *Amen.*

HYMNAU,

PERTHYNOL I'R PEDWAR PWNGC.

Am Etholedigaeth.

- 1 **Y**R Arglwydd a'm cadwodd i'n rhyfedd erio'd,
Fe'm cywir adnabu y'mhell cyn fy mod;
Arfaethodd yn gynnar fy nghadw'n ddigel,
Pan gwnaeth ei gyfammod yn sicr dan sel.
- 2 **A** chariad trag'wyddol fe'm carodd i do,
Clod iddo trwy'r nefbedd, fe'm cadwodd mewn co';
'Sgrifennodd fy enw, 'mhlith yno ryw bryd,
Y rhai a etholodd cyn seiliad y byd.
- 3 **Er** i mi drosedd glân gyfraith fy Nuw,
Do ganwaith ei demtio, a'i sŵno gwir yw;
Ni altrir, ni thorrir y weithred a wna'd,
Gynt yn nhrag'wyddoldeb, fe ddywedodd fy Nhad.
- 4 **Wel**, dyma fel carodd fi'n rhodd ac yn rhad,
Pwy drysor tan nefoedd mwy gwerthfawr a ga'd;
Oen anwyl ei fynwes a gefais heb gel,
Mae yntho'n guddiedig fy mywyd dan sel.

Am Brynedigaeth.

- 1 **O** IESU fy Ngwardwr llawn,
Fy iawn a'm Brynedigaeth;
Trwy'th angau di, fy ngward ca',
O uffern a marwolaeth.
- 2 **Fe'm** dwg i maes o'm gwae a'm gwyn,
Fy llafur blin a'm lludded;
I'r tawel fan, i'w cwmp'ni hwy,
S' heb newyn mwy na syched.
- 3 **Ar** ochr f' enaid tlawd fe fydd,
Ar forau dydd marwolaeth;
Yn wyneb angau caf wneud ple,
Gan waeddi, lechydwrriaeth.
- 4 **O** fewn i'r wlad tu draw i'r bedd,
Caf weled gwedd ei wyneb;
Ac yn ei fynwes llechu ca'
Hyd eitha trag'wyddoldeb.

Am Alwedigaeth.

- 1 WRTH foddwl am dy ryfedd waith,
A dyfnder maith dy gariad;
I eigion môr a'm henaid gwan,
Nes ffaelwi'n lân a dringad.
- 2 Pan elwi chwilio'th gariad hael,
Mae f' enaid gwael yn boddi;
Ond plygu bellach, Arglwydd, wnai,
Yn wastad a'i ryfeddu.
- 3 Pa'm ceraist fi, d'wed, un o fil,
O ganol hil llygredig?
Wrth natur f'aeth fy ngwell heb lai,
I blith y rhai damnedig.
- 4 O safn drist gehenna gaeth,
Fy ngwared wnaeth yr Arglwydd;
Fy enaid bach am hyn bob tro,
Gaiff lammu o lawenydd.

Am Barhad.

- 1 Mr ges ryddhad i'm henaid swrth,
Unwaith oddiwrth yr Arglwydd,
Yr amser o'wn i'n llesg a gwan,
Yn griddfan dan euogrwydd.
- 2 A gaf fi etto fyn'd yn ol,
Fu yn ei gol a'i gorlan?
Na chaf, fe'm ceidw â llaw gref,
Fe dd'wedodd ef ei hunan.
- 3 A gollai'r Ffrynd a wn i fod,
I mi erioed anwyla?
Yn well mi cenais ganwaith, do,
Na phleser o'r melusa.
- 4 Pwy sydd yn awr yn uffern drist
Gwerth gwaed y Crist anwyla?
Pwy etholedig, d'wedwch hyn,
S' o fewn i lyn gehenna?
- 5 Credais, mi greda tra fo chwyth,
Na chaf fi byth wrthgilio,
Am fod fy Mhrynwr gwridog gwyn,
Yn wastad yn fy ngwilio.

DIWEDD.

1

2


3

4

5

6

7



W 8-10-60

